

Economi Gwleidyddol Cenedlaetholdeb:  
Cenhedloedd Di-wladwriaeth a'r System-  
Fyd yn y Longue Durée

gan

Samuel Innes Parry

Traethawd ymchwil a gyflwynwyd ar gyfer Gradd  
Doethur mewn Athroniaeth

Ysgol Busnes Caerdydd

Mawrth 2024

## Crynodeb

Mae gan yr ymchwil hwn ddau amcan. Yn gyntaf, i ddadansoddi'r ffactorau hirdymor y tu ôl i wahaniaethau mewn datblygiad economaidd ac anghydraddoldeb gofodol. Yn ail, i ddarganfod a yw'r anghydraddoldeb gofodol hwn yn effeithio ar amlygrwydd ymwahaniad. I wneud hynny, bydd ffactorau megis hanes, daearyddiaeth, gwleidyddiaeth a sefydliadau yn cael eu dadansoddi.

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn awgrymu er mwyn deall economi, mae'n rhaid i ni yn gyntaf ei leoli o fewn system-fyd. Gyda'r dull cyfannol y mae'r dadansoddiad hwn yn ei greu, mae'r gwrthddywediadau mewnol a'r brwydrau economaidd-gymdeithasol y tu mewn i le penodol yn cael eu goleuo'n llawnach, gan fod y rhain eu hunain yn cael eu siapiro gan y system-fyd.

Mae'r gwaith hwn yn ymgorffori ymagwedd Longue Durée at hanes, a boblogeiddiwyd gan yr Ysgol Annales a Fernand Braudel. Mae'r math hwn o ddadansoddi yn golygu symud i ffwrdd o weld cenedlaetholdeb fel rhywbeth sy'n barhaol. Mae agwedd Longue Durée at hanes yn ein helpu i ddarganfod pryd, sut, a pham mae cenedloedd yn datblygu a thrwy ddeall eu tarddiad, byddwn yn fwy tebygol o ddeall y symudiadau hyn heddiw.

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn edrych yn benodol ar rôl cenedloedd Ewropeaidd di-wladwriaeth o fewn y system-fyd i ddarganfod ai'r ffaith eu bod heb wladwriaeth yn bennaf sy'n cyfrif am eu sefyllfa economaidd, neu ai ffactorau eraill megis daearyddiaeth neu hanes. Oherwydd natur y lleoedd hyn fel cenedloedd di-wladwriaeth, mae ymwahaniad o leiaf yn opsiwn dichonadwy yn ddamcaniaethol ar gyfer y lleoedd hyn. Bydd y gwaith hwn felly yn mynd i'r afael â'r modd y mae gwleidyddiaeth genedlaetholgar yn rhyngweithio â strwythur economaidd, yn ogystal ag ymateb cenedlaetholdeb mwyafrifol i genedlaetholdeb lleiafrifol o fewn y system-fyd.

Mae'r prif astudiaethau achos a ddewiswyd ar gyfer y dadansoddiad hwn fel a ganlyn: Cymru o fewn y Deyrnas Unedig, Catalunya o fewn Sbaen, a'r Mezzogiorno a Padania yn yr Eidal. Gellir disgrifio pob un o'r astudiaethau achos hyn fel rhai sy'n ddaeryddol agos at graidd y system-fyd ryngwladol, ac eto mae gan bob un set benodol o strwythurau a chanlyniadau economaidd. Y cwestiwn, felly, yw beth sy'n eu gwahanu, a beth sy'n eu clymu.

Mae'r traethawd hwn yn canfod bod ffurf yr ymgorfforiad i'r wladwriaeth ganolog yn esboniad cryfach ar gyfer gwahaniaethau mewn lefel y datblygiad economaidd nag yw dyddiad yr ymgorfforiad. Ymhellach, mae daearyddiaeth a'i rhyngweithio â'r sylfaen economaidd yn hanfodol i ddeall datblygiad economaidd hirdymor pob astudiaeth achos. O bwysigrwydd arbennig, mae'n ymddangos bod rhyw fath o annibyniaeth economaidd (ffurfiol neu anffurfiol) yn caniatáu polisiau datblygiadol sy'n gwella sefyllfa cenedloedd heb wladwriaeth yn gadarnhaol. Mae hyn yn ymddangos yn ffactor angenrheidiol ond nid yn ddigonol wrth esbonio gwahaniaethau mewn datblygiad economaidd. Yn olaf, mae'n ymddangos nad yw amlygrwydd cenedlaetholdeb wedi'i gysylltu â'r anghysondeb mewn datblygiad economaidd ynddo'i hun, ond yn hytrach â'r anghysondeb mewn datblygiad economaidd yn ystod cyfnodau o argyfwng gwladol. Mae amodau ar lefel y system-fyd yn effeithio ar amlygrwydd a chyfansoddiad mewnol cenedlaetholdeb o fewn y wladwriaeth.

## Tabl Cynnwys

CRYNODEB .....	II
TABL CYNNWYS .....	IV
TABL O FFIGURAU .....	VI
DIOLCHIADAU.....	VIII
<b>I. CYFLWYNIAD .....</b>	<b>1</b>
<b>II. DAMCANIAETH DIBYNIAETH .....</b>	<b>18</b>
Y CRAIDD A'R PERIFFERI MEWN DAMCANIAETH DIBYNIAETH .....	19
'DATBLYGIAD' MEWN MODD TANDDATBLYGEDIG .....	22
DATBLYGIAD AFLUNIAIDD.....	23
BEIRNIADAETH .....	28
<b>III. DADANSODDIAD SYSTEMAU'R BYD .....</b>	<b>28</b>
MATHAU O SYSTEMAU-BYD .....	32
DAEARYDDIAETH A'R SYSTEM-FYD.....	35
Y PERIFFERI YN Y SYSTEM-FYD .....	41
Y LLED-BERIFFERI YN Y SYSTEM-FYD .....	46
Y SYSTEM-FYD CYFALAFOL .....	47
BEIRNIADAETH .....	48
CYMHWYSO DAMCANIAETH DIBYNIAETH A SYSTEMAU BYD YN EWROP.....	51
CREIDDIAU A PERIFFERIAU DAEARYDDOL. ....	53
<b>IV. EWROP: DATBLYGIAD GWLADWRIAETHOL AC INTEGREIDDIO .....</b>	<b>63</b>
CYSYNIAD GRAMSCI O CHWYLDRO GODDEFOL.....	63
INTEGREIDDIO EWROPEAIDD FEL CHWYLDRO GODDEFOL .....	66
CYFANSODDIAD SEFYDLIADOL YR UNDEB EWROPEAIDD .....	71
ARDAL YR EWRO AC UNDEB ARIANNOL .....	73
Y DILECHDID GYMDEITHASOL-OFODOL .....	76
DADINTEGREIDDIO GWLADWRIAETHOL YN EWROP .....	77
DATBLYGIAD CYFALAFIAETH A CHENEDLAETHOLDEB.....	80
Y CRAIDD A'R PERIFFERI MEWN DATBLYGIAD CENEDLAETHOL .....	84
<b>V. ASTUDIAETH ACHOS 1: SBAEN .....</b>	<b>90</b>
ADEILADU CENEDL YN SBAEN .....	92
ADEILADU'R WLADWRIAETH YN SBAEN .....	95
YR 'AILENI' CATALANAIDD .....	99
CATALUNYA, SBAEN, A'R YMERODRAETH.....	101
CATALUNYA, SBAEN A FFASGAETH.....	104
DYCHWELYD I DDEMOCRATIAETH RYDDFRYDOL: CATALUNYA YN Y SYSTEM-FYD .....	108
SBAEN YN Y LLED-BERIFFERI .....	116
CATALUNYA FEL RHAN O'R CRAIDD?.....	125
<b>VI. ASTUDIAETH ACHOS 2: YR EIDAL .....</b>	<b>131</b>
SYSTEM DINAS-WLADWRIAETH YR EIDAL.....	133
Y GYFUNDREFN DINAS-WLADWRIAETHOL O'R 15FED GANRIF.....	137
SAFLE NEWIDIOL YR EIDAL O FEWN Y SYSTEM-FYD .....	143
Y RISORGIMENTO EIDALAIDD.....	150
Y RISORGIMENTO A GWREIDDIAU 'CWESTIWN Y DE' .....	152
YR EIDAL FFASGAIDD .....	160

YR EIDAL FFASGAIDD A CHWESTIWN NEWIDIOL Y DE .....	163
YR EIDAL AR ÔL Y RHYFEL: DECHRAU NEWYDD?.....	166
Y CASSA PER IL MEZZOGIORNO .....	168
YR EIDAL ERS Y 1990AU: CENEDLAETHOLDEB Y GOGLEDD (A'R CYFOETHOG).....	174
PADANIA: DYFEISIO CENEDL.....	176
DIWEDD Y GÂN YW'R GEINIOG .....	179
Y CYD-DESTUN RHYNGWLADOL.....	186
YR EIDAL YN Y SYSTEM-FYD.....	187
<b>VII. ASTUDIAETH ACHOS 3: ARCHIPELAGO PRYDAIN .....</b>	<b>190</b>
CYMRU'R OESOEDD CANOL .....	191
ECONOMI CYMRU YN Y CANOL OESOEDD .....	195
AMODAU DAEARYDDOL A'R ECONOMI .....	201
Y TUDURIAID A CHYDGYFNERTHU'R WLADWRIAETH .....	207
NEWID TECHNOLEGOL YNG NGHYFNOD Y TUDURIAID .....	210
DEDDFAU UNO Â CHYMRU .....	212
GENEDIGAETH CYFALAFIAETH .....	219
SEILIAU CYFALAFIAETH AMAETHYDDOL.....	224
RHANNAU O'R CYFAN A'R RHANNAU CYFAN: Y SYSTEM-FYD A CHYFALAFIAETH AMAETHYDDOL .....	230
ABSENOLDEB CYFALAFIAETH AMAETHYDDOL YNG NGHYMRU .....	239
RHYFEL CARTREF 'LLOEGR' .....	244
Y CHWYLDRO DIWYDIANNOL A'R 'PEDWAR RHAD' .....	255
LLAFUR RHAD .....	256
YNNI RHAD.....	259
BWYD RHAD .....	263
CYMRU: GWLADFA FEWNOL? .....	267
Y CROESDDYWEDIAD CENEDLAETHOL/IMPERIALAIDD .....	273
ANGHYDFURFIAETH A METHIANT RHYDDFRYDIAETH GYMREIG .....	278
'POPETH BREINIOL A SEFYDLEDIG A DRY'N FWG, POPETH SANCTAIDD A HALOGIR' .....	286
(AN)UNDOD AR ÔL Y RHYFEL .....	290
CYMRU 'NEWYDD', HEN BROBLEMAU.....	297
MEWN UNDEB MAE NERTH? .....	307
CYMRU, CENEDLAETHOLDEB, A'R SYSTEM-FYD .....	327
<b>VIII. PENODOLDEB A CHYFFREDINOLDEB: DADANSODDIAD CYMHAROL O'R ASTUDIAETHAU ACHOS ...</b>	<b>332</b>
DYDDIAD YMGORFFORI .....	333
FFURF YR YMGORFFORI .....	335
CARCHARORION DAEARYDDIAETH?.....	340
TREFEDIGAETHAU A PHERIFFERÏAU .....	347
Y GENEDL A'R WLADWRIAETH.....	361
DATBLYGIAD ECONOMAIDD: <i>CUI BONO?</i> .....	370
<b>IX. CASGLIAD: ETIFEDDU'R GORFFENNOL, ADEILADU'R DYFODOL .....</b>	<b>375</b>
<b>X. LLYFRYDDIAETH .....</b>	<b>383</b>

## Tabl o Ffigurau

FFIGUR 1: MODEL ROSTOW. FFYNHONNELL: (BINNS, 1995, T. 305).	2
FFIGUR 2: YR ASTUDIAETH O HANES TRWY DDADANSODDIAD LONGUE DURÉE. GWAITH YR AWDUR.	6
FFIGUR 3: CDG Y PEN (PRISIAU EWROS 2018). GWAITH YR AWDUR. DATA O: (EUROSTAT, 2023).	10
FFIGUR 4: MATEROLAETH HANESYDDOL (HISTORICAL MATERIALISM). GWAITH YR AWDUR.	13
FFIGUR 5: REFENIW TARIFF FEL CANRAN O WERTH Y MEWNFORION A GEDWIR YM MHRYDAIN. FFYNHONNELL: (IMLAH, 2013, T. 121).	21
FFIGUR 6: GWERTHOEDD CYFERNOD GINI. GWAITH YR AWDUR. FFYNHONNELL DATA: (WORLD BANK, 2023).	27
FFIGUR 7: Y CRAIDD, PERIFFERI A'R LLED-BERIFFERI YN Y SYSTEM-FYD. GWAITH YR AWDUR. DOSBARTHIAU WEDI EU CYMRYO: (CHASE-DUNN, ET AL., 2000).	40
FFIGUR 8: TRAWSTORIAD O 38 O WLEDYDD, YN DANGOS CYFRAN Y SECTOR CYNRADD MEWN CMC GWLAD (%) A CMC Y PEN (\$) AR GYFRADDAU'R FARCHNAD (2004). FFYNHONNELL: (RADEZKI, 2010, T. 2).	41
FFIGUR 9: ATLAS CYMHLETHDOD ECONOMAIDD, 2019. FFYNHONNELL: (HARVARD UNIVERSITY GROWTH LAB, 2013).	45
FFIGUR 10: GWLEDYDD Y CRAIDD, PERIFFERI, A'R LLED-BERIFFERI YNG NGORLLEWIN EWROP. GWAITH YR AWDUR. ATGYNHYRCHWYD O: (SEERS, AT AL., 1979, T. 17).	54
FFIGUR 11: CRAIDD RHANBARTHOL EWROP. GWAITH YR AWDUR. ATGYNHYRCHWYD O: (SEERS, ET AL., 1979, P. 21).	55
FFIGUR 12: Y BANANA GLAS. FFYNHONNELL: (TÓTH ET AL, 2014).	58
FFIGUR 13: Y PENTAGON. FFYNHONNELL: (SZABO, 2008).	59
FFIGUR 14: ARDALOEDD CRAIDD GWLADWRIAETHAU MODERN. FFYNHONNELL: (POUNDS A BALL, 1964).	85
FFIGUR 15: Y BERTHYNAS DDILECHDIDOL RHWNG CENEDLAETHOLDEB Y CRAIDD A'R PERIFFERI. (GWAITH YR AWDUR).	88
FFIGUR 16: CMC Y PEN MEWN CANRAN O GYFARTALEDD YR UE27 (O 2020) YN SBAEN (100 = CYFARTALEDD). GWAITH YR AWDUR.	110
FFIGUR 17: SAFLE YN ÔL CMC Y PEN - SBAEN 1995-2019. GWAITH YR AWDUR.	112
FFIGUR 18: CMC Y PEN FESUL BLWYDDYN YN SBAEN. GWAITH YR AWDUR.	113
FFIGUR 19: ATLAS CYMHLETHDOD ECONOMAIDD, SBAEN, 2018. FFYNHONNELL: (HARVARD UNIVERSITY, 2023).	118
FFIGUR 20: IS-GWMNIAU SBAENAIDD YN AMERICA LADIN, 2000. FFYNHONNELL: (SEBASTIÁN A HERNANDEZ, 2000, T. 39).	121
FFIGUR 21: MODEL O "SPRINGBOARD COUNTRY". FFYNHONNELL: (PLA-BARBER A CAMPS, 2012).	124
FFIGUR 22: CMC RHANBARTHOL Y PEN A CHYFRADD TWF BLYNYDDOL YN SBAEN. FFYNHONNELL: (CUADRADO-ROURA A MAROTO, 2016, T. 6).	127
FFIGUR 23: SAFLE CYFNEWIDIOL CATALUNYA A CASTILLA YN Y SYSTEM-FYD. GWAITH YR AWDUR.	130
FFIGUR 24: LLWYBRAU MASNACH YN 1212OC. FFYNHONNELL: (MCEVEDY, 1964, T. 73).	135
FFIGUR 25: MAP GRADDLIWIEDIG MEWN LLIWIAU MONOCROM (CHWITH) A MAP YN DANGOS UCHDER (DDE). FFYNHONNELL: (LEMENKOVA, 2020, T. 107).	136
FFIGUR 26: PENRHYN YR EIDAL YN 1494. FFYNHONNELL: (BRENNAN A HOUDE, 2017, T. 93).	139
FFIGUR 27: PRIF LWYBRAU MASNACH EWRASIAIDD, 1650. FFYNHONNELL: (HENRETTA ET AL., 2007).	146
FFIGUR 28: AMCANGYFRIFON CMC Y PEN (1860-1870 LIRE EIDALAIDD) YN YR EIDAL (15FED-19EG C). FFYNHONNELL: (MALANIMA, 2003, T. 268).	149
FFIGUR 29: CMC Y PEN YN RHANBARTHAU'R EIDAL, 1871-2009 (EWRO 2011). FFYNHONNELL: (FELICE A VECCHI, 2015, T. 548).	155
FFIGUR 30: CMC Y PEN YN Y DE FEL CANRAN O CMC Y PEN Y GOGLEDD RHWNG 1860-2010. FFYNHONNELL: (D'ATTOMA, 2017, T. 84).	157
FFIGUR 31: CMC Y PEN DE'R EIDAL, 1928-1993 (GOGLEDD-CANOL YR EIDAL = 100). FFYNHONNELL: (BOLTHO ET AL., 1997, T. 244).	170
FFIGUR 32: CANLYNIADAU ETHOLIADOL PLEIDIAU O BLAID YMREOLAETH. FFYNHONNELL: (EVA, 1997, T. 66).	175
FFIGUR 33: DAU O GYNLLUNIAU TIRIOGAETHOL CYNGHRAIR Y GOGLEDD: (A) RHANBARTHAU AR GYFER EIDAL FFEDERAL A GYNIGIWDYD RHWNG 1994 A 1996 A (B) PADANIA, SEF EU 'UNED O DDEWIS' ERS 1996. FFYNHONNELL: (AGNEW A BRUSA, 1999, T. 121).	178
FFIGUR 34: CMC Y PEN RHANBARTHOL 1951 A 2010 (YR EIDAL = 100). FFYNHONNELL: (DANIELE A MALAMINA, 2014, T. 169).	179
FFIGUR 35: CMC Y PEN FESUL BLWYDDYN (EWROS YN ÔL PRISIAU 2019). GWAITH YR AWDUR.	181
FFIGUR 36: SAFLE CMC Y PEN FESUL RHANBARTH. YR EIDAL 1995-2019. GWAITH YR AWDUR.	183

FFIGUR 37: EWRO FESUL PRESWYLYDD MEWN CANRAN O GYFARTELEDD YR UE27 O 2020 YN YR EIDAL (100 = CYFARTELEDD YR UE). GWAITH YR AWDUR.....	185
FFIGUR 38: SAFLE NEWIDIOL YR EIDAL YN Y SYSTEM-FYD. GWAITH YR AWDUR. ....	189
FFIGUR 39: ARDAL GRAIDD PRYDAIN FAWR AC YR EHANGIAD O SOFRANIAETH. FFYNHONNELL: (POUNDS A BALL, 1964).....	197
FFIGUR 40: MESURAU CYMHAROL ECONOMÍAŪ CYMURU, LLOEGR, YR ALBAN AC IWERDDON, TUA 1290. FFYNHONNELL: (CAMPBELL, 2008, T. 922). ....	200
FFIGUR 41: TREFI PRYDAIN AC IWERDDON A MASNACH DOLLADWY, C.1290. FFYNHONNELL: (CAMPBELL, 2008, T. 906). ....	202
FFIGUR 42: MARCHNADOEDD YNG NGORLLEWIN LLOEGR A CHYMRU, C. 1500-1640. FFYNHONNELL: (THIRSK, 2011, T. 19).....	206
FFIGUR 43: GWERTHOEDD RHENTU TIR MEWN PERTHYNAS Â CHYFLOGAU, 1500-1912. FFYNHONNELL: (CLARK, 2002, T. 302). .....	227
FFIGUR 44: RHENTI A PHRSIAU AMCANGYFRIFEDIG 1510-1659. FFYNHONNELL: (KERRIDGE, 1953, T. 28).....	228
FFIGUR 45: SYLW CYSYLLTIEDIG AR WERTHOEDD RHENT TIR FESUL CYFNOD. FFYNHONNELL: (CLARK, 2002, T. 285).....	242
FFIGUR 46: ADEILADAETHAU YSGOLHEIGAIDD O ORLLEWIN 'GWYLLT' LLOEGR, 1950-1985. FFYNHONNELL: (MACCANNELL, 2010, T. 174). ....	252
FFIGUR 47: UCHELDIROEDD AC ISELDIROEDD PRYDAIN. FFYNHONNELL: (REES, 1959, T. 78). ....	253
FFIGUR 48: COETIROEDD FEL CANRAN O ARWYNEBEDD TIR YN LLOEGR. FFYNHONNELL: (DEFRA, 2013). ....	260
FFIGUR 49: 'Y COMIWNYYDD' GAN EVAN WALTERS.....	285
FFIGUR 50: SAFLE CDG Y PEN Y DU. GWAITH YR AWDUR. ....	302
FFIGUR 51: CYNNYRCH DOMESTIG GROS Y PEN (£) YN ÔL PRISIAU CYFREDOL Y FARCHNAD. GWAITH YR AWDUR. ....	303
FFIGUR 52: CYNNYRCH DOMESTIG GROS Y PEN (£) YN ÔL PRISIAU CYFREDOL Y FARCHNAD (AC EITHRIO LLUNDAIN). GWAITH YR AWDUR.....	304
FFIGUR 53: GWARIANT ADNABYDDADWY'R DU AR WASANAETHAU FESUL SWYDDOGAETH, Y PEN, WEDI'I FYNAGEIO AR GYFER 2019- 2020. GWAITH YR AWDUR. DATA O: (HM TREASURY, 2021). ....	306
FFIGUR 54: CRYFDER HUNANIAETH GENEDLAETHOL IS-WLADWRIAETH A PHLEIDLAIS GADAEI (%). FFYNHONNELL: (HENDERSON, ET AL., 2021, P. 17). ....	308
FFIGUR 55: CANLYNIADAU'R REFFERENDWM YNG NGHYMRU FESUL AWDURDOD LLEOL. FFYNHONNELL: (SENEDD CYMRU, 2016, T. 4). ....	311
FFIGUR 56: MODEL TAIR-CYMRU. FFYNHONNELL: (BALSOM, 1985, T. 5). ....	313
FFIGUR 57: CANLYNIADAU REFFERENDWM 1997 FESUL AWDURDOD LLEOL, CYFRAN Y PLEIDLEISIAU „IE". FFYNHONNELL: (NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES, 2011, T. 7). ....	315
FFIGUR 58: CANLYNIADAU ETHOLAETHAU ETHOLIAD SENEDD 2021. FFYNHONNELL: (NEWYDDION Y BBC, 2021). ....	316
FFIGUR 59: SEFYLLFA NEWIDIOL CYMRU A LLOEGR O FEWN Y SYSTEM-FYD. GWAITH YR AWDUR. ....	331
FFIGUR 60: Y DDILECHDID RHWNG PRYDEINDOD A HUNANIAETHAU CENEDLAETHOL. GWAITH YR AWDUR.....	365

## Diolchiadau

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac Ysgol Busnes Caerdydd am eu cyllid hael a'm galluogodd i wneud y PhD hwn. Yn bwysicach fyth, hoffwn ddiolch iddynt am eu hymddiriedaeth ac am y rhyddid academaidd a roddwyd i mi i ysgrifennu darn o waith a fydd, gobeithio, yn heriol ac yn werth chweil.

Mae'r gwaith hwn yn siarad i'r grymoedd cymdeithasol sy'n ein cysylltu a hoffwn ddiolch felly i aelodau o fy system-fyd bersonol. Mae'r perthnasau yma o ddibyniaeth yn ein gwneud yn gryfach, nid yn wannach. I fy mhartner, fy mam, fy nhad, a fy chwaer: diolch. Diolch hefyd i mam-gu a nain am eich cariad a'ch balchder. Hoffwn hefyd ddiolch i fy ffrindiau: fy ffrindiau yng Nghaerdydd am ei wneud yn gartref, a fy ffrindiau yn Llundain am ddangos i mi y gall cartref (am gyfnod!) fod yn unrhyw le.

Ar lefel ddeallusol mae gennyf lawer o bobl i ddiolch – llawer mwy nag y gellir eu henwi yma – ac mae pob un yn haeddu mwy o gydnabyddiaeth a diolch nag y gallaf ei roi yn ysgrifenedig. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Huw Williams am ddechrau'r broses gyfan hon. Rwy'n ymwybodol na fyddai dim o hyn wedi digwydd heboch chi, ac am hynny byddaf yn dragwyddol ddiolchgar. Diolch hefyd i Jason W Moore am agor eich drws i mi (yn llythrennol ac yn drosiadol!); agorwyd fy llygaid i bwysigrwydd natur wrth lunio ein systemau economaidd a chymdeithasol. Diolch o galon hefyd i Neil Evans, Nemanja Lukić, Dan Evans, a Robert Lloyd. Fe wnaethoch chi i gyd helpu'n anfesuradwy yn eich ffyrdd eich hun.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Calvin Jones. Mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, dechreuodd y daith hon yn 2015 pan ddarllenais erthygl gan Calvin ar y system-fyd (o'r diwedd, roedd y byd yn gwneud synnwyr!). Diolch i chi am eich cefnogaeth, eich beiro coch, a'r lle i mi fynegi a datblygu fy argyhoeddiadau deallusol a'm chwilfrydedd fy hun.



Fodd bynnag, diolch yn bennaf am eich caredigrwydd a'ch cyfeillgarwch. Mae'n weddus eich bod chi yma ar ddechrau a diwedd y daith; roedd yn bleser cerdded i lawr y llwybr hwn gyda chi.

*Poor Wales. So far from Heaven, so close to England.* – Sharon Penman

*Everything must be recaptured and relocated in the general framework of history, so that despite the difficulties, the fundamental paradoxes and contradictions, we may respect the unity of history which is also the unity of life.* - Fernand Braudel

*If we have chosen the position in life in which we can most of all work for mankind, no burdens can bow us down, because they are sacrifices for the benefit of all; then we shall experience no petty, limited, selfish joy, but our happiness will belong to millions, our deeds will live on quietly but perpetually at work, and over our ashes will be shed the hot tears of noble people.* – Karl Marx

*This you may say of man - when theories change and crash, when schools, philosophies, when narrow dark alleys of thought, national, religious, economic, grow and disintegrate, man reaches, stumbles forward, painfully, mistakenly sometimes. Having stepped forward, he may slip back, but only half a step, never the full step back.* – John Steinbeck

*The mark of the modern world is the imagination of its profiteers and the counter-assertiveness of the oppressed. Exploitation and the refusal to accept exploitation as either inevitable or just constitute the continuing antinomy of the modern era, joined together in a dialectic which has far from reached its climax in the twentieth century.*  
– Immanuel Wallerstein


*I mam a dad, am bopeth.*

## I. Cyflwyniad

Mae dau amcan sylfaenol yn ganolog i'r ymchwil hwn. Y cyntaf yw dadansoddiad o ddatblygiad economaidd cenhedloedd di-wladwriaeth dros y tymor hir a chyfrif am wahaniaethau yn lefel y datblygiad. Wrth wneud hynny, bydd yn archwilio'r anghydraddoldebau gofodol sy'n bodoli dan ymbarél y wladwriaeth, ac a yw'r anghydraddoldebau gofodol hyn yn effeithio ar berthnasedd cenedlaetholdeb gwleidyddol. Mae'r traethawd hwn yn ymgorffori rôl daearyddiaeth, gwleidyddiaeth, sefydliadau, a hanes yn ei ddadansoddiad o ddatblygiad economaidd. Gwyddom fod y ffactorau hyn (a lwc) yn ffactorau pwysig wrth lunio a yw lle yn gyfoethog neu'n dlawd. Ond, y mae sut ac ym mha ffyrdd y mae'r ffactorau hyn yn rhyngweithio i greu ffyniant eto i'w ddatgelu'n llawn. Ar un adeg, roedd yr ateb yn ymddangos yn syml; gwelwyd y broses o newid o dlodi i gyfoeth a moderniaeth fel cyfres o gamau y byddai'n rhaid i bob gwladwriaeth eu cymryd. Seiliwyd y camau hyn ar lwybr datblygiad tybiannol Prydain, a ystyrir fel y pŵer diwydiannol amlycaf (Rostow, 1959) (Parsons, 1964) (Almond a Coleman, 1960). Felly, gallai a dylai eraill efelychu llwybr Prydain a gallent hwythau hefyd ddod yn 'gyfoethog' a 'datblygedig'. Roedd y ddamcaniaeth hon - a ddaeth i gael ei hadnabod fel Theori Moderneiddio - yn gwneud diagnosis o wladwriaethau araf eu datblygiad yn gymharol syml; y cyfan oedd ei angen oedd ychydig mwy o ddiwydiannu fan hyn, ychydig o newid yn y strwythur amaethyddol fan draw a byddai pob cenedl yn y pen draw yn 'moderneiddio' yn yr un modd ag y gwnaeth Prydain. Roedd y ddamcaniaeth hon yn ystyried bod gwladwriaethau wedi'u selio'n hermetig, ac felly gellid eu dadansoddi fel pe baent yn annibynnol yn fecanyddol ac yn strwythurol ar ei gilydd. Fel y dywedodd Tom Nairn (1975, t. 10):

*Modern capitalist development was launched by a number of West-European states which had accumulated the potential for doing so over a long period of history. The even-development notion was that this advance could be straightforwardly followed,*

and the institutions responsible for it copied—hence the periphery, the world's countryside, would catch up with the leaders in due time. This evening up would proceed through the formation of a basically homogeneous enlightened class throughout the periphery: the international or 'cosmopolitan' élite in charge of the diffusion process.



Figur 1: Model Rostow. Ffynhonnell: (Binns, 1995, t. 305).

Fodd bynnag, trwy ddadlau bod yr amodau ar gyfer datblygiad yn gwbl fewndarddol, mae damcaniaeth moderneiddio yn dadlau bod canlyniadau economaidd anwastad, ac felly canlyniadau cymdeithasol anghyfartal rywsut yn 'naturiol' (Jones, 2015, tt. 274-275). Mewn geiriau eraill, os yw gwledydd wedi methu ag efelychu Prydain a phwerau Gorllewinol eraill, ar eu hysgwyddau nhw yn unig y mae'r bai, yn hytrach nag ar strwythur yr economi fyd-eang. Mae hyn oherwydd

bod Damcaniaeth Moderneiddio yn rhagdybio bod datblygiad o fewn gwlad yn dibynnu i raddau helaeth ar ffactorau mewndarddol lle mae pob gwlad yn cynrychioli system o gynhyrchu economaidd ar wahân (Lenski, 2013). Byddai hyn yn golygu mai'r ffordd y defnyddir adnoddau mewnol megis cyfalaf a llafur yn unig sy'n effeithio ar ddatblygiad, ochr yn ochr â "the unseen workings in the 'black box' of innovation" (Jones, 2015, t. 275).

Pe bai hyn yn wir, dim ond llond llaw o drawsnewidiadau llwyddiannus fyddai gennym – fel rhai Prydain a Ffrainc – tra 'methiannau' i ddatblygu'n llwyddiannus fyddai'r arfer (Tilly, 1992, t. 7). Mae methiant dulliau prif ffrwd i egluro llwybrau datblygu yn awgrymu na ddylem ddamcaniaethu fel pe bai gwladwriaethau'n datblygu mewn gwagle - a bod yn rhaid inni fabwysiadu ymagwedd wahanol at ddatblygiad economaidd. Cafodd llwybr datblygiadol Prydain ei lunio gan ffactorau ac actorion allanol a chafodd y lleoedd hyn eu llunio eu hunain gan ddatblygiad ym Mhrydain. Nid oes gan yr endidau hyn "separate, parallel histories, but [are] parts of a whole reflecting that whole" (Wallerstein, 1979, t. 53).

Yn ogystal, ni ddatblygodd pob rhan o Brydain yn gyfartal; datblygodd Cymru yn wahanol i Loegr. Datblygodd De Lloegr yn wahanol i Ogledd Lloegr. Mae'r traethawd ymchwil hwn yn awgrymu, er mwyn deall economi lle, boed yn rhanbarthol, yn genedlaethol neu'n amlwladol, fod yn rhaid i ni yn gyntaf ei leoli o fewn y system-fyd. Cymerodd datblygiad Prydain - a datblygiad ei rhannau cyfansoddol - y llwybr a wnaeth oherwydd y 'bwndeli o berthnasau' (Moore, 2015) sy'n bodoli rhwng lleoedd yn y system-fyd. Gyda'r dull cyfannol y mae dadansoddiad systemau'r byd yn ei feithrin, mae'r anghysondebau mewnol, y gwrthdaro o ran dosbarth a'r brwydrau economaidd-gymdeithasol mewn lleoedd penodol yn cael eu hamlygu gan fod y rhain eu hunain yn cael eu siapiro gan y system-fyd. Fel y dadleuodd Samir Amin (2010, tt. 14-15) o ran y system-fyd:

*I hold that the processes governing the system as a whole determine the framework in which local adjustments operate. In other words, this systemic approach makes the*

*distinction between external factors and internal factors relative, since all the factors are internal at the level of the world-system.*

Mae'r dull hwn o feddwl yn ddilechdidol; rhaid inni nid yn unig archwilio strwythur, er enghraifft, economi Cymru, ond hefyd ddadansoddi canlyniadau'r strwythur hwn ar gyfer y system-fyd a'i rhannau cyfansoddol. Yng ngeiriau Mao Tse Tung (1987, t. 21):

*the world outlook of materialist dialectics holds that in order to understand the development of a thing we should study it internally and in its relations with other things; in other words, the development of things should be seen as their internal and necessary self-movement, while each thing in its movement is interrelated with and interacts on the things around it.*

Mewn cyferbyniad â Damcaniaeth Moderneiddio, mae Damcaniaeth Dibyniaeth a Dadansoddiad Systemau'r Byd yn cyfeirio at "deformation effects of exploitative integration" sy'n atal rhai mathau o ddatblygiad tra'n achosi ffurfiau eraill (Bornschieer a Trezzini, 1997, t. 435). Mae Damcaniaeth Moderneiddio yn esgeuluso rôl nodweddiol gwleidyddol, hanesyddol ac economaidd byd-eang a all rwystro datblygiad. Dylai fod yn glir bod yr amodau o fewn Prydain – a safle Prydain o fewn y system-fyd ar ddechrau diwydiannu – yn dra gwahanol i'r amodau mewnol ac allanol sy'n effeithio ar ddatblygiad, er enghraifft, yng ngorllewin Affrica heddiw. Fel yr eglurodd Sunkel a Girvan (1973, tt. 133-134):

*the reality of our underdevelopment has been seen mainly from the vantage point of conventional theories of growth and modernization. The optimum functioning of the social system is therefore perceived in terms of the ideal theoretical framework of the mature capitalist economy, represented in practice by the developed countries; underdevelopment as an imperfect and earlier stage on the way towards the ideal prototype. However, the formative stages of development and the present structure of*

*the underdeveloped countries are radically different from the assumptions implicit in such a theoretical logic.*


Yn y tudalennau i ddod, bydd y traethawd hwn yn dadlau bod rhesymeg swyddogaethol sefyllfa anffafriol gwlad o fewn y system-fyd yn ystumio datblygiad mewnol. Fel y dadleuodd Hesketh (2017, t. 395), mae'r dull hwn yn cynnig "a multilinear and interactive framework whereby world history is presented as an ontological whole, therefore collapsing the false distinction between international and domestic society, and instead looking at the sociological constitution of difference".

Wrth herio damcaniaethau uniongred am ddatblygiad, bydd y traethawd hwn yn ymgorffori dull *Longue Durée* i hanes, a arloeswyd gan Marc Bloch, Lucien Febvre a'r Ysgol Annales, ac a boblogeiddiwyd yn ddiweddarach gan Fernand Braudel. Mae'r ffurf hon o ymholiad hanesyddol yn edrych ar strwythurau hanesyddol hirdymor, eu tueddiadau a'u patrymau. Mae bywgraffiadau hanesyddol unigolion yn cael eu disodli gan *histoire totale* sy'n dilyn cyfuchliniau gweog hanes. Yn ei hanfod, mae dull *Longue Durée* yn ffordd benodol o rannu ac ail-gydodod amser. Mae'n cynnwys y hir dymor – yr hyn sy'n ymddangos yn llonydd – sy'n cynnwys amgylcheddau naturiol sy'n gwrthsefyll ymyrraeth ddynol fel ein mynyddoedd a'n moroedd. Mae hefyd y tymor canolig - neu *conjuncture* - sy'n cynnwys cylchoedd economaidd, sydd fel arfer yn cael eu mesur mewn canrifoedd. Mae'r tymor byr - neu'r *digwyddiad* - yn ffrwydro. Ond, mae'r digwyddiad yn dal ynddo pwysau byrhoedlog a gwthiadau hirdymor (Tomich, 2012). Felly, mae dull *Longue Durée* o hanes yn symud i ffwrdd o weld hanes fel cyfres o ddigwyddiadau llinellol, teleolegol ond yn dadlau yn lle hynny fod hanes yn cynnwys amseriadau lluosog, a bod pob un yn effeithio ar y tymor byr yn ei ffordd ei hun. Fel y ysgrifennodd Braudel (2009, t. 182) wrth egluro dull *Longue Durée*:

*Whether one is writing about 1558 or the year of Our Lord 1958, if one wants to understand the world, one has to determine the hierarchy of forces, currents, and*



*individual movements, and then put them together to form an overall constellation. Through- out, one must distinguish between long-term movements and momentary pressures, finding the immediate sources of the latter and the long-term thrust of the former. The world of 1558, so bleak in France, was not produced just out of the events of that charmless year. The same is true for this difficult year of 1958 in France. Each "current reality" is the conjoining of movements with different origins and rhythms. The time of today is composed simultaneously of the time of yesterday, of the day before yesterday, and of bygone days.*



*Figur 2: Yr Astudiaeth o Hanes trwy ddadansoddiad Longue Durée. Gwaith yr Awdur.*

Drwy ymgorffori dull Longue Durée i hanes, byddwn hefyd yn gweld nad yw cenedloedd – ac felly cenedlaetholdeb – yn barhaol nac yn sefydlog yn ofodol na'n amserol ond yn hytrach yn adeiladweithiau cymdeithasol-wleidyddol. Byddwn yn medru dadansoddi nid yn unig y prosesau hirdymor y tu ôl i ddatblygiad gwladwriaethol a chenedlaethol ond hefyd yn dadansoddi sut mae'r *digwyddiad* yn effeithio ar deimlad cenedlaetholgar y genedl fwyafrifol a lleiafrifol. Drwy ddeall tarddiadau, tueddiadau, a chyfuchliniau cenedloedd – sydd heddiw yn rhoi awyrgylch parhaol - bydd yn bosibl adeiladu darlun o sut mae rhyngweithio dynol dros ofod ac amser helaeth wedi effeithio ar anghydraddoldebau rhanbarthol, cenedlaetholdeb, a datblygiad economaidd heddiw.

Bydd y traethawd ymchwil hwn yn edrych yn benodol ar rôl cenedloedd di-wladwriaeth Ewropeaidd o fewn y system-fyd. Dyma'r prif astudiaethau achos a ddewiswyd ar gyfer y dadansoddiad hwn: Cymru o fewn y Deyrnas Unedig, Catalunya<sup>1</sup> o fewn Sbaen, a'r Mezzogiorno<sup>2</sup> a Padania<sup>3</sup> yn yr Eidal. Y pwrpas fydd i ddarganfod pa ffactorau sy'n bennaf gyfrifol am eu lle o fewn y system-fyd â'u lefel o ddatblygiad economaidd ac o hyn, ydy anghydraddoldeb gofodol wedi effeithio ar amlygrwydd a thebygolrwydd ymwahaniad gwleidyddol.

Nid y rhain oedd yr unig astudiaethau achos y gallai dadansoddiad o'r fath fod wedi'u defnyddio. Penderfynwyd y dylai astudiaethau achos fod dan ymbarél gwladwriaethau canolog gwahanol. Er enghraifft, ni fyddai'r Alban a Chymru yn cael eu dewis. Y rheswm oedd y byddai hyn yn caniatáu dadansoddiad o'r hyn a allai fod yn gyffredinol am sefyllfa cenedloedd di-wladwriaeth, yn hytrach na bod yn benodol i wladwriaeth arbennig. Hynny yw, gallai fod gan wladwriaeth Prydain ffordd arbennig o ryngweithio â chenedloedd di-wladwriaeth, yn wahanol i Sbaen,

---

<sup>1</sup> Rwyf wedi penderfynu defnyddio'r sillafu Catalaneg.

<sup>2</sup> Mae'r Mezzogiorno wedi diffinio fel yr ardal o'r Eidal oedd yn rhan o Frenhiniaeth y Ddau Sisili a Sardinia.


<sup>3</sup> Padania yw'r enw a rhoddir i wladwriaeth annibynol arfaethedig yng nghogledd yr Eidal. Mae'r enw yn deillio o'r Afon Po.

neu Rwsia, neu Ffrainc ac ati. Yn ail, roedd yn bwysig bod pob astudiaeth achos yn bodoli yng nghanol y cyfundrefn geogymdeithasol Ewrop. Mae hyn oherwydd mai Ewrop yw crud y genedl-wladwriaeth fodern. Trwy ddewis lleoedd y tu allan i'r cyfundrefn hon, byddai'n rhaid cynnal dadansoddiad o orfodi cenedligrwydd ar grwpiau ethnig neu ieithyddol. Yng nghyd-destun llawer o'r byd y tu allan i Ewrop, lluniwyd ffiniau cenedlaethol yn ddiotal, ac felly roedd blociau adeiladu cenedligrwydd yn wahanol. Byddai astudiaeth bellach yn fuddiol wrth ddadansoddi a yw anghydraddoldeb rhanbarthol yn effeithio ar bwysigrwydd cenedlaetholdeb gwleidyddol yn wahanol y tu allan i grud y genedl-wladwriaeth. Ystyriwyd astudiaethau achos eraill yn Ewrop, fel yr hen Iwgoslafia, Corsica, a Gwlad Belg. Roedd cynnwys yr hen Iwgoslafia yn anodd am ddau reswm. Yn gyntaf, roedd cyfansoddiad (ethnig) y wladwriaeth ganolog wedi newid ar gyfnodau cymharol aml dros y cyfnod dan sylw. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy anodd i gyfrif am rôl y wladwriaeth ganolog dros gyfnod hir. Yr ail ffactor oedd safle anymochrol Iwgoslafia yn oes y Rhyfel Oer a'i gosododd mewn sefyllfa arbennig iawn, ac an-gyffredinol. Hefyd, nad oedd y wlad yn draddodiadol gyfalafol a oedd yn gwneud cymariaethau yn anoddach. Ni ddewiswyd Corsica hefyd oherwydd y ffaith bod y wladwriaeth ganolog wedi newid dwylo ar gyfnodau rheolaidd, gan wneud canfyddiadau mwy cyffredinol yn fwy anodd. Er y byddai Gwlad Belg wedi bod yn astudiaeth achos ddiddorol, mae'r ffaith bod Padania yn cael ei 'chreu' yn y cyfnod bresennol arwain at y syniad bod datguddiad o'r prosesau y tu ôl i hyn yn ymddangos yn arbennig o berthnasol. Oherwydd yr angen am fyrder, nid oedd lle ar gyfer mwy o astudiaethau achos. Mae'r realiti hyn yn golygu bod yr astudiaethau achos hyn yn ddigon tebyg i gael eu cymharu, ond yn ddigon gwahanol i gynnig dadansoddiad o wahanol newidynnau.

Mae'r astudiaethau achos hyn wedi'u dewis i ddarganfod pa ffactorau sy'n bwysig o ran datblygiad economaidd a sut mae gwahanol ffactorau yn rhyngweithio. Gellir disgrifio pob un o'r astudiaethau achos hyn fel rhai sy'n ddaearyddol agos at graidd y system-fyd ryngwladol, ond eto mae gan bob un set wahanol o strwythurau a chanlyniadau economaidd. Trwy ddefnyddio Cynnyrch Domestig Gros (CDG)<sup>4</sup> y pen cyfredol fel uned fesur, mae modd datgan bod Cymru'n gymharol dlawd o fewn cyd-destun y DU a gorllewin a de Ewrop, mae Catalunya yn gymharol gyfoethog o gymharu â gweddill Sbaen tra bod ei CDG y pen yn gymharol gyfartal â gorllewin a de Ewrop; y *Mezzogiorno* yw'r rhanbarth tlotaf yng ngorllewin a de Ewrop, tra bod Padania yn cynnwys rhai o ranbarthau mwyaf cyfoethog Ewrop. Mae Ffigur 3 yn dangos CDG y pen ar gyfer pob astudiaeth achos:

---

<sup>4</sup> Mae manteision ac anfanteision clir i ddefnyddio CMC/CMC y pen fel uned fesur. Mae CMC y pen yn cynnig mesur safonol i gymharu allbwn economaidd rhwng rhanbarthau ac mae'n ddangosydd a ddefnyddir yn eang o ddatblygiad economaidd. Fodd bynnag, dim ond yr allbwn economaidd cyfartalog fesul person mewn gwlad neu ranbarth y mae CMC y pen yn ei fesur ac nid yw'n dal amrywiadau mewn dosbarthiad incwm neu anghydraddoldebau cyfoeth. O ganlyniad, gall guddio anghydraddoldebau a methu dangos realiti economaidd gwahanol segmentau o'r boblogaeth. Yn bwysig, nid yw CMC y pen ei hun yn dal dimensiynau o les dynol, fel iechyd, addysg, cynhwysiant cymdeithasol, ac ansawdd bywyd. Fodd bynnag, diben y traethawd hwn yw dadansoddi'r hyn y gallem ei alw'n ddatblygiad 'cyfalafol'. Nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth o reidrwydd y ffactorau hyn. Ar lefelau tebyg o CMC y pen, dangoswyd bod gan lywodraethau sosialaidd ganlyniadau ansawdd bywyd corfforol cymharol well (Cereseto & Waitzkin, 1986).



*Ffigur 3: CDG y Pen (Prisiau Ewros 2018). Gwaith yr Awdur. Data o: (Eurostat, 2023).*

Oherwydd natur y lleoedd hyn fel cenedloedd di-wladwriaeth, mae'r aradeiledd gwleidyddol yn debygol o ryngweithio â'r sylfaen economaidd mewn ffyrdd diddorol; mae cenedlaetholdeb – ac ymwahaniad gwleidyddol – o leiaf yn opsiwn dichonadwy yn ddamcaniaethol ar gyfer y lleoedd hyn. Byddaf felly'n mynd i'r afael â'r modd y mae gwleidyddiaeth genedlaetholgar yn rhyngweithio â strwythur economaidd, yn ogystal ag ymateb cenedlaetholdeb mwyafrifol i genedlaetholdeb lleiafrifol o fewn y system-fyd (ac i'r gwrthwyneb).<sup>5</sup> Y diben fydd dadansoddi pryd ac ym mha ffyrdd y daw cenedlaetholdeb yn amlwg, ac a yw hyn yn gysylltiedig â safle o fewn y system-fyd. Mae'r astudiaethau achos hyn yn cynnwys mudiadau

<sup>5</sup> Diffinnir cenedlaetholdeb mwyafrifol yma fel cenedlaetholdeb y wladwriaeth canolog, er enghraifft, cenedlaetholdeb Sbaenaidd tra bod cenedlaetholdeb lleiafrifol yn cyfeirio at genedlaetholdeb sydd yn ceisio ennill gwladwriaeth, er enghraifft, cenedlaetholdeb Catalunya. Nid yw cenedlaetholdeb mwyafrifol a lleiafrifol yn yr achos hwn yn golygu mai un yw cenedlaetholdeb 'y mwyafrif' neu 'y lleiafrif' ond yn hytrach yn awgrymu ai cenedlaetholdeb a ragnodir gan y wladwriaeth annibynnol neu isranbarth o'r wladwriaeth honno ydyw. Dyma'r diffiniad a ddefnyddir gan ysgolheigion megis (Gagnon, et al., 2011) a (Watson, 1990).

enedlaetholgar â graddau amrywiol o ddylanwad, pŵer, a llwyddiant. Bydd hyn yn caniatáu dadansoddiad o sut ac ym mha ffyrdd y mae sefyllfa'r system-fyd yn effeithio ar fudiadau a gofynion enedlaetholgar.

Dadleuodd Samir Amin (2010, t. 84) mai “capitalism is not the United States and Germany, with India and Ethiopia only ‘halfway’ capitalist. Capitalism is the United States and India, Germany and Ethiopia, taken together”. Yn yr un modd, nid mond cyfalafiaeth yw'r Almaen; cyfalafiaeth yw dwyrain yr Almaen a gorllewin yr Almaen, Frankfurt a Leipzig, Efrog Newydd a Detroit, Llundain a Blaenau Gwent, Milan a Bari. Er mwyn deall cyfalafiaeth a'n system-fyd gyfredol, mae'n rhaid i ni sefydlu dadansoddiad sy'n sicrhau bod lleoedd yn cael eu "hystyried gyda'i gilydd". Y nod yw caniatáu i'r lleoedd hyn gael eu dadansoddi, eu hastudio a'u deall ar eu telerau eu hunain, yn hytrach nag yn unig drwy lens eu creiddiau priodol. Dylai pob lle fod wrth wraidd ei dealltwriaeth ohono'i hun, ac mae'r realiti rhanbarthol hwn yn aml wedi'i guddio o fewn hanes 'Brydeinig' neu 'Sbaeneg' neu 'Eidaleg'. Mae dadansoddiad system-fyd yn caniatáu inni barchu hanesion amrywiol y lleoedd hyn tra'n cynnal cytgord ar lefel y system-fyd.


Mae'r gwaith hwn yn dilyn epistemoleg Marcsaidd a Materoliaethol ac yn dilyn fframwaith dilechdidol a ddatblygwyd gan Marx ac Engels. Dyma'r syniad bod sefydliadau cymdeithas ddynol megis crefydd, llywodraeth, diwylliant, ac ati yn datblygu o'r sail materol o gymdeithas. Ar lefel sylfaenol, mae'n rhaid i bob unigolyn ymgysylltu mewn gweithgareddau economaidd i fodloni'r anghenion sylfaenol o fywyd fel bwyd, dillad, a lloches.

*What, then, is the chief force in the complex of conditions of material life of society? ... This force, historical materialism holds, is the method of procuring the means of life necessary for human existence, the mode of production of material values – food, clothing, footwear, houses, fuel, instruments of production, etc. – which are indispensable for the life and development of society.*

*In order to live, people must have food, clothing, footwear, shelter, fuel, etc.; in order to have these material values, people must produce them; and in order to produce them, people must have the instruments of production with which food, clothing, footwear, shelter, fuel, etc., are produced, they must be able to produce these instruments and to use them (Stalin, 1938).*

Mae'r ffordd y mae cymdeithas yn cyflawni'r nodau hyn yn dibynnu ar y dull cynhyrchu (mode of production). Er enghraifft, heddiw mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwerthu eu grym llafur i fodloni'r angen am anghenion sylfaenol bywyd. Mewn cymdeithas hela a chasglu, ni fyddai unigolyn yn gwerthu eu grym llafur mewn cyfnewid am gyflog i brynu'r anghenion sylfaenol bywyd, ond yn lle hynny byddent yn lladd, creu, a chasglu'r anghenion sylfaenol bywyd fel cymdeithas. Mae'r gwahaniaeth yn y dulliau cynhyrchu yn effeithio ar yr aradeiledd sy'n deillio ohonynt. Er enghraifft, mae'r angen i hela a chasglu yn gwneud bywyd crwydrol yn fwy tebygol, gan wneud creu dinasoedd yn ddiangen, a heb unrhyw angen i greu dosbarth gwleidyddol neu lywodraethol ar wahân. Yn ei hanfod, nid yw meddwl a ysbryd dyn yn bodoli'n annibynnol o'r byd materol, ond yn hytrach yn cael ei siapio a chreu ganddo. Wrth fynegi'r farn hon, dadleuodd Marx ([1859] 1904) y canlynol:

*In the social production of their existence, men inevitably enter into definite relations, which are independent of their will, namely relations of production appropriate to a given stage in the development of their material forces of production. The totality of these relations of production constitutes the economic structure of society, the real foundation, on which arises a legal and political superstructure and to which correspond definite forms of social consciousness. The mode of production of material life conditions the general process of social, political and intellectual life. It is not the consciousness of men that determines their existence, but their social existence that determines their consciousness.*



*Ffigur 4: Materolaeth Hanesyddol (Historical Materialism). Gwaith yr Awdur.*

Er bod gwrthwynebwyr yn dadlau y gallai epistemoleg Marcsaidd fod yn ddogmatig, y gwirionedd yw nad oes derbyniad anfeirniadol o'r hyn a ysgrifennodd Marx ac eraill. Yn lle hynny, mae epistemoleg Marcsaidd yn ffyddlon i'r *dull* Marcsaidd, sef defnyddio dull materoliaeth dilechdidol i ddatblygu, dwysáu, ac ehangu ein dealltwriaethau o hanes a chymdeithas. Wrth gymhwyso epistemoleg o'r fath, mae'r traethawd hwn yn parhau â gwaith hanesydd mwyaf blaenllaw Cymru: Gwyn Alf Williams. Roedd Gwyn Alf (1979) yn Gomiwnydd cyhoeddus a aeth mor bell i ddweud "if capitalism in the British Isles lives, Wales will die. If Wales is to live, capitalism in the British Isles must die". Ni waeth a yw rhywun yn cytuno â'r prognosis hwn, mae athrylith hanesyddol Gwyn Alf yn ddiamheuol. Pwrpas y traethawd ymchwil, felly, yw ailgyflwyno epistemoleg Farcsaidd Gwyn Alf Williams nid yn unig i hanes Cymru, ond hefyd i hanes Sbaen a'r Eidal. Oherwydd bod



epistemoleg Farcsaidd yn ymwneud â dull, yn hytrach na dogma, nid yw cymhwysor'r epistemoleg hon yn gyfystyr ag ailwampio gwaith Gwyn Alf, ond gall gynnig mewnwelediadau newydd, gwerthfawr. Mae'r dyfyniad canlynol yn cyfleu epistemoleg Farcsaidd o waith Gwyn Alf (1985, t. 5), a'i ddealltwriaeth o'r rhyngweithiad rhwng dynoliaeth a natur:

*Landscape does not make history; men and women do. Hills may dictate where a road may run but not why a road should be made at all. Forests may mark people off, if they get fed up with that condition, they will remove the forests. As early as the Romans, human beings were shaping the landscape to their needs. Men and women make their own history. But they do not make it in circumstances chosen by them. It has been the interplay between the often terrifying power of human ingenuity, ambition and desperation and that brute, dumb, starveling and beautiful country which has made history here. And in Wales the people whose land it was had to confront a sight more than mountains. In consequence the Welsh have made themselves. They have made themselves over repeatedly because they have had to make themselves against the odds. There were not enough of them and there were not enough resources around to keep out much more numerous and much more powerful peoples. From birth, they lived with the threat of extinction.*

O ystyried pa mor ganolog yw'r cysyniadau o genedlaetholdeb ac annibyniaeth i'r gwaith hwn, mae'n bwysig nodi bod epistemoleg Farcsaidd hefyd wedi effeithio ar y safbwyntiau ar y pynciau hyn. Mae'r gwaith hwn yn dilyn cysyniad Leninaidd o hawliau cenhedloedd i hunanbenderfyniad, a ddaw i'r amlwg yn bennaf yn ei *Theses on the National Question* (Lenin, [1925] 1977). Un o'r seiliau sylfaenol yw na ddylai cenedlaetholdeb - neu fudiadau cenedlaetholgar - gael ei gefnogi na'i wawdio'n ddiwahân. Yn hytrach, yr amodau materol penodol a chyfansoddiad y system genedlaethol a rhyngwladol sy'n pennu a yw annibyniaeth neu genedlaetholdeb ym mhob achos yn flaengar neu'n atchweliadol yn fyd-hanesyddol. Yn ei amser ei hun, er enghraifft, dyma pam y gallai Marx gefnogi uno'r Almaen neu annibyniaeth

Iwerddon ond eto'n amwys i uno'r Eidal yn yr un cyfnod. Edrychir ar annibyniaeth felly trwy lens materol, gwrthrychol yn hytrach nag un o sentimentalïaeth. Mae epistemoleg Marcsaidd yn gwbl gyson yn hyn o beth. Ni chymerodd y traethawd ymchwil hwn, felly, farn a flaenoriaeth ynghylch a oedd annibyniaeth ar gyfer pob astudiaeth achos yn gam 'blaengar' neu 'atchweliadol', ac nid dyna'r bwriad ychwaith. Ymhellach, nid yw'n baradocsaidd os edrychir yn fwy ffafriol ar genedlaetholdeb un astudiaeth achos nag un arall. Mae cyfansoddiadau cenhedloedd yn wahanol, yn union fel y mae gan dosbarthiadau cymdeithasol cyfansoddiadau mewmol gwahanol. Er y gall y cyfaddefiadau uchod ymddangos fel pe baent yn rhagfarnu darn o waith academaidd a hanesyddol, mae'n bwysig cofio geiriau E.H. Carr (1964, t. 44):

*The historian who is most conscious of his own situation is also more capable of transcending it, and more capable of appreciating the essential nature of the differences between his own society and outlook and those of other periods and other countries, than the historian who loudly protests that he is an individual and not a social phenomenon. Man's capacity to rise above his social and historical situations seems to be conditioned by the sensitivity with which he recognises the extent of his involvement in it.*

Pwynt pellach wrth werthfawrogi'r gwahaniaethau rhwng fy nghymdeithas fy hun a gwledydd eraill yw'r gydnabyddiaeth nad wyf yn siarad Catalaneg, Basgeg nac Eidaleg tra bod fy Sbaeneg yn sgyrsiol ond nad yw'n cyrraedd y lefel angenrheidiol i ddarllen testunau academaidd. Mae hyn wedi siapio'r deunyddiau sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfer y traethawd ymchwil hwn. I oresgyn yr her hon, gwnaed pob ymdrech i ddarllen awduron o'r gwledydd dan sylw ac o wahanol ranbarthau o fewn pob gwlad yn Saesneg. Fodd bynnag, nid oes unrhyw reswm *a priori* pam nad yw cael eu geni mewn man penodol yn golygu y dylai dealltwriaeth materol hanesyddol o'r rhanbarth fod yn waeth o gwbl (tra'n cydnabod y gallai eu dealltwriaeth o ddiwylliant fod yn ddiffygiol). Wedi'r cyfan, rydym ni yng Nghymru

yn cyfeirio'n barhaus at academyddion fel Michael Hechter ac Alfred Zimmern (dau Americanwr) ar wleidyddiaeth Cymru. Nid yw herio eu gwaith ar yr amod nad ydynt yn siarad Cymraeg – yn hytrach nag ar gynnwys eu gwaith – yn ymddangos yn ymarfer arbennig o ffrwythlon.

Mae'r traethawd ymchwil hwn wedi'i ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid oes y fath beth â chyfieithiad uniongyrchol rhwng ieithoedd. Mae idiomau, er enghraifft, yn seiliedig ar y realiti hanesyddol a materol(!) sy'n bodoli mewn man penodol. Yr un yw'r ddadl gyffredinol yn y ddau draethawd, ond bydd gan y ddau eu pwyntiau eu hunain o bwyslais. Nid oedd yn achos o gwblhau mewn un iaith a chyfieithu i'r llall, ond yn hytrach cyfieithu yn ôl adran. Byddai achlysuron yn codi tra byddai syniadau newydd yn dod i'r meddwl tra'n cyfieithu a fyddai wedyn yn cael eu cynnwys yn yr iaith arall. Mae'n well gennyf felly edrych ar y ddau draethawd ymchwil fel sgwrs â'i gilydd, yn hytrach nag un yn ddynewarediad o'r llall.

I gloi'r cyflwyniad, bydd y traethawd ymchwil hwn yn parhau fel a ganlyn:

- Adolygiad llenyddiaeth o Ddamcaniaeth Dibyniaeth.
- Adolygiad llenyddiaeth o Ddadansoddiad Systemau'r Byd, a fframio cysyniadol o'r system-fyd heddiw. Bydd hyn yn cynnwys diffinio gwledydd y craidd, y perifferi, a'r lled-berifferi. Dilynir hyn gan gymhwyso'r ddau ddadansoddiad mewn cyd-destun Ewropeaidd.
- Dadansoddiad o ddatblygiad gwladwriaethol yn Ewrop ac integreiddio Ewropeaidd.
- Dadansoddiad o bob astudiaeth achos yn ei thro.
- Ymchwiliad cymharol i'r astudiaethau achos i nodi ba ffactorau sydd yn arwyddocaol er mwyn esbonio datblygiad economaidd neu danddatblygiad, amlygrwydd cenedlaetholdeb gwleidyddol, a safle o fewn y system-fyd.

- Casgliadau a llwybrau posibl ar gyfer pob astudiaeth achos i wella eu safle o fewn y system-fyd.

## II. Damcaniaeth Dibyniaeth

Daeth Damcaniaeth Dibyniaeth i fodolaeth yn benodol o ganlyniad i, ac ar gyfer, y gwledydd sydd ar y perifferi. Yn gyffredinol, daeth America Ladin - a Chile yn enwedig - yn ganolbwynt ar gyfer Damcaniaethwyr Dibyniaeth yn y chwedegau a'r saithdegau. Roedd y *Centro de Estudios Socio-Economicos* (CESO) ym Mhrifysgol Chile wrth galon y traddodiad newydd hwn, gydag academyddion fel Andre Gunder Frank, Theotonio dos Santos, Ruy Marini, Eric Hobsbawm, Alan Touraine, Paul Sweezy, a Fernando Henrique Cardoso yn gweithio yno yn ystod cyfnod byr o chwe blynedd cyn cau'r ganolfan ar ôl coup Augusto Pinochet ym 1973. Oherwydd yr anghydraddoldeb a diffyg datblygiad oedd yn parhau i fodoli o fewn a rhwng gwladwriaethau, dechreuodd damcaniaethwyr dibyniaeth ail asesu damcaniaethau economaidd traddodiadol megis Damcaniaeth Moderneiddio.

Mewn Damcaniaeth Dibyniaeth, mae'r geiriau "datblygiad" a "tanddatblygiad" yn cyfeirio at safle strwythurol, systemig lle, yn hytrach na dyfarniadau gwerth 'cadarnhaol' neu 'negyddol'. Defnyddir y term "datblygiad" i ddynodi bod gan rai lleoedd mwy o rym cynhyrchiol a mwy o gyfalaf cronedig. Nid yw bod yn "ddatblygedig" yn y cyd-destun hwn yn golygu bod lle yn decach nac yn fwy egalitariaidd, y cyfan y mae'n ei olygu yw bod lle yn meddu ar yr offerynnau cyfalaf sy'n gwneud lle yn "ddatblygedig". Fel y dywedodd Cardoso a Faletto (1999, t. xxiii):

*By development, in this context, we mean "capitalist development." This form of development, in the periphery as well as in the centre, produces as it evolves, in a cyclical way, wealth and poverty, accumulation and shortage of capital, employment for some and unemployment for others. So, we do not mean by the notion of "development" the achievement of a more egalitarian or more just society. These are*

*not consequences expected from capitalist development, especially in peripheral economies.* (1999, p. xxiii)

## Y Craidd a'r Perifferi mewn Damcaniaeth Dibyniaeth

Mae'n bwysig cychwyn drwy ddiffinio'r hyn a olygir wrth 'graidd' a 'pherifferi'. Ymddengys y termau'n ddigon rhwydd i'w deall, ond mae'n bwysig nodi eu bod yn diffinio prosesau penodol iawn. Ceir diffiniad da gan Clelland (2012, tt. 199-200):

*foundational thinkers envisioned core and periphery as relationships of surplus transfer, not as geographical or national categories. Frank conceived the modern world-system to be a hierarchy of core-periphery complexes, in which surplus is being transferred. Wallerstein defines core and periphery in terms of the transfer of part of the total profit (or surplus) from one zone to another. By extension, we call the losing zone a 'periphery' and the gaining zone a 'core.' He insists that we should define core as those who are living off the surplus value produced by others and periphery as those who are not retaining all of the surplus value they are producing. Wallerstein is convinced that core growth derived from these surplus drains. The shift of surplus towards the core concentrated capital there and made available disproportionate funds for further mechanization, both allowing producers in core zones to gain additional competitive advantages in existing products and permitting them to create ever new rare products with which to renew the process.*

Yn unol â'r model craidd-perifferi, dylid ystyried datblygiad a thanddatblygiad fel termau cysyniadol; mae datblygiad un lle wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â thanddatblygiad man arall ac i'r gwrthwyneb.

Un o ddamcaniaethwyr cynharaf Damcaniaeth Dibyniaeth oedd Paul Baran (1957) a oedd yn dadlau bod treiddiad cyfalafiaeth i wledydd ar y perifferi yn rhwystro eu datblygiad. Yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, a'r ail ganrif ar bymtheg - cyfnod cynnar cyfalafiaeth orllewinol - gosododd gwladwriaethau craidd megis yr Iseldiroedd a'r Deyrnas Unedig rwystrau masnachol i hybu twf eu mentrau cyfalafol anaeddfed. Canolbwyntiodd diwydiannau ar farchnadoedd mewnol nes eu bod yn ddigon aeddfed i gystadlu â chwmnïau tramor. Ar y perifferi, roedd cyfalafwyr o dramor yn boddi'r farchnad gartref, a chwympodd diwydiannau brodorol oherwydd nifer y cynhyrchion rhatach o dramor. Felly nid oedd y cam pwysig o feithrin diwydiant anaeddfed yn drywydd polisi dichonadwy ar gyfer gwladwriaethau ar y perifferi. Fel yr awgryma Reinert a Reinert (2005, tt. 9-10):


*we would argue that adherence to the above principle [protectionism] has been a mandatory passage point for all nations progressing from poor to rich, including Korea in the 1960s and 70s. When classical and neoclassical economics disallowed de jure or de facto colonies from following this principle, they were, as Friedrich List put it 'kicking away the ladder' that they themselves had used to climb to wealth (pwyslais yn y gwreiddiol).*

Trafododd Harley (2004, t. 12) rôl diffyndollaeth (protectionism) mewn cyd-destun Prydeinig a dadleuodd ei bod yn safbwynt polisi angenrheidiol i ganiatáu diwydiannau Prydain i ddatblygu:

*The mid-seventeenth-century British Navigation Acts were designed to protect British shippers from Dutch competition — at that time the world's leading commercial and shipping economy. The Acts stipulated that goods from Asia, Africa and America could be imported into Britain and her possessions only in British ships. Imports from European ports could only be carried by British ships or ships of the country of the imports' origin. Further certain "enumerated" colonial staples — particularly sugar, tea, and tobacco — had to be shipped to a British port, even if their ultimate market was elsewhere and colonial imports of European goods had to pass*

*through a British port. The acts certainly created artificial ties between the colonies and Britain and British shipowners and merchants expanded under the shelter they provided from competition from more efficient Dutch competitors.*

Daeth Israel (1989) a Davis (1975, tt. 31-32) i gasgliadau tebyg. Yn wir, dadleuodd Davies wrth gyfeirio at Ddeddf Mordwyo 1651 mai hyn oedd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth diffynnaeth a'i fod wedi aros wrth galon polisi morwrol Lloegr am bron i ddwy ganrif. I gefnogi'r farn hon, mapiodd Albert Imlah (2013, t. 121) refeniw tariff dros amser fel canran o werth mewnforyn argadwedig. Mae'r ffigur isod yn awgrymu bod diffyndollaeth drwy dariffau yn ffactor pwysig o ran tyfu economi Prydain ac amddiffyn diwydiant Prydain cyn y chwyldro diwydiannol.



*Ffigur 5: Refeniw Tariff fel canran o werth y mewnforyn a gedwir ym Mhrydain. Ffynhonnell: (Imlah, 2013, t. 121).*



## 'Datblygiad' mewn modd Tanddatblygedig

Ategodd Andre Gunder Frank (1966) at waith Paul Baran a Damcaniaeth Dibyniaeth drwy ddiffinio cysyniad a alwodd "the development of underdevelopment". Roedd gwaith Frank yn cynnwys sawl damcaniaeth graff. Yn gyntaf nododd - yn wahanol i Ddamcaniaeth Moderneiddio - nad oedd diffyg datblygiad ar y perifferi o ganlyniad i ddiffyg datblygiad hanesyddol, ac nad oedd y rhanbarthau hyn yn llai 'modern' na'u cymheiriaid craidd. Yn hytrach, honnodd bod eu *tanddatblygiad* yn ffurf benodol ar *ddatblygiad* a ddaeth i fodolaeth oherwydd camfantais, ystumiad strwythurol ac ataliad polisiâu ymreolaethol (Chase-Dunn, 1975, p. 722). Dadansoddodd Frank (1966, p. 18) y berthynas rhwng tanddatblygiad a datblygiad a sut mae *tanddatblygiad* yn wahanol i *annatblygiad*, gan nodi:

*the now developed countries were never underdeveloped, though they may have been undeveloped. ... Contemporary underdevelopment is in large part the historical product of past and continuing economic and other relations between the satellite underdeveloped and the now developed metropolitan countries.*

Caiff y prosesau o ecsbloetio a gwyrddroi strwythurol a nodwyd gan Frank eu llunio mewn myrdd o ffyrdd. Dadleuodd fod 'buddsoddiad' tramor yn y perifferi yn dwyn elw o'r perifferi ac yn ei symud i'r craidd. Mae hyn yn cyd-fynd â syniad Myrdal (1957) o effeithiau adlifol (backwash). Galwodd Samir Amin (1974) y broses hon yn datgyfalafu (decapitalisation); byddai cwmnïau lleol yn ailgyflwyno rhywfaint o'u helw yn ôl i'r system ar ffurf well offer a gwelliant yng ngrymoedd cynhyrchiol cymdeithas, fodd bynnag, mae elw cwmnïau rhyngwladol yn dychwelyd yn ôl i'r craidd.

Mae Arghiri Emmanuel (1972) yn dadlau bod yr anghyfartaledd a'r ecsbloetio rhwng y craidd a'r perifferi i'w ganfod ym mhrisiau'r nwyddau sy'n cael eu cyfnewid rhwng y craidd a'r perifferi. Galwodd y broses hon yn "Unequal Exchange"

(Cyfnewid Anghyfartal). Yn ei farn ef, mae anghydraddoldeb yn ei hanfod yn deillio o'r strwythurau cyflog gwahanol yn y wlad graidd a'r perifferi. Er enghraifft, pe bai cynhyrchiant yr un fath yn y craidd a'r perifferi, byddai gwahaniaeth o ran gyflog yn golygu gallai gymryd ddwywaith yr amser i weithiwr yn y perifferi gynhyrchu nwydd a fyddai'n cael eu cyfnewid am yr un pris â nwydd a gynhyrchwyd gan weithiwr yn y craidd. Mae prisiau'r farchnad, felly, wrth gyfnewid nwyddau rhwng y craidd a'r perifferi yn cynnwys trosglwyddiad gwerth yn ôl i'r craidd.

Ymchwiliodd Hickel et al. (2021, t. 13) a oedd cyfnewid anghyfartal - yn ôl diffiniad Emmanuel - yn realiti o ran masnach rhwng y Gogledd a'r De byd-eang heddiw. Yn eu barn nhw:

*drain from the global South remains a significant feature of the world economy in the post-colonial era. 'Advanced economies' rely on unequal exchange to facilitate their economic growth and to sustain high levels of income and material consumption. In recent years, the drain has amounted to around \$2.2 trillion per year (constant 2011 dollars) in Northern prices, or \$1.3 trillion per year in global average prices, when calculated according to exchange rate differentials. The intensity of exploitation and the scale of unequal exchange increased significantly during the structural adjustment period of the 1980s and 1990s. These patterns of appropriation through North–South trade are a major driver of global inequality and uneven development.*

## Datblygiad Afluniaidd

Mae damcaniaethwyr dibyniaeth yn dadlau bod y math o strwythur economaidd sy'n dod i fodolaeth mewn gwladwriaethau'r perifferi wedi'i ystumio, oherwydd eu safle yn rhaniad llafur y byd. Dadleuodd Theotonio Dos Santos (1970) fod gorddibyniaeth ar y sector allforio yn cyfyngu ar ddatblygiad y farchnad fewnol, gan felly gadw cysylltiadau tanddatblygedig o gynhyrchu. Dadleuodd ymhellach

fod y farchnad ryngwladol yn fonopoli, a bod hyn yn tueddu i ostwng pris deunyddiau crai a chodi pris cynhyrchion diwydiannol. Gwaethygir hyn ymhellach oherwydd gallu gwladwriaethau craidd i greu deunyddiau crai synthetig mewn rhai achosion. Gall y deunyddiau synthetig hyn gynnwys llifynnau a ffabrig yn y diwydiant tecstilau (Muthu a Gardetti, 2020), deunyddiau synthetig petrocemegol megis polyfinyl a polyester (Swift, 1998) a rwberi synthetig (Thirwall a Bergevin, 1985).

Oherwydd y gwahaniaeth mewn pris rhwng deunyddiau crai a chynhyrchion diwydiannol, ceir cydbwysedd masnach anffafriol i'r wlad ddibynnol. Yn ogystal, oherwydd diffyg cyfalaf ar ffurf peiriannau a diffyg arbenigedd yn y wlad ddibynnol, mae cwmnïau rhyngwladol yn cynnig eu gwasanaethau yn gyfnewid am yr hawl i werthu'r deunydd crai. Felly:

*foreign capital retains control over the most dynamic sectors of the economy and repatriates a high volume of profit; consequently, capital accounts are highly unfavourable to dependent countries. The data show that the amount of capital leaving the country is much greater than the amount entering; this produces an enslaving deficit in capital accounts (Dos Santos, 1970, t. 233).*

Dadleuodd Hickel et al. (2021, t. 14) fod y rhan fwyaf o ddiwydiannau allforio'r De byd-eang yn ddibynnol ar dechnolegau a ddarperir gan gyfalaf tramor. Mae gwledydd yn rhydd i beidio â masnachu â gwledydd craidd, ond gall hyn arwain at hyd yn oed ragor o anghydraddoldeb, gan na allant gael mynediad at y technolegau a'r adnoddau a reolir gan gyfalaf monopoli Gorllewinol. Mae hyn yn ei hanfod yn maglu gwledydd dibynnol mewn sefyllfa anffafriol; eu hunig opsiynau yw ildio i gysylltiadau masnach anghyfartal â chyfalaf gorllewinol neu dderbyn nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg angenrheidiol (Köhler, 1998, t. 167).

Fel y dangosodd Dos Santos uchod, mae yna esiamplau o feysydd deinamig o'r economi o fewn gwladwriaethau tanddatblygedig a dibynnol. Fodd bynnag,


gwaethygir y datblygiad cyfalafol anwastad, gan Fuddsoddiadau Uniongyrchol o Dramor (FDI) mewn sectorau bach, arbenigol yn unig. Mae'n bosibl i dwf deinamig ddigwydd yn y sector uniongyrchol ond mae hyn ar draul sectorau eraill. Effaith hyn yw cynyddu incwm anghyfartal oherwydd nifer y swyddi â chyflogau uwch mewn sectorau cyfyng o'r economi (Bornschieer et al., 1978, t. 665). Er bod damcaniaethau o newid economaidd (theories of economic change) a arddelir gan awduron fel Nelson a Winter (1973) (1975) yn werthfawr o ran egluro sut mae cwmnïau penodol yn penderfynu pa sectorau y maent yn eu hariannu ar gyfer arloesi, nid ydynt yn cyfrif am yr anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng rhanbarthau a sut mae hyn yn effeithio ar penderfyniadau buddsoddi. Hynny yw, maent yn trin rhanbarthau fel rhai gweithredol yn unig, yn hytrach na'u lleoli o fewn cysylltiadau camfanteisiol ac anghydraddoldeb.

Sylwodd Myrdal (1970, t. 280) ar y tueddiadau hyn a dadleuodd fod "growing point" – neu "growth pole" (Perroux, 1955) – yn denu busnesau, llafur 'sgiliau uwch', a chyfalaf. Mae'r system, ynghyd ag effeithiau adlif yn cadw cyflogau a gwasgariad cyfalaf yn isel mewn rhannau eraill o'r wlad. Dywedodd Myrdal fod y ddamcaniaeth hon yn cael ei chadarnhau gan y ffaith bod gan wledydd annatblygedig fwy o anghydbwysedd incwm na gwledydd datblygedig. Mae'r system hon yn ail-greu ei hun oherwydd diffyg cynyddol yn y fantol daliadau, sydd yn ei dro yn arwain at fwy o ddibyniaeth a mwy o ecsbloetio. Gan ddefnyddio data Banc y Byd, mae'n bosibl mapio cyfernod anghydraddoldeb incwm Gini o fewn gwladwriaethau. Gan gymryd y data diweddaraf sydd yn bodoli ar gyfer pob gwlad, daw'r patrwm yn ffigur 6 i'r amlwg. Mae'n bwysig nodi nad yr un peth yw anghydraddoldeb cyfoeth ac anghydraddoldeb incwm, ac mae'n bosibl bod anghydraddoldeb cyfoeth yr un mor amlwg yn y gogledd byd-eang ag yw yn y de. Fodd bynnag, o ran anghydraddoldeb incwm, mae tueddiad cyffredinol sy'n dangos bod y de byd-eang yn fwy anghyfartal na'r gogledd byd-eang. Rhai o'r eithriadau i'r rheol yw'r gwledydd hynny sydd gyda, neu wedi cael, llywodraethau sosialaidd yn

y gorffennol diweddar. Mae'r enghreifftiau hyn yn cynnwys gwladwriaethau megis Belarus, Slofenia, Kazakstan, a Mongolia.<sup>6</sup>

---

<sup>6</sup> Mae'n gwbl bosibl nad yw hanes o fodolaeth o dan system sosialaidd yn amod angenrheidiol na digonol er mwyn cael ddisbarthiad incwm mwy cyfartal, mae dadansoddiad o'r fath tu allan i gwmpas y traethawd ymchwil hwn. Fodd bynnag, mae cipolwg ar y dystiolaeth yn awgrymu bod rhywfaint o gydberthynas o leiaf rhwng y math o lywodraeth a chydreddoldeb incwm.



*Ffigur 6: Gwerthoedd Cyfernod Gini. Gwaith yr Awdur. Ffynhonnell Data: (World Bank, 2023).*

Dadansoddodd Andre Gunder Frank (1969) arwyddion ffisegol datblygiad afluniaidd. Yn ei farn ef, nid yw lleoli seilwaith, megis ffyrdd, rheilffyrdd, a phorthladdoedd mewn gwledydd dibynnol yn dilyn yr un rhesymeg swyddogaethol ac mewn gwledydd datblygedig, oherwydd bod economïau gwledydd dibynnol yn canolbwyntio mwy ar allforio. Mewn gwledydd dibynnol, mae seilwaith yn bodoli er mwyn symud deunyddiau crai allan o'r wlad a dod â nwyddau â gwerth ychwanegol i mewn, yn hytrach nag integreiddio'r farchnad fewnol ac economi'r wladwriaeth. Roedd hyn yn golygu bod effeithiau lledaeniad (spread) (Myrdal, 1957) yn cael eu lleihau gan na fyddai cynnydd mewn galw mewn un rhan o'r economi yn meithrin twf mewn rhan arall. Mae strwythur economaidd gwladwriaethau dibynnol yn golygu eu bod yn cael eu cadw mewn cyflwr o wrthddywediad: cânt eu hintegreiddio i economi'r byd-eang trwy allforio deunyddiau crai a mewnfario nwyddau defnyddwyr, ond mae eu heconomïau mewnol yn parhau i fod yn dameidiog ac yn anghyflawn.

## Beirniadaeth

Mae beirniaid Damcaniaeth Dibyniaeth wedi dadlau ei bod yn rhy benderfyniaethol ei natur, lle mae'r ddamcaniaeth yn awgrymu bod gwledydd ymylol wedi'u tynghedu i fod yn danddyblygedig yn barhaus (Lal, 2000). Ymhellach, beirniadir y ddamcaniaeth am or-bwysleisio ffactorau allanol ar draul ffactorau mewnol. Mae materion mewnol fel llygredd a llwgrwobrwyo, sefydliadau aneffeithlon, a llywodraethu gwael hefyd yn chwarae rhan wrth rwystro datblygiad (Warren, 2020). Er ei bod yn wir bod Damcaniaeth Dibyniaeth yn pwysleisio cyfyngiadau strwythurol, nid ydynt yn gwadu'r posibilrwydd o asiantaeth. Dylid deall bod strwythur ac asiantaeth yn rhedeg ar hyd continwmm, lle mae strwythur yn cyfyngu ar benderfyniadau posib ac asiantaeth, ond nid yw'n pennu canlyniadau ymlaen

llaw. Y ddadl yw y gall gwledydd ddatblygu drwy mordwyo'r system economaidd fyd-eang yn strategol, ond bod y system hon yn gosod cyfyngiadau ar y penderfyniadau sydd ar gael i wledydd ymylol. Yn ogystal, mae hyn yn esbonio er bod ffactorau mewnol yn amlwg yn bwysig i ddatblygiad economaidd, mae'r materion hyn yn cael eu gwaethygu gan ddibyniaeth allanol. Mae datblygiad yn bosibl, ond o fewn fframwaith o ddibyniaeth sydd yn dod â'i wrthddywediadau a'i heriau ei hun. I gloi, mae lle i weithredu strategol ac asiantaeth, ond o fewn cyfyngiadau strwythurol y system ehangach.

Mae Damcaniaeth Dibyniaeth yn parhau i fod yn berthnasol fel offeryn dadansoddol oherwydd ei fod yn amlygu anghydraddoldebau strwythurol a deinameg gymhleth cyfalafiaeth fyd-eang sy'n effeithio ar wledydd sy'n datblygu. Mae'n parhau i fod yn berthnasol i ddadansoddi'r ddibyniaeth barhaus ar nwyddau ac anweddolrwydd prisiau, ymelwa ar lafur ar waelod cadwyni cyflenwi byd-eang, dibyniaeth ar ddyledion, anghydbwysedd masnach, a rhwystrau i dechnoleg.



### III. Dadansoddiad Systemau'r Byd

Yn gronolegol ac yn gysyniadol, adeiladodd Dadansoddiad Systemau'r Byd ar waith Damcaniaethwyr Dibyniaeth flaenorol. Nod dadansoddwyr systemau'r byd oedd allosod (*extrapolate*) y perthnasoedd dibynnol rhwng gwledydd fel y'i dadansoddwyd gan y *Dependistas*, a'i droi'n ddadansoddiad byd-eang. Fe wnaeth Dadansoddiad Systemau'r Byd ymhelaethu ar ddimensiwn gofodol dibyniaeth. Yn hyn o beth, mae'r traethawd ymchwil hwn yn parhau â gwaith Edward Soja a Costis Hadjimichalis (1979) wrth ddadansoddi a chynnig eglurder ar yr hyn a elwir yn "spatial problematic". Dyma'r canfyddiad bod gofod ffisegol yn cynnwys cysylltiadau cynhyrchu a'i fod wedi'i strwythuro gan raniad tiriogaethol llafur. Gofod cymdeithasol yw'r man lle mae cysylltiadau a gwrthdaro dosbarth yn cael eu cynhyrchu a'u hatgynhyrchu. Roedd Marx (1970 [1845], p. 245) yn ymwybodol iawn o ddimensiwn daearyddol cysylltiadau a gwrthdaro dosbarth, gan nodi mai:

*the foundation of every division of labour that is well developed, and brought about by the exchange of commodities, is the separation between town and country.*

Ymhelaethodd Engels trwy ddweud "the abolition of the antithesis between town and country is no more and no less utopian than the abolition of the antithesis between capitalists and wage workers" (wedi'i ddyfynnu yn Borodulina, 1972, t. 158). Arweiniodd hyn at Nairn (1975, t. 10) i ddadlau y gellid ystyried y perifferi byd-eang fel cefn gwlad y byd, a'r craidd fel dinas y byd. Archwiliodd Raymond Williams (2021, t. 1) i'r gwahaniaethau rhwng gwlad a thref o fewn ein cyd-ddealltwriaeth. Dadleuodd:

*'Country' and 'city' are very powerful words, and this is not surprising when we remember how much they seem to stand for in the experience of human communities. In English, 'country' is both a nation and a part of a 'land'; 'the country' can be the whole society or its rural area. In the long history of human settlements, this*

*connection between the land from which directly or indirectly we all get our living, and the achievements of human society has been deeply known. ... On the country has gathered the idea of a natural way of life: of peace, innocence, and simple virtue. On the city has gathered the idea of an achieved centre of learning, communication, light. Powerful hostile associations have also developed: on the city as a place of noise, worldliness, and ambition; on the country as a place of backwardness, ignorance, limitation. A contrast between country and city, as fundamental ways of life, reaches back into classical times.*

Mae Marx ac Engels felly yn tynnu sylw at y ffaith nad yw rhaniad gofodol llafur yn broses ar wahân i wrthdaro dosbarth ond ei fod yn gorwedd o fewn eu cysyniad o raniad llafur, tra bod Raymond Williams yn amlygu deinameg diwylliannol y termau hyn (Smith, 2010, t. 135). Galwodd Soja (1989, t. 78) y cysylltiad rhwng y craidd a'r perifferi ar y naill law a chysylltiadau dosbarth ar y llaw arall yn "dialectically inseparable" tra dadleuodd Ernest Mandel (1976, t. 43) fod datblygiad anghyfartal rhwng rhanbarthau a chenhedloedd yw hanfod cyfalafiaeth, ar yr un lefel ag ymelwa ar lafur trwy gyfalaf. Dyma fan cychwyn Dadansoddiad Systemau'r Byd; bwriad y dadansoddiad yw ailgyflwyno agweddau gofodol cyfalafiaeth, cysylltiadau dosbarth, ac anghydraddoldeb.

Efallai mai Immanuel Wallerstein (2011, t. 229) yw dehonglwr mwyaf adnabyddus dadansoddiad systemau'r byd, ac mae'n werth dyfynnu ei ddiffiniad o system-fyd:

*A world-system is a social system, one that has boundaries, structures, member groups, rules of legitimation, and coherence. Its life is made up of the conflicting forces which hold it together by tension and tear it apart as each group seeks eternally to remould it to its advantage. It has the characteristics of an organism in that it has a lifespan over which its characteristics change in some respects and remain stable in others. One can define its structures as being at different times strong or weak in terms of the internal logic of its functioning. What characterizes a social system in my*

*view is the fact that life within it is largely self-contained, and that the dynamics of its development are largely internal.*

Felly nid yw systemau-byd yn benodol i gymdeithas gyfalafol na'r cyfnod modern. Cyn i Ewrop 'ddarganfod' yr Americas byddai wedi bod yn bosibl meddwl am system-fyd Mesoamericaidd, neu system-fyd yr Ymerodraeth Rufeinig. Er gwaethaf dryswch ieithyddol felly, nid oes rhaid i system-fyd gwmpasu'r byd i gyd, ond yn hytrach fod yn system gymdeithasol lle mae bywyd oddi mewn iddi yn hunangynhaliol i raddau helaeth. Mae dadansoddiad Wallerstein fod systemau-byd yn hunangynhwysol *ar y cyfan*, a bod deinameg eu datblygiadau yn fewnol *i raddau helaeth* yn creu peth cymhlethdod. Mae defnyddio "ar y cyfan" ac "i raddau helaeth" yn amlwg yn arwain at beth aneglurder wrth ddewis yr uned ddadansoddi briodol ar gyfer system-fyd. Mae ystyried a yw cyfandir Ewrop yn system-fyd ar wahân yn dibynnu ar ddyfarniad gwerth o'r cysyniadau yma a'r cyfnod hanesyddol sydd dan sylw. Cyn 1492, efallai mai'n bosibl sôn am system-fyd Ewropeaidd - neu system-fyd Mediteranaidd - ond efallai ar ôl y cyfnod hwn ei bod hi'n fwy addas i drafod y system-fyd gyfalafol.<sup>7</sup>

## Mathau o Systemau-Byd

Dadleuodd Wallerstein bod dau fath o system-fyd: ymerodraethau-byd ac economïau-byd. Mewn ymerodraethau-byd, mae un system wleidyddol yn ymestyn dros y rhan fwyaf o'r system-fyd; mae system-fyd yr Ymerodraeth Rufeinig yn enghraifft o ymerodraeth-fyd.<sup>8</sup> Diffinnir systemau-byd lle nad oes un system wleidyddol fel economïau-byd. Mae'r system-fyd fodern yn economi fyd-eang, sydd

---

<sup>7</sup> Bydd pwysigrwydd 1492 a'r rhesymeg dros hyn fel cychwyniad y system-fyd presennol yn cael ei drafod yn hwyrach.

<sup>8</sup> Mae Wallerstein yn cyfaddef efallai bod pŵer yr ymerodraeth ddim yr un peth ar draws bob ardal.

bellach yn ymestyn dros y byd i gyd. Erbyn y 19eg Ganrif, o ganlyniad i'r gwelliant mewn technolegau trafndiaeth a chyfathrebu ymestynnwyd y system-fyd, gan olygu bod system-fyd wirioneddol fyd-eang yn bodoli.

Cyn i systemau-byd fod yn systemau byd-eang, roeddent wedi'u cyfyngu gan ffiniau gofodol a daearyddol llawer mwy nag sy'n bodoli heddiw. Wrth drafod masnach a cham-fanteisio cyn-gyfalafol, dadleuodd Meiksins Wood (2002, t. 84) bod:

*these disjunctions and imbalances [between rich and poor] were, needless to say, reinforced by the basic practicalities of transport and communication. The whole system, indeed, was based on the fragmentation of markets, detachment of one market from another, the distance between sites of production and sites of consumption, the geographic separation of supply and demand. Mercantile wealth dependent precisely on the relative inaccessibility of markets and the possibility of profiting from an endless process of arbitrage between fragmented markets.*

Yn ei hanfod, roedd natur fwy cyfyngedig yr economi cyn-gyfalafol yn rhagofyniad ar gyfer yr amodau masnach benodol, y cysylltiadau eiddo, a'r cysylltiadau cynhyrchu oedd yn bodoli.

Mae'n amhosibl rhoi un dyddiad pendant i ddechreuad y system-fyd fodern gan mai proses, yn hytrach nag digwyddiad yw hi. Fodd bynnag, mae gwreiddiau cyfalafiaeth – ac felly'r system-fyd bresennol – i'w canfod yn y digwyddiadau ar ôl 1492, ac yn y 16eg Ganrif yn benodol. I ddyfynnu Meiksins Wood (2002, t. 98):

*Now, obviously, the long and complex historical processes that ultimately led to this condition of market dependence could be traced back indefinitely. But we can make the question more manageable by identifying the first time and place that the new social dynamic of market dependence is clearly discernible. ... We [have] considered the nature of pre-capitalist trade and the development of great commercial powers that flourished by availing themselves of market opportunities without being systematically subjected to market imperatives. Within the pre-capitalist European*

*economy, there was one major exception to the general rule. England, by the sixteenth century, was developing in wholly new directions.*

Mae Meiksins Wood o'r farn bod y gwahanol amodau yn Lloegr<sup>9</sup> o ganlyniad i'r tueddiadau canlynol: undod gweinyddol a gwleidyddol cryf Lloegr wedi'i ganoli o dan frenhiniaeth ers yr unfed ganrif ar ddeg, trafndiaeth hygyrch drwy ffyrdd ac ar ddŵr, a darnau mawr o dir yn nwylo'r aristocratiaid, yn hytrach na thir comin. Arweiniodd hyn at strwythur cymdeithasol gwahanol o ffermwyr tenant yn hytrach na nifer fawr o werinwyr fel oedd yn bodoli ar gyfandir Ewrop.<sup>10</sup> Roedd hyn yn golygu bod yr aristocratiaid a'r tenantiaid yn gorfod cynyddu cynhyrchiant llafur er mwyn cael gwerth ychwanegol (surplus value).

*The effect of this system of property relations was that many agricultural producers became market-dependent in their access to land itself, to the means of production. Increasingly, as more land came under this economic regime, advantage in access to the land itself would go to those who could produce competitively and pay good rents by increasing their own productivity. This meant that success would breed success, and competitive farmers would have increasing access to even more land, while others lost access altogether*  
(Wood, 2002, t. 100-101).

Wrth ddiffinio trefn gymdeithasol, dulliau cynhyrchu, a systemau-byd, mae Amin (1974, t. 72) yn gwneud cyfraniad pwysig iawn. Yn y gymdeithas gyn-gyfalafol roedd sawl trefn gymdeithasol yn bodoli fel cymdeithasau caethwasiaeth, cymdeithasau teyrngedol (tributary societies), cymdeithasau ffiwdal, ac yn y blaen, a gallai'r trefniadau cymdeithasol a'r dulliau cynhyrchu hyn fodoli ar y cyd yn yr un cyfnod, er ei bod yn bosibl i un system ddatblygu'n gryfach. Fodd bynnag, mae'r dull cyfalafol o gynhyrchu yn wahanol:

---

<sup>9</sup> Mae Wood yn trafod yr amodau yn Lloegr, yn hytrach na Phrydain ac mae hyn yn glir yn ei gwaith.

<sup>10</sup> Mi fydd hwn yn cael ei ddandansoddi yn fwy fanwl yn y penawdau i ddod.

*While precapitalist formations are characterized by a stable co-existence of different, inter-connected and graded modes [of production], the capitalist mode destroys the others: It has a tendency to become exclusive. The condition of the tendency to exclusiveness is that it is based on the widening and deepening of the internal market (this applies to central capitalist formations and not to peripheral formations). In the peripheral formations, it will be seen that the dominant capitalist mode subdues and transforms the others: it disfigures them, deprives them of their functionality and subjects them to its own, without however radically disintegrating and destroying them.*

Mae hyn yn arwain at ddau bwynt sylfaenol. Yn gyntaf, efallai bod cyfalafiaeth wedi dechrau yn ei ffurf embryonig ar ôl 1492, ond ni sefydlwyd ei goruchafiaeth tan yn ddiweddarach, yn ôl pob tebyg ar ddechrau'r chwyldro diwydiannol. Yn ail, ac yn wahanol i gyfnodau cynharach, mae'r dull cyfalafol o gynhyrchu yn effeithio ar bob system gymdeithasol; mae'n absoliwt, yn wahanol i systemau cynharach.

## Daearyddiaeth a'r System-Fyd

Heddiw, mae rhaniad llafur yn bodoli o fewn y system-fyd modern, ac mae'r rhaniad hwnnw "is not merely functional – that is, occupational – but geographical. That is to say, the range of economic tasks is not evenly distributed throughout the world-system" (Wallerstein, 2011, t.230). Wrth wraidd Dadansoddiad Systemau'r Byd, mae'r syniad o raniad llafur byd-eang (Bornschier, 1983, t. 11). Mae hierarchaeth ofodol-economaidd yn bodoli lle mae'r byd wedi'i rannu'n graidd, perifferi, a lled-berifferi, ac mae gan bob un rôl a swyddogaeth benodol.

Mae'n bwysig nodi na allwn *a priori* gymryd yn ganiataol bod gweithgaredd penodol yn weithgaredd craidd neu i'r perifferi. Gall unrhyw weithgaredd ddod ar adeg benodol yn weithgaredd craidd neu un o'r perifferi, ond mae gan bob un y

nodwedd honno am gyfnod cyfyngedig (Arrighi & Drangel, 1986, t. 18). Yn hyn o beth, byddai cynhyrchu tecstilau wedi cael ei ystyried yn weithgaredd craidd yn ystod y 18fed Ganrif, ond heddiw byddai'n cael ei ystyried yn weithgaredd y perifferi. Mae hyn yn dilyn yr un llwybr arloesi ag a arddelwyd gan Joseph Schumpeter. I Schumpeter (1928, tt. 376-378), dinistr creadigol (creative destruction) sy'n diffinio cyfalafiaeth; mae'n gallu ailddiffinio ac ailddyfeisio ei hun. Fel y dengys y dyfyniad hwn, mae prosesau'r craidd yn symud, yn newid ac yn datblygu'n barhaus:

*For expansion is no basic fact, capable of serving in the role of a cause, but is itself the result of a more fundamental "economic force," which accounts both for expansion and the string of consequences emanating from it. This is best seen by splitting up the comprehensive phenomenon of general industrial growth into the expansion of the single industries it consists of. If we do this for the period of predominantly competitive capitalism, we meet indeed at any given time with a class of cases in which both entire industries and single firms are drawn on by demand coming to them from outside and so expanding them automatically; but this additional demand practically always proceeds, as a secondary phenomenon, from a primary change in some other industry-from-textiles first, from iron and steam later, from electricity and chemical industry still later-which does not follow, but creates expansion. It first - and by its initiative -expands its own production, thereby creates an expansion of demand for its own and, contingent thereon, other products, and the general expansion of the environment we observe - increase of population included - is the result of it, as may be visualised by taking any one of the outstanding instances of the process, such as the rise of railway transportation. The way by which every one of these changes is brought about lends itself easily to general statement: it is by means of new combinations of existing factors of production, embodied in new plants and, typically, new firms producing either new commodities, or by a new, i.e. as yet untried, method, or for a new market, or by buying means of production in a new*

*market. What we, unscientifically, call economic progress means essentially putting productive resources to uses hitherto untried in practice, and withdrawing them from the uses they have served so far. This is what we call "innovation" (pwyslais yn y gwreiddiol).*

Datblygir y ddadl hon ymhellach gan Petruszewicz (2019, t. 18) a nododd y canlynol:

*As 'core'/'periphery' is a relational concept, one should be careful not to associate this shorthand with any permanent list of traits. 'Core'/'periphery' refers always to an unequal relation, but the inequality may be expressed in changing forms. In fact, the commodities involved in the exchange have changed dramatically over time, especially between industrial and agricultural products: what were core products would become peripheral, and vice versa. Most of the time, the 'coreness'/'peripherality' had to do with the wage and profit levels of each product as well as with degrees of technical sophistication.*

Heddiw, mae'r craidd yn arbenigo mewn rheolaeth dros gyfalaf, technoleg, ymchwil a datblygiad, a'r cynhyrchion mwyaf datblygedig a soffistigedig. Diffiniodd Chirot (1977, t. 13) y gwledydd hyn fel cymdeithasau cyfoethog, pwerus ac amrywiol yn economaidd sy'n gymharol annibynnol o reolaeth allanol. Mae'r perifferi ar y llaw arall yn fwy dibynnol ar ddeunyddiau crai, a chynhyrchu diwydiannol arferol a chyffredinol.<sup>11</sup> Maent yn gor-arbenigo yn economaidd, yn gymharol dlawd, ac mae gwladwriaethau craidd yn dylanwadu'n gryf arnynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r lled-berifferi yn gweithredu fel cyswllt rhwng y craidd a'r perifferi, yn gyffredinol mae ganddo bŵer rhanbarthol, ond nid byd-eang, ac mae tua'r canol ar y raddfa incwm.

---


<sup>11</sup> Gall deunyddiau crai fod yn sectorau economaidd pwysig i wledydd craidd hefyd; mae'r UDA yn gynhyrchydd nwy, tra bod amaethyddiaeth yn sector mawr mewn rhan fwyaf o wledydd craidd, fodd bynnag mae'r economïau hyn yn fwy amrywiol ac yn llai dibynnol ar sectorau cul o'r economi.



Mae corfforaethau rhyngwladol yn chwarae rhan bwysig yn cadarnhau'r ddeinameg hyn rhwng y craidd a'r perifferi gan eu bod yn ganolog i'r rhaniad byd-eang o lafur sy'n swyddogaethol ac yn ddaearyddol. Maent yn chwarae rhan hanfodol yn trefnu cynhyrchiant a dosbarthiad nwyddau a gwasanaethau ar draws rhanbarthau gwahanol, gan fanteisio'n aml ar wahaniaethau mewn costau llafur, amgylcheddau rheoleiddio, a gwaddolion adnoddau i wneud y mwyaf o broffidioldeb. Mae hyn yn arwain at grynodiad o rai diwydiannau a gweithgareddau economaidd mewn rhanbarthau penodol, tra bod rhanbarthau eraill yn disgyn i safleoedd ymylol o fewn yr economi fyd-eang. Er enghraifft, o ran y diwydiant ceir, mae Pavlinek (2022) wedi dangos bod cynhyrchiant diwydiannol ar gyflog isel wedi'i symud yn gyntaf i ranbarthau ymylol o fewn y gwledydd hynny sydd yn gwneud ceir, megis o Paris i Normandi a Lorraine, o gogledd i dde'r Eidal, ac o Stuttgart i Bremen, ac ati. Dilynwyd hyn gan ehangu i periffriau integredig fel Sbaen a Phortiwgal o'r 1980au, a Dwyrain Ewrop o'r 90au.

Yn ôl Chase-Dunn, Kawano, a Brewer (2000), gellir dylunio'r craidd, y perifferi, a'r lled-berifferi byd-eang fel a ganlyn isod. Mae'r modd y mae'r holl wledydd wedi'u categorioedd uchod ymhell o fod yn ddi-broblem; mae'n asesiad teg bod Rwsia wedi dychwelyd i safle ar y lled-berifferi, os bu erioed yn wlad ar y perifferi yn y lle cyntaf. Mae'n amlwg bod ei lle ar y 'perifferi' â mwy i wneud â'i arwahanrwydd gwleidyddol o graidd Gogledd yr Iwerydd a gorllewin Ewrop. Fodd bynnag, mae Iran wedi'i hynysu'n wleidyddol ac yn parhau i fod ar y lled-berifferi. Yn ogystal, mae gwledydd allforio olew y Gwlff mewn sefyllfa ryfedd; maent yn 'ddibynol' gan eu bod yn dibynnu ar allforio olew, ac eto mae'r cyfoeth enfawr sydd yn nwylo'r wladwriaeth ganolog trwy eu breniniaethau yn golygu bod ganddynt y pŵer i brynu timau chwaraeon tramor mawr, denu Cwpan y Byd Pêl-Droed, a bod yn berchen ar gwmnïau awyrennau moethus (gweler Woertz, 2012, Koch, 2020, a Hertog, 2017). Felly nid yw eu lle ar y perifferi yn ymdebygu i wledydd eraill. Yn olaf, mae categorïau de Ewrop a Thwrci yn ymddangos yn gymharol fympwyol; nid


oes modd mewn gwirionedd ystyried Portiwgal yn wlad graidd tra bod Groeg a Thwrci, heb sôn am Slofenia a Croatia yn parhau i fod yn wledydd ar y perifferi. Mae israddio Portiwgal, ac efallai Sbaen i'r lled-berifferi ac uwchraddio Groeg, Slofenia, Croatia, a Thwrci i'r lled-berifferi yn ymddangos yn asesiad tecach. Fodd bynnag, er bod Ffigur 7 wedi dyddio rhywfaint, mae'n help i osod sylfaen ar gyfer ymholiadau pellach.



Ffigur 7: Y Craidd, Perifferi a'r Lled-Berifferi yn y System-Fyd. Gwaith yr Awdur. Dosbarthiadau wedi eu cymryd o: (Chase-Dunn, et al., 2000).

## Y Perifferi yn y System-Fyd

Mae'n ymddangos yn wrthreddfol, ond mae cydberthynas gref i'r gwrthwyneb rhwng lefel datblygiad economaidd, a chyfran y sector cynradd yn yr economi (Radetzki, 2010, t. 1). Mae hyn er gwaethaf y realiti bod nwyddau sylfaenol naturiol yn angenrheidiol ar gyfer bodolaeth dyn, heb sôn am ddatblygiad. Fodd bynnag, mae Ffigur 8 yn cadarnhau bod cydberthynas negyddol o'r fath yn bodoli. Y wlad sydd yn gwrthddweud yr honiad ac sydd tuag at frig y tabl yw Norwy, a'r rheswm am hyn yw iddi ddarganfod olew ar ôl datblygu i lefel gymharol uchel.



Ffigur 8: Trawstoriad o 38 o wledydd, yn dangos cyfran y sector cynradd mewn CMC gwlad (%) a CMC y pen (\$) ar gyfraddau'r farchnad (2004). Ffynhonnell: (Radetzki, 2010, t. 2).

Mae'r gor-arbenigo mewn allforio adnoddau cynradd yn y perifferi yn arwain at bedwar canlyniad pwysig. Yn gyntaf, mae'r galw rhyngwladol am ddeunyddiau crai yn gymharol anhyblyg o ran incwm. Mae gwelliannau mewn technoleg yn yr ardal graidd yn golygu y gall y gwledydd hyn gynhyrchu mwy gan ddefnyddio llai o ddeunyddiau crai (Magdoff, 1969). Mae hyn yn golygu nad yw cynyddu cynhyrchiant yn y wlad ar y perifferi o ran allforio neu echdynnu deunyddiau crai o reidrwydd yn cyfateb i gynnydd mewn galw. Gall unrhyw gynnydd mewn cynhyrchiant, felly, arwain at gost uned is, yn hytrach na chynnydd mewn incwm i'r wlad ar y perifferi (Furtado, 1965). Fel y dadleuodd Radetzki (2010, t. 3):

*the higher the value, the less primary material inputs will be needed per dollar value represented by the items. The essence of economic development is to move the centre of the economy's gravity down the list, towards goods with ever higher value per kilogram. In consequence, as countries grow richer, the raw materials input needs will grow more slowly than the overall economy. Materials savings will be further boosted by technological progress which is typically weight reducing. The need for primary materials inputs tends to stagnate with economic development and has started to shrink in absolute terms in some prosperous nations, as their economies grow even richer. In any case, global economic growth has exceeded the demand growth for virtually all raw materials. Sophisticated modern economies have become masters of substitutability, permitting them to do without a particular material.*

Yn ail, mae pris deunyddiau crai yn fwy anwadal ac mae tuedd i brisiau marchnad deunyddiau crai amrywio mwy na phrisiau nwyddau gorffenedig neu wedi'u prosesu. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n anodd i'r llywodraeth gynllunio'n rhesymegol ar gyfer y hir dymor, gan nad oes gan y llywodraeth unrhyw sicrwydd y bydd ei hincwm yn aros yn gyson neu'n cynyddu. Gwaethygir y sefyllfa hon gan y ffaith fod gwledydd ar y perifferi yn ddibynnol ar wledydd craidd am dechnolegau mwy datblygedig a chynhyrchion gwerth ychwanegol, ac mae hyn yn amharu ymhellach ar y fantolen masnach. Defnyddiodd Humphrey (2006, t. 380) ddata'r IMF

i ddangos bod gwledydd ag incwm isel wedi cael, ar gyfartaledd, gostyngiad mewn prisiau real o 10% fesul gwlad bob tair blynedd rhwng 1981 a 2001. Parhaodd:

*Low-income countries were 13% more likely than other countries to experience a commodity price shock in the 1981-2001 period, but 60% more likely to experience a terms of trade shock. These shocks not only tend to hit poor countries disproportionately, but also harm the poor in each country disproportionately.*

Dadleuodd Zanas (2005), yn unol â barn Humphrey, fod gorddibyniaeth ar nwyddau sylfaenol yn hynod niweidiol i ddatblygiad, gan nad yw prisiau cymharol nwyddau sylfaenol yn disgyn yn raddol (ac y gellid o leiaf cael ei gymryd i mewn i ystyriaeth), ond yn hytrach mae prisiau'n disgyn yn gyflym ac yn sylweddol, ac mae hyn yn arwain at ddirywiad cyflym yn nhermau masnach.

Yn drydydd, gan fod diffyg ffurfiau uwch dechnolegol o gyfalaf mewn gwledydd ar y perifferi gan amlaf, mae llawer o gynhyrchiant deunyddiau crai yn cael ei ariannu gan gwmnïau tramor sydd yn eu tro, yn cronni llawer o'r elw dramor. (Gomez, 1966).

Yn olaf, mae arbenigo mewn allforio deunyddiau crai yn rhwystro'r llywodraeth rhag buddsoddi mewn sectorau eraill a fyddai'n arwain at dwf mwy sefydlog, hir dymor (Galtung, 1971a). Mae gan wledydd ar y perifferi fantais gymharol o ran allforio deunyddiau crai (Samuelson, 1970), tra os na chânt gynhyrchion gwerth ychwanegol mewn diwydiannau anaeddfed eu gwarchod gan y llywodraeth, ni all gystadlu â chynhyrchion gwladwriaethau craidd. Yn y tymor hir, pe bai'r diwydiannau hyn yn gallu aeddfedu, a phe bai'r economi yn gallu dod yn fwy amrywiol, byddai gwell canlyniadau i'r gwledydd hyn.

Nodwyd y tueddiadau hyn yn gyntaf gan Raul Prebisch (1950) ac wedi hynny gan Hans Singer (1975) ac fe'i gelwir yn Hypothesis Prebisch-Singer. Roedd Sapsford a Balasubramanyam (1994, t. 1743), wrth ddadansoddi'r ddamcaniaeth hon yn dadlau,


*has stood the test of time remarkably well. ... There can be few hypotheses in economics that have stood the tests of both time, and new statistical techniques, so well.*

Yr eironi caled, yn ôl economegwyr clasurol fel David Ricardo (1821) ac Adam Smith (1937 [1776]) mae gwledydd ar y perifferi yn cyflawni eu swyddogaethau economaidd. Y broblem yw bod economegwyr clasurol wedi methu ag ystyried bod deinameg fewnol cymdeithasau ar y perifferi yn cael eu rheoli gan eu safle yn yr economi gyfalafol fyd-eang; heb ddeall y ddeinameg ehangach sydd ar waith yn y system-fyd nid yw'n bosibl deall deinameg fewnol cymdeithasau o'r fath.

Dywedodd Karl Marx (2011 [1848]), mewn ymosodiad cyfeiriedig yn erbyn pobl fel David Ricardo ac Adam Smith, y canlynol:

*We are told that free trade would create an international division of labour, and thereby give to each country the production which is most in harmony with its natural advantage. You believe, perhaps, gentlemen, that the production of coffee and sugar is the natural destiny of the West Indies. Two centuries ago, nature, which does not trouble herself about commerce, had planted neither sugarcane nor coffee trees there. If the free traders cannot understand how one nation can grow rich at the expense of another, we need not wonder, since these same gentlemen also refuse to understand how within one country one class can enrich itself at the expense of another.*

Yn berthnasol i'r dadansoddiad o arallgyfeirio economaidd, mae Prifysgol Harvard wedi creu Atlas Cymhlethdod Economaidd, gan ddefnyddio eu Mynegai Cymhlethdod Economaidd (Economic Complexity Index) a welir yn Ffigur 9. Yr hyn sy'n arbennig o drawiadol am y ffigur hwn yw ei fod fwy neu lai yn adlewyrchiad cyflawn o'r system-fyd yn ffigur 7 uchod. Mae'n ymddangos bod yr Atlas hwn yn cadarnhau Hypothesis Prebisch-Singer ymhellach gan ei bod yn ymddangos bod cydberthynas wirioneddol rhwng safle craidd ac arallgyfeirio economaidd.



*Ffigur 9: Atlas Cymhlethdod Economaidd, 2019. Ffynhonnell: (Harvard University Growth Lab, 2013).*



## Y Lled-Berifferi yn y System-Fyd

Esboniwyd y cysyniad o rôl y lled-berifferi yn y system-fyd gan Chase-Dunn (1988, t.30) ac aeth ati i nodweddu rhai o swyddogaethau'r lled-berifferi. Yn gyntaf, mae'r lled-berifferi yn cynnwys cymysgedd o swyddogaethau economaidd craidd ac ymylol, ac yn ei hanfod yn pontio rhwng y ddau. Yn ail, gellir ystyried y lled-berifferi fel safle daearyddol, wedi'i leoli rhwng y gwledydd craidd a'r perifferi mewn modd llythrennol. Yn drydydd, gellir dehongli'r lled-berifferi fel cyfryngwr sy'n galluogi bod gweithgareddau'r ardaloedd craidd a'r perifferi yn cael eu cwblhau. Mae rôl gyfryngol y lled-berifferi fel ecsbloetiwr ac ardal sy'n cael ei hecsbloetio yn chwarae rhan wleidyddol bwysig o fewn y system-fyd. Mae bodolaeth y lled-berifferi yn golygu y gall y system osgoi polareiddio sydyn rhwng y craidd a'r perifferi. Mae'r lled-berifferi yn gwyro rhywfaint o'r pwysau gwleidyddol a fyddai fel arfer yn cael ei gyfeirio at wladwriaethau craidd, gan atal cydweithio rhwng cenhedloedd tlotach. Er enghraifft, gall Mozambique gael ei thrangwyddo gan weithredoedd De Affrica, ac yn yr un modd, Uruguay gan Frasil, gan wneud cydweithredu yn anos. Yn economaidd, mae'r lled-berifferi yn darparu marchnad ar gyfer buddsoddiad cyfalaf o'r craidd i gynhyrchiant diwydiannol cyflog is. Yn bwysig - ac wrth symud i ffwrdd o ddull Damcaniaeth Moderneiddio o gamau o ddatblygiad - ni ddylid ystyried bod gwledydd y lled-berifferi mewn cam o ddatblygiad rhwng y craidd a'r perifferi. Wrth gwrs, mae gwledydd yn y lled-berifferi yn gallu symud o'u safle i'r craidd (gallant hefyd symud o'r lled-berifferi i'r perifferi), ond nid yw hyn yn broses bendant ac mae'n dibynnu ar lu o ffactorau fel y sefyllfa o fewn y system-fyd, gwleidyddiaeth fewnol, daearyddiaeth, a chyfalaf dynol. Fel y dadleuodd Arrighi a Drangel (1986, t. 11):

*The existence of a relatively stable intermediate group of states is at variance with the expectations of modernization [theory]. According to modernization theory,*

*intermediate positions are temporary because they are transitional. States come to occupy intermediate positions on their way from backwardness to modernity.*

## Y System-Fyd Cyfalafol

Gan fod y system-fyd bresennol yn cael ei diffinio fel economi-byd gyfalafol, mae'n bwysig deall sut mae cyfalafiaeth yn effeithio ar ac yn siapio'r system-fyd. Mae rheolau cronni cyfalaf (capital accumulation) yn dweud fod y cyfalaf sy'n cael ei gronni gyda chyfradd adennill uwch na grym llafur. Oherwydd hyn, mae gwahaniaethau bach yn yr amodau cychwynnol yn tyfu dros amser. Galwodd Gunnar Myrdal (1957) y broses hon yn achosiaeth gronnus (cumulative causation) lle mae'r manteision cystadleuol y mae'r cenhedloedd mwyaf datblygedig yn ymelwa ohonynt yn hunan parhaus. Mae twf yn arwain at ddarbodion maint mwy deinamig a buddsoddiad mewn technolegau newydd sydd yn ei dro yn arwain at fwy o gynhyrchiant a rhagor o dwf. Esboniodd Myrdal (1970, t. 279) hyn yn gryno, gan nodi:

*by circular causation and cumulative effects, a country superior in productivity and incomes will become more superior, while a country on an inferior level will tend to be held down at that level or even to deteriorate further — as long as matters are left to the free unfolding of market forces.*

Fel dadleuodd Delacroix (1977, t.797), roedd rôl y pwerau craidd yn ragflaeni'r 'trydydd byd' presennol i'r dasg o ddarparu deunyddiau crai yn yr unfed ganrif ar bymtheg yn brif achos anghydraddoldeb byd cyfoes. Mae'r dadansoddiad hwn yn cyd-fynd â damcaniaethwyr cynharach megis Lenin (1999 [1917]) a Polanyi (2001 [1944]) a ddangosodd bod pwysau parhaus o dan system farchnad i fonopoleiddio adnoddau a marchnadoedd a bod cyfalafiaeth yn ymledu mewn modd anwastad. Yng ngeiriau Lenin (1999 [1917], t. 45):

*If [capitalism] could raise the living standards of the masses, who in spite of the amazing technical progress are everywhere still half-starved and poverty-stricken, there could be no question of a surplus of capital. This "argument" is very often advanced by the petty-bourgeois critics of capitalism. But if capitalism did these things, it would not be capitalism; for both uneven development and a semistarvation level of existence of the masses are fundamental and inevitable conditions and constitute premises of this mode of production. As long as capitalism remains what it is, surplus capital will be utilised not for the purpose of raising the standard of living of the masses in a given country, for this would mean a decline in profits for the capitalists, but for the purpose of increasing profits by exporting capital abroad to the backward countries. In these backward countries profits are usually high, for capital is scarce, the price of land is relatively low, wages are low, raw materials are cheap. The export of capital is made possible by a number of backward countries having already been drawn into world capitalist intercourse; main railways have either been or are being built in those countries, elementary conditions for industrial development have been created, etc. The need to export capital arises from the fact that in a few countries' capitalism has become "overripe" and (owing to the backward state of agriculture and the poverty of the masses) capital cannot find a field for "profitable" investment.*

## Beirniadaeth

Er bod gennym ddiddordeb yn y *system-fyd*, yn hytrach nag actorion penodol o'i fewn, efallai mai'r feirniadaeth fwyaf cyfiawnadwy o Dadansoddiad Systemau'r Byd yw'r ddadl ei bod yn canolbwyntio yn ormodol ar y wladwriaeth (Robinson, 2011). Mae hon yn feirniadaeth y mae'r traethawd ymchwil hwn yn ceisio ei chywiro. Drwy symud i ffwrdd o'r wladwriaeth fel yr uned dadansoddiadol, mae'r gwaith hwn yn defnyddio dull systemau'r byd i genhedloedd di-wladwriaeth. Mae'n wir na

all anghydraddoldebau rhanbarthol o fewn gwledydd bob amser gael eu dal yn ddigonol o fewn fframwaith sy'n canolbwyntio ar y wladwriaeth. Mae'r traethawd ymchwil hwn felly yn gyfraniad yn y maes hwn. Mae hyn yn golygu y bydd deinameg mewnol, polisiau domestig, llywodraethu, a ffactorau diwylliannol hefyd yn cael eu cynnwys o fewn y fframwaith datblygiadol hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod dadansoddiad systemau'r byd yn gofyn i ni *ddadfeddwl* y ddeuoliaeth rhwng y mewnol a'r allanol, gan fod y cyfan yn fewnol ar lefel y system-fyd.

Theori berthnasol o ran beirniadaeth o Ddadansoddiad Systemau'r Byd yw Economeg Sefydliadol (Institutional Economics). Dyma'r ddadl sy'n pwysleisio rôl sefydliadau cyfreithiol, gwleidyddol ac economaidd wrth lunio perfformiad economaidd a chanlyniadau datblygiadol. Yn y bôn, mae sefydliadau cryf yn hanfodol ar gyfer meithrin twf economaidd (Gogledd, 1990) (Acemoglu & Robinson, 2013). Mae sefydliadau yn amlwg yn bwysig ar gyfer deall datblygiad economaidd, ond mae Dadansoddiad Systemau'r Byd yn cynnig fframwaith cynhwysfawr ar gyfer integreiddio dimensiynau hanesyddol, economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol. Nid yw'r sefydliadau sy'n bwysig mewn Economeg Sefydliadol yn datblygu'n annibynnol o anghydraddoldebau strwythurol a ffactorau hirdymor y system-fyd. Gall Economeg Sefydliadol esbonio sut a pham y mae sefydliadau'n bwysig, ond nid sut a pham y mae sefydliadau'n datblygu yn y ffordd y maent yn gwneud.

Beirniadir Dadansoddiad Systemau'r Byd, fel Damcaniaeth Dibyniaeth, am fod yn or-benderfynol. Y ddadl yw bod gwledydd yn cael eu cloi i mewn i'w safleoedd o fewn y craidd, y lled-berifferi, neu'r perifferi. Bydd y traethawd ymchwil hwn – drwy ei astudiaethau achos – yn dangos bod y feirniadaeth hon yn anghywir. Mae tonnau a chylchoedd o gronni cyfalafol newydd a sifftiau systemig yn caniatáu newidiadau yn yr hierarchaeth fyd-eang (Arrighi, 1994). Ers dyfodiad y system-fyd bresennol, mae hegemoniau wedi newid yn rheolaidd. Mae Dadansoddiad

Systemau'r Byd yn ddull hanesyddol, hirdymor yn ei hanfod, lle mae newidiadau yn ddeinamig ac yn hyblyg, ond gallent ddigwydd dros gyfnod hwy o amser.

Model esboniadol gwahanol ar gyfer datblygiad economaidd yw Economeg Esblygiadol (Evolutionary Economics) fel y'i hyrwyddir gan Nelson a Winter (1985). Mae economeg esblygiadol yn darparu fframwaith ar gyfer deall newid economaidd, arloesi a thwf. Wedi'i wreiddio yn egwyddorion esblygiad biolegol, mae'r dull hwn yn pwysleisio pwysigrwydd prosesau addasu, dysgu a dethol wrth lunio systemau economaidd. Ystyrir bod cwmnïau'n gweithredu ar sail arferion, a ddatblygwyd trwy ddysgu a phrofiad. Mae'r arferion hyn yn arwain y broses o wneud penderfyniadau, prosesau cynhyrchu, a rhyngweithio â'r amgylchedd. Dros amser, mae cwmnïau'n addasu ac yn mireinio eu trefn arferol trwy broses o brofi a methu, gan arwain at well perfformiad a chystadleurwydd.

Mae arloesedd yn sbardun canolog i newid economaidd yn ôl economeg esblygiadol. Mae cwmnïau'n chwilio am dechnolegau, cynhyrchion a phrosesau newydd i wella cynhyrchiant, mynd i farchnadoedd newydd, a chynnal mantais gystadleuol. Mae arloesedd llwyddiannus yn cael eu dewis a'u gwasgaru ledled yr economi, gan siapio strwythurau diwydiant, a sbarduno twf hirdymor. At hynny, mae cwmnïau'n datblygu galluoedd deinamig i ymateb i amodau cyfnewidiol y farchnad a phwysau cystadleuol. Mae galluoedd deinamig yn cwmpasu gallu cwmni i synhwyro cyfleoedd, cynnull adnoddau, ac addasu ei arferion a'i strategaethau mewn amser real. Mae'r galluoedd hyn yn galluogi cwmnïau i ffynnu mewn amgylcheddau cythryblus a mordwyo ansicrwydd.

Fodd bynnag, mae economeg esblygiadol wedi wynebu beirniadaeth o safbwynt systemau'r byd. Mae'r fframwaith yn tueddu i anwybyddu ffactorau strwythurol ehangach a chysylltiadau pŵer o fewn yr economi fyd-eang. Mae deinameg pŵer byd-eang, grymoedd geowleidyddol, a chymynroddion hanesyddol yn chwarae rhan arwyddocaol wrth lunio newid economaidd, ond efallai na fydd economeg esblygiadol yn rhoi cyfrif llawn am y dylanwadau systemig hyn. Yn ogystal, gall y

fframwaith danamcangyfrif effaith globaleiddio ar esblygiad economaidd. Mae systemau'r byd yn pwysleisio cydgysylltiad economiau a dosbarthiad anghyfartal pŵer ac adnoddau yn fyd-eang.

At hynny, efallai na fydd economeg esblygiadol yn dal cyd-destun hanesyddol o ddatblygiad economaidd yn llawn. Mae Dadansoddiad Systemau'r Byd yn pwysleisio pwysigrwydd cymynroddion hanesyddol, megis gwladychu ac imperialaeth, wrth lunio taflwybrau economaidd. Mae'r ffactorau hanesyddol hyn yn parhau i ddylanwadu ar ddeinameg economaidd a phatrymau arloesi mewn ranbarthau gwahanol o'r byd. Yn ogystal, mae'r fframwaith yn tanamcangyfrif rôl sefydliadau a strwythurau llywodraethu wrth lunio ymddygiad economaidd. Mae sefydliadau, ar lefel genedlaethol a byd-eang, yn chwarae rhan hanfodol wrth gyfryngu rhyngweithiadau economaidd a phennu enillwyr a chollwyr yn yr economi fyd-eang. Gyda'i gilydd, arweiniodd y dadleuon hyn at ddefnyddio Dadansoddiad Systemau'r Byd i'r traethawd ymchwil hwn.

## Cymhwyso Damcaniaeth Dibyniaeth a Systemau Byd yn Ewrop

Cafodd Damcaniaeth Dibyniaeth ei gysyniadoli yn y perifferi ac yn wreiddiol roedd yn berthnasol i'r De Byd-Eang. Felly gall ei gymhwyso i ddadansoddi profiadau yn Ewrop ymddangos yn amhriodol: Ewrop (yn ei chyfanrwydd), wedi'r cyfan, oedd yr ecsbloetiwr dihafal, a oddiweddwyd ond yn ddiweddar gan yr Unol Daleithiau. Ewrop yw'r 'datblygedig' mewn gwrthdaro â'r 'tanddatblygedig' yn y byd. Fodd bynnag, dangoswyd bod cyfalafiaeth - a'r gwobrau a'r colledion sy'n deillio ohoni - yn lledaenu'n anwastad, ac nid oes unrhyw reswm *a priori* na ddylai'r broses fod yn wir hefyd ar gyfer lleoedd yn Ewrop, neu y gellir gweld rhaniadau cymaradwy o ran llafur a swyddogaethau yn Ewrop, a chanlyniadau mewnol gwahanol. Mae trin Ewrop fel cyfanrwydd (neu wledydd o fewn Ewrop yn unigol), yn drysu ein

dealltwriaeth o swyddogaethau rhanbarthau gwahanol o fewn y system-fyd ehangach.

Fel y nodwyd eisoes, trafododd Rostow (1959) y camau datblygu y nodwyd yr aeth Prydain drwyddynt fel y camau delfrydol y dylai gwledydd eraill eu dilyn. Dylai hyn yn naturiol ein harwain i ofyn a aeth lleoedd eraill drwy'r un camau datblygu neu a ydynt yn mynd trwy'r camau hyn yn awr. A yw gwladwriaethau tlotach Ewrop fel Portiwgal, Sbaen, yr Eidal, Iwerddon, a Groeg ar gam gwahanol o'r un llwybr datblygiadol â Phrydain, neu a ddylid eu hystyried yn wahanol yn strwythurol ac yn swyddogaethol, yn adlewyrchu lleoedd fel yr Ariannin a Mecsico yn y system-fyd? At hynny, a yw pob rhan o'r gwladwriaethau hyn ar yr un lefel o ddatblygiad? Ydy Padania yn fwy datblygedig na'r Mezzogiorno? Ydy Catalunya yn fwy datblygedig nag Andalucía?<sup>12</sup> Sut y byddem yn diffinio lefel ddatblygiadol yr Eidal neu Sbaen yn ei chyfanrwydd, o ystyried y gwahaniaethau sy'n bodoli ynddynt? A yw edrych ar y gwladwriaethau hyn yn eu cyfanrwydd yn hytrach nag edrych ar eu rhannau cyfansoddol yn cymylu'r gwahanol lefelau o ddatblygiad sy'n bodoli ynddynt?

Er mwyn ateb y cwestiynau yma, sefydlodd Dudley Seers (1981) Ysgol Dibyniaeth Ewropeaidd (EDS). Ei farn ef oedd bod swyddogaeth a strwythur gwladwriaethau Ewropeaidd tlotach yn debycach i rai Mecsico a'r Ariannin, yn hytrach na bod ar gam is yn llwybr datblygiadol Prydain. Fel oedd Damcaniaeth Dibyniaeth wedi'i eni o brofiad America Ladin yn y 1960au, daeth Ysgol Dibyniaeth Ewropeaidd i fodolaeth o ganlyniad i brofiadau Ewrop yn y 1970au. Dadleuodd yr EDS nad oedd cydgyfeiriant rhwng rhanbarthau cyfoethog a thlawd wedi dod i'r amlwg fel y rhagdybiwyd gan gefnogwyr Damcaniaeth Moderneiddio, economeg neoglasurol, a Keynesiaeth (Keynesianism). I'r EDS, roedd polisiau rhanbarthol Keynesaidd yn brop i geisio gwneud i'r model neo-glasurol weithio (Stöhr a Tödting, 1979, t. 138).

---

<sup>12</sup> Mae'r sillafiad Sbaeneg wedi ei ddefnyddio.

Roeddent yn dadlau nad oedd Keynesiaeth yn wahanol i economeg neoglasurol yn ei strategaeth ddatblygu, dim ond o ran ei offerynnau; roedd achosion datblygiad (neu ddiffyg datblygiad) dal i gael eu hystyried yn fewndarddol. Eu barn nhw oedd bod anghydraddoldebau rhanbarthol yn bennaf yn deillio o ddiffyg galw am nwyddau a gwasanaethau'r rhanbarth, ac felly gellid mynd i'r afael â hyn drwy ailddosbarthu gwariant gan y wladwriaeth ganolog. Gallai rheoli galw mewn gwahanol ranbarthau arwain yn y tymor hir at gyflogaeth lawn a chydbwysedd, a byddai hyn yn cael ei feithrin gan gymhellion ar gyfer buddsoddiad cyfalaf, buddsoddiad cyhoeddus mewn isadeiledd, a chymhellion ar gyfer cyflogaeth. Roedd Keynesiaeth, felly, yn trin rhanbarthau fel rhanbarthau swyddogaethol heb hanes na daearyddiaeth (Weissenbacher, 2018, t. 86).


### Creiddiau a Perifferiau Daearyddol.

Un o brif gyfraniadau'r EDS oedd fframio'r model craidd-perifferi mewn ffordd fwy llythrennol, daearyddol. Er enghraifft, rhannodd Ysgol Dibyniaeth America Ladin (Latin American Dependency School) y byd yn 'Ogledd Byd-Eang' a 'De Byd-Eang'. Mae gwledydd fel Awstralia, Seland Newydd, Japan, Canada, a'r Almaen yn y 'Gogledd Byd-Eang', sy'n dangos mai categorïau swyddogaethol neu ddisgrifiadol yn economaidd yw'r termau hyn yn hytrach na themau daearyddol yn llythrennol. Yn fyd-eang, felly, nid yw'r trosiad craidd-perifferi - ar wahân i'w ffocws ar ranbarth Gogledd yr Iwerydd - yn ddaearyddol, ond:

*in the Western European supra-national core-periphery system ... the countries which are the more economically, socially, and politically advanced are grouped in the centre-north, whilst the rest form a partial ring with their major extent to the south* (King, 1982, t. 222).



Mapiodd Dudley Seers (1979) agweddau gofodol y model craidd-perifferi yng ngorllewin a de Ewrop. Mae Ffigur 10 isod yn dangos y gwledydd yr oedd Seers yn credu oedd yn ffurfio craidd, lled-berifferi a pherifferi gorllewin a de Ewrop.



*Ffigur 10: Gwledydd y Craidd, Perifferi, a'r Lled-Berifferi yng Ngorllewin Ewrop. Gwaith yr Awdur. Atgynhyrchwyd o: (Seers, at al., 1979, t. 17).*

Ar yr olwg gyntaf, mae'r map hwn yn cuddio mwy o'r gwahaniaethau gofodol a'r anghydraddoldeb yn Ewrop nag y mae'n ei ddatgelu. Trwy ddefnyddio gwladwriaethau fel uned ddadansoddi, mae'r map hwn yn cam-lunio safle craidd amlwg lleoedd fel Llundain, yn ogystal â dynameg economaidd gogledd yr Eidal sydd wedi'i ganoli ym Milan a Turin. Ar ben hynny, mae galw Corsica yn rhanbarth craidd oherwydd ei pherthynas â thir mawr Ffrainc yn amheus ar y gorau. Mae'n

debygol felly nad gwladwriaethau yw'r uned ddadansoddi gywir i ddeall y model craidd-perifferi mewn perthynas ag Ewrop. Yn ffodus, creodd Seers (1979, t. 21) fap ar wahân a alwodd yn “Regional Core of Europe” oedd yn torri ar draws ffiniau gwladwriaethau. Yn y map hwn, mae canol y craidd - neu'r “mega-core” fel y mae'n ei alw - yn tarddu yn ardal Brwsel-Rotterdam-Ruhr ac yn lledaenu o'r man cychwyn hwn. Gwelir siâp ‘wy anghyflawn’ sy'n rhedeg o Helsinki, Stockholm, ac Oslo yn y gogledd, Lloegr (neu'r rhan fwyaf ohoni) i'r gorllewin, a Barcelona, Turin, a Milan i'r de. Mae ‘anghyflawnrwydd’ yr wy o ganlyniad i'r ffaith nad yw wedi ehangu i'r dwyrain. Mae Ffigur 11 isod yn dangos craidd rhanbarthol Ewrop yn ôl Seers.



*Ffigur 11: Craidd Rhanbarthol Ewrop. Gwaith yr Awdur. Atgynhyrchwyd o: (Seers, et al., 1979, p. 21).*

Mae'r map hwn yn fwy addas er mwyn deall dimensiwn gofodol y model craidd-perifferi yn Ewrop yn fanylach. Gellid dadlau y dylid symud craidd Ewrop tua'r dwyrain, gyda Berlin, Fienna a Phrâg yn ffurfio wy ychydig yn fwy cyflawn. Mae canlyniadau diddorol o ganlyniad i'r map hwn i'n hastudiaethau achos ac o ran sut, ble, a pham maen nhw'n ffitio yn y system-fyd. Er enghraifft, Catalunya a Gwlad y Basg yw'r unig rannau o Benrhyn Iberia sydd ag unrhyw beth yn debyg i statws craidd. Mae ganddynt hefyd leoliad daearyddol breintiedig yn wahanol i weddill Sbaen a all fod â chanlyniadau economaidd pwysig i'w safle yn y model craidd-perifferi. Mae'r Eidal wedi'i rhannu'n gymharol glir rhwng 'y ddwy Eidal' sef y gogledd a'r de. Mae'r berthynas rhwng craidd yr Eidal a'r perifferi Eidalaid, yn ogystal â'u perthynas â gweddill Ewrop o ddiddordeb arbennig. Mae'n werth nodi hefyd bod rhanbarthau craidd a pherifferi ynys Prydain yn cyd-fynd bron yn berffaith â chenhedloedd cyfansoddol yr ynys. Mae llain ganolog yr Alban, a Chaerdydd yng Nghymru ar gyron y craidd tra bod gweddill y ddwy wlad yn amlwg ar y perifferi o fewn Ewrop.

Mae'n bwysig cofio, er bod y berthynas rhwng y craidd a'r perifferi yn gymharol sefydlog, nid yw'n statig ac mae lle i newid dros amser. Mae'n bosibl bod yr wy anghyflawn hwn wedi ymestyn, neu efallai ei fod wedi crebachu. Felly ni ddylid edrych ar y map hwn fel un perffaith sy'n cynrychioli model craidd-perifferi heddiw, ond yn hytrach fel man cychwyn defnyddiol ar gyfer archwiliad pellach. Ffaith ofodol sy'n cyfeirio at sefydlogrwydd cymharol y model craidd-perifferi yw sut mae creiddiau'r<sup>13</sup> rhanbarthau ar y lled-berifferi a'r perifferi wedi'u cyfeirio at graidd y

---


<sup>13</sup> Mae'n ymddangos yn wrthreddfol ond gall perifferi a lled-berifferi gael eu creiddiau eu hunain o hyd. Os derbynnir bod yr Ariannin, er enghraifft, yn wlad lled-berifferi, gellir tybio hefyd ei bod yn debygol mai Buenos Aires yw craidd y lled-berifferi hwnnw. Wrth edrych yn eang, mae hyn yn yn golygu y bydd peth cyffredinol; mae'n debygol y bydd creiddiau a pherifferiau o fewn Buenos Aires ei hun. Nid yw'r dadansoddiad hwn felly yn rhagdybio bod pob man o fewn craidd neu berifferi yr un mor gyfoethog neu dlawd ond yn hytrach mae'n dadansoddi swyddogaeth y lle hwnnw o fewn system ehangach.

cyfandir. Mae safleoedd Helsinki, Caeredin, Llundain, Caerdydd, Dulyn, Barcelona, Twrin, Milan, Prâg, Ljubljana i gyd wedi'u gogwyddo o fewn eu gwledydd tuag at y craidd Ewropeaidd. Y ddwy wlad<sup>14</sup> sydd ddim yn cyd-fynd â'r patrwm hwn yw Portiwgal gyda Lisbon, a Groeg ag Athen. Am lu o ffactorau hanesyddol, roedd defnyddio'r môr a phorthladdoedd yn well na theithio dros y tir. Dyma'r eithriadau sydd yn profi'r rheol.


Heddiw, mae anwastadrwydd datblygiad cyfalafol a thwf economaidd cydamserol yn safbwyntiau a dderbynnir yn ehangach mewn llenyddiaeth. O ran twf yn Ewrop, bu cynnydd mewn modelau sy'n benthyg o waith Seers a'r EDS megis y 'Banana Glas' neu 'Y Pentagon'. Mae'r modelau hyn yn derbyn bod yna graidd deinamig a pherifferi. Mae Ffigurau 12 ac 13 yn dangos y modelau hyn:

---

<sup>14</sup> Nid yw Madrid yn cyd-fynd â'r patrwm hwn ychwaith, ond symudwyd prifddinas Sbaen yn ystod yr 16eg Ganrif am resymau gwleidyddol. Nid yw Madrid, felly, yn brifddinas nac yn entrepôt 'naturiol'.



*Figur 12: Y Banana Glas. Ffynhonnell: (Tóth et al, 2014).*



Ffigur 13: Y Pentagon. Ffynhonnell: (Szabo, 2008).

Er mwyn deall rôl a swyddogaeth graidd a pherifferi Ewrop, rhaid deall y berthynas rhwng y ddau:

*backward regions, such as those in southern Europe are not formed autonomously, having, as it were, their own independent existence. Neither are they created incidentally, as a kind of accidental, haphazard by-product of growth elsewhere. ... They are part and parcel of the growth process in the core, and essential to it. ... The European "regional crisis" is not cyclical or short-term, it is fundamental, structural, not only economic but also political and ideological (King, 1982, t. 224).*

Adleisiodd Hadjimichalis (2011, t. 255) y cysyniadau hyn wrth ddadansoddi'r argyfwng dyled sofran yn Ewrop. Dadleuodd:

*the foundations of the crisis are embedded in uneven geographical/regional development, which characterizes the socio-spatial structure of the European Union (EU). Public debt is not the cause of the current crisis but one of its manifestations.*

Mae gan y system craidd-perifferi Ewropeaidd set o batrymau gofodol (crynhoad poblogaeth, diwydiant a chyfalaf) yn ogystal â set o symudiadau gofodol (mudwyr, twristiaid a chyfalaf) sy'n clymu'r craidd a'r perifferi ynghyd, ac wrth wneud hynny, yn arwain at barhad ac atgynhyrchu'r system hon (Seers, et al., 1979). Mae'n bosibl amlygu prosesau penodol sy'n ganlyniad i, ac sy'n gwreiddio'r berthynas anghyfartal sy'n bodoli rhwng y craidd a'r perifferi yn Ewrop ymhellach.

Yn gyntaf, mae penderfyniadau buddsoddi mawr yn y perifferi yn tueddu i ddibynnu ar batrymau defnydd yn y craidd. Mae hyn yn wir am eitemau moethus personol ac arferion defnydd, a phatrymau defnydd cwmnïau rhyngwladol mawr.

Yn ail, mae'r craidd yn denu cyfalaf a llafur medrus o'r perifferi sy'n arwain at dechnegau cynhyrchu mwy effeithlon yn y craidd. Mae hyn yn gwneud arloesi yn anodd yn y perifferi ac felly'n dyfnhau'r angen i fewnforio technoleg ymhellach. Gall hyn hefyd arwain at gynnyrch yn y perifferi yn troi'n anghystadleuol.

Yn drydydd, fel y trafodwyd gan Andre Gunder Frank (1969) mewn cyd-destun byd-eang mae'r un broses o gysylltiadau mewnol gwan a masnach wan rhwng perifferi a pherifferi i'w gweld ym mherifferi Ewrop. Nododd King (1982, t. 225) bod y masnachu rhwng Portiwgal a Sbaen yn fach o ystyried eu hagosrwydd daearyddol a diwylliannol. Heddiw, mae masnach rhwng y ddwy wlad yn parhau'n gymharol fach. Er enghraifft, mae Portiwgal yn cyfrif am 7.7% yn unig o allforion Sbaen a 4% o'i mewnforion. Mae'r un cysylltiadau gwan hyn wedi arwain at ddiwydiannau mewnglo (enclave industries), megis ffatrioedd yn y Mezzogiorno yn cael eu

henwi'n "palaces in the desert" neu "Cathedrals without pillars" (Andreoni, 2013, t. 303).

Yn bedwerydd, mae'r pŵer i wneud penderfyniadau yn tueddu i gael ei ganoli yn y craidd. Gwneir penderfyniadau pwysig ym Mrwsel, yn hytrach nag yn Athen neu Lisbon. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i gwmnïau rhyngwladol mewn gwladwriaethau craidd ddeisebu eu llywodraethau ac ysgrifennu rheolau'r gêm o'u plaid, yn hytrach nag o blaid y perifferi. Mae hyn hefyd yn effeithio ar lif gwybodaeth, lle mae'r perifferi yn ymwybodol iawn o ddigwyddiadau gwleidyddol yn y craidd oherwydd y gall y rhain gael canlyniadau economaidd a gwleidyddol difrifol yn y perifferi. Nid yw'r gwrthwyneb yn wir. Arweiniodd Wallerstein (2011 t. 230) i ddadlau bod y llywodraeth frodorol yn wan yn y perifferi oherwydd lefel isel o ymreolaeth.

Yn olaf, mae llif twristiaid a mudo yn gweithio yn y fath fodd fel y gall y craidd ddibynnu ar weithlu llafur mawr wrth gefn o'r perifferi. Gellir cael gwared arnynt yn hawdd ar adegau o grebachu economaidd. Er enghraifft, gellir gofyn i ddinasyddion yr UE sydd wedi byw mewn gwlad arall yn yr UE am lai na 5 mlynedd i adael ar ôl 6 mis o ddiweithdra (European Parliament, 2023). Gall gwledydd craidd felly gael holl fanteision gweithlu mawr heb orfod poeni am fudd-dal diweithdra yn ystod dirwasgiadau economaidd. Yn yr un modd, gall dinasyddion gwledydd craidd ddefnyddio gwledydd ar y perifferi at eu defnydd eu hunain; mewn rhai achosion, mae twf diwydiant twristiaeth wedi newid gwead cymdeithasol y perifferi. Mae trefi cyfan wedi dod yn ddibynnol ar fasnach sy'n dymhorol ac o'r herwydd yn anwadal.

Crynhodd David Keeble (1989, t. 1) y canlyniadau a ddaw o'r prosesau o anghydbwysedd rhanbarthol:

*Time and again, 'central' regions of the Community record much better economic structures, income levels and welfare indicators than do its 'peripheral' regions. The*



*latter are in fact distinctive in suffering from markedly lower incomes, GDP per head and hence relative poverty, much higher youth and female unemployment rates, much greater dependence upon agriculture with a marked under-representation of manufacturing and service job opportunities, and manufacturing and service structures far more biased towards low-tech and consumer-dependent activities, than is the case with central regions.*

Mae'r adrannau blaenorol wedi esbonio Damcaniaethau Dibyniaeth a Dadansoddiad Systemau'r Byd ac wedi ystyried eu cymhwysiad i gyd-destun Ewropeaidd. Bydd y bennod nesaf yn dadansoddi datblygiad gwladwriaethol yn Ewrop a pha rôl – os o gwbl – y mae'r Undeb Ewropeaidd (UE) wedi'i chwarae wrth greu/neu gadarnhau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli o fewn y System-Fyd a'i pherthynas â'r posibilrwydd o ymwahaniad gwleidyddol yng ngorllewin a de Ewrop.

## IV. Ewrop: Datblygiad Gwladwriaethol ac Integreiddio

Mae Ewrop yn ddelfrydol o ran dadansoddiad cymharol gan fod y rhan fwyaf o wledydd - o leiaf yng ngorllewin a de Ewrop - yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae bodolaeth yr UE yn caniatáu i ni astudio a yw cydgyfeiriant gwleidyddol yn arwain at gydyfeiriant economaidd. Mae cydgyfeiriant gwleidyddol yn yr achos hwn yn golygu gwledydd yn penderfynu ymuno â'r UE a chyfuno rhywfaint o sofraniaeth yn ganolog. Mae cydgyfeiriant economaidd yn yr achos hwn yn golygu gostyngiad mewn anghydraddoldeb economaidd rhwng rhanbarthau yn hytrach na derbyn fframweithiau economaidd cyffredin. Er mwyn ateb y cwestiwn hwn yn ddigonol, mae angen amlinellu'r prosesau a arweiniodd at greu'r UE a sut y mae strwythurau a fframweithiau'r UE - sy'n deillio o'r amodau cychwynnol hyn - yn effeithio ar wahanol ranbarthau a datblygiad. I ddechrau, byddaf yn dadansoddi a yw'r cysyniad o Chwyldro Goddefol (Passive Revolution) yn ddefnyddiol er mwyn egluro'r prosesau y tu ôl i integreiddio Ewropeaidd; os felly, gallai hyn esbonio rhai o'r diffygion y tu ôl i ymdrechion yr Undeb Ewropeaidd i unioni gwahaniaethau economaidd gofodol.

### Cysyniad Gramsci o Chwyldro Goddefol

Daeth y syniad o integreiddio Ewropeaidd yn fwy poblogaidd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Cyn integreiddio economaidd, bodolodd anghyfiawnder gofodol.<sup>15</sup> Ni arweiniodd integreiddio Ewropeaidd, felly, at yr anghydbwysedd sy'n bodoli rhwng gwladwriaethau, fodd bynnag, mae integreiddio wedi methu â lleihau'r anghydbwysedd hwn mewn unrhyw fodd ystyrlon. Yn gyffredinol, rhanbarthau

---

<sup>15</sup> Gwelir yr is-bennod nesaf am fanylion.

tlotaf Ewrop yn 1950 yw'r rhai tlotaf heddiw o hyd. Gall edrych ar integreiddio Ewropeaidd trwy brism yr hyn a alwodd Gramsci yn Chwyldro Goddefol helpu i egluro pam. Fel yr eglurodd Daniel Evans (2018, t. 490) yn gryno:

*passive revolution is a moment within the history and development of the state, whereby seemingly radical changes to society are in fact carefully managed in a way which preserves capitalist hegemony.*

Dadleuodd Stefan Kipfer (2012, t. 86) fod gan Gramsci diddordeb arbennig mewn cydgyfuniadau: eiliadau hanesyddol sy'n cyfleu amseroldeb prydlon y digwyddiad gyda ffurfiau hanesyddol tymor hwy. O'r man cychwyn hwn y dechreuodd ddatblygu ei syniad o chwyldro goddefol sef sut y daeth i ddeall y Risorgimento<sup>16</sup> Eidalaid. Credai Gramsci:

*the key punctual moment ... was the experience of the French Revolution and its aftermath. This not only made the Italian Risorgimento comparable in terms of the distinct lack of a national-popular hegemonic project articulated in Italy as compared to France, but also allowed Gramsci to see the history of nineteenth-century Europe as a series of passive revolutions, or what he saw as reforms from above (owing to the cumulative process of history) (Hesketh, 2017, t. 402).*

Roedd y Risorgimento<sup>17</sup> yn wahanol i'r Chwyldro Ffrengig oherwydd bod ei arweinwyr yn Jacobin ar wedd allanol yn unig ac nid oeddent yn mabwysiadu gofynion y llu poblogaidd fel rhai ei hun (Forgacs, 2000, t. 253). I ddyfynnu Gramsci o ran rôl chwyldroadol y Jacobiniaid, dywedodd:

*The Jacobins ... opposed every 'intermediate' halt in the revolutionary process and sent to the guillotine not only the elements of the old society which was hard a-dying, but also the revolutionaries of yesterday – today become reactionaries. The Jacobins, consequently, were the only party of the revolution in progress, in as much as they*

---

<sup>16</sup> Uno gwleidyddol yr Eidal

<sup>17</sup> Mi fydd y Risorgimento yn cael ei drafod mewn fwy o fanylder ym mhenod yr Astudiaeth Achos Eidlaid.

*not only represented the immediate needs and aspirations of the actual physical individuals who constituted the French bourgeoisie, but they also represented the revolutionary movement as a whole, as an integral historical development. For they represented future needs as well, and, once again, not only the needs of those particular physical individuals, but also of all the national groups which had to be assimilated to the existing fundamental group. ... They were convinced of the absolute truth of their slogans about equality, fraternity, and liberty and, what is more important, the great popular masses whom the Jacobins stirred up and drew into the struggle were also convinced of their truth. (Wedi dyfynnu yn Forgacs, 2000, t. 255).*

Roedd arweinwyr y Risorgimento yn wahanol i'r Jacobiniaid oherwydd gwendid y bourgeoisie Eidalaid a'r ffaith nad oeddent yn gallu ymestyn eu hegemoni dros y werin bobl. Arweiniodd y gwendid hwn at ddiffyg ymddiriedaeth rhwng gwerinwyr yr Eidal ar un ochr a'r bourgeoisie Eidalaid newydd ar yr ochr arall. Canlyniad hyn oedd bod rhan fwyaf o Eidalwyr yn oddefol yn nigwyddiadau'r Risorgimento a'r broses o greu Teyrnas yr Eidal. (Kingdom of Italy). Yn Ffrainc, mynegwyd cymhellion bourgeois-ddemocrataidd mewn ffordd Jacobinaidd (Jacobin) ond yn yr Eidal cawsant eu:

*satisfied by small doses, legally, in a reformist manner – in such a way that it was possible to preserve the political and economic position of the old feudal classes, to avoid agrarian reform, and, especially, to avoid the popular masses going through a period of political experiences such as occurred in France in the years of Jacobinism, in 1831, and in 1848 (Forgacs, 2000, t. 266).*

Cafodd y cysyniad o chwyldro goddefol ei ddatblygu'n gyntaf i ddadansoddi digwyddiadau hanesyddol diriaethol fel y Chwyldro Ffrengig, Chwyldroadau'r Almaen yn 1848-49 a'r Risorgimento Eidalaid. Er hyn, dechreuodd Gramsci ymchwilio a oedd y ddamcaniaeth yn gymwys i esbonio ffenomenau eraill. Yn ddiweddarach edrychodd ar gynnydd 'Americaniaeth' (Americanism) neu

'Fordiaeth' (Fordism) fel ffurf arall o chwyldro goddefol. Edrychodd ar y newid yn y berthynas gymdeithasol rhwng llafurwr, cyfalafwr, a chyfalaf a ddaeth yn sgil diwydiannu a masgynhyrchu arferol ond ni nododd unrhyw newid cyfatebol yn strwythur cymdeithasol y wladwriaeth (Buci-Glucksmann, 1980, t. 60).

Gyda'r cymhwysedd yma mewn golwg, creodd Bieling (2015, t. 102) fframwaith cyffredinol er mwyn cysyniadu chwyldro goddefol. Yn ei farn ef, mae'r term yn cyfeirio at brosesau sy'n trawsnewid cymdeithas ond heb newid sydyn, cynhwysfawr a radical a bod tair nodwedd yn perthyn i chwyldroadau goddefol. Yn gyntaf, maent yn chwyldroadau sydd yn dod 'oddi uchod' (from above) neu 'o'r tu allan' (from outside) sy'n digwydd heb gyfraniad gweithredol a brwdfrydedd y lluoedd. Yn ail, mae'r diwygiadau economaidd a gwleidyddol sy'n digwydd yn dameidiog a'u nod yw sefydlogi neu adfer cysylltiadau pŵer etifeddol. Yn drydydd, mae'r diwygiadau hyn yn gwthio rhai dosbarthiadau neu grwpiau cymdeithasol israddol (subaltern) i'r cyrion. Mae damcaniaeth chwyldro goddefol felly yn lens y gallwn ei defnyddio i ddadansoddi:

*the survival and reorganisation of capitalism through periods of crisis, when crucial aspects of capitalist social relations are not overcome but reproduced in new forms, leading to the furtherance of state power and an institutional framework consonant with capitalist property relations* (Evans, 2018, t. 490).

## Integreiddio Ewropeaidd fel Chwyldro Goddefol

O'r man cychwyn hwn, mae'n bosibl defnyddio damcaniaeth Gramsci o chwyldro goddefol i daflu goleuni ar rai o'r prosesau y tu ôl i integreiddio Ewropeaidd. Mae hyn yn ei dro yn helpu i esbonio pam nad yw integreiddio wedi arwain at ailraddnodi pŵer economaidd nac at ailgyfeirio cryfder gwleidyddol yn Ewrop. Dywedodd Gramsci (1996, t. 180):

*it is necessary to bear in mind that international relations become intertwined with those internal relations of a nation-state, and this, in turn, creates peculiar and historically concrete combinations.*

Y prif ddigwyddiadau hanesyddol a arweiniodd at integreiddio Ewropeaidd oedd y Chwyldro Bolsieficaidd, yr Ail Ryfel Byd, a thwf Fordiaeth. Cyfunodd y digwyddiadau rhyngwladol hyn ag amodau mewnol gwladwriaethau gorllewin Ewrop i greu'r sylfaen ar gyfer integreiddio Ewropeaidd.

Roedd y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn gyfnod o newid yn Ewrop. Yn gyntaf, roedd hegemoni byd-eang Ewropeaidd yn cael ei herio gan yr Unol Daleithiau a'r Undeb Sofietaidd ac o ganlyniad i leihad yn nhrefedigaethau Ewrop. Roedd pwysau yn dod oddi isod gan weithwyr oedd yn edrych ar yr enghraifft Sofietaidd yn ogystal â phwysau oddi uchod a nodwedddwyd gan ymddangosiad y Pax Americana ac aeddfedu Fordiaeth. Arweiniodd hyn at:

*a new epoch of passive revolution" oedd yn "exemplified by Keynesianism [in that it] served to stave discontent, expand capitalism while offering real but limited concessions to the subaltern classes. It thereby displaced more radical demands while not offering meaningful political inclusion or economic justice (Bieling, 2015, t. 102).*

Gellir mynd â'r ddadl hon gam ymhellach. Gellir cynnwys integreiddio Ewropeaidd o fewn fframwaith cyffredinol y chwyldro goddefol Keynesaidd a ysgubodd ar draws Ewrop yn y blynyddoedd ar ôl y rhyfel. Wrth ddychwelyd at dair nodwedd chwyldro goddefol Bieling (2015), mae'r traethawd ymchwil hwn yn dadlau bod integreiddio Ewropeaidd yn bodloni ei holl ofynion.

Yn gyntaf, nod y diwygiadau economaidd a gwleidyddol a ddigwyddodd, oedd sefydlogi cysylltiadau pŵer etifeddol. Roedd integreiddio felly yn ymgais i barhau â safle breintiedig Ewrop o fewn y system-fyd. Roedd gwledydd Ewrop yn sylweddoli na allent bellach gynnal eu safle yn y system-fyd trwy barhau fel cenedl-wladwriaethau unigol a bod angen iddynt integreiddio. Trwy gyfuno, gallai'r

gwladwriaethau hyn o leiaf geisio sefydlogi eu safle yn y system-fyd. Yn ogystal, roedd integreiddio yn cynnal safle craidd y prif bwerau Ewropeaidd mewn perthynas â gwladwriaethau Ewropeaidd ar y perifferi. Trwy integreiddio, cynhaliwyd sefyllfa freintiedig cyfalaf a chyfalafwyr o fewn y gwledydd hynny.

Yn ail, arweiniodd integreiddio at ymyleiddio rhai dosbarthiadau neu grwpiau cymdeithasol israddol. Mae'r ffordd y caiff mudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches eu trin yn enghraifft o hyn. Fel y dadleuodd Varada Raj (2006, t. 517):

*The European project, often characterized as the creation of an open space, free from barriers to flows and where national frontiers no longer mean anything, is a veneer that glosses an intense violence at the borders of an increasingly Fortress-like Europe. This latter violence is absolutely constitutive of the hegemonic project of Europe. This violence not only finds its expression in overt violence—beatings, arrest, detention of migrants—but also pervades the social realm in the most quotidian of instances, such that certain classes of people are made to inhabit an everyday limbo of precarity and indeterminacy in which they have to be borders. The concern of hegemonic projects such as an attempt to build a Fortress Europe, is to create a political order that relies upon maintaining a delicate and generalized violence directed against people who live their experience marked as borders, standing in welfare lines, asking for public housing, sitting in police stations, and waiting for hospital treatment.*

Mae ffiniau'r Undeb Ewropeaidd yn ymgorffori'r gwrthgyferbyniadau yn y prosiect integreiddio Ewropeaidd: mae rhai actorion yn cael eu cyfyngu, tra bod eraill yn cael eu rhyddhau (Parry, 2020). Disgrifiodd Balibar (2002) ffiniau Ewrop fel cartref gofodol-amserol ar gyfer mudwyr sy'n cael eu rheoleiddio gan y ffiniau y maent yn dod ar eu traws dro ar ôl tro, tra bod y breintiedig yn cael symud yn rhydd ar draws yr union ffiniau hynny.

Yn drydydd, chwyldro 'oddi uchod' ac 'o'r tu allan' oedd integreiddio Ewropeaidd. Roedd 'o'r tu allan' oherwydd bod yr Unol Daleithiau yn gefnogwr selog o'r

cysyniad. Mewn gwirionedd, roedd cymorth Cynllun Marshall ynghlwm wrth gydweithrediad Ewropeaidd. Roedd Pwyllgor Cydweithrediad Economaidd Ewropeaidd 1947 (The Committee of European Economic Co-operation of 1947) yn penderfynu ar flaenoriaethau Ewrop gyfan<sup>18</sup> ar gyfer adferiad Ewropeaidd ac yn nodi sut i weinyddu cymorth Cynllun Marshall. Yn dilyn y Pwyllgor hwn, ffurfiwyd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad Economaidd Ewropeaidd (Organisation for European Economic Co-operation) yn 1948, sef rhagflaenydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) sy'n bodoli heddiw. Ysgogiadau allanol, felly, sef bygythiad comiwnyddiaeth a hegemoni byd-eang newydd yr UDA a greodd yr amodau ar gyfer integreiddio Ewropeaidd. Roedd integreiddio hefyd yn chwyldro 'oddi uchod' gan ei fod:

*always a top–down elitist project, which envisaged the successive widening (so far from six to 28, at least for now) and deepening (single market, common currency and so on) of what was to become the EU as a smooth and harmonious process. Crucially, as it was to become clear, the European project never had a solid political basis, grounded in popular mass consent. It was essentially a project of and for the political and capitalist economic elites of Europe, creating a new space for capital accumulation and a new political territory that would allow those who ruled it to have an equal voice with the USA and USSR on the world stage (Hudson, 2017, t. 139).*

Nid yw'r syniad bod integreiddio Ewropeaidd yn chwyldro 'oddi uchod' yn newydd. Yn 1970, y term a ddefnyddiwyd i ddisgrifio integreiddio Ewropeaidd gan Lindberg a Scheingold oedd "permissive consensus". Eu barn nhw oedd bod integreiddio yn fater elitaidd, a bod y broses wedi'i diogelu gan y ffaith nad oedd gan boblogaeth Ewrop lawer o ddiddordeb yng ngwleidyddiaeth Ewrop. Heddiw, mae gan boblogaeth Ewrop fwy o ddiddordeb yng ngwleidyddiaeth Ewrop ac

---

<sup>18</sup> Ni chafodd Undeb Gweriniaethau Sosialaidd y Sofiet a llywodraethau sosialaidd eraill yn Nwyrain Ewrop eu cynnwys yn y trafodaethau hyn, ac ni chawsant gymorth Cynllun Marshall chwaith.



mae'n ymddangos bod Ewrosgeptiaeth hefyd yn fwy amlwg. Efallai bod hyn oherwydd newid yn y syniad hegemonaid, yn symud o lesolaeth Keynesaidd i ffurf o wleidyddiaeth mwy neoryddfrydol ers yr 1980au.<sup>19</sup> Fel y dywedwyd yn flaenorol, mae cysylltiadau mewnol cenedl-wladwriaethau yn cydblethu â chysylltiadau allanol. Roedd amgylchedd economaidd rhyngwladol newydd yr 80au yn cydblethu â newid economaidd mewnol a newid ar lefel Ewropeaidd. Fel y dadleuodd Hudson (2017, t. 140):

*There was no recognition that there might be limits to the capacity of national states and the supra-national EU to manage such tensions and keep them within politically and socially acceptable bounds, especially over the medium- to long-term. This became painfully clear in the early years of the 1970s as the long post-war Fordist boom ground to a halt, profits slumped and unemployment and inflation rose simultaneously (something that the dominant policy perspectives regarded as impossible), as a result of a combination of conjunctural and structural forces, and the spatiality of the global economy began to change markedly as capital sought to relocate as one strategy to restore profitability.*

Felly, wrth ystyried y cwbl, mae modd ystyried integreiddio Ewropeaidd fel ffurf o chwyldro goddefol. Mae'r traethawd ymchwil hwn yn dadlau bod chwyldro goddefol yn darparu dull i ddeall y camau gwleidyddol a gymerwyd oherwydd newidiadau yn y system-fyd. Gall "The punctual marks of history" a gyfeiriodd Gramsci atynt gyfateb i newid safle yn y system-fyd, ac mae hyn yn arbennig o wir am y Pax Americana, cynnydd a chwymp yr Undeb Sofietaidd, a dadgoloneiddio. Trwy'r chwyldro goddefol o integreiddio Ewropeaidd, ceisiodd yr elît gynnal eu safle ar lefel y system-fyd. Nawr mae'n bosibl dadansoddi sut mae'r realiti hwn wedi effeithio ar gyfansoddiad mewnol yr UE.

---

<sup>19</sup> Dadleuodd Morton (2010) bod y cyfnod neoryddfrydol yn gyfnod arall o chwyldro goddefol lle mae cyfalafiaeth wedi ail-greu ei hun unwaith eto.

## Cyfansoddiad Sefydliadol yr Undeb Ewropeaidd

Caiff trefniadau sefydliadol eu cynllunio er budd y rhai sy'n eu creu. Yn achos integreiddio Ewropeaidd, roedd y trefniadau yn rhyddfrydol yn economaidd ac yn wleidyddol geidwadol a gwrth-gomiwnyddol (Weissenbacher, 2018, t. 87). Yn ôl Seers a Vaitos (1982, t. 4), pwrpas y Gymuned Ewropeaidd<sup>20</sup> (European Community CE) oedd creu system *laissez-faire* sefydliadol a fyddai'n gwneud hi'n anodd i unrhyw lywodraeth adain chwith y dyfodol gwneud unrhyw newidiadau cymdeithasol pellgyrhaeddol. Crëwyd strwythur diwydiannol yr GE mewn ffordd a fyddai'n meithrin masnach 'rydd' ryngwladol. Nodwyd cystadleuaeth economaidd - a fyddai'n helpu i feithrin masnach rydd - fel ideoleg sylfaenol y Gymuned yng Nghytundeb Rhufain 1958. Defnyddiwyd yr ideoleg hon i ddileu polisïau rhanbarthol a diwydiannol sy'n amharu ar gystadleuaeth (Kiljunen, 1980, t. 212). Roedd y gwledydd a sefydlwyd y GE ar lefel tebyg o ddatblygiad. Roeddynt yn wladwriaethau cyfoethog, yn cynnwys Gwlad Belg, Ffrainc, yr Eidal, Lwcsembwrg, yr Iseldiroedd, a Gorllewin yr Almaen. Newidiodd strwythur y sefydliad yn ddramatig ar ôl 1986 pan dyfodd i gynnwys deuddeg aelod: y chwech gwreiddiol ochr yn ochr â'r DU, Gweriniaeth Iwerddon, Denmarc, Groeg, Sbaen, a Phortiwgal. Roedd y Gymuned wedi newid o fod yn glwb i gyfoethogion i fod yn glwb o bartneriaid anghyfartal, gydag Iwerddon, Groeg, Sbaen, a Phortiwgal yn amlwg ar y perifferi i'r craidd Ewropeaidd. Dadleuodd Seers (1979, t. 27):

*if there are no major reforms in the Community, there will be, after the enlargement, serious dualism, indeed a sort of colonial system. In the poorer group which already suffers whenever a government of the core adopts financially restrictive policies, the effects could be more severe if they give up the possibility of adopting measures to protect their national economy.*

---

<sup>20</sup> Fel yr adwaenid yr UE bryd hynny.

Oherwydd strwythur sefydliadol y GE, a oedd yn diogelu ffundamentalïaeth a chystadleuaeth marchnad 'rydd', nid oedd modd i'r diwygiadau mawr hyn gael eu gwireddu, ac nid oeddent erioed yn rhan wirioneddol o amcanion y Gymuned. Mae hyn yn cefnogi ymhellach y ddadl mai chwyldro goddefol oedd integreiddio Ewropeaidd.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd - er mawr glod iddynt - wedi bod yn ymwybodol o anghydraddoldeb rhanbarthol ac o'r posibilrwydd y byddai anghydraddoldeb yn cynyddu. Fodd bynnag, eu hateb i'r broblem hon oedd dyrannu mwy o adnoddau i gryfhau cystadleuaeth yn y gobaith mai grymoedd y farchnad fyddai'r prif fecanwaith i ddod â ffyniant i wledydd ar y perifferi. Mae'n ymddangos eu bod wedi camgymryd *achos* anawsterau'r perifferi fel yr ateb i'r broblem. Fel y dadleuodd Costis Hadjimichalis (1994, t. 27):

*neoliberal policies both at national and EU levels seem to be ignoring historical experiences which show that these very processes of capitalist competition are precisely responsible for the present situation. National governments and the EU are ready instead to put the blame on the victims.*

Nid yr UE a greodd yr anghydraddoldeb sy'n bodoli rhwng y craidd Ewropeaidd a'r perifferi, ac nid oedd ychwaith yn gyfrifol yn wreiddiol am y diffyg yn y fantolen fasnach a fodolai rhwng gwledydd y craidd a'r perifferi. Fodd bynnag, fel yr esboniodd Stefan Musto (1982, t. 70) yn gryno:

*enlargement will not in itself cause these problems, but it will aggravate and accentuate them. In the present circumstances, it would seem difficult to lessen their effect, since the Community, being geared in every way to the needs of highly developed industrial countries, does not have sufficient structural policy instruments. ... The strategy question is not how the negative consequences of enlargement should be offset with the present division of labour but what new forms of the division of*

*labour are needed to eliminate the disintegrating effects of the structural imbalances in the Community.*

## Ardal yr Ewro ac Undeb Ariannol

Cafodd y gwahaniaethau rhwng y craidd a'r perifferi eu dwysau ymhellach mewn UE estynedig yn sgil creu Ardal yr Ewro a'r undeb ariannol. Ni aethpwyd i'r afael â'r systemau cynhyrchu rhanbarthol anghyfartal, marchnadoedd llafur rhanbarthol gwahanol iawn o ran eu strwythur, na mynediad anghyfartal i farchnadoedd cyn neu ar ôl undeb ariannol (Hadjimichalis, 2011, t. 259). Cynlluniwyd fframwaith macro-economaidd a chyllidol neoryddfrydol yr Ewro er budd y craidd Ewropeaidd. Effaith creu Ardal yr Ewro a chydgyfeirio prisiau oedd dadchwyddo (deflate) prisiau'r craidd Ewropeaidd, a'u gwneud yn fwy cystadleuol mewn marchnadoedd byd-eang ac Ewropeaidd. Mewn cyferbyniad, chwyddwyd prisiau cynhyrchion o wledydd perifferi Ewrop a cholodd y gwledydd hyn unrhyw fath o fantais gystadleuol oedd ganddynt yn flaenorol yn y marchnadoedd byd-eang ac Ewropeaidd. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â chynhyrchion o ddeddwyrain Asia. Roedd undeb ariannol yn golygu bod rhanbarthau'n ymbellhau ymhellach oddi wrth bolisi ariannol, gan fod polisïau'n cael eu trosglwyddo i'r undeb ariannol heb system dreth a budd-daliadau canolog cyfredol fyddai'n mynd i'r afael ag anghydbwysedd rhanbarthol (Martin, 2001, t. 60). Roedd creu undeb ariannol hefyd yn cyfyngu ar allu cenedl-wladwriaethau i gymhwyso fframweithiau rheoleiddio penodol megis dibrisiant ariannol, cytundebau masnach ryngwladol ddwyochrog a darparu cymhellion buddsoddi.

Roedd Ardal yr Ewro yn gweithio o dan y dybiaeth neoryddfrydol y byddai anghydbwysedd rhanbarthol yn cael ei 'gywiro' gan rymoedd y farchnad. Y gwir amdani oedd bod llifoedd cyfnewid a ddaeth yn sgil undeb ariannol yn gyfrifol am

gynhyrchu mwy o arian i'r craidd Ewropeaidd ar draul y perifferi (Hadjimichalis, 2011, t. 261). Yr hyn a fethwyd, neu a anwybyddwyd, wrth greu Ardal yr Ewro oedd y ddealltwriaeth bod cynhyrchu mannau anwastad yn hanfodol i'r ffordd y mae cyfalaf yn atgynhyrchu ei hun. Mae Ewrop yn cynnwys daearyddiaethau gwahaniaethol, llifoedd gwerth a thueddiadau lleoliadol sy'n cael eu hatgyfnerthu gan anghydraddoldebau cymdeithasol-ofodol (Soja, 2010). Wrth ddefnyddio Groeg fel enghraifft addysgiadol o effaith ehangu ar sail egwyddorion neoryddfrydol, dadleuodd Pollis (1985, t. 209) y byddai ehangu'n arwain at:

*the strengthening of those very sectors that would preclude the future autonomous industrial development of Greece. Emphasis is placed on the expansion of the fishing industry ... expansion of agriculture by increasing productivity ... and last, the expansion of the tourist industry. The question of the development of Greece's industrial sector was largely ignored, undoubtedly premised on the doctrine of comparative advantage, since it is widely accepted that Community membership is destructive to Greece's non-competitive industries, albeit potentially beneficial to Europe's multinationals.*

Mae Groeg yn dangos sut mae aelodaeth o'r Gymuned ddim o'r rheidrwydd yn creu perifferoldeb, ond yn helpu ei wreiddio.

*A paradigmatic picture suggested Germany as a role model, personified as the saving Swabian housewife, and proposed mechanisms of private households for national accounts. In that way, everybody could become export champions with a positive trade balance. Somebody must import these exports, and somebody must pay for them. In the case of the EU, the Southern periphery very much belonged to both somebodies until their debt situation slowed this process (Weissenbacher, 2020, t. 60).*

Er bod Groeg yn achos arbennig o eithafol, nid yw'n eithriad o ran bregusrwydd gwledydd ar y perifferi oddi fewn i'r UE, a adeiladwyd gan, ac ar gyfer, gwledydd craidd. Bu bron i Seers broffwydo'r hyn a fyddai'n digwydd i wledydd Ewropeaidd

ar y perifferi ar ôl ehangu, a sut y byddai hyn yn cael ei waethygu ymhellach mewn undeb ariannol:

*Those [countries] in deficit ... have to adopt deflationary policies. The more complete the degree of integration, the more serious this asymmetry is likely to be. If governments in an economic community have given up trade restrictions, foreign exchange control and even freedom to vary the exchange rate, then the only short-term weapons left to deal with a recession in exports (or rise in import prices) are fiscal and monetary policies that lower the level of employment – and wage controls to reduce costs and purchasing power. The effect is to make the governments of peripheral economies in an integrated system highly dependent on those of its core; if the latter give greater priority to curbing price inflation than to reducing unemployment, there is little the former can do but resign themselves to accepting the priority and shaping their own policies accordingly (Seers a Vaitsos, 1982, t. 19).*

Gall cydgyfeiriant gwleidyddol felly fynd law yn llaw ag ymwahaniad economaidd. Mae perifferi dwyreiniol a deheuol Ewrop ar lwybr datblygiad penodol lle mae 'enillwyr' integreiddio wedi'u crynhoi'n anwastad yn y craidd (Börzel a Langbein, 2019, t. 947). Rhaid aros i weld a yw'r berthynas anghyfartal hon yn gynaliadwy yn y tymor hir. Nododd Seers (Seers, et al., 1979, t. 29) yn ddychanol fod "enlargement seems impossible: yet it simultaneously appears inevitable". Heddiw, mae cydraddoldeb rhanbarthol o fewn y fframwaith Ewropeaidd yn ymddangos yn amhosibl: ac eto mae chwalu'r system anghyfartal hon hebddi yn ymddangos yn anochel. Bydd yr ymadroddion daearyddol o ddatblygiad cyfalafol anwastad yn cael canlyniadau pwysig ar gyfer integreiddio a dadintegreiddio rhanbarthol yn y dyfodol. Dadleuodd Edward Soja (1980, t. 224) fod y cynhyrchiant o ofod wedi'i ddirgelu yn natblygiad cyfalafiaeth, er hyn, gall canlyniadau gofodol o integreiddio Ewropeaidd ddadurithio'r ddilechdid gymdeithasol-ofodol.

## Y Dilechdid Gymdeithasol-Ofodol

Mae systemau cymdeithasol a'r lleoedd y maent yn gweithredu ynddynt yn bodoli mewn perthynas ddilechdidol. Mae lle yn cael ei gynhyrchu a'i drefnu'n gymdeithasol sy'n golygu na allwn edrych yn oeraidd ar le neu gymdeithas heb gymryd i ystyriaeth y berthynas sy'n bodoli rhyngddynt. Dadleuodd Soja (1980) fod dwy echelin o wrthdaro yn deillio o'r dull cyfalafol o gynhyrchu, sef gwrthdaro fertigol (dosbarth gweithiol a bourgeoisie) a llorweddol (craidd-perifferi). Mae ffurf y gwrthdaro hyn yn amrywio rhwng lleoedd a rhwng systemau cymdeithasol. Mae hyn oherwydd bod lle yn cael ei gynhyrchu'n gymdeithasol ac yn wahanol yn dibynnu ar y sylfaen economaidd.

Mae anwastadrwydd yn y modd y mae lleoedd yn cael eu cynhyrchu'n gymdeithasol yn arwain at densiynau rhwng ardaloedd daearyddol. Yn achos Ewrop, gall y tensiwn hwn arwain at ddau fath o ddadintegreiddio. Yn gyntaf, mae'n bosibl y bydd yr Undeb Ewropeaidd fel sefydliad gwleidyddol-economaidd yn dymchwel oherwydd yr anwastadrwydd a'r anghydraddoldeb sy'n treiddio trwy'r sefydliad. Yn ail, efallai y bydd gwladwriaethau Ewrop eu hunain yn chwalu, yn enwedig lle mae teimlad cenedlaetholgar cryf. Nid yw anwastadrwydd y system gyfalafol yn gorffen ar y ffin rhwng gwladwriaethau; o fewn y gwladwriaethau hyn eu hunain mae dilechdid gymdeithasol-ofodol sy'n creu gwrthdaro oddi fewn. Dadleuodd Karl Marx fod cyfalafiaeth yn arwain at ddinistr gofod gan amser. Mewn un ystyr, y mae wedi'i brofi'n gywir. Erbyn heddiw, mae'n bosibl cyfathrebu a delio â materion ar draws y byd o fewn diwrnod, a gellir symud arian fel cyfalaf o un lle i'r llall ar fyr rybudd. Ar y llaw arall, methodd ag ystyried grym lleoedd - neu efallai'n fwy cywir, grym y bobl sy'n byw yn y lleoedd hynny - i ymladd yn ôl. Mae lleoedd neu le yn fwy na chynhwysydd gwag, mae wedi'i lenwi â chyfanrwydd ein cysylltiadau cymdeithasol. Gall materoliaeth oer cyfalaf olygu y 'dylai' pobl symud i rywle gyda mwy o gyfleoedd yn y farchnad, o ystyried bod popeth arall yn gyfartal.

Ond nid yw popeth arall yn gyfartal. Mae lleoedd yn cynnwys ein cartrefi, ein partneriaid, ein teuluoedd, ein cenhedloedd. Ni all hyd yn oed cyfalafiaeth ddinistrio hynny, pa bynnag ffordd y mae'n ceisio gwneud hynny. Trafododd Raymond Williams (1989, t. 242) bwysigrwydd lle a dadleuodd:

*a new theory of socialism must now centrally involve place. Remember the argument was that the proletariat had no country, the factor which differentiated it from the property-owning classes. But place has been shown to be a crucial element in the bonding process—more so perhaps for the working class than the capital-owning classes—by the explosion of the international economy and the destructive effects of deindustrialization upon old communities. When capital has moved on, the importance of place is more clearly revealed.*

## Dadintegreiddio Gwladwriaethol yn Ewrop

Mewn llawer o wladwriaethau cyfansoddol Ewrop, mae pleidiau gwleidyddol cenedlaetholgar<sup>21</sup> wedi dod i'r amlwg fel chwaraewyr gwleidyddol pwysig. Mae strwythurau'r pleidiau wedi dod yn fwy proffesiynol, ac mae llawer bellach yn bleidiau gwleidyddol dylanwadol, gyda rhai mewn llywodraeth naill ai ar lefel gwladwriaeth gyfan neu o fewn seneddau neu gynulladau datganoledig. Mae'r Undeb Ewropeaidd hefyd wedi agor llwybrau newydd i'r pleidiau hyn, gyda llawer yn eistedd fel bloc yn Senedd Ewrop fel Cynghrair Rydd Ewrop. Mae yna hefyd “Bwyllgor y Rhanbarthau” (Committee of the Regions) sy'n rhoi llwyfan wleidyddol

---

<sup>21</sup> Y term a ddefnyddir gan amlaf i ddisgrifio pleidiau gwleidyddol sy'n cefnogi annibyniaeth i diriogaeth o'r wladwriaeth ganolog yw 'pleidiau rhanbarthol'. Fodd bynnag, mae tuedd gynhenid yn y disgrifiad hwn. Nid 'rhanbarthau' yw'r lleoedd hyn ond cenhedloedd. Felly bydd y traethawd ymchwil hwn yn defnyddio'r term 'plaid genedlaethol' i ddisgrifio plaid sy'n brwydro am fwy o ymreolaeth, neu ymwahaniad i diriogaeth o'r wladwriaeth ganolog.



a chyfiawnhad i bleidiau cenhedloedd di-wladwriaeth.<sup>22</sup> Nid trafod cryfderau, gwendidau, na chyfreithlondeb y pleidiau gwleidyddol hyn yw pwrpas y traethawd ymchwil hwn. Fodd bynnag, mae pleidiau gwleidyddol yn fynegiant o anghyfiawnderau gwirioneddol neu ganfyddedig, safbwyntiau dosbarth, undod grŵp, ac uniaethu. Mae'r safbwyntiau hyn yn deillio o sylfaen economaidd faterol cymdeithas ac yn rhan o'r aradeiledd sy'n deillio ohoni. Ymddengys bod rhai pleidiau gwleidyddol cenedlaethol yn ymgodi oherwydd cwynion diwylliannol; ond mae'r cwynion diwylliannol hyn yn bodoli oherwydd gwahaniaethau materol rhwng grwpiau diwylliannol. Yr hyn sy'n bwysig ar gyfer y dadansoddiad hwn yw sut mae sylfaen economaidd cymdeithas yn amlygu hunaniaeth genedlaethol mewn rhai achosion ac nid mewn eraill. O'r dechrau damcaniaethol hwn, bydd yn bosibl wedyn troi'n benodol at y tair astudiaeth achos a grybwyllwyd yn gynharach a dadansoddi pa brosesau sy'n digwydd ymhle.

Mae gofod wedi'u cyfansoddi'n gymdeithasol, ac yma gwelir y frwydr rhwng dosbarthiadau. Mae'r dilechdid gymdeithasol-ofodol benodol sy'n deillio o anwastadrwydd datblygiad cyfalafol yn golygu bod cenhedloedd sy'n *gymharol* dlawd neu gyfoethog o'u cymharu â'r wladwriaeth gyfan yn fwy cefnogol i bleidiau sy'n cefnogi ymwahaniad (Kyriacou a Morral-Palacin, 2015). Mae'r dosbarthiad anwastad o wobrau cyfalafiaeth rhwng dosbarthiadau a rhwng lleoedd daearyddol yn arwain at gynnull gwleidyddol. Mae hyn yn golygu bod rhanbarth sydd wedi'i danddatblygu neu wedi'i orddatblygu o'i gymharu â'r craidd gwleidyddol yn fwy tebygol o fod â mudiad cryf sydd eisiau ymwahanu. Datblygiad *cymharol* y rhanbarth sy'n bwysig. Yn Ewrop, gall gwlad (fel Cymru) fod yn gymharol ddatblygedig mewn termau absoliwt, ond gellir ei hystyried yn gymharol

---

<sup>22</sup> Diffinir cenedl ddi-wladwriaeth yma fel cenedl nas cydnabyddir fel cenedl-wladwriaeth annibynnol. Diffinir cenhedloedd sydd a'i Senedd ei hun ond sydd hefyd yn rhan o wladwriaeth ehangach, megis yr Alban, Cymru, a Chatalunya fel rhai 'di-wladwriaeth'.

danddatblygedig yng nghyd-destun y DU ac Ewrop. Fel y mae Nairn (2021, t. 169) yn ei awgrymu:

*Under-development' in this context is of course relative to the general conditions of the 'metropolitan' area of Western Europe. It does not imply any wider identification with Third World underdevelopment (an analogy that has frequently been taken much too literally).*

Dadleuodd ysgolheigion fel Fitjar (2010) fod gorddatblygiad cymharol mewn rhanbarth yn fwy tebygol o arwain at genedlaetholdeb lleiafrifol oherwydd bod costau ymwahanu yn is ac nad yw'r ardaloedd hyn yn hoffi gallu'r wladwriaeth i ailddosbarthu cyfoeth os ydynt yn teimlo'u bod yn ariannu rhanbarthau 'sydd ar ei hôl hi'. Efallai bod hyn yn helpu i egluro pam bod teimpladau ymwahanol yn gryfach yng Nghatalunya nag yn Galicia, neu'r Alban yn hytrach na Chymru. Mae'r ddamcaniaeth hon hyd yn oed yn berthnasol i sefyllfa megis chwalu Iwgoslafia gyda rhannau mwyaf datblygedig y wladwriaeth sef Slofenia a Croatia hefyd yn ardaloedd lle'r oedd tueddiadau ymwahanol ar eu cryfaf. Fodd bynnag, nid yw hyn yn egluro penderfyniad Iwerddon i adael y DU, sef y rhan o'r wladwriaeth a oedd wedi'i thanddatblygu a'i gorthrymu fwyaf. Ymhellach, bu tuedd amlwg tuag at fwy o gefnogaeth i annibyniaeth yng Nghymru sy'n rhan annatblygedig o'r DU. Mae angen egluro pam nad oedd llawer o alw am hunanlywodraeth yn y 19eg a'r 20fed Ganrif a pham bod y pwysau hwnnw wedi cynyddu'n ddiweddar. Fodd bynnag, daeth Nairn (2021, tt. 209-210) i'r casgliad yn gywir na ellid crynhoi cenedlaetholdeb, yn enwedig yn Ewrop, i ymwneud â thanddatblygiad cymharol yn unig. Mae gan genedlaetholdeb wyneb Janus:

*The dominant progressive myth of anti-imperialism is focussed overwhelmingly upon nationalism as a justified struggle of the repressed poor against the wealthy oppressors. [...] However, it has never been the case that this main current exhausts the meaning of nationalism. There have also been a number of what could be called 'counter currents' – examples of societies which have claimed national self-*

*determination from a different, more advanced point in the development spectrum. [...] Not surprisingly, this category is mainly one of small nationalities and territories in 'sensitive' geopolitical points. The more advanced and industrialised Belgians developed a successful nationalist movement against the (then) backward and agrarian Netherlands monarchy between 1815 and 1830. In the late 19th and early 20th century the more advanced regions of the Basques and the Catalans developed separatist tendencies against backward central and southern Spain.*

## Datblygiad Cyfalafiaeth a Chenedlaetholdeb

Mae llawer o'r pŵer emosiynol sydd gan y wladwriaeth fodern yn deillio o asio cysyniadau 'gwladwriaeth' a 'chenedl' i greu'r syniad o'r genedl-wladwriaeth fodern. Efallai mai'r enghraifft orau o'r cyfuniad hwn yw creu'r *Cenhedloedd Unedig* fel sefydliad rhyng-*wladwriaethol*. Nid hunaniaethau sydd wedi bodoli erioed yw cenedl-wladwriaethau; a gallant beidio â bodoli yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn eu ffurf bresennol maent yn cael eu hategu gan gymysgedd o nodweddion ethnig, ieithyddol a diwylliannol.

Bathodd Anthony Smith (1991, t. 22) y term *ethnie* i ddisgrifio'r seiliau hyn o hunaniaeth genedlaethol. Yn ei farn ef, mae *ethnïau* yn deillio o fathau hŷn o berthyn a gwahaniaeth ac yn cynnwys "shared historical memories", fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod *ethnïau* yn ddigyfnewid neu'n sefydlog. Dadleuodd fod *ethnïau* yn arddangos cysondeb a llifeiriant ochr yn ochr sy'n golygu:

*the ethnie is anything but primordial, despite the claims and rhetoric of nationalist ideologies and discourses. As the subjective significance of each of these attributes waxes and wanes for the members of the community, so does the cohesion and self-awareness of that community's membership. As these several attributes come together*

*and become more intense and salient, so does the sense of ethnic identity and, with it, ethnic community* (Smith, 1991, t. 23-25).

Mae hyn yn ymwneud â'r broblem o ddiffinio cenedloedd, oherwydd mae ymgais i:

*fit historically novel, emerging, changing and, even today, far from universal entities into a framework of permanence and universality* (Hobsbawm, 1992, t. 6).

Yr hyn sy'n bwysig i'r dadansoddiad hwn yw'r syniad y gall hunaniaeth ddod yn fwy dwys ac amlwg ar wahanol gyfnodau ac o dan amgylchiadau gwahanol.

Dadleuodd Hobsbawm (1992, t. 12) fod cenedloedd yn cael ei 'creu' ac felly 'ddim yn real'. Fel y dywedir:

*no serious historian of nations and nationalism can be a committed political nationalist... Nationalism requires too much belief in what is patently not so.*

Er hyn, dadleuir yma fod angen arnom ddealltwriaeth fwy cynnil o genedlaetholdeb ac y gellir defnyddio damcaniaeth Henri Lefebvre (1991) o leoedd fel haniaethau tiriaethol (concrete abstractions) fel sylfaen i'r ddadl. Dadleuodd Lefebvre fod gan leoedd gymeriad cymdeithasol: gwrywaidd/benywaidd, dosbarth gweithiol/cyfalafof, gwaith/hamdden, ac yn y blaen (Stanek, 2008). Nid yw'r nodweddion hyn yn bodoli'n ffisegol yn y lleoedd hyn ond mae'r lleoedd wedi'u trwytho ag ystyr cymdeithasol a diwylliannol. Mae hyn yn golygu bod y nodweddion hyn yn "bendant" yn yr ystyr eu bod yn bodoli yn y byd cymdeithasol ac yn y ffordd rydyn ni'n rhyngweithio â'r lle hynny, ond maen nhw'n "haniaethau" oherwydd heb drwytho'r lleoedd â'n dealltwriaeth gymdeithasol ein hunain, ni fyddai'r gwerth hwn yn bodoli yna. Yn yr un modd, mae cenedloedd yn 'ddiriaethol' (concrete) yn yr ystyr eu bod wedi'u trwytho ag ystyr cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd a diwylliannol ond eu bod yn 'haniaethol' (abstractions) yn yr ystyr ni fyddai cenedloedd yn bodoli heb eu trwytho ag ystyr. Felly, er bod cenedloedd yn cael eu *dyfeisio* neu eu *creu*, nid yw hyn yn eu gwneud yn llai *real*.

Dadleuodd Taylor (1994, t. 151) mai'r hyn sy'n gwneud cenedl-wladwriaethau'n unigryw yw eu delwedd gofodol-amserol, sy'n eu gwneud yn 'fythol'. Mae'n amlwg felly fod bwlch rhwng delwedd y genedl a'r realiti. Mae cenedl-wladwriaethau yn rhoi'r argraff eu bod yn endidau cyntefig ac mae'r nodweddion byrhoedlog hyn mewn gwirionedd yn rhoi cryfder iddynt:

*All social institutions exist concretely in some section of space, but state and nation are both peculiar in having a special relation with a specific place. A given state does not just exist in space, it has sovereign power in a particular territory. Similarly, a nation is not an arbitrary spatial given, it has meaning only for a particular place, its homeland. It is this basic community of state and nation as both being constituted through place that has enabled them to be linked together as nation-state. The domination of political practice in the world by territoriality is a consequence of this territorial link between sovereign territory and national homeland.*

Mae'r tudalennau blaenorol yn dangos pa mor anodd yw hi i ddiffinio beth yn union yw cenedl. Fodd bynnag, mae rhai wedi ymdrechu i wneud hyn. Diffiniodd Stalin (2015 [1954]) genedl fel:

*a historically constituted, stable community of people, formed on the basis of a common language, territory, economic life, and psychological make-up manifested in a common culture.*

Daeth Anthony Smith (1991, t. 14), i ddiffiniad cymharol debyg:

*a nation can therefore be defined as a named human population sharing an historic territory, common myths and historical memories, a mass, public culture, a common economy and common legal rights and duties for all members (pwyslais yn y gwreiddiol).*

Yn amlwg, mae anawsterau ynghlwm a'r ddau ddiffiniad; a allwch chi gael mwy nag un iaith gyffredin fel yng Nghymru, neu Gatalunya, neu hyd yn oed y Swistir? Pa mor bendant sydd angen i'r "diriogaeth gyffredin" fod, yn enwedig o ystyried y

newid yn y ffiniau yn Ewrop a thu hwnt dros y blynyddoedd? Nid oedd gan wledydd fel UDA a De Affrica hawliau a dyletswyddau cyfreithiol cyffredin *de jure* ar gyfer pob aelod tan yn ddiweddar iawn ac mae'n werth ystyried a yw'r rhain yn bodoli *de facto* mewn rhannau helaeth o'r byd hefyd. Ymhellach, sut mae rhywun yn cyflawni "hawliau a dyletswyddau cyffredin" heb wladwriaeth ganolog? Ar ryw ystyr, mae hyn yn rhagdybio nad yw lle yn genedl *nes* ei fod wedi ennill annibyniaeth. Ymddengys bod hyn yn awgrymu bod cysylltiad annatod rhwng cenedligrwydd a bod yn wladwriaeth. Fodd bynnag, mae'r cais i ffitio endidau hanesyddol newydd, datblygol, newidiol i fframwaith o barhad a chyffredinolrwydd yn golygu bydd rhai eithriadau bob amser (Hobsbawm, 1992, t. 6). Ar gyfer yr ymchwil hwn, mae'r diffiniadau hyn yn sylfaen gadarn.


Yr hyn sydd gan yr awduron hyn i gyd yn gyffredin, fodd bynnag, yw'r farn bod creu cenedl-wladwriaethau a datblygiad cyfalafiaeth yn brosesau cyfoes. Crëwyd a dyluniwyd biwrocratiaethau gwladwriaethol a systemau addysg cenedlaethol i greu marchnadoedd mewnol ar gyfer cynhyrchion cyfalafol ac i wneud dinasyddion yn deyrngar i'r wladwriaeth. Yn ymadrodd gwych Eugen Weber (1976), dyma oedd y broses o droi gwerinwyr yn Ffrancwyr. Fel y dadleuodd Gellner (2008, tt. 48-49),

*nationalism is not the awakening of an old, latent, dormant force, though that is how it does indeed present itself. It is in reality the consequence of a new form of social organization, based on deeply internalized, education-dependent high cultures, each protected by its own state. It uses some of the pre-existent cultures, generally transforming them in the process, but it cannot possibly use them all.*

## Y Craidd a'r Perifferi mewn Datblygiad Cenedlaethol

Fel y mae paradeim craidd-perifferi economaidd, mae hefyd paradeim craidd-perifferi gwleidyddol. Mae gwladwriaethau'n tueddu i ddatblygu o graidd gwleidyddol-economaidd megis Wessex yn achos y DU, Paris yn achos Ffrainc, Prwsia yn achos yr Almaen, Teyrnas Sardinia (Piedmont) yn achos yr Eidal ac yn y blaen. Mae ffurfio gwladwriaeth yn broses lle mae rhanbarth craidd yn goresgyn yr ardaloedd cyfagos sydd yn eu tro yn cael eu hamsugno i'r wladwriaeth diriogaethol (Lipset a Rokkan, 1967). Mae'r ardaloedd hyn yn dod yn berifferi mewnol ac mae'r system weinyddol ac economaidd, y diwylliant, ac iaith y craidd yn ymwthio i'r perifferi. Mae'r broses hon - fel cyfalafiaeth - yn mynd rhagddi mewn ffordd anwastad. Y craidd, sydd wrth wraidd y wladwriaeth y maen nhw eu hunain wedi'i chreu, felly yw delwedd y genedl newydd.

Mapiodd Pounds and Ball (1964) yr hyn yn eu tyb nhw oedd ardaloedd craidd gwladwriaethau Ewropeaidd, gan ddangos sut mae'r craidd gwreiddiol yn tyfu trwy ymgorffori, cyfeddiannu a goresgyn. Mae Ffigur 14 yn dangos eu canfyddiadau.



Figur 14: Ardaloedd Craidd Gwladwriaethau Modern. Ffynhonnell: (Pounds a Ball, 1964).



Mae treiddiad cyfalafiaeth a'r wladwriaeth i'r perifferi yn cael ei gyfyngu gan ddaearyddiaeth, cysylltiadau cynhyrchu traddodiadol, ac mewn rhai achosion iaith wahanol. Mae'r gwahaniaethau hyn yn golygu ei bod yn anoddach i'r wladwriaeth dreiddio i'r perifferi yn gyfan gwbl fel ag yn y craidd. Mewn llawer o achosion felly, mae ymdeimlad cenedlaetholgar gwleidyddol heddiw yn drawsosodiad ac yn ganlyniad i ddatblygiad cyfalafol a gwladwriaethol anwastad dros gannoedd o flynyddoedd. Yng ngeiriau Gellner (1964, t. 166):

*nationalism is a phenomenon connected not so much with industrialisation or modernisation as such, but with its uneven diffusion.*

Yn yr un modd ag Ernest Gellner, ceisiodd Tom Nairn (1975, t. 8) ddod o hyd i wreiddiau cenedlaetholdeb gwleidyddol mewn cenhedloedd di-wladwriaeth sydd wedi parhau er gwaethaf popeth, gan ddrysu llawer. Dywedodd:

*The subjectivity of nationalism is an important objective fact about it; but it is a fact which, in itself, merely reposes the question of origins. The real origins are elsewhere. They are located not in the folk, nor in the individual's repressed passion for some sort of wholeness or identity, but in the machinery of world political economy. Not, however, in the process of that economy's development as such — not simply as an inevitable concomitant of industrialization and urbanization. They are associated with more specific features of that process. The best way of categorizing these traits is to say they represent the uneven development of history since the eighteenth century. This unevenness is a material fact; one could argue that it is the most grossly material fact about modern history. This statement allows us to reach a satisfying and near-paradoxical conclusion: the most notoriously subjective and ideal of historical phenomena is in fact a by-product of the most brutally and hopelessly material side of the history of the last two centuries.*


Mae parhad cenedlaetholdeb lleiafrifol felly yn bodoli oherwydd y berthynas rhwng dau rym sydd yn gymar i'w gilydd: anwastadrwydd treiddiad cyfalafiaeth ac

anwastadrwydd treiddiad y wladwriaeth. Roedd y broses o 'droi gwerinwyr yn Ffrancwyr' yn llai cyflawn yn y perifferi nag yn y craidd. Dyma felly un o brif wrthgyferbyniadau cymdeithas gyfalafol; ar un llaw mae cyfalafiaeth yn ymledu'n ddirugaredd i bob cornel o'r byd ac yn ei uno mewn system wirioneddol fyd-eang. Ar yr un pryd, fe wnaeth y broses hon o gynnwrf cymdeithasol creu darniad newydd, peryglus, a dirdynnol o'r gymdeithas honno (Nairn, 1975, t. 11). Mae cyfalafiaeth yn arwain at integreiddio a dadintegreiddio. Mae dynoliaeth wedi'i uno mewn system-fyd, ac eto y mae'r uno hwn wedi arwain i ddymchwel hen gysylltiadau cymdeithasol.

Yn ei ddadansoddiad o genedlaetholdeb, gwahaniaethodd Charles Tilly (1994, t. 133) rhwng "state-led nationalism" a "state-seeking nationalism". Mae hyn yn ei hanfod yn ffordd arall o wahaniaethu rhwng cenedlaetholdeb lleiafrifol a mwyafrifol. Yr hyn sydd o ddiddordeb yw ei farn mai dim ond o ganlyniad i genedlaetholdeb dan arweiniad gwladwriaeth y datblygodd cenedlaetholdeb sy'n ceisio gwladwriaeth. Mae hyn yn arwain at ymholiad am y ddilechdid sy'n bodoli rhwng cenedlaetholdeb lleiafrifol a mwyafrifol. Mae'n ymddangos yn wrthreddfol, ond dim ond *ar ôl* creu cenedl-wladwriaethau y gellid llunio cenedlaetholdeb lleiafrifol yn yr ystyr wleidyddol, fodern. Nid yw cenedlaetholwyr lleiafrifol yn gweld eu hunain ar lun y genedl; sef y ddelwedd a grëwyd gan y mwyafrif. Fel y mae Marx yn honni bod y bourgeoisie yn creu eu cloddwyr bedd eu hunain, yn yr un modd mae cenedloedd mwyafrifol yn creu eu cloddwyr bedd nhw. Ni fyddai cenedlaetholdeb lleiafrifol yn bodoli heb gynydd cyfalafiaeth ac asio 'cenedl' a 'gwladwriaeth'. Cenedlaetholdeb lleiafrifol yw'r gwrthwyneb i genedlaetholdeb mwyafrifol; sef y cyfanrwydd dilechdidol. Drwy edrych ar y berthynas hon yn ddilechdidol, mae modd datgan mai cenedlaetholdeb mwyafrifol a chreu'r genedl-wladwriaeth yw'r *gosodiad (thesis)*, a chenedlaetholdeb lleiafrifol sy'n ceisio gwladwriaeth yw'r gwrthwyneb, y *gwrthosodiad (antithesis)*. Mae llawer o wladwriaethau wedi ceisio *syntheseiddio'r*

(synthesis) croesosodiad (contradiction) hwn. Digon yw dweud nad oes yr un wladwriaeth wedi llwyr ddileu'r croesosodiad hwn er bod llawer wedi ceisio.

Nid yw'r ddilechdid rhwng cenedlaetholdeb mwyafrifol ar un llaw a hunaniaeth genedlaethol leiafrifol ar y llall yn unochrog, mae'n newid yn gyson ac yn barhaus. Yn ôl Rokkan, (1999, t. 63) mae'r berthynas craidd-perifferi yn hollbwysig i'r ddau, ac oni bai bod y naill yn torri'n rhydd oddi wrth y llall, bydd y ddau yn ailddiffinio eu hunain yn barhaus yn nhermau, neu yn erbyn, y llall. Felly, gall cynnydd mewn hunaniaeth genedlaethol yn y perifferi arwain at adwaith gan y craidd sy'n cynnwys ymosodiad ar hawliau cenedlaethol y perifferi a chefnogaeth jingoistaidd i'r genedl fwyafrifol. Ar ben hynny, ni ddylid ystyried hunaniaeth fel rhywbeth rhagluniedig sydd wedi'i rag-roi. Mae'n cael ei ffurfio gan hanes, safle dosbarth, profiadau personol ac mae'r prosesau hyn eu hunain yn siapiro hunaniaeth.



*Ffigur 15: Y Berthynas Ddilechdidol Rhwng Cenedlaetholdeb y Craidd a'r Perifferi. (Gwaith yr Awdur).*

Gyda'i gilydd, y tudalennau blaenorol yw'r sylfaen ar gyfer adeiladu damcaniaeth ynghylch safle cenedloedd di-wladwriaeth o fewn y system-fyd yn Ewrop. Yn gyntaf, roedd yn bwysig fframio'r ddadl yn gysyniadol o fewn dadansoddiad systemau'r byd.

Yn ail, roedd yn bwysig cysylltu'r prosesau hyn â chenedlaetholdeb mewn cenedloedd di-wladwriaeth. Roedd hyn yn bwysig am ddau reswm, yn gyntaf, o ganlyniad i wrthdaro a theimlad cenedlaethol y gellir galw'r rhanbarthau hyn yn *genhedloedd*. Heb unrhyw deimlad o wahaniaeth cenedlaethol neu heb fframio rhai brwydrau fel brwydrau cenedlaethol, mae sylfeini unrhyw ddamcaniaeth am genedl-wladwriaeth yn anghynnaladwy. Yn ail, drwy edrych ar genedlaetholdeb (ac felly cenedloedd) yn y ffordd hon, daw'n amlwg:

*nationalism is not a set of isolated instances each to be explained in its own terms but rather as an integral part of the development of a 'world-system' in modern history and in this spirit links ... to the recent works of ... Immanuel Wallerstein (Orridge, 1981, t. 190).*

Bellach mae modd edrych yn benodol ar y tair astudiaeth achos a thrafod y *gorddatblygiad* neu *danddatblygiad* cymharol mewn cyd-destun cenedlaethol a dechrau eu gosod yn gysyniadol mewn system-fyd.

## V. Astudiaeth Achos 1: Sbaen

Yn baradocsaid, hen wladwriaeth yw Sbaen a aeth ati i adeiladu cenedl fewnol yn gymharol hwyr. Fel y dywedodd Juan Linz (1975, t. 425):

*Spain today is a state for all Spaniards, a nation-state for a large part of the population, and only a state but not a nation for important minorities.*

Fel y dadleuodd Weber bod yn rhaid i Ffrainc ‘wneud Ffrancwyr’, a Massimo d’Azeglio “we have made Italy: now we must make Italians”, roedd yn rhaid i wladwriaeth Sbaen, hefyd, ‘wneud’ Sbaenwyr. Roedd y broses hon, fodd bynnag, yn un anghyfartal. Dangosodd André Lecours (2001, t. 211) nad oedd nifer sylweddol o bobl a oedd yn byw yng ngwladwriaeth Sbaen yn ystyried mai ‘Sbaeneg’ oedd eu unig hunaniaeth. Dywedodd fod:

*regional identities are strongest in the Basque Country (49.7%), the Canary Islands (47.9%), Navarre (38.4%), Asturias (33.4%), Catalunya (31.8%), Galicia (24.2%) and Andalucía (20%) where between one-fifth and one-half of inhabitants feel only or more Basque, Canarian, Navarrese, etc. than Spanish.*

Mae angen esbonio'r ystadegau hyn. Yn gyntaf, dylem fod yn glir nad yw gwahaniaethau ieithyddol, a diwylliannol o reidrwydd yn trosi i wahaniaeth mewn hunaniaeth genedlaethol. Y Swistir yw'r enghraifft orau yn hyn o beth; mae gan y wlad bedair iaith swyddogol, ac eto nid yw hyn wedi arwain at fygythiad difrifol i hunaniaeth y Swistir.<sup>23</sup> Ymhellach, mae'r berthynas rhwng iaith a chenedlaetholdeb wedi bod yn anghyson ar y gorau:

---

<sup>23</sup> Daeth yr unig fygythiad 'difrifol' i Falcaneiddio'r Swistir o'r tu allan, pan awgrymodd Muammar Gaddafi i'r G8 yn 2009 y dylid 'diddymu'r' Swistir a'i rhannu rhwng Ffrainc, yr Almaen, a'r Eidal yn ol ffiniau ieithyddol. Ni aeth yr awgrym hwn ymhellach, fwy na thebyg am i Gaddafi anghofio ystyried i ba wladwriaeth y dylai'r siaradwyr Romansch gael eu hymgorffori.

*language and historical identity is in itself insufficient as an explanatory model. This is indicated by the fact that much of the Catalan industrial and commercial elite had abandoned Catalan in the eighteenth century, but in the early twentieth century they became the bankrollers of the major Catalanist party, the Lliga Regionalista. At the same time, Catalan was widely spoken in the Balearic Islands and Valencia, but strong nationalist movements did not grow up (sic) in those territories prior to 1936. Furthermore, Galician was far more widely spoken than Basque and even Catalan, yet nationalist parties were weaker than in either of these two territories (Mar-Molinero, 2020, tt. 12-13).*

Yn ail, os mai canlyniad uniongyrchol o wahaniaeth ieithyddol neu ddiwylliannol yn unig yw hunaniaeth, byddem yn disgwyl gweld hunaniaeth yr un mor gryf yng Ngwlad y Basg neu Catalunya yn Ffrainc ag a welir yn Sbaen. Fel y dywedwyd yn flaenorol o ran economïau gwledydd; nid yw diwylliant a hunaniaethau sy'n bodoli mewn lle wedi selio yn hermetig. Mae hunaniaethau'n siapio, ac yn cael eu siapio gan gyd-destunau hanesyddol, sefydliadol ac economaidd penodol. Trwy ddadansoddi yn ddilechdidol y berthynas rhwng perifferïau Sbaen a gwladwriaeth ganolog Sbaen fe ddylai'r sefyllfaoedd lle mae hunaniaethau rhanbarthol yn ffynnu dod i'r amlwg. Ni ddylid ystyried bod byddino gwleidyddol yn ôl hunaniaeth ranbarthol naill ai'n gyson nac wedi'i bennu ymlaen llaw. Mae ffigurau diweddar o 2023 yn dangos bod 38.2% o ymatebwyr yng Nghatalunya bellach yn teimlo'n fwy Catalan na Sbaeneg neu yn Gatalan yn unig (Statista, 2023). Mae hyn oddeutu 7% yn fwy na'r hyn a ganfuwyd gan Lecours yn 2001. Pe bai hunaniaeth a byddino hunaniaeth yn sefydlog, ni fyddem yn disgwyl gweld newid. Yn amlwg mae *rhywbeth* wedi newid. Er mwyn canfod *yr hyn* sydd wedi newid mae angen edrych yn ôl ar ffurfio gwladwriaeth Sbaen.

## Adeiladu Cenedl yn Sbaen

Yn Sbaen, roedd adeiladu cenedl, adeiladu gwladwriaeth, a diwydiannu yn brosesau cyfoesol. Fodd bynnag, roedd y prosiect o adeiladu gwladwriaeth Sbaen yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn arafach ac yn llai trylwyr nag yng ngwledydd gorllewin Ewrop.

*The integration of the peripheral areas, the acceptance of the State and the dissemination of the Castilian language progressed slowly and already by the end of the nineteenth century regional movements in Catalunya, the Basque Country and Galicia tried to propagate their own separate identity and language* (Storm, 2004, t. 143).

Mae gwreiddiau rhai o hynodion datblygiad cenedlaethol Sbaen i'w canfod yn y cyfnod cyn 'moderneiddio' a diwydiannu. Mae angen mynd i'r afael â chwmp Sbaen fel pŵer trefedigaethol o'r radd flaenaf i wladwriaeth wan yn fewnol ac yn allanol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif.

Yn gyntaf, mae Sbaen wedi bod yn annibynnol ers yr unfed ganrif ar ddeg, ac fel hen wladwriaeth nid oedd angen iddi gyfreithloni ei hun trwy brosesau adeiladu cenedl a oedd yn nodweddiadol o wladwriaethau Ewropeaidd 'newydd' fel yr Almaen a Gwlad Belg neu Ffrainc ar ôl sefydlu'r Drydedd Weriniaeth.

Yn ail, mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r sefyllfa yn Lloegr (Brydain yn ddiweddarach) neu Ffrainc, roedd brenhiniaeth Sbaen erioed wedi bod yn confederal o ran strwythur a byth wedi creu sefydliadau canolog llawn (Payne, 1991, t. 479). Yn bwysig yn achos Sbaen, ni ddaeth uniad gwleidyddol o ganlyniad i oresgyniad ond trwy briodas. Cwblhawyd uniad Teyrnasai Castilla ac Aragón yn 1469 gyda phriodas Isabel a Fernando. Roedd y teyrnasai hyn eu hunain wedi'u datganoli gyda'r taleithiau Basque a Galicia gyda rhywfaint o ymreolaeth o fewn teyrnas Castilla a gyda Catalunya, Valencia, yr Ynysoedd Balearaidd, Aragón ei hun,

yn ogystal â Sisili a Sardinia gyda'u senedd eu hunain yn nheyrnas Aragón. Fel y dadleuodd Junco (2020, t. 89):

*the dynastic union had a number of specific features. It comprised separate kingdoms with different legislations and autonomous institutions, which even maintained custom borders between them, thus differentiating the confederation from what we would today regard as a nation-state.*

Daeth Braudel (1995, p. 659) i gasgliadau tebyg, gan ddadlau bod Sbaen o dan deyrnasiad Fferdinand ac Isabella ddim yn genedl-wladwriaeth ond yn gymdeithas o deyrnasoedd, taleithiau, a phobloedd wedi eu huno yn y sofrren.

Er bod hwn yn uniad gwleidyddol rhwng teyrnasoedd Castilla ac Aragón, *yn hytrach* na Chatalwnia a Castilla, dadleuodd Lecours (2001, t. 216) mewn gwirionedd mai Catalunya oedd grym mwyaf y conffederasiwn Aragónaidd. Enghraifft o gryfder Catalunya oedd y ffaith i Falencia a'r Ynysoedd Balearaidd gael eu llyncu gan y conffederasiwn yn ddiweddarach. Ymsefydlodd y Catalaniaid yn y tiroedd hyn, gan adael treftadaeth ieithyddol a diwylliannol a welir hyd heddiw yn y Països Catalans (Gwledydd Catalunya). Roedd Catalaniaid felly yn gallu ymestyn eu pŵer o fewn fframwaith y conffederasiwn, yn hytrach na bod yn chwaraewr ar y perifferi.

Parhaodd y clytwaith hwn o ranbarthau ymreolaethol oedd yn bodoli yn nheyrnasoedd Castilla ac Aragón yn y system weinyddol newydd. Mae hyn yn wahanol iawn i achos Cymru yn y Deyrnas Unedig a'r Mezzogiorno yn yr Eidal fel y gwelir yn ddiweddarach.

Yn drydydd, roedd hunaniaeth Sbaenaidd wedi'i seilio'n draddodiadol ar grefydd genedlaethol sef Catholigiaeth yn hytrach na thrwy syniadau a sefydliadau dinesig fel yn Ffrainc. Roedd y *Reconquista*<sup>24</sup> a diarddel *Al-Andalus*<sup>25</sup> o'r cof torfol yn bwysig o

<sup>24</sup> Cyfieithir yn llythrennol fel 'ailoresgyniad'. Dyma'r broses o ailoresgyn y Tiroedd Mwraidd yn ne Iberia gan y Teyrnasoedd Cristnogol.

<sup>25</sup> Yr enw a roddwyd i Iberia dan reolaeth Fwslemaidd



ran cyfuno syniadau am fod yn *Sbaeneg* a Chatholigiaeth, gan eu gwneud yn anwahanadwy. Fel y dadleuodd García-Sanjuán (2016, t. 128):

*the role played by Catholicism ... was not only political, but also had important social and ideological expressions and a decisive influence on the new nationalist way of understanding the past. A cohesive ideology based on the principle of the indissoluble unity between Spanish national identity and the Catholic faith spread.*

Yn ddiddorol, mae cenedlaetholwyr Andalusiaidd presennol, ymhell o ddiarddel rôl y Mwriaid, yn tueddu i beintio darlun delfrydol o reolaeth Fwraidd gan ddweud “it was brought to a brutal close by conquest (not reconquest as in the Spanish nationalist narrative) at the hands of the barbarous Castilians” (Mar-Molinero a Smith, 2020, t. 8).

Er bod yr uchod yn cyfeirio at wendidau o ran adeiladu cenedl Sbaenaidd, dadleuodd Junco (2020, t. 95) nad oedd hyn yn golygu nad oedd hunaniaeth Sbaenaidd yn bodoli:

*There is something in which both Spaniards and non-Spaniards certainly agreed by the middle of the nineteenth century: there was such a thing as a Spanish identity, a Spanish character, a Spanish ‘soul’ or ‘essence’, with very definite traits; the Spanish way of being was, in fact, one of the stereotypes most widely accepted among the European collective identities of that period. This international recognition concurred with a similar internal acceptance. Throughout the whole nineteenth century nobody seriously challenged the existence of a Spanish nation, the same as nobody challenged the unity of the Spanish State: certainly not the Carlists in the 1830s and not even the federalists of 1873.*

Yn olaf, ni fu unrhyw fygythiad tramor canfyddedig na gwirioneddol i wladwriaeth Sbaen yn ystod y ddau gan mlynedd diwethaf (Payne, 1991) (Storm, 2004). Ni phrofodd Sbaen unrhyw beth tebyg i'r rhyfel rhwng Ffrainc a Phrwsia, ac ni chymerodd ran yn y naill Ryfel Byd na'r llall. Ni chafodd niferoedd enfawr o bobl

erioed eu galw i godi arfau a'u trwytho â brwdfrydedd gwladgarol; ni chafodd y boblogaeth gyfan ei byddino i amddiffyn y famwlad yn gyfnewid am les cymdeithasol a hawliau etholiadol. Yn ôl Mosse (1975) ni welwyd y “nationalisation of the masses” yn Sbaen erioed.

Roedd deinameg penodol gwladwriaeth Sbaen a grybwyllwyd uchod yn golygu bod y grymoedd mewngyrchol oedd yn deillio o'r craidd (Castilla yn yr achos hwn) yn gymharol wan, tra bod y grymoedd allgyrchol yn deillio o'r perifferi (megis Catalunya, Gwlad y Basg, a Galicia) yn gymharol gryf. Roedd y berthynas ddilechdidol rhwng y craidd a'r perifferi yn wahanol felly i'r un oedd yn bodoli rhwng de-ddwyrain Lloegr a Chymru y manylir arno'n ddiweddarach. Yn achos Sbaen, nid oedd yn bosibl meddwl yn nhermau craidd 'datblygedig' a pherifferi economaidd 'annatblygedig', yn hytrach, daeth y perifferïau cryf yn ganolfannau amgen i Castilla (Muro a Quiroga, 2004, t. 20 ). Roedd (ac mae) y perifferïau hyn yn ddatblygedig yn economaidd, yn gysylltiedig yn wleidyddol ac yn wahanol yn ddiwylliannol i Castilla.

## Adeiladu'r Wladwriaeth yn Sbaen

Er bod y broses o saernio'r wladwriaeth yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Sbaen yn wan a thameidiog, roeddynt yn bodoli. Y broses fwyaf llwyddiannus oedd integreiddio'r economi ar draws Sbaen gyfan. Crëwyd Cyfnewidfa Stoc Sbaen yn 1831, a system dreth unedig yn 1845, ffurfiwyd Banc Sbaen yn 1856, a chyflwynwyd arian cyfredol cenedlaethol - y *Peseta* - yn 1868. Ond roedd ochr fwy 'diwylliannol' adeiladu gwladwriaeth Sbaen fodd bynnag, yn llai cyflawn a phellgyrhaeddol, a dim ond yn 1908 y mabwysiadwyd yr anthem genedlaethol yn swyddogol. Yn y cyfnod hwn, ar y groesffordd rhwng 'moderniaeth' a thraddodiad, a'r gwrthdaro rhwng canoli ac ymreolaeth y daeth hunaniaeth genedlaethol i'r amlwg nid yn unig yng

Nghatalunya, ond hefyd yn y Taleithiau Basg. Mae hyn yn bwysig i'r dadansoddiad hwn gan ei fod yn dangos bod yr un prosesau wedi effeithio ar Sbaen gyfan, ond eto mewn ffyrdd gwahanol. Mae dadansoddiad o'r math hwn yn dangos a yw prosesau'n benodol i Gatalunya, gwladwriaeth ehangach Sbaen, neu'n amrywio ar draws rhanbarthau.

Hyd at ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, parhaodd y taleithiau Basg<sup>26</sup> ag arfer gwleidyddol o'r enw'r *fueros* a deilliodd hedyn hunaniaeth genedlaethol o'r arfer gwleidyddol hwn. Cytundeb gwleidyddol rhwng y Goron a'r tair talaith Basg oedd y *fueros* a roddodd yr hawl i'r tair talaith gadw eu system gyfreithiol eu hunain. Yn bwysig iawn yn achos y taleithiau Basg, roedd y deddfau hyn yn aml yn cael eu trosglwyddo ar lafar yn yr iaith Fasgeg. Cyflwynodd hyn:

*a dimension of collective distinctiveness to the Basque political landscape. The fueros became crucial elements in the historical construction of the Basque identity because they symbolised both internal unity and distinctiveness with respect to the rest of the peninsula (Lecours, 2001, t. 216).*

Ceisiodd gwladwriaeth Sbaen ganoli, 'moderneiddio', a safoni'r systemau gwleidyddol traddodiadol hyn. Nid oedd bodolaeth y *fueros* yn nhaleithiau'r Basg yn plethu gyda'r fframwaith strwythurol newydd yma. Ceisiodd y wladwriaeth Sbaeneg, felly, diddymu'r *fueros*.

Wnaeth y realiti newydd yma arwain at wrthdaro, gyda'i anterth yn y Rhyfeloedd Carlaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (1833-1840 a 1876-1878). Roedd y Carliaid yn ymladd o blaid cymdeithas draddodiadol a pharhad y *fueros*. Oherwydd i'r Carliaid gollu'r frwydr i'r *Christinos* (cefnogwyr Coron Sbaen) yn y taleithiau Basg, arweiniodd hyn at ddileu'r *fueros* Basgaid. Aeth yr hen elitau gwleidyddol a

---

<sup>26</sup> Dadleuodd Lecours (2001) na ellir ystyried y tair rhanbarth sy'n cyfateb i Wlad y Basg heddiw fel 'gwlad' tan droad yr ugeinfed ganrif oherwydd diffyg profiad hanesyddol cyffredin. Crewyd y syniad o 'Wlad y Basg' o'r tair talaith Basg. Nid y bwriad felly yw'r defnyddio'r geiriau'n gyfnewidiadwy ond fe'l defnyddir i ddynodi cyfnodau gwahanol yn y broses o greu 'cenedl Basg'.

gollodd statws, pŵer a chyfalaf yn ystod y Rhyfeloedd Carlaidd ati i ail-ddatgan eu grym mewn dulliau 'cenedlaethol'. Cymerodd arweinydd y Carliaid, Sabino Arana, hen ddaliadau Carliaeth (ymreolaeth, crefydd, a thraddodiadaeth) a'u harosod ar syniadau am neilltuolrwydd a 'phurdeb' iaith a'r hil Fasgeg (Medrano, 1994, t. 75). Roedd credoau Arana ymhell o fod yn ddi-broblem, ac roedd yn amlwg wedi mabwysiadu syniadau hiliol gogledd a gorllewin Ewrop.<sup>27</sup> Dadleuodd fod y "Basques formed a pristine European race, which had remained unconquered in the Cantabrian mountains and Pyrenees throughout the ages" (Mar-Molinero a Smith, 2020, t. 8).

Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu, am y tro cyntaf, fod hawliadau *taleithiol* rhanbarth Basg yn cael eu trawsosod fel rhan o hawliau *cenedlaethol* ehangach. Cyhoeddodd Arana fod yna gymuned Ffasgaid a oedd yn unedig yn ddiwylliannol, yn ieithyddol, yn ethnig, ac yn gymdeithasol, ac yn wahanol i weddill Sbaen (Conversi, 1997, t. 53).

*In the context of this struggle against centralisation, Arana created several Basque symbols: a name for a 'Basque Country' above and beyond provincial borders (Euskadi), a flag, an anthem, a national holiday and a political party, the Partido Nacionalista Vasco (PNV) (Lecours, 2001, t. 217).*

Felly crëwyd *cenedl* Fasg yn hytrach na *thaleithiau* Basg.<sup>28</sup> Mae'r achos Basg yn addysgiadol yn y modd y mae'n dangos sut mae cenedloedd yn cael eu ffurfio o brosesau neu *ethnïau* diwylliannol, cymdeithasol, gwleidyddol a hanesyddol sydd yn real iawn, ond eto mae'r broses o drawsnewid y ffactorau hyn yn rym gwleidyddol trawiadol yn dibynnu ar y newidiadau materol mewn cymdeithas. Cawn ein hatgoffa o ddyfyniad y cyfeiriwyd ato'n gynharach

<sup>27</sup>Am hanes y safbwyntiau hyn gweler (Losurdo, 2014).

<sup>28</sup>Nid yw hyn yn rhagdybio bod y genedl Basg yn llai 'real' nag unrhyw genedl arall. Mae pob cenedl yn cael ei chreu a'i dychmygu mewn rhyw ffordd. Maent oll yn dioddef o geisio cyfleu dechreuad cysefin tra'n llesteirio'u gwreiddiau modern, cyfalafol amlwg.

*the most notoriously subjective and ideal of historical phenomena is in fact a by-product of the most brutally and hopelessly material side of the history of the last two centuries* (Nairn, 1975, t. 8).

Nid yw ffurfio hunaniaeth ranbarthol yn broses ddigymell. Gall *gwahaniaeth* ieithyddol a diwylliannol ei atgyfnerthu, ond mae angen ei feithrin a'i saernïo. Roedd trefniadaeth diriogaethol benodol gwladwriaeth gynnar Sbaen yn cynnwys hadau embryonig *gwahaniaethau* a allai ymhen amser grisialu yn hunaniaeth genedlaethol neu ranbarthol. Mae'r berthynas hon rhwng gwleidyddiaeth a diwylliant ar un llaw, a'r economi ar y llaw arall yn werth ei dadansoddi. Yn unol â syniadau Marx am sylfaen economaidd ac aradeiledd cymdeithas, mae un agwedd yn atgyfnerthu'r llall (Marx, 1904, t. 11). Arweiniodd seiliau diwylliannol a gwleidyddol arbennig *gwlad* newydd y Basg at fodel economaidd arbennig.

Roedd y model hwn yn seiliedig ar ddiffyndollaeth diwydiannau Basg (yn hytrach na rhai Sbaen). Roedd hyn yn golygu bod diwydiannau pwysicaf Gwlad y Basg, megis dur, ar ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif yn eiddo i Fasgiaid (Azurmendi et al., 2008). Ymhellach, ariannwyd y cyfalafwyr Basg hyn gan fanciau Basg – yn hytrach na Sbaenaidd – megis y *Banco de Bilbao*, *Banco de San Sebastian* a'r *Banco de Comercio* (Barrutia et al, 2003, tt. 18-26). Mae'r gwahaniaeth diwylliannol hwn yn parhau i fod yn bwysig yn economaidd heddiw ac mae'n amlwg wedi effeithio ar sefyllfa economaidd Gwlad y Basg o gymharu â gweddill Sbaen. Yn y 1970au a'r 1980au, roedd prif ddiwydiannau trymion y Basg yn hynafol ac yn anghystadleuol o gymharu â datblygiad y Teigrod Asiaidd a oedd yn dechrau dod i'r amlwg. Oherwydd bod y diwydiannau hyn wedi'u hymwreiddio, yn hytrach na'u bod yn berchen i sefydliadau allanol, rhoddodd y Llywodraeth Basg gymorthdaliadau hael i'r diwydiannau er mwyn ailhyfforddi, addasu a meithrin marchnadoedd newydd (Elola, et al., 2017). Golygodd na wnaeth Gwlad Y Basg brofi'r un diweithdra aruthrol ag a brofodd lleoedd fel Cymru ar ôl cau llawer o'r diwydiannau trwm. Mae gwahaniaeth diwylliannol a phenderfyniadau a wnaed ar

ddechrau'r 20fed Ganrif, felly, wedi helpu i lunio sefyllfa economaidd Gwlad y Basg heddiw.

## Yr 'Aileni' Catalanaidd

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, profodd Catalunya dair proses wahanol ond cydberthynol. Yn gyntaf, roedd canol a diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfnod o 'adfywiad' cenedlaethol. Roedd atgyfnerthu (a chreu) symbolau diwylliannol, a chariad newydd at yr iaith Gatalaneg yn dilyn yr un tueddiadau â mudiadau Rhamantaidd Ewropeaidd mewn gwledydd eraill ar y cyfandir.

Dadleuodd Muro a Quiroga (2004, t. 23) bod y:

*process of recovery began around the 1850s when the Catalan language, which had been neglected for over 200 years, started to become widely used in the public sphere. What came to be known as the Catalan Renaixença (Rebirth) began as a cultural movement that did not imply rupture with Spain, but later constituted the basis for political nationalism.*

Benthyciodd y cenedlaetholwyr Catalanaidd cynnar hefyd ddisgyrsiau hiliol Ewropeaidd a'u defnyddio at eu mantais wleidyddol eu hunain (Marfany, 2006). Fe wnaethant ddatblygu'r ddadl bod Catalaniaid o stoc Geltaidd neu Ariaidd Ewropeaidd, tra bod y Castiliaid yn Semitiaid o dras Affricanaidd (Mar-Molinero a Smith, 2020, t. 8).

Yn ail, yn yr 1830au daeth Catalunya yn ganolfan gyntaf datblygiad diwydiannol Sbaen. Roedd diwydiannu Catalunya yn golygu ei bod ar lwybr economaidd cynyddol ymwahanol i Castilla a oedd yn dal i gael ei ddominyddu i raddau helaeth gan gysylltiadau cyfalaf cyn-ddiwydiannol. Roedd gwasgariad anwastad cysylltiadau cyfalafol a diwydiannol yn Sbaen - a rhwng Catalunya a Castilla yn

benodol - yn golygu y gallai Catalunya ymwahanu a chadarnhau ei safle fel y grym economaidd amlycaf ar y penrhyn (Shafir, 1992, t. 108). Roedd sefyllfa amlwg economi Catalunya yn golygu bod y bourgeoisie yng Nghatalunya yn frodorol yn bennaf, yn hytrach na wedi ymfudo o Castilla.

Y drydedd broses gydgysylltiedig oedd treiddio'n llwyr i farchnad fewnol Sbaen a phwysigrwydd hyn i gyfalafwyr Catalunya. Arweiniodd rhyddfrydoli'r farchnad fewnol a chwblhau'r rhwydwaith rheilffyrdd at greu marchnad genedlaethol. Mewn gwirionedd, arweiniodd cwblhau'r rheilffyrdd at ostyngiad enfawr o 86% mewn prisiau trafnidiaeth (Martinez-Galarraga, et al., 2015, t. 505). Roedd cwblhau'r farchnad fewnol Sbaenaidd hon yn bwysig i weithgynhyrchwyr Catalunya. Roedd mentrau tecstilau gwladwriaethol a chotwm Catalunya yn gymharol anaeddfed ar ddechrau'r 19eg ganrif ac ni fyddent wedi gallu cystadlu â phwysau parhaus gan ddiwydiannau mwy aeddfed yn Lloegr a'r Iseldiroedd. Roedd bourgeoisie Catalunya felly'n dibynnu ar bolisiau diffynnaeth gwladwriaethol Sbaen, a oedd yn gwarchod diwydiant Catalunya ac ar yr un pryd yn creu marchnad gartref ar gyfer y cynhyrchion hyn (Schmidt-Nowara, 1998, t. 615). Bu chwyldro technolegol yn y diwydiant tecstilau rhwng y 1830au a'r 1850au a sicrhodd eu bod yn medru cystadlu gyda safonau Ewropeaidd. Yn dilyn hynny, erbyn 1860, roedd diwydiant Catalunya wedi cipio 80% o farchnad Sbaen ar gyfer cynhyrchion tecstilau (Medrano, 1994, t. 553).

O ganlyniad, nid oedd bourgeoisie Catalunya yn pwysu am ymwahanu yn y cyfnod hwn. Ymhellach, roedd y dosbarth gweithiol Catalunya yn bennaf yn anarcho-syndicalyddion neu'n Farcswyr a olygai fod y cwestiwn cenedlaethol yn cael ei ystyried yn fater eilradd. Fel y dadleuodd Smith (2020, t. 174):

*within the anarchist movement there was also a more radical, passionately internationalist strand, which regarded any compromises with nationalism as heresy.*

Yn eironig, efallai bod cryfder syndicaliaeth o fewn y dosbarth gweithiol Catalanaidd wedi arwain y bourgeoisie Catalanaidd i bwysu ar wladwriaeth ganolog Sbaen i'w hamddiffyn rhag chwyldro posibl, yn hytrach na ystyried y wladwriaeth ganolog fel rhwystr (Medrano, 1994) (Lecours, 2001).

Ymhell o fod ar y perifferi yn economaidd, felly, economi Catalunya oedd sbardun datblygiad diwydiannol yn Sbaen. Mewn gwirionedd, erbyn diwedd y 19eg ganrif, roedd chwarter o'r 200 o gorfforaethau mwyaf Sbaen yn dod o Gatalunya (Medrano, 1994, t. 557). Dadleuodd Rosés et al. (2010, t. 2) fod strwythur craidd-perifferi Cynnyrch Mewnol Crynswth (CMC) y pen yn Sbaen wedi'i ffurfio'n llwyr erbyn 1930. Roedd craidd economaidd Sbaen yn ardal drionglog gyda Madrid, Gwlad y Basg a Chatalunya yn brif ganolfannau, gyda perifferoldeb yn cynyddu wrth symud tuag at Bortiwgal. Ymhell o fod ar y perifferi yn economaidd neu'n wleidyddol yn y cyfnod hwn, roedd Catalunya yn mwynhau safle cymharol freintiedig ac roedd ei masnachwyr - a chyfalafwyr yn ddiweddarach - yn dibynnu ar wladwriaeth ganolog Sbaen am farchnadoedd ac amddiffyniad.

## Catalunya, Sbaen, a'r Ymerodraeth

Ffactor nad yw'n cael ei astudio'n ddigonol o ran y newid yn amlygrwydd hunaniaeth Catalanaidd, yn ogystal â gwendid prosesau adeiladu cenedl fewnol gwladwriaeth Sbaen yw rôl Ymerodraeth Sbaen. Cyn y 19eg ganrif, roedd eiddo trefedigaethol Sbaen yn golygu y gallai'r wladwriaeth edrych tuag at allan am farchnadoedd yn hytrach na bod angen marchnad fewnol gref. Roedd gan yr Ymerodraeth hefyd oblygiadau pwysig o ran sut yr oedd bourgeoisie Catalunya yn edrych ar fanteision ac anfanteision bod yn aelodau o wladwriaeth Sbaen.

Yn 1898, colodd Sbaen weddillion olaf ei hymerodraeth drefedigaethol enfawr. Roedd y Rhyfel Sbaen-Americanidd yn golled gywilyddus i'r Sbaenwyr a'r



canlyniad oedd annibyniaeth (mewn enw) i Cuba<sup>29</sup> a 'cholli' Puerto Rico a'r Pilipinas (Philippines) hefyd. Yn y wlad, roedd y digwyddiadau hyn yn cael eu galw'n *El Desastre* (y trychineb). Dadleuodd Storm (2004) fod hwn yn drobwynt gwirioneddol yn hanes Sbaen. Arweiniodd colli'r trefedigaethau economaidd pwysig hyn at ysgogi mudiadau rhanbarthol yng Nghatalunya a Gwlad y Basg. Cyn *El Desastre*:

*Catalans and Basques implicated in the colonial project defended and promoted the Spanish nation as fiercely as any Castilian* (Schmidt-Nowara, 2004, t. 199).

Dadleuodd Mar-Molinero a Smith (2020, t. 13) fod y bourgeoisie o Gatalunya wedi eu cythruddo mewn gwirionedd gan anallu'r gyfundrefn i amddiffyn eu buddiannau. Mae'n bosibl bod bourgeoisie Catalunya yn ffafrio rhywfaint o ddatganoli gweinyddol, ond mi wnaethant amddiffyn y farchnad drefedigaethol 'genedlaethol' a thueddiadau canoliaethol (centralist) gwladwriaeth Sbaen yn frwd.

Er mwyn deall ymhellach bwysigrwydd yr Ymerodraeth i Gatalunya, mae angen dadansoddi rôl ganolog trefedigaethau yn economi Catalunya a rôl ganolog Catalaniaid o fewn y system drefedigaethol. Yn y 19eg Ganrif, roedd y ganran fwyaf o lawer o fasnachwyr yng Nghiwba yn dod o Gatalunya (Schmidt-Nowara, 1998, t. 610). Yn Santiago - sef porthladd mwyaf Cuba ar y pryd - yn syfrdanol, roedd 70% o'r holl fasnachwyr yn Gatalaniaid. Roedd cyfalaf masnachol o'r ffynonellau hyn yn bwysig i hybu chwyldro diwydiannol Catalunya ac felly roedd o fudd i gyfalafwyr Catalunya barhau'n rhan o Sbaen gan fod hyn yn caniatáu mynediad iddynt i eiddo trefedigaethol Sbaen. Roedd colli'r trefedigaethau hyn yn golygu bod y bourgeoisie Catalanaidd yn colli eu marchnadoedd trefedigaethol ac felly dechreuwyd cwestiynu manteision bod ynghlwm â gwladwriaeth ganolog wan a oedd yn methu tawelu gwrthryfel yn y trefedigaethau nac amddiffyn eu buddiannau rhag yr Unol Daleithiau.

---

<sup>29</sup> Daeth Cuba yn annibynnol o'r Sbaenwyr ond i bob pwrpas datblygodd perthynas neo-drefedigaethol rhwng Cuba ac Unol Daleithiau America.

Cafodd meddu ar ymerodraethau trefedigaethol effeithiau economaidd a chymdeithasegol. Nid yn unig roedd y rhanbarthau hyn yn ffynonellau o bŵer llafur, adnoddau, a marchnadoedd, ond roeddent hefyd yn golygu bri, pŵer a statws. Yn Ewrop y 19eg Ganrif, roedd meddiannu trefedigaethau yn gyfystyr a bod yn 'fodern', yn ddiwydiannol, ac yn 'Bŵer Mawr'. Yn hyn o beth, roedd y Deyrnas Unedig a Ffrainc mewn sefyllfa ragorol, ac roedd hyn yn pwysu'n drwm ar Sbaen yn ogystal â'r hwyrdyfodiaid cymharol i 'genedligrwydd' sef yr Almaen a'r Eidal. Yn yr Almaen, roedd yr angen i 'ddal i fyny' â phwerau trefedigaethol Ffrainc a Phrydain yn golygu bod y wlad wedi mynd ati i wladychu'r rhan fwyaf o ranbarthau Affrica oedd 'heb eu hawlio' hyd yma, a oedd yn cynnwys rhannau o Rwanda, Tanzania, Namibia, Gweriniaeth Canolog Affrica, Chad, a Nigeria. Erbyn cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf, yr Almaen oedd â'r drydedd ymerodraeth drefedigaethol fwyaf yn y byd. Gellir ystyried y pwysigrwydd a osododd y Natsïaid ar *Lebensraum* hefyd fel ffurf ar ehangiad trefedigaethol, Ewropeaidd. Yn yr Eidal, roedd ffasgiaeth a'r ymdrech i sicrhau eiddo trefedigaethol yn mynd law yn llaw. 'Adref' yn Ewrop, ymdrechodd irentiaeth Eidalaid i ddod ag ardaloedd ethnig ac Eidaleg eu hiaith mewn gwladwriaethau eraill o dan adain y wladwriaeth Eidalaid oedd newydd ei ffurfio. Dramor, ymdrechodd Mussolini adfer goruchafiaeth yr Eidal dros *Mare Nostrum* (Ein Môr Ni) sef yr enw a roddodd yr Ymerodraeth Rufeinig ar Fôr y Canoldir. Arweiniodd hyn at obsesiwn yr Eidal a cheisio goresgyn Libya fel yr adwaenir hi heddiw, ac Ethiopia.

Y gwahaniaeth mwyaf rhwng yr Eidalwyr a'r Almaenwyr ar un llaw, a'r Sbaenwyr ar y llaw arall oedd bod y gwledydd blaenorol yn dyheu am drefedigaethau yn y dyfodol, tra bod statws Sbaen ar ôl 1898 fel arch pŵer trefedigaethol yn perthyn yn ddi-os i'r gorffennol (Storm, 2004). Roedd Sbaen yn ei hanfod wedi dod - a byddai'n aros - yn bŵer eilradd. Cadarnhawyd y canfyddiad hwn o'r tu allan ac arweiniodd y colli tiriogaethau trefedigaethol at yr Arglwydd Salisbury yn datgan yn 1898 fod Sbaen yn 'genedl a oedd yn marw' (Muro a Quiroga, 2004, t. 24). Arweiniodd hyn at

densiwn dilechdidol o ran y broses o adeiladu cenedl yn Sbaen: ar un llaw gwnaeth y broses o greu *mythos* ac ymwybyddiaeth genedlaethol Sbaenaidd yn fwyfwy anghynladwy, gan fod y genedl wedi colli ei rhyfeddod. O ganlyniad, gwthiwyd y dosbarthiadau uwch a chanol yn y 'perifferi' yng Nghatalunya a Gwlad y Basg i edrych yn fewnol ar eu mudiadau rhanbarthol fel gwrthglawdd yn erbyn gwladwriaeth Sbaenaidd oedd yn gwanhau, a hunaniaeth a oedd yn eu gwneud yn ddinasyddion eilradd o fewn y system-fyd. Roedd diwedd menter drefedigaethol Sbaen yn golygu bod y cysylltiadau ideolegol ac economaidd a oedd yn cysylltu rhanbarthau Sbaen â'i gilydd wedi dechrau ymddatod. Mewn gwirionedd, dadleuodd AS o Gatalunya yn 1898 yn y Senedd, pe bai Sbaen wedi bod yn genedl lwyddiannus, na fyddai unrhyw ymgais na rheswm i amau cyfreithlondeb y wladwriaeth (Dalle Mulle, 2017, t. 23). Roedd cysylltiad anorfod felly rhwng y cynnydd mewn ymdeimlad Catalanaidd a theimlad cenedlaethol ar y naill law a dirywiad pŵer byd-eang y wladwriaeth Sbaenaidd o ganlyniad i golli ei threfedigaethau ar y llaw arall.

## Catalunya, Sbaen a Ffasgaeth

Nid oedd pawb yn profi hunaniaeth Gatalanaidd yn yr un ffordd; roedd safle dosbarth yn rhyngweithio â hunaniaeth genedlaethol. Rhwng 1900 a diwedd Rhyfel Cartref Sbaen, cynrychiolwyd y bourgeoisie Catalanaidd yn bennaf gan y *Lliga de Catalunya*; plaid wleidyddol a frwydrodd dros fuddiannau Catalanaidd bourgeois megis trethi is ar elw diwydiannol. Fodd bynnag, ni wthiodd y *Lliga* am annibyniaeth i Gatalunya, yn bennaf oherwydd eu bod ofn potensial chwyldroadol y dosbarth gweithiol Catalanaidd (Medrano, 1994, t. 550). Roedd dosbarth, a buddiannau cenedlaethol y bourgeoisie Catalanaidd felly yn ymdoddi i ryw safle hanner ffordd rhwng awyddfryd ac atgasedd at wladwriaeth ganolog Sbaen. Efallai

fod gwladwriaeth Sbaen yn amhoblogaidd, ond roedd yn rhwyd diogelwch i fourgeoisie Catalunya, y gellid ei ddefnyddio fel gwrthglawdd i'w cadw'n ddiogel rhag y dosbarth gweithiol radical. Yn wir, yn y frwydr rhwng dosbarth a chenedl, penderfynodd y bourgeoisie Catalanaidd mai dosbarth oedd y peth pwysicaf iddyn nhw. Cefnogodd y *Lliga de Catalunya* Primo de Rivera, a deyrnasodd dros gyfnod unbenaethol yn Sbaen rhwng 1923-1930 gan ei fod yn cynnig achubiaeth a modd i adfer trefn yn wyneb cynnwrf cynyddol ymhlith y dosbarth gweithiol (Medrano, 1994) (Dalle Mulle, 2017). Oherwydd hyn, ystyrir y *Lliga* fel plaid draddodiadol, wrth-ddemocrataidd, ond eto un a oedd yn ystyried ei hun fel y sbardun i ddiwydiannu'r gymdeithas Gatalanaidd, ac o'r herwydd, y gymdeithas Sbaenaidd. Fel y dadleuodd Erlich (1997, t. 212), roedd y *Lliga* a bourgeoisie Catalunya wedi cefnu ar eu hunaniaeth genedlaethol o blaid pryderon cyfalafol. Roedd y ffaith bod cyfalafwyr Catalunya wedi cefnogi'r ochr adweithiol yn y 1920au yn paratoi'r ffordd ar gyfer arddel *Catalaniaeth* fwy egalitaraidd ac adain chwith am y tro cyntaf. Gwrthwynebodd arweinwyr gweriniaethol cenedlaetholgar Catalunya yn frwd unbennaeth Primo de Rivera a arweiniodd at gydweithio gyda grwpiau gwleidyddol adain chwith er mwyn adfer rheolaeth ddemocrataidd.

Prif enillwyr gwleidyddol cwmpwyr Rivera yng Nghatalunya oedd yr *Esquerra Republicana* (y Chwith Gweriniaethol). Enillon nhw etholiadau dinesig 1931 yn rhwydd a galw am yr hawl i benderfynu drostynt eu hunain ar faterion fel hawliau gweithwyr, mesurau lles, a diwygio amaethyddol (Medrano, 1994, t. 291). Y broses hon a greodd y *Gatalaniaeth* flaengar yr ydym wedi arfer ei gweld heddiw; cyn hyn roedd hunaniaeth Gatalanaidd yn cael ei harfogi'n bennaf gan y bourgeoisie Catalanaidd i wella eu sefyllfa mewn perthynas â chyfalafwyr eraill. Parhaodd y dilechdid cryf rhwng hunaniaeth Sbaenaidd a hunaniaeth ranbarthol, gyda'r ymdeimlad o fod yn Sbaenaidd - yn rhannol mewn ymateb i gryfder newydd hunaniaeth yn y perifferi - yn symud tuag at awdurdodyddiaeth.

Trechwyd Gweriniaethwyr a sosialwyr Sbaen yn y Rhyfel Cartref, ac o ganlyniad, bu Sbaen dan arweiniad unbenaethol a ffasgaidd Francisco Franco am 35 mlynedd.

*Raison d'être* cyfundrefn Franco oedd "the eradication of the twin evils of communism and separatism" (Medrano, 1994, t. 292). Oherwydd cryfder yr ymdeimlad ymwahanol ar y perifferi, gosododd Franco weledigaeth homogenaidd o hunaniaeth Sbaenaidd, gydag iaith, hunaniaeth, crefydd, a diwylliant Castilla fel yr unig feini prawf o ran bod yn Sbaenaidd (Moreno, 1997, t. 75). I gwblhau'r broses hon, roedd Franco'n dibynnu ar drais yn ogystal â chymathu diwylliannol ac ieithyddol i dagu hunaniaeth ranbarthol.

*The notion of unity was central to the Francoist ideology. The Patria, according to Franco himself, was 'spiritual unity, social unity, historic unity'. Catholicism was to be the 'crucible of nationality'. In this pursuit of unity, the state was to be central. It was through organised power that the nation would be re-made, and the people disciplined. This unity, imposed by the state, entailed an iron centralism which denied the existence of regional cultural difference* (Richards, 2020, t. 150).

Dadleuodd Payne (1991, t. 487) fod natur dreisgar, ormesol yr hunaniaeth Sbaenaidd a oedd yn cael ei wthio ar y perifferi wedi cael yr effaith wrthgynhyrchiol o ailddeffro teimladau cenedlaetholgar dwys yn y rhanbarthau mwyaf nodedig. Felly daeth cenedlaetholdeb rhanbarthol ac ymgyrchu poblogaidd yn erbyn gwladwriaeth Franco at ei gilydd; roedd bod yn Gatalan yn golygu bod yn rhyddfryddol-ddemocrataidd tra bod hunaniaeth Sbaenaidd wedi'i chyfuno ag awdurdodyddiaeth. Roedd fel petai 'bod yn Gatalan' yn weithred o wrthwynebiad yn erbyn y wladwriaeth ganolog. Roedd Catalunya yn amlwg ar y perifferi mewn ystyr ddiwylliannol yn ystod cyfnod unbennaeth Franco. Mewn gwirionedd, dyma'r tro cyntaf y gellid datgan y gellid ystyried bod yn Gatalan a bod yn Sbaeneg yn groes i'w gilydd yn uniongyrchol. Wrth gwrs, hyd yn oed heddiw mae yna lawer o bobl yng Nghatalunya sy'n teimlo nad oes gwrth-ddweud o ran teimlo'n Gatalan a Sbaenaidd fel ei gilydd ond yn ystod yr unbennaeth, roedd y ddwy hunaniaeth

mewn tensiwn parhaus â'i gilydd. Cyn hynny, roedd hunaniaeth Gatalanaidd wedi'i defnyddio gan actorion gwleidyddol fel lifer yn erbyn y wladwriaeth ganolog ond prin, os o gwbl, roedd y tensiynau hyn yn arwain at wrthdaro uniongyrchol rhwng Catalaniaeth a bod yn Sbaenaidd. Fel y nodwyd eisoes, ochrodd bourgeoisie Cataluny a'r Sbaenwyr yn erbyn y dosbarth gweithiol 'brodorol' yn y 1920au, gan ddangos bod hunaniaeth yn cael ei defnyddio'n dactegol a'i bod yn dibynnu ar y cyd-destun.

Yn economaidd, fodd bynnag, ni fu'r cyfnod o unbennaeth yn andwyol i sefyllfa Cataluny. Roedd angen i Ffrancwriaeth (Francoism) ddibynnu ar economïau Cataluny a Gwlad y Basg i yrru gwladwriaeth Sbaen, er gwaethaf eu hunaniaeth a'u traddodiadau diwylliannol tybiedig israddol, ac roedd unbennaeth yn rhoi'r pŵer i'r elit wneud hwn. Dadleuodd Dalle Mulle (2017, t. 35) fod Cataluny wedi profi datblygiad economaidd trawiadol yn ystod yr unbennaeth. Rhwng 1960 a 1973, yn syfrdanol, tyfodd CMC economi Cataluny 8% y flwyddyn, gan gronni cyfran anghyfartal o fawr o Fuddsoddiadau Uniongyrchol o Dramor a lifodd i Sbaen (McRoberts, 2001, t. 92). Erbyn diwedd yr unbennaeth, roedd incwm y pen yng Nghataluny 30% yn uwch na chyfartaledd Sbaen. Roedd Cataluny yn cyfrif am 16% o'r boblogaeth ond 20% o'r CMC a 26% o gynhyrchu diwydiannol (Giner, 1980, t. 51-54). Er gwaethaf gwahaniaethu diwylliannol dwys, arhosodd safle Cataluny (a gwlad y Basg) yn sefydlog o fewn system economaidd Sbaen. Parhaodd y ddau ranbarth - ochr yn ochr â Madrid - i fod yn rhanbarthau mwyaf deinamig economi Sbaen gyda rhanbarthau'r perifferi yn parhau'n ddibynnol arnynt am drosglwyddiadau ariannol a chyfalaf dros ben (Alvarez, 2004).

Parhaodd Cataluny i fod wedi'i gorddatblygu o'i gymharu â llawer o weddill Sbaen. Yr hyn sydd o bwys i'r dadansoddiad hwn yw'r ffaith ei bod hi'n bosibl felly, i ranbarth fod ar y perifferi yn ddiwylliannol ond mewn sefyllfa economaidd graidd (hyd yn oed os ydynt yn hynod gyfatebol ac anghymesur). Er gwaethaf gormes mewnol, parhaodd Cataluny i ddenu buddsoddiad a meddu ar gyfran anghyfartal

o fawr o CMC Sbaen. Mae achos Catalunya yn dangos pa mor hydreiddiol, gludiog, a hollgynhwysol yw cronni cyfalaf ac achosiaeth gronnus. Nid oedd tri deg pum mlynedd o unbennaeth yn ddigon i ddadwneud y datblygiad technolegol yr oedd Catalunya wedi'i gyflawni yn y 19eg ganrif. Roedd gwahaniaethau ac anghydbwysedd rhanbarthol yn Sbaen yn ystyfnig, hyd yn oed yn wyneb gormes gwleidyddol yn erbyn yr ardaloedd hynny oedd fwyaf datblygedig yn economaidd.

## Dychwelyd i Ddemocratiaeth Ryddfrydol: Catalunya yn y System-Fyd

Mae'r degawdau ers cwmp Ffrancwriaeth wedi newid deinameg wleidyddol gwladwriaeth Sbaen yn aruthrol. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau economaidd yn ymddangos mor ystyfnig ag erioed. Mewn gwirionedd, mae'n bosibl bod dosbarthiad incwm rhanbarthol anghyfartal wedi gwaethygu yn Sbaen yn y degawdau diwethaf (Tirado, et al., 2016, t. 97). Mae pegynau twf pwysig yng ngogledd-ddwyrain Sbaen (yn y bôn yng Nghatalunya, Navarre a Gwlad y Basg) wedi datblygu ac mae mynediad gymharol haws y rhanbarthau hyn i farchnadoedd Ewropeaidd allweddol wedi dwysau'r mater hwn ymhellach ers i Sbaen ddod yn rhan o'r UE. Fel y mae Tirado-Fabregat, et al. (2015, t. 24) yn dadlau:

*in recent years the relative poverty of the southern and western Spanish provinces has increased and the spatial polarization of income at the beginning of the 21st century is more striking than ever. European economic integration can only reinforce this tendency. Therefore, in the case of Spain, progress in the political and economic integration of Europe calls for the design of territorial cohesion policies aimed at counteracting the structural elements of economic regional inequality highlighted above.*


Yn achos Gwlad y Basg a Navarre (sy'n cynnwys rhai rhanbarthau 'Basg'), mae eu cytundebau economaidd penodol gyda gwladwriaeth ganolog Sbaen yn golygu bod

ganddynt yn agos at ymreolaeth gyllidol lwyr. Golyga hyn nad oes trosglwyddiadau refeniw o'r cymharol gyfoethog i dde Sbaen, sydd yn gymharol dlawd (Gray, 2015, t. 63). Mewn gwirionedd, ystyrir y cyfraniad cymharol isel a wneir gan ranbarthau *forâl* cyfoethog (Gwlad y Basg a Navarre) i'r gronfa undod (solidarity fund) fel prif wendid system Sbaen (Bristow, 2009, t. 24). Mae Castells (2014, tt. 285-286) yn cytuno, gan nodi mai:

*one of the most decisive reasons for the current uneasiness in Catalunya is the permanent comparison with the much more favourable results obtained by the special financing system of the Basque Country ('Concierto'). The Basque government has full responsibility for the collection of all taxes (including VAT and corporate tax). An amount is returned to the state ('cupo') to compensate central government for the provision of general services in the region.*


Nid oes gan Catalunya ymreolaeth gyllidol, ac eto mae Catalunya yn cyfrif am 16% o boblogaeth Sbaen ac am 19% o CMC Sbaen tra bod ei CMC y pen 20% yn uwch na chyfartaledd Sbaen. Mae cydraddoldeb pŵer prynu Catalunya a CMC y pen yn gyffredinol uwch na chyfartaledd yr UE tra bod Sbaen gyfan yn is na chyfartaledd yr UE ar y ddau fesur (Castells, 2014, t. 278). Mae Ffigur 16 yn dangos CMC y pen yn rhanbarthau Sbaen rhwng 1995 a 2019. Ar ei isaf cyrhaeddodd Catalunya 99% o gyfartaledd yr UE a chyrhaeddodd uchafbwynt o 115% o'r cyfartaledd. Dim ond 6 o 21 rhanbarth Sbaen a gyrhaeddodd 100% o gyfartaledd yr UE ar unrhyw adeg yn y cyfnod hwn.






Ffigur 16: CMC y Pen mewn canran o gyfartaledd yr UE27 (o 2020) yn Sbaen (100 = cyfartaledd). Gwaith yr Awdur.

Mae cryfder parhaus economi Catalunya o gymharu â gweddill Sbaen yn drawiadol. Rhwng 1860 a 1995 arhosodd Catalunya yn y tri safle uchaf o ran CMC y pen yn Sbaen (Martínez-Galarraga, et al., 2015, t. 512). Dengys Ffigur 17 fod y sefyllfa hon wedi aros yn gymharol sefydlog ers 1995. Roedd Catalunya yn y 4 safle uchaf bob flwyddyn ac eithrio un, lle'r oedd yn y pumed safle. Pan ddeallir mai Gwlad y Basg a Navarre sydd yn yr ail a'r trydydd safle, mae'n ddealladwy, yn gyntaf, pam yr hoffai Catalunya feddu ar yr un cytundeb economaidd ac, yn ail, pam na fyddai gwladwriaeth ganolog Sbaen yn dymuno colli ffynhonnell o incwm ar gyfer ariannu gweithgareddau'r llywodraeth yn ogystal ag ailddosbarthu adnoddau i ranbarthau tlotach (Boylan, 2015).



Ffigur 17: Safle yn ôl CMC y Pen - Sbaen 1995-2019. Gwaith yr Awdur.

Mae effeithiau cronol twf yn glir gyda hyd yn oed Rhyfel Cartref ac unbennaeth ffasgaidd yn methu â newid safle cymharol Cataluny a o fewn yr economi. Mae Ffigur 18 yn dangos parhad gwahaniaeth economaidd rhanbarthol yn Sbaen drwy edrych ar CMC y pen yng Ngwlad y Basg, Cataluny, a gweddill Sbaen. Mae Gwlad y Basg a Chataluny yn cadw eu safle ar y blaen i weddill y wlad.



Ffigur 18: CMC y pen fesul Blwyddyn yn Sbaen. Gwaith yr Awdur.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd cymharol fawr o ran cefnogaeth i annibyniaeth Cataluny. Tybiwyd bod y rhesymau am hyn yn deillio o'r gwahaniaethau diwylliannol sy'n bodoli rhwng Cataluny a gweddill Sbaen a bod cefnogaeth i genedligrwydd yn deillio o'r man cychwyn hwn. Fodd bynnag, ers

cwmp Ffrancwriaeth, ac adfer Catalunya fel Cymuned Ymreolaethol yn 1978, mae'r galw am ymwahanu a hyd yn oed hunaniaeth 'Catalanaidd yn unig' wedi bod yn gymharol wan. Mor ddiweddar â 2001 dangoswyd bod Catalunya y tu ôl i Wlad y Basg, yr Ynysoedd Dedwydd, Navarre, ac Asturias o ran ymdeimlad o hunaniaeth ranbarthol yn unig, neu hunaniaeth ranbarthol yn fwy nag hunaniaeth Sbaenaidd (Lecours, 2001). Ni fyddai rhywun yn disgwyl felly y byddai galw am ymwahanu ar ei gryfaf yng Nghatalunya o gymharu â rhannau eraill Sbaen. Mae hyn yn awgrymu bod yn rhaid i hunaniaeth ryngweithio â'r economi a gwleidyddiaeth er mwyn dod yn fwy amlwg mewn rhai cyfnodau. Mae hyn yn amlwg yn gysylltiedig â'r sefyllfa ryngwladol a safle lleoedd o fewn y system-fyd: daeth hunaniaeth Gatalanaidd i'r amlwg gyntaf ar ôl 1898, o ganlyniad i'r newid yn safle Sbaen o fewn y system-fyd a oedd yn golygu nad oedd mantais net i fod yn aelod o'r wladwriaeth bellach. Yn y bôn, daeth hunaniaeth felly yn fecanwaith amddiffynnol. Ar ôl 1978, ac eto mewn cyfnod o newid, roedd bod yn aelod o weriniaeth Sbaen yn ei gwneud hi'n haws bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, oedd yn ffordd i Gatalunya fedru ailgyfeirio ei hun at graidd Ewrop ac i ffwrdd o weddill Sbaen. Yma, defnyddiwyd hunaniaeth i fanteisio ar gyfle economaidd posibl. Pam felly y bu cynnydd yn y gefnogaeth i annibyniaeth yn y degawd neu ddwy ddiwethaf? Na ellir datgysylltu hyn oddi wrth argyfwng ariannol 2008, sefyllfa gweriniaeth Sbaen ar y perifferi yn yr UE, safle cryfach Catalunya ar y lled-berifferi neu'r craidd o fewn y system, a dibyniaeth gwladwriaeth Sbaen ar drethi o Gatalunya i ariannu prosiectau'r llywodraeth.

Yn y Deyrnas Unedig, mae Cymru a'r Alban yn derbyn arian yn seiliedig ar boblogaeth, yn hytrach nag angen cymharol (Bristow, 2009) (McLean, et al., 2008). Yn Sbaen, mae trethi'n cael eu casglu'n ganolog gan lywodraeth Sbaen ac yna'n cael eu dosbarthu i'r rhanbarthau. Trosglwyddir trethi a refeniw'r llywodraeth i'r rhanbarthau hynny sydd â mwy o angen yn hytrach nag ar sail poblogaeth.<sup>30</sup> O dan

---

<sup>30</sup> Yn y Deyrnas Unedig, nid yw budd-daliadau lles yn dod o dan Barnett ac maent yn cael eu talu ar sail angen cymharol. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o drosglwyddiadau gan y

y system hon o geisio cydraddoli cyllidol, mae rhanbarthau cyfoethog fel Catalunya yn cefnogi rhai tlotach. Mae Catalunya yn codi 19% o refeniw treth y llywodraeth ganolog ond dim ond yn derbyn 14% o refeniw'r wladwriaeth (Boylan, 2015, t. 762). Mae hyn wedi creu sefyllfa lle mae llawer o Gatalaniaid yn teimlo'n ddig ac eisiau mwy o'u refeniw treth i aros yng Nghatalunya. Gellir ystyried ymwahanu yn hyn o beth fel ffordd o sicrhau diwedd i roi 'cymorthdaliadau' i ranbarthau tlotach Sbaen. Mewn gwirionedd, dadleuodd Boylan (2015, t. 774) fod:

*Catalan independence is a function of grievances over fiscal policy, with the theoretical understanding that Catalunya wants to retain its wealth rather than subsidise other regions in the country suffering from poorer economies.*

Yn unol â'r datganiad uchod, cynhaliodd Serrano (2013, t. 534) arolwg yn edrych ar y rhesymau pam bod pobl yn teimlo y dylai Catalunya fod yn annibynnol:

*63.5% of respondents supporting independence mentioned welfare reasons, while only 25.4% mentioned issues related to the national conception of Catalunya or to their feelings of 'Catalanness'.*

Yn yr un modd, mewn arolygon a gynhaliwyd rhwng 2010 a 2015:

*to the question "What do you think is the most important problem of Catalunya?" the largest group has responded "unemployment and job precariousness" (with a 46% average). "Relations Catalunya-Spain" always comes in fourth place (with a 19% average), after "dissatisfaction with politics and politicians," and "the working of the economy". Furthermore, "in a most recent survey: "What is the main motivation for you to have become independentist in the last few years?" "Catalan language and culture" was the answer of only 2.5% (Colomer, 2007, t. 958).*

Yn ogystal, mae pleidiau gwleidyddol Catalunya sydd o blaid annibyniaeth wedi llunio'r ddadl ynghylch dadleuon economaidd, yn hytrach na chanolbwyntio ar y diwylliannol. Mae'r *Esquerra a Lliga* yn cyfeirio'n barhaus at y Catalaniaid yn cael eu 'hysbeilio' gan wladwriaeth ganolog Sbaen er mai Madrid ei hun sy'n 'colli' fwyaf o ganlyniad i'r polisi o drosglwyddiadau gwladwriaethol (Dalle Mulle, 2017). At hynny, mae rhyw fath o drosglwyddiad refeniw treth gynyddol i'w disgwyl mewn gwladwriaethau modern (Joumard, et al., 2012). Fel y trafodir yn nes ymlaen, mae'r syniad bod Catalunya yn cael ei hysbeilio gan ei chymdogion tlotach yn drawiadol o debyg i honiad *Lega Nord* fod Padania yn cael ei hysbeilio gan y Mezzogiorno tlotach.

## Sbaen yn y Lled-Berifferi

O fewn y rhaniad llafur byd-eang, mae Sbaen<sup>31</sup> yn bodloni holl ddangosyddion gwlad ar y lled-berifferi fel y crybwyllwyd mewn pennod flaenorol gan waith Chase-Dunn (1988, t.30). Dyma'r swyddogaethau:


- Cymysgedd o weithgarwch economaidd craidd a pherifferi, gan chwarae rhan gyfryngol rhwng y ddau.
- Lleoliad daearyddol sydd wedi ei leoli'n ofodol rhwng y craidd a'r perifferi.
- Cyfryngwr ar gyfer cwblhau gweithgareddau'r craidd a'r perifferi.
- Darparu agorfa ar gyfer buddsoddiad cyfalaf o'r craidd i gynhyrchu diwydiannol ar gyflog is.

---

<sup>31</sup> Mae'n bosibl y gallai Sbaen fod ar drothwy'r craidd gyda chynnwys Gwlad y Basg a Chatalunya, fodd bynnag, y diben yma yw dangos nad yw mynediad i wladwriaeth Sbaen yn rhoi safle craidd i'r lleoedd hyn; y lleoedd hyn sy'n gwella sefyllfa Sbaen, nid i'r gwrthwyneb.

Mae ei pherthynas ag America Ladin ar y naill law, a'r Almaen ar y llaw arall, yn enghraifft o safle Sbaen fel gwlad ar y lled-berifferi. Bydd pob swyddogaeth yn cael ei hystyried yn ei thro gyda'r cysylltiadau penodol hyn mewn golwg.





Ffigur 19: Atlas Cymhlethdod Economaidd, Sbaen, 2018. Ffynhonnell: (Harvard University, 2023).

Yn gyntaf, trwy ddadansoddi Atlas Cymhlethdod Economaidd Sbaen yn 2018,<sup>32</sup> gwelwn gymysgedd o weithgarwch economaidd craidd a pherifferi. Gall teithio a thwristiaeth, er enghraifft, helpu i *dyfu* economi, ond nid yw o reidrwydd yn *datblygu'r* economi. Mewn gwirionedd, mae toreth o ymchwil yn bodoli sy'n awgrymu bod dibyniaeth hirdymor ar dwristiaeth yn efelychu ac yn atgyfnerthu patrymau hanesyddol o ddatblygiad economaidd dibynnol (Chaperon a Branwell, 2013) (Britton, 1982, 1987, 1991) (Fletcher, 2011). Mae ceir/rhannau moduron a deunydd fferyllol yn enghreifftiau o weithgareddau craidd, tra bod allforio bwydydd yn dueddol o fod yn weithgaredd economaidd y perifferi. Yn gyffredinol ystyrir y sector TGCh yn weithgaredd craidd, ond byddai agweddau ohono, megis canolfannau galwadau yn weithgaredd perifferi. Nid yw'r data'n caniatáu ar gyfer dadansoddiad o'r fath, ond yr hyn sy'n dod i'r amlwg yw cymysgedd o weithgarwch craidd a pherifferi.

Yn ail, er nad yw lleoliad daearyddol wedi'i leoli'n ofodol rhwng y craidd a'r perifferi yn ffactor angenrheidiol ar gyfer bod ar y lled-berifferi, mae Sbaen yn bodloni'r ffactor hwn. Penrhyn Iberia yw'r rhanbarth agosaf yn Ewrop at America Ladin, mae hefyd wedi'i leoli rhwng America Ladin a chraidd Ewrop. Yn ogystal, nid lleoliad daearyddol Sbaen yn unig sy'n bwysig, ond ei lleoliad diwylliannol hefyd. Mewn un ystyr, mae Sbaen yn pontio'r byd Ewropeaidd a'r byd Lladin. Mae'n rhannu diwylliant â'r craidd Ewropeaidd megis yr Almaen, ac mae hefyd ganddo gysylltiadau diwylliannol ac ieithyddol ag America Ladin. Fel yr eglurodd Martinez a Fareño (2014, t. 525):

*due to the role that Spain has played in the history of Latin America and Europe, with strong cultural and social links in both institutional environments, Spain could be described as occupying an intermediate position between the two regions. ... A common language, shared roots of the legal and educational systems as well as the*

---

<sup>32</sup> Mae data ar gyfer 2020 ar gael ond llurguniwyd hwn gan COVID ac anallu pobl i deithio tramor a'r effaith ar dwristiaeth. Mae 2018 felly yn sail gwell ar gyfer dadansoddi.

*importance of family businesses and informal relationships and institutions, are contextual aspects shared by Spaniards and Latin Americans alike. At the same time, ever since Spain's entry into the European Union, Spanish institutions have increasingly conformed to common European standards, where a large number of institutional-level political, social and economic policies are determined by centralized European authorities. This intermediate position between Europe and Latin America is manifestly evident in the majority of indices that measure cultural and/or institutional differences.*

Yn drydydd, mae Sbaen yn gyfryngwr sy'n caniatáu i weithgareddau'r craidd a'r perifferi gael eu cwblhau. Mae hyn yn arbennig o wir yn y sectorau bancio a thelathrebu. Erbyn 1999, system ariannol Sbaen oedd ail gyflenwr mwyaf arian i America Ladin gyda 14% o'r cyfanswm, gydag UDA yn arwain gyda 22% o'r cyfanswm (Sebastián a Hernansan, 2000, t. 10). Roedd ehangiad Sbaen i'r sector bancio yn ddeublyg; ar un llaw mewnosodwyd banciau Sbaen yn America Ladin, megis *Banco Bilbao Vizcaya Argentaria (BBVA)* a *Banco Santander Centro Hispano (BSCH)* a ddaeth yn ddau fanc tramor mwyaf America Ladin.<sup>33</sup> Yn ail, prynodd Sbaen is-gwmnïau trwy gaffael banciau America Ladin. Mae Ffigwr 18 yn dangos rhai is-gwmnïau Sbaenaidd yn America Ladin. Dangosodd Toral (2008, t. 525) hyd a lled mewnosodiad Sbaenaidd yn sector bancio America Ladin trwy ddatgan:

*In 2005, BBVA and BSCH had \$270.6 billion managed customer funds (\$125.2 billion and \$145.4 billion, respectively) in Latin America, a figure 28 per cent greater than Argentina's GDP in 2005. They had 36.9 million customers in retail banking (16.6 million and 20.3 million, respectively), and 124,350 employees (61,604 and 62,746, respectively). 43 per cent of BBVA's net profit and 32 per cent of SCH's came from their Latin American subsidiaries.*

---

<sup>33</sup> Mae'r ddau Fanc yn *Fasgeg* yn hytrach na Sbaeneg, felly heb ei 'perifferiau' gwleidyddol, byddai sefyllfa Sbaen yn y system-fyd yn gwaethygu hyd yn oed yn fwy.

		Shareholding (%)	Group
<b>Argentina</b>	Banco Francés	67	BBVA
	Banco Río de la Plata	79	BSCH
<b>Bolivia</b>	Banco Santa Cruz	90	BSCH
<b>Brazil</b>	BBV-Brasil	100	BBVA
	Excel Banco de Investi.	100	BBVA
	BBV Credito Financ.e Inv.	100	BBVA
	Banco Santander Brasil	100	BSCH
	Banco Meridional	97	BSCH
<b>Chile</b>	BBV Banco BHIF	53	BBVA
	Banco Santander Chile	86	BSCH
	Banco Santiago	44	BSCH
<b>Colombia</b>	Banco Ganadero	63	BBVA
	Banco Santander Col.	60	BSCH
<b>Mexico</b>	BBVA-Bancomer	33	BBVA
	Serfín	100	BSCH
	Banco Bital	8	BSCH
	Banco Mexicano	100	BSCH
<b>Peru</b>	Banco Continental	41	BBVA
	Banco Santander Perú	100	BSCH
<b>Venezuela</b>	Banco Provincial	53	BBVA
	Banco de Venezuela	98	BSCH

Source: BBVA

*Ffigur 20: Is-gwmnïau Sbaenaidd yn America Ladin, 2000. Ffynhonnell: (Sebastián a Hernansanz, 2000, t. 39).*

Roedd Sbaen, yn ei thro, yn gweithredu fel agorfa i fanciau'r Almaen wneud elw mawr i'w cyfranddalwyr, yn bennaf drwy fuddsoddiadau a benthyciadau yn y sector tai. Erbyn 2009, roedd gan fanciau'r Almaen dros 240 biliwn Ewro mewn benthyciadau heb eu talu i Sbaen (Thompson, 2015, t. 857).

*Within the Eurozone, meanwhile, Spain's role during the bubble years was to provide record returns for northern European capital, above all from Germany, France and*


*Britain. Between 2001–06, foreign capitals invested an average of €7 billion a year in Spanish property assets, or the equivalent of nearly 1 per cent of Spain's GDP, much of it in second homes or investments for British and German nationals. High levels of domestic demand, boosted by asset-price Keynesianism, also offered important markets for German exports (Lopez a Rodriguez, 2011, t. 10).*

Mae datblygiadau tebyg yn amlwg yn y diwydiant telathrebu. Erbyn 2006, roedd Sbaen yn cyfrif am 40% o'r holl Fuddsoddiadau Uniongyrchol Ewropeaidd yn America Ladin (Galan a Gonzalez-Benito, 2006, t. 171) ac roedd hwn yn bennaf yn y sector telathrebu. Yn gynnar yn 1990 nid oedd gan *Telefonica* (cwmni o Sbaen) un cwsmer yn America Ladin. Yn 2005 roedd ganddo 98 miliwn (70.5 miliwn mewn teleffonau symudol, 21.8 miliwn mewn teleffonau sefydlog, 5.2 miliwn mewn rhyngwrwyd a data, a 0.5 miliwn mewn teledu â thal). Roedd ganddo hefyd 131,968 o weithwyr yn America Ladin a daeth 41.5 y cant o'i refeniw cyfunol o'i is-gwmnïau America Ladin. Gyda 180.9 miliwn o gwsmeriaid ledled y byd, *Telefonica* oedd y trydydd cwmni telathrebu mwyaf yn y byd yn ôl nifer y cwsmeriaid (Toral 2008, t. 521).

Roedd datblygiadau tebyg yn digwydd yn Sbaen, gyda gwladwriaethau craidd Ewrop yn defnyddio Buddsoddiadau Uniongyrchol o Dramor i brynu cwmnïau Sbaenaidd. Fel y dadleuodd Lopez a Rodriguez (2011, t. 7):

*The run-up to integration into the European Community on 1 January 1986 saw a frenzy of investment, as European capital recognized the market opportunity opened up by the Iberian countries' entry into the EEC. German, French and Italian multinationals took up key positions within Spain's production structure, buying up most of the big food-industry companies and the public-sector firms that were being privatized, taking over much of the supermarket sector and acquiring what remained of the major industrial companies.*

Mae hyn yn dangos safle Sbaen fel ecsbloetiwr a gwlad sy'n cael ei hecsbloetio. Erbyn troad y ganrif, roedd bron i 80% o Fuddsoddiadau Uniongyrchol o Dramor i Sbaen a'i wreiddiau yn yr Undeb Ewropeaidd, tra mai dim ond 16% o Fuddsoddiadau Uniongyrchol Tramor Sbaen aeth i weddill yr Undeb Ewropeaidd, gyda'r gweddill yn mynd i America Ladin (Sebastian a Hernansan, 2000, t. 16). At hynny, diffiniwyd Sbaen gan Pla-Barber a Camps (2012) fel "springboard country". Mewn gwirionedd, mae cwmnïau rhyngwladol o wlad trydydd parti yn defnyddio eu his-gwmnïau mewn gwlad sbringfwrdd fel pont neu borth i farchnadoedd eraill, gan fanteisio fel arfer ar y tebygrwydd diwylliannol/ieithyddol/cymdeithasol sy'n bodoli rhwng y wlad sbringfwrdd a'r gyrchfan derfynol. Yn ôl Pla-Barber a Camps, nid yw'r problemau y mae rheolwyr busnes yr Almaen yn eu hwynebu yn America Ladin yn cael eu hwynebu gan eu cymheiriaid yn Sbaen sy'n golygu bod cwmnïau Almaeneg yn defnyddio eu his-gwmnïau yn Sbaen i reoli eu gweithgareddau yn America Ladin (Pla-Barber a Camps, 2012, t. 521). Mae Ffigwr 19 yn dangos eu model sy'n dangos parhad â'r triawd craidd-lled-perifferi-perifferi a ddadansoddwyd eisoes. Mae'r is-bennod blaenorol wedi dangos y dylid ystyried Sbaen, o'i hystyried yn ei chyfanrwydd, fel gwlad ar y lled-berifferi yn y system-fyd.



Figur 21: Model o "Springboard Country". Ffynhonnell: (Pla-Barber a Camps, 2012).

## Catalunya fel Rhan o'r Craidd?

Mae Catalunya yn rhanbarth sydd rhywle rhwng y lled-berifferi a'r craidd o fewn y system-fyd. Mae ei gysylltiad presennol â gwladwriaeth ar y lled-berifferi yn golygu na all ddyrchafu ei hun i safle gwirioneddol graidd, felly mae annibyniaeth yn fodd i wella ei safle o fewn y system-fyd. Ers cwmp Ffrancwriaeth, mae ailgyfeirio economi Sbaen tuag allan a thuag at orllewin a gogledd Ewrop yn golygu bod gweddill economi Sbaen yn llai pwysig i Gatalunya nag y bu yn y gorffennol. Yn flaenorol, roedd economi Sbaen yn sicrhau mynediad i farchnadoedd trefedigaethol allanol a marchnad gartref fawr ar gyfer cynhyrchion Catalan. Ar ôl Ffrancwriaeth, roedd bod yn rhan o wladwriaeth Sbaen yn golygu mynediad haws at farchnadoedd Ewropeaidd trwy'r UE. Ers creu Ardal yr Ewro, a gwanhad sefyllfa Sbaen o fewn y system-fyd ers 2008, mae bod yn rhan o wladwriaeth Sbaen bellach yn llai deniadol gan y gallai Catalunya barhau i fasnachu â gweddill Ewrop a chadw'r un arian cyfred. Yn wir, dadleuodd Ehrlich (1997, t. 206), fod Catalaniaid yn honni eu bod yn 'fwy Ewropeaidd' na'r Sbaenwyr a bod fframio ac ailgyfeirio eu hunain yn y modd hwn yn bolisi gweithredol. Fel y dadleuodd Castells (2014, t. 278):

*The Catalan market absorbs 26.7% of total sales, the Spanish market 34.5% and the rest of the world 38.8%. However, even if the Spanish market is, by far, the first country destination for Catalan exports, its share has been sharply decreasing over time, as the Catalan economy has opened to international markets, mainly to the EU. While Spain accounted for 47.1% of Catalan exports (i.e., excluding the sales to the Catalan domestic market) in 2011 (and the rest of the world for 52.9%), it accounted for 63.5% in 1995 (and the rest of the world for 36.5%). Thus, in sixteen years, the share of the Spanish market in Catalan exports has declined by 16.4 points. Spain has strongly lost importance for the Catalan economy compared to the rest of the world, both because the Spanish market has decreased as a destination for Catalan exports and because, even if the sign of the commercial flows is still positive for Catalunya, the*




*percentage has sharply decreased over the years. An existing long-term trend has been reinforced by the crisis of the last few years.*

Ers ehangu'r Undeb Ewropeaidd i'r Dwyrain, mae strwythur economaidd y perifferi deheuol (de Sbaen, Portiwgal, de'r Eidal, Groeg) wedi newid. Os rhywbeth, mae gan yr UE bellach ddigonedd o wledydd ar y perifferi. Ymhellach, roedd gan y perifferi Dwyreiniol yn gyffredinol well cyrhaeddiad addysgol a strwythurau diwydiannol cryfach oherwydd y pwysigrwydd a osodai'r system sosialaidd ar y ffactorau hyn (Caraveli, 2017). Yn ogystal, maent hefyd yn gyffredinol yn agosach yn ddaearyddol at graidd y system-fyd yn Ewrop. Roedd hyn yn golygu:

*since low-cost producers in the East started to displace exports from the South, indicating a replacement of imports from the South through imports from the East, particularly in sectors related to the German manufacturing core (Grabner a Hafele, 2020, t. 10).*

Roedd y craidd felly'n elwa o farchnadoedd llafur cyflog isel newydd tra bod y perifferi deheuol yn dioddef o gystadleuaeth gynyddol a gostyngiad mewn cronfeydd strwythurol. Nid oedd gogledd-ddwyrain Iberia, oherwydd eu lleoliad craidd gronynnog o'i gymharu â'r perifferi deheuol, yn cystadlu'n uniongyrchol â pherifferi newydd y dwyrain.

At hynny, er bod argyfwng ariannol 2008 yn un byd-eang, ni effeithiwyd ar bob rhanbarth yn yr un modd. Fel y dengys ffigur 22, y rhanbarthau hynny o Sbaen sydd â safle gymharol graidd a lwyddodd i ffynnu o'r newydd – neu o leiaf leihau effeithiau – yr argyfwng ariannol. Roedd yr argyfwng ariannol felly yn fyd-eang, a chafodd effaith ar y rhan fwyaf os nad pob gwlad yn y system-fyd, fodd bynnag, nid oedd effeithiau'r argyfwng yn gyson ym mhob man.



*Ffigur 22: CMC rhanbarthol y pen a chyfradd twf blynyddol yn Sbaen. Ffynhonnell: (Cuadrado-Roura a Maroto, 2016, t. 6).*

Yn y bôn, mae cost ymadael wedi lleihau ac enillion posibl ymwahanu wedi cynyddu. Mae teimlad cenedlaethol felly yn amod angenrheidiol ond nid yn ddigonol i wneud ymwahaniad yn bosibl. Wrth ddychwelyd at ddiffiniadau Chase-Dunn (1988) o graidd, perifferi, a lled-berifferi, mae Catalunya yn syrthio rhwng dwy stôl berifferi'r de a chraidd Ewrop. Gall dychwelyd at ffigur 10 helpu yn y dadansoddiad hwn. Nid yw Catalunya yn rhan o "felynwy" craidd Ewrop, ond mae ar ei chyrrion, a hynny mewn modd llythrennol daeryddol yn ogystal â'r ffaith bod ganddi ganran gymharol fawr o allforion i weddill Ewrop o gymharu â gweddill Sbaen. Mae Catalunya yn derbyn canran gymharol fawr o fuddsoddiad tramor sy'n dod i Sbaen sydd yn dangos ei fod yn allfa ar gyfer buddsoddiad cyfalaf o gnewyllyn y craidd. Ymhellach, mae strwythur mudol Catalunya o ddiddordeb: mae'n derbyn mewnlif net o fudwyr o rannau eraill o Sbaen wrth ddiodeff ar yr un pryd yn sgil mudo gweithwyr â chyfalaf dynol uchel i'r craidd Ewropeaidd (Bonifazi a Crisci, 2020). Yn hyn o beth, mae Catalunya yn ceisio gwella ei safle o fewn y system-fyd; y teimlad yw mai gadael gwladwriaeth ar y perifferi yw un o'r ffyrdd

gorau o gyrraedd y nod hwnnw. Mae Catalunya yn enghraifft o ranbarth gorddatblygedig Nairn (2021 [1977], t. 169):


*But there are also a number of regions whose key problem has been determined in a wholly different fashion [to underdeveloped regions]. They occupy a different location altogether in the general history of the economic development process. These are the areas whose problem is that they developed more rapidly and successfully than the territory surrounding them. They have never been 'relatively overdeveloped' in relation to the European core-areas of industrialisation, of course — the Ruhr, the English Midlands, and so on. But they have been so in relation to the larger states dominating them politically. They became dynamic, middle-class enclaves in a more backward country — capitalist societies struggling to be free, as it were.*

Ni ddiflannodd y duedd hon erioed. Mae ffigur 23 yn ymgais i osod Sbaen a Chatalunya yn gysyniadol o fewn y system-fyd, gan ddechrau gydag uno Castilla ac Aragón. Ategir hyn gan ymgais i fesur y newid yn y gefnogaeth i ymreolaeth neu ymwahaniad Catalunya. Yr hyn y mae'r ffigwr hwn yn ei ddangos yw bod cefnogaeth i ymreolaeth Catalunya yn cynyddu pan fo safle Sbaen yn y system-fyd yn crebachu, ond mae'n wan neu ddim yn bodoli mewn cyfnodau pan fo Sbaen yn gymharol gryf yn y system-fyd. Dengys fod perthynas ddilechdidol yn bodoli rhwng cenedlaetholdeb perifferi ar y naill law a chenedlaetholdeb craidd ar y llaw arall a bod y ddwy hunaniaeth yn cael eu siapio gan safle cymharol gwladwriaeth Sbaen yn y system-fyd.

Mae'r bennod hon wedi bod yn ymgais i osod Sbaen a Chatalunya yn gysyniadol o fewn system-fyd. Mae lled ac ehangder rhychwant amser a chynnwys yn mynnu bod angen cwmpasu'r ffactorau pwysicaf yn fras. Roedd angen persbectif hanesyddol er mwyn egluro'r prosesau mwy hir dymor y tu ôl i'r berthynas rhwng Catalunya a Castilla. Byddai cymryd Catalunya fodern fel man cychwyn yn debyg i gymryd ciplun mewn amser. Gall hyn ddatgelu rhywfaint o wirionedd, ond nid y cyfan. Casgliad o'r bron a'r braidd wedi'u datgymalu yw hanes. Mae lleoedd yn

gasgliad o'r hyn yr ydynt yn awr yn ogystal â'r hyn y buont yn y gorffennol, ac yn drawsosodiad modern o'n gorffennol. Er mwyn deall y prosesau y tu ôl i safle lle yn y system-fyd heddiw, mae'n rhaid i ni ddatgelu'r ffordd y mae'r ffactorau hyn yn rhyngweithio a sut mae'r gorffennol yn rhyngweithio â'r presennol. Fel y ffigysbren yn y *Bell Jar* gan Sylvia Plath, dilynodd hanes lwybrau gwahanol, ac "from the tip of every branch, like a fat purple fig, a wonderful future beckoned and winked." Fodd bynnag, yn wahanol i Plath, nid oedd y presennol yn eistedd yn newynog yng nghol y ffigysbren. Dewiswyd un ffigysen, un presennol, o blith nifer amhenodol yr un mor bosibl a'r un mor debygol. Ein rôl ni yw astudio'r ffigys o'r gangen hon, tra hefyd yn ceisio damcaniaethu pam y bu i'r gweddill wywo.

## Safle Newidiol Catalunya a Castile yn y System-Fyd



Ffigur 23: Safle Cyfnewidiol Catalunya a Castilla yn y System-Fyd. Gwaith yr Awdur.

## VI. Astudiaeth Achos 2: Yr Eidal

Yr ail astudiaeth achos yw'r Eidal. Er mwyn dadansoddi edafedd gwead hanes – a'u heffaith ar genedlaetholdeb – mae'r bennod hon wedi treiddio'n ddwfn i hanes y penrhyn. Mae felly wedi cymryd ymagwedd Longue Durée at hanes. Er hwylustod, bydd gweddill y bennod yn parhau fel a ganlyn:

- Dadansoddiad o system dinas-wladwriaeth yr Eidal - a oedd yn unigryw i'r penrhyn - a dadansoddiad o sut y newidiodd hyn ac effeithio ar safle system-fyd penrhyn yr Eidal rhwng y 12fed a'r 18fed Ganrif.
- Hanes y Risorgimento, gan gynnwys dadansoddiad o 'Gwestiwn y De' a ddaeth i'r amlwg yn y cyfnod hwn.
- Hanes economaidd y cyfnod ffasgaidd yn ogystal â dadansoddiad o'r modd y mynegwyd 'Cwestiwn y De' yn y cyfnod hwn.
- Dadansoddiad o'r consensws yn yr Eidal ar ôl yr Ail Ryfel Byd, gan gynnwys y modd y ceisiwyd goresgyn y rhaniad rhwng y gogledd a'r de. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad o safle'r Eidal yn y system-fyd.
- Dadansoddiad o'r cyfnod 'modern' – o 1990 ymlaen – sy'n cynnwys dyfeisio hunaniaeth genedlaethol Padanaidd, y berthynas â'r de, a'r berthynas â'r system-fyd.

Wrth ddarllen yr astudiaeth achos hon, mae'n bwysig cofio ar ryw ystyr ei bod hi'n anodd siarad am hanes 'yr Eidal'. Ar ôl cwmpwr yr Ymerodraeth Rufeinig (orllewinol) yn y 5ed Ganrif, nid oedd 'yr Eidal' – yng ngeiriau Iarll Metternich – yn ddim byd mwy na 'mynegiant daearyddol'. Dim ond yn 1861 y newidiodd hyn,

gyda chreu Teyrnas yr Eidal.<sup>34</sup> Cyn y dyddiad hwn, hanes yr Eidal yw hanes teyrnasoedd, dinas-wladwriaethau a dugiaethau gwleidyddol amrywiol, cystadleuol a gwasgaredig ar benrhyn yr Eidal (Braudel, 2019). Yn hyn o beth, nid oedd un hanes 'Eidalaidd' (i'r graddau y gellir disgwyl i un hanes fodoli). Fodd bynnag, mae cenedl-wladwriaethau'n dibynnu ar fythau creu (creation myths) i atgyfnerthu cyfreithlondeb eu bodolaeth. Yn hyn o beth, mae pob hanes cenedlaethol, hynny yw - hanes cenedl y mae'r genedl ei hun yn ei hadrodd - yn hanes adolygiadol. Mae'r naratif o'r hyn yw'r Eidal (ac felly hanes 'Eidalaidd') yn deillio o'r myth creu a adroddwyd gan yr Eidalwyr newydd hyn, iddyn nhw eu hunain, ac i'r byd. Adroddwyd hanes y *Risorgimento*<sup>35</sup> Eidalaidd (a gyfieithir yn llythrennol fel 'Atgyfodiad') gan yr enillwyr, hynny yw, y *Piedmontese*. I bob pwrpas, daeth hanes Piedmont yn hanes yr Eidal.

Heddiw, mae'r Eidal yn astudiaeth achos gwerthfawr ar gyfer y dadansoddiad hwn am sawl rheswm. Yn gyntaf, daeth yn genedl-wladwriaeth yn gymharol ddiweddar o gymharu â llawer o wladwriaethau eraill yng ngorllewin a de Ewrop. Yn ail, mae deuliaeth economaidd yn bodoli rhwng hen Deyrnas y Ddwyr Sisili a'r Gogledd. Yn drydydd, mae mudiad dros annibyniaeth yn bodoli yn Padania yng ngogledd yr Eidal, sy'n cael ei gefnogi gan blaid Lega Nord. Mae hyn o ddiddordeb gan fod y cysyniad o Padania yn un newydd, gyda'i wreiddiau yn yr 1980au, sy'n caniatáu asesiad o sut mae safle yn y system-fyd, anwastadrwydd datblygiad economaidd, a mentrau saernïo cenedl yn rhyngweithio mewn cyd-destunau newydd yn ogystal â hen gyd-destunau.

---

<sup>34</sup> Gwaethygir y sefyllfa'n ymhellach gan y ffaith nad yw'r diriogaeth a ddaeth yn Deyrnas yr Eidal yn 1861 yn gyfystyr a thiriogaeth yr Eidal heddiw. (Ni ddigwyddodd hyn tan ar ol yr Ail Ryfel Byd).

<sup>35</sup> Y *Risorgimento* yw'r enw a roddir ar y cyfnod o ddigwyddiadau a arweiniodd at uno'r Eidal. Fel arfer, dywedir bod hyn wedi digwydd rhwng yr 1820au ac 1871 pan wnaed Rhufain yn brifddinas yr Eidal. Fodd bynnag, cyhoeddwyd Teyrnas yr Eidal yn 1861 pan oedd Rhufain dal yn nwylo Tiroedd y Babaeth.

## System Dinas-Wladwriaeth yr Eidal

Mae y tu hwnt i gwmpawd y bennod hon i roi darlun llawn o hanes penrhyn yr Eidal. Yn hytrach, fydd yn archwilio sut mae prosesau hanesyddol wedi siapio safle'r Eidal yn y system-fyd heddiw (a safle ei rhannau cyfansoddol). Am y rheswm hwn, bydd y dadansoddiad o'r Eidal yn dechrau gyda system dinas-wladwriaeth yr Eidal; system a oedd yn gymharol unigryw i benrhyn yr Eidal ac un a luniodd ffurfiant gwladwriaeth yr Eidal yn y 19eg Ganrif.

Datblygodd system dinas-wladwriaethau'r Eidal yn ystod cyfnod o fasnachu cynyddol gymhleth, ac yng nghysgod y Babaeth (Epstein, 2000, t. 281). I ddechrau, nid oedd dinas-wladwriaethau am greu canolfannau grym sefydliadol newydd. Mewn gwirionedd, roedd conswliaid<sup>36</sup> y dinasoedd hyn yn edrych ar yr esgobion llywodraethol, y palas esgobol, a'u gweinyddwyr fel canolfannau awdurdod. Fel y dadleuodd Epstein (2000, t.282):

*political and cultural continuity with the real and imaginary past was upheld by the continued importance of the bishop as the main focus of public authority and by institutions like the public forum inherited from Antiquity.*

Datblygodd y rolau consylaidd hyn ar ddiwedd yr 11eg Ganrif, gyda'r cyntaf yn cael ei sefydlu yn Pisa yn 1085. Ar yr un pryd â chreu'r conswliaid hyn, fe wnaeth y cynnydd mewn masnach a chymhlethdod y fasnach honno ar benrhyn yr Eidal ysgogi creu sawl urdd (guild) crefft a masnach. Roedd y berthynas rhwng y sefydliadau hyn yn hunan-atgyfnerthol; gyda'r ddau yn ymateb i'r un ysgogiadau economaidd. Ar un llaw, roedd angen y conswliaid ar yr urddau celf a masnach i sefydlu a chynnal rheolau ymgysylltu cilyddol ag urddau eraill ar draws y penrhyn a thu hwnt. Yn y cyfamser roedd y conswliaid newydd eu sefydlu yn dibynnu ar

---

<sup>36</sup> Roedd conswliaid yn gymharus â Henaduriaid (Aldermen) yn Lloegr yr Oesoedd Canol. Maent yn cael eu deall orau fel dosbarth aristocrataidd.




bŵer economaidd newydd yr urddau hyn i gadarnhau eu pŵer economaidd a gwleidyddol eu hunain. Yn ei hanfod, prif bwrpas y conswliaid a'r urddau oedd sicrhau hawliau eiddo crefftwyr a phendefigion.

Adeg cychwyn y sefydliadau hyn, eu rôl yn bennaf oedd hwyluso a sicrhau masnach fewnol o fewn y ddinas-wladwriaeth, yn enwedig o ran cadw rheolaeth dros eu cefnwledydd. Wrth i'r dinas-wladwriaethau hyn ddatblygu, roedd yr un ysgogiadau masnach a arweiniodd at greu conswliaid a urddau yn y dinas-wladwriaethau, nawr yn arwain y sefydliadau hyn – trwy'r pŵer sefydliadol oedd bellach wedi'i ymgorffori yn y system dinas-wladwriaeth – i geisio masnachu â gwladwriaethau eraill o'r un anian. Mewn gwirionedd, yn ôl Hicks (1969, t. 34), erbyn dechrau'r 12fed Ganrif dylid ystyried y ddinas-wladwriaeth fel endid masnachu, a chorff o fasnachwyr arbenigol sy'n ymwneud â masnach allanol. Roedd masnach yn arbennig o bwysig ar gyfer penrhyn yr Eidal yn y 12fed a'r 13eg Ganrif oherwydd ei safle daearyddol ffafriol. Mae Ffigur 24 yn dangos llwybrau masnach Ewrop, gogledd Affrica, a gorllewin Asia yn 1212. Mae'r map hwn yn dangos pwysigrwydd daearyddol moroedd y Canoldir a'r Adriatig ar gyfer masnach. Roedd safle penrhyn yr Eidal o fewn y system-fyd hon yn golygu eu bod yn rhan o'r craidd, yn ddaearyddol ac yn economaidd.

Oherwydd safle breintiedig penrhyn yr Eidal, gallai'r rhanbarth gynnal nifer fawr o ddinas-wladwriaethau fel sefydliadau gwleidyddol ac economaidd hyfyw. Mae modelau gwleidyddol ac economaidd llwyddiannus yn arwain at efelychiad trwy ymlediad sefydliadol, fel y tystiwyd gan dwf mudiadau Jacobitaidd ar draws cyfandir Ewrop yn y 18fed Ganrif. Erbyn diwedd y 12fed ganrif roedd 300 o ddinas-wladwriaethau ym mhenrhyn yr Eidal gan iddynt ddynwared prif ddinasoedd-wladwriaethol llwyddiannus yr Eidal (Epstein, 2000, t. 286). Disgrifiodd Banaji (2020, t. 31) oruchafiaeth Eidalaid yn y Arcipelago Egeaidd yn y cyfnod hwn fel a ganlyn:


By the terms of the treaty of 1082<sup>37</sup>, Venetian merchants could buy and sell in every part of the Empire, free of duty or customs examinations. Many ports were opened and vast territories made accessible to them for free trade. These privileges, renewed by the emperors of the twelfth century rendered the Venetians virtual masters of the commercial life of the empire. By the thirteenth century, when the Genoese came into Byzantine economic life in a big way and similar wide-ranging concessions were granted, Italian merchants, whether Genoese or Venetians, became so entrenched in Constantinople that they controlled the economy of that city. And by the end of the thirteenth century, the islands of the Aegean (the Archipelago) were being divided between Genoese and Venetian control, the Aegean's east coast becoming the heart of Genoa's maritime domain.



Ffigur 24: Llwybrau Masnach yn 1212OC. Ffynhonnell: (McEvedy, 1964, t. 73).

<sup>37</sup> Cytundeb masnach ac amddiffyn oedd y Cytundeb Bysantaidd-Fenisaid a roddodd gonsesiynau masnachu mawr i Fenis yn gyfnewid am eu cefnogaeth yn erbyn y Normaniaid.

Er y gellid ystyried bod y penrhyn Eidalaidd cyfan yn ganolog yn ddaeryddol yn y system-fyd Ganoloesol, roedd y rhan fwyaf o'r dinas-wladwriaethau a oedd wrth wraidd y system hon yn y gogledd. Unwaith eto chwaraeodd daearyddiaeth ran wrth lunio'r realiti hwn. Mae Ffigur 25 yn dangos topograffeg penrhyn yr Eidal:



*Ffigur 25: Map graddliwiedig mewn lliwiau monocrom (chwith) a map yn dangos uchder (dde). Ffynhonnell: (Lemenkova, 2020, t. 107).*

Fel y dangosir yn Ffigur 25, mae topograffeg yr Eidal yn amrywio'n fawr rhwng y gogledd a'r de. Mae mynyddoedd yr Apenninau yn rhedeg trwy'r rhanbarthau canolog a deheuol tra yn y gogledd mae gwastadeddau ffrwythlon a mordwyol Dyffryn Po. Roedd gwell dulliau trafndiaeth a chyfathrebu yn golygu bod dinas-wladwriaethau'r gogledd yn gallu cydweithio o ran materion milwrol a masnachol fel y dangosir gan Gynghrair Lombard 1176 (Epstein, 2000, t. 284). Mewn cyferbyniad, roedd dinasoedd y de dan anfantais oherwydd y pellter oedd yn eu gwahanu, yn ogystal â diffyg dŵr mordwyol (Jones, 1997) (Wickham, 1998). I'r

graddau bod cydweithredu yn bodoli, roedd yn fwy cyffredin i ddinas-wladwriaethau fel Puglia a Bari gydweithredu â Fenis yn hytrach na gwladwriaethau deheuol eraill megis Napoli. Yn yr un modd, roedd Napoli yn cydweithio mwy â Rhufain a Genoa na'i gymheiriaid deheuol. Nid oedd ysgogiadau'r economi fasnachol a oedd yn dibynnu ar gydweithredu, masnach, a chysylltiadau busnes ac a wnaeth dinas-wladwriaethau'r gogledd yn gyfoethog, yn gallu ymwreiddio'n ddwfn iawn yn ne'r Eidal (Epstein, 2000, t. 285).

## Y Gyfundrefn Dinas-Wladwriaethol o'r 15fed Ganrif

Fel y nodwyd, ar ddechrau'r 12fed ganrif roedd tua 300 o ddinas-wladwriaethau yn bodoli yn yr Eidal. Erbyn diwedd y 15fed ganrif, roedd y nifer hwn wedi gostwng yn sylweddol. Dengys Ffigur 26, erbyn 1494, fod nifer y dinas-wladwriaethau wedi gostwng i tua dwsin.<sup>38</sup> Rhwng y 12fed a'r 15fed Ganrif, roedd gan ddinas-wladwriaethau nifer gyfyngedig o gamau y gallent eu cymryd. Gallent ymestyn eu tiriogaethau i gael mynediad at farchnadoedd mwy neu fasnachu'n fwy effeithlon yn eu marchnadoedd presennol trwy orfodi hawliau eiddo cliriach. Yn nyddiau cynnar y system dinas-wladwriaeth, roedd y gystadleuaeth gynyddol rhwng masnachwyr yn help i leihau costau trafodion ond yn y pen draw arweiniodd at ostyngiad yn yr elw i fasnach. Roedd yn bosibl am y tro i lywio'r tagfeydd hyn trwy fasnachu â dinasoedd cystadleuol, ond heb un awdurdodaeth benodol, roedd dinas-wladwriaethau'n cael eu hannog i ddiffygdalu. Yn absenoldeb cydlyniad o'r fath, yr unig lwybr dichonadwy oedd sefydlu un awdurdod i orfodi'r rheolau. I'r perwyl

---

<sup>38</sup> Mae tu hwnt i gwmpas y traethawd hwn i ddisgrifio'n fanwl sut a pham y bu i nifer y dinas-wladwriaethau leihau. Am ddadansoddiad o'r fath gweler Epstein (2000) a Hicks (1969), a dadleuodd y ddau ohonynt bod y gostyngiad yn nifer y dinas-wladwriaethau o ganlyniad i Dueddiad Cyfradd Elw i Ostwng (Tendency of the Rate of Profit to Fall TRPF).

hwn, ehangodd unedau tiriogaethol i orfodi'r hawliau eiddo i fasnachu a leihaodd nifer y dinas-wladwriaethau wrth i'r rhai gwannach ildio i'r rhai cryfach.



Ffigur 26: Penrhyn yr Eidal yn 1494. Ffynhonnell: (Brennan a Houde, 2017, t. 93).

Cyfrannodd yr amodau penodol a fodolai yn yr Eidal erbyn diwedd y 15fed Ganrif, lle'r oedd 12 canolfan bŵer ar wahân, at ddatblygiad hwyr y wladwriaeth. Mae theori Cydbwysedd Grym (Balance of Power Theory), fel y'i defnyddir ym maes Cysylltiadau Rhyngwladol (IR) yn offeryn a all fod yn ddefnyddiol wrth ddiffinio'r system rhwng-wladwriaethol yn yr Eidal yn y cyfnod hwn. Nodweddwyd y ddamcaniaeth fel a ganlyn gan Heywood (2015, t. 11):

*The term 'balance of power' has been used in a wide variety of political contexts, but it features most prominently in international relations, where it has been accorded a number of meanings. As a policy, the balance of power refers to a deliberate attempt to promote a power equilibrium, using diplomacy, or possibly war, to prevent any individual state from achieving a predominant position. As a system, it refers to a condition in which no single state predominates over others, tending to create general equilibrium and curb the hegemonic ambitions of all states. Although such a balance of power may simply be fortuitous, neorealists argue that the international system tends naturally towards equilibrium because states are particularly fearful of a would-be hegemon, or dominant power, The term is also sometimes use to refer to power relationships generally, unconnected with the idea of equilibrium. This makes it possible to talk, for example, about 'the changing balance of power'.*

Yn berthnasol i'r dadansoddiad hwn mae'r syniad bod gwladwriaethau'n ceisio hyrwyddo cydbwysedd pŵer yn fwriadol a dyma'n wir a ddigwyddodd yn yr Eidal. Dadleuodd Andersen (2018, tt. 2-3) fod Niccolò Machiavelli wedi siarad yn helaeth yn y 1480au am y berthynas rhwng dinas-wladwriaethau'r Eidal a bod y cyfnod hwn wedi'i nodweddu gan dinas-wladwriaeth Fflorens a'i arweinydd Lorenzo de Medici yn ceisio creu cydbwysedd yn erbyn Gweriniaeth Fenis. Roedd yr hanesydd Eidalaid yr 16eg Ganrif, Francesco Guiccardini, yn dadlau fod yr holl wladwriaethau'n gwylio ei gilydd i sicrhau bod y system yn aros yn gytbwys fel na allai unrhyw un wladwriaeth ddominyddu'r penrhyn (Guiccardini, 1984). Roedd

hyn yn golygu ni ddylai un felly helpu'r cryf, ond helpu'r rhan wanaf, fel y gall cydbwysedd fodoli (Andersen, 2018, t. 3). Fel y dadleuodd Braudel (1995, t. 657):

*By the fifteenth century, the city-state was already losing ground; first signs of this crisis could be detected in Italy during the early years of the century. In fifty years, the map of the Peninsula was entirely redrawn, to the advantage of some cities and the detriment of others. It was only a partial eclipse. The upheaval failed to achieve what may have been at issue - though I doubt it - the unification of the Italian Peninsula. Naples, Venice, and Milan in turn proved unequal to the task. The attempt in any case would have been premature: too many particular interests were at stake, too many cities eager for an individual existence stood in the way of this difficult birth. So, it is only partly true that there was a decline in the power of the city-state. The Peace of Lodi, in 1454, confirmed both a balance of power and a deadlock: the political map of Italy, although simplified, was still a patchwork.*

Roedd Heddwch Lodi yn golygu bod y sefyllfa ar benrhyn yr Eidal yn wahanol i'r hyn a ddigwyddodd yn y rhan fwyaf o Orllewin Ewrop. Mae cenedl-wladwriaethau wedi tueddu i ddatblygu o graidd gwleidyddol neu economaidd. Erbyn y 15fed ganrif, roedd y creiddiau hyn wedi dechrau cyfuno a lledaenu eu hawdurdod ar draws rhan helaeth o Orllewin Ewrop. Erbyn y cyfnod hwn, roedd Ffrainc yn wladwriaeth unedol o dan y brenin, roedd Wessex wedi llwyddo i ledaenu ei hawdurdod dros ran helaeth o Loegr *de jure*, a *de facto* dros ran helaeth o Gymru, ac roedd Teyrnasoedd Castilla ac Aragón, dau graidd, bellach wedi'u huno trwy briodas ar benrhyn Sbaen. Trwy farchnadoedd cartref, biwrocratiaeth ganolog, a'r 'crefydd seciwlar' o genedlaetholdeb, gallai gwreiddiau'r 'genedl' ddechrau tyfu yn y llefydd hyn. Nid oedd yr un peth yn wir am Benrhyn yr Eidal.<sup>39</sup>

---

<sup>39</sup> Roedd gan Heddwch Lodi ganlyniad pwysig arall, sef sefydlu cydbwysedd pŵer gogledd yr Eidal, a darparu model ar gyfer sefydliadol cydbwysedd pŵer Ewropeaidd gan gytundebau Westphalia ddwy ganrif yn ddiweddarach (Arrighi, et al., 2004, t. 277). Hyn, yn bwysig, oedd tarddiad y syniad o sofraniaeth y wladwriaeth a fyddai'n dod i ddiffinio cystadleuaeth ryng-wladwriaethol Ewropeaidd yn y cyfnod cyfalafol.



Cymerodd fwy o amser i graidd gwleidyddol ac economaidd yr Eidal ddatblygu gan fod gan benrhyn yr Eidal greiddiau oedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am gyfnod llawer hirach. Mewn gwirionedd, dadleuodd Fubini (1995) mai diffyg system ganolog yn yr Eidal oedd y rheswm pam y gallai gwladwriaeth Ffrainc oresgyn y penrhyn yn llwyddiannus yn 1496. Cafodd sefydliadau a systemau cenedlaethol a grëwyd mewn rhannau eraill o Ewrop hefyd ddylanwad trwm ar economi penrhyn yr Eidal. Dadleuodd Cipolla (1952, tt. 180-181) fod economïau gogledd yr Eidal yn bennaf ddibynnol ar allforio cynnyrch gweithgynhyrchu ar raddfa fawr, yn bennaf tecstilau gwlan a sidan ac allforion mawr anweledig ar ffurf gweithrediadau bancio byd-eang ac allforio morwrol. Fel y dadleuodd Marx ac Engels (1970 [1845], t. 76) yn 'Yr Ideoleg Almaeneg' (The German Ideology), roedd angen i'r mentrau cyfalafol newydd yn yr Iseldiroedd, Ffrainc, Gwlad Belg a Lwcsembwrg greu marchnadoedd cartref er mwyn aeddfedu. Roedd hyn yn golygu bod:

*manufacture was all the time sheltered by protective duties in the home market, by monopolies in the colonial market, and abroad as much as possible by differential duties. The working-up of home-produced material was encouraged (wool and linen in England, silk in France), the export of home-produced raw material forbidden (wool in England), and the [working-up] of imported raw material neglected or suppressed (cotton in England).*

Roedd y ddiffyndollaeth gynnil hon yn mynd law yn llaw â chreu sefydliadau cenedlaethol, megis systemau bancio, a oedd yn tanseilio'r economi ar benrhyn yr Eidal ymhellach, economi nad oedd ganddi ei marchnad gartref fawr ei hun.

## Safle Newidiol yr Eidal o Fewn y System-Fyd

Yn ôl Leilo Basso (1956/2021)<sup>40</sup> fe wnaeth 'darganfyddiad' yr Americas symud canolbwynt economaidd y system-fyd o Fôr y Canoldir i Fôr yr Iwerydd ac arweiniodd at ddirywiad economaidd pellach yr Eidal. Yn ei hanfod, roedd canol y system-fyd wedi'i hailgyfeirio o benrhyn yr Eidal i'r Iseldiroedd, Lloegr ac Iberia. Mewn gwirionedd, yn ôl Quijano a Wallerstein (1992, t. 549), nid 'ymuno' â system-fyd oedd yn bodoli eisoes wnaeth yr Americas, ond yn hytrach:

*the modern world-system was born in the long sixteenth century. The Americas as a geosocial construct were born in the long sixteenth century. The creation of this geosocial entity, the Americas,<sup>41</sup> was the constitutive act of the modern world-system. The Americas were not incorporated into an already existing capitalist world-economy. There could not have been a capitalist world-economy without the Americas.*

Fel y dadleuir Wallerstein (2011, t. 38):

*three things were essential to the establishment of ... a capitalist world-economy: an expansion of the geographical size of the world in question, the development of variegated methods of labour control for different products and different zones of the world-economy, and the creation of relatively strong state machineries in what would become the core-states of this capitalist world-economy.*

---

<sup>40</sup> Ar gyfer cyfieithiad Basso, rwy'n defnyddio traethawd MA heb ei gyhoeddi. Mae'r cyfeiriad llyfryddol o dan (Sahota, 2021). Yn y testun rwy'n cyfeirnoddi Basso'n uniongyrchol, gyda'r dyddiad y cyhoeddwyd y gwaith gyntaf yn Eidaleg a'r dyddiad y cafodd y gwaith ei gyfieithu i'r Saesneg.

<sup>41</sup> Mae'r lleoliad daearyddol yr ydym ni nawr yn ei alw'n 'The Americas' yn amlwg wedi bodoli ers milenia, ond nid oedd yn cael ei alw'n 'The Americas' nac yn ffurfio ei 'system-fyd' ei hun. Felly, mae'n bosibl sôn am 'greu' yr Americas yn yr un modd ag yr ydym yn trafod 'creu' cenhedloedd a gwladwriaethau.


mae'n dilyn bod y dirywiad ym mhwysigrwydd cymharol yr Eidal, dyfodiad cyfalafiaeth, a chreu'r Americas fel endid geogymdeithasol i gyd wedi'u cydblethu. Dadleuodd Basso (1956/2021) fod y cynnydd mewn metelau gwerthfawr, cyfoeth symudol a thraffig o'r Americas yn golygu bod yr Eidal ar ei hôl hi yn y broses o ddatblygiad cyfalafol a gwaethygyd hyn yn y pen draw gan ei raniad yn nifer o daleithiau bychain. Cyn 'darganfyddiad' yr Americas, Fenis oedd marchnad bwliwn fwyaf Ewrop, gyda chymorth o benderfyniad bancwyr masnach Fflorens i wneud y Rialto yn farchnad cyfnewid ganolog Ewrop ers blynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar ddeg (Banaji, 2020, t. 21). Roedd hyn yn golygu mai Fenis oedd Palas bancio Ewrop yn y cyfnod hwn (Mueller, 2019, t. 354).

Ar ôl 'darganfyddiad' yr Americas, aeth Hobsbawm (1954, t. 34) mor bell â dweud, bod ardal Môr y Canoldir wedi peidio â bod yn ganolfan bwysig yn economaidd ac yn wleidyddol, ac yn y pen draw o ran dylanwad diwylliannol, daeth yn gefnfor tlawd. Roedd Carlo Cipolla (1952, t. 334) yr un mor ddigalon ynghylch y newid yn ffawd yr Eidal yn yr 16eg a'r 17eg Ganrif. Dadleuodd:

*by the end of this century [the 17<sup>th</sup>], Italy had become an economically backward and depressed area; its industrial structure had almost collapsed, its population was too high for its resources, its economy had become primarily agricultural. The great change came mainly between 1600, and 1670. In these seven black decades the industrial structure of Italy collapsed.*

Dangosodd Davis (1975, t. 10) fod llongau o'r Iseldiroedd wedi dod yn fwy effeithlon ac wedi datblygu fwy yn dechnolegol yn yr 17eg Ganrif a arweiniodd at well mordwyo morwrol a lleihad ym mhwysigrwydd Môr y Canoldir. Drwy ganolbwyntio ar gapasiti cario a chost gweithredu, datblygon nhw ffurfiau corff llong a oedd yn gwneud y mwyaf o ofod cargo mewn perthynas â dimensiynau cyffredinol. Roedd y datblygiadau technolegol hyn yn golygu bod safle'r Eidal - fel pen taith y Ffordd Sidan ar y tir a chraidd masnach Môr y Canoldir - bellach wedi hen ddarfod. Yn ogystal roedd Portiwgal, Sbaen, yr Iseldiroedd a Phrydain yn fforio

ac yn ecsbloetio. Roedd y system-fyd wedi ehangu, ac nid oedd yr Eidal yn ganolog iddi fwyach. Mae Ffigur 27 yn dangos y prif lwybrau masnach Ewrasiaidd a fodolai erbyn yr 17eg Ganrif, ac roedd sefyllfa'r Eidal yn amlwg wedi dirywio erbyn y cyfnod hwn.



Ffigur 27: Prif Lwybrau Masnach Ewrasiaidd, 1650. Ffynhonnell: (Henretta et al., 2007).

Wrth geisio egluro cwmp hegemoniau neu greiddiau yn y system-fyd, dadleuodd Wallerstein (2011b, t. 59) bod dau brif ffactor:

*first, the factors that made for greater economic efficiency could always be copied by others — not by the truly weak but those who had medium strength — and latecomers to any given economic process tend to have the advantage of not having to amortize older stock. Secondly, the hegemonic power had every interest in maintaining uninterrupted economic activity and therefore tended to buy labour peace with internal redistribution. Over time, this led to reduced competitiveness thereby ending hegemony.*

Yr hegemoniau yr oedd Wallerstein yn cyfeirio atynt oedd rhai'r Iseldiroedd, Prydain, ac UDA, ac mae'r sefyllfaoedd a arweiniodd at gwmp dinas-wladwriaethau'r Eidal yn debyg, ond eto'n wahanol. O ran ei bwynt cyntaf, nid yw'n wir i ddweud bod y gwladwriaethau eraill wedi copio'r hyn a wnaeth economïau gogledd yr Eidal yn effeithlon, yn hytrach, fe wnaethant i bob pwrpas newid eu cynulleidfa farchnadol. Hyd yn oed ar ôl i ddinas-wladwriaethau'r Eidal ddechrau dirywio o ran pwysigrwydd economaidd, roedd ansawdd eu cynhyrchion tecstil o ansawdd llawer gwell na'r hyn a gynhyrchwyd yn yr Iseldiroedd, Prydain a Ffrainc. Y gwahaniaeth oedd bod cynnyrch y gwledydd hyn yn llawer rhatach.

*Italian industry, which had its hands tied by the complicated regulations of the old town guilds, persisted in the production by traditional methods of articles excellent in quality and out of date in fashion. This now proved to be a serious drawback. First the English and Dutch and then the French invaded the international market with new types of textiles, lighter, less durable, brighter, and livelier in colour. These materials were of a type which was distinctly inferior in quality to the traditional Italian textiles: but they cost much less (Cippola, 1952, t. 182).*

Felly, newidiodd y marchnadoedd traddodiadol ar gyfer y tecstilau hyn o un a oedd yn cael ei arwain gan yr elit i un ag apêl hygyrch ac ehangach. Gellir dadlau bod


hwn yn fath o fasgynhyrchiad cynnar o'i gymharu â nwyddau Eidalaid ecsgliwsif, a gwelir yma egin cynnar cyfalafiaeth. Fodd bynnag, mae'n deg dweud bod gan yr hwyreddyfodiaid y fantais o beidio â gorfod amorteiddio stoc fel yr oedd yn rhaid i ddinas-wladwriaethau'r Eidal ei wneud. Mae Wallerstein (2011, t. 19-20) yn cyfeirio at y newid hwn yn ei ddadansoddiad o ddinas-wladwriaethau'r Eidal fel economïau ffiwdal llwyddiannus – yn hytrach na rhai cyfalafol:

*Long-distance merchants (based often in northern Italian city-states) capitalised on poor communications and hence high disparities of prices from one area to another. [...] Feudalism as a system should not be thought of as something antithetical to trade. On the contrary, up to a certain point, feudalism and the expansion of trade go hand in hand. [...] Yet a feudal system could only support a limited amount of long-distance trade as opposed to local trade. This was because long-distance trade was a trade in luxuries, not in bulk goods. It was a trade which benefitted from price disparities and depended on the political indulgence and economic possibilities of the truly wealthy. It is only with the expansion of production within the framework of a modern world-economy that long-distance trade could convert itself into bulk trade which would, in turn, feed the process of expanded production.*

O ran ail ddadl Wallerstein, mae'n wir fod dinas-wladwriaethau'r Eidal yn dod yn anghystadleuol yn economaidd. Roedd y urddau a oedd ar un adeg yn gosod gogledd yr Eidal wrth galon y system-fyd bellach yn hen ffasiwn ac yn rhwystro datblygiad dulliau cynhyrchu newydd, mwy cynhyrchiol. Roedd bodolaeth y urddau yn golygu bod cyflogau yn uwch ar benrhyn yr Eidal nag ar yr Iwerydd gan eu bod yn gweithredu'n debyg i undebau llafur (er gyda diddordebau dosbarth gwahanol). Yn wir, dadleuodd Wood (2013, t. 44) fod y Fensiaid yn y 1620au wedi'u tan-werthu a'u bod yn cwyno am bris isel a chost is sidan a anfonwyd gan y Saeson. Gwaethygydd y sefyllfa hon gan bla 1629-30 a effeithiodd ar benrhyn yr Eidal. Yn yr un modd â chanlyniadau'r Pla Du, gwelwyd gostyngiad yn nifer y gweithwyr oedd ar gael (rhai 'medrus' a 'di-greff') a olygai bod cyflogau'n cynyddu (Alfani a

Percoco, 2019). Y gwahaniaeth rhwng y pla hwn a'r rhai cynharach oedd ei fod wedi'i ganoli bron yn gyfan gwbl yn yr Eidal, ac o ganlyniad felly, ni wnaeth cyflogau gynyddu ar draws Ewrop gyfan. O ganlyniad, gwaethygydd ymhellach sefyllfa anffafriol yr Eidal mewn perthynas â'r pwerau a oedd yn cynyddu yng ngogledd yr Iwerydd. Byddai safle system-fyd penrhyn yr Eidal o'i gymharu â'i chymdogion yng ngogledd Ewrop yn arwain at greu amodau pwysig o ran creu cenedl-wladwriaeth yr Eidal.

Ceisiodd Malanima (2003, t. 268) fesur CMC y pen y rhai oedd yn byw ar Benrhyn yr Eidal o'r 15fed Ganrif hyd at sefydlu Teyrnas yr Eidal. Yn ôl eu dadansoddiad, roedd CMC cymharol y pen ar ei uchaf yn 1440 ac nid oedd wedi gwella eto erbyn creu Teyrnas yr Eidal. Amlygir y dirywiad cymharol ym mhwysigrwydd Môr y Canoldir a'r penrhyn Eidalaidd gan y gostyngiad rhwng 1440 a 1580-1590 pan symudodd canol y system-fyd-eang tuag at Fôr yr Iwerydd.



*Ffigur 28: Amcangyfrifon CMC Y Pen (1860-1870 Lire Eidalaidd) yn yr Eidal (15fed-19eg C). Ffynhonnell: (Malanima, 2003, t. 268).*



## Y Risorgimento Eidalaidd

Roedd Teyrnas yr Eidal, a gyhoeddwyd ym 1861, yn nodi ymddangosiad gwladwriaeth Eidalaidd fodern. Roedd y broses hon yn integreiddio actorion gwleidyddol sofran Teyrnas Sardinia<sup>42</sup> (1720-1861), Teyrnas y Ddau Sisili (1816-1861), Dugiaeth Fawr Toscana (1567-1860), Dugiaeth Modena (1452-1860), a Dugiaeth Parma (1545-1860). Ymgwymerwyd ag ehangu'r wladwriaeth Eidalaidd newydd ymhellach ym 1866 pan feddiannwyd Veneto o'r Ymerodraeth Awstro-Hwngaraidd yn dilyn buddugoliaeth Ffrainc drostynt, ac ym 1870 pan ddaeth milwyr 'Eidaleg'<sup>43</sup> i Rufain. Arweiniodd hyn at ildio Rhufain a Lazio i Deyrnas yr Eidal a daeth Taleithiau'r Pab i ben (756-1870). Cwblhawyd uno'r Eidal o'r diwedd ym 1918 trwy gaffael Trentino-Alto - neu Sud Tirol<sup>44</sup> - a Friuli-Venezia-Giulia o'r Ymerodraeth Awstro-Hwngaraidd, nad oedd bellach yn bodoli.

Arweiniodd uno'r Eidal at ddileu'r rhwystrau tariff a masnach a fodolai rhwng y taleithiau a arferai fod yn annibynnol, a golygai hyn y gallai cyfalaf symud yn fwy rhwydd ar draws y penrhyn a daeth y wladwriaeth yn ganolbwynt gwleidyddol yn lle'r clytwaith a fodolai cyn hynny. Er i'r prosesau a arweiniodd at greu Teyrnas yr Eidal gael eu disgrifio gan arweinwyr y mudiad hwn fel "uno" neu "atgyfodi" (Risorgimento) yr Eidal, y gwir amdani yw bod y broses hon wedi'i harwain gan un actor yn benodol: Teyrnas Sardinia<sup>45</sup> (Riall, 2002) (Smith, 1988). Dadleuodd Snowden (1972, t. 268 ) bod y Risorgimento wedi'i ddisgrifio orau fel concwest y penrhyn gan

---

<sup>42</sup> Roedd Teyrnas Sardinia yn cynnwys Piedmont sef grym economaidd y penrhyn.

<sup>43</sup> Roedd y milwyr hyn o Piedmont ac roeddent mewn gwirionedd dan reolaeth Teyrnas Sardinia, felly roeddent yn filwyr Eidalaidd yn fras, yn hytrach na *Piedmontese*.

<sup>44</sup> Mae mwyafrif trigolion Sud Tirol yn siarad Almaeneg ac mae mudiad yno yn ceisio ail-uno gyda rhanbarth Tirol yn Awstria. Yn wir, nodwyd bod 46% o'r trigolion yn cefnogi ymwahanu o'r Eidal (Nationalia, 2013).

<sup>45</sup> Er mai'r enw ar yr endid hwn oedd Teyrnas Sardinia, nid Sardinia oedd yn bwysig i'r rhai oedd yn rheoli, sef Tŷ Safwy. Roedd y brifddinas yn Nhurin, yn hytrach na Cagliari, ac roedd grym y Deyrnas yn Piedmont a Genoa yn hytrach na Sardinia.

ei ran fwyaf blaengar yn fasnachol – Piedmont. Mewn geiriau eraill, roedd Piedmont:

*the furthest along the path to a market economy, with the most developed public administration and ability to indebt itself to pay for the best army. The internal pressures on it to achieve larger markets and to spread its debt load over a larger base incentivized it to seek territorial expansion* (Duca a Duca, 2006, t. 823).

Roedd creu Teyrnas yr Eidal felly yn gynnyrch proses benodol o integreiddio anghytwys a ddominyddwyd yn wleidyddol gan Deyrnas Sardinia. Oherwydd yr oruchafiaeth yma, bourgeoisie cynhenid Teyrnas Sardinia daeth yn ddsbarth llywodraethol y wladwriaeth.

Wrth egluro uno'r Eidal, dadleuodd Gramsci fod:

*the currents born on the basis of the productive development of the more advanced countries ... transmit their ideological currents to the periphery* (dyfynnwyd yn Morton, 2007, t. 613).

Yn y bôn, fe aeth trefniadau a fframweithiau sefydliadol y wladwriaeth Eidalaidd newydd trwy broses o efelychu'r rhai Ffrengig. Roedd hyn yn golygu bod uno yn achos yr Eidal:

*was not so much a question of freeing the advanced economic forces from antiquated legal and political fetters but rather of creating the general conditions that would enable these economic forces to come into existence and grow on the model of other countries* (Gramsci, 2011, t. 76).

Ategir y farn hon gan Duca a Duca (2006, t. 823) a ddadleuodd mai o dan faner Vittorio Emanuele II, Dug Savoy, mewnofiodd y Piedmontiaid gyfraith weinyddol Ffrainc i gynorthwyo adeiladu'r wladwriaeth. Nid i sicrhau hawliau unigol oedd yr ymdrech hon, ond yn hytrach i sicrhau gweinyddiad effeithiol o bŵer y wladwriaeth. Roedd hyn yn golygu bod y Risorgimento, fel y manylir arno uchod,

yn ymgais i 'gysoni' gwendidau strwythurol a achoswyd gan safle'r wladwriaeth Eidalaidd o fewn system ryngwladol o ddatblygiad anwastad (Morton, 2007, t. 614). Fel yr ysgrifennodd Molinari yn ystod y Risorgimento yn 1854: mae rhaniad dynoliaeth yn genhedloedd ymreolaethol yn ei hanfod yn economaidd (Lalor, 1888, t. 957).

Y ffordd orau i ddisgrifio'r Risorgimento felly yw chwyldro oddi uchod. Ymhellach, er y gallai fod rhyw fath o undod ar benrhyn yr Eidal o ran *ethnie* a rennir - tebyg i'r hyn a rennir gan y byd Helenistaidd ar benrhyn Groeg - ni ellir dweud bod ymdeimlad cenedlaetholgar gwleidyddol cryf wedi bodoli cyn nac yn ystod y Risorgimento. Mewn gwirionedd, tybiwyd mai dim ond tua 2.5% o boblogaeth yr Eidal oedd yn siarad 'Eidaleg' adeg yr uno, tra bod y gweddill yn siarad ieithoedd amrywiol ac annealladwy i'w gilydd (Mauro, 2017, t. 41). Gallai iaith felly fod wedi bod yn *gyfiawnhad* pwysig dros uno gan yr elit,<sup>46</sup> ond yn sicr nid oedd ar feddyliau rhan fwyaf o bobl y penrhyn.

## Y Risorgimento a Gwreiddiau 'Cwestiwn y De'

Daeth uniad gwleidyddol yr Eidal i fodolaeth drwy rym economaidd y Penrhyn: Piedmont. Roedd yr ansicrwydd economaidd a wthiodd yr elit yn Piedmont i ddilyn polisi uno gwleidyddol, hefyd pwysu arnynt yn yr Eidal unedig. Edrychodd y wladwriaeth Eidalaidd newydd tua'r gorllewin at wladwriaethau Ffrainc, a Phrydain fel enghreifftiau o ddatblygiad i'w hefelychu, ac roeddent wedi dychryn gan gryfder cynyddol yr Almaen unedig newydd. Barn y deallusion yr Eidal oedd bod y wlad - yn enwedig y De neu'r *Mezzogiorno* - yn annatblygedig yn economaidd o'u gymharu â'u cymheiriaid Ewropeaidd ac roedd datrys y broblem hynny o

---

<sup>46</sup> Mae'n bosibl y defnyddiwyd iaith i gyfiawnhau uno yn allanol, ond rhai economaidd oedd y prif ysgogiadau y tu ôl i'r uniad.

bwysigrwydd cenedlaethol sylfaenol. Felly ganwyd 'Cwestiwn y De'. Dadleuodd Schneider (1998) fod 'annatblygiad' y Mezzogiorno wedi'i nodi a'i drafod yn eang yn ystod y Risorgimento. Y teimlad cyffredinol oedd bod:

*the agrarian system of the Neapolitan Kingdom seemed to hold the whole economy back, although agriculture was argued to be the country's natural vocation. Wedded to antiquated crops, methods, and technologies, and resistant to innovation, the system was viewed as increasingly wasteful, inefficient, and even irrational. Critics lamented above all the persistence of ill-defined and confused property relations (Schneider, 1998, t. 39).*

Gwelir y safbwynt o sut yr oedd y gogledd yn edrych i lawr ar y de yng ngwaith Cesare Lombroso; y dyn a sylfaenodd pwnc troseddeg. Yn ei farn ef, roedd troseddoldeb yn gysylltiedig â hil, ac fe neilltuodd y damcaniaethau hyn i egluro'r gwahaniaethau rhwng gogledd a de'r Eidal. Fel y dyfynnwyd yn Schneider (1998, t. 99):

*the Mafia is a Sicilian variant of the ancient Camorra, a variant shaped perhaps by a more tenacious adherence to secrecy, typical of the Semitic race" ac "it is to the African and Eastern elements (except the Greeks), that Italy owes, fundamentally, the greater frequency of homicides in Calabria, Sicily, and Sardinia, while the least occur where the Nordic races predominate.*

Dadleuodd Davis (2012, t. 510) fod y broses hon o greu 'Eraill' yn rhan bwysig o greu hunaniaeth Eidalaid yn y gogledd.

*The South provided an 'Other' that served to define the features and attributes of the true Italians – a means for defining the national identities of the newly unified Italians and establishing norms to which southerners were expected to conform.*

Mae fersiwn o gymysgrywiaeth (hybridity) fel y defnyddiwyd gan Bhabha (2012) i'w weld yn yr Eidal, ac roedd y De yn "ni" a "nhw" ar yr un pryd. Yn wahanol i

Ffrainc neu Brydain a oedd ar y cyfan yn llunio'r Trefedigaethau fel y "nhw", roedd yr Eidal - oedd heb Drefedigaethau ar y pryd - yn llunio'r "nhw" yn fewnol.

Dyma'r hanes y mae actorion a haneswyr y Risorgimento wedi'i ddarlunio. Fodd bynnag, mae angen ymchwilio ymhellach i weld a yw hynny'n wir. Heb os nac oni bai, roedd anllythrennedd yn gyffredin, a thlodi, afiechyd, a daliadaeth tir ansicr yn pwysu'n drwm ar werin y de; eto byddai'n decach lleoli'r de yn ei gyd-destun hanesyddol. Mae unrhyw un sydd wedi darllen nofel gan Dickens yn gwybod am y cyni llwyr y bu'n rhaid i dlodion gweithiol Oes Fictoria oroesi. Yn wir, disgwyliad oes person tlawd cyffredin yn un o ddinasoedd Lloegr yn Oes Fictoria oedd 15 (Greene, 2001). Felly ni ddylid edrych ar ddatblygiad a'r arafwch o ran datblygu a fodolai yn Nheyrnas y Ddwyr Sisili fel sefyllfaoedd deuol,

*but as different relative positions on a material and temporal continuum. In this representation, at once pessimistic and optimistic, the Two Sicilies was a backward country, but one in which progress was possible (Schneider, 1998, t. 38).*

Mae Ffigur 29 yn dangos y CMC y Pen yn Rhanbarthau'r Eidal rhwng 1871 a 2009. Mae'r amcangyfrifon hyn yn rhai anodd a thrist i'w darllen. Oedd, mi roedd gwahaniaeth rhwng y *Mezzogiorno* a gweddill y wlad, ond ni fyddai'r gwahaniaeth hwn wedi amrywio llawer o gymharu â gwladwriaethau eraill yn Ewrop. Y gogledd-orllewin a Lazio oedd y rhannau mwyaf datblygedig yn economaidd ar benrhyn yr Eidal ar adeg yr uno, ond roedd eu man cychwyn ffafriol ymhell o fod yn anorchfygol. O'r amcangyfrifon hyn, roedd gan y *Mezzogiorno* 85% o CMC y pen y Canolbarth a'r Gogledd yn 1871 ond mae hyn wedi gostwng i lai na 60% heddiw. Ymhell o leddfau Cwestiwn y De, ai'r Risorgimento a'i creodd?

	1871	1891	1911	1931	1938	1951	1961	1971	1981	1991	2001	2009
Piedmont	2116	2516	3446	4354	5348	7061	10768	16054	21278	26473	31125	27953
Aosta Valley	-	-	-	-	-	7604	14472	17964	22771	28047	33593	33436
Liguria	2844	3349	4597	5763	6469	7778	10678	15417	19858	26867	29499	27490
Lombardy	2272	2681	3566	4319	5356	7369	11992	17752	23735	29111	35220	32355
Northwest	2276	2692	3646	4529	5510	7335	11470	16969	22188	28070	33484	30656
Trentino Alto Adige	n.a.	n.a.	n.a.	3211	3664	5092	9495	13440	20441	27769	35084	33230
Veneto	2071	1864	2579	2615	3236	4721	8565	13148	19640	26057	30665	29446
Friuli Venezia Giulia	n.a.	n.a.	n.a.	4424	4573	5362	7505	13307	19840	26867	30366	28880
Emilia Romagna	1944	2460	3225	3832	4011	5381	9234	15125	23462	27862	33240	31068
Northeast	2014	2127	2854	3292	3691	5082	8769	13931	21205	26982	32020	30347
Tuscany	2151	2376	2911	3720	3888	5058	8663	13958	20040	24506	29526	28494
Marche	1682	2043	2421	2496	3036	4125	7130	12060	19148	23673	26869	26177
Umbria	2034	2362	2759	3499	3687	4336	6950	12299	17783	21683	25920	23990
Lazio	2997	3644	4459	4901	4585	5145	9406	14170	18985	26751	30583	30399
Center	2200	2585	3141	3884	3976	4900	8623	13692	19385	25224	29417	28751
Abruzzo	1635	1573	2032	2223	2239	2796	5466	10986	15763	20526	22965	21158
Molise	-	-	-	-	-	-	4960	9248	13524	16893	22504	20592
Campania	2196	2253	2815	2854	3159	3331	5825	9447	12159	16291	17705	16679
Puglia	1828	2367	2543	2987	2766	3128	5572	9964	13160	17101	18193	17091
Basilicata	1371	1722	2194	2461	2185	2267	4797	9937	12450	13885	19738	19047
Calabria	1418	1552	2095	1967	1884	2257	4462	8850	11704	13815	17434	17297
South	1834	2011	2469	2615	2647	2960	5425	9659	12760	16453	18410	17503
Sicily	1928	2160	2543	2885	2766	2796	4788	9301	12341	16129	17894	17426
Sardinia	1598	2180	2744	2997	3183	3032	5882	11251	12942	17703	20660	20437
Islands	1862	2169	2579	2910	2863	2844	5041	9765	12960	16523	18572	18172
Center/North	2180	2502	3279	3937	4477	5920	9822	15138	21078	26913	31830	29987
South	1842	2064	2505	2713	2720	2921	5294	9685	12832	16476	18464	17709
Italy (Euro 2011)	2049	2327	2989	3506	3853	4813	8158	13268	18202	23141	27113	25740

SOURCE See the text. All estimates are at historical boundaries and based on present populations. Aosta Valley was included in Piedmont until 1938; Molise was included in Abruzzi until 1951.

Ffigur 29: CMC y pen yn Rhanbarthau'r Eidal, 1871-2009 (Ewro 2011). Ffynhonnell: (Felice a Vecchi, 2015, t. 548).


Edrychodd D'Attoma (2017) ar y gwahaniaethau mewn cydymffurfiad treth rhwng y gogledd a'r de fel procsi ar gyfer teyrngarwch ac ymddiriedaeth yng ngwladwriaeth newydd yr Eidal. Ei farn ef oedd bod cydymffurfiad treth yn uwch yn y gogledd nag yn y de (ac yn parhau i fod) oherwydd bod y gogledd yn gweld eu hunain yn nelwedd y genedl newydd tra bod y de yn tueddu i weld yr eglwys fel mur *yn erbyn* yr hyn a ystyrient yn wladwriaeth estron a llawdrwm. Mae D'Attoma (2017, t. 80) yn mynd ymlaen i awgrymu bod:

*the often-conflictual relationship between the Catholic Church and the state, as well as how that conflict unfolded in Northern and Southern Italy, defined two separate attitudes regarding political unification, and hence toward the state. While Southerners perceived the Catholic Church as a source of protection against foreign occupying forces from the North, Liberal Democrats who favoured the national state expropriated a disproportionate amount of taxes from the South to fund public investment in the North. This led Southern individuals to seek ways to avoid paying taxes that they saw as illegitimate. By contrast, Northern citizens were more likely to pay taxes, since the state would spend that money in ways that benefited them.*

Edrychodd Petruszewicz (2020) hefyd ar rôl yr Eglwys yn y De. Roeddent yn dadlau bod uno wedi arwain at gryfhau sefyllfa landlordiaid ceidwadol y de, gyda nifer o ffermwyr gwerinol yn ddyledus iddynt. Cyn uno, gweithredai'r Eglwys fel amddiffynnydd ac fel math o lesyddiaeth yn erbyn grym y landlordiaeth hon. Fodd bynnag, ar ôl yr uno, roedd buddiannau diwydiannol y gogledd a buddiannau landlordiaid y de yn ymglyfuno, a chrëwyd yr hyn a alwyd gan Gramsci yn "the historical bloc". Atgyfnerthodd un grŵp fuddiannau'r llall a manteisiodd diwydiant y gogledd a'r ffermydd a'r landlordiaid mawr. Mewn gwirionedd, ategwyd elfennau ceidwadol y gymdeithas ddeheuol a oedd yn gwneud datblygiad yn anodd gan fuddiannau'r gogledd. Roedd grym a gwendid y 'bloc hanesyddol' yn deillio o chwyldro goddefol yr Eidal; roedd goddefedd y Risorgimento yn golygu y gallai'r bloc hanesyddol ffurfio oherwydd diffyg unrhyw sefydliad poblogaidd, organig

arall, ond eto golygai hyn hefyd bod y 'bloc hanesyddol' yn agored i gael ei ddisodli gan unrhyw rym poblogaidd yng nghymdeithas yr Eidal.

Mae'r safbwyntiau hyn ymhell o fod yn gynllwyniol o ran y *Mezzogiorno*; mae tystiolaeth yn bodoli sy'n dangos gwaethygiad gwirioneddol o ran sefyllfa economaidd y de o gymharu â'r gogledd. Mae Ffigur 30 yn dangos CMC y pen yn y De fel Canran o CMC y pen y Gogledd rhwng 1860-2010.



*Ffigur 30: CMC y Pen yn y De fel Canran o CMC y pen y Gogledd rhwng 1860-2010. Ffynhonnell: (D'Attoma, 2017, t. 84).*

Yn astudiaeth achos Sbaen, dadleuodd y traethawd ymchwil hwn fod uno Castilla ac Aragón wedi golygu bod y rhwystrau masnach a oedd yn bodoli rhyngddynt wedi'u dileu, gan ehangu'r farchnad fasnachol, ac yn ddiweddarach, y farchnad gyfalafol. Yn yr Eidal, cynhaliwyd proses debyg. Dadleuodd Riall (2002) fod Teyrnas y Ddwyr Sbaen yn dilyn polisi economaidd ddiffyndollaeth a bod cynhyrchwyr, yn



gyffredinol, yn cael eu hamddiffyn rhag yr amrywiadau a'r anwadalrwydd o ran prisiau. Nid oedd y polisi hwn yn annhebyg i'r un a ddilynwyd gan Brydain, yr Iseldiroedd a Sbaen ganrif neu fwy ynghynt. Dadleuodd Petruszewicz (2020, t. 212) hefyd fod polisi diffyndollaeth y de yn fuddiol yn economaidd yn gyffredinol a bod yna sectorau economaidd deinamig yn bodoli, yn benodol, y rhai sy'n gysylltiedig â 'chnydau ariannol' (cash crops) fel olewydd, ffrwythau sitrws, cynhyrchion gardd farchnad arbenigol Môr y Canoldir, a diwydiannau prosesu. Mae'n bosibl, felly, mai'r integreiddio cynnar i farchnad fyd-eang a'r farchnad Eidalaid unedig a arweiniodd at waethygu sefyllfa gymharol y de. Yn wir, mae'n bosibl bod gogledd yr Eidal wedi defnyddio'r de ar gyfer ei ddatblygiad ei hun:

*the South paid a disproportionately high amount of taxes; it made up only 27% of GDP, but 32% of the tax base, while the North generated 48% of the national wealth and paid only 40% of the nation's taxes. Due to a much larger agricultural base in the South, higher taxes on grain disproportionately affected the South, while the North benefited the most from public spending. In addition, since bread was a staple of the Southern Italian diet, increased taxes on grain also hit Southern peasants the hardest. As Clark notes, the state imposed an unprecedented tax burden in the South at the time of unification, which funded the development of the North. The North's political dominance meant that it controlled decisions about taxation and public spending, which favoured citizens in the North and extracted important resources through taxation from the South, exacerbating the North-South economic divide. Between 1862 and 1897, 455 million lire were spent on landfills in Northern and Central Italy, while only 3 million were spent on such resources in the South. The majority of school and railway spending was also concentrated in the North. Development in the South certainly suffered after unification, and as a result, so did Southerners' relationship to the newly formed state (D'Atomma, 2017, t. 83-84).*

Mae'r tudalennau blaenorol wedi dadlau bod angen adolygiad hanesyddol i egluro'n well y berthynas rhwng y Mezzogiorno a gweddill yr Eidal a gwreiddiau

tanddatblygiad de'r Eidal. Mae'r hanes hwn yn bwysig gan fod y berthynas hon yn parhau i chwarae rhan flaenllaw yng ngwleidyddiaeth ac economeg yr Eidal heddiw. Mae hyn yn arbennig o wir wrth greu "Padania" yng ngogledd yr Eidal sydd yn ei hanfod wedi'i greu mewn ymateb i'r canfyddiad fod de'r Eidal yn wahanol i'r gogledd; gellir dod o hyd i'w wreiddiau yng nghyfnod y Risorgimento. Fel y dadleuodd Snowden (1972, t. 271), roedd gweledigaeth arbennig o'r de wedi'i lledaenu gan y wasg fourgeois, ac erbyn dechrau'r 20fed ganrif, roedd yn fater yr oedd grymoedd mwy blaengar cymdeithas yn ymwybodol ohono ac yn ceisio cywiro:

*The first problem to resolve, for the Turin communists, was how to modify the political stance and general ideology of the proletariat itself, as a national element which exists within the ensemble of State life and is unconsciously subjected to the influence of bourgeois education, the bourgeois press and bourgeois traditions. It is well known what kind of ideology has been disseminated in myriad ways among the masses in the North, by the propagandists of the bourgeoisie: the South is the ball and chain which prevents the social development of Italy from progressing more rapidly; the Southerners are biologically inferior beings, semi barbarians or total barbarians, by natural destiny; if the South is backward, the fault does not lie with the capitalist system or with any other historical cause, but with Nature, which has made the Southerners lazy, incapable, criminal and barbaric - only tempering this harsh fate with the purely individual explosion of a few great geniuses, like isolated palm-trees in an arid and barren desert.*

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad oedd holl gyfoeswyr y Risorgimento yn edrych ar y Mezzogiorno fel hyn. Roedd daearyddwr o'r Eidal o'r enw Elisée Reclus wedi nodi yn 1876 fod unrhyw 'farbariaeth' a fodolai yn y De oherwydd bod y bobl wedi'u harfogi nid gan ddialedd, ond gan dlodi. Tlodi a oedd yn rhannol o achos iddynt gael eu hatodi i Deyrnas yr Eidal (dyfynnwyd yn Ferretti, 2016, t. 4). Cafodd

y realiti hwn ei guddio gan lawer o 'Eidalwyr newydd' y Gogledd yn ystod, ac ar ôl y Risorgimento.

## Yr Eidal Ffasgaidd

Mae gwreiddiau'r Eidal Ffasgaidd i'w gweld yn y Risorgimento a'r bloc hanesyddol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Roedd diffyg sylfaen boblogaidd i wladwriaeth yr Eidal yn golygu ei bod yn agored i unrhyw rym poblogaidd o'r chwith neu'r dde. Er na ddylid gorbwysleisio poblogrwydd ffasgaeth – ac roedd mudiadau yn yr Eidal yn brwydro yn ei erbyn - daeth ffasgiaeth yn fodd o gyfyngu ar straen moderneiddio trwy gasglu sylfaen boblogaidd o amgylch amcanion ceidwadol. Ym marn Barrington Moore (1966, t. 477) roedd yn “attempt to make reaction popular and plebeian”. Fodd bynnag, roedd y gefnogaeth i Ffasgaeth yn dod yn bennaf o'r petit-bourgeoisie a'r dosbarthiadau canol yng nghanolfannau diwydiannol trefol y gogledd, tîrfeddianwyr y ffermydd masnacheiddiedig yn nyffryn Po, yn ogystal â chyn-filwyr yn dychwelyd o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Wrth ddadansoddi cnewyllyn elitaidd ffasgaeth, dadleuodd Morton (2007, t. 615):

*within the uneven development of the world market, the ideology of fascism was recognised as an attempt by the ruling classes in Italy – allied with a social base in the urban and rural petty bourgeoisie that was created as a result of transformations in rural property – to develop the productive forces 'in competition with the more advanced industrial formations. The political economy of fascism was therefore a response to the intervention of Anglo-American capital in Italy that signified the growing predominance of finance capital over the state. What is fascism, observed on an international scale?, asks Gramsci, It is the attempt to resolve the problems of production and exchange with machine-guns and pistol-shots.*

Gellir cysylltu twf ffasgaeth felly â'i safle yn y system-fyd; bwriad uno, oedd gwella safle cymharol yr Eidal yn y system-wladwriaeth fyd-eang ac Ewropeaidd. Ond yn hytrach, cafodd yr Eidal ei hun mewn sefyllfa lle yr oedd mewn cystadleuaeth â chyfalaf Eingl-Americanaidd, roedd ganddi allforion gwan dramor, ac nid oedd ganddi unrhyw ymerodraeth drefedigaethol gwerth sôn amdani. Roedd Ffasgaeth felly yn chwyldro adweithiol, goddefol a geisiodd wella safle'r Eidal gartref a thramor. Fel y dywedodd Gramsci:

*is not 'fascism' precisely a new 'liberalism'? Is not fascism precisely the form of 'passive revolution' proper to the twentieth century, as liberalism was to the nineteenth?* (Dyfynnwyd yn Morton, 2007, t. 615).

Arweiniodd methiannau'r Rhyfel Byd Cyntaf at gynnydd yn rhengoedd y ffasgwyr. Defnyddiwyd y Rhyfel fel ffordd syml gan lywodraeth yr Eidal i greu ymwybyddiaeth genedlaethol, gyda chongripsiwn milwrol a gwyro'r economi gyfan tuag at amcanion cenedlaethol. Fodd bynnag, yn hytrach na'i gwblhau mewn misoedd, llusgodd y rhyfel ymlaen am flynyddoedd, ac yn y pen draw, dadrithiad oedd canlyniad yr ymdrechion gwreiddiol i saernïo cenedl a gwladwriaeth, ac roedd y sefyllfa economaidd ddyrys yn amgylchedd perffaith i ffasgaeth wreiddio. Fel y dadleuodd Snowden (1972, t. 271):

*the Italian entry into World War I was in part an operation of domestic politics, an attempt to overcome the gap between the two Italies — the 'real' and the 'legal' — by means of a truly national effort, with the temptations of easy colonial conquest and the diversions of a politics of prestige. In the end, however, the strategy backfired: the war was not won, as expected, within a matter of months, but became a prolonged collective trauma. Indeed, in the effort to wage the war with an unwilling nation and an army of peasant soldiers, the government managed to survive only by mortgaging its future — by promising the masses that a victorious conclusion to the war would be tantamount to a social revolution. The promise made to the soldiers was*

*unmistakable. "Save Italy, and She's Yours!" was the message that was circulated in the trenches.*

Deilliodd y Rhyfel Byd Cyntaf o gystadleuaeth ryng-imperialaidd a arweiniodd at farwolaeth a dadleoliad miliynau o bobl, ac fe waethygodd y gwahaniaethau economaidd rhanbarthol yn yr Eidal hefyd. Roedd yr ymdrech rhyfel wedi

*inexorably steered public procurement toward enterprises in the so-called 'industrial triangle' (Lombardy, Piedmont, and Liguria). The north also benefitted from deflationary measures and an autarchic policy, which meant an intensification of industrial production in advanced sectors, most of which were located there (Felice a Vecchi, 2015, t. 531).*

Felly yn sail i ymdaith ffasgaeth - a ddechreuodd yn 1919 - roedd rhelyw'r rhyfel byd cyntaf, chwyldro goddefol y Risorgimento, a Chwestiwn y De. Yn yr un modd â Franco yn Sbaen, ni newidiodd ffasgaeth y gwahaniaeth economaidd oedd yn bodoli rhwng y gogledd a'r de. Yn wir, fe wnaeth polisi awtarchiaeth Mussolini wella sefyllfa'r gogledd a gwaethygu sefyllfa'r de ar yr un pryd. Roedd yr angen i fod yn hunangynhaliol yn ddiwydiannol yn golygu bod grantiau a chyfalaf y wladwriaeth yn cael eu hanfon i ddiwydiannau'r gogledd, gan wella ymhellach sefyllfa'r gogledd o gymharu â'r de. Roedd y Mezzogiorno ar y llaw arall yn dioddef o bolisi awtarchaidd Mussolini o ran hunangynhaliath bwyd gan ei fod yn golygu gostyngiad mewn cynydu proffidiol fel gwin, grawnwin, a ffrwythau sitrws a chynnydd mewn cynydu llai proffidiol fel gwenith (Felice a Vecchi, 2015, t. 531). Fel y dadleuodd Alacevich (2013, t. 97), roedd polisiau Mussolini yn llyffetheirio teuluoedd gwerinol a'u haelodau gwannaf (plant, yr henoed), i'w hebsbloetio mewn amaethyddiaeth enbyd, reibus - sef yr unig ffordd i gasglu adnoddau oedd yn hanfodol ar gyfer goroesi.

Ymhellach, roedd gan y Mezzogiorno ffordd arall o ryddhau'r pwysau pan fyddai gwaith yn mynd yn brin, sef mudo. Roedd llawer o ddeheuwytrwy gydol y 19eg

Ganrif wedi ymfudo i lefydd megis UDA, yr Ariannin, a gogledd yr Eidal.<sup>47</sup> Mewn gwirionedd, yn y cyfnod rhwng 1861-1985, adawodd oddeutu 1 Eidalwr ym mhob 4 (Del Boca, Venturini, 2003, t. 305). Ym 1913, er enghraifft, roedd 76.9% o'r mudo traws gefnforol o'r Eidal o'r De, er mai dim ond 17% o'r boblogaeth oedd yn y De (Ibid., t. 307). Gosododd Mussolini gyfyngiadau ar allfudo a roddodd bwysau ychwanegol ar ranbarthau tlotaf yr Eidal. Yn amlwg, ni allai mudo fyth 'ddatrys' yr anghysondeb oedd yn bodoli rhwng y gogledd a'r de er y gallai bob amser helpu i liniaru rhai o'r agweddau gwaethaf ar dlodi drwy daliadau, 'lliniaru' demograffig, yn ogystal â chydraddoli cyflogau o fath.

## Yr Eidal Ffasgaid a Chwestiwn Newidiol y De

Wrth egluro'r ddeuoliaeth a fodolai yn y cysyniad o *fod yn Eidalaid* fel rhywbeth 'blaengar' a 'chyntefig', 'mewnol' ond 'arall', yn enwedig mewn perthynas â'r De, dadleuodd Jane Schneider (2020, t. 285):

*The representation of Italy as a nation divided or even manqué, a fragile and artificial union of two divided and estranged Italies, raises questions about alterity understood in both collective and individual terms. Generally, we suppose that the consciousness of a group can be integrated through a rhetoric of alterity; insiders reinforce their own identity by constructing an external, deterritorialized "other." In the Italian historical context, however, the rhetorical construction of a South opposed, and even inimical, to the North escapes this pattern to produce a more richly complex figuration. On the one hand, southerners continue to invoke the figure of a land invaded, of centuries of foreign oppression, of the abandonment of an artistic heritage - a position which*

---

<sup>47</sup> Mewn gwirionedd, dyma reswm mawr pam mai Juventus yw'r tîm pêl-droed â'r gefnogaeth fwyaf yn yr Eidal. Symudodd llawer o fudwyr deheuol i weithio yn sector diwydiannol Turin. Felly daeth Juventus yn dîm nid yn unig i'r rhai o Turin, ond i lawer o fudwyr a'u teuluoedd hefyd.

*places the South in the realm of alterity to Italian nationhood. On the other hand, a reciprocal figure emerges in which this alterity must be internalized in order to imagine a territorially integral Italy.*

Dadleuodd Pandolfi (2020, t. 285) fod y rhaniad hwn

*of a double Italian identity was overcome only for the briefest moment when the Fascist regime proclaimed its agenda of transforming Italy into a late colonial empire.*

Fel y crybwyllwyd yn gynharach, gwthiodd Mussolini i adfer goruchafiaeth yr Eidal dros *Mare Nostrum*, gan arwain at obsesiwn yr Eidal gyda cheisio goresgyn Libya, Somalia ac Ethiopia heddiw. Symudodd “Arall” yr Eidal o fod yn un mewnol â’r De, bellach roedd Arall allanol tebyg i wledydd Ewropeaidd eraill. Yn hyn o beth, nid oedd yr Eidal yn unigryw o ran dieithrio pobl, er mai allanol yw’r Arall ar y cyfan. Wrth gwrs, roedd ac mae Eraill mewnol megis achos y Gwledydd Celtaidd ym Mhrydain (Colley, 1992) (Harvey et al. 2001) neu hyd yn oed rhanbarthau di-Gastilaidd Sbaen. Fodd bynnag, mae’n ymddangos y gellir graddio’r Arall, (“Otherness”); roedd y Cymry yn llai “Arall” nag Indiaid, ac Astwriaid yn llai “Arall” na phobloedd frodorol ‘America Sbaenaidd’. Yn yr achosion hyn, roedd y ffin rhwng bod yn wahanol a bod yn debyg yn niwlog; efallai mai’r enghraifft orau o hyn yw achos Iwerddon. Roedd y Gwyddelod yn ‘wyn’, eto yn ‘Arall’, yr un fath, ond eto’n wahanol. Daeth hyn yn amlwg ar ôl mudo mawr o Iwerddon i’r Unol Daleithiau; roeddent yn “whitewashed negroes (sic)” (Eagan, 2000) cyn ‘troi’n wyn’ (Ignatiev, 2012), roedd hyn yn rhywbeth na allai’r ‘Arall’ o hil wahanol fyth ei wneud. Cyn cynnydd ffasgaeth, nid oedd gan yr Eidal ‘Arall’ allanol i’w wahaniaethu’n hiliol. Yn ystod y cyfnod ffasgaidd:

*intellectuals and political leaders came to construct a representation of a unitary national identity. Only then did the many complex elements that composed the Italian nation come together to affirm that identity, overriding and obliterating the rhetorical strategy of an Italy divided between North and South. In the international upheavals*

*of the 1920s, when the nation-state of Italy was in fact quite fragile, the Fascists generated the collective dream, indeed delirium, of achieving superpower status, giving birth to a national identity that had been up to then paradoxical. North and South as enemies did not figure in the everyday discourse of fascist intellectuals. An image of Italy as a utopian project, a hazy veil that hid complex differences, grew to cover the entire national territory. The Southern Question gave way to the rhetorical figure of Italy defined as the direct descendant and inheritor of Imperial Rome (Pandolfi, 2020, t. 285).*

Roedd yr Eidal Ffasgaidd felly yn hiraethu am orffennol imperialaidd ac yn rhagweld dyfodol imperialaidd, ac roedd gwreiddiau'r ymdeimlad hwn yng nghyfnod y Risorgimento.

*Leaders such as Francesco Crispi (1818–1901), Italian Prime Minister on various occasions between 1876 and 1896, respond[ed] to exigencies of internal politics by conjuring up ‘the mirage of colonial lands to be exploited’ in an attempt to displace exploitation from the Mezzogiorno onto colonial expansion (Morton, 2007, t. 616).*

Yn y diwedd, chwalwyd y syniad simsan hwn, ac ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd, chwalwyd ffasgaeth, er nid ydym wedi gweld ei dranc hyd yn oed heddiw. Mae gweddillion ffasgaeth sy'n bodoli yn y wlad o hyd yn ogystal â phrofiadau gwahanol y gogledd a'r de ym mlynnyddoedd olaf y rhyfel wedi drysu'r syniad o Eidal unedig ymhellach. Dechreuwyd rhyddhau'r De ar ddiwedd 1943 gyda glaniad yr Americanaid yn Sisili a rhyddhau Napoli. Parhaodd y Gogledd ar y llaw arall o dan reolaeth Mussolini nes ei ddienyddio gan y Partisaniaid ym mis Ebrill 1945.

*These eighteen months signalled the loss of a coherent representation of national homogeneity and of the possibility of an undivided national confederation; a loss that could not be recovered. There followed the emergence of the polarized discourses of Italian Marxist culture, with its rhetoric of resistance, and of Italian anti-communism, which characterizes the resistance against the Fascists as the work of*



*traitors, only interested in settling personal scores, perpetrating massacres under the cover of an ideology of freedom, and betraying their own kin who were under arms* (Pandolfi, 2020, t. 289).

## Yr Eidal ar ôl y Rhyfel: Dechrau Newydd?

Er mwyn deall economi wleidyddol yr Eidal ar ôl y rhyfel rhaid edrych arni o fewn ei chyd-destun rhyngwladol. Ar draws gorllewin Ewrop, roedd comiwnyddiaeth yn fygythiad i bob dosbarth llywodraethol. Roedd yr ofn hwn yn arbennig o gryf ymhlith dosbarthiadau llywodraethol yr Eidal, ac am reswm da. Rhwng 1948 a 1987, gorffennodd Plaid Gomiwnyddol yr Eidal yn ail ym mhob Etholiad Cyffredinol yn yr Eidal. Fodd bynnag:

*after the initial phase, which entailed collaboration between parties on the anti-Fascist front and a mutual approach between the masses of southern peasants and the State, there followed the expulsion of socialists and communists from the government in May 1947* (Alacevich, 2013, t. 96).

Arweiniodd hyn at sefyllfa lle'r oedd y Comiwnyddion yn cael eu cefnogi gan tua thraean o boblogaeth yr Eidal tra ar yr un pryd ni fuont yn rhan o'r llywodraeth am y cyfnod cyfan. Cyfunodd nifer o fuddiannau o amgylch diwydianwyr y gogledd a datblygwyd system o nawdd personol i'r blaid Ddemocrataidd Gristnogol yn y De. Roedd hyn yn golygu y gellid magu'r cysyniad bod Comiwnyddion yn 'fradwyr' yn ystod ac ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Felly cafodd gwleidyddiaeth yr Eidal yn y cyfnod ar ôl y rhyfel ei lywio'n uniongyrchol gan y system-fyd a'i safle ynddi; ar un llaw, roedd Plaid Gomiwnyddol yr Eidal (CPI) a'r syniad eu bod yn bleidiol i'r Bloc Dwyreiniol - er bod y CPI yn gymharol annibynnol o Foscow ac yn arddel math o

Ewro-gomiwnyddiaeth<sup>48</sup> (Urban, 2019) - ac ar y llaw arall, roedd y Blaid 'Sosialaidd', a'r Democratiaid Cristnogol a dueddai i alw am undod dosbarth, yn hytrach na brwydr dosbarth yn ôl y traddodiad rhyddfrydol ar ôl y rhyfel.

Y ddwy broses gydbertlynol arall a dylanwadodd ar wleidyddiaeth yr Eidal yn drwm ar ôl y rhyfel oedd Cymorth Cynllun Marshall a dechrau integreiddiad gwleidyddol Ewropeaidd. Mewn cyd-destun Eidalaid, derbyniodd y wlad tua 11% o gyfanswm Cymorth Cynllun Marshall (Fauri, 2010, t. 80). Rhoddodd y cymorth hwn ysgogiad newydd i wleidyddion Eidalaid i 'ddatrys' 'Cwestiwn y De' unwaith ac am byth. Ym 1950 crëwyd y *Cassa per il Mezzogiorno* (Cronfa ar gyfer y De); corff llywodraethol a grëwyd yn benodol i ysgogi twf a datblygiad yn y De. Wrth adael canlyniadau i'r naill ochr am y tro, roedd hwn yn bolisi goleuedig a oedd yn deall pwysigrwydd lle mewn datblygiad economaidd. Crëwyd y gronfa yn y lle cyntaf i weinyddu Cymorth Cynllun Marshall ac roedd yn deillio o'r ymagwedd newydd tuag at dlodi a datblygiad. Daeth ardaloedd o'r De, megis Matera, i'w hadnabod fel "Gwarth yr Eidal", fodd bynnag, yr hyn a ystyriwyd bellach yn gywilyddus oedd y ffaith i lywodraethau ganiatáu i bobl fyw mewn tlodi am gyhyd, yn hytrach na'r rhai a oedd yn byw mewn tlodi. Cynorthwywyd y newid hwn gan awduron megis y comiwnydd Carlo Levi (2006) sy'n sôn yn ei lyfr *Cristo si è fermato a Eboli* am yr amser a dreuliodd yn y De yn ystod y cyfnod ffasgaidd. Meddai:

*They live submerged in a world that rolls on independent of their will, where man is in no way separate from his sun, his beast, his malaria, where there can be neither happiness, as literary devotees of the land conceive it, nor hope, because these two are adjuncts of personality and here there is only the grim passivity of a sorrowful Nature. But they have a lively human feeling for the common fate of mankind and its common acceptance. This is strictly a feeling rather than an act of will; they do not*

---

<sup>48</sup> Mae tu hwnt i gwmpas y traethawd hir hwn i nodi'r gwahaniaethau rhwng Comiwnyddiaeth y Bloc Dwyreiniol ac Ewro-gomiwnyddiaeth, ond gweler (Amin, 1980) am drafodaeth o'r gwahaniaethau hyn.

*express it in words, but they carry it with them at every moment and in every motion of their lives, through all the unbroken days that pass over these wastes.*

Mae'r darn hwn yn sôn am y rhesymau strwythurol y tu ôl i dlodi, bod pethau'n digwydd yn "annibynnol o ewyllys" y tlawd ac nad yw'n bosibl byw yn gyfan gwbl ac yn rhydd tra bod dioddefaint o'r fath yn bodoli. Y *Cassa* felly fyddai'r polisi cenedlaethol a fyddai'n dod â'r tlodi hwn i ben ac yn rhoi diwedd ar gywilydd yr Eidal.

## Y Cassa Per il Mezzogiorno

Roedd y *Cassa* - a fodolai rhwng 1950 a 1984 - yn ymwybodol iawn o'r anhawster a wynebai wrth geisio goresgyn tanddatblygiad y De. Ym 1953, cyhoeddwyd adroddiad a oedd yn datgan, bod 85% o deuluoedd tlotaf yr Eidal yn byw i'r de o Rufain (Forlenza, 2010, t. 335). Roedd D'Attoma'n cytuno gan nodi (2017, t. 90) fod:

*Southern Italy in the 1950s [was] similar to many underdeveloped countries. The disparities between the North and the South were so considerable and evident that the state instituted the Fund for the South—a rural spending agency providing roads, housing, and water to rural areas.*

Ni ddylid diystyru llwyddiannau'r gronfa, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Ailwampwyd sector amaethyddol hynafol y Mezzogiorno a oedd yn cynnwys mecaneiddio, ymestyn ardaloedd dyfrhau a chyflwyno gwrrtaith a gynhaliodd dwf absoliwt mewn cynhyrchiant a chynhyrchaeth am o leiaf bum mlynedd ar hugain (Alacevich, 2013, t. 101). Roedd hyn yn golygu bod cyfradd twf y Mezzogiorno rhwng 1952 a 1961 yn 5.2% y flwyddyn. Fel y gwelwyd, roedd strategaeth wreiddiol y Gronfa yn ymwneud â chynhyrchu amaethyddol sylfaenol, ond erbyn 1957 roedd wedi'i drawsnewid i ffafrio'r diwydiannau dur, cemegol a phetrocemegol sy'n

gymharol ddwys o ran cyfalaf (D'Attoma, 2017, t. 90). Roedd yn ymddangos bod y strategaeth hon hefyd yn gweithio. Fel y nododd Davis (2020, t. 206), Mae amcangyfrifon Banc yr Eidal yn awgrymu, er enghraifft, bod cynhyrchiant y pen wedi cynyddu deirgwaith rhwng 1947 a 1983 yn y De. Pam, felly, bod economi ddeuol yr Eidal yn parhau?

Yn gyntaf, er bod Cymorth Cynllun Marshall yn bwysig i greu ac ariannu'r *Cassa*, ni aeth y rhan fwyaf o'r Cymorth i'r De.


*Because the Plan's objective was to support the reconstruction of production systems in Italy and Europe, there was a distinct imbalance among imports that favoured northern industries. In fact, the largest imports were, in order of importance, fuel, cotton, cereals and machinery (Fauri, 2010, t. 168).*

Ymhellach, er bod cyfradd twf y Mezzogiorno yn 5.2% rhwng 1952 a 1961, roedd yn 5.9% yng nghanolbarth a gogledd yr Eidal, gan olygu bod y gwahaniaethau rhyngddynt yn cynyddu (Alacevich, 2013, t. 101). Fel y dadleuodd Davis (2020, t. 206), Mae De'r Eidal yn dal i fod ar waelod y gynghrair Ewropeaidd o ran incwm a chynhyrchiant y pen, sy'n awgrymu y gallai'r bwch rhwng y Gogledd a'r De fod wedi lledu mewn termau real. Mae'r ffaith hon yn arwain at gwestiynau anodd i ddamcaniaethwyr moderneiddio: roedd twf rhwng y 1950au a'r 1980au yn real, ac amlwg, ac wedi gwella bywydau materol miliynau o bobl. Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaethau hyn wedi lleddfu safle *cymharol* y De o'i gymharu â'r Gogledd. Yn wir, yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd atchweliad cymharol yn sefyllfa'r De o gymharu â'r Gogledd. Mae'n ymddangos nad oedd unrhyw dwf a fodolai (ac yr oedd yn amlwg yn bodoli) wedi'i wreiddio yn strwythurau'r De; roedd y cysylltiadau mewnol yn parhau'n wan ac yn dameidiog o gymharu â gogledd yr Eidal a llawer o Ewrop.

*Whatever the nature of postwar economic and social change, change there has been – and on a scale without precedent. Yet these changes have not been accompanied – and*

*this is where modernization theory is most obviously wrongfooted- by a decline in those structural problems traditionally associated with the Mezzogiorno – poverty, unemployment, institutional and structural inertia. Indeed, until very recently, there has been notable deterioration on all these fronts, and a massive qualitative decline in the structures of civil society and the quality of life (Davis, 2020, t. 209).*

Dengys Ffigur 31, er gwaethaf y twf a'r cynnydd mewn cynhyrchiant a brofodd y De yn y cyfnod ar ôl y rhyfel, ni arweiniodd hyn at unrhyw newid parhaol yn safle'r De o'i gymharu â'r Gogledd.



*Ffigur 31: CMC y pen De'r Eidal, 1928–1993 (Gogledd-Canol yr Eidal = 100). Ffynhonnell: (Boltho et al., 1997, t. 244).*

Un eglurhad posibl yw bod y datblygiadau hyn wedi dod 'o'r tu allan' i'r Mezzogiorno yn hytrach nag o darddiad mewnol. Mae hyn mewn sawl ffordd yn adleisio realiti integreiddio'r De i wladwriaeth yr Eidal. Diflannodd diffyndollaeth y diwydiannau a fodolai yn Nheyrnas y Ddau Sisili dros nos gyda'r Risorgimento. Yn yr un modd, er y byddai gweithwyr yn y Mezzogiorno wedi elwa o gronfeydd y llywodraeth, creu diwydiannau newydd, a moderneiddio amaethyddiaeth, mae hefyd yn asesiad teg y byddai cyfalafwyr y gogledd wedi elwa mwy. Yn gyntaf, dangosodd Graziani (1978, t. 362) fod:

*the large plants established in the Mezzogiorno were branches of industrial groups based in the north, which tended to favour traditional suppliers located there at the expense of potential sources of supply which could have been developed in the newly industrialising regions.*

Golygai hyn bod rhai o'r prosesau yr oedd damcaniaethwyr dibyniaeth yn eu gweld mewn gwladwriaethau dibynnol hefyd yn digwydd yn y Mezzogiorno. Yn gyntaf, fel y dadleuodd Frank (1974), roedd buddsoddiad o'r gogledd yn tynnu elw dros ben o'r Mezzogiorno a'i symud yn ôl i'r gogledd. Gwelwn syniad Samir Amin (1974) o "datgyfalafu" (decapitalisation) yn digwydd. At hynny, dadleuodd Monte a Luzenberger (1989, t. 223) fod cwmnïau'r gogledd yn elwa'n fawr o lwfansau treth. Roedd hyd at 70% o elw yn y Mezzogiorno yn ddi-dreth a oedd yn golygu mai cwmnïau o'r gogledd, yn hytrach na llywodraethau canolog a lleol oedd yn elwa. Roedd hyn yn golygu bod llai o arian i'w ailgyflwyno i'r system. Galwyd ffatrïoedd y de yn "Cathedrals without pillars" (Andreoni, 2013, t. 303) oherwydd y diffyg cysylltiadau a fodolai rhyngddynt. Fodd bynnag, gyda'r ffordd y cafodd y *Cassa* ei greu a'i redeg, does dim disgwyl llai. Esboniodd Martinelli (1985, t. 75) hyn yn glir pan ddatganodd fod y Mezzogiorno yn dioddef o:

*lack of control over investment and decision making, in particular over profits, ... [had] little opportunity to innovate both products and processes, because they mainly produce at the most mature phases of the product life cycle ... [and] the*

*underutilization of regional human capital, because of the low profile of the occupational structure which derives from such small multiplier effects. There thus develops a vicious cumulative process: branch plants do not plug into the regional economy and therefore do not raise the level of local knowledge and interindustry linkages.*

Mae diffyg cwmnïau cynhenid yn y Mezzogiorno yn parhau hyd heddiw. Mae 27 o gwmnïau Eidalaid ar restr Forbes 2000, ac mae pob un ond un o'r cwmnïau hyn wedi'u lleoli yn y gogledd. Yr unig gwmni nad sydd o'r gogledd yw'r lleiaf ohonynt, sef rhif 1985 ar y rhestr; cwmni olew a nwy yn Sisili (Forbes, 2023).

Dadleuodd Guarascio a Simonazzi (2016, t. 317) er bod rhwydwaith diwydiannol o gwmnïau gweithgynhyrchu yn bodoli yn y Mezzogiorno, nodweddir ei systemau cynhyrchu lleol gan bresenoldeb gwasgaredig o gwmnïau sy'n cynhyrchu mewnbynnau canolradd a nwyddau buddsoddi. Mewn gwirionedd, trwy ddadansoddi pa mor gyflawn yw'r cadwyni gwerth (value chains), dangosodd Bronzini et al. (2013) mai anaml y mae'r cysylltiadau yn y De – a fesurir yn nhermau gweithwyr ychwanegol a roddir ar waith - yn fwy na hanner y nifer a welir yng ngogledd yr Eidal. Mewn gwirionedd, mae dwysedd isel ei gadwyni gwerth yn gwneud diwydiant y De yn ddibynnol ar fewnbynnau allanol: mae'r llyfeiriant o fewnforion o'r Ganolfan-Gogledd yn gwanhau'r gydberthynas rhwng ehangu cynhyrchu diwydiannol a thwf y gadwyn. Yn olaf, mae cyfran uwch o lawer o gwmnïau yng nghadwyni gwerth y De mewn sefyllfa gytundebol wannach o gymharu â'u cymheiriaid yn y Gogledd (Guarascio a Simonazzi, 2016, t. 317). Roedd Andreoni (2013, t. 317) yn nodweddu datblygiad de'r Eidal fel “dependent industrialisation” a dadleuodd:

*although industrial policies did focus on strategic manufacturing industries such as car-making, aeronautics, electronics and machinery during this period, the latter were mainly controlled by companies from the North. Meanwhile SMEs in the South were increasingly contracting both because of a lack of organic linkages and increasing*

*competition from abroad. Although macro indicators in the South remained positive until 1976 (when industrial policies were abandoned) a second opportunity to overcome the structural and institutional dualisms of the country was missed. To conclude, the kind of industrial policies implemented since 1950 triggered a process of dependent industrialisation which left Southern regions with the unexploited potentials of a number of cathedrals without pillars.*

Ymhellach, yn achos y Mezzogiorno gwelwn y tueddiadau a ddamcaniaethwyd yn eu gylch gan Galtung (1971a) a Samuelson (1990) o ran arbenigo mewn allforio deunyddiau sylfaenol gyda gwerth ychwanegol isel. Er enghraifft, mae Guerrieri ac Iammarino (2007, t. 935) yn nodi'r arbenigeddau mewn sectorau sy'n defnyddio llawer o adnoddau ac sy'n tyfu'n araf (fel cynhyrchion amaethyddol a bwyd, pren, petrocemegion ac ati). Roedd hyn yn golygu bod y Mezzogiorno yn 1991 yn cyfrif am 36.1% o boblogaeth yr Eidal, 25.2% o CMC, a dim ond 18.2% o ddiwydiant gwerth ychwanegol (Leonardi, 1995, t. 166). Mae hyn mewn cyferbyniad llwyr â'r canolbarth-gogledd lle'r sectorau mwyaf perthnasol mewn allforion yw peiriannau mecanyddol ac offer cludo, ond hefyd metelau a chynhyrchion metel, cynhyrchion cemegol, a thecstilau a dillad. Mae allforion cynhyrchion y datgelodd cofnodion yr Eidal ynddynt fanteision cymharol ryngwladol yn tueddu i ganolbwyntio mewn rhanbarthau Canolog-Gogleddol (Buch a Monti, 2010, t. 669). Er bod yr Eidal, o'i hystyried yn ei chyfanrwydd, yn cael ei hystyried yn wlad 'ddatblygedig', mae'r Mezzogiorno yn amlwg yn cynnwys llawer o nodweddion gwledydd dibynnol. Ymhellach, o'r dystiolaeth sydd ar gael, ymddengys yn deg i ddatgan bod y De wedi'i danddatblygu'n fwriadol gan y gogledd, yn enwedig yn y blynyddoedd yn syth ar ôl uno. Roedd y *Cassa per il Mezzogiorno* yn amlwg yn ymgais i unioni'r camweddau hyn, ond ni allai wneud hynny oherwydd y pecyn cymorth economaidd a ddefnyddiwyd.

Teg yw disgrifio'r prosesau a ddigwyddodd yn y Mezzogiorno yn y cyfnod hwn fel twf heb ddatblygiad. Fel y dadleuodd Flammang (1979, t. 50), mae 'twf' yn cyfeirio




at ehangu maint rhywbeth, a 'datblygiad' yn cyfeirio at newid nodweddion rhywbeth. 'Tyfodd' economi'r de yn y cyfnod hwn, ond ni 'ddatblygodd'. Daeth y gronfa i ben yn 1984, *yn rhannol* oherwydd methiant i ysgogi datblygiad yn y de, ond *hefyd* oherwydd cyfreithiau cystadleuaeth yr UE oedd yn golygu ei bod yn anoddach i lywodraethau ymyrryd mewn materion economaidd a oedd yn 'gwyro' cystadleuaeth yn y farchnad.

## Yr Eidal ers y 1990au: Cenedlaetholdeb y Gogledd (a'r Cyfoethog)

Mae'r traethawd ymchwil hwn wedi tueddu i ganolbwyntio ar Dde'r Eidal - neu'r Mezzogiorno - a hynny am reswm da. Ar wahân i Sardinia, roedd y Mezzogiorno cyfan yn rhan o'r un endid gwleidyddol am ganrifoedd cyn uno'r Eidal. Dyma'r lle sydd fwyaf tebyg i'r diffiniad o 'genedl' a nodwyd yn gynharach. Gellid disgwyl felly pe bai mudiad dros ymreolaeth neu annibyniaeth yn yr Eidal, gellid disgwyl ei weld yn y De.<sup>49</sup> Wedi'r cyfan, dyma'r ardal sydd wedi gwneud *gwaethaf* ar ôl uno, roedd ganddi ei phrifddinas ei hun sef Napoli ac yn cael ei hystyried fel yr "Arall" yn barhaus gan Eidalwyr y gogledd. Fodd bynnag, yng ngogledd y wlad y mae mudiad 'annibyniaeth' bywiog yn bodoli a hyn wedi codi'n gyflym. Fel y tystia Ffigur 32, datblygodd yr ymreolwyr o fod yn bleidiau ymylol i fod yn rym gwleidyddol mawr yn y 1990au. Ar ben hynny, ymunodd y Lega Nord â'r llywodraeth genedlaethol fel partner lleiafrifol pan oedd Silvio Berlusconi yn Brif Weinidog. Cynorthwywyd hyn wrth gwrs gan y sgandal dwylo glân a ysgubodd trwy'r Eidal ganol y 90au, ond beth arall oedd cyfrif am y newid hwn a beth yw'r berthynas rhwng economi gwleidyddol â thwf cenedlaetholdeb yn y gogledd?

---

<sup>49</sup> Bu ymgyrch byrhoedlog dros annibyniaeth i Sisili ar ddiwedd y 1940au a dechrau'r 1950au. Fodd bynnag, ni ellid ystyried y mudiad hwn yn boblogaidd nac yn un â nodau gwleidyddol cydlynol. Er enghraifft, galwodd y blaid wleidyddol a wthiodd am ymwahaniad o'r Eidal, am i Sisili fod yn rhan o Unol Daleithiau America.



Ffigur 32: Canlyniadau Etholiadol Pleidiau o Blaid Ymreolaeth. Ffynhonnell: (Eva, 1997, t. 66).

## Padania: Dyfeisio Cenedl

Yr enw a roddir ar y 'genedl' newydd yng ngogledd yr Eidal yw Padania. Mae'r enw Padania yn tarddu o'r Afon Po sy'n rhedeg trwy ogledd-orllewin y wlad. Mae annibyniaeth i'r 'genedl' hon yn cael ei yrru gan y Lega Nord (Cynghrair y Gogledd) - neu i roi ei henw llawn *Lega Nord per l'Indipendenza della Padania* (Cynghrair y Gogledd dros Annibyniaeth Padania) - a grëwyd yn 1991 o gyfuniad o wahanol 'Gynghreiriau' neu bartïon yn y gogledd megis y *Liga Veneta*, *Lega Emiliano-Romagnola*, *Lega Lombarda*, a'r *Alleanza Toscana*. Er bod y Lega Nord wedi dyfeisio hunaniaeth newydd ar gyfer y Gogledd, mae ei hunaniaeth yn seiliedig ar y canfyddiad hir sefydlog, sefydledig o wahaniaeth diwylliannol sy'n bodoli rhwng y gogledd a'r de. Fel y mae Agnew a Brusa (1999, t. 126) yn nodi'r hyn sy'n hynod yn achos Gogledd yr Eidal heddiw yw ein bod yn gallu gweld o flaen ein llygaid yr ymgais i ddyfeisio hunaniaeth nad oes ganddi fodolaeth o'r blaen. Mae'r Lega yn ymgorffori rhwyg oddi wrth wleidyddiaeth gynharach yr Eidal, ac mae hyn yn deillio o'u dyheadau gwleidyddol gwahanol. Nod llywodraeth yr Eidal o'r Risorgimento hyd at y cyfnod ar ôl y rhyfel - o leiaf yn allanol - oedd *goresgyn* yr anawsterau ar y llwybr i ddatblygiad ar draws yr Eidal gyfan, yn enwedig y De, gan godi safonau byw'r *holl* Eidalwyr i'r un safon â gorllewin Ewrop. Mae'r Lega ar y llaw arall yn dadlau bod y gwahaniaeth rhwng y gogledd a'r de, yn ddiwylliannol ac economaidd, yn rhy fawr sy'n golygu bod y gogledd yn gyfystyr â phobl ar wahân. Yn wir, mae'r defnydd ffug-wyddonol o achyddiaeth a daearyddiaeth wedi bod yn bwysig wrth greu hunaniaeth 'Padanaidd' (Albertazzi, 2006).


Yn wir, dadleuodd Hague, et al. (2005) fod cenedlaetholdeb Padanaidd wedi ceisio gwreiddio ei hun mewn *Celtigrwydd*, hynny yw, bod Eidalwyr y gogledd yn perthyn i ogledd Ewrop, ac yn rhan o'r teulu pan-Geltaidd Ewropeaidd ehangach, ac felly ymhlyg yn hyn, yn wyn, ac yn wahanol i Eidalwyr y de. Er enghraifft, ar wefan Lega, nodir y canlynol:

*All the peoples of Padania descend from the same original ancestors, which can be categorized into three principal groups: the first and the oldest are the Ligurians; the second group are the Celts and the Venetians, which come from diverse areas but have similar cultures and traditions; and the third group are the Goths, the Longobards and all the other Germanic peoples that inhabited the North of Italy. In contrast, the ancestors of the Italians are the Etruscans and the Greeks, which were the dominant cultures of the Italian peninsula (dyfynnwyd yn Hague, et al., 2005, t. 164).*


Mae'r llinach dybiedig wahanol hon rhwng y gogledd a'r de wedi arwain at wahanol ddiwylliannau a meddylfryd rhwng y ddwy Eidal. Mae'r Lega Nord yn dadlau bod gan ogleddwyr etheg gwaith cryfach, a'u bod yn fwy entrepreneuriaid ac ufudd i'r gyfraith. Mae hyn mewn cyferbyniad â nodweddion tybiedig y de: diogi, byw ar y wladwriaeth, a thuedd i droseddi (ddim yn rhy annhebyg i safbwyntiau ffugwyddonol amlwg Cesare Lombroso ganrif a hanner yn ôl). Yn ei hanfod, mae Eidalwyr y gogledd yn ddiwylliannol o ogledd Ewrop, ac mae'r de yn ddiwylliannol o Fôr y Canoldir; y berthynas rhwng diwylliant a'r economi ym marn y Lega, felly, yw bod diwylliannau gwahanol wedi arwain at ganlyniadau economaidd gwahanol. Y *prif* reswm yn eu tyb nhw pam bod y gogledd yn gyfoethocach yw oherwydd diwylliant a llinach wahanol, ac felly mae'n dilyn yn rhesymegol na ellir goresgyn hyn gan ei fod yn gynhenid i'r de a Môr y Canoldir.

Wrth ddadansoddi Padania, mae angen cadw mewn cof y niwl (fuzziness) diwylliannol a daearyddol sy'n gynhenid yn y diffiniad. Fel y tystia ffigur 33 isod, mae diffinio paramedrau Padania yn ddaearyddol wedi bod yn hynod anodd i arweinwyr Lega. Ar y dde, mae ardaloedd o Umbria, Marche, Toscana, ac Emilia-Romagna wedi'u cynnwys yn y genedl newydd; yn amlwg, nid yw'r Afon Po yn llifo drwy'r ardaloedd hyn. Ymhellach, byddai rhai o'r rhanbarthau hyn yn rhan o ardal Lazio yn eu cynnig am Eidal ffederal; dyma'r rhanbarth sy'n crynhoi cwynion y Lega trwy eu syniad o 'ladron Rhufain'. Yn ogystal, mae Padania yn cynnwys rhanbarthau o'r Eidal lle siaredir Almaeneg, sydd eu hunain eisiau mwy o

ymreolaeth fel Sud Tiroi. Mae'n ymddangos bod diffiniad y Lega o gynhwysiant o fewn Padania yn dibynnu mwy ar gyfoeth economaidd, nag y mae ar unrhyw farciwr diwylliannol neu ddaearyddol, fel y dangosir yn Ffigur 34.



*Ffigur 33: Dau o gynlluniau tiriogaethol Cyngrhair y Gogledd: (a) rhanbarthau ar gyfer Eidal ffederal a gynigiwyd rhwng 1994 a 1996 a (b) Padania, sef eu 'uned o ddewis' ers 1996. Ffynhonnell: (Agnew a Brusa, 1999, t. 121).*



Ffigur 34: CMC y pen rhanbarthol 1951 a 2010 (yr Eidal = 100). Ffynhonnell: (Daniele a Malamina, 2014, t. 169).

## Diwedd y Gân yw'r Geiniog


Mae dyfeisio hunaniaeth yn agwedd bwysig o ran cyfiawnhau cwynion; yn hyn o beth mae dyfeisio Padania yn gymharol debyg i ddyfeisio Gwlad y Basg ar ôl y Rhyfeloedd Carlaid, er ei bod yn deg dweud bod gan y Taleithiau Basg hynodrwydd diwylliannol ac ieithyddol dyfnach - neu *ethnie* cryfach - nag a geir yn yng ngogledd yr Eidal. Fodd bynnag, mae fframio'r anghytundebau hyn fel brwydr rhwng rhanbarthau diwylliannol gwahanol yn gymharol debyg. Yn achos Padania, ffurfiwyd ei hunaniaeth yn wreiddiol fel gwrthbrawf *yn erbyn* y De. Fodd bynnag, roedd yr economi yn sail i'r holl hynodweddau diwylliannol, achyddol neu ddaearyddol yn yr Eidal. Peidiwn ag anghofio bod cryfder Lega Nord yn yr union rannau hynny o'r Eidal a wthiodd i greu Teyrnas yr Eidal. Ar yr wyneb, mae'n

ymddangos bod achos Padania yn un hynod idiosyncratig gan fod y mudiad yn galw am annibyniaeth o'r union wladwriaeth a grëwyd gyda chymorth ei hynafiaid.

Daw'r hynodweddau ymddangosiadol hyn ychydig yn fwy nodweddiadol o ystyried y sefyllfa economaidd: mae cwynion y Lega Nord yn deillio bron yn gyfan gwbl o bryderon economaidd. Mae'r blaid wedi gwrthdroi realiti economaidd yr Eidal ac yn dadlau bod y gogledd yn dioddef o erledigaeth economaidd. Heb greu cymhariaeth rhy gryf rhwng cwynion Catalunya a rhai Padania, gan nad yw gwleidyddion Catalunya yn amlwg yn defnyddio iaith ymfflamychol, hiliol y Lega Nord, mae rhai o'u cwynion tybiedig yn gymharol o ran cynnwys, os nad o ran ffurf. Mae'r blaid yn cyfeirio'n barhaus at yr annhegwch sy'n bodoli yn system dreth a gwariant yr Eidal a bod y gogledd yn cael llai na'r de. Mae gwariant y pen y wladwriaeth yn gymesur yn fras â phoblogaeth y gogledd a'r de, fodd bynnag, mae'r gogledd yn cyfrannu mwy na'r de, ond mae hyn oherwydd eu bod yn gyfoethocach (Giordano, 2000). Mae hyn yn debyg i achwyniad Catalunya bod arian yn cael ei drosglwyddo o Gatalunya i rannau eraill o Sbaen, ac eto mae hyn hefyd yn gymesur ar sail cyfoeth a phoblogaeth. Nid yw'r ddau fudiad felly'n hoff o elfennau ailddosbarthu eu priod wladwriaethau, ac eto mae'n ymddangos bod y ddau fudiad yn diystyru'r ffactorau hanesyddol, daearyddol ac economaidd a arweiniodd atynt yn cael mantais gymharol yn y lle cyntaf.

Ymhellach, mae'r Lega yn cyfeirio'n barhaus at Ddeheuwy'r yn 'dominyddu' peirianwaith y wladwriaeth a'r systemau nawdd sy'n bodoli rhwng gwleidyddion a phobl y De. Ar yr olwg gyntaf, mae *rhyw* rinwedd i'r ddau bwynt, yn enwedig wrth ddefnyddio dull anhanesyddol. Yn gyntaf, mae'r ganran uwch o Ddeheuwy'r ym mheirianwaith y wladwriaeth yn cyfeirio at y gwahanol lwybrau at gyflogaeth yn y gogledd a'r de. Mae cyflog y sector cyhoeddus yn gyfartal ar draws yr Eidal, tra bod cyflogaeth yn y sector preifat yn parhau i fod yn fwy prin a'r cyflog yn is yn y de (Alesina et al, 2001) (Pagani, 2003). Gwaethygydd y sefyllfa hon yn amlwg yn y cyfnod ar ôl y rhyfel gyda symud canghennau gweithfeydd gogledd yr Eidal i'r de.


O ganlyniad, ni ellir datgysylltu tueddiad deheuwr i weithio yn y sector cyhoeddus oddi wrth hanes y gogledd o ddefnyddio'r De fel adnodd llafur a marchnadoedd rhad. Ymhellach, crëwyd y systemau nawdd a oedd, yn ddiamau, yn bodoli rhwng y Democratiaid Cristnogol a buddiannau breintiedig yng ngogledd yr Eidal, yng nghyfnod bloc hanesyddol yr Eidal, pan gyfunodd buddiannau diwydianwyr y gogledd a thirfeddianwyr y de; roedd nawdd a theyrngarwch personol a ddefnyddiwyd i ddylanwadu ar lawer o boblogaeth y de felly yn bolisi a gefnogwyd i ddechrau gan fuddiannau'r gogledd ac ni ddylid ei ystyried ar wahân i hyn. Dengys Ffigur 35 barhad parhaus gwahaniaethau y pen sy'n bodoli rhwng gogledd a chanolbarth, a de'r wlad. O fewn y cyd-destun cyffredinol hwn mae'n ddealladwy pam y dylid aiddosbarthu o'r Gogledd i'r De.



*Ffigur 35: CMC y pen fesul Blwyddyn (Ewros yn ôl Prisiau 2019). Gwaith yr Awdur.*




Mae Ffigur 36 yn gynrychiolaeth amlycach fyth o'r diffyg yn newid yn safle cymharol rhanbarthau'r Eidal. Mae'r 8 safle isaf yn 1995 yr un fath â'r 8 isaf yn 2019, gyda phob un o'r rhanbarthau hyn yn y Mezzogiorno. O ran Padania, Lazio - sy'n dechrau yn y 7fed safle ac yn gorffen yn y 6ed safle - yw'r unig ranbarth sy'n uwch nag unrhyw ranbarth unigol yn Padania. Mae 12 o'r 13 rhanbarth uchaf yn Padania. Y rheswm pam bod Lazio'n wahanol yw ei safle fel prifddinas, yn ogystal â bod yn ganolbwynt byd i Babyddiaeth, a'i hanes penodol o dan y Taleithiau Pabaidd. Fodd bynnag, nid yw'n gallu torri goruchafiaeth y gogledd. Efallai byddai modd esgusodi'r diffyg newid hyn pe bai'r bwlch rhwng y rhanbarthau cyfoethocach a'r rhai tlotaf yn lleihau. Fodd bynnag, trwy ddefnyddio mesuriadau o ffigur 29 yn gynharach, dangosir bod cyflog cyfartalog yn y Mezzogiorno yn y flwyddyn 2000 yn 56% o'r hyn a gaed yng ngogledd a chanolbarth yr Eidal, ac erbyn 2019, 55% oedd y ganran. Felly nid yn unig ni fu unrhyw newid o ran sefyllfa ranbarthol gymharol, ond ni fu unrhyw newid chwaith o ran anghydraddoldeb rhanbarthol sy'n bodoli rhwng lleoedd.



Ffigur 36: Safle CMC y pen fesul Rhanbarth. Yr Eidal 1995-2019. Gwaith yr Awdur.

Drwy fabwysiadu ymagwedd UE gyfan, mae'r anwastadrwydd o ran CMC rhanbarthol yn parhau'n amlwg. Yn 2000, roedd y Mezzogiorno yn yr 8 safle isaf a dim ond 1 o'r rhanbarthau oedd â CMC y pen yn uwch na chyfartaledd yr UE (Abruzzo gyda 104%). Roedd Padania ar y llaw arall yn amrywio o 170% o gyfartaledd yr UE ac 'isafswm' o 112% (Marche). Gwaethygodd CMC y pen cymharol bob rhanbarth yr Eidal erbyn 2019, a oedd mewn gwirionedd yn golygu bod y Mezzogiorno hyd yn oed ymhellach y tu ôl i gyfartaledd yr UE. Er enghraifft, aeth Calabria o 71% o gyfartaledd yr UE yn 2000 i ddim ond 56% yn 2019. Er bod sefyllfa gymharol Padania hefyd wedi gwaethygu, parhaodd 10 o'i 12 rhanbarth â chyfartaledd CMC y pen uwch yn 2019, a'r unig ddau ranbarth na lwyddodd oedd Umbria a Marche; efallai nad yw'n syndod mai dyma'r ddau ranbarth sydd agosaf at y Mezzogiorno a phellaf o'r Gogledd.



Ffigur 37: Ewro fesul preswlydd mewn canran o gyfartaledd yr UE27 o 2020 yn yr Eidal (100 = cyfartaledd yr UE). Gwaith yr Awdur.

## Y Cyd-Destun Rhyngwladol

Y cwestiwn olaf i'w ateb yw: 'pam nawr?' Mae'r tudalennau blaenorol yn dangos bod y ddeuoliaeth sy'n bodoli rhwng gogledd a de'r Eidal yr un mor hen â chreu Teyrnas yr Eidal ei hun. Pam, felly, mai dim ond yn ystod y 30 mlynedd diwethaf y mae'r Lega Nord wedi dod i'r amlwg? Nid gor-ddweud yw dweud bod esiampl yr Undeb Sofietaidd wedi pwyso'n drwm ar yr Eidal drwy gydol yr 20fed Ganrif, ac mae dadl i'w gwneud mai dyma'r ffactor allanol a effeithiodd fwyaf ar gymdeithas yr Eidal. Fel y crybwyllwyd yn gynharach, Plaid Gomiwnyddol yr Eidal (CPI) oedd yr ail blaid fwyaf gydol y cyfnod ar ôl y rhyfel. Roedd hyn yn golygu bod pob plaid arall, o'r dde a'r 'chwith' yn bodoli mewn cynghrair fregus yn erbyn y comiwnyddion, ac roedd hyn yn wir am bleidiau cenedlaethol a phleidiau rhanbarthol y gogledd a'r de. Roedd comiwnyddiaeth yn fwgan i'r Eidal ar ôl y rhyfel gan olygu bod undod cenedlaethol yn wyneb 'bygythiad' ehangach yn hollbwysig. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad i'r Lega Nord ddod i'r amlwg yn union fel yr oedd yr Undeb Sofietaidd yn chwalu; bellach, nid y CPI oedd yr ail blaid fwyaf, ac nid oedd undod yr Eidal bellach yn disodli buddiannau rhanbarthol. Roedd diddymu'r Undeb Sofietaidd yn nhermau Gramsci, yn "punctual point" arall mewn hanes.

Yr ail ffactor rhyngwladol oedd dwysau ac ehangu pellach y prosiect Ewropeaidd. Mae gan y Lega hanes anodd a gwrthgyferbyniol â'r UE. Cyn ymgorffori'r Eidal yn yr Undeb Ariannol Ewropeaidd, roedd y Lega yn gryf o blaid i'r Gogledd ymuno â'r Ewro, ond nid y De. Eu barn nhw oedd y byddai rhyddfrydiaeth economaidd yr UE o fudd i gyfalafwyr y gogledd ond dim ond pe na bai'r gogledd wedi'i llesteirio gan *anghystadleurwydd* economaidd y De. Yn fwy diweddar, mae'r Blaid wedi dod yn fwy Ewrosgeptaidd; nid o bolisiau economaidd yr UE, ond yn hytrach yr hyn y maent yn ei ystyried yn fiwrocratiaeth chwyddedig sy'n gweithio er budd gwladwriaethau mwy (yn eironig, ystyrir mai'r rhain yw Ffrainc a'r Almaen, ac nid

yr Eidal). Mae'r Lega felly'n arddel gweledigaeth benodol o Ewrop sy'n seiliedig ar Bwyllgor y Rhanbarthau, a fyddai'n rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar wladwriaethau llai i lywio'r dyfroedd economaidd. Sefydlwyd Pwyllgor Rhanbarthau'r UE yn 1994, yn union fel yr oedd y Lega Nord yn tyfu'n wleidyddol. Rhoddodd y llwybr Ewropeaidd hwn gyfiawnhad i'r Plaid nad oedd ganddi yn flaenorol, ac i raddau normaleiddwyd y Plaid gan y gallai bellach weithio ochr yn ochr â phleidiau 'tebyg'. Mae'r gwreiddiau'r prosesau y tu ôl i esgyniad y Lega Nord yn ganrifoedd o oed ac yn perthyn i gyfnod creu Teyrnas yr Eidal mewn rhai achosion, ond y newid yn system-fyd Ewrop, yn enwedig cwmp yr Undeb Sofietaidd, a olygodd fod Plaid o'r fath, a syniadau o'r fath yn gallu dod i'r amlwg yn y cyfnod penodol hwn.


## Yr Eidal yn y System-Fyd

Mae'r astudiaeth achos hon wedi taflu goleuni ar greu'r Eidal yn ogystal â'r berthynas sy'n bodoli rhwng Gogledd a De'r wlad. Mae safle penrhyn yr Eidal yn y system-fyd dros y 1000 o flynyddoedd diwethaf wedi effeithio ar wleidyddiaeth fewnol; o'r system dinas-wladwriaeth i esgyniad y Lega Nord. Yr hyn sy'n ymddangos o werth damcaniaethol arbennig yw sut y lluniodd safle system-fyd y berthynas rhwng y gogledd a'r de. Er enghraifft, roedd sefyllfa system-fyd dinas-wladwriaethau'r Eidal yn golygu na allai unrhyw un ganolfan economaidd a gwleidyddol ddatblygu, gan atal creu cnewyllyn cenedlaethol tan yn llawer hwyrach nag yn Ffrainc, dyweder. Yn yr 20fed ganrif, arweiniodd cryfder Piedmont ynghyd ag efelychu'r traddodiad Jacobitaidd at ehangu tiriogaethol a gwladwriaethol o'r gogledd i'r de, gan ddilyn traddodiad y gwledydd hynny wrth wraidd y system-fyd. Dilynwyd hyn gan ariannu cyfalaf gogleddol ar draul y de, ac yn y cyfnod hwn *ar ôl* uno y daeth y rhaniad rhwng y gogledd a'r de yn wirioneddol

amlwg. Trawsgyweiriwyd y ddilechdid rhwng datblygiad a thanddatblygiad a welir rhwng gwledydd i'r "Arall" mewnol yn achos yr Eidal.

Mae achos cryf bod ffasgaeth yr Eidal, Sbaen, a Phortiwgal, a Natsïaeth yr Almaen wedi codi o ansicrwydd ynghylch eu darpar safleoedd yn y system-fyd a arweiniodd at arch-genedlaetholdeb ac ehangu trefedigaethol. Unwaith eto nid oedd hyn yn ddim mwy nag ymgais i 'ddal i fyny' â'r pwerau imperialaidd amlycaf sef Ffrainc, UDA, a'r DU a oedd i gyd â'u cylch dylanwad eu hunain. Ar ben hynny, nodweddwyd y blynyddoedd ar ôl y rhyfel gan *détente* bregus rhwng buddiannau'r gogledd a'r de yn *erbyn* comiwnyddion yr Eidal oherwydd safle'r Undeb Sofietaidd yn y system-fyd yn ogystal â'r Balcanau i Ddwyrain yr Eidal. Roedd hwn o leiaf yn gyfnod o geisio cymodi rhwng economïau'r gogledd a'r de, yn debyg i'r consensws a ymledodd dros lawer o orllewin Ewrop ac UDA ar ôl y rhyfel. Roedd y rhwyg yn y system-fyd gyda chwymp yr Undeb Sofietaidd yn golygu y gallai grymoedd newydd nad oeddent wedi'u halinio â'r *détente* hanesyddol rhwng y gogledd a'r de godi bellach. Mae Ffigur 38 yn amlygu'r newidiadau a'r tueddiadau hyn.

## Safle Newidiol y Mezzogiorno a Padania yn y System-Fyd



Ffigur 38: Safle Newidiol yr Eidal yn y System-Fyd. Gwaith yr Awdur.



## VII. Astudiaeth Achos 3: Archipelago Prydain

Mae'r anhawster wrth ddewis y teitl cywir ar gyfer yr astudiaeth achos hon yn cyfeirio at aneglurder cynhenid gwladwriaeth a chenedligrwydd. Byddai wedi bod yn bosibl dewis y teitl 'Prydain Fawr', neu 'Prydain Fawr ac Iwerddon', neu hyd yn oed 'y Deyrnas Unedig'. Fodd bynnag, rwyf wedi penderfynu defnyddio Archipelago Prydain fel y'i defnyddiwyd gan Bradshaw a Morrill (1996). Y rheswm am hyn yw bod cyfansoddiad y wladwriaeth yn newid yn eithaf sylweddol dros y cyfnod a ystyrir yn y bennod hon; sef gwladwriaeth Lloegr, gwladwriaeth Prydain Fawr, gwladwriaeth Prydain Fawr ac Iwerddon, ac yn awr gwladwriaeth Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Er gwaethaf y dimensiwn gwleidyddol newidiol, roedd pob rhanbarth o'r archipelago yn parhau i fod ynghlwm trwy gysylltiadau a gwrthdaro economaidd a diwylliannol. Pwrpas y bennod hon yw symud i ffwrdd o'r hanesyddiaeth sy'n gweld "neighbouring societies ... as irritating anomalies or inconvenient anachronisms" (Clark, 1989, t. 212) ac yn hytrach gweld hanes Prydeinig fel "the problematic and uncompleted experiment in the creation and interaction of several nations" (Pocock, 1982, t. 318).

Bydd y bennod hon fodd bynnag yn edrych yn benodol ar y berthynas rhwng Cymru a'r wladwriaeth, a oedd yn Seisnig<sup>50</sup> i ddechrau, ac yna'n Brydeinig. Fel gyda'r ddwy astudiaeth achos arall, mae amlinellu pa gyfnodau i'w cwmpasu yn dasg lle mae'n rhaid inni ystyried crynoder ar y naill law a dyfnder ar y llaw arall. Bydd y bennod hon yn ymdrin yn fyr â diwedd cyfnod y Normaniaid ym Mhrydain a'r cyfnod cyn y Tuduriaid cyn symud i gyfnod y Tuduriaid a'r Deddfau Uno. Yna bydd yr is-benodau dilynol yn rhedeg yn gronolegol hyd heddiw.

---

<sup>50</sup> Fel ag y nodwyd yn flaenorol, roedd Cymru'n rhan o wladwriaeth diriogaethol Lloegr. Roedd y wladwriaeth 'Seisnig' felly yn cynnwys Cymru a Lloegr.

## Cymru'r Oesoedd Canol

Wrth sôn am 'Gymru' yr Oesoedd Canol mae'n bwysig peidio â syrthio i deleoleg a'i diffinio yn nhermau'r hyn ydyw heddiw. Drwy'r rhan fwyaf o'r Oesoedd Canol, nid oedd Cymru'n bodoli fel uned diriogaethol unigol, er yn amlwg roedd rhai nodweddion diwylliannol ac ieithyddol yn bodoli a arweiniodd at ddealltwriaeth o'r *Cymry* mewn perthynas â'r Saeson. Bu cyfnod byr iawn pan deyrnasodd Gruffudd ap Llywelyn dros Gymru gyfan. Ef oedd yr unig frenin Cymreig erioed i deyrnasu dros holl diriogaeth Cymru. Felly, o tua 1057 hyd ei farwolaeth yn 1063, cydnabu Cymru gyfan frenhiniaeth Gruffudd ap Llywelyn. Am tua saith mlynedd fer, roedd Cymru yn un, dan un llywodraethwr, camp heb gynsail nac olynedd iddi (Davies, 2007, t. 100) Er bod cyfnod byr lle'r oedd Cymru wedi'i huno, yn gyffredinol drwy gydol y cyfnod hwn roedd Cymru wedi'i rhannu gyda'r Gororau yn y de a'r dwyrain a theyrnasoedd arwahân yn y gogledd a'r gorllewin, fel y dadleuodd Kearney (2012, t. 104):

*Although it is tempting, and perhaps, unavoidable, to refer to 'Ireland', 'Scotland' and 'Wales', each of these 'polities' was in fact remarkably fragmented. Even England, with its marcher areas in the north and west, was far from unified. The 'paradigm' which governed political attitudes is best characterised as 'feudal' in the sense that security was felt to lie not in allegiance to a distant and perhaps ineffective Crown but in the service of a local magnate or those linked to him.*

Roedd y Gororau a'r Teyrnasoedd yng Nghymru yn gyffredinol yn talu teyrngarwch i Frenin Lloegr, ond nid oedd y naill na'r llall yn rhannau *de jure* o Deyrnas Lloegr. Er bod Arglwyddi'r Mers yn talu teyrngarwch i'r Brenin, roedd ganddyn nhw safle arbennig o bwerus yng nghymdeithas Prydain yn ystod y 12fed a'r 13eg Ganrif. Roeddent wrth gwrs yn ddarostyngedig i Frenin Lloegr, ond o fewn eu tiriogaeth eu hunain, roedd yr Arglwyddi'n hawlio ac arfer mesur o awdurdod na ragorir yn

unman arall o fewn arglwyddiaethau'r Brenin. O fewn ei arglwyddiaeth roedd Arglwydd y Mers yn llywodraethwr ac yn landlord cyffredinol, dim ond tiroedd yr Eglwys oedd y tu hwnt i'w cyrraedd. O ran awdurdodaeth, yr oedd ei gymhwysedd yr un mor eang. Roedd cyfreithwyr cyfoes yn ei nodweddu drwy gyfeirio'r Mers fel maes lle nad oedd gwrit y Brenin yn rhedeg (Davies, 1979, t. 41). Roedd David Williams (1950, t. 13) yn cytuno â'r asesiad hwn, a dadleuodd fod Gororau Cymru yn ei hanfod yn cynnwys patrwm cywrain o daleithiau lled-annibynnol, ac felly yn gwahanu tiriogaeth Tywysogion Cymru oddi wrth Loegr.

Mae Gororau Cymru yn ei ffordd ei hun wedi llunio hanes Cymru hyd heddiw. Y ffordd orau o ddisgrifio'r ardal hon yw fel "frontier zone" (Williams, 1985, t. 62) neu fel "springboard for conquest, colonization and domination" (Davies, 1979, t. 47). Mae ffin Cymru gyfoes yn parhau i redeg ar hyd hen ffin y Gororau; mae'n diffinio'r ffin ddiwylliannol-ieithyddol rhwng y gorllewin a'r gogledd sy'n siarad Cymraeg (yn gyffredinol) a'r dwyrain a'r de sy'n fwy Seisniged yn ieithyddol. Mae cefn pigog y ddraig yn ymwithio allan o'r dirwedd, gan redeg lawr asgwrn cefn Cymru, o fynyddoedd Eryri yn y gogledd, trwy fynyddoedd Cambria ac i Fannau Brycheiniog yn y de ac yn gweithredu fel rhagod ar draws Cymru. Yng ngeiriau Gwyn Alf Williams (1985, t. 62):

*In one sense, it has been a frontier between two different human communities, as one people, split by a political demarcation line, developed into two divergent societies operating to different historical chronologies, with different laws and different loyalties, threatening sometimes to become two embryonic 'nations'. Human beings, wrenched apart into divergent historical experiences, interiorized those experiences and those divergences as custom, memory and tradition. Consider the Serbs and Croats, close kin, indeed ethnically one, who under the radically different disciplines of Habsburgs and Turks, evolved into two distinct and mutually hostile 'nations'. The dividing line in Wales was nothing like as hard and impenetrable as this, but even as a*

*political frontier, it lasted for nearly five hundred years. Nations have been born, lived a span and died in less.*

Hefyd, dadansoddodd Fernand Braudel (1995, t. 34) bŵer mynyddoedd wrth greu neu gynnal rhanbarthau diwylliannol unigryw. Dywedodd:

*The mountains are as a rule a world apart from civilisations, which are an urban and lowland achievement. Their history is to have none, to remain almost always on the fringe of the great waves of civilisation, even the longest and most persistent, which may spread over great distances in the horizontal plane but are powerless to move vertically when faced with an obstacle of a few hundred metres.*

Er gwaethaf yr anhawster sy'n deillio o'r nodweddion daearyddol hyn i feithrin perthynas (boed yn llesol neu'n faleisus) rhwng Cymru a Lloegr, roedd perthynas yn amlwg yn bodoli. Dadleuodd R.R. Davies (1974) y gallai'r berthynas rhwng tua 1282 a 1400 gael ei galw'n un drefedigaethol. Dadleuodd fod gwladychwyr Eingl-sacsonaidd wedi setlo tir a ffurfio elit masnachol. Trawsblannu grwpiau o estroniaid yn fwriadol i wahanol ardaloedd yng Nghymru oedd hon, wedi'i annog a'i gyfarwyddo gan y brenin a chan rai o'i brif farwniaid. Mi oedd hwn yn amlwg yn rhan o bolisi ymwybodol, ynghyd ag adeiladu cestyll, sefydlu trefi a chyflwyno trefn weinyddol a chyfreithiol newydd, i wladychu'r ardaloedd o Gymru a orchfygwyd yn ddiweddar. Roedd hefyd yn gymhellant gwleidyddol gyda mudiad bwriadol o fewnfudwyr Seisnig. Cytunodd Gwyn Alf Williams (1985) â'r prognosis hwn, gan ddadlau bod y Cymry bellach wedi pasio o dan reolaeth drahaus a drefedigaethol.

Yr hyn y mae'r dyfyniadau blaenorol yn dangos yw nad ffenomen newydd yw gwladychiaeth; gellir disgrifio cymdeithasau hynafol Groeg a Rhufain, yr Ymerodraeth Persia, hyd yn oed y Normaniaid a'r Daniaid ym Mhrydain fel rhai gwladychol. Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg nad yw trosi syniadau cyfredol o imperialaeth a gwladychiaeth yn ôl i'r gorffennol pell o reidrwydd yn fuddiol. Yn

gyntaf, mae'r mater o ddiffinio 'Cymru' fel cenedl yn y cyfnod hwn yn broblematic, os yn wir

*a nation is not merely a historical category but a historical category belonging to a definite epoch, the epoch of rising capitalism. The process of elimination of feudalism and development of capitalism is at the same time a process of the constitution of people into nations* (Stalin, 2015 [1954]).

Efallai bod modd meddwl am y Cymry fel 'pobl' ond nid fel 'cenedl' yn y cyfnod hwn neu mewn geiriau eraill, roedd y Cymry'n rhannu *ethnie* ond nid oedd cenedl wedi datblygu o'r seiliau hyn eto. Mae'r ffaith faterol hon yn amlwg yn effeithio ar ein dealltwriaeth o wladychiaeth. Yn dilyn o'r pwynt hwn, rhaid deall bod amodau materol a'r sylfaen economaidd yn amrywio o un cyfnod i'r llall, a bod amodau cymdeithasol yn datblygu o'r sylfaen economaidd honno. Yn y bôn, ni ellir cymharu gwladychiaeth cymdeithasau ffiwdal na chymdeithasau caethweision (fel yr hen Roeg a Rhufain) â'r wladychiaeth a geir o dan gyfalafiaeth (Parry, 2020). Fel y dadleuodd Lenin (1999 [1917], t. 87):

*Colonial policy and imperialism existed before the latest stage of capitalism, and even before capitalism. Rome, founded on slavery, pursued a colonial policy and practised imperialism. But general disquisitions on imperialism, which ignore, or put into the background, the fundamental difference between socio-economic formations, inevitably turn into the most vapid banality or bragging, like the comparison: Greater Rome and Greater Britain.*

I grynhoi, yn yr un modd ag y mae'n rhaid gwarchod rhag trosi syniadau cyfredol o 'Gymru', felly hefyd y demtasiwn i drosi'r ddealltwriaeth gyfredol o 'wladychiaeth'.

## Economi Cymru yn y Canol Oesoedd

Dylai'r anhawster o ran dadansoddi data economaidd o tua 900 o flynyddoedd yn ôl fod yn glir. Ni allai teyrnasoedd ddibynnu ar fiwrocratiaeth fodern i gasglu a gweinyddu data. Fodd bynnag, mae'n bosibl gwneud rhai sylwadau cyffredinol, diolch i raddau helaeth i Lyfr Domesday yn 1086; arolwg o ddaliadau tir yn Lloegr a gynhaliwyd i helpu cyfrifo'r dyledion i'r Brenin, William y Concwerwr. Ni cheisiwyd cynnal unrhyw arolwg tir arall o'r maint hwn ym Mhrydain tan y 19eg Ganrif. Fel y crybwyllwyd ym Mhennod 4, roedd gwladwriaethau yng Ngorllewin Ewrop yn tueddu i ddatblygu o graidd gwleidyddol-economaidd a ffurfio gwladwriaeth, broses lle mae rhanbarth craidd yn goresgyn yr ardaloedd cyfagos sydd yn eu tro yn cael eu hamsugno i'r wladwriaeth diriogaethol (Lipset a Rokkan, 1967). Mae'r ardaloedd hyn yn troi'n berifferïau mewnol ac mae system weinyddol ac economaidd, diwylliant, ac iaith y craidd yn cael eu gwthio i'r cyrion. Erbyn cyhoeddi Llyfr Domesday, roedd craidd cymharol sefydlog eisoes wedi datblygu ar ynys Prydain. Mae Pounds a Ball (1964, tt. 27-28) yn dadlau mai'r Deyrnas Unedig yw un o'r enghreifftiau mwyaf amlwg o ehangu o "clearly conceived core-area".

Maent yn parhau:

*The Roman occupation of the British Isles stopped short of the Scottish Border and faded out along the Marches of Wales and in the Celtic Southwest. The states of the Saxon Heptarchy had each a small nucleus for its own tribal territory, but wars between them and the invasion and settlement of Norsemen and Danes in the northern and eastern parts of Britain led in time to the emergence of Wessex which during the last two centuries of Anglo-Saxon history became the dominant power in Britain, extending its authority northward and northeastward. It was to the ancient Kingdom of Wessex that the Norman rulers in effect succeeded in 1066, and they were obliged to reconquer much of the north of England themselves. Their core-area, the material base from which expansion and reconquest took place, was the Thames*

*Valley. Here, the Domesday Book shows us, was a region of relatively dense population, intensive agriculture, and high land values. There were isolated areas of greater wealth and prosperity outside this nucleus-area, as there were also areas of small population density within it, but the former were isolated, and the latter easily circumvented.*

Mae Ffigur 39 yn dangos dau beth yn glir. Yn gyntaf, mae'n dangos bod ardal graidd yn bodoli - o leiaf yn nhermau poblogaeth - wedi'i lleoli o amgylch yr Afon Tafwys. Hon yw rhanbarth mwyaf poblog a chyfoethocaf y Deyrnas Unedig hyd heddiw. Ail duedd a welir yn y ffigur yw bod y wladwriaeth dros amser wedi ehangu o'r ardal graidd gychwynnol, yn gyntaf i'r de-orllewin a'r canolbarth cyn ymgorffori pobloedd Geltaidd y gogledd a'r de yn y pen draw. Yng nghyfnod arolwg Llyfr Domesday, felly, roedd y rhaniad craidd-perifferi yn Archipelago Prydain eisoes yn cael ei amlinellu'n araf bach.



Ffigur 39: Ardal Graidd Prydain Fawr ac yr Ehangiad o Sofraniaeth. Ffynhonnell: (Pounds a Ball, 1964).

Parhaodd yr anghysondeb daeryddol a nodweddi'r 11eg Ganrif yn Archipelago Prydain ymhell i'r 13eg Ganrif. Er nad oedd Cymru'n dal i fod yn rhan *de jure* o Loegr, am y tro cyntaf roedd yn bosibl siarad am Gymru a Lloegr fel un uned wleidyddol ac economaidd *de facto* ac o'r 1290au roedd allforion gwlan a chwyn o Gymru yn destun yr un dyletswyddau â'r rhai a godwyd ers 1275 yn Lloegr ac Iwerddon (Campbell, 2008, t. 896). Yn y cyfnod hwn, roedd yr Eglwys Gatholig yn



un o'r perchnogion tir a chyfoeth mwyaf ar draws Ewrop, ac roedd hyn yn wir hefyd yn Archipelago Prydain. Ym 1291-92, galwodd y Pab Nicolas IV am gasglu data ar gyfoeth plwyfi Lloegr, Cymru, yr Alban ac Iwerddon fel y gellid eu trethu'n ddigonol ac yn gywir i ariannu alldaith i'r wlad sanctaidd. Daeth y casgliad hwn i'w adnabod fel y *Taxatio Ecclesiastica*. Yr hyn sy'n bwysig i'r dadansoddiad hwn yw'r anghysondeb o ran dosbarthiad cyfoeth eglwysig ar draws Archipelago Prydain. Gellir ei ddefnyddio fel procsi ar gyfer cyfoeth cyffredinol. Yn ôl y *Taxatio*:

*the spiritual wealth of the English Church was three times greater than the total for Wales, Scotland, and Ireland combined. Moreover, the four wealthiest English dioceses—Lincoln, York, Norwich, and Salisbury—headed the overall diocesan league table of wealth. Each exceeded in value the whole of Wales; Lincoln, York, and Norwich were individually more valuable than Ireland; and the vast diocese of Lincoln was even worth more than the entire province of Scotland. Nevertheless, the wealthiest Scottish diocese—Glasgow—eclipsed the next tier of English dioceses (Durham, Winchester, Lichfield, and London) and, similarly, was worth far more than the entire ecclesiastical province of Wales and each of the four Irish provinces. Dublin and St David's, respectively the wealthiest Irish and Welsh dioceses, were poor by comparison (Campbell, 2008, t. 905).*

Yr hyn sy'n dod i'r amlwg o'r dadansoddiad hwn yw'r anghysondeb amlwg yn nosbarthiad gofodol cyfoeth eglwysig. Mae tair o'r pedair esgobaeth gyfoethocaf yn agos iawn i'r Afon Tafwys tra bod Efrog i'r gogledd yn rhagori ar esgobaethau Cymru, yr Alban ac Iwerddon. Mae'n amlwg felly bod gan Loegr rôl economaidd graidd. Mae'r Alban yn ganolig ac mae'n ymddangos ei bod yn chwarae rhan y lledberifferi rhwng Lloegr ar un llaw a'r Iwerddon a Chymru sy'n amlwg ar y perifferi ar y llaw arall. Dengys Ffigur 40 na ellir egluro'r gwahaniaeth o ran cyfoeth eglwysig drwy'r gwahaniaeth o ran maint rhwng Lloegr a rhanbarthau Celtaidd yr Archipelago yn unig. Mewn perthynas â chyfanswm arwynebedd Lloegr gyfan ac

iseldir, mae'n fwy na'r hyn y byddai disgwyl ei weld o ran tai crefyddol, cyfoeth eglwysig, a nifer y trefi.

<i>Variable</i>	<i>England</i>	<i>Wales</i>	<i>Scotland</i>	<i>Ireland</i>
Estimated % share of British and Irish total				
Land area	41	7	25	27
Lowland area	49	4	15	32
Religious houses	70	3	6	21
Regular clergy	64–77	3–5	6–7	14–24
Benefices/parishes	68	5	8	20
Ecclesiastical wealth (spiritualities)	76	3	c.13	c.8
Large towns (2,000+)	83	1	7	9
All towns	74	10	5	11
Urban population	c.78	c.3	c.7	c.12
Dutiable exports	77		c.14	9
Currency	c.83		c.13	c.5
Relative to total land area				
Religious houses per 100 miles <sup>2</sup>	2.08	0.56	0.29	0.97
Mean size of parish (miles <sup>2</sup> )	6.1	14.3	31.7	13.6
Ecclesiastical wealth per 100 miles <sup>2</sup>	£255	£65	£70	£39
Number of towns per 100 miles <sup>2</sup>	1.43	1.25	0.16	0.32
Dutiable exports per 100 miles <sup>2</sup>	£560		£170	£100
Relative to lowland area below 500 feet				
Religious houses per 100 miles <sup>2</sup>	2.66	1.4	0.75	1.23
Mean size of parish (miles <sup>2</sup> )	4.8	5.8	12.4	10.7
Ecclesiastical wealth per 100 miles <sup>2</sup>	£325	£161	£179	£49
Number of towns per 100 miles <sup>2</sup>	1.82	3.07	0.42	0.41
Dutiable exports per 100 miles <sup>2</sup>	£660		£428	£133

*Ffigur 40: Mesurau Cymharol Economiâu Cymru, Lloegr, yr Alban ac Iwerddon, tua 1290. Ffynhonnell: (Campbell, 2008, t. 922).*

## Amodau Daearyddol a'r Economi

Mewn oes lle'r oedd amaethyddiaeth yn perthyn yn agos nid yn unig i gynhaliaeth, ond hefyd i fasnach, roedd yr union dir yr oedd y bobl yn byw arno yn effeithio'n ddwys ar y math o Gronni cyntefig (primitive accumulation) oedd yn bosibl. Mae rhannau helaeth o Gymru a'r Alban yn fynyddig sy'n effeithio ar y math o gynhyrchiant amaethyddol. Awgrymodd Hechter (2017, t. 52) fod yr amddifadrwydd a wynebai'r bobl hyn bron yn anochel. Dadleuodd:


*the significance of the highland line in the pre-industrial setting can be simply stated as a demarcation of good land from bad. The British highlands were destined to be poor in two respects. First, these regions could not support much population, for it was relatively difficult to eke out a living there. The ratio of men to land was bound to be relatively low. Secondly, there would be little incentive for agricultural improvement since the general ecological conditions were so uncompromising. The lowlands on the contrary, could support a much more dense population.<sup>51</sup>*

Roedd David Williams (1950, tt. 13-14) yn cytuno bod strwythur daearyddol gwahanol Gymru yn effeithio ar ei strwythur economaidd. Roedd llawer o Gymru yn anaddas i dyfu yd oherwydd glaw trwm a daeareg, a olygai mai hwsmonaeth anifeiliaid trwy fagu gwartheg (a defaid yn ddiweddarach) oedd y prif ddiwydiant brodorol. Roedd pobl yn byw bodolaeth lled-nomadig, gan symud i'r ucheldiroedd yn yr haf gyda'u buchesi. Roedd hyn yn effeithio ar allu trefi a phentrefi i ffurfio gan eu bod yn tueddu i ddatblygu mewn ardaloedd lle'r oedd yd yn cael ei dyfu'n fwy helaeth. Roedd hyn yn golygu nad oedd poblogaeth Cymru yn fwy nag chwarter miliwn mewn unrhyw gyfnod cyn 1500. Yr oedd Cymru felly yn brin iawn ei

---

<sup>51</sup> Os mai tynged ucheldir Cymru a'r Alban oedd bod yn dlawd, ymddengys bod hyn yn gwrthddweud ei draethawd Gwladychiaeth Fewnol. Os ydy hi wedi darfod ar yr ardaloedd hyn, waeth beth fo'r polisi, yna sut mae gwladwriaeth Lloegr ar fai?

phoblogaeth, a'i thrigolion wedi eu dosbarthu yn lled gyfartal, gan nad oedd yno drefydd mawrion.



*Ffigur 41: Trefi Prydain ac Iwerddon a Masnach Dolladwy, c.1290. Ffynhonnell: (Campbell, 2008, t. 906).*

Dengys Ffigur 41 ddsbarthiad trefi a maint y fasnach drethadwy a fodolai tua 1290. Derbynnir bod y niferoedd hyn yn gynhenid ddamcaniaethol oherwydd y prinder data sylfaenol sydd ar gael. Fodd bynnag, mae rhai tueddiadau clir yn dod i'r amlwg. Y cyntaf yw bod nifer yr aneddiadau yn Lloegr gymaint mwy niferus na'r gwledydd Celtaidd. Oherwydd gwaddolion naturiol Lloegr o ran adnoddau amaethyddol mewn oes amaethyddol, byddai disgwyl gweld rhywfaint o anghysondeb yn nifer yr aneddiadau mawr. Fodd bynnag, mae cymryd gwaddolion naturiol fel yr unig ffactor yn cymylu'r ail duedd: sef lleoliad aneddiadau Seisnig ar hyd ffin Cymru. Mae nifer y trefi marchnad ar hyd y ffin megis Henffordd, Amwythig, a Chaer yn awgrymu bod cyfleoedd masnachu o Gymru ac i Gymru yn bosibl. Fel dadleuwyd Bowen (2022, t. 5):

*routes running east to west operated more readily than those running north to south. We might thus divide Wales into three broad territories whose urban foci lay in England: the route along the north Wales coast which was centred on Chester; the mid-Wales region which traded principally with Shrewsbury; and the south Wales corridor linking to Bristol.*

Wrth ddadansoddi'r fasnach wartheg yn Swydd Amwythig a Swydd Henffordd yn yr 16eg a'r 17eg Ganrif, dadleuodd Edwards (1981, t. 73) fod gwartheg yn dod o nifer o ffynonellau ond yn ddi-os yr un pwysicaf oedd Cymru sy'n cadarnhau'r ddamcaniaeth hon. Mae lleoliad y trefi masnachu hyn ar ochr Lloegr i'r ffin, fodd bynnag, yn awgrymu o bosibl bod y fasnach mewn nwyddau Cymreig, gan eu bod yn cael eu rheoli gan drefi Seisnig, yn golygu nad oedd gan Gymru unrhyw reolaeth economaidd annibynnol. Efallai bod nodweddion daearyddol yn helpu i egluro pam nad oedd unrhyw drefi o unrhyw faint ystyrlon ar arfordir gorllewinol Cymru, ond nid yw'n helpu i egluro lleoliad trefi'r gororau dwyreiniol. Roedd hyd yn oed Caerdydd, yr unig dref o unrhyw faint ystyrlon yn y cyfnod hwn, yn llawer llai na'i chymydog, Bryste. Roedd unrhyw fasnach fewnol, fel y gellid disgwyl iddo fodoli yn y cyfnod hwn, felly yn cael ei rwystro gan leoliad y trefi hyn. Mae'n bosibl yma

dynnu ar waith Andre Gunder Frank unwaith eto (1966). Er ei fod yn dadansoddi cyfnod hanesyddol gwahanol, aeth ati i asesu amlygiadau ffisegol datblygiad gwyrngam, gan ddadlau nad yw lleoliad seilwaith mewn gwledydd dibynnol yn dilyn yr un rhesymeg swyddogaethol ac mewn gwledydd datblygedig gan fod economïau gwledydd dibynnol yn canolbwyntio mwy ar allforio. Mewn gwledydd dibynnol, mae seilwaith yn bodoli at ddiben symud deunyddiau crai allan a dod â nwyddau gwerth ychwanegol i mewn yn hytrach nag integreiddio'r farchnad fewnol a'r economi. Dywedodd Eduardo Galleano (1997, t. 199), wrth ddadansoddi prosesau diweddarach yn America Ladin:

*the tracks were laid not to connect internal areas one with another, but to connect production centres with ports. The design still resembles the fingers of an open hand: thus railroads, so often hailed as forerunners of progress, were an impediment to the formation and development of an internal market.*


Mae Ffigur 41 yn dangos yn glir bod natur economi Cymru wedi'i gyfeirio at allforio gyda nwyddau'n symud i Loegr. Roedd Cymru'n cael ei hintegreiddio i economi Prydain trwy allforio deunyddiau crai, ond roedd ei heconomi fewnol yn parhau'n dameidiog ac anghyflawn. Mae'r dadansoddiad hwn yn ategu gwaith Campbell (2008, t. 921). Dadleuodd mewn oes amaethyddol, ni ellir ond disgwyl y dylai economi Lloegr, gyda'i gwaddoliad uwch o adnoddau amaethyddol a hinsawdd fwy ffafriol ar gyfer cynhyrchu grawn, fod yn fwy nag economïau Cymru, yr Alban ac Iwerddon. Roedd graddfa'r anghysondeb, fodd bynnag, yn sylweddol uwch na'r gwahaniaeth syml hwn rhwng ardaloedd daearyddol. Ni awgrymodd Campbell pam fod hyn yn wir, mae Damcaniaeth Dibyniaeth yn darparu rhesymeg bosibl. Adleisiodd R.R. Davies (1990, t. 8) rai o'r teimladau hyn:

*'Wales is incapable of supplying its inhabitants with food without imports from the adjacent counties of England', remarked William of Newburgh in the later twelfth century. 'And since it cannot command this without the liberality of express permission of the king of England, it is necessarily subject to his power'. Commercial*

*dependence opened the door to political control. Wales in the eleventh and twelfth centuries was by north-western European standards an underdeveloped country, especially in terms of markets, towns, trade and the use of coin. It was ripe for exploitation. And exploited it was, especially for its slaves, timber, hides, furs, flock and herds. During the twelfth and thirteenth centuries an army of foreign merchants, townsmen and settlers bound Wales, more especially southern lowland Wales, to an increasingly England-oriented economy and trade network. However remarkable the resurgence and resilience of Welsh native power may have been in these centuries, it was fatally stunted by its failure to recover the economically rich and commercially developed lowlands of south east and south west Wales, now securely under Anglo-Norman control.*

Mae Cyfrol IV o'r gwaith arloesol *Agrarian History of England and Wales* (Thirsk, 2011, t. 19) yn canfod casgliadau tebyg ar gyfer cyfnod y Tuduriaid. Mae Ffigur 42 yn mapio lleoliad marchnadoedd yng ngorllewin Lloegr a Chymru rhwng 1500-1640. Er nad yw'r ffigur hwn yn dweud wrthym am y referniw arferol o bob marchnad, na pha rai oedd yn drefi mawr fel y mae'r uchod yn ei wneud gan Campbell, mae'n dangos nifer a lleoliad y marchnadoedd i ni. Daw dau beth i'r amlwg sy'n cyd-fynd â'r uchod, y cyntaf yw'r nifer isel o farchnadoedd yng Nghymru ei hun o gymharu â bron pob rhanbarth yn Lloegr a ddangosir. Yr ail yw bod y rhan fwyaf o farchnadoedd yng Nghymru/ger Cymru yn rhedeg ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr, yn hytrach na bod yn fewnol i Gymru.





Figur 42: Marchnadoedd yng ngorllewin Lloegr a Chymru, c. 1500-1640. Ffynhonnell: (Thirsk, 2011, t. 19).

## Y Tuduriaid a Chydgyfnerthu'r Wladwriaeth

Mae'r Deddfau Uno Cymru a Lloegr yn 1536 a 1542 – a'r digwyddiadau a arweiniodd atynt – wedi'u defnyddio i gynhyrfu'r dyfroedd fwy na'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau hanesyddol yng Nghymru. Cyfeiriodd Adam Price (2009) o *Blaid Cymru*, er enghraifft, at y Deddfau fel proses o “legal lynching” a rhan o “Tudor lebensraum”. Mae'r sylwadau hyn yn amlwg yn ymfflamychol ac yn cael eu defnyddio ar gyfer effaith ddramatig, ond faint o hygrededd, os o gwbl, y dylem ei roi i farn o'r fath?

Yn yr un modd â gwladychiaeth Seisnig yn y Canol Oesoedd, mae'n bwysig gwarchod rhag synwyrusrwydd modern a dealltwriaeth o gynnwys a ffurf digwyddiadau o'r fath. Mae'n wir fod Cymru wedi'i chyfeddiannu'n gyfreithiol gan Loegr trwy'r Deddfau hyn, ond ni ddylid cymharu'r hyn â chyfeddiannaeth fwy diweddar megis gan Israel yn Nwyrain Jerwsalem ac yng Ngolan (Yishai, 1985), neu gan yr Almaen Natsïaidd yn y Sudetenland. Mae'r ffurfiau hanesyddol, materol, a strwythurol a fodolai yng nghyfnod y Tuduriaid yn golygu bod cynnwys proses o'r fath yn wahanol, ac y byddai unrhyw gymhariaeth yn arwain at “the most vapid banality” (Lenin, 1999 [1917], t. 87).

Gellir esbonio llawer o'r rhesymeg y tu ôl i'r Deddfau Uno trwy edrych ar y cyfnod a ddigwyddodd. Fel y dadleuodd Rhys Jones (2004, t. 602), nodweddir y cyfnod hwn fel trawsnewidiad o'r canoloesol i'r cyfnod modern, lle'r oedd y cymhlethdod cynyddol o ran masnach, strwythurau cymdeithasol, a sylfaen economaidd cymdeithas yn mynnu strwythurau gwladwriaethol cynyddol gymhleth wedi'u 'moderneiddio' er mwyn dal popeth at ei gilydd. Dadleuodd Gustafsson (1998, t. 194) fod y wladwriaeth Ewropeaidd fodern gynnar yn fwy dwys na'i ragflaenwyr canoloesol a gyfunwyd trwy ymgorffori tiriogaethau i greu un cyfanwaith unigol.

Defnyddiodd y term “conglomerate state” i gyfeirio at yr endidau gwahanol a gyfunwyd i greu'r camau cyntaf tuag at wladwriaeth unedol wirioneddol.

Yn y cyfnod hwn, nid oedd y broses o ‘uno’ Archipelago Prydain yn benodol i Gymru. Yn hytrach, roedd y broses hon yn rhan o un ehangach oedd yn ceisio safoni strwythurau gwladwriaethol ar draws ynys Prydain. Fel y dadleuodd Rhys Jones (2004, t. 602), mae nifer o weithredoedd a hyrwyddwyd yn ystod y cyfnod hwn yn dyst i ymdrechion y sofran a’r senedd i ennyn yr ymdeimlad uwch hwn o unffurfiaeth sefydliadol o fewn y wladwriaeth. Roedd yr ymdrechion hyn yn gyffredinol yn canolbwyntio ar gryfhau rheolaeth dros y gororau neu gyrion y wladwriaeth Seisnig, a oedd yn cynnwys diddymu llawer o rym llysoedd Caer, Caerhirfryn a Durham a ffrwyno Cyngor y Gogledd yn 1548 (Bowen, 2022, t. 13) (Kiernan, 1980, t. 108). Ymhellach, dadleuodd Kearney (2012, t. 112):

*during the course of the sixteenth century the South succeeded in establishing dominance over the cultures of the north and west. Victories over the Pilgrimage of Grace of 1536, the Cornishmen’s revolt of 1549 and the rising of the northern earls of 1569 brought under southern control areas of England which during the Middle Ages had been largely autonomous.*

Dylid gosod Diwygiad Protestannaidd Lloegr a diddymu’r mynachlogydd rhwng 1536 a 1541 yn yr un *milieu*. Arweiniodd y Diwygiad Protestannaidd at newid enfawr ym mherchnogaeth tir lle gwerthwyd hen dir eglwysig, gyda'r elw yn mynd i'r Brenin. Cynyddodd hyn allu cynhyrchiol y wladwriaeth nid yn unig i ryfela yn erbyn Teyrnasoedd eraill, ond hefyd arweiniodd y cynnydd o ran angen a thasgau gweinyddol at resymoli a thwf biwrocratiaeth ganolog y wladwriaeth. Ar ben hyn, wrth ddiddymu'r mynachlogydd, cynyddodd twf mewn cysylltiadau cymdeithasol cyfalafol yn Lloegr.<sup>52</sup> Yr oedd yr Eglwys yn un o amddiffynwyr selog eiddo Ffiwdal a’r cysylltiadau cymdeithasol a fodolai yn y gymdeithas Seisnig, gyda deiliadaethau

---

<sup>52</sup> Trafodir hyn yn fanylach nes ymlaen.

copihowld (copyhold) hir a'r nod o fod yn hunangynhaliol, ac o ganlyniad diffyg cymhelliant i fuddsoddi cyfalaf neu gynyddu cynhyrchiant (Swanson, 1989, tt. 229-230).

*The Dissolution changed these patterns. Although at the time of Dissolution many tenants were still on long leases, lapsing leases were now renegotiated because the new owners of land had an outside option: sale on the land market. The new owners of the land likely bought it with a profit motive in mind, and they were able to renegotiate land tenure in order to claim part of the agricultural surplus which had, before the Dissolution, accrued to tenants under customary land relations (Heldring, et al., 2015, tt. 10-11)*

Helpodd Diddymu'r Mynachlogydd i newid ffurf deiliadaeth o system copihowld i system ddaliadaeth trwy brydles a rhydd-ddaliad, a thrwy hyn, newid perchnogaeth tir i fod yn nwydd y gellid ei brynu a'i werthu. Roedd gwerth tir (a rhent) bellach yn gysylltiedig â chynhyrchiant, a oedd ar un llaw yn creu dosbarth o iwmyrn (yeomen), ffermwyr cyfoethog â gogwydd masnachol ac yn golygu bod y llafurwyr hynny a oedd yn 'anghynhyrchiol' yn troi cefn ar weithgareddau amaethyddol ac yn symud i'r dinasoedd, gan greu byddin o lafur wrth gefn.<sup>53</sup>

Dylid edrych ar Ddeddfau Uno Cymru a Lloegr o fewn y fframwaith cyffredinol hwn lle'r oedd Lloegr (a Chymru) yn trawsnewid yn araf o glytwaith o endidau lled-annibynnol i undod tiriogaethol. Mewn gwirionedd, dadleuodd David Williams (1950, t. 33) fod y prosesau hyn yn digwydd ledled Ewrop:

---

<sup>53</sup> Ceir diffiniad da o iwmyrn yn Underdown (1985, t. 24): "A yeoman was usually a substantial farmer concentrating primarily on the market rather than on subsistence agriculture. ... Their increasing acceptance of the ethos of the market justified the pursuit of individual profit, sometimes at the expense of the traditional ideal of the co-operative community. Yeomen were the villagers most able to take advantage of a lord's sale of demesne lands, profit from piecemeal enclosure by agreement, or buy out poorer neighbours driven to the wall by a run of bad harvests".

*[The Tudors] were typical of the new monarchies which were arising in Europe and were impatient of any feudal survivals which limited their sovereignty. They consciously desired uniformity in government. Elsewhere in Europe, in France and in Spain in particular, the same development could be observed, and the modern unified sovereign state was emerging. It was not an accident that in 1532, only four years before the Act of Union of England and Wales, the Breton branch of the Celtic peoples, separated from the Welsh for a thousand years, was assimilated to France by the Treaty of Vannes.*

Felly, mewn perthynas â'r cwestiwn 'pam nawr yn Archipelago Prydain?', mae angen mynd i'r afael â safle Prydain o fewn y system-fyd. O'i chymharu â phwerau cyfandir Ewrop, sef Sbaen a Ffrainc yn arbennig - er y gellir ychwanegu'r Iseldiroedd a dinas-wladwriaethau'r Eidal hefyd - roedd gwladwriaeth Lloegr yn bŵer eilradd. Yn syml, nid oedd ganddi'r gallu i ymladd rhyfeloedd yn erbyn coronau Sbaen a Ffrainc yn effeithiol, felly ailgyfeiriodd y wladwriaeth ei golygon tua'r gorllewin a'r gogledd i gyrion Archipelago Prydain fel ffordd o atgyfnerthu pŵer a gwella ei safle o fewn y system-fyd.

## Newid Technolegol yng nghyfnod y Tuduriaid

Soniodd Wallerstein (1972, t. 100-101) am y berthynas rhwng y newid yng ngyrmoedd cynhyrchiol cymdeithas ar un llaw, a'r ymdrechion cyntaf ar gydgyrnhoi gwladwriaeth ar y llaw arall:

*The absolute monarchy was of course not absolute, either in theory or in fact. It represented rather the first weak effort to establish State supremacy against local lords and outside powers--very strong by comparison with the situation in peripheral areas of the European world economy, but incredibly weak by comparison with twentieth-century governments. The absolute monarchs were the focal point of the two great*

*conflicting forces of the core-states of the nascent capitalist world economy: those new productive forces which were making it possible for England (and France) to develop economically and for the monarch to assert himself internally; and those hierarchies derived from earlier times of which the monarch was the pinnacle and the exemplar, and which were the other pillar of the monarch's strength.*

Bu newid technolegol ar y groesffordd rhwng y 'canoloesol' a'r 'modern' yn sbardun i'r ysfia am undod tiriogaethol ac unffurfiaeth. Dyfeisiwyd y wasg argraffu yn y 15fed Ganrif ac erbyn canol yr 16eg ganrif roedd yn hawdd cael gafael ar y dechnoleg hon. Disgrifiodd R.R. Davies (1990, t. 121) Brydain y Canol Oesoedd fel lle "where power is based on oral command, where law is essentially localised and customary, where the flexibility and convenient amnesia of present memory is the basis of precedent, there the ideology of uniformity has limited scope to develop". Mae hyn yn dangos sut y gwnaeth newidiadau mewn technoleg gynhyrchiol - neu newid yn sylfaen materol cymdeithas - newid yr aradeiledd cyfreithiol oedd yn sail iddo. Os na all y gyfraith fod yn unffurf oherwydd anhygyrchedd yr iaith frodorol ysgrifenedig, mae llai o gymhelliad o ran undod tiriogaethol, sydd ei hun yn seiliedig ar undod cyfreithiol.

O ganlyniad i'r newid technolegol hwn, datblygwyd strata gwladwriaeth newydd a'i rôl oedd gweinyddu, gweithredu ac egluro'r gyfraith: sef biwrocratiaid. Roedd twf diwylliant biwrocrataidd yn golygu bod undod tiriogaethol a gweinyddol yn cael ei weld fel dwy ochr yr un geiniog; newidiadau a fyddai wedi bod yn llawer anoddach eu cyflawni heb y defnydd ehangach o'r gair ysgrifenedig. Fel y dadleuodd Deibert (1999, t. 129):

*The movement towards modern state bureaucracies ... thrived in the new communications environment, which provided the tools necessary for rational bureaucratic administration. Indeed, a necessary precondition for the emergence of bureaucratic administration is some form of writing. Thus it is not surprising that the development of modern state bureaucracies in Europe was closely bound up with*

*the spread of secular literacy in the High Middle Ages. ... The relationship between the new communications environment and this particular political development was mutually reinforcing as pressures for bureaucratization drove secular literacy and a demand for standardized communications, while the development of the latter - especially the emergence of the printing press - in turn vastly augmented the scope and scale of bureaucracies. This is evidenced by the fact that, ... early printers thrived on state commissions for printed administrative records, with state policy actively encouraging the creation of large, national publishing houses. The printed products emanating from these large national publishing houses in turn increased the size of bureaucratic documentation, which necessitated more personnel. This functional complementary manifested itself along a number of different dimensions, which helped reinforce the development of state bureaucracies at this particular historical juncture (i.e., from the 15th century onwards).*

## Deddfau Uno â Chymru

I droi'n benodol at Ddeddfau Uno Cymru a Lloegr, dadleuodd David Williams (1950, t. 33) fod yr "Undeb" (yn ei eiriau ef) i gael canlyniadau aruthrol i'r ddwy wlad. Mae wedi pennu cwrs hanes Cymru hyd ein dydd ni, ac i Loegr, cychwynnodd y datblygiad a ddaeth â holl Ynysoedd Prydain o dan lywodraeth ganolog Llundain. Er mwyn dadansoddi'r digwyddiadau hyn, rhaid ddechrau gydag esgyniad Harri Tudur - neu Harri VII - i'r orsedd. Prin mewn gwirionedd oedd hawl Harri i'r orsedd; yr oedd yn or-or-wŷyr i John o Gaunt trwy feistres a phlentyn anghyfreithlon. Yng Nghymru, o leiaf, ei linach chwedlonol a arweiniodd at y gefnogaeth iddo ymysg y bobl. Hawliai ei deulu eu bod yn ddisgynyddion Cadwaladr ap Cadwallon; Brenin Gwynedd yn y 7fed Ganrif a boblogeiddiwyd gan Sieffre o Fynwy (Geoffrey of Monmouth) fel Brenin olaf y Brythoniaid. Dadleuodd

Gwyn Alf Williams (1985, t. 123) fod *Hanes Prydain* Sieffre o Fynwy wedi dod yn athrawiaeth lled-swyddogol yn y cyfnod ac yn rhan ganolog o gyfreithloni achau Harri. Yn wir, y Ddraig Goch oedd ar faner Cadwaladr ac mae hi bellach yn addurno baner Cymru. Defnyddiodd Harri ei Gymreictod i'w helpu, gan yn gyntaf benderfynu glanio yn Aberdaugleddau, ac yn ail i lwyddo ennyn cefnogaeth y Cymry i'w achos yn y Trallwng (rheswm allweddol yn fuddugoliaeth ym Mrwydr Bosworth) (Kearney, 2012, t. 117). Mae'n amhosib dweud yn bendant faint yr oedd Harri ei hun yn credu'r myth oedd yn amgylchynu ef a'i deulu, ond teg yw dweud ei fod yn ddiffuant yn ei ymgais i wella sefyllfa Cymru ac yn falch o'i dreftadaeth Gymraeg (ac felly Prydeinig). Honnir bod Harri Tudur yn medru'r Gymraeg (Williams, 1985), a phenderfynodd hefyd gario baner Cadwaladr i'r gad ochr yn ochr â baner San Siôr. Ymhellach, enwodd ei fab cyntaf yn Arthur - a fu farw'n ddiweddarach yn 15 oed - ar ôl y Brenin chwedlonol a amddiffynnodd Prydain yn erbyn goresgynwyr Sacsonaidd.

Dadleuodd Gwyn Alf Williams (1985, t. 124) fod yr enw hwn i fod i ddynodi mai'r Tuduriaid oedd ymgorfforiad o Arthur yn dychwelyd. Aeth Harri ati i ad-dalu ei ddyled i'w gynghreiriaid Cymreig trwy eu penodi i swyddi allweddol yng ngogledd a de Cymru a thrwy enwi Cymry i Esgobaeth Dewi Sant a Llanelwy. Maes o law, diddymwyd y ddeddfwriaeth yn erbyn hawl Cymry i ddal swyddi arbennig a chaffael tir hefyd, nid heb brotest gan y Sais (Kearney, 2012, t. 117). Felly dechreuodd Harri Tudur ar y broses o newid sefyllfa Cymru. Roedd Cymru'n symud o'i safle fel trefedigaeth i fod yn fwy cydradd, o leiaf o ran ffurf os nad o ran cynnwys. Roedd cyfoeswyr Cymreig llinach y Tuduriaid hefyd yn edrych ar Harri Tudur mewn ffordd gadarnhaol ac yn ysgrifennu cân a barddoniaeth er anrhydedd iddo. Ysgrifennodd Siôn Tudur, er enghraifft, gerdd er anrhydedd Harri a'i hanfon at Elisabeth y 1af, ei wyres (dyfynnwyd yn Williams, 1993, t. 246):



Harri lân, hir lawenydd,  
 Yn un a'n rhoes ninnau'n rhydd.  
 I Gymru da fu hyd fedd,  
 Goroni gŵr o Wynedd

Felly, Harri Tudur ddechreuodd y gwaith o ddod â Chymru o dan adain y wladwriaeth Seisnig a gwella sefyllfa'r Cymry. Cwblhawyd y gwaith gan ei fab, Harri VIII. Yn wir, yn y rhagymadrodd i Statud Cymru 1536, cyfeiriodd Harri VIII at y "singular zeal, love and favour that he bears towards his subjects of his said dominion of Wales" (HC Deb, 13 Oct 1942). Roedd y Deddfau yn amlwg o natur wleidyddol, ac nid oes amheuaeth bod y datganiad hwn yn wleidyddol, ond yn yr un modd roedd Harri VIII yn gweld Cymru a Lloegr fel un cyfanwaith annatod, a deddfodd i wella sefyllfa'r Cymry, a helpu i ddod â'r syniad o Brydain unedig yn agosach.

Diddymodd y Deddfau Uno arglwyddiaethau lled-annibynnol y Mers — cymynroddion o'r Oesoedd Canol — ac arwain at greu daearyddiaeth weinyddol unffurf o siroedd. Prif bwrpas y Deddfau Uno oedd creu polisi lle'r oedd gwrit y brenin neu'r frenhines yn cael ei ymestyn heb ei wirio gan hawliau arferol rhai barwniaid breintiedig (Jones, 2004, t. 609). Diben Arglwyddi'r Mers hyd yma oedd tawelu lleisiau croes y Cymry, ond wrth i alluoedd y wladwriaeth ehangu, roedd Arglwyddi'r Mers bellach yn ddiangen, ac fel canolfannau dylanwad a grym gwahanol, roeddent yn berygl i'r Goron. Yn y bôn, nid oeddent bellach yn ddefnyddiol. Roedd datgymalu'r Gororau felly yn rhan o 'bolisiau moderneiddio' ehangach y wladwriaeth ac fe'u:

*incorporated within an administrative system of already existing shires, such as Carmarthen, or amalgamed into new counties, Monmouth, Brecon, Radnor, Montgomery, and Denbigh, freshly created at the Union. The legal autonomy of the lordships was done away with (Kearney, 2012, t. 117).*

Roedd hynodrwydd y Gororau hefyd yn effeithio'n ddrwg ar fasnach a'r economi, a sbardunodd y Goron i weithredu. Gyda thwf masnach roedd cwynion cynyddol bod yr anhrefn yn y Gororau a chribddail (extortion) y swyddogion yn rhwystr, yn enwedig i'r fasnach wartheg gyda Lloegr. Ar ben hynny, roedd y ffaith bod sawl bwrdeistref a phorthladd yn gorwedd o fewn yr arglwyddiaethau yn golygu colled sylweddol i'r goron o refeniw o dollau (Williams, 1950, t. 34). Mae hyn unwaith yn rhagor yn dangos y cysylltiad clir rhwng y newid yn sail faterol cymdeithas a'r newidiadau cydamserol a ddigwyddodd yn yr aradeiledd cyfreithiol.

Wrth edrych ar ganlyniadau'r Deddfau Uno, roedd rhai yn fwriadol, a ddaeth eraill i'r amlwg dros amser, er na ellid priodoli eu pwrpas i'r Tuduriaid. Un o'r canlyniadau pwysicaf – ac yn bendant yn benderfyniad ymwybodol – oedd gorfodi cyfraith gwlad Lloegr ledled Cymru. Disodlwyd swyddogion y Mers – a'u rheithfarnau a dueddai i fod yn ad hoc ac yn seiliedig ar gyfraith lafar – gan y Siryf a'r Ynadon Heddwch (Kearney, 202, t. 117). Roedd Cymru bellach yn adlewyrchu Lloegr. Un o brif ddyletswyddau'r Ynadon oedd:

*to maintain law and order by prosecuting criminals who had committed offences within their jurisdiction. They were, however, quick to expand their status and duties, becoming a governmental assembly, a board with governmental and administrative powers. These extra duties extended into the realm of the social—for instance, decisions on the legal rate of wages—the religious—for example, the need to stamp out Catholicism within the newly created Protestant state—and the economic—for instance, the collection of ship money at times when a threat of invasion existed* (Jones, 2004, t. 609).

Nododd David Williams (1950, t. 43) nid oedd dim yn dangos yn well y newid ym mholisi Tuduraidd o fygylyu, i gymodi, na chyflwyno'r swydd hon i Gymru. Roedd y Deddfau Uno felly yn newid y berthynas rhwng pobl Cymru a'r Goron mewn modd cadarnhaol, o ddialedd i gydraddoldeb cymharol (neu o leiaf cymaint ag y gellid ei ddisgwyl o dan frenhiniaeth oruchafol). Yr oedd y Cymry yn awr yn gydradd a'r

Saeson ac yn mwynhau'r un breintiau. Gallent yn awr anfon cynrychiolwyr i'r Senedd, a derbyniodd y Cymry hawliau llawn y deiliaid. Yn bwysig, roedd hyn yn golygu:

*Henceforth they could participate in the economic life of the towns both of Wales and of England, and these towns acted as a magnet on all classes. To the Welshman of the day, the removal of inequality before the law far outweighed any disadvantages which were involved in the new legislation or were caused by the abolition of the ancient Welsh codes of law (Williams, 1950, t. 37).*

O ran canlyniadau eraill, wrth edrych yn ôl, roedd gwrthddweud amlwg yn bodoli yn y canlyniadau a ddeilliodd o'r Deddfau Uno. Ar un llaw, daeth Cymru 'annibynnol' i ben, neu o leiaf diffoddwyd y marwydos y gallai gwladwriaeth annibynnol dyfu ohonynt am ganrifoedd. Fodd bynnag, nid oedd gwladwriaeth 'Gymreig' yn bodoli. Fel y dadleuwyd yn flaenorol, roedd Cymru yn glytwaith o'r Mers, Tywysogaethau a Theyrnasoedd lled-annibynnol, lled-wasanaethgar. Ymhellach, roedd y Deddfau Uno yn golygu tynnwyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr yn amlwg am y tro cyntaf (Kearney, 2012, t. 117). Yn ei hanfod, newidiodd Cymru o fod yn fynegiant daearyddol i fod yn realiti materol. Newidiodd o fod yn gornel haniaethol, anniffiniedig o Ynysoedd Prydain i le go iawn a oedd yn cynnwys rheolaeth y gyfraith, ffiniau cyfreithiol, a thiriogaeth ddiffiniedig. Fel y dadleuodd Bowen (2022, t. 9), rhoddodd y Deddfau hunaniaeth gorfforaethol i Gymru am y tro cyntaf. Ymhell o 'ladd' Cymru, mae'n bosibl mai'r Deddfau Uno wnaeth greu Cymru. Dywedodd Morrill (1996, t. 10):

*the later Middle Ages [prepared] the way for Tudor political incorporation. Even the Welsh-speaking people of Wales recognised themselves as the descendants of the original settlers of Britain; and there is no strong evidence that between the sixteenth and twentieth centuries they wished to be politically detached from the British state or from a dynasty that so assiduously proclaimed in Welsh and English its Welsh/British origin. The Welsh accepted – often welcomed – incorporation in the English state.*

Canlyniad mawr olaf y Deddfau Uno oedd eu heffaith ar yr iaith Gymraeg (a'r rheswm pennaf pam y syniwyd amdani gan rai fel gweithred angheuol i Gymru). Er mai'r bwriad oedd rhoi cydraddoldeb cymharol i drigolion Cymru o flaen y gyfraith, fe wnaeth y Deddfau ffrwyno darpariaeth Gymraeg yn y llysoedd. Yn ôl Statud Cymru 1536:

*Sessions courts, hundred-leets, sheriffs' courts and all other courts shall be proclaimed and kept in the English tongue, and all oaths of officers, juries and inquests and all other affidavits, verdicts and wagers of law shall be given and done in the English tongue, and that henceforth no person or persons that use the Welsh speech or language shall have or enjoy any manner of office or fees within this realm of England, Wales or other the King's Dominions, upon pain of forfeiting the same offices or fees unless, he or they use and exercise the speech or language of English (HC Deb, 13 Oct 1942).*

Roedd yn ymddangos mai cyfleustra yn hytrach na gelyniaeth oedd yr ysgogiad y tu ôl i'r penderfyniad hwn. Roedd gan siaradwyr Cymraeg hawl i gymryd swyddi, roedd gan siaradwyr Cymraeg hawl i dderbyn cynrychiolaeth gyfreithiol yn y llys ac roedd gan siaradwyr Cymraeg hawl i eistedd ar reithgorau. Os mai malais yn wir oedd yr ymresymiad y tu ôl i'r Deddfau hyn, byddai disgwyl i bob siaradwr Cymraeg, boed yn uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog, gael ei wahardd o bob swydd. Fel y mae David Williams (1950, t. 38) yn nodi'n briodol:

*to assume that those who framed this legislation had any deliberate intent to suppress the Welsh language would be to attribute to them the ways of thought of a later age. National consciousness in Europe was still far too indefinite and ill-defined for this to have been possible.*

Ymhellach, mae Cymru'n bodoli hyd heddiw, ac nid oedd gostyngiad amlwg yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y cyfnod hwn. A dweud y gwir, cynorthwyodd llinach y Tuduriaid goroesiad y Gymraeg trwy argraffu'r Beibl yn Gymraeg yn 1588.

I gloi, yn hytrach nag hoelen yn arch Cymru, roedd y Deddfau Uno a ddeddfwyd gan y Tuduriaid, am gyfnod, yn ddatblygiad cymharol flaengar ym mywyd Cymru. Mewn gwirionedd, dadleuodd Wilks (2021, t. 7) fod y Deddfau'n golygu bod Cymru wedi symud o gyfnod diwedd y canoloesoedd i'r byd modern cynnar. Yn ddiaw, roedd achau Cymreig Harri Tudur wedi bod yn hwb i'r blaengaredd hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig gosod y cyfnod hwn yn ei gyd-destun hanesyddol ehangach. *Dim ond mewn perthynas â'r tair canrif o amddifadedd a'u rhagflaenodd y gellir ystyried y Deddfau Uno yn flaengar. O'u cymharu â'r codau penydiol a oedd yn eu hanfod yn gwneud y Cymry yn ddinasyddion eilradd yn eu gwlad eu hunain, ac a olygai na allent gymryd rhan lawn a rhydd mewn bywyd economaidd, mae'n rhaid bod y Deddfau Uno - a theyrnasiad Harri Tudur - wedi bod yn agoriad llygad. Fodd bynnag, ni chafodd y cod cyfreithiol newydd hwn y gefnogaeth y byddai system gynhenid wedi'i chael. Ni fyddai'r Cymro cyffredin, a oedd dal yn uniaith, wedi gallu deall y gyfraith. Dau beth cwbl wahanol yw cael hawliau a'r gallu i arfer yr hawliau hynny. Mae'n debygol bod llawer yn gweld hwn yn fodd o dwyllo'r Cymry o'u hawliau (Williams, 1950, t. 38). Mae gwaddol y Deddfau Uno, a'r Tuduriaid, fel pob hanes, yn llawn gwrthgyferbyniad. Roedd gan y ddau Harri fwy o ddi-ddordeb mewn grym a bri na helpu'r Cymry, ond mae'n wir hefyd bod dylanwad y ddau ar Gymru yn gymharol fwyn. Fodd bynnag, rhaid hefyd ystyried yr hyn a ddaeth o'r blaen; yn haniaethol roedd y Deddfau Uno yn orfodaeth allanol ar bobl Cymru, ond o ran realiti materol Prydain yn yr 16eg Ganrif roeddent yn rym cadarnhaol.*

## Genedigaeth Cyfalafiaeth

Er bod yr astudiaeth achos hon yn ymdrin yn benodol â rôl Cymru o fewn y system-fyd, mae'n bwysig dirnad mai dim ond un rhan o'r cyfan yw Cymru. Er mwyn deall safle Cymru o fewn y system-fyd, rhaid inni hefyd ddeall sut mae'r system-fyd wedi newid dros amser. Fel y dadleuwyd yn y bennod 'Dadansoddiad Systemau'r Byd', arweiniodd dyfodiad cyfalafiaeth at system-fyd newydd a ehangodd dros amser ar draws y byd cyfan. Mae dadansoddiad, felly, o sut y datblygodd cyfalafiaeth, ac arwain at ein system-fyd bresennol yn angenrheidiol cyn gosod Cymru yn gysyniadol o fewn y system-fyd honno.

Mae dadleuon ynghylch gwraidd cyfalafiaeth wedi bod yn rhan bwysig o hanesyddiaeth a hanes economaidd Marcsaidd a neo-Farcsaidd. Daeth y drafodaeth hon i'r amlwg yn gyntaf yn y 1950au gyda'r hyn a elwir bellach yn ddadl Sweezy-Dobb. Yn ei hanfod, priodolodd Sweezy enedigaeth cyfalafiaeth i dwf y farchnad tra bod Dobb yn gweld gwraidd cyfalafiaeth yn benodol yn Lloegr (Sweezy a Dobb, 1950). Ail-daniwyd y diddordeb yn y maes hwn yn y 1970au, gyda Robert Brenner yn ymhelaethu ar waith Maurice Dobb. Dadleuodd bod gwraidd cyfalafiaeth i'w ganfod yn y newid yn y berthynas ddosbarth yn Lloegr yn yr 16eg Ganrif, yn enwedig yng nghefn gwlad.<sup>54</sup> Fe'i hadwaenir bellach fel Thesis Brenner. Dywedodd Brenner (1976, t. 47):

*We will contend that the breakthrough from "traditional economy" to relatively self-sustaining economic development was predicated upon the emergence of a specific set of class relations in the countryside, that is capitalist class relations. This outcome depended, in turn, upon the previous success of a two-sided process of class development and class conflict: on the one hand the destruction of serfdom; on the*

---

<sup>54</sup> Cyfeirir at Loegr yn benodol, yn hytrach na Chymru a Lloegr.

*other hand, the short-circuiting of the emerging predominance of small peasant property.*

Cyn mentro ymhellach, mae angen rhoi sylw i ddau bwynt pwysig. Yn gyntaf, mae'n hanfodol diffinio cyfalafiaeth a sut mae'n wahanol i'r cyfnodau economaidd blaenorol. Yn ail, rhaid gwrthbrofi'r ddadl bod cyfalafiaeth wedi datblygu o 'oruchafiaeth' y system economaidd a chymdeithasol yng ngorllewin Ewrop – a eglurwyd yn fwyaf enwog gan Max Weber (2002 [1905]). Ni ddylid priodoli datblygiad cyfalafiaeth i lefel uwch o ddatblygiad, ond yn hytrach un canlyniad posibl o'r cysylltiadau cymdeithasol penodol oedd yn bodoli yn Ewrop yn ystod, ac ar ôl, yr 16eg Ganrif. O edrych yn ôl, mae'n ymddangos bod cymhelliad i gredu bod datblygiad cyfalafiaeth yn anochel, ei bod hi'n anorfod y byddai'n datblygu ac 'aeddffedu' a bod ei oruchafiaeth yn ganlyniad naturiol. Ond i aralleirio Ursula Le Guin, mae pŵer cyfalafiaeth yn ymddangos yn anochel, ond felly hefyd hawl ddwyfol Brenhinoedd. Ni fyddai'r rhai a oedd yn byw o dan y dull ffiwdal o gynhyrchu, sef system economaidd a oedd wedi bodoli ers canrifoedd, wedi disgwyl iddi ddod i ben.

Dadleuodd Adam Smith (2012 [1776], t. 25) yn *Wealth of Nations* fod "the propensity to truck, barter and exchange one thing for another... is common to all men, and to be found in no other race of animals". Gan hepgor y ffaith bod anifeiliaid eraill fel mwncïod macai yn gallu ffeirio a chwblhau tasgau economaidd elfennol (Brotcorne, et al., 2017), mae'r dyfyniad hwn gan Adam Smith yn cyfuno dau beth gwahanol. Mae anthropolegwyr wedi dadansoddi tueddiad dyn i gyfnewid a ffeirio trwy gydol y cyfnod 'cynhanes',<sup>55</sup> gan gynnwys yn yr Aegean (Michailidou a Dogan, 2008), Gogledd America (Carlson, 1994) (Braun a Plog, 1982), a Sgandinafia (Jaanusson a Jaanusson, 1988). Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod tuedd tuag at gyfalafiaeth fel y diddwythir yn aml o'r dyfyniad hwn. Nid yw presenoldeb trwco,

---

<sup>55</sup> Diffinir yma fel y cyfnod cyn cofnodion ysgrifenedig.

ffeirio a chyfnewid yn rhagdybio presenoldeb cyfalafiaeth. Mae awgrymu bod masnach yn arwain at gyfalafiaeth mewn taflwybr syml yn gyfystyr â gweld yr Holosen (Holocene) gyfan fel trawsnewidiad teleolegol, rhagordeiniedig i gyfalafiaeth. Yn ogystal, mae cyfuno masnach â chyfalafiaeth - neu o leiaf fel rhagofyniad a chyfnod cyntaf cyfalafiaeth - yn gyfystyr â gweld hanes lleoedd fel dinas-wladwriaethau'r Eidal fel methiant wrth drawsnewid i gyfalafiaeth, yn hytrach na'u gweld fel cymdeithasau cyn-gyfalafol hynod lwyddiannus.<sup>56</sup>

Roedd masnach yn y cyfnod cyn-gyfalafol yn seiliedig ar fasnachwyr yn prynu nwyddau mewn un lleoliad a'u symud i gael eu gwerthu am elw mewn lleoliad arall, mae hyn yn wahanol i gyfalafiaeth sydd angen marchnad *sengl*. Roedd masnach cyn-gyfalafol yn seiliedig ar y ffaith nad oedd marchnad unedig yn bodoli; gallai masnachwyr 'brynu'n rhad' a 'gwerthu'n ddud' gan eu bod yn symud nwyddau o un farchnad i'r llall. Er enghraifft, wrth egluro pam nad oedd Dinas-wladwriaethau'r Eidal yn gyfalafol, mae Wallerstein (2011, tt. 19-21) yn cyfeirio at yr union bwynt hwn:

*A merchant class came from ... resident agents of long-distance merchants (based often in northern Italian city-states and later in the Hanseatic cities) who capitalized on poor communications and hence high disparities of prices from one area to another, especially when certain areas suffered natural calamities. ... Feudalism as a system should not be thought of as something antithetical to trade. On the contrary, up to a certain point, feudalism and the expansion of trade go hand in hand. ... The possibility of convergence, up to a certain stage of development only, of the development of feudalism and of commerce. ... Yet a feudal system could only support a limited amount of long-distance trade as opposed to local trade. This was because long-distance trade was a trade in luxuries, not in bulk goods. It was a trade which benefited from price disparities and depended on the political indulgence and*

---

<sup>56</sup> Gweler penodau: 'System Dinas-Wladwriaeth yr Eidal' a 'Y System Dinas-Wladwriaeth o'r 15eg Ganrif'.



*economic possibilities of the truly wealthy. It is only with the expansion of production with the framework of a modern world-economy that long-distance trade could convert itself in part into bulk trade which would, in turn, feed the process of expanded production.*

Mae cyfalafiaeth ar y llaw arall yn seiliedig ar gynhyrchu'n fwy cost-efeithiol mewn cystadleuaeth uniongyrchol ag eraill yn yr un farchnad (Wood, 2002, t. 78). Yn y bôn, roedd masnach yn y cyfnod hwn yn seiliedig ar *gylchrediad* yn hytrach na *chynhyrchiant*. Nid oedd gan fasnachwyr ddiddordeb mewn cynhyrchu nwyddau, ond yn hytrach eu cylchrediad i farchnadoedd eraill. Y ffaith bod y marchnadoedd wedi'u rhannu'n ddaearyddol ac yn wleidyddol oedd ffynhonnell cyfoeth masnachol.

Roedd masnach cyn-gyfalafol, a greodd bwerau masnachol mawr Fôr y Canoldir yn seiliedig ar werthu'r nwyddau hynny a oedd yn cyd-fynd ag anghenion phatrymau defnydd tîrffedianwyr elit, yr un elit oedd a'u grym yn seiliedig ar weithgareddau a hawliau all-economaidd (extra-economic), yn hytrach na grym economaidd yn unig. Roedd hyn yn rhannol gyfrifol pam y bu urddau crefftwyr gogledd yr Eidal, trwy eu harbenigedd a nwyddau o ansawdd uwch, mor llwyddiannus yn y 12fed-15fed Ganrif, ond yn ddiweddarach cawsant eu tanseilio gan fasnachwyr brethyn o'r Iseldiroedd a Lloegr. Roedd cynnyrch o'r Iseldiroedd a Lloegr o ansawdd is ond yn bodloni angen dosbarth newydd oedd yn dod i'r amlwg: y llafurwr heb dir. Mewn cymdeithas gyn-gyfalafol, roedd gan werinwyr fynediad at ddulliau cynhaliaeth ac atgynhyrchu eu hunain: y tir.

Dosbarth landlordiaid oedd y dosbarth aristocrataidd yn Lloegr – fel yn Ewrop yn gyffredinol – oedd yn rhannu eu hystadau ac yn rhentu lleiniau o dir i'r werin fel tenantiaid, fel arfer dros gyfnod o dair cenhedlaeth. Byddai'r gwerinwyr hyn yn tyfu eu bwyd eu hunain ac yn cynhyrchu llawer o'u nwyddau bob dydd megis dillad (sy'n esbonio pam fod y diwydiant dillad yn bodoli'n gyffredinol ar gyfer yr uchelwyr a'r pendefigion). Byddent hefyd yn gwerthu neu'n masnachu unrhyw

warged yn y farchnad leol. Byddai'r landlord yn cymryd yr hyn oedd yn 'ddyledus' iddo drwy ddulliau all-economaidd. Byddai arglwydd y faenor yn dibynnu ar echdynnu gwerth gwarged (surplus value) ar ffurf rhenti, treth, gorfodaeth, neu rym trwy rinwedd ei swydd fel arglwydd yn hytrach na thrwy ddibynnu ar y byd economaidd a'r farchnad. Dangosodd Brenner (1986, tt. 31-32) yr anhawster o ran echdynnu gwerth dros ben yn y cyfnod Ffiwdal a'i ddibyniaeth ar ddulliau all-economaidd, gan ddadlau:

*Given the difficulty, in the presence of pre-capitalist property relations, of raising returns from investment in the means of production (via increases in productive efficiency), the lords found that if they wished to increase their income, they had little choice but to do so by redistributing wealth and income away from their peasants or from other members of the exploiting class. This meant that they had to deploy their resources toward building up their means of coercion – by investment in military men and equipment. Speaking broadly, they were obliged to invest in their politico-military apparatuses. To the extent that they had to do this effectively enough to compete with other lords who were doing the same thing, they would have had to maximise both their military investments and the efficiency of these investments. They would have had to attempt, continually and systematically to improve their methods of war. Indeed, we may say that the drive to political accumulation, to state-building is the pre-capitalist analogue to the capitalist drive to accumulate capital.*

Roedd cyfalafiaeth ar y llaw arall yn wahanol oherwydd:

*only in capitalism is the dominant mode of appropriation based on the complete dispossession of direct producers, who (unlike chattel slaves) are legally free and whose surplus labour is appropriated by purely 'economic' means. Because direct producers in a fully developed capitalism are propertyless, and because their only access to the means of production, to the requirements of their own reproduction, even to the means of their own labour, is the sale of their labour-power in exchange for a wage, capitalists can appropriate the workers' surplus labour without direct coercion.*

*This unique relation between producers and appropriators is, of course, mediated by the 'market'. Markets of various kinds have existed throughout recorded history and no doubt before, as people have exchanged and sold their surpluses in many different ways and for many different purposes. But the market in capitalism has a distinctive, unprecedented function (Wood, 2002, t. 96).*

Yn ei hanfod, swyddogaeth ddigynsail cyfalafiaeth yw troi popeth yn nwydd, hyd yn oed anghenion sylfaenol bywyd. Mae cynhyrchu *pethau* yn newid o orfodaeth neu reidrwydd (er enghraifft cynhyrchu bwyd i'w fwyta, neu ddillad i'w gwisgo) i sefyllfa lle mae cynhyrchu yn hanfodol ynddo'i hun, yn enwedig cronni, effeithlonrwydd a marchnata'r cynhyrchiad hwnnw. Yn y bôn, gall rhyw fath o farchnad, yn yr ystyr o ffeirio a chyfnewid, fod yn "common to all man", ond yn sicr nid yw *dibyniaeth* ar y farchnad yn gyffredin, ac mae ynghlwm wrth gyfnod penodol.

## Seiliau Cyfalafiaeth Amaethyddol

Gyda dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng cyfalafiaeth a'r cyfnod ffiwdal, mae modd dadansoddi'r amodau yn Lloegr a oedd yn sail i dwf cyfalafiaeth. Roedd llawer o'r prosesau a ddisgrifiwyd yn gynharach yn help yn anuniongyrchol i baratoi'r ffordd ar gyfer cyfalafiaeth. Nodwyd eisoes bod Lloegr erbyn yr 16eg Ganrif yn wladwriaeth ganolog ac unedig dan frenhiniaeth absoliwtaidd. Roedd y rhan fwyaf o'r pwerau craidd yn system-fyd Ewropeaidd (megis Sbaen a Ffrainc) wedi'u huno dan frenhiniaeth ganolog, ond roedd eu sofraniaeth yn fwy rhanedig, gyda'r Arglwyddi yn parhau i ddal grym oddi fewn eu cylchoedd dylanwad eu hunain. Roedd y Tuduriaid ar y llaw arall wedi diddymu grym Arglwyddi'r Mers yn y Gorllewin ac Arglwyddi'r Gogledd, gan arwain at system gyfreithiol fwy cyfundrefnol o gymharu â systemau cyfreithiol tameidiog cyfandir Ewrop. Ffactor eilaidd a chysylltiedig oedd dad-filwreiddio'r dosbarth llywodraethol Seisnig (Kelly,


1984) (King, 2012). Roedd canoli grym yn golygu bod y dosbarth llywodraethol Seisnig yn dod yn fwyfwy dibynnol ar goron Lloegr i'w hamddiffyn ac am eu hawliau eiddo. O ganlyniad, colodd y dosbarth hwn eu dull all-economaidd o echdynnu gwerth dros ben trwy orfodaeth neu rym, gan eu harwain i ddibynnu ar ddulliau economaidd pur o echdynnu gwarged. Arweiniodd hyn at gyflwyno rhesymeg economaidd newydd i gefn gwlad Lloegr. Roedd yn rhaid i'r dosbarth aristocrataidd, a oedd yn dal i fod yn *berchen* ar y tir a oedd yn cael ei ffermio, newid eu ffordd o dynnu gwerth gwarged o'r tir hwnnw. Fel y nododd Meiksins Wood (2002, t. 100):

*the relatively weak extra-economic powers of landlords meant that they depended less on their ability to squeeze more rents out of their tenants by direct, coercive means than on their tenants' success in competitive production. Agrarian landlords in this arrangement had a strong incentive to encourage - and, wherever possible, to compel - their tenants to find ways of reducing costs by increasing labour-productivity. In this respect, they were fundamentally different from rentier aristocrats, who throughout history have depended for their wealth on squeezing surpluses out of peasants by means of simple coercion, enhancing their powers of surplus extraction not by increasing the productivity of the direct producers but rather by improving their own coercive powers - military, judicial, and political. As for the tenants, they were increasingly subject not only to direct pressures from landlords but also to market imperatives that compelled them to enhance their productivity. English tenancies took various forms, and there were many regional variations, but a growing number were subject to economic rents - rents fixed not by some legal or customary standard but by market conditions. There was, in effect, a market in leases. Tenants were obliged to compete not only in a market for consumers but also in a market for access to land. The effect of this system of property relations was that many agricultural producers became market-dependent in their access to land itself, to the means of production. Increasingly, as more land came under this economic regime, advantage in access to*

*the land itself would go to those who could produce competitively and pay good rents by increasing their own productivity. This meant that success would breed success, and competitive farmers would have increasing access to even more land, while others lost access altogether.*

Cyn newid y cymhelliad elw a'r modd yr echdynnwyd gwerth dros ben, roedd rhentu yn yr oes ffiwdal yn seiliedig ar y system copihowld. Roedd telerau'r system hon yn ôl y ddefod, dros genedlaethau yn gyffredinol, ac yn cael eu diogelu rhag codiadau mawr mewn rhent. Fodd bynnag, yr arglwydd oedd perchennog cyfreithiol y tir. Roedd y system hon am y rhesymau a drafodwyd uchod yn anghynladwy, gan arwain landlordiaid i chwilio am renti llawer uwch, i waredu tenantiaid bach o'u tir a rhentir (Byres, 2009, t. 40).

Mae'r data ystadegol sydd ar gael yn cefnogi'r ddamcaniaeth hon. Mapiodd Clark (2002, t. 304) y berthynas rhwng cyflogau a rhent. Yr hyn sy'n dod i'r amlwg o ffigur 43 yw ymchwydd mawr mewn gwerth rhent o'i gymharu â chyflogau ar ddiwedd yr 16eg Ganrif, gyda lefelau'n parhau'n gymharol sefydlog hyd nes gwelwyd rhagor o gau tiroedd a datblygiad diwydiannol ar ddiwedd y 18fed ganrif.



*Ffigur 43: Gwerthoedd Rhentu Tir mewn perthynas â Chyflogau, 1500-1912. Ffynhonnell: (Clark, 2002, t. 302).*

Mae'n bosibl bod yr uchod yn dangos gostyngiad mawr mewn cyflogau ar ddiwedd yr 16eg Ganrif, yn hytrach na chynnydd mewn rhent. Fodd bynnag, disgrifiodd Barrington Moore (1966, t. 9) "rental boom" y cyfnod, ac mae ymchwil Kerridge (1953, t. 28) hefyd yn cadarnhau'r ddamcaniaeth bod rhenti wedi cynyddu'n sylweddol. Dengys Ffigur 44 fod prisiau nwyddau amaethyddol wedi codi rhwng 1510 a 1659 - ac weithiau'n eithaf syfrdanol - ond mae'r codiadau prisiau hyn yn ddim o gymharu â'r cynnydd mewn rhent dros yr un cyfnod. Mae'n ymddangos felly bod y newid yn y gymhareb gyflog/rhent i'w briodoli'n fwy i gynnydd mewn rhent yn hytrach na gostyngiad mewn cyflogau. Fel y nododd Tawney (1912, tt. 188-189) yn ei waith arloesol ar y Broblem Amaethyddol yn Lloegr yn Oes y Tuduriaid:

*The Tudor discipline, with its stem prohibition of livery and maintenance, its administrative jurisdictions and tireless bureaucracy, had put down private warfare with a heavy hand, and, by drawing the teeth of feudalism, had made the command of money more important than the command of men. It is easy to underrate the significance of this change, yet it is in a sense more fundamental than any other; for it marks the transition from the medieval conception of land as the basis of political functions and obligations to the modern view of it as an income-yielding investment. Landholding tends, in short, to become commercialised.*

Decade	Rents on new takings	Wheat prices	Barley prices	Wool prices
1510-9	100	100	100	100
1520-9	95	127	112	93
1530-9	202	123	133	110
1540-9	210	154	147	129
1550-9	308	253	320	171
1560-9	349	263	214	167
1570-9	435	288	233	202
1580-9	329	329	353	188
1590-9	548	455	415	262
1600-9	672	435	468	262
1610-9	829	495	501	Fell to about 175 in
1620-9	699	513	437	1610-25; rose to
1630-9	881	612	557	about 233 1625-50;
1640-9	649	654	516	fell to about 117 in
1650-9	845	573	452	period 1650-85

*Ffigur 44: Rhenti a Phrisiau Amcangyfrifedig 1510-1659. Ffynhonnell: (Kerridge, 1953, t. 28).*

Roedd cyflwyno grymoedd y farchnad i amaethyddiaeth a rhenti yn golygu bod y ffermwyr hynny a oedd yn 'anghynhyrchiol' yn colli eu modd o gynhaliaeth ac atgynhyrchu fel dosbarth. Roedd eu tiroedd yn cael eu rhentu i'r ffermwyr hynny oedd wedi profi eu bod yn gallu gweithio'n fwy cynhyrchiol gan sicrhau rhenti

uwch i'r landlord a gwarged uwch i'r tenant. Creodd y cynnwrf a'r gorchmynion newydd hyn strwythur dosbarth newydd yn Lloegr, gwelwyd tîrfeddianwyr pwerus, tenantiaid cyfalafol a thwf mawr - am y tro cyntaf - mewn dosbarth heb eiddo; gwelwyd am y tro cyntaf, gweithwyr cyflogedig a oedd yn dibynnu ar eu gallu i werthu eu pŵer llafur. Trwy'r broses hon crëwyd:

*a highly productive agriculture capable of sustaining a large population not engaged in agricultural production, but also an increasing propertyless mass that would constitute both a large wage-labour force and a domestic market for cheap consumer goods - a type of market with no historical precedent. This is the background to the formation of English industrial capitalism (Wood, 2002, t. 103).*

Y rhai na wnaeth elwa o'r newidiadau hyn oedd y werin, a buont yn brwydro yn eu herbyn yn chwyrn, ond nid oherwydd rhyw frwdfrydedd at yr hen drefn, ond oherwydd eu bod yn deall mai arferiad a thraddodiad oedd y clawdd a allai eu hamddiffyn rhag y llifogydd cyfalafol goresgynnol nad oeddent prin mewn sefyllfa i elwa ohono (Moore, 1966, t. 12). Fel y mae Wallis et al. (2018, t. 871) yn dangos, ar ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, roedd tua 66 y cant o weithlu Lloegr yn gweithio mewn amaethyddiaeth. Erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, fodd bynnag, roedd cyfran y gweithlu mewn amaethyddiaeth wedi gostwng tua thraean i 43 y cant. Dros yr un cyfnod, roedd cyfran y gweithlu mewn diwydiant wedi cynyddu o 22 y cant i 31 y cant, tra bod y gyfran mewn gwasanaethau wedi mwy na dyblu o 12 y cant i 26 y cant. Fel y dadleuodd Wallerstein (1972, t. 100):

*Men were forced off the land rather than forced to stay on it. Some went to the cities, as they were to go in the later enclosures of the eighteenth century, to become proletarians. But many more went in the sixteenth century to newly-colonized forest areas where they became the unemployed and underemployed available for the new rural industries, the wage-laborers of an increasingly commercial agriculture, and the vagabonds and brigands of which Elizabethan literature is so full.*



## Rhannau o'r Cyfan a'r Rhannau Cyfan: Y System-Fyd a Chyfalafiaeth Amaethyddol

Mae Thesis Brenner yn amlygu'r prosesau economaidd a chymdeithasol a oedd yn digwydd yn Lloegr – neu efallai'n fwy cywir – yn Ne-ddwyrain Lloegr yn yr 16eg Ganrif. Mae'r traethawd ymchwil hwn yn dadlau bod dadansoddiad Brenner o'r amodau newidiol yn Lloegr yn amhrisiadwy wrth ddadansoddi gwreiddiau cyfalafiaeth. Fodd bynnag, un gwreiddyn yn unig yw'r amodau newidiol yn Lloegr. Mae gan gyfalafiaeth gyfres o strwythurau cymdeithasol ac economaidd cydgysylltiedig, sy'n atgyfnerthu a chryfhau'r system ehangach. Mae thesis Brenner yn llywio ein dealltwriaeth o'r strwythurau newidiol yn Lloegr, ond nid yw'n gallu ateb *pam* y digwyddodd y newidiadau hyn ar yr adeg hynny, na pham y bu modd allforio'r newidiadau hyn ledled y byd. Dim ond un rhan o'r cyfan yw datblygiad cyfalafiaeth yn Lloegr. Bydd gweddill yr adran hon yn dadlau bod dadansoddiad system-fyd yn taflu goleuni nid yn unig ar y rhannau, ond ar y cyfan hefyd.

Cyfeiriodd Brenner (1982, t. 29) at sefydlogrwydd cymharol y system ffiwdal:

*In the economy which characterized most of medieval Europe, production was, as a rule, carried out by peasants in "possession" of the land and tools required to produce their subsistence. Because peasants actually did hold relatively stable and relatively uncontested possession of their means of subsistence, their reproduction required no economic intervention or productive contribution by the lords. As a result, mere ownership of other land (demesne) by the lords was sufficient for them to realize a surplus from the peasants; for peasants were under no economic compulsion to work for a wage on the lords' land or to pay an economic rent to lease it. In order secure a rent - that is, to get the peasants to hand over part of the labour or their product - the lords had to be able to exert control over the peasants' persons. This was made possible by virtue of the lords' capacity to exercise force directly.*

Er gwaethaf sefydlogrwydd cymharol y system ffiwdal, mae Brenner yn cyfaddef bod cyfnodau trwy gydol yr Oesoedd Canol pan oedd brwydro dosbarth difrifol rhwng y werin neu'r taeogion ar y naill law a'r Arglwyddi Ffiwdal ar y llaw arall. Yr enwocaf o'r rhain oedd Gwrthryfel y Gwerinwyr – neu Wrthryfel Wat Tyler – yn 1381. Ail-luniodd canlyniadau'r gwrthryfeloedd hyn y cydbwysedd grym o blaid un dosbarth yn erbyn y llall, ond ni wnaethant newid system economaidd na chymdeithasol sylfaenol ffiwdaliaeth. Ymhellach, dadleuodd Brenner (2001, t. 178) nad oedd yn orchmynnol i'r werin wneud yr elw mwyaf posibl yn y gymdeithas ffiwdal. Dywedodd:

*Precisely by virtue of their possession of the means of subsistence, peasants found themselves shielded from competition on the market, and thus freed from that necessity to maximize exchange value competitively in order to survive that would have been imposed upon them had they owned only some of the means of subsistence (say, plant and equipment and labor power, but not land) and been obliged to purchase the remainder on the market (say, through leasing and paying a commercial rent for their farms). This insulation from competition was fundamental, for it allowed peasants to find goals other than exchange value maximization to be in their own interest. Of course, all else equal, peasants must have wished to maximize the gains from trade, for doing so would have given them the best return for their labor and other inputs. But, all else was not equal. In view of their restricted resources, their small plots and limited investment funds, as well as the nature of the broader economy around them, they could not find it in their self-interest to attempt to appropriate all of the gains from exchange theoretically available to them.*

Nid yw Thesis Brenner, ar ei ben ei hun, yn gallu egluro beth oedd yn wahanol yn yr 16eg Ganrif a arweiniodd at orchmynion a chymelliadau economaidd newydd; newidiwyd rhesymeg economaidd cymdeithas, nid yn unig nerth neu wendid pob dosbarth o fewn y gyfundrefn honno. Mae'n rhaid bod *rhywbeth* yn wahanol am yr argyfwng newydd hwn i'r byd ffiwdal.

I ddechrau, drwy weld datblygiadau cyfalafiaeth i raddau helaeth fel rhai mewnol i Loegr - heb sôn am orllewin Ewrop - nid yw Brenner yn ystyried pwysigrwydd 'darganfyddiad' yr Americas, nid yn unig o ran creu'r system-fyd, ond hefyd o ran creu hegemoni Ewropeaidd, ac felly hegemoni cyfalafol. Daeth yr Americas yn ffynhonnell grym llafur, adnoddau, marchnad ehangach, bwliwn ar gyfer hylifedd cyfalaf, a'r cronïad cyntefig o gyfalaf oedd ei angen ar Ewrop. Fel y dadleuodd Blaut (1992, tt. 355-356):

*The date 1492 represents the breakpoint between two fundamentally different evolutionary epochs. The conquest of America begins, and explains, the rise of Europe. It explains why capitalism rose to power in Europe, not elsewhere, and why capitalism rose to power in the 17th century, not later. Fourteen ninety-two gave the world a centre and a periphery.*

*After 1492, Europeans came to dominate the world, and they did so because 1492 inaugurated a set of world-historical processes which gave to European proto-capitalists enough capital and power to dissolve feudalism in their own region. ... By the end of the 17th century, 200 years after 1492 capitalism (or capitalists) had risen to take political and social control of a few Western European countries, and colonial expansion had begun decisively in Africa and Asia. Europe was now beginning to dominate the world and to lead the world in level and pace of development. The world's landscapes were now uneven. They have remained so ever since.*

Mae Samir Amin (2010, t. 141) yn cytuno â phwysigrwydd 1492, a dadleuodd fod yr hyn a ddilynodd yn ansoddol wahanol. Dywed nid yw sefydlu system newydd o gysylltiadau craidd-perifferi rhwng Ewrop yr Iwerydd ac America yn ailadroddiad o ehangu masnach yn y cyfnodau cynharach. Nid yw America yn 'masnachu' ag Ewrop; mae wedi'i fowldio i gael ei integreiddio fel perifferi y mae Ewrop yn ei hecsbloetio'n economaidd. Fel y dadleuodd Acemoglu, Johnson a Robinson (2005, t. 44):

*The Rise of Europe between 1500 and 1850 was largely the rise of nations engaged in Atlantic trade and colonialism, and the rise of Atlantic ports. This fact has important consequences for theories of European growth. In particular, it appears that successful theories must give a prominent role to "Atlantic trade" and deemphasize the continuation of pre-1500 trends and permanent European characteristics, such as religion, Roman heritage or European culture. Instead, the interaction between these factors and the opportunity to trade in the Atlantic appears to have been crucial for the Rise of Europe. ... This period of the "First Great Divergence" likely laid the seeds of the Industrial Revolution and European industrialization as well as of modern capitalism.*

Roedd tarddiad – neu wreiddiau – cyfalafiaeth felly, nid yn ffenomen genedlaethol, ond, yn hytrach, yn un rhyng-gymdeithasol (Anievas a Nisancioglu, 2013, t. 84). Mae'r tarddiad i'w ganfod yn nhrawsnewidiad y system-fyd, ac nid yn benodol i newidiadau mewn cymdeithasau cenedlaethol. Ni ellir lleoli trawsnewidiad o'r maint hwn mewn diwrnod, mis, neu flwyddyn. Mae'n gyfnod pontio. Mae hynny'n golygu bod y trawsnewidiad yn cynnwys llu o newidiadau rhannol, mawr a mân, sy'n cynnwys wrth gwrs y dyrchafiad i rym mewn gwladwriaethau Ewrop ond ni ellir ei grynhoi i'r newid hwn mewn pŵer yn unig (Wallerstein, 1976, t. 281). Nid oedd y strwythur dosbarth a'r dull cynhyrchu newidiol yn Lloegr yn rhagfynegi mai cyfalafiaeth fyddai'r prif ddull economaidd o gynhyrchu yn y system-fyd. Fel yr awgrymodd Blackburn (1997, t. 374):

*the oxygen required by the European furnace of capitalist accumulation, if it was not to succumb to auto-asphyxiation, was supplied by the slave traffic and the plantation-related trades.*

Un o'r ffyrdd y cafodd yr "ocsigen" hwn ei gyflenwi oedd trwy sefydlu a mwyngloddio metelau gwerthfawr. Erbyn 1561, roedd 85% o holl gynnyrch arian y byd yn dod o'r Americas (Blaut, 1992, t. 374) ac erbyn 1640 awgrymir bod o leiaf 180 tonn o aur a 17,000 tonn o arian wedi dod i Ewrop o'r Americas (Hamilton,

1934). Fe wnaeth y bwliwn hwn helpu i gronni cyfalaf yn Ewrop trwy greu ffynhonnell fawr o gyfalaf arian ar gyfer masnachu gyda'r Dwyrain, yn enwedig mewn sbeisys. Mewn amser, roedd y mewnlifiad arian, ynghyd â'r gwerth uchel a roddir ar y bwliwn hwn yn y Dwyrain, wedi galluogi Ewropeaid i fonopoleiddio masnach gwledydd Asiatig ac israddio eu heconomïau, a thrwy hynny osod seiliau goruchafiaeth Ewropeaidd a gwladychiaeth yn y rhanbarth. Yn y pen draw, roedd yr oruchafiaeth hon yn galluogi'r Ewropeaid i sianelu cyfoeth ac adnoddau o bob cornel o'r cyfandir hwnnw yn ôl i Ewrop (Anievals a Nisancioglu, 2013, t. 98).

Ffactor arall i'w ystyried yw pwysigrwydd llafur caethweision ar ôl 'darganfyddiad' yr Americas ar gyfer datblygiad cyfalafol. Roedd y system hon nid yn unig yn helpu i gyflenwi adnoddau allweddol i'r broses ddiwydiannol, ond hefyd yn cynhyrchu'r marchnadoedd angenrheidiol ar gyfer twf cyfalafol. Fel y dadleuodd Kearney (2012, t. 130):

*Trade with the colonies became a new and important feature of the economies of the British Isles. The prosperity of London was in large measure built upon it. The rise of Liverpool, and Bristol was bound up with colonial trade, including the slave trade. Ireland, though excluded from full participation in the English mercantile system, enjoyed a burgeoning trade with the slave-based societies of the West Indies, which provided a market for Irish salt beef and lines. In Scotland, the rapid growth of the port of Glasgow was connected with the tobacco trade.*

Roedd llafur caethweision yn India'r Gorllewin (West Indies) yn cyflenwi siwgr a thybaco ar raddfa na ellid ei dirnad cyn hynny. Roedd trefedigaethau gogledd America yn darparu ffermydd rhad, coedwigoedd, bwyd a physgod. Yn eu tro, arweiniodd y cynhyrchion hyn at fantolen fasnach bositif â gwladwriaethau caethweision eraill fel Sbaen a Phortiwgal, oherwydd eu dulliau hŷn a hynafol o dyfu siwgr (Boxer, 1969). Talwyd y Prydeinwyr mewn bwliwn o Dde America a helpodd i droi Llundain yn ganolfan ariannol Ewrop. Roedd dolen gyswllt rhwng y metropol a'r trefedigaethau gan fod angen popeth o gadwyni haearn a hoelion, i

ddillad gwlân ar gyfer y caethweision, a phrynwyd y rhain o'r metropol. Byddai'r metropol yn bwydo'r arian hwn yn ôl i'r economi caethweision a byddai'r broses yn parhau. Wrth esbonio'r berthynas hon, dadleuodd Bergesen (2015, t. 151) nad oedd y berthynas hon yn ddwyochrog ond yn hytrach ei bod yn gylchol yn ei dull. Er enghraifft, mae Cynhyrchion Prydeinig -> Caethweision Affricanaidd -> Casglu Cotwm/ Triagl yn India'r Gorllewin/Gogledd America -> yn cael eu defnyddio i greu mwy o gynhyrchion Prydeinig. Wedi'i dangos fel perthynas Perifferi (P) a'r Craidd (C) byddai gennym **C-P-P-C**.

Fel y dadleuodd Brinley Thomas (1993, t. 38), caethwasiaeth a'r trefedigaethau oedd anadl einioes yr economi imperialaidd a chynhyrchwyd yr agweddau mwyaf deinamig o ehangu'r economi gan ofynion y trefedigaethau. Dadleuodd Eric Williams (2021 [1944], t. 52) yn ei waith arloesol *Capitalism and Slavery* fod twf cyfalafiaeth a chaethwasiaeth yn anwahanadwy. Dywedodd:

*The [slave] trade thereby gave a triple stimulus to British industry. The Negroes were purchased with British manufactures; transported to the plantations, they produced sugar, cotton, indigo, molasses and other tropical products; the processing of which created new industries in England; while the maintenance of the Negroes and their owners on the plantations provided another market for British industry.*

Mae Blackburn (2015, t. 20) yn cytuno ag Eric Williams, gan ddweud bod gallu'r masnachwyr i dalu arian da i brynu a chludo caethweision yn adlewyrchu cryfder y galw am arian mewn rhanbarthau o Ewrop lle'r oedd cyfalafiaeth yn lledu.

Ehangodd y niferoedd sydd bellach yn derbyn rhent, ffioedd, neu gyflogau yn y rhanbarthau hyn y farchnad yn ddramatig. Gallai eu pŵer prynu fynnu nwyddau egsoftig a hyd yn oed eu troi'n eitemau o ddefnydd bob dydd. Cyfeiriodd Rosa Luxemburg (2015 [1913], tt. 275-276) yn yr un modd at y ffaith bod ehangiad cyfalafol yn dibynnu ar dreiddiad cyfalafiaeth i ffurfiau hanesyddol an-gyfalafol 'adref' ac yn y Trefedigaethau. Dywedwyd fod cyfalafiaeth:

*is producing for a world market already from the word go. The various pioneering branches of capitalist production in England, such as the textile, iron, and coal industries, cast about for markets in all countries and continents, long before the process of destroying peasants' property, the decline of handicraft and of the old domestic industries within the country had come to an end.*

Mae hyn yn ailadrodd yr angen i beidio â gweld y rhyngwladol a domestig fel dau faes cynhyrchu ar wahân, neu ddilyn rhesymeg wahanol gyda'r naill neu'r llall. Mae pob rhan yn ymwneud â phob rhan arall o fewn y system-fyd ehangach.

I Wood (2002) a Brenner (1982), mae eu haerriad bod cyfalafiaeth wedi tarddu'n *gyfan gwbl* o newidiadau yng nghefn gwlad Lloegr wedi'i seilio ar ddiffiniad cyfyng o gyfalafiaeth. I Wood (2002, t. 96), nid yn unig gwerthu grym llafur rhydd yn y farchnad yw *prif* nodwedd ddiffiniol cyfalafiaeth, ond *unig* nodwedd cyfalafiaeth. Mae hyn felly yn rhagdybio nad yw masnach drefedigaethol yn bwysig i ddatblygiad cyfalafiaeth, ond fel y dadleuodd Amin (1974, t. 72), bydd cyfalafiaeth bob amser yn dilyn y llwybr rhwyddaf posib. Yn ffurfiannau'r perifferi, gwelir bod y system gyfalafol yn darostwng ac yn trawsnewid y lleill: mae'n eu hanffurfio, yn eu hamddifadu o'u swyddogaeth ac yn eu darostwng i'w heiddo ei hun, heb fodd bynnag eu chwalu a'u dinistrio'n llwyr. Fel ysgrifennodd Marx (2021 [1847]):

*Direct slavery is just as much the pivot of bourgeois industry as machinery, credits, etc. Without slavery you have no cotton; without cotton you have no modern industry. It is slavery that gave the colonies their value; it is the colonies that created world trade, and it is world trade that is the precondition of large-scale industry.*

Mae Brennerites, felly, wrth geisio 'dychwelyd' at uniongrededd Marcsaidd yn y pen draw yn bychanu Marx - a syniadaeth Farcsaidd - i fwlgariaeth economaidd. Mae'r system gyfalafol bob amser wedi dibynnu ar lafur 'an-rydd' - neu o leiaf di-dâl - boed hynny drwy gaethwasiaeth neu drwy waith yn y cartref. Roedd Marx (Marx a Engels, 1990 [1867], t. 915) ei hun yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd llafur di-dâl,

a'r rhan y chwaraeodd 'darganfyddiad' yr Americas yn natblygiad cyfalafiaeth. Eto, nid un gwraidd sydd i gyfalafiaeth, ond nifer o wreiddiau:

*The discovery of gold and silver in America, the expiration, enslavement, and entombment in mines of the indigenous population of that continent, the beginnings of the conquest and plunder of India, and the conversion of Africa into a preserve for the commercial hunting of blackskins, are all things which characterize the dawn of the era of capitalist production. These idyllic proceedings are the chief moments of primitive accumulation. ... The different moments of primitive accumulation can be assigned in particular to Spain, Portugal, Holland, France, and England, in more or less chronological order. These moments are systematically combined together at the end of the seventeenth century in England; the combination embraces the colonies, the national debt, the modern tax system, and the system of protection.*

Mae Brenner, ar adegau, yn cydnabod pwysigrwydd y rhyngwladol mewn datblygiadau mewnol. Er enghraifft, dadleuodd (1982, tt. 52-53) fod canoli'r system Seisnig – a oedd yn bwysig ar gyfer datblygiad cyfalafol diweddarach – yn deillio o undod yr uchelwyr Normanaidd, a osododd y patrwm ar gyfer esblygiad ffiwdal dilynol yn Lloegr. Roedd canoli ffiwdal yn Lloegr wedi'i fynegi'n drawiadol wrth wahardd rhyfela preifat, datblygiad a oedd yn annirnadwy o'r blaen ar y Cyfandir. Roedd y gwaharddiad hwn ar ryfela preifat yn golygu bod arglwyddi ffiwdal yn fwy dibynnol ar ddulliau economaidd, yn hytrach nag all-economaidd i echdynnu gwerth dros ben. Ymhellach, yn ei ddadansoddiad o'r Iseldiroedd, mae Brenner yn cyfeirio'n benodol at bwysigrwydd bwliwn Sbaenaidd o'r Americas i ddatblygu cyfalaf yr Iseldiroedd (Anievas a Nisancioglu, 2013, t. 98) a'r rôl a chwaraeodd grawn o'r Baltig yn nhrawsnewidiad yr Iseldiroedd i gyfalafiaeth. Dywedodd Brenner (2001, t. 69):

*The ability to complete successfully the cataclysmic transition from arable subsistence economy to market dependent, export-oriented economy was greatly facilitated by the spectacular growth of grain imports from the Baltic. From the end of the fifteenth*



*century, prices for grain in the northern Netherlands went from being the highest to being the lowest in Europe, as Amsterdam emerged as the central grain market in Europe. This made for a tremendous subsidy to living standards, facilitating the growth of discretionary spending and specialization. Cheap grain played an especially important role in enabling Dutch agriculture to successfully pursue its specialization for the world market in dairy production and cattle raising. Indeed, by the seventeenth century, in an economy in which perhaps half the population was out of agriculture, Dutch non-food grain exports were almost covering the full cost of grain imports.*

Nid yn unig y cyfeiriodd Brenner (1982, t. 67) at bwysigrwydd mewnforyn grawn ar gyfer datblygiad yr Iseldiroedd, mae hefyd yn dod i'r casgliad bod economi'r Iseldiroedd wedi colli tir i economi Lloegr erbyn y 18fed Ganrif oherwydd cost gynyddol mewnforyn. Felly, mae cysylltiad agos rhwng datblygiad *mewnol* a ffactorau *allanol*:

*although Dutch industry appears to have escaped the "seventeenth-century crisis" with relatively minor damage, its failure to sustain continued development through the eighteenth century appears to have been bound up to an important extent with an overwhelming dependence on overseas grain imports, which rose precipitately in price after 1750.*

Mae Brenner, felly, yn ymwybodol o bwysigrwydd y cyd-destun rhyngwladol wrth esbonio datblygiad cyfalafiaeth mewn gwahanol leoedd, ac yn fyd-eang. Mae ei haeriad, felly, mai dim ond un gwraidd neu sylfaen sydd i gyfalafiaeth yn ymddangos yn arbennig o amheus. Mae Brenner yn parhau i fod yn ffynhonnell amhrisiadwy i esbonio sut y datblygodd cyfalafiaeth *yn Lloegr*, ond nid i esbonio sut y crëwyd y *system-fyd* gyfalafol. Gan ddefnyddio'r enghraifft o drefedigaethau ymsefydlwyr, dadansoddodd Wallerstein (2011b, t. 103) sut roedd y lleol a'r byd-eang yn rhyngweithio i greu cyfuniadau newydd:

*Colonies in the Americas served two purposes. First, they were a source of so-called tropical produce – sugar, cotton, tobacco – that required a climate not available in most of Europe. The Caribbean was ecologically appropriate, and both Britain and France acquired colonies in this region for this end. The second and quite different function of colonies was as a market for manufactures and reexports. The tropical colonies were a weak market precisely because they tended to use coerced labor to keep down the costs of production. It took European settlers with a relatively high standard of living to create a large enough net collective income to serve this function.*

*England developed such colonies and France did not. Is the explanation that France needed markets less or that she found her markets in different places? Once again, we return to the factor of size. Was not France able to sell more of its products internally? England needed Europe as a market (for a long time via the United Provinces), and also needed to create its North American colonies. It is all a relative matter.*

## Absenoldeb Cyfalafiaeth Amaethyddol yng Nghymru

Roedd Cymru wrth gwrs hefyd yn rhan o'r system-fyd newydd a ddaeth i'r amlwg yn sgil 'darganfyddiadau' 1492. Fodd bynnag, roedd ganddi rôl a swyddogaeth wahanol i Lloegr yn y system-fyd. Er bod Cymru wedi'i huno â Lloegr yn y cyfnod ar ôl Deddfau Uno 1536-1542, ffenomen Seisnig oedd y prosesau a arweiniodd at gyfalafiaeth amaethyddol yn Lloegr. Felly, rhwystrwyd egin cyfalafiaeth yng Nghymru. Fel y trafodwyd mewn is-bennod blaenorol, roedd y boneddigion Seisnig ar y cyfan yn berchnogion ystadau mawr a oedd yn rhentu eu tiroedd i'r werin, yn gyntaf ar ffurf copihowld ac yna trwy rymoedd y farchnad. Roedd yr ystadau hyn fel arfer yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall trwy gyfreithiau cyntafanedigaeth (primogeniture). Cyntafanedigaeth yw'r arferiad bod yr etifedd gwrywaidd cyfreithlon hynaf yn etifeddu'r ystâd *gyfan*. Cyn cyflwyno'r Cyfreithiau

Tir gan Harri VIII rhwng 1529-1540 - a oedd wedi ei anelu at gyflwyno cyntafanedigaeth (Kenny, 1878, t. 34) - nid oedd system etifeddiaeth unedig yn bodoli. Fodd bynnag, roedd cyntafanedigaeth fel arferiad wedi bodoli mewn sawl rhan o Lloegr ers cyfnod y Goncwest Normanaidd ymlaen (Faith, 1966) (Buck, 1990).

Gosodwyd y cynsail hwn am bedwar rheswm. Yn gyntaf, cyntafanedigaeth oedd hoff system etifeddu'r Normaniaid, a llwyddasant i wreiddio eu harferion yn ddyfnach yn eu cadarnleoedd Seisnig. Yn ail, roedd yn dilyn yr un broses ag olyniaeth frenhinol, gan roi grym normadol cryf iddo. Yn drydydd, roedd yn sicrhau bod pŵer y teulu'n cael ei gynnal yn haws, gan y gallai parseli tir arwain at golli pŵer o gymharu ag aelwydydd a theuluoedd eraill. Yn olaf, roedd y tir âr da yn Lloegr yn addas ar gyfer ystadau mwy. Fel y dangosir yn gynharach, arweiniodd y newidiadau yma i strwythur economaidd newydd yn Lloegr, gyda thyfiant yn nifer y bobl yn gweithio yn y dinasoedd, a heb dir. Yng Nghymru, nid oedd yr un amodau yn bodoli ac felly roedd ei strwythur cymdeithasol ac economaidd yn fwy sefydlog. I ddyfynnu Wallis, et al. (2018, t. 873):

*In Wales, we see much less evidence of structural change. The share of those appearing in the probate record who worked in agriculture in the mid eighteenth century, 66 percent, was only about 10 percent below the 75 percent seen in the late sixteenth century. The share in services had risen by the same amount. Industry was as small at the end of the period as it was at the beginning, at about 15 percent. ... They give an impression of a relatively unchanging Welsh economy, and they fit well with the historical consensus that, despite growing prosperity among some farmers, secondary or even mining activity was slow to develop in Wales.*

Roedd strwythur cymdeithasol Cymru felly'n wahanol i un Lloegr, ond datblygodd y strwythur cymdeithasol hwn oherwydd sylfaen faterol y gymdeithas Gymreig. Nodwyd eisoes bod amodau daearyddol Cymru yn llai buddiol na rhai Lloegr. Mae gwaith arloesol Howell (2016) ar amodau amaethyddol Cymru yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd ei hecoleg yn ffafriol i ddatblygu unedau ffermio mawr. Tra bod

unedau ffermio ac ystadau mawr yn cael eu meithrin yn Lloegr, nid oedd yr un ysgogiadau hyn yn effeithio ar gymdeithas Cymru. Fel y dadleuodd Habakkuk (1987, t. 288):

*In some places there were few substantial tenants. In Wales, ... they were scarce, and this must in large measure explain why in 1750 so many Welsh farms were small and fragmented. In England, too, there were regions where farmers with substantial capital were rare because the soil was poor, and the markets limited.*

Ymhellach, roedd pridd mynyddig a thlawd ucheldir Cymru yn golygu mai hwsmonaeth anifeiliaid, yn hytrach na thrin y tir, oedd yn cael ei ffafrio gan y werin Gymreig. Dibynnai'r bywyd lled-grwydrol hwn ar y tiroedd comin a'i borfeydd, gan lesteirio'r cymhelliad y werin i wneud elw ac awydd y boneddigion i ddal tiroedd cymharol amhroffidiol. Er bod y data ystadegol ar gyfer Cymru yn anghyflawn, mae Ffigur 45 yn dangos y gwerthoedd rhent tir gwahanol a oedd yn bodoli rhwng rhanbarthau yng Nghymru a Lloegr. Yr hyn sy'n amlwg yw bod gwerth tir yng Nghymru yn gyson is na phob rhan o Loegr, ac eithrio 1830-9 lle mae'r gwerth yn uwch na gogledd Lloegr. Yn y cyfnod dan sylw, trwy gydol yr 'Unfed Ganrif ar Bymtheg Hir',<sup>57</sup> nid yw Cymru'n gweld twf yng ngwerth tir fel sy'n gyffredinol wir ledled Lloegr.

---

<sup>57</sup> Mae Fernand Braudel yn cyfeirio at y cyfnod rhwng 1450-1640 fel yr Unfed Ganrif ar Bymtheg Hir.

Period	All	Holdings 20+ acres	North	Midlands	South East	South West	Wales
1480-1549	44	26	4	11	25	4	-
1550-9	38	23	4	15	16	3	-
1560-9	27	19	7	3	15	2	-
1570-9	27	18	3	8	16	-	-
1580-9	27	14	3	2	20	2	-
1590-9	51	27	8	4	36	3	-
1600-9	63	29	7	13	38	4	1
1610-9	111	52	19	20	61	9	2
1620-9	154	72	14	31	86	22	1
1630-9	146	76	25	30	58	31	2
1640-9	115	60	13	22	59	20	1
1650-9	151	69	25	45	52	24	5
1660-9	127	54	24	25	55	22	1
1670-9	218	95	51	49	83	30	5
1680-9	208	73	31	73	48	52	4
1690-9	246	105	43	60	76	61	6
1700-9	244	121	37	65	92	46	4
1710-9	277	127	63	66	81	66	1
1720-9	328	156	69	95	74	80	10
1730-9	355	143	82	117	81	61	14
1740-9	291	104	80	70	61	60	20
1750-9	250	101	58	69	51	54	18
1760-9	252	105	78	60	53	54	7
1770-9	276	120	75	61	77	55	8
1780-9	593	194	96	224	141	117	15
1790-9	358	176	64	79	112	94	9
1800-9	846	420	150	248	227	198	23
1810-9	1,944	889	366	476	424	633	45
1820-9	4,164	1,572	1,133	1,289	968	719	55
1830-9	2,617	996	119	877	963	429	229
1840-9	130	63	51	10	36	8	25

*Figur 45: Sylw Cysylltiedig ar Werthoedd Rhent Tir fesul Cyfnod. Ffynhonnell: (Clark, 2002, t. 285).*

Roedd y sefyllfa amaethyddol hon, a oedd wedi bodoli yng Nghymru am amser hir iawn, yn golygu bod ffurf benodol o drefniadaeth gymdeithasol ac etifeddiaeth wedi datblygu dros y canrifoedd. Yn wahanol i Loegr, lle'r oedd cyntafanedigaeth yn dechrau gwreiddio, roedd system etifeddiaeth Cymru yn un o etifeddiaeth ranadwy, a elwid yn gafaeled (gavelkind). Mewn cyd-destun Gwyddelig, roedd gafaeled yn cyfeirio at rannu'r tir rhwng y Llwyth (Clan). Roedd trefn Cymru yn debyg ond yn cyfeirio at rannu tir y tad rhwng ei feibion (neu ferched os nad oedd meibion) (Goody, 1970, t. 627).

Arweiniodd amodau materol a daearyddol Cymru, felly, at anallu i ffermio uwchlaw lefel cynhaliaeth ac at bwysigrwydd porfa a ddelid yn gyffredin. Creodd hyn strwythur cymdeithasol mwy cymunedol o gymharu â Lloegr. Parhaodd y strwythur cymdeithasol hwn hyd yn oed ar ôl Deddfau Tir Harri VIII a geisiodd gyflwyno cyntafanedigaeth ledled Cymru a Lloegr. Dadleuodd Gresham (1970) fod 'ysbryd' gafaeled wedi parhau hyd yn oed ar ôl ei ddiddymu'n gyfreithiol. Roedd y system unedau yn arferiad Cymreig, sef bod pob mab yn adeiladu ei gartref ei hun ar dir ei dad. Er bod twf cyntafanedigaeth wedi rhoi terfyn ar rannu tir yn *gyfreithlon* rhwng meibion, parhaodd y confensiwn o ffermio ar y cyd ymhell i'r 18fed Ganrif. Felly cyfunodd amodau materol a chymdeithasol yng Nghymru mewn ffordd wahanol i Loegr. Arweiniodd un grŵp o amodau yn y pen draw at gynnydd rheidrwydd cyfalafol, yn wahanol iawn i'r llall.

Er efallai nad oedd Cymru wedi bod yn symud i'r un cyfeiriad cyfalafol â Lloegr yn y cyfnod hwn, nid yw hyn yn golygu bod Cymru wedi chwarae rhan ddibwys yn natblygiad cyfalafiaeth. Cyfeiriodd E.L. Jones (1965, tt. 11-12) at y gwahaniaeth o ran cynhyrchu amaethyddol a oedd yn digwydd ar Ynysoedd Prydain o'r 16eg i'r 18fed Ganrif. Dadleuodd fod priddoedd ysgafn de a dwyrain Lloegr yn fwy addas ar gyfer tyfu grawn a grawnfwyd. Roedd y cynydau hyn, yn eu tro, yn fwy proffidiol na hwsmonaeth anifeiliaid. Roedd priddoedd trymach a thiroedd uwch gogledd a chanolbarth Lloegr, yn ogystal â Chymru, ar y llaw arall, yn llai addas ar gyfer mathau newydd hyn o amaethu ac felly'n dibynnu ar ddefaid a phesgi a llaetha gwartheg. Roedd yr is-bennod blaenorol yn dadlau bod dibyniaeth yr Iseldiroedd ar allforion grawn o'r Baltig yn y tymor hir wedi arwain at ei ddirywiad cymharol. Fodd bynnag, roedd de-ddwyrain Lloegr yn gallu canolbwyntio ar gynhyrchu grawn a grawnfwyd i'w fwyta a'i allforio oherwydd bod ganddi berifferïau mewnol y gallai eu hecsbloetio ar gyfer bwydydd. Waeth beth oedd budd economaidd grawn o gymharu â chig a llaeth, roedd dal eu hangen i fwydo poblogaeth gynyddol

Lloegr; dyma oedd rôl Cymru, Iwerddon, yr Alban, ac ardaloedd ymylol Lloegr. Dadleuodd E.L. Jones (1965, t. 6) er enghraifft,

*a supply of dairy products was obtained from Ireland. After 1707, the Scots sent more and more store cattle to England, and the Channel Islanders found that they could send growing cargoes of "green hides".*

Roedd Cymru hefyd yn rhan o'r broses ehangach hon. Mae Brinley Thomas (1993, t. 330) yn cyfeirio at arwyddocâd y newid yn y cydbwysedd rhwng grawn a ffermio bugeiliol a olygai canolbwyntiodd y sector Celtaidd ar gynhyrchu bwydydd, megis magu da byw i'w hallforio i Loegr. Wrth ddadansoddi'r fasnach wartheg yn Swydd Amwythig a Swydd Henffordd yn yr 16eg a'r 17eg Ganrif, dadleuodd Edwards (1981, t. 73) fod gwartheg yn dod o nifer o ffynonellau ond heb os, yr un pwysicaf oedd Cymru. Felly chwaraeodd Cymru rôl eilradd – ond hollbwysig – yn y system-fyd newydd. Roedd arbenigo mewn tyfu grawn a grawnfwyd yn ne-ddwyrain Lloegr yn dibynnu ar gynnal ffynhonnell sefydlog o gig a llaeth i'w fwyta. Swyddogaeth y perifferi Celtaidd yn y system-fyd oedd darparu'r ffynhonnell honno. Ymddengys bod rhaniad llafur ar sail ddaearyddol yn bodoli yn Ynysoedd Prydain o gyfnod cynnar.

## Rhyfel Cartref 'Lloegr'

Arweiniodd y math o gyfalafiaeth amaethyddol a oedd yn dechrau datblygu yng nghefn gwlad Lloegr at y math o ryfel dosbarth a welwyd yng Nghymru a Lloegr yn yr 17eg Ganrif, a arweiniodd yn y pen draw at y Rhyfel Cartref 'Seisnig' a'r Chwyldro 'Gogoneddus'. Yn Ffrainc, daeth y frenhiniaeth i ben o ganlyniad i ddadfeiliad absoliwtiaeth, ar y llaw arall dadfeiliodd gwladwriaeth y Stiwardaidd oherwydd iddynt geisio sefydlu cyfundrefn absoliwtaidd. Fel y dadleuwyd yn flaenorol, aeth rhai o uchelwyr Cymru a Lloegr ati i:

*gradually gave up the magnate form of politico-military organisation, commercialised their relationships with their tenants, rationalised their estates, and made use of – but avoided dependence upon – the court. [Thus] agrarian capitalism arose within the framework of landlordism (Brenner, 1989, t. 302).*

Yn ei hanfod, golygai hyn fod rhai carfannau o'r uchelwyr eisoes wedi dechrau rhoi'r gorau i'r breintiau all-economaidd oedd yn deillio o'u safle o fewn system absoliwtaidd ac yn dechrau dibynnu'n llwyr ar ddulliau economaidd o orfodaeth trwy landlordiaeth i gynnal eu grym. Fel y dadleuodd Hill (2011, t. 17), nid dosbarth economaidd oedd y 'boneddigion'. Dosbarth cymdeithasol a chyfreithiol oeddynt; yn economaidd roeddent yn rhanedig. Roedd y boneddigion newydd hyn yn rhagweld math penodol o wladwriaeth a fyddai'n amddiffyn eu buddiannau:

*Able to profit from rising land rents, through presiding over a newly emerging tripartite capitalist hierarchy of commercial landlord, capitalist tenant and hired wage labourer, the English landed classes had no need to revert to direct, extra-economic compulsion to extract a surplus. Nor did they require the state to serve them indirectly as an engine of surplus-appropriation by political means (tax/office) and war.*

*What they needed, at least on the domestic front, was a cheap state, which would secure order and protect private property, thus assuring the normal operation of contractually based economic processes (Brenner, 1982, t. 88).*

Fel y dadleuodd Callinicos (1989), yr hyn roedd y Stiwartiaid yn ymdrechu'n barhaus i wneud oedd sefydlu brenhiniaeth absoliwt yn yr arddull cyfandirol fel y gwelwyd yn Sbaen a Ffrainc. Gwnaethpwyd hyn trwy ymdrechion Iago I a Siarl I i godi arian trwy ddileu'r cyfyngiadau a osodwyd gan y tîrfeddianwyr yn y Senedd. Dadleuodd Theda Skocpol (1979, tt. 5, 141, 294) mai chwyldro gwleidyddol yn unig



oedd y chwyldro Seisnig<sup>58</sup> ac ni newidiodd mewn unrhyw ffordd yr amodau economaidd a fodolai yng Nghymru a Lloegr. Dadleuodd:

*it was accomplished not through class struggle but through a civil war between segments of the dominant landed class (with each side drawing allies and supporters from all of the other classes and strata). And whereas the French Revolution markedly transformed class and social structures, the English Revolution did not (Skocpol, 1979, t. 141).*

Barn y traethawd ymchwil hwn yw bod Skocpol yn anghywir yn ei dadansoddiad. Ar y lefel fwyaf sylfaenol mae angen deall pam yr ymladdodd segmentau o'r boneddigion yn erbyn ei gilydd. Dadleuir mai'r rheswm yw bod un rhan o'r dosbarth cymdeithasol a chyfreithiol hwnnw wedi cadw ei ddull all-economaidd o gael gwerth dros ben tra bod carfan arall yn cael gwerth economaidd dros ben trwy landlordiaeth. Mae hyn yn amlwg yn wahaniaeth cymdeithasol ac economaidd, yn hytrach na gwleidyddol yn unig. Mae'r gymdeithas gyfalafol yn datblygu o'r gymdeithas ffiwdal ac mae manau geni'r gymdeithas honno'n glir. Esboniodd Callinicos (1989) hyn yn gryno:

*The capitalist class develops in a gradual and molecular fashion within the framework of feudal relations of production. But a point is eventually reached where its further development requires a change in the form of the state. It does not follow from the fact that such change is required that it will occur, but should it happen, the resulting transformation cannot be seen as merely political. The new form of state has a different social content from the old, one which maximises capitalist development.*

Yn achos Rhyfel Cartref Lloegr, yr hyn a ddaeth i'r amlwg oedd cyflwr lle'r oedd yr organau gweinyddol a rwystrodd datblygiad cyfalafol fwyaf wedi'u diddymu: y Star Chamber, yr Uchel Gomisiwn, Llys y Wardiau, a deiliadaethau ffiwdal. Yn ei lle

---

<sup>58</sup> Mae haneswyr megis Christopher Hill (2020) yn dadlau y dylid defnyddio'r term 'Chwyldro Seisnig', yn hytrach na 'Rhyfel Cartref'.

daeth pŵer dynion ag eiddo. Roedd ei safle wedi ei chryfhau mewn cysylltiadau allanol gan lynges nerthol a Deddf Mordwyo (Hill, 1980, tt. 134-135). Roedd y Rhyfel Cartref felly yn chwyldro economaidd yn ogystal â gwleidyddol. Atgyfnerthwyd felly enillion y bourgeoisie newydd yn erbyn elfennau ceidwadol yr uchelwyr. Yng ngeiriau Teschke (2005, tt. 15-16),

*it was the capture of state power, clearly enshrined in the new formula 'King-in-Parliament', by a fairly homogenous and united class of agrarian capitalists. Agrarian capitalism had generated a social-property regime in which the political conflicts amongst the members of the ruling class over the distribution and terms of the rights of political accumulation were replaced by private forms of economic exploitation in the sphere of production.*

Roedd gan y wladwriaeth newydd fotiff answyddogol syml ond dwys: 'cryf dramor, gwan gartref'. Roedd hyn yn golygu bod 'y farchnad' a'r 'wladwriaeth' yn ogystal ag eiddo cyhoeddus a phreifat yn fwy gwahaniaethol. Roedd y math newydd hwn o lywodraethu yn gynyddol lai personol a dynastig ac yn fwyfwy 'cenedlaethol' ei natur.

Roedd y digwyddiadau hyn yn golygu erbyn 1700 roedd gan y wladwriaeth Seisnig y farchnad genedlaethol fwyaf yn Ewrop, ac ychwanegwyd yr Alban ato gan Undeb 1707 (Sayer, 1992, t. 1400). Bu'r farchnad fewnol gref hon, a ategwyd gan ddsbarth a llywodraeth gyfalafol newydd, yn gymorth i danio chwyldro diwydiannol Prydain (Hobsbawm, 1999, t. 50). Dadleuodd von Schmoller (1895, t. 77) – a ysgrifennodd o safbwynt Prwsia – y gallai Prydain, erbyn troad y 18fed ganrif, ddechrau meddwl a gweithredu yn ysbryd masnach rydd a gadael gwaith llafurus datblygiad cenedlaethol a oedd yn effeithio ei genedl ef tu ôl iddo. Roedd y wladwriaeth wladol newydd hon, a oedd wedi troi cefn ar absoliwtiaeth, â chymaint mwy o allu i godi trethi, gyda'r elit newydd yn egnïol o blaid trethiant yn enw'r 'genedl' ac er mwyn sefydlu hegemoni byd-eang (Mathias a O'Brien, 1976). Mewn gwirionedd, o

ddechrau'r 18fed Ganrif hyd at ei diwedd, cynyddodd gwariant gwirioneddol y wladwriaeth Brydeinig ôl-chwyldroadol bymtheg gwaith (Mann, 2012, t. 483).

Arweiniodd yr amodau hyn at gyfnod o hegemoni Prydeinig yn y system-fyd; un a fyddai'n dechrau gyda'r Chwyldro Diwydiannol ac yn gorffen gyda thwf yr Unol Daleithiau.

Mae safle Cymru yn y Rhyfel Cartref 'Seisnig' eto i'w drafod. Ers dros ganrif, y farn a dderbynnir o fewn y byd academiaidd yw bod y Cymry fel pobl yn gyffredinol o blaid y Goron, ac yn Frenhinwyr o ran agwedd (Price, 1900) (Thomas, 1962) (Bowen, 2006). Er enghraifft, mae Bowen (2006, t. 845) yn cyfeirio at gefnogaeth hynod unffurf ac angerddol Cymru i'r Brenin Siarl yn 1642, cefnogaeth a enillodd i Gymru'r enw 'meithrinfa troedfilwyr y brenin'. Mae llai o gonsensws, fodd bynnag, ynghylch pam roedd hyn yn wir. Rhaid canmol Mark Stoye (2000) am ei ymgais i symud i ffwrdd o agwedd uniaith Saesneg at y Rhyfel Cartref. Edrychodd yn wreiddiol ar y digwyddiadau hyn fel 'Rhyfel y Tair Teyrnas' cyn ei enwi'n fwy priodol yn 'Rhyfel y Pum Pobl'.<sup>59</sup> Fodd bynnag, nid yw rhai o'i honiadau ynghylch pam yr oedd y Cymry'n cefnogi'r Goron yn gwbl argyhoeddiadol. Dadleuodd Stoye (2000, t. 1119):

*In 1640 and 41 rumours circulated in England that 'popish armies' were being assembled in Wales. Following the Irish rebellion such whispers became louder and more persistent and in late 1641 a full-scale panic was caused in London by reports of a papist plot centring on the Catholic earl of Worcester's castle in Monmouthshire. These scares fanned the flames of anti-Welsh feeling in England – and reinforced the suspicions of the nascent parliamentarian party that the Welsh were disaffected to their cause. Such suspicions were in great measure justified. As we have seen, the Welsh had every reason to venerate the crown. It was the Tudors who had granted them their special privileges, and Charles I and his eldest son who symbolized, in their*

---

<sup>59</sup> Y Tair Teyrnas yw Lloegr, yr Alban, ac Iwerddon gyda'r Cymry yn gynwysedig o fewn Teyrnas Lloegr, yn profi nad yw'r teitl hwn ychwaith heb ei ddiffygion. Mae 'Rhyfel y Pum Gwlad' yn cynnwys Cymru a Chernyw.

*very persons, the constitutional accommodation which had been granted to Wales.*

*Parliament, on the other hand – which included only a handful of Welsh MPs – had a much weaker claim on Welsh affections.*

Mae'n wir fod llawer o'r Cymry yn parchu'r Tuduriaid o achos eu llinach Gymreig a'u corfforiad o fewn y wladwriaeth, fodd bynnag, nid yw'r ddadl yn argyhoeddi bod y parch hwn yn trosglwyddo i'r 'Goron' mewn modd haniaethol. Ar y cyfan, mi oedd dros ganrif rhwng cwblhau'r Deddfau Uno a'r Chwyldro 'Seisnig'. Mae Stoye, fodd bynnag, yn debygol o fod yn gywir yn ei ddadansoddiad nad oedd gan y Senedd fawr o gefnogaeth yng Nghymru. Parhaodd Stoye (2000, t. 1120) trwy ddadlau mai buddugoliaeth wleidyddol yn unig i Siarl I a allai amddiffyn y Cymry rhag senoffobia Seisnig a bod y Frenhiniaeth yn gwarchod unioniaeth Cymru. Awgrymir Stoye bod seneddwyr Lloegr yn gweld y Rhyfel Cartref fel brwydr i ailddatgan goruchafiaeth Lloegr dros Gymru. Mae'n amlwg y byddai Seneddwyr wedi defnyddio propaganda yn erbyn yr hyn y byddent yn ei alw'n elynion, fel y byddai'r Brenhinwyr hefyd wedi'i wneud. Fodd bynnag, mae tystio mai brwydr dros oroesiad cenedlaethol *yn bennaf* oedd hon yn ymddangos yn annhebygol. Y mater cyntaf yw bod Seneddwyr hefyd wedi defnyddio'r fath bropropaganda yn erbyn 'Pabyddion' ac amddiffynwyr y Goron a fodolai yn Lloegr, yn ail, bu goruchafiaeth y Seneddwyr yn gymorth i ddatblygiad a chadarnhad marchnad a hunaniaeth 'genedlaethol' Prydeinig. Nid oes awgrym felly mai cenedlaetholdeb Seisnig oedd hwn yn brwydro yn erbyn cenedloedd cyfansoddol eraill Ynysoedd Prydain. Nid yw canlyniadau'r Chwyldro 'Seisnig' yn tystio i genedlaetholdeb Seisnig a oedd yn canolbwyntio ar wyrddroi'r cenedloedd eraill yn enw Lloegr. Yn hytrach, daeth Prydeindod fel ideoleg wleidyddol fodern i'r amlwg; hunaniaeth a ganiataodd gwahaniaethau ethnig neu genedlaethol. Roedd y Cymry yn debygol o deimlo dan fygythiad gan y wladwriaeth Brydeinig newydd; fodd bynnag, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu eu bod yn teimlo felly oherwydd gwahaniaethau cenedlaethol. Fel y dangoswyd yn flaenorol, roedd y werin yn gweld arfer a thraddodiad fel

gwrthglawdd a allai eu hamddiffyn rhag y llifogydd cyfalafol goresgynnol (Moore, 1966, t. 12). Byddai brenhiniaeth wedi ffitio o fewn y fframwaith o arferion a thraddodiadau.


Mae gwaith Stoye yn gam i'r cyfeiriad cywir oherwydd ei fod yn deall bod gwahaniaeth yn bodoli rhwng lleoedd ac nad oedd cymdeithas Brydeinig yn unffurf. Mae'n gosod cymdeithas Prydain "in a context of inherent diversity, replacing the image of a monolithic 'parent society' with that of an expanding zone of cultural conflict and creation" (Pocock, 1975, t. 620). Fodd bynnag, wrth ddadansoddi digwyddiadau'r 17eg Ganrif drwy lens y 'Pum Pobl' mae'n bosibl bod Stoye yn anwybyddu rhai o'r tueddiadau a unodd rhai o'r Bobl hyn hefyd. Wedi'r cyfan, roedd gan Loegr ei hun amrywiaeth gynhenid. Efallai bod rhai rhanbarthau wedi'u halinio'n agosach â'u cefndryd Celtaidd o ran agwedd. Yn unol ag ymagwedd Longue Durée at hanes, dylid gosod digwyddiadau'r Chwyldro Seisnig o fewn fframwaith ehangach o newid o fewn y cysylltiadau economaidd a chymdeithasol. Mae'r thesis hwn eisoes wedi dangos bod amodau daearyddol wedi effeithio ar dwf amaethyddiaeth gyfalafol, gyda de-ddwyrain Lloegr yn datblygu i gyfeiriad gwahanol i weddill yr ynys. Mae'n bosibl bod y gwahanol amodau hyn – a'r amodau economaidd a chymdeithasol a ddeilliodd ohonynt – hefyd wedi effeithio ar deyrngarwch yn ystod y Chwyldro Seisnig. Un o gynigwyr y ddamcaniaeth hon oedd David Underdown (1985, t. 4) a oedd yn dadlau bod sail ranbarthol i'r cyferbyniadau mewn teyrngarwch poblogaidd, a'u bod yn gysylltiedig â gwahaniaethau lleol mewn strwythur cymdeithasol, datblygiad economaidd a diwylliant. Wrth egluro'r gwahaniaeth daearyddol hwn, dadleuodd Christopher Hill (2020, t. 49) y canlynol:

*The familiar civil war division between royalist North and West, Parliamentary South, and East, is also a division between the relatively backward North and West, and the economically advanced South and East. The North and West were regarded by*

*Parliamentarians as the 'dark corners of the land' in which preaching was inadequate, despite the efforts of many Puritans to subsidize it.*

Disgrifiodd John Penry, Piwritan radical yn ystod y Chwyldro Seisnig Gymru fel cornel fwyaf diffrwyth y wlad (Hill, 1963, t. 81). Dengys Ffigur 46 sut mae cysyniad Christopher Hill (ymhlith dealltwriaeth ysgolheigaid eraill o'r rhaniad gorllewin-dwyrain) o'r 'Dark Corners of the Land' yn torri ar draws Cymru a gogledd Lloegr. Mae daearyddiaeth hefyd yn torri Prydain yn ddau ar y pwynt hwn yn fras. Fel y dadleuodd Hochberg (1984, tt. 744-745):

*if a line were drawn from Teesmouth on the northeast coast to Weymouth on the southwest coast, the English (sic) land mass would be divided into two ecological zones: the highlands, with poor soils and a cool, wet climate to the north and west; and the lowlands, with richer soils, lower rainfall, and warmer summer temperatures to the south and east, with the former supporting a pastoral economy and the latter, mixed husbandry. Because the Teesmouth-Weymouth line is a heuristic device, it must be stressed that institutions and social structures associated with the highland zone persisted in the forested and geographically isolated areas located south and east of the Teesmouth-Weymouth line. The findings, nevertheless, suggest that the county constituencies located in the upland/pastoral zone returned future Royalists by a margin of two to one, whereas constituencies located in the lowland/mixed husbandry zone returned future Parliamentarians by a ratio of seven to three.*



*Ffigur 46: Adeiladaethau ysgolheigaidd o Orllewin 'gwyllt' Lloegr, 1950-1985. Ffynhonnell: (MacCannell, 2010, t. 174).*



*Ffigur 47: Ucheldiroedd ac Iseldiroedd Prydain. Ffynhonnell: (Rees, 1959, t. 78).*

Ardaloedd hynny i'r De a'r Dwyrain o linell Teesmouth-Weymouth oedd (yn gyffredinol) yr un ardaloedd a ddechreuodd symud i gyfeiriad amaethyddol cyfalafol yn ystod yr 16eg Ganrif. Roedd yr ardal hon o'r Ynys wedi mynd trwy drawsnewidiad economaidd, ac eto roedd strwythur cymdeithasol hynod o anhyblyg a threfnus. Roedd y strwythur yma mewn tensiwn gyda'r trawsnewidiad



economaidd hwn. O fewn cymdeithas ffiwdal, roedd gan bob person ‘safle naturiol’ o fewn yr hierarchaeth. Chwalodd y newidiadau economaidd newydd yr hen gompact cymdeithasol yn y de-ddwyrain. Roedd ‘corneli anghysbell y wlad’ ar y llaw arall - lle’r oedd cyfalafiaeth yn arafach i ddatblygu a gwreiddio - yn amddiffyn traddodiad a’r ‘trefn naturiol o bethau’. Tra bod y mwyafrif yng Nghymru yn ffafrio llinell grefyddol gymedrol (Bowen, 2007, t. 240), dadleuaf fod y cymedroli hwn yn deillio o sylfaen economaidd fwy sefydlog y gymdeithas honno. Yn yr ardaloedd a oedd yn cefnogi’r Frenhiniaeth, roedd cysyniad o sefydlogrwydd a chymedroldeb yn parhau gyda'r Eglwys a'r Goron yn ganolog iddi. Ar y llaw arall, daeth Piwritaniaeth i gynrychioli gwleidyddiaeth newydd o’r “middling sort” a oedd yn fwy cyfalafol ei hagwedd, ac ar ochr y Senedd (Hill, 2020). Fel yr eglurodd Underdown (1985, t. 40):

*The division in the English body politic which erupted into civil war in 1642 can be traced in part to the earlier emergence of two quite different constellations of social, political, and cultural forces, involving diametrically opposite responses to the problems of the time. On the one side stood those who had put their trust in the traditional conception of the harmonious, vertically integrated Society - a society in which the old bonds of paternalism, deference, and good-neighbourliness were expressed in familiar religious and communal rituals - and wished to strengthen and preserve it. On the other stood those - mostly among the gentry and middling sort of the new parish elites - who wished to emphasize the moral and cultural distinctions which marked them off from their poorer, less disciplined neighbours, and to use their power to reform society according to their own principles of order and godliness.*

Yn ei adolygiad o waith Underdown, dadleuodd John Morrill (1987, t. 458) fod y gwahaniaeth rhwng tir â'r a thir nad yw'n dir â'r yn well uned o wahaniaethu nag yd defaid a phorfa goed yr oedd Underdown a Hochberg wedi'i defnyddio. Fodd bynnag, yn achos Cymru, ni fyddai newid yr uned o wahaniaethu yn effeithio ar y dadansoddiad. Heddiw, mae 90% o gyfanswm arwynebedd tir Cymru yn cael ei

ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, ac eto mae 79% o dir Cymru wedi'i ddynodi'n Ardaloedd Llai Ffafriol. Mae hyn yn cymharu â dim ond 17% o dir Lloegr. Mae da byw yn cyfrif am 86% o dir amaethyddol Cymru, tra bod cnydau yn cyfrif am 2% yn unig o ffermydd (IWA, 2022). Dangoswyd eisoes fod hyn hefyd yn wir yn yr Unfed Ganrif ar Bymtheg Hir. Waeth beth fo'r rhaniadau daearyddol mewnol sy'n bodoli o fewn Cymru, mae'r wlad gyfan nid yn unig mewn cornel 'anghysbell' o'r wlad ond hefyd yn ardal wlyb ac oer. Yn ei hanfod, rhannwyd Prydain rhwng craidd a pherifferi:

*England had its peripheral regions and a fortiori Great Britain. These peripheral regions, located within a core state, were fearful of two trends: the gradual strengthening of the English-British state, which threatened them politically, and the triumph of the capitalist elements, which threatened them economically. In Great Britain, these two threats were coordinate; and it is no surprise that the peripheral areas tended to be more hostile to the English Revolution (Wallerstein, 2011b, p. 123).*

## Y Chwyldro Diwydiannol a'r 'Pedwar Rhad'

Esboniodd Jason W Moore (2015) fod cronni cyfalaf yn dibynnu ar bedwar mewnbwn: bwyd, llafur, ynni, a deunyddiau crai. Mae'n reddfod fod angen digon o fwyd i fwydo'r boblogaeth, digon o bŵer llafur (rhydd neu an-rydd) i greu gwerth, y deunyddiau crai sydd eu hangen i greu cynnyrch a'r egni i'w drawsnewid. I Moore, mae pob chwyldro cymdeithasol neu dechnolegol o dan gyfalafiaeth wedi arwain at ostwng cost cynhyrchu o leiaf un, os nad yr holl, fewnbynau hyn. Yn yr

ystyr hwn, cânt eu hadnabod fel 'Pedwar Rhad' cyfalafiaeth.<sup>60</sup> Er enghraifft, mae 'Egni Rhad' wedi symud o goed/golosg, glo, stêm ac olew. At hynny, mae pob cwmp yn y system gyfalafol o ganlyniad i'r ffaith nad yw'r mewnbynnau hyn bellach yn 'rhad'.

Rhan o argyfwng ecolegol yr 21ain Ganrif yw'r union ffaith nad yw ynni bellach yn 'rhad', yn ecolegol nac o ran ei echdynnu. Ymddangosodd pob un o'r 'Pedwar Rhad' ar yr un pryd yn ystod y Chwyldro Diwydiannol ym Mhrydain yn y 18fed ganrif gan osod Prydain ar flaen ac wrth wraidd y system-fyd, gan gryfhau cyfalafiaeth fel model economaidd sylfaenol y system honno. Yn ddieithriad, ni ellir datgysylltu'r pedwar mewnbwn hwn yn llwyr. Fel y dadleuodd Moore (2015), mae'r 'Pedwar Rhad' yn ffordd o dorri'r berthynas ddeuaidd Gartesaidd rhwng "Natur" a "Chymdeithas". Mae natur yn rhan o gymdeithas fel y mae cymdeithas yn rhan o natur. Mae 'Ynni Rhad', er enghraifft, yn dod o fyd natur, felly hefyd deunyddiau crai, a ninnau hefyd. At hynny, mae llafur yn dibynnu ar fwyd, fel y mae bwyd i'w fwyta yn dibynnu ar lafur. Mae'n well gweld y pedwar mewnbwn fel rhai sydd ag ysgogiadau ychydig yn wahanol wrth dal i fod yn rhan o wead bywyd ehangach, cyfannol.

## Llafur Rhad

O ran llafur, dangoswyd yn y penodau blaenorol bod cyfalafiaeth amaethyddol wedi datblygu yn Lloegr tua diwedd yr 16eg Ganrif. Pan ddechreuodd gwerinwyr golli eu modd o gynhaliaeth ac atgynhyrchu gyda dyfodiad landlordiaeth, dechreuodd y

---

<sup>60</sup> Mae'n dadlau nad yw'r pethau hyn yn 'rhad' mewn gwirionedd ond mae cyfalafiaeth yn eu defnyddio fel yn rhad. Mae pob newid yn system ecolegol y byd (megis newid coed i olog ar gyfer ynni) yn dylanwadu ar holl wead bywyd. Gall caethweision fod yn 'rhad' mewn termau cyfalafol, ond nid yw hynny'n cynnwys y gost ddynol.

broses fyd gyntaf o broletarianeiddio. Gorfodwyd llu o bobl i symud o gefn gwlad i'r dinasoedd i chwilio am waith. Am y tro cyntaf, roedd byddin lafur wrth gefn (reserve army of labour) â'u llafur yn unig i'w werthu. Dangosodd Stobart (2000, t. 149) fod cynnydd pedwarplyg ym mhoblogaeth drefol Lloegr yn ystod y ddeunawfed ganrif hir.<sup>61</sup> Mae'n debyg bod mudiad gweithwyr o ardaloedd gwledig wedi'i waethygu gan y Deddfau Seneddol i Gau Tiroedd yn 1700. Cyn cau tiroedd, gallai'r rhai â hawliau comin bori eu hanifeiliaid ar gaeau agored a oedd yn eiddo i eraill, ac ar dir comin. Newidiwyd y system hon o gaeau agored, lle'r oedd hawliau defnydd amrywiol ar dir i system o gaeau caeedig lle'r oedd gan y perchennog neu'r tenant hawliau neilltuedig i'r cae hwnnw. Wrth gwrs, mae yna gydberthynas yma; a oedd proletarianeiddio yn rhagflaenu diwydiannu neu i'r gwrthwyneb? Fodd bynnag, mae adroddiadau gan Daunton (1978), Clark (1995), a Wrigley (1990) oll yn gosod diwydiant wrth wraidd yr esboniadau am dwf dinasoedd; proses a oedd yn dibynnu ar lafur proletaidd a oedd bellach yn bodoli i raddau nas gwelwyd o'r blaen.

Ffynhonnell arall o lafur 'rhad' oedd y fasnach gaethweision. Er bod Cymru ar y lled-berifferi yn y system-fyd, ac nid oedd yn *arwain* y prosesau sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth, arweiniodd y fasnach hon yn uniongyrchol at dwf economi Cymru. Fel y nododd Evans (2015, t. 69):

*the connections between Welsh industry and Atlantic slavery were real and substantial in the eighteenth century. Atlantic demand, whether expressed in the slave trade or through the provisioning of the plantation complex, was a direct stimulus to Welsh industrial growth.*

Roedd y fasnach gaethweision yn rhan fawr o ddatblygiad diwydiannu yng Nghymru a'r tri diwydiant pwysicaf yng Nghymru yn y 19eg ganrif: llechi, copr a haearn. Buddsoddodd masnachwr caethweision o'r enw Anthony Bacon ei elw o

---

<sup>61</sup> Yn rhedeg o Chwyldro Gogoneddus 1688 hyd at Frwydr Waterloo yn 1815.

gaethwasiaeth i waith haearn Cyfarthfa ym Merthyr. Erbyn 1803 honnwyd mai hwn oedd y gwaith haearn mwyaf yn y byd. Datblygodd masnachwr caethweision arall, Thomas Coster weithfeydd copr White Rock yn Abertawe. Erbyn 1800, roedd Abertawe wedi dod yn ganolfan fetelegol Ewropeaidd fawr a oedd yn cyflenwi 90% o ofynion copr Prydain (Jenkins a Moore, 2002, t. 396).

*Capital and entrepreneurial direction for these ventures usually came from Bristol, then Britain's premier slave port. Indeed, there was an eerie symmetry between the smelting of copper in South Wales and Bristol slaving. The city's 'golden' age as a slave port extended from the 1710s to the 1740s. It was within just this timeframe that Swansea emerged as the foremost centre of copper smelting in Europe. It was no accident that the two should rise in tandem (Evans, 2015, t. 66).*

Yn yr un modd â'r fasnach gaethweision yn ehangach, roedd dolen gyswllt yn bodoli o fewn economi Cymru; defnyddiwyd arian o'r fasnach gaethweision i ddatblygu gweithfeydd glo a haearn yng Nghymru oedd yn creu cynhyrchion i'w defnyddio yn y fasnach gaethweision. Er enghraifft, roedd y gwaith copr yn Abertawe yn creu *Manillas*; math o wialen gopr a roddwyd i fasnachwyr caethion yn Affrica (Burnard, 2017). Roedd yr un patrwm yn bodoli yn Sir y Fflint lle mai rôl benodol ffatri Greenfield oedd gwneud a gorffen gwiaail copr ar gyfer masnachwyr Gini (Guinea) (Evans, 2015, t. 67).


Ymhellach, byddai 'Cymru' wedi bod yn rhan o eirfa ddyddiol caethweision yn yr Americas. Efallai na fyddent yn gwybod ble, neu beth oedd 'Cymru', ond byddent wedi gwybod mai'r geiriad a ddefnyddiwyd ar gyfer eu dillad oedd *Welsh Plains* - sef brethyn gwlan syml a oedd yn wydn, rhad, ac o ansawdd isel, ac o ganlyniad yn nwydd delfrydol ar gyfer perchnogion caethweision. Yn wir, dywedodd Gwyn (2020, t. 2) mai'r term llafar am *Welsh Plains* oedd *Negro Cloth* oherwydd y cysylltiad uniongyrchol â chaethweision. Roedd *Welsh Plains* nid yn unig yn nwydd ffeirio i fasnachwyr caethweision Gorllewin Affrica, ond fe'i defnyddiwyd hefyd mewn symiau sylweddol yr ochr arall i Fôr yr Iwerydd fel un o'r prif decstilau ar gyfer

dillad y caethweision yn y 'Byd Newydd'. Yn ogystal â'i enwi ar ôl Cymru, roedd *Welsh Plains* yn cael ei wehyddu yng Nghymru, yn benodol yn y canolbarth gyda Meirionydd yn cynhyrchu fwyaf.

Erbyn cyfnod y chwyldro diwydiannol, felly, roedd Cymru wedi ymgorffori'n llwyr yn y system-fyd. Roedd yn chwarae rhan y lled-berifferi, yn enwedig rhwng Gorllewin Affrica a Lloegr. Y prif reswm dros ei safle ar y lled-berifferi oedd ei ddibyniaeth ar anghenion Lloegr. Cafodd Cymru fudd o ddatblygiadau trefedigaethol ac imperialaidd Lloegr, a manteisiodd ar y cyfleoedd hyn, fodd bynnag nid oedd â'r gallu i ddilyn ei chwrs economaidd annibynnol ei hun.

## Ynni Rhad

Cyn canol y 18fed ganrif, y ffordd draddodiadol o greu ynni, boed ar gyfer gwresogi'r cartref neu i weithgynhyrchu nwyddau, oedd llosgi coed neu siarcol. Ar gyfer defnydd personol, byddai pobl yn torri coed a mawn o'r tiroedd comin. Yn yr un modd, byddai unrhyw wneuthurwr cynhyrchion mawr wedi torri coed o goedwigoedd niferus Prydain. Am filoedd o flynyddoedd, byddai'r egni hwn wedi bod yn 'rhad'; roedd coedwigoedd yn doreithiog, ac felly hefyd y tiroedd comin a olygai nad oedd *angen* unrhyw ddatblygiadau technolegol nac angen chwilio am ffynhonnell ynni newydd. Dechreuodd hyn newid yn y 18fed ganrif. Fel y dengys ffigur 48, roedd coetir fel canran arwynebedd tir Lloegr yn gostwng yn gyflym. Ni chafodd Cymru ei harbed rhag y gostyngiad hwn mewn coetiroedd. Dadleuodd Hammersley (1973, t. 594) fod diwydiant haearn Prydain, erbyn yr 17eg ganrif, wedi trefedigaethu De Cymru am ei gyflenwad o goetiroedd.



*Ffigur 48: Coetiroedd fel Canran o Arwynebedd Tir yn Lloegr. Ffynhonnell: (DEFRA, 2013).*

Oherwydd prinder cynyddol goed, erbyn canol y 18fed Ganrif dechreuodd Prydain fewnforio coed o dramor. Erbyn y 1750au cynnar, roedd cargo pren yn cyfrif am dros hanner cyfanswm y tunelledd (tonnage) a oedd yn mynd i mewn i borthladdoedd Prydain (Thomas, 1982, t. 333). Parhaodd mewnforyon crynswth i gynyddu ar ôl y 1750au, a olygai rhwng 1752 a 1792, cynyddodd mewnforyon pren ffynidwydd o 40,000 i 313,000 o dunelli (Thomas, 1985, t. 729). Defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r coed hwn i adeiladu llongau'r llynges, ac o ganlyniad, nid dyma'r ateb i argyfwng ynni Prydain. O ran cynhyrchu, roedd creu haearn yn dibynnu ar siarcol fel ffynhonnell ynni. Nododd Wrigley (2017, t. 5) bod cynhyrchu 10,000 tunnell o haearn siarcol yn golygu torri 40,000 hectar o goedwig. Mi oedd hwn yn amlwg yn lefel na ellid ei chynnal. Heb gyflenwad addas o goed brodorol, byddai'n rhaid mewnforyo haearn neu siarcol hefyd. O ganlyniad i'r cynnydd hwn yn y galw cododd prisiau ar y farchnad ryngwladol, gyda bar haearn o Sweden a fewnforiwyd

yn codi o £12 y dunnell yn 1763 i £24 y dunnell yn 1795 (Thomas, 1982, t. 333).

Dechreuodd hyn niweidio cymhareb fasnachol Prydain â'i chystadleuwyr Ewropeaidd. Y broblem i Brydain oedd nad oedd ynni bellach yn 'rhad'. Roedd y wladwriaeth yn dod yn fwyfwy dibynnol ar ffynonellau allanol am ei chyflenwadau o adnoddau hanfodol.

Rheidrwydd, felly, wthiodd Prydain i chwilio am gyflenwadau ynni arall. Cafodd yr angen hwn ei ddwysáu gan dwf enfawr yn y boblogaeth a arweiniodd at flaenoriaethau gwahanol o ran defnydd tir, boed ar gyfer grawn bara, porfa anifeiliaid, coed ar gyfer y llynges, siarcol ar gyfer haearn, ac yn y blaen. Daeth yr ateb i'r argyfwng ynni hwn pan ddisodlwyd coed a siarcol gan lo. Roedd glo wedi cael ei ddefnyddio cyn diwedd y 18fed Ganrif, ond o ganlyniad i arloesi technolegol, a sbardunwyd gan yr angen i ddyfeisio, gellid defnyddio glo bellach mewn ffordd a oedd yn effeithlon ac yn gost-effeithiol. Mewn ffaith, rhwng 1750 a 1850 cynyddodd allbwn glo ym Mhrydain gan ffactor o ddeg (Pollard, 1980, t. 212).

*The timing of this change varied a great deal between the several industries. It came earliest in industries like the boiling of salt in which the use of coal presented no problem of undesired chemical change in the product because the source of heat was separated from the object by a sheet of metal. Industries like iron smelting and hop drying in which contact was more intimate presented greater problems in a period when chemical knowledge was slight. A long period of trial and error commonly elapsed before a successful method of substitution was developed (Wrigley, 2017, t. 4).*

Dechreuodd ffwrneisi chwyth wedi'u tanio â golosg ddod i'r amlwg yn gynnar yn y 18fed Ganrif, ond yn 1784 fe wnaeth proses bwdlo a rholio Henry Cort oresgyn yr holl broblemau technegol o ddefnyddio glo i fireinio haearn crai yn haearn bar (Thomas, 1985, t. 730). Gellid defnyddio glo i gynhyrchu brics ar gyfer adeiladu, a olygai nad oedd yn rhaid defnyddio coed fel deunydd adeiladu mwyach. Roedd defnyddio glo yn lle coed yn 'rhyddhau' cynhyrchiant o'r terfynau allbwn ffisegol a osodwyd arno gan yr angen am ffynhonnell wres ar dir â chyflenwad cyfyngedig o



goed. Roedd glo'n 'datrys' y broblem o orfod adnewyddu'r stoc o goed, a'r ffaith y byddai cynnydd mawr yn y defnydd o goed yn effeithio ar y gallu i gynhyrchu. Roedd cyflenwad digonol, ac felly nid oedd ehangu defnydd mewn un diwydiant yn effeithio'n andwyol ar un arall. Roedd ynni unwaith eto'n 'rhad'. Yn syml, gallai torri coeden a'i llosgi rhyddhau'r egni a oedd wedi'i storio o'r haul ers tua chanrif. Gyda glo, roedd yr egni a gafodd ei gronni o'r haul dros filiynau o flynyddoedd bellach ar gael.

Arweiniodd y cynnydd mewn 'ynni rhad' newydd at gynnydd mawr ym maint yr allbwn haearn a gostyngiad yn ei bris. Roedd haearn yn hanfodol i'r chwyldro diwydiannol, a gallai peiriannau a adeiladwyd o bren yn wreiddiol gael eu gwella a'u hadeiladu mewn haearn. Wrth ddefnyddio metel, roedd modd creu a dyblygu nwyddau gyda chywirdeb manwl a dyfeisiwyd yr injan stêm i wthio'r chwyldro yn ei flaen ar drac rheilffordd newydd. Fe wnaeth y chwyldro technolegol hwn helpu Prydain i oresgyn y rhwystrau daearyddol o fod yn ynys gymharol fach. Eglurodd Wrigley (1983, t. 138) yn huawdl ganlyniadau symud o economi organig i economi yn seiliedig ar danwydd ffosil:

*No matter how assiduously Icarus may strive, human flight is not possible if the energy employed in the attempt is muscular. Yet what will always elude the flapping of artificial wings is readily achieved with the assistance of mechanical power. An organic economy suffers from certain necessary limitations which are, as Ricardo asserted, ultimately related to physical constraints. An economy which is increasingly based on inorganic raw materials is not so constrained. Its advantages spring partly from the fact that harnessing the stored energy of innumerable past millennia of insolation in the form of coal, oil, and natural gas places at the disposal of mankind vastly greater quantities of energy than can be secured when the annual quantum of energy is limited by the process of photosynthesis. But the change confers the further advantage that the input of raw materials into the production process, which in an organic economy always creates competition for the use of land, can be achieved from*

*the mouth of a mine rather than from a cultivated field. Between Elizabethan and Victorian times England moved gradually from dependence upon a purely organic base to a mixed economy in which a steadily increasing fraction of the output of secondary industry was based on minerals. In so doing she also eased herself clear of the problems which would otherwise have led to increasing difficulties.*

Gellir dadlau bod y newidiadau hyn wedi effeithio ar Gymru yn fwy na Lloegr. Dyrchafodd haearn a glo Gymru o fod yn wlad werinol dlawd a thanddatblygedig i genedl ddiwydiannol (Wilks, 2021, t. 11). Yn ôl ystadegau Cyfrifiad 1841, roedd canran uwch o bobl Cymru'n gweithio yn y diwylliant amaethyddol o gymharu â Lloegr (27.3% o gymharu â 18.8%), ond roedd 43.3% o bobl bellach yn gweithio mewn diwydiannau trwm, gweithgynhyrchu, a'r diwydiannau cloddio. Ym Morgannwg roedd y nifer hwn yn 61.3%. Rhwng 1788 a 1839, cynyddodd cynhyrchiant haearn 36 gwaith (Wilks, 2021, t.12). Dechreuodd poblogaeth Cymru – a oedd wedi aros yn gymharol sefydlog ers canrifoedd – gynyddu'n gyflym i ddiwallu'r angen i gynhyrchu haearn. Mor ddiweddar â 1801, roedd poblogaeth Cymru oddeutu 600,000, ond erbyn 1841 roedd wedi cynyddu i fwy na miliwn (Williams, 1985, t. 7).

## Bwyd Rhad

Rhwng 1550 a 1820, cynyddodd poblogaeth Lloegr o tua 280 y cant tra bod poblogaeth gorllewin Ewrop namyn Lloegr wedi cynyddu tua 80 y cant. Tyfodd holl wledydd mawr gyfandir gorllewin Ewrop gan ganrannau tebyg yn fras dros y cyfnod hwn (Wrigley, 2000, t. 118). Mewn termau absoliwt, yn 1550 roedd poblogaeth Cymru a Lloegr tua 3 miliwn o bobl, tra yn Ffrainc roedd oddeutu 17 miliwn (Wrigley, 1983, t. 121). Erbyn troad y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd poblogaeth Cymru a Lloegr oddeutu 9.3 miliwn ac erbyn 1851 roedd yn 17.7 miliwn

(Razzell, 1965, t. 315). Yng Nghymru yn benodol, tyfodd y boblogaeth o oddeutu 390,000 yn 1700 i 600,000 yn 1801 (Jenkins a Moore, 2002, t. 393). Mae'n rhwydd amlinellu rhai ffactorau y tu ôl i'r cynnydd hwn ym Mhrydain. O ganlyniad i welliant mewn dealltwriaeth feddyginiaethol a chyflwyno brechu yn erbyn y frech wen,<sup>62</sup> disgwyliad oes ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif hir oedd 32.4 mlynedd, ac erbyn ei diwedd roedd yn 38.7 mlynedd (Wrigley, 1983, t. 129). Fodd bynnag, nid yw hyn yn dangos sut y llwyddodd Prydain i 'oresgyn' y broblem Malthwsaidd (Malthusian) o dwf poblogaeth gyflymach gyflymach ar ynys fechan ag adnoddau cyfyngedig. Mae'r ateb yn ymwneud â bwndelu Pedwar Rhad Moore ym Mhrydain yn ystod y Ddeunawfed Ganrif Hir.

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, roedd troi at danwydd ffosil yn golygu y gellid defnyddio mwy o dir Prydain ar gyfer grawn bara a phorfeydd ar gyfer da byw. Trwy leihau'r galw am goed, cynyddodd y tiroedd oedd ar gael at ddibenion eraill. Roedd hyn yn mynd law yn llaw â chwyldro amaethyddol y ganrif flaenorol lle'r oedd cyfalafiaeth amaethyddol wedi gwella effeithlonrwydd y sector amaethyddol. Gyda dyfodiad stêm a haearn, daeth offer mecanyddol newydd i helpu cynyddu maint y cnydau ymhellach. Daeth yr angen am fwyd â Chymru ymhellach o fewn cylchdro Lloegr, gyda "the increasing demand of English cities ... creating a national (sic) market for foodstuffs" (Hechter, 2017, t. 136). Arweiniodd hyn at welliannau mewn amaethyddiaeth, cyfathrebu a thrafnidiaeth yn cael eu cyflwyno i Gymru o Loegr ac adeiladu camlesi yn y 18fed Ganrif a rheilffyrdd yn y 19eg Ganrif, a arweiniodd at ostyngiad sylweddol mewn costau trafndiaeth ar gyfer masnach fewndirol (Williams, 1985, t. 177).

Daeth cysylltiadau amaethyddol gwahanol Gymru a Lloegr i ben gyda chreu marchnad 'genedlaethol'/Brydeinig ar gyfer bwydydd. Cyflwynwyd y landlordiaeth a fu'n rhan o fywyd cymdeithasol cefn gwlad Lloegr am rai canrifoedd i Gymru.

---

<sup>62</sup> Brechlyn cyntaf y byd, a ddefnyddiwyd yn gyntaf yn Lloegr yn 1796.

Hyd at ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd gan denantiaid amaethyddol yng Nghymru sicrwydd deiliadaeth nad oedd yn bodoli yn Lloegr. Yn draddodiadol, roedd prydlesi daliadau tenantiaid yng Nghymru yn parhau am gyfnod o dair cenhedlaeth, gan sicrhau parhad o ran cysylltiadau cymdeithasol yn ogystal â strwythur economaidd. Roedd y rhenti hirdymor hyn yn sefydlog, gan olygu gostyngiad mewn gwerth i'r perchennog, a chyfradd enillion lleihaol.

Creodd yr economi chwyddiannol adeg Rhyfeloedd Napoleon angen am fwy o hyblygrwydd wrth osod lefelau rhent. O ganlyniad, daeth yr arferiad i'r amlwg o ddyrannu pris rhent yn flynyddol. Roedd effaith chwyddiannol yr arferion rhenti newydd hyn yn sylweddol, gan orfodi llawer o denantiaid oddi ar y tir. Roedd y tir a adawyd fel arfer yn cael eu cyfuno'n unedau mwy neu eu hychwanegu at *demesne* yr arglwydd. Dadansoddodd Engels effaith y newidiadau hyn mewn cysylltiadau cymdeithasol ar y werin Gymreig (Marx & Engels, 1975, tt. 556-557):

*If the peasantry of England shows the consequences which a numerous agricultural proletariat in connection with large farming involves for the country districts, Wales illustrates the ruin of smallholders. If the English country parishes reproduce the antagonism between capitalist and proletarian, the state of the Welsh peasantry corresponds to the ruin of the small bourgeoisie in the towns. In Wales are to be found, almost exclusively, smallholders, who cannot with like profit sell their products as cheaply as the larger, more favourably situated English farmers, with whom, however, they are obliged to compete. Moreover, in some places the quality of land admits of the raising of livestock only, which is but slightly profitable. Then, too, these Welsh farmers, because of their separate nationality, which they retain perniciously, are much more stationary than the English farmers. But the competition among themselves and with their English neighbours (and the increased mortgages upon their land consequent upon this) has reduced them to such a state that they can scarcely live at all.*

Helpodd hyn yn anuniongyrchol i hybu twf 'Llafur Rhad' wrth i fwy a mwy o weithwyr amaethyddol Cymru symud i ganolfannau diwydiannol i chwilio am waith.

Ni waeth beth oedd cyflymder y datblygiad technolegol hwn, ni fyddai Prydain erioed wedi gallu bwydo ei phoblogaeth gynyddol ar ei hadnoddau ei hun yn unig. Mae Pomeranz (2009) ac Eric Jones (2003) yn cyfeirio at "ghost acreage" Prydain ddiwydiannol a ganiataodd iddi ddianc o gyfyngiadau daearyddol. Roedd yr Americas - ffynhonnell natur rhad a llafur rhad - hefyd yn ffynhonnell bwyd rhad. Cafwyd miliynau o erwau o bridd ffrwythlon y gellid ei ddefnyddio i fwydo poblogaeth gynyddol ym Mhrydain o ganlyniad i reolaeth drefedigaethol a chaethwasiaeth yn y Byd 'Newydd'. Daethpwyd o hyd i'r ateb yn y pen draw mewn dwy ffin fawr. Roedd y ffin gyntaf yn fertigol, gan symud i'r Ddaear i echdynnu glo. Roedd yr ail yn llorweddol, yn symud ar draws y Ddaear i gynhyrchu gwenith, yn enwedig yng Ngogledd America (Moore, 2010, t. 394). Daeth Prydain yn:

*the workshop of the world and then exchange[d] her industrial products for abundant cheap food from the continents of new settlements overseas. The New World was called in to redress the balance of the Old. Britain's worldwide network based on coal, iron and steel entailed running down home agriculture ... and in effect endowing the British economy with the equivalent of abundant additional land from overseas*  
(Thomas, 1982, t.336).

Roedd y Ddeunawfed Ganrif Hir felly yn gyfnod pan gafodd Cymru ei gwreiddio'n ddwfn a chadarn o fewn economi wleidyddol Lloegr. Arweiniodd yr angen am bob un o Bedwar Rhad Moore (2015) at ecsbloetio gwaddolion naturiol Cymru, gan ei wneud ar yr un pryd yn rhan bwysig o'r system-fyd oedd yn ehangu. Roedd Cymru, ar un llaw, yn rhan ganolog o safbwynt craidd Prydain o fewn y system-fyd, tra ar y llaw arall nid oedd yn datblygu ei hanghenion mewnol ei hun ond yn hytrach yn ymateb i rai Lloegr. Roedd ei hadnoddau yn ganolog i'r prosiect Prydeinig, ond yn

*fewnol* roedd yn parhau i fod ar y perifferi yn wleidyddol ac economaidd oherwydd ei fod yn ymateb i angen a gorchmynion o'r tu allan.

## Cymru: Gwladfa Fewnol?

Newidiodd y Chwyldro Diwydiannol bob un o genhedloedd Ynysydd Prydain. Bu newidiadau sylweddol yn yr Alban, Cymru ac Iwerddon o ran poblogaeth yn yr oes ddiwydiannol. Rhwng 1841 a 1901, bu bron i boblogaeth Iwerddon haneru; bu farw llawer yn ystod newyn tatws Iwerddon, tra mudodd eraill i'r Unol Daleithiau. Yn yr Alban, mudodd Protestaniaid i wladychfeydd Gogledd Iwerddon tra yn yr Alban arweiniodd Cliriadau'r Ucheldiroedd y 19eg Ganrif at ddinistriad y system Claniau a symudodd llawer i'r iseldiroedd mwy Eingl-Albanaidd. Oherwydd pwysigrwydd cynyddol adnoddau Cymru i'r peiriant imperialaidd Prydeinig, bu cynnydd cyflym a sylweddol yn y boblogaeth yn gynnar yn yr 20fed ganrif. Roedd y cynnydd hwn o'r tu allan ac o'r tu mewn. Rhoddodd Michael Hechter (2017) sylw arbennig i'r cyfnod hwn yn ei lyfr *Internal Colonialism: The Celtic Fringe in British National Development*. Ei ddadl oedd bod Cymru, yr Alban, Iwerddon, a Gogledd Iwerddon yn wladfeydd mewnol. Dywedodd Hechter (2017, t. 9):

*The features of this [internal colonial] model may be sketched briefly. The spatially uneven wave of modernisation over state territory creates relatively advanced and less advanced groups. As a consequence of this initial fortuitous advantage, there is crystallisation of the unequal distribution of resources and power between the two groups. The superordinate group, or core, seeks to stabilise and monopolise its advantages through policies aiming at the institutionalisation of the existing stratification system. It attempts to regulate the allocation of social roles such that those roles commonly defined as having high prestige are reserved for its members. Conversely, individuals from the less advanced group are denied access to these roles.*

*This stratification system, which may be termed a cultural division of labour, contributes to the development of distinctive ethnic identification in the two groups. Actors come to categorise themselves and others according to the range of roles each may be expected to play. They are aided in this categorisation by the presence of visible signs, or cultural markers, which are seen to characterise both groups. At this stage, acculturation does not occur because it is not in the interests of institutions within the core.*

Mae'r traethawd ymchwil hwn eisoes wedi dadlau bod pobl Cymru, ers 1536, wedi cael yr un hawliau â'u cymheiriaid yn Lloegr ac felly mae'n ymddangos bod diffyg tystiolaeth bod y craidd – neu Loegr – yn dymuno sefydlogi a monopoleiddio ei fanteision trwy bolisiau sy'n anelu at sefydliadoli'r system haenedig.<sup>63</sup> Mae'r traethawd ymchwil hwn yn cytuno bod y don ofodol anwastad o 'foderneiddio' (efallai y byddai cyfalafiaeth yn air mwy addas) dros diriogaeth y wladwriaeth yn creu gwahaniaeth rhwng lleoedd, ond efallai y byddai hyn yn cael ei ddisgrifio'n well fel rhaniad llafur *rhanbarthol*, yn hytrach na rhaniad *diwylliannol*.<sup>64</sup> Cyfeirir at bwysigrwydd rhaniad rhanbarthol llafur yn y system-fyd gan Wallerstein (2011, t. 230) pan ddadleuodd nid galwedigaethol yn unig yw'r rhaniad llafur ond hefyd yn ddaearyddol. Hynny yw, nid yw'r ystod o dasgau economaidd wedi'u dosbarthu'n gyfartal ledled y system-fyd. Gan droi'n benodol at y cyfnod dan sylw, dywedodd Hechter (2017, t. 186):

*From 1850 on the industrial enclaves in the periphery experienced continual demographic expansion, while the absolute population size of the hinterland counties either stabilised, as in Scotland, or actually declined, as in Wales, Ireland, and Northern Ireland. Much of the migration from hinterland to industrial areas occurred within regions. Some, however, also was between regions. In general, the periphery*

<sup>63</sup> Gweler y bennod "Deddfau Uno â Chymru".

<sup>64</sup> Mae gwahaniaethau diwylliannol yn medru cael eu arosod ar y rhaniad rhanbarthol ond mae un yn ganlyniad o'r llall.

*fed the core. After 1846, for instance, there was massive Irish emigration to industrial areas in Scotland and England. ... but there was also a movement of population, albeit smaller, from England to the periphery following industrialisation there.*

Mae rhai meysydd ymholi yn codi o'r darn uchod. Dywed Hechter fod y perifferi yn bwydo'r craidd (o ran poblogaeth), ac yn achos Iwerddon yn sicr byddai hyn wedi bod yn wir. Fodd bynnag, yng Nghymru, rhwng 1841 a 1901 dyblodd y boblogaeth a rhifodd dros 2 filiwn erbyn dechrau'r ganrif newydd (Thomas, 1986, t. 213). Ar y llaw arall, ehangodd yr Alban yn rhannol oherwydd mewnfudo o Iwerddon. Nid yw profiadau Iwerddon, Cymru, a'r Alban o ran mudo, felly, yn cyfateb, er gwaethaf eu hunaniaeth 'Celtaidd'. Fodd bynnag, mae Hechter yn ceisio darlunio hanes pob lle fel 'Trefedigaethau Mewnol' i Loegr. Mae ymgais glodwiw Hechter i ail-gyfeirio hanes Prydain a chynnwys y profiad Celtaidd weithiau'n lleihau ac yn llyfnhau gwahanol brofiadau'r cenhedloedd Celtaidd. Dyma ddywed Kearney (2012, t. 165) wrth drafod y gwahaniaethau rhwng Cymru ac Iwerddon:

*The consequences of industrialisation were very important for Wales since it saved the country from the massive emigration which took place in Ireland. South Wales became a melting pot in which Welsh, English, and Irish were intermingled, though the great majority were Welsh. There was no equivalent of the Irish famine, no mass emigration to America under conditions of great hardship and no Welsh equivalent of the intense involvement which Irish Americans often displayed in the affairs of their homeland there was thus no counterpart in Welsh history of Fenianism.*

O ran Cymru'n benodol, gellir dadansoddi casgliad Hechter mewn dwy ffordd. Y cyntaf yw nad oedd Cymru, yn ôl Hechter, ar y perifferi yn y cyfnod hwn. Os oedd y perifferi yn bwydo'r craidd, byddai rhywun yn tybio y byddai poblogaeth Cymru wedi lleihau yn y cyfnod hwn - neu wedi aros yn sefydlog ar y cyfan pe bai'r mudo yn *fewnol* yn unig – ac eto tyfodd yn sylweddol. Mae Hechter yn cyfaddef bod yna symudiad o Loegr i'r perifferi ond bod hyn yn 'llai' na'r duedd i'r gwrthwyneb. Nid yw Cymru'n dilyn y duedd hon. Yr ail osodiad yw nad oedd Hechter yn ystyried y



rhanbarthau hynny yng Nghymru y tyfodd eu poblogaethau yn 'wirioneddol Gymreig'. Mae awgrym o hyn yn y defnydd o'r term glofannau diwydiannol. Mae'n bosibl mai'r 'clofannau' hyn oedd y creiddiau oedd yn cael eu bwydo gan y perifferi. Dadleuodd Hechter (2017, t. 149) hefyd fod y

*hinterlands ... became more and more distant, in a social sense, from the industrial enclaves of Wales. The industrial cities were far more cosmopolitan, English-oriented in culture, and secular than these rural hinterlands.*

Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb yn nadl Hechter. Mae'n haeru bod Cymru – gan gynnwys y clofannau diwydiannol – ar y perifferi yn y 19eg Ganrif ac yn gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng sefyllfa Cymru a sefyllfa cyn-drefedigaethau Prydeinig. Dywedodd (2017, tt. 189-190):

*To be English-speaking in nineteenth-century industrial Wales was to be culturally privileged – just as it is today in neo-colonial cities like Accra or Lagos. It was a mark of status and an entrance to privileged company. Englishmen in Wales were in this sense akin to a colonial elite. Their cultural identification, of itself, determined many aspects of their behaviour.*

Mae'n amlwg, felly, nad yw Cymru ar un llaw yn cyd-fynd â'i ddiffiniad o fod ar y perifferi, tra ar y llaw arall, mae'n parhau i weld Cymru gyfan ar y perifferi. Y mater mwy sylfaenol, fodd bynnag, yw ei amwysedd o ran sefyllfa'r Gymru ddiwydiannol. Nid 'clofannau' oedd y lleoedd hyn, nid oeddent yn *wahanol* yn ddiwylliannol nac o ran cenedl i Gymru: dyma Gymru. Ni wnaeth y mewnfudo o'r tu allan newid y nodweddion a'r agweddau cymdeithasol a oedd yn gyffredin yn sylweddol oherwydd dangosodd y trigolion brodorol allu amlwg i stampio eu hargraff eu hunain ar bob newydd-ddyfodiad, a chyfathrebu mesur helaeth o'u nodweddion eu hunain iddynt (Thomas, 1986, t. 223). Ymhellach, parhaodd iaith a diwylliant Cymru yn Gymreig er gwaethaf y mudo mewnol a'r mewnfudo. Hyd yn oed yn 1891, roedd 59% o boblogaeth Cymru yn parhau i siarad Cymraeg. Ymhellach, yn 1870 pasiwyd

Deddf Addysg Elfennol yn Senedd San Steffan. Creodd y Ddeddf hon addysg orfodol i bob plentyn rhwng pump a thair ar ddeg yng Nghymru a Lloegr. Ni all Hechter ateb pam y byddai'r 'elît trefedigaethol' yn penderfynu cynnwys ac ymgorffori'r 'drefedigaeth fewnol' yn ei system addysg. Os oedd y Saesneg yn farc statws a rhoddodd mynediad i gwmni breintiedig, a 'gollodd' y Cymry'r ymdeimlad o fod wedi'u gwladychu gyda dyfodiad addysg Saesneg?

Mae'n werth cofio erbyn 1901 bod 13.8% o boblogaeth Cymru wedi'u geni yn Lloegr. Roedd hyn yn gyfanswm o bron i 280,000 o bobl a dim ond rhwng 1901 a 1911, symudodd 69,000 o bobl o Loegr i feysydd glo Morgannwg, o gymharu â 34,000 o fannau eraill yng Nghymru (Trystan, 2000, tt. 132-133). Dadleuodd Hechter (2017, t. 186)

*in general, there is no statistical information about the kinds of jobs Englishmen assumed in the peripheral enclaves. ... However, it is likely that they had a disproportionate share of jobs in managerial and commercial categories.*

Tybiaethau yw'r rhain a wnaed gan Hechter i gefnogi ei ddadl, yn hytrach na ffeithiau sy'n llunio ei ddadl. Mae'n llawer mwy tebygol bod mwyafrif y 280,000 o bobl a aned yn Lloegr a oedd yn byw yng Nghymru yn byw mewn amodau tebyg i'w cymheiriaid Cymreig. Mae ystumiad Hechter wedi'i selio ar ei gred hynod bod y rhaniad llafur a fodolai yn ddiwylliannol, yn hytrach nag yn rhanbarthol ac yn seiliedig ar ddsbarth. Os yw rhaniad llafur yn gynhenid ddiwylliannol, yna rhaid bod y gwahaniaeth o ran incwm rhwng y Cymry a'r Saeson yng Nghymru yn cael ei gynnal. Os yw'r rhaniad llafur yn *rhanbarthol*, mae'n helpu i egluro sut y cafodd y rhai a symudodd i Gymru eu hymgorffori yn y diwylliant a'r gymdeithas honno.

Nid *Cymreictod* sy'n peri bod Cymru ar y perifferi yn economaidd, ond yr anghysondeb o ran datblygiad rhanbarthol a chyfalafol. Mae gwahaniaethau gweddilliol ac amodau daearyddol rhwng lleoedd yn gwneud treiddiad cyfalafiaeth yn anos mewn rhai mannau nag eraill, a gall hyn yn ei dro arwain at wahaniaeth

diwylliannol-ieithyddol parhaus, ond nid yw hynny'n rhagdybio bod y rhaniad llafur sy'n bodoli yn un diwylliannol. Mae'n bosibl i Gymru fod ar y perifferi yn economaidd, heb fod yn drefedigaeth fewnol. Dadansoddodd Rawkins (1978, t. 520) y diffygion ym meddylfryd Hechter yn gywir:

*Although such an approach offers a valuable corrective to negative portrayals of the significance of minority nationalism, it must be appreciated that the apparent 'colonial' status of the [Celtic] periphery results from the operation of broad economic forces and structures rather than from a contrived and consistently discriminatory policy on the part of the British state. Certainly, the Scots, Welsh, and particularly the Irish, have been subjected to severe political oppression by the forces of the state at various times. However, though insensitivity to - or ignorance of - ethnic differences within the British Isles has been an uncomfortably recurrent feature of governmental decision making, this does not serve as the basis for an explanation of current economic and social difficulties in terms of systematic, politically motivated deprivation.*

Beirniadaeth olaf o draethawd ymchwil Hechter yw ei ddealltwriaeth o 'ethnigrwydd' a sut mae hyn yn berthnasol i'w thesis ar Wladychiaeth Fewnol. Ni all Hechter ddatgan, yn bendant, beth yn union yw ethnigrwydd, sydd yn ei farn ef yn sail i raniad diwylliannol llafur. Mae Hechter (2017, tt. 33-38) yn dechrau drwy nodi bod ethnigrwydd yn gyfystyr â'r diwylliant cenedlaethol y mae rhywun yn diffinio ei hun drwyddi, fodd bynnag byddai hyn yn awgrymu bod Cymro â hunaniaeth Brydeinig, a phobl sydd yn uniaethu fel Cymry *a priori* o ethnigrwydd gwahanol, gwaeth faint o gysylltiadau diwylliannol/ieithyddol/etifeddol arall sy'n gyffredin iddynt. Fodd bynnag, y mater fwyaf sy'n codi o'i ddiffiniad goddrychol o ethnigrwydd a/neu ddiwylliant (nid yw Hechter byth yn diffinio'r naill na'r llall mewn unrhyw ffordd ystyrllon) yw ei fod yn caniatáu iddo wneud datganiadau fel:

*the objective gains or losses from union with England have little bearing on the widespread sense in the Celtic lands that these unions were fortunate or unfortunate*

*events. It is that subjective sense which must be put to the analysis, for these sentiments provide the social basis for political action and behaviour* (Hechter, 2017, tt.68-69).

Mae goddrychedd yn bwysig wrth ddadansoddi cysylltiadau dynol o unrhyw ffurf, ond rhaid i hyn fod yn seiliedig ar wrthrychedd. Os gallwn brofi, nad oedd poblogaeth Cymru - am y rhan fwyaf o gyfnod bodolaeth gwladwriaeth Cymru a Lloegr - yn ystyried yn oddrychol nad oeddent dan orthrwm neu wedi'u hymerodroli, yna mae ei draethawd cyfan yn chwalu. Nid yw'r buddion a'r colledion gwrthrychol o ganlyniad i undeb â Lloegr yn gwestiwn eilradd o ran a oes rhaniad diwylliannol o lafur, ond yn hytrach, dyma'r cwestiwn canolog, ac eto diystyrir hyn yn nadansoddiad Hechter. Mae'r traethawd ymchwil hwn yn cynnig gosod y cwestiwn hwn yn hollol ganolog i unrhyw ddadansoddiad o ymdeimlad gwleidyddol cenedlaethol neu ddiwylliannol. Ni all y traethawd ymchwil hwn, felly, gefnogi dadl Hechter ynghylch rhaniad *diwylliannol* llafur rhwng Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod rhaniad llafur *rhanbarthol* rhwng de-ddwyrain Lloegr a'r cyrion i'r gogledd a'r gorllewin. Y gwir amdani, fodd bynnag, yw na welodd llawer o bobl Cymru unrhyw wrthddywediad rhwng Cymreictod a Phrydeindod; mater nad aeth Hechter i'r afael ag ef mewn gwirionedd.

## Y Croesddywediad Cenedlaethol/Imperialaidd

Yn y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif aeth Cymru trwy adfywiad diwylliannol, gan ddilyn yr un patrymau ag a welwyd ar draws Ewrop gyda thwf cenedlaetholdeb rhamantaidd. Roedd delfrydiaeth mudiadau fel yr Eidal Ifanc - dan arweiniad Joseph Mazzini - a brwydr cenedlaetholwyr yn Hwngari yn taro tant yng Nghymru, a chawsant sylw mawr gan Gwilym Hiraethog. Dyma areithydd hynod

boblogaidd, a thrwy ddarlithoedd di-rif ar hyd a lled Cymru, gwnaeth Kosuth a Garibaldi yn arwyr i'r Cymry (Williams, 1950, t. 274). Arweiniodd twf cenedlaetholdeb diwylliannol at fwy o bendantrwydd gwleidyddol, at sefydlu sefydliadau cenedlaethol megis Prifysgol Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol, twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a 'dadeni diwylliannol' y Gymraeg trwy addysg, a cherddoriaeth (Jones a Jones, 2003, t. 57). Nododd Eric Hobsbawm (Hobsbawm a Wrigley, 1999, t. 298) (mewn tòn braidd yn goeglyd) fod:

*Wales was divided into two culturally equal Welsh sectors, which had increasingly little in common with one another except the fact of not being English.*

Gallai'r symbolau cenedlaethol hyn o Gymru bellach o leiaf ddechrau addurno Cymreictod gyda mwy o ystyr na 'beidio bod yn Sais'. Yr oedd y Cymreictod cynyddol hwn wedi ei drwytho yng nghroesddywediadau'r amser; roedd ymdeimlad cynyddol o hyder ar un llaw yn safle Cymru o fewn y byd, ynghyd â dealltwriaeth gynyddol o'i hynodrwydd o gymharu â Lloegr. Ar y llaw arall, Cymreictod imperialaidd oedd hwn, yn bodoli ochr yn ochr â Lloegr ymerodrol yn yr Ymerodraeth Brydeinig. Gallai cefnogi brwydr honedig Eidalwyr a Hwngariaid yn erbyn eu cymdogion yn Awstria gyd-fynd â 'chenhadaeth waraidd' yr Ymerodraeth Brydeinig.

Mae Kumar (2000, t. 579) wedi diffinio cenedlaetholdeb Seisnig y gorffennol a'r presennol fel "imperial nationalism":

*My point is that empires, though in principle opposed to claims of nationality, may be the carriers of a certain kind of national identity that gives to the dominant groups a special sense of themselves and their destiny. Such groups - the "state-bearing" peoples or Staats Volker - will be careful not to stress their ethnic identity; rather they will stress the political, cultural, or religious mission to which they have been called. Hence another possible name for this kind of national belonging is "missionary*

*nationalism." Further, if one wishes to attribute it to one of the two conventional types of nationhood, political and ethnic, its opposition to ethnicity clearly puts it within the category of the political nation.*

Roedd y cysyniad gwleidyddol - neu ddinesig - o genedlaetholdeb imperialaidd Seisnig yn golygu y gallai Cymru gofleidio'r ddwy hunaniaeth; eu Cymreictod a'u Prydeindod law yn llaw. Roedd eu dealltwriaeth ddiwylliannol o fod yn Gymry yn seiliedig ar strwythur gwleidyddol neu ddinesig a oedd yn Brydeinig ac yn ymerodraethol. Er bod astudiaethau cenedlaetholdeb a'r gymdeithas ehangach yn cyfeirio'n aml at y "genedl-wladwriaeth", mae uniad cyflawn cenedl a gwladwriaeth yn beth prin iawn, hyd yn oed o fewn gwladwriaethau hŷn. Gall hyn ymddangos yn anacronistig i ddechrau, ond yr aneglurder cysyniadol sydd yn y tymor hir yn gwneud cydlynid mewnol yn haws. O fewn cenedlaetholdeb Prydeinig gallai rhywfaint o hynodrwydd a phlwraliaeth ethnig berthyn i bob un o'i chenhedloedd, ond gallai pob gwlad ddod at ei gilydd dan ymbarél y wladwriaeth wleidyddol, a atgyfnerthwyd gan ymdeimlad cyffredin o dra-arglwyddiaeth ymerodrol ac Ymerodraeth. Fel y dadleuodd McCrone (2002, t. 182):

*being British was not an alien imposition, but a complimentary identity to one's nationality, and, above all, one with strong imperial connotations in which people took pride and confidence.*

Er enghraifft, dywedodd David Lloyd George – yr unig Brif Weinidog Cymreig – ar ôl ei fuddugoliaeth yn yr etholiad ym 1890:

*We are Imperialists because we are nationalists ... we know that by the sum of the success, prosperity and happiness attained by little Wales, the great Empire of which she is a part will be the more glorious (Grigg, 1988, p. 6).*

Ni allwn ddod i gasgliad a oedd Cymru gyfan yn teimlo'r un fath am y prosiect imperialaidd, ond yn amlwg mae'n fwy cymhleth na'r syniad o ymwybyddiaeth ffug (false consciousness) (Qilbash, 2016) neu fod llwch wedi'u daflu i lygaid y

Cymry. Mae'n amlwg y byddai rhai wedi cefnogi'r prosiect imperialaidd ac wedi ceisio ymelwa ohono. Nid oedd yr Ymerodraeth fel y cyfryw yn destun pryder i lawer ond teimlent fod eu Cymreictod yn rhoi asiantaeth foesol (moral agency) a dealltwriaeth wahanol iddynt i'r Saeson (Jones a Jones, 2003, t. 66). Ceisiodd rhai gadael yr Ymerodraeth Brydeinig ar ôl, yn fwyaf enwog trwy greu'r *Wladfa* ym Mhatagonia. Gyda thipyn o eironi, roedd hyd yn oed yr ymdrech hon wedi'i llywio gan ddealltwriaeth Brydeinig o Ymerodraeth gan fod yr ymsefydlwyr Cymreig hyn yn fwy na pharod i gymryd tir nad oedd yn perthyn iddynt, waeth beth fo'r stamp diwylliannol Cymreig.

Y Saeson, o'u rhan hwy, yn amlwg oedd y grym y tu ôl i Brydeindod, ond roedd y pwyslais ar y 'dinesig' neu'r gwleidyddol, nid diwylliant 'Seisnig':

*Britain and the British came to be identified with the Crown, with Parliament, with the Protestant religion, and with the worldwide British Empire. All groups in the kingdom were invited to share in this achievement and, where relevant, its spoils; to a good extent, all did. Again, no more than in the case of the Austrian Germans or the Russians is this strategy to be equated with undue modesty or altruistic self-restraint on the part of the English. If you are clearly in charge, you do not need to beat the drum or blow the bugle too loudly. To do so in fact would be to threaten the very basis of that commanding position, by reminding other groups of their inferiority and perhaps provoking them to do something about it (Kumar, 2000, pp. 589-590).*

Helpodd y chwyldro diwydiannol i danlinellu'r berthynas rhwng Cymru, yr Alban, a Lloegr a'u Prydeindod cyffredin. Roedd twf diwydiant gwir yn ffenomen 'Prydeinig', a chynhigiodd dynodiad clir y gallai pob grŵp ethnig uniaethu ag ef. Prydain - nid Lloegr - oedd cymdeithas ddiwydiannol gyntaf y byd. Mewn gwirionedd, dadleuir yn aml mai Cymru oedd y genedl broletaraidd gyntaf. Tyfodd y diwydiannu hwn law yn llaw ag Ymerodraeth dramor eang Prydain lle'r oedd grym y naill yn gryfder i'r llall. Roedd Prydain wrth galon y system-fyd, ac roedd

bod yn rhan o'r clwb dethol hwn yn golygu y gallai Cymru hefyd ddringo'r ysgol economaidd. Roedd Cymru bellach yn arwain y ffordd yn economaidd:

*But this was not simply a matter of coal export, huge though that was, of John Cory's bunkers straddling the world and south Wales coal keeping the greatest navy in the world afloat, staggering though these were. The capital, the technology, the enterprise, the skill and the labour of south Wales fertilised large and distant tracts of the world, from Montana and Pennsylvania to Chile, Argentina and Russia. They helped to deflect the economic development of Spain, wrenching the centre of its heavy industry from its natural base in the Asturias to the region of Bilbao, where Dowlais planted a subsidiary to snatch the high-grade ores and an even higher-grade people, to scatter Spaniards around its own town and out to Abercraf. South Wales firms bought up shipping companies and port capital in Rouen, Le Havre, Brest, Hamburg, Marseille, Naples; for years Italy's economic rhythms were those of its Welsh coal imports; the little town of Bardi near Parma, with a few friends, specialised in colonising Wales with their popular restaurants, cafes and chip-shops, supplying some of Wales's most striking dynasties and finding an immortality in Gwyn Thomas's novels. For years, the real economic capital of Chile was Swansea, luxuriating in its nitrate clippers and Cape Horners, though it was North Wales which rivalled the Jacks to provide some of their most ruthless oligarchs to both Chile and Colombia (Williams, 1985, t. 222).*

Roedd Cymru, felly, yn broletaraidd, ond eto'n imperialaidd, yn falch o fod yn Gymry ond eto'n rhan hanfodol o'r Ymerodraeth Brydeinig; cenedl oedd â barn wydroedig ohono'i hun gan ei bod yn pontio'r ddau fyd hyn (Parry, 2020, t. 176). Fodd bynnag, nid oedd yr uchelfannau hyn yn niwylliant Cymru erioed yn her wirioneddol i Brydeindod na'r wladwriaeth Brydeinig. Roedd Cymreictod 'ethnig' yn ffitio'n daclus o fewn Prydeindod dinesig/gwleidyddol ehangach. Ni cheisiodd arloeswyr cenedlaetholdeb rhamantaidd yng Nghymru erioed geisio dadwneud y drefn wleidyddol. Ymhellach,



*concerns with the preservation of the Welsh language and the promotion of Welsh literature had no functionality in the revolutionary politics of the period (since the language was a living one for the working class, and 'literature' was largely oral) (Wilks, 2021, t. 251).*

Yn yr ystyr hon, roedd eu tynged yn debyg i genedlaetholwyr Basgaidd a Chatalanaidd; roeddent yn bodloni â gwleidyddiaeth uchel yn hytrach nag ymdrybaeddu yn nyfnderoedd gwleidyddiaeth 'go iawn'. Nid oedd gan yr Eidalwyr o'u rhan hwy wladwriaeth i'w datgymalu, fel y cyfryw, ond gwladwriaeth i'w chreu. Roedd hyn ar un llaw yn llwyddiannus, ond ar y llaw arall arweiniodd at yr amodau lle gallai ffasgaeth ffynnu. Ym mhob un o'r tri achos, nid oedd dehongliad rhamantaidd o'r genedl yn rheswm digonol i'r dosbarthiadau gweithiol chwifio baner cenedlaetholdeb.

## Anghydfurfiaeth a Methiant Rhyddfrydiaeth Gymreig

Ar ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif, roedd dau gonglfaen i fywyd Cymreig: Rhyddfrydiaeth, ac Anghydfurfiaeth. Roedd dylanwad y Blaid Ryddfrydol ar Gymru yn ystod y cyfnod hwn yn enfawr. Yn etholiad cyffredinol 1885, enillodd y Rhyddfrydwyr 29 o'r 34 sedd yng Nghymru, ac yn 1910, enillon nhw 26 o 36. Erbyn 1922, fodd bynnag, dim ond 2 sedd oedd gan y Rhyddfrydwyr. Mae angen mynd i'r afael â chryfder gwreiddiol, a chwymmp diweddarach rhyddfrydiaeth yng Nghymru. Ar y dechrau, roedd y rhyddfrydiaeth a fabwysiadwyd yn *Gymreig* ei naws; nid rhyddfrydiaeth o'r tu *allan* oedd hyn, ond un a oedd yn berthnasol i realiti cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Roedd yn cysylltu ei hun â'r traddodiad anghydfurfiol; crefydd y *werin*, ac yn amlach na pheidio, roedd yn siarad yn Gymraeg, a hyd yn oed trwy fudiad gwleidyddol *Cymru Fydd* - a arweiniwyd ar un adeg gan Lloyd George ifanc - yn sôn am ryw fath o ymreolaeth,

os nad am annibyniaeth lwyr. Efallai bod eu hamcanion yn wedi'u cyfyngu i chwilio am gydnabyddiaeth symbolaidd o ddiwylliant Cymreig a hynodrwydd Cymreig (Rawkins, 1978, t. 524) ond o leiaf roeddent yn siarad â'r Cymry am gwynion Cymreig. Mae Morgan (1999, t. 330) yn trafod y drindod a fodolai rhwng rhyddfrydiaeth, anghydfurfiaeth a chenedlaetholdeb:

*Trading on the grievances of their overwhelmingly nonconformist constituency, Lloyd George and his colleagues focused on the intertwined questions of national and religious identity. As the party of privilege and the landed elite, the Tories, they claimed, had always been inimical to the needs and aspirations of ordinary Welsh people, while the established Church, far from being the guarantor of the nation's spirituality, was in fact nothing but the Church of England in Wales. By its long subservience to its 'alien' masters, the Anglican Church had forfeited its claim to be the one authentic Church of the people. It was a politicised non-conformity, therefore, which seized upon the glaring ecclesiastical weaknesses which patriotic churchmen had revealed with such candour, to forward its own aims. In short, it suited Lloyd George and his friends to reinforce the claim that Christianity (in its nonconformist guise) and Welsh national identity were one.*

Roedd Cymru'n wlad hynod grefyddol, ond eto'n un a oedd yn ystyried Anglicaniaeth fel rhywbeth wedi'i orfodi arni o'r tu allan. Anglicaniaeth oedd crefydd y meistri glo a dur, y Torïaid cas, a'r dosbarthiadau canol Seisnig. Dadansoddodd Engels (Marx & Engels, 1985, tt. 502-503) y realiti hwn ym 1844, gan nodi:

*The Church of England has an audience, it is true, although it too, especially in Wales and the factory districts, has been to a considerable degree dislodged by the dissenters, but then the well-paid pastors trouble themselves little about their sheep. If you wish to bring a caste of priests into disrepute and cause its downfall, then pay it well, says Bentham, and the English and Irish churches testify to the truth of this statement.*

Nid proses annibynnol oedd cryfder a thwf anghyddfurfiaeth, nac un a gysylltid yn unig â'r iaith Gymraeg. Roedd anghyddfurfiaeth yn gyfrwng i ddsbarthiadau gweithiol a gwledig Cymru wrthsefyll hegemoni eu landlordiaid a'u penaethiaid.

*Nonconformism grew so dramatically precisely because it offered the means and the strength to oppose the landlords. It created an ideological space enabling the tenantry and workers to step outside their dependence and subservience and to perceive the landlords and bosses as exploitative (Adamson, 1991, t. 105).*

Roedd Anghyddfurfiaeth felly yn fodd i fynegi gwrthwynebiad a brwydr dosbarth, er ar ffurf embryonig; efallai bod y cyfalafwyr yn frenin ar y ddaear, ond nid yn y nefoedd.

Roedd gwreiddiau peiriant y Blaid Ryddfrydol yn y sectorau diwydiannol newydd cymdeithas Gymreig y 19eg Ganrif. Yng Nghymru, roeddent yn fourgeoisie 'cynhenid', ond yn un oedd â chysylltiadau a diddordebau o dan adain ehangach Prydain. Roedd gan y dosbarth cyfalafol hwn - a ddatblygodd o hen blaid y Chwigiadaid (Whigs) - ddiddordeb mewn rhwygo goruchafiaeth wleidyddol yr elît tîrfeddiannol. Cenedlaetholdeb meddal, law yn llaw ag anghyddfurfiaeth oedd strategaeth ideolegol y blaid Ryddfrydol i greu cynghrair dosbarth rhwng y denantiaeth wledig ar y naill law a'r de a oedd yn cael ei ddiwydiannu ar y llaw arall. Fodd bynnag, diflannodd y gynghrair hon bron mor gyflym ag yr ymddangosodd, gyda rhyddfrydiaeth yn methu ag ateb y cwestiynau a osodwyd i Geidwadaeth. Wrth egluro goruchafiaeth y Rhyddfrydwyr a'u cwmp yng Nghymru, mae Kenneth O. Morgan (1974, t. 163) yn cyfeirio'n benodol at y cynnydd yn y dosbarth canol yng Nghymru a'r tensiwn a oedd yn bodoli yn y berthynas â'r dosbarth gweithiol yng Nghymru:

*the key to this Liberal ascendancy, without doubt, is the pressure for social and civil equality from the newly-emergent nonconformist middle class. Rising to authority in the small towns of rural and industrial Wales and on the chambers of commerce of the*

*south Wales ports, it was they who led the pressure for religious equality, for educational opportunity, for security for tenant farmers, and for free trade. They were poised in opposition to the age-old ascendancy of the gentry and of the Anglican church. Further, the grievances and the values of these middle-class nonconformists and their working-class supporters were associated with the national grievances of Wales as a whole. To a marked degree, Liberalism and nationalism were fused, and in a real sense the Liberals were the party of Wales and the vehicle for its growing national consciousness. And this pattern continued, despite such political crises as the schism over Cymru Fydd (the Welsh home rule league) in the mid-1890s or the fierce conflicts over the South African War, down to the outbreak of world war in 1914. Throughout this remarkable era, the involvement of the working class in the Liberal ascendancy was largely assumed. The orthodox view was that Welsh Liberalism was socially and culturally homogeneous. A corollary was that Welsh society was not thought to be marked by the deep chasm between capital and labour that scarred industrial relations in England. The homogeneity of Welsh society was reinforced by the migration of so many Welsh-speaking Welshmen from the rural areas into the coalfield from the 1830s onwards, bringing their values and their cultural and religious institutions with them.*

Byddai'n rhaid i'r dosbarth canol Cymreig newydd benderfynu a fyddai'n cynghreirio â, neu yn erbyn, y wladwriaeth ganolog Brydeinig. Diffiniodd Tiryakian a Nevette (2020, t. 72), ddau fath posibl o genedlaetholdeb i wlad ar y perifferi; un sy'n ffurfio i wrthwynebu'r genedl fwyafrifol, tra bod y llall yn uniaethu â'r genedl-wladwriaeth bresennol:

*In this instance elites of the periphery, however culturally, territorially, and "ethnically" differentiated from those of the centre, find it advantageous to view the interest of the nation as best served by being linked with the nation-state. The nation of origin (or the people of the periphery, or the region) is seen as making contributions in the development of a broader societal community, that of the nation-state in its*

*entirety. In a given period of modernity, when the nation-state is perceived to be in a dynamic growth phase providing greater economic, cultural, and political vistas than the home base of the "periphery," elites of the latter may actively make claims that their contributions (or their community's contribution) will enhance and be enhanced by identification and aggregation with the central regime and its developing "national institutions." As described, the phenomenon of peripheral nationalism qua identification with the nation-state is of the same sort of ethnic and class "assimilation" by upwardly mobile individuals who leave behind their strata of origin.*

Roedd rhyddfrydiaeth yng Nghymru ar un llaw yn uwchleuo anfodlonrwydd Cymreig a natur 'estron' Anglicaniaeth. Ac eto ar y llaw arall yr oedd wedi hau hadau ei ddinistr ei hun. Gyda chymorth safle Prydain yn y system-fyd, credai'r rhyddfrydwyr Cymreig mai'r ffordd orau o wella sefyllfa Cymru oedd o dan adain Prydeindod, er gwaethaf y cyfeiriadau at safle Cymru ar y perifferi. Nid oedd rhyddfrydiaeth yn gallu – neu nid oedd yn fodlon – ateb y cwestiynau materol a oedd bellach yn cael eu gofyn gan ddosbarth gweithiol Cymru a oedd bellach yn mynnu bara ar y ddaear yn ogystal ag yn y nefoedd. Mewn gwirionedd, nid y rhyddfrydwyr bellach oedd plaid anghydfurfiaeth; efallai eu bod yn parhau i fod yn anghydfurfiol yn grefyddol, ond roedd eu gwleidyddiaeth bellach yn cydymffurfio â'r elît cyfalafol. Fel y dadleuodd Keith (1950, t. 16), nid oedd lle bellach i blaid a oedd wedi bod yn arwydd o ryddfreinio gwleidyddol ac yn nyrs cyfalafiaeth. Nawr bod rhyddfreinio wedi dod i gysylltiad sosialaidd, roedd y ddwy swyddogaeth hyn yn gwrthdaro'n agored ac, o ganlyniad, dechreuodd y blaid Ryddfrydol chwalu, gyda rhai o'i haelodau'n cael eu tynnu i'r dde ac eraill i'r chwith. Roedd Dangerfield (1939, t. 10) yn cytuno â'r asesiad hwn:

*But the Liberal Party which came back to Westminster [in 1906] with an overwhelming majority was already doomed. It was like an army protected at all points except for one vital position on its flank. With the election of fifty-three Labor*

*representatives, the death of Liberalism was pronounced; it was no longer the left. ... The millstones of Capital and Labor, the upper and the nether, grind slowly, and Liberalism was caught between them. It might put off the evil hour, poor slippery old faith, but they would crush it in the end.*

Daeth y Blaid Lafur, a ddaeth i'r amlwg yn 1900 o hyd i dir ffrwythlon yng Nghymru. Erbyn 1935, roedd Llafur yn rheoli pob sedd yn y De diwydiannol, gyda phleidlais o dros 45% ar draws Cymru. Daeth eu llwyddiant trwy ychwanegu sylfaen faterol at gonglfeini anghydfurfiaeth (ac i raddau llai) cenedlaetholdeb meddal. Roedd arweinydd cyntaf Llafur sef Keir Hardie yn enwog am arddel polisi o Ymreolaeth i genhedloedd Prydain. Mae'n amlwg bod gan y polisi hwn fwy yn gyffredin â datganoli heddiw nag annibyniaeth lwyr, ond dangosodd cymhwysiad i batrymau cymdeithasol a diwylliannol Cymru a'r Alban (Rawkins, 1978, t. 525). Yn grefyddol, i Hardie, Cristnogaeth ar waith oedd Sosialaeth, cymhwysiad ymarferol y Bregeth ar y Mynydd er mwyn tywys Teyrnas Dduw ar y ddaear (Morgan, 1999, t. 332). Cyfunodd meibion Cymreig megis Niclas y Glais ac Evan Walters ffydd â sosialaeth hefyd; cyfuniad na allai'r Blaid Ryddfrydol gystadlu ag ef. Peintiodd Walters ddarlun enwog 'Y Comiwnydd' yn portreadu undebwr llafur fel ffigwr tebyg i Grist yn arwain ei ddisgyblion yn Ne Cymru ddiwydiannol.

Nid oedd y Blaid Ryddfrydol yn gallu cynnal eu safle cryf yng Nghymru gan nad oeddent bellach yn siarad dros y Cymry. Dechreuodd atyniad eu neges bylu pan ddaeth yn amlwg nad oedd ganddynt yr atebion i gwestiynau pobl Cymru. Cafodd y rhyddfrydwyr eu gwasgu rhwng dealltwriaeth ramantus o genedlaetholdeb ar y naill law, wrth ddymuno dyrchafu eu hunain o fewn y wladwriaeth Brydeinig ar y llaw arall. Daeth rhyddfrydiaeth i gynrychioli'r dosbarth llywodraethol, dosbarth yr oedd wedi ymladd yn ei erbyn ar un adeg. Ochrodd y bourgeoisie Cymreig gyda'r wladwriaeth Brydeinig, yn hytrach na'i dosbarth gweithiol ei hun, fel y gwnaeth y bourgeoisie yng Nghatalunya yn yr un cyfnod. Mewn ymateb i hyn, canfu'r Cymry undod yn eu dosbarth, yn hytrach nag mewn clymblaid-ddosbarth genedlaetholgar

â'r bourgeoisie Cymreig. Os bu cenedlaetholdeb Cymreig yn 'fethiant' yn y cyfnod hwn, y rheswm am hynny oedd anallu'r Blaid Ryddfrydol a'r bourgeoisie Cymreig i gynnig dyfodol materol gwell i'r dosbarth gweithiol.



Ffigur 49: 'Y Comiwnydd' gan Evan Walters.



## 'Popeth Breiniol a Sefydledig a dry'n Fwg, Popeth Sanctaidd a Halogir'

Ni pharhaodd blynyddoedd llewyrchus y diwydiannau trymion yng Nghymru. A hynny oherwydd ffactorau daearegol, technolegol, economaidd a gwleidyddol. Dadleuodd Gwyn Alf Williams (1985, t. 222) mai rhythmau economaidd Gogledd a De America – yn ogystal â thir mawr Ewrop – oedd rhai a berthynai i fewnforion glo Cymreig yn y 19eg Ganrif. Erbyn yr 20fed ganrif, fodd bynnag, Cymru oedd yn dawnsio i guriad economaidd y system ryngwladol. Disgrifiodd Morgan (1999, t. 331) effeithiau cwmp y diwydiant glo yng Nghymru:

*By December 1925 the unemployed in Wales comprised 13.4 per cent of the insured population, two years later 23.3 per cent and in 1930 27.2 per cent. (The comparable percentage in England for 1930 was 15.8). If the 1920s were dire, the 1930s were even worse. In December 1930 the eastern valleys of Rhymney and Tredegar registered unemployment at the rate of 27.5 per cent of the adult population, Pontypridd and Rhondda at 30 per cent, and Newport as high as 35 per cent. By August 1932, when the depression reached its lowest point, 42.8 per cent of all insured Welsh working men were idle.*

Erbyn dechrau'r 20fed ganrif, roedd y rhan fwyaf o'r gwythiennau glo hygyrch wedi'u disbyddu, a gellid esbonio dirywiad gwaddod yn lleol yn nhermau amodau daearegol anodd, gan arwain at gostau cynhyrchu uchel a dibyniaeth ar ddulliau llafurddwys (Day, 2010, t. 33). Roedd meysydd glo de Cymru wedi wynebu costau cynhyrchu uchel erioed, ond roedd glo Cymru yn arbennig o addas ar gyfer codi ager, gan olygu bod ei ragoriaeth yn hyn o beth yn gwrthbwysu'r costau cynhyrchu uwch. Roedd rhinweddau codi ager glo Cymru yn ddigon amlwg i sicrhau galw amdano er gwaethaf y ffaith ei fod o reidrwydd yn costio mwy i'w gynhyrchu. Unwaith y gostyngodd y galw arbennig, roedd llawer o'r diwydiant wedi'i dynghedu wedyn: gan na fyddai ei ansawdd uwch yn gallu gwneud yn iawn am y

gost uwch o echdynnu (Williams, 1983, t. 46). Dyma'n union oedd Jason Moore (2015) yn pwysleisio sef pwysigrwydd Natur ac Ynni Rhad o ran parhad y system-fyd gyfalafol; arweiniodd y cynnydd mewn Ynni Rhad o dramor at ddirywiad ynni mwy costus o Gymru. Dadleuodd Morgan (1999, t. 331) bod cydberthynas uniongyrchol rhwng cyflenwadau ynni rhad eraill a'i effaith ar Gymru:

*European markets began to be serviced by coal mined more cheaply in Italy, Spain and Poland, while France and Belgium, which had formerly been among Wales' best customers, began to be supplied (ironically) with German coal as war reparations in accordance with the stipulations of the Treaty of Versailles. Former South American markets were also importing United States coal at a cheaper rate.*

Dadleuodd Glyn Williams (1983, t. 53) mai'r rheswm pam fod glo Cymru'n anghynhyrchiol oedd marweidd-dra technolegol ac, yn y diwedd cynhyrchodd diwydiannau echdynnol yr Almaen a'r Unol Daleithiau ddwywaith yr allbwn y dyn o'i gymharu â Chymru, diolch i fuddsoddiad helaeth. Wrth ddeall sut y gallai'r Almaen ac UDA fel hwyrddyfodiaid cymharol oddiweddyd tarddle diwydiant, mae'n bwysig cyfeirio at rôl y lled-berifferi yn y system-fyd. Yn ôl Chase-Dunn (2018, t. 79):

*generally stated, our contention is that semiperipheral areas are likely to generate new institutional forms that transform system structures and modes of accumulation. These changes often lead to the upward mobility of these same semiperipheral actors in the core/periphery hierarchy. We will see that the semiperiphery is fertile ground for social, organizational, and technical innovation and has an advantageous location for the establishment of new centers of power. That is why the structural position of the semiperiphery has such evolutionary significance.*

Yn gyntaf, mae'r uchod yn ategu nad system gaeedig yw'r system-fyd a bod modd i wledydd symud o'r lled-berifferi i'r craidd ac i'r gwrthwyneb er ei bod yn anodd cyflawni hyn. Wrth ddadansoddi "advantages of backwardness" roedd

Gerschenkron (1962, tt. 7-8) yn anghytuno â dealltwriaeth datblygiad statig Rostow, a theimlai bod manteision i ddatblygiad hwyr pe bai'r gymdeithas yn gallu eu harneisio. Dywedodd:

*In a number of important historical instances industrialization processes, when launched at length in a backward country, showed considerable differences, as compared with the more advanced countries, not only with regard to the speed of the development (the rate of industrial growth) but also with regard to the productive and organizational structures of industry which emerged from these processes. ... Industrialization always seemed the more promising the greater the backlog of technological innovations which the backward country could take over from the more advanced country.*

Ymhellach, dadleuodd Gerschenkron mai'r ddau ffactor pwysicaf i gyflawni datblygiad economaidd lle bu diffyg datblygiad oedd argaeledd deunyddiau crai a strwythur trefniadol gwladwriaeth unedig. Dim ond yn 1870 y llwyddodd yr Almaen i gyflawni'r olaf, ac fel y dadleuodd Thorsten Veblen (1939), yn y 1870au roedd yr Almaen 250 mlynedd y tu ôl i'r DU yn economaidd ac yn wleidyddol, ond erbyn y Rhyfel Byd Cyntaf roedd y bwlch hwn wedi'i gau. Ymhellach, dadleuodd Chase-Dunn (2018, t. 79) cyn 1880:

*the United States was semiperipheral in the sense that it contained within it a mixture of core and peripheral activities, and U.S. merchants mediated trade between the European core and the Caribbean and Latin American periphery. The United States reached core status in the 1880s, and economic hegemony after World War I. Only after World War II was political/military hegemony embraced.*

Felly, defnyddiodd y ddwy wlad yr "advantages of backwardness" posibl, a defnyddiodd y ddau'r deunyddiau crai ar gael iddynt i ddiwydiannu'n gyflym; roedd hyn ar draul diwydiant Cymreig. Roedd y cefndir daearegol, technolegol ac economaidd yn golygu bod rhywfaint o leihad yn sylfaen ddiwydiannol Cymru yn

anochel, ond roedd elfen wleidyddol hefyd. Fel y dadleuodd John Williams (1989, t. 17), mae Cymru'n rhan annatod ond ymylol o economi gyffredinol y Deyrnas Unedig. Y broblem wedyn fyddai bod rôl Cymru yn yr economi honno mor amlwg yn gweddu orau i gynhyrchiant cynradd am gyfnod hollbwysig. Fodd bynnag, pan beidiodd Cymru â bod yn hollbwysig i ddatblygiad economaidd Prydain, newidiodd ei rôl hanfodol, ond arhosodd ar y perifferi. Yn hyn o beth, roedd Cymru'n adlewyrchu profiad y Mezzogiorno; gwelodd dwf heb ddatblygiad. Tyfodd a newidiodd Cymru'n anfesuradwy yn ystod y chwyldro diwydiannol, ac eto ni osodwyd seiliau gan y chwyldro diwydiannol ar gyfer datblygiad diweddarach. Roedd gan Gymru un swyddogaeth yn niwydiant Prydain a'r system-fyd ehangach. Mae hyn hefyd yn cyfeirio at fethiant dulliau economaidd prif ffrwd: roedd Cymru'n cyflawni'r rôl a roddwyd iddi gan ei manteision cymharol, ond trwy chwarae i'w manteision cymharol, roedd Cymru wedi bod yn storio trafferthion yn y dyfodol (Day, 2010, t. 33). Efallai mai Tom Nairn (2021, t. 174) (fy mhwyslais) sy'n disgrifio orau natur hynod rôl Cymru o ran diwydiannu a'r system-fyd:

*This ambiguous, midway location is explained by the nature of Welsh industrialisation. It was unlike the sort of economic development normally inflicted on backward provinces in being massive, and in transforming (eventually) the conditions of life of most of the population. Speaking of the Heads of the Valleys, the Plaid Cymru Economic Plan states: 'Somewhere on Blackrock, between Gilwern and Brynmawr, there should be a notice; "Welcome to the birthplace of the modern world" — the birthplace of modern industry. Here the early ironmasters established industry on a scale never before seen throughout the world. South Wales became the centre of the iron and steel industry and the techniques developed were copied in every developing country ... For once, Wales led the world'. Nothing remotely comparable could be said of any of the other European countries whose nationalisms superficially resemble that of Wales. However, this industrialisation was like that of such periphery regions in being overwhelmingly guided from outside: it*

*was not the work of a native entrepreneurial bourgeoisie accumulating capital for itself (as in Scotland or the Basque Country) but much more like an invasion from outside. Previously without the main motor of effective separate development, an urban middle class, Wales now acquired an English or at least highly Anglicised bourgeoisie. This combination, an industrialisation at once enormous and de-centred, was probably unique to Wales.*

## (An)Undod ar ôl y Rhyfel

O ganlyniad i brofiadau'r Ail Ryfel Byd crëwyd atgof a thrawma wnaeth uno pobl Prydain. O'r marwydos hyn datblygodd math arbennig o Brydeindod, a ymgorfforwyd trwy ethol y Blaid Lafur. Dyma Brydeindod tebyg i ddyheadau a delfrydau Cymru. Fel y dadleuodd Raymond Williams (2003, t. 99):

*Taking culture in its full sense you would be speaking of ... a way of life determined by the National Coal Board, the British Steel Corporation, the Milk Marketing Board, the Co-Op and Marks and Spencer, the BBC, the Labour Party, the EEC, NATO.*

Yn y cyfnod ar ôl 1945, roedd yn ymddangos fel bod polisi datblygu rhanbarthol yn darparu atebion hirdymor (Jones, 2000, t. 12). Rhoddwyd hwb newydd i fywyd economaidd Cymru gan economeg Keynesaidd, gyda llywodraethau yn ymestyn maint eu hymwneud â rheolaeth economaidd. Mabwysiadodd Llywodraeth Lafur 1945-51 bolisi economaidd Keynesaidd ochr yn ochr â chreu'r wladwriaeth les, a amlygir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Yng Nghymru, roedd y diwydiannau gwladoledig hyn megis y Bwrdd Glo a'r Gorfforaeth Dur yn cyfrif am nifer anghymesur o fawr o weithwyr o gymharu â chyfartaledd rhanbarthol y Deyrnas Unedig (Mann a Fenton, 2017, t. 105). Roedd Prydain, felly, yn cynrychioli 'y Wladwriaeth', diwydiannau gwladoledig, a chymunedoliaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Roedd yn gwneud synnwyr economaidd felly i'r Cymry aros o dan adain y

wladwriaeth Brydeinig. Fel y dadleuodd McCrone (1997, t. 591), roedd gwleidyddiaeth 'genedlaethol' Cymru – trwy lafuriaeth – yn Brydeinig.

Er bod glo a dur yn parhau i fod yn ddiwydiannau pwysig yng Nghymru, parhaodd y dirywiad a ddechreuodd cyn y rhyfel. I wrthbwysu'r golled hon, agorwyd Cymru – ochr yn ochr â rhanbarthau difreintiedig eraill – i Fuddsoddi Uniongyrchol o Dramor (FDI). Nododd Mann a Fenton (2017, t. 178), yn y 1960au:

*branch plants of multinational corporations like Hoover and Ford located in South Wales. ... This combination of new manufacturing employment and a larger and decentralised public sector provided new forms of work for young people in Wales. By 1968 there would be more people working in car manufacturing, clothing or household goods industries than in coal or steel, and by 1970 the number of coal pits had been reduced to 50 from the 300 mines that had been in operation when coal was taken into public ownership in 1947.*

Amlygir cynnydd y gweithfeydd rhanbarthol hyn gan y ffaith rhwng 1966 a 1973, roedd 48% o'r twf mewn cyflogaeth yn dod o darddiad di-gymraeg, yn bennaf gan gwmnïau tramor (Williams, 1981, t. 285). Fel y dadleuodd Calvin Jones (2000, t. 12), yn 1973 dim ond 10% o weithfeydd gweithgynhyrchu yng Nghymru oedd yn gwmnïau Cymreig, tra bod ffatrioedd rhanbarthol yn cyfrif am 70% o holl gyflogaeth ym maes gweithgynhyrchu. Roedd y "rapidly expanding presence of non-British corporations. Meant that when economic circumstances become less favorable to high levels of investment and production, it is such branch-plant operations which are the first to be adversely affected" (Mann a Fenton, 2017, t. 179). Y gobaith oedd y byddai'r gweithfeydd rhanbarthol newydd hyn, ynghyd ag ehangu'r sector gyhoeddus a chodi safonau addysg, yn creu cyfleoedd am fathau newydd o gyflogaeth i'r dosbarth canol 'symudol' yng Nghymru. Aeth y wladwriaeth ati hefyd i adleoli rhai o'i gweithgareddau i Gymru yn y 1960au, gan gynnwys y DVLA, y Bathdy Brenhinol, a'r Swyddfa Basbort.

Roedd y gweithfeydd rhanbarthol hyn yn clymu economïau Cymru a Lloegr yn agosach at ei gilydd; roedd pencadlys y cwmnïau hyn yn gyffredinol yn Llundain neu Dde-ddwyrain Lloegr, a oedd ar un llaw yn hybu datblygiad yr M4 ac ar y llaw arall yn golygu bod y rhan fwyaf o'r swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru yn rhai 'sgil isel' ar hyd y llinell gydosod (Day, 2002, t. 188). Roedd hyn yn cynrychioli dibyniaeth newydd a oedd - mewn cysylltiad â'r hen ddibyniaeth – am arwain at ganlyniadau difrifol yn y degawdau dilynol (Jones, 2000, t. 12). Dadleuodd Glyn Williams (1981, t. 285) fod y polisiau hyn i ddenu busnesau yn ceisio gostwng pris llafur a chyfalaf trwy drethi a chymorthdaliadau. Y gobaith oedd gwneud llefydd yn y perifferi yn fwy deniadol i fentrau preifat. Mewn geiriau eraill, mae'n ymwneud â sybsideiddio menter breifat er mwyn ei denu i'r ardal ymylol lle mae gweithlu parod y gellir ecsbloetio. Er gwaethaf diffygion economeg Keynesaidd, roedd o leiaf yn cydnabod rôl y wladwriaeth mewn perthynas â goresgyn anghydraddoldeb. Newidiodd hyn gydag ethol Margaret Thatcher, a oedd yn ôl Calvin Jones (2015, tt. 276-277) yn ymgorffori:

*consequent ideological shift that, albeit notionally a-spatial, re-cast the regional problem in a whole new light. Previous governments (often dependent of course on votes from the periphery) had seen supporting employment in poor regions as part of the national compact. Under the new orthodoxy, the language of competition applied to industries – and increasingly its host regions – within the national boundaries as well as outside.*

I bob pwrpas, roedd neoryddfrydiaeth ac iaith cystadleuaeth yn golygu y byddai cyfalaf, yn gyntaf, yn ymganoli mewn rhanbarthau llai a llai. Yn y DU, mae hyn yn gyffredinol wedi golygu de-ddwyrain Lloegr. Yn ail, mae'r rhesymeg neoryddfrydol hon wedi gwneud rhanbarthau megis Cymru sydd ar y perifferi yn llai deniadol o ran buddsoddiad cyfalafol y tu draw i'r cyfleoedd cyfyng ar gyfer gweithfeydd rhanbarthol. Nid yw'r wladwriaeth Brydeinig wedyn yn gallu - neu'n mae'n gyndyn i - newid y ffaith ganolog hon. Roedd neoryddfrydiaeth yn golygu nad rôl y

wladwriaeth oedd hi bellach i gyfiawnhau a hybu gweithgareddau cyfalaf lleol; ei rôl oedd cystadlu â diddordebau allanol, a chefnogi cwmnïau cydwladol i sicrhau buddsoddiad neu swyddi. Arweiniodd hyn at Habermas (1975) i ddadlau bod Prydain yn wynebu dau fath o argyfwng; argyfwng rhesymoledd gan nad oedd y wladwriaeth yn gallu bargeinio'n llwyddiannus gyda chyfalaf trawswladol, ac argyfwng cyfiawnhad oherwydd ei anallu i ddadlau dros ddilysrwydd ailstrwythuro'r amgylchedd lleol o blaid cyfalaf tramor. Ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymuno â'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd dim ond dwysáu gwnaeth manteision economaidd set fach o barthau metropolitan yn y DU a'r UE yn fwy cyffredinol. Ni thalodd y strwythur sefydliadol hwn, a ddyluniwyd mewn ffordd i feithrin masnach 'rydd' a chystadleuaeth economaidd, fawr o sylw i'r ffaith bod "neoliberal policies both at national and EU levels seem to be ignoring historical experiences which show that these very processes of capitalist competition are precisely responsible for the present situation" (Hadjimichalis, 1979, t. 27).

Roedd y newid hwn yn teimlo'n *ang-Nghymreig* i rai yng Nghrymu ac arweiniodd at ail-raddnodi Prydeindod (Osmond, 2002). Cynhaliodd Cymru refferenda (ar ryw ffurf) o ddatganoli yn 1979 a 1997. Gall cymharu canlyniadau refferendwm 1979 a 1997 daflu rhywfaint o oleuni ar hyn. Yn 1979, dim ond tua 20% o boblogaeth Cymru bleidleisiodd o blaid datganoli. Yn 1997, roedd y nifer hwn yn 50.3%. Er mai dim ond o 6,721 o bleidleisiau yr enillodd y bleidlais "ie" yn 1997, mae hyn yn cuddio'r ffaith bod:

*dramatic 30% increase in the electorate voting in favour of devolution between the two devolution referenda of 1979 and 1997 [which] indicated that while levels of Welsh and British identity may have not changed much, there had been profound changes in the form of politicisation of the Welsh identity prior to devolution* (Bradbury a Andrews, 2010).

Dengys Tabl 1 fod hunaniaethau Cymreig yn unig, a Phrydeinig/Prydeinig a Chymreig wedi aros yn gymharol sefydlog yng Nghymru dros y deugain mlynedd



diwethaf. Yn wir, yn 2011 cafwyd refferendwm ar fwy o bwerau i'r Senedd (bresennol) gyda 63.49% o bobl yn pleidleisio o blaid, ond eto roedd y nifer sy'n dynodi eu hunain yn Gymry yn is nag yn 1979. Ymddengys bod Bradbury ac Andrews yn gywir yn eu dadansoddiad efallai bod *ffurf* Cymreictod a Phrydeindod wedi newid yn hytrach na lefel yr uniaethu gyda'r naill hunaniaeth neu'r llall.

	1979	1997	2011	2021
	%	%	%	%
<b>Cymreig yn unig</b>	59	63	58	55
<b>Prydeinig/Prydeinig a Chymreig</b>	34	26	24	27

*Tabl 1: Dynodwyr Cymreig yn Unig a Phrydeinig/Prydeinig a Chymreig yng Nghymru. Gwaith yr Awdur. Data a Gymerwyd O: Astudiaeth Refferendwm Cymru 1997, Astudiaeth Etholiad Cynulliad Cymru 1999, Cyfrifiad 2011, Cyfrifiad 2021.*

Dadleuodd Osmond (1998) mai nodwedd Prydeindod yng Nghymru oedd balchder yn sefydliadau Prydain, yn fwyaf nodedig system y wladwriaeth les a'r GIG. Dechreuodd y colofnau balchder hyn ddadfeilio yn y blynyddoedd rhwng y ddau refferendwm. Yn ôl Bradbury ac Andrews (2010), llywodraethau Thatcher a Major

*gave [the] greatest impetus to a re-awakening of sub-state national identities ... by undermining the pride in those institutions which embodied values that were simultaneously British and Welsh, such as the welfare state, the Conservative government alienated many voters in Wales from a political process which seemed to*

*have left them disenfranchised and at the mercy of their (seemingly) more right-leaning English counterparts.*

Yn ystod 18 mlynedd o lywodraeth Geidwadol gwelodd Gymru newid o ran 'Cymreictod' a 'Phrydeindod' hefyd. Yn ôl Rebecca Davies (2006) effeithiodd newidiadau cymdeithasol ac economaidd ar hunaniaethau cenedlaethol yng Nghymru.

Fodd bynnag, nid ethol Margaret Thatcher a thwf neoryddfrydiaeth oedd yr unig ddiwyddiadau a luniodd yr economi yn ogystal â dealltwriaeth o Brydeindod a Chymreictod yn ail hanner yr 20fed Ganrif: yn y cyfnod hwn hefyd y dadfeiliodd ymerodraeth drefedigaethol helaeth Prydain. Fel y dadleuwyd yn flaenorol, hunaniaeth wleidyddol oedd Prydeindod, ac un a oedd yn dibynnu ar gryfder yr Ymerodraeth a'i safle craidd – neu hegemoniaidd – cyfatebol yn y system-fyd.

*If we accept that Britishness was in essence an imperial identity, then the loss of empire eroded that identity at home and abroad (McCrone, 1997, t. 592).*

Daeth Plaid Genedlaethol yr Alban (SNP) a Phlaid Cymru yn fwy gweladwy yn ystod y cyfnod hwn o ddatrefedigaethu, gyda Phlaid Cymru yn ennill eu sedd Seneddol gyntaf yn 1966 a'r SNP yn 1967.<sup>65</sup>

Dadleuodd awduron fel Mullen a Gibbs (2023) a Massetti (2019) fod y pleidiau hyn yn ceisio fframio eu brwydr eu hunain o fewn y paradeim datrefedigaethol hwn. Yn hyn o beth, gwelwyd adfywiad cenedlaetholgar yn 'hen' Bwerau Mawr Ewrop fel cam olaf y frwydr yn erbyn imperialaeth. Gwelir y gefnogaeth academaidd fwyaf selog i'r safbwynt hwn yng ngwaith Michael Hechter (2017) a drafodwyd eisoes. Fodd bynnag, roedd effaith datrefedigaethu ar ofynion cenedlaetholgar 'gartref' yn ymwneud mwy â diraddiad Prydain i safle lled-ymylol yn y system-fyd, proses a gyflymwyd o ganlyniad i golli'r ymerodraeth. Dechreuodd cenedlaetholdeb

---

<sup>65</sup> Etholwyd Aelod Seneddol SNP yn 1945 mewn is-etholiad yn ystod y Rhyfel, ond collwyd y sedd yn ddiweddarach y flwyddyn honno.

gwleidyddol yng Nghymru godi fel yr oedd grym y wladwriaeth Brydeinig yn lleihau yn y system-fyd a 'gartref'. Fel y dadleuodd Rawkins (1978, tt. 522-523):

*From a perspective which places the state in the context of the world economic system, what is significant in the political analysis of Scotland and Wales is the declining power of the British state, rather than an overconcentration of power at Westminster. It is not the growth of state power which has produced an ever-more centralized economy, but rather the tendency for the development of vast national and transnational conglomerate enterprises which has brought about social and economic changes within state boundaries, quite outside the control of the state bureaucracy. In turn, these developments have resulted in a transformation in the character of the state. Massive state intervention in the economy has become essential as movements of capital investment have proved increasingly sensitive to international factors and to technological innovations. The task of defending the domestic economy and the social welfare of citizens, and at the same time continuing to attract the foreign capital seen to be necessary in maintaining employment levels and retaining domestic capital which might otherwise be invested elsewhere, has proved especially problematic.*

Felly chwaraeodd datrefedigaethu, safle Prydain ar y lled-berifferi, a Thatcheriaeth i gyd eu rhan o ran creu ffurf newydd o Gymreictod gwleidyddol a fynegodd ei hun trwy bleidleisio (o drwch blewyn) o blaid rhywfaint o ymreolaeth genedlaethol. Y gobaith oedd y byddai hon yn wawr newydd i Gymru a'i heconomi.

## Cymru 'Newydd', Hen Broblemau

Ers 1945, mae hanes economaidd Cymru – a'i phresennol – wedi'i nodweddu gan newid, a pharhad. Ar un llaw, mae modd edrych ar gyfnod Keynesiaeth, neoryddfrydiaeth, a chyfnod y Senedd o fewn Prydain ddatganoledig fel tri chyfnod ar wahân. Fodd bynnag, mae gwneud hynny yn cuddio'r parhad sy'n bodoli rhyngddynt. Bydd y bennod hon yn ystyried lens ddamcaniaethol newydd sy'n dilyn parhad y cyfnod ar ôl y rhyfel hyd heddiw.

Yn y bôn, mae Keynesiaeth a neoryddfrydiaeth yn dibynnu ar ragdybiaethau economaidd neoglasurol mewn perthynas ag anghydraddoldeb a chystadleuaeth. Mae'r gwahaniaeth yn y ffaith bod economeg Keynesaidd yn ffafrio polisiau o du'r galw tra bod neoryddfrydiaeth yn ffafrio polisiau o du'r cyflenwyr (Schmidt, 2019). Roedd Keynesiaeth yn ystyried anghydraddoldebau rhanbarthol fel canlyniad i wendid yn y galw am nwyddau a gwasanaethau rhanbarth, ac felly gellid mynd i'r afael â hynny trwy wariant ailddosbarthol gan y wladwriaeth ganolog. Gallai rheoli galw mewn gwahanol ranbarthau arwain yn y tymor hir at gyflogaeth lawn a chydbwysedd, a byddai hyn yn cael ei feithrin gan gymhellion ar gyfer buddsoddiad cyfalaf, buddsoddiad cyhoeddus mewn seilwaith, a chymhellion ar gyfer cyflogaeth. Ei rôl oedd i "expand capitalism while offering real but limited concessions to the subaltern classes. It thereby displaced more radical demands while not offering meaningful political inclusion or economic justice" (Bieling, 2015, t. 102).

Felly ni wnaeth Keynesiaeth herio achosion sylfaenol datblygiad anghyfartal er ei fod wedi ceisio gwella amodau economaidd o fewn cyfyngiadau'r system. Fodd bynnag, dangosodd yr is-bennod flaenorol nad oedd Keynesiaeth yn gallu cynyddu'r galw am gynnyrch Cymreig mewn gwirionedd; roedd oes y diwydiannau trwm yn agos at ei therfyn cyn i Thatcher daro'r ergyd farwol. Roedd Keynesiaeth

trin rhanbarthau fel rhanbarthau swyddogaethol heb hanes a daearyddiaeth (Weissenbacher, 2018, t. 86).

Roedd sicrhau Buddsoddiadau Uniongyrchol o Dramor yn nod i holl lywodraethau Prydain o'r 1960au ymlaen, p'un a oeddent yn dibynnu ar offer polisi o du'r cyflenwad neu o du'r galw. Rhwng 1979 a 1991, Cymru oedd 'rhanbarth' mwyaf llwyddiannus y DU o ran denu mewnfuddsoddiad, gan dderbyn 14% o'r cyfanswm yn y blynyddoedd hyn (Bradfield, 2006, t. 329). Yn 1988, roedd gan Gymru 4 y cant o weithlu'r DU, ond eto denodd fwy nag 20 y cant o'r holl swyddi FDI newydd a ddaeth i'r DU. Yn 1990, roedd cwmnïau â pherchnogion tramor yn cynrychioli 22% o weithlu gweithgynhyrchu Cymru, ac yn cyfrif am 6% o gyfanswm holl gyflogaeth (Hill a Munday, 1991, t. 23).

Erbyn 1996, roedd cwmnïau â pherchnogion tramor yn cyfrif am 39% o gyfanswm cyflogaeth gweithgynhyrchu, ac mae'r ffigwr hwn wedi aros yn gyson gyda 40% o gyfanswm cyflogaeth mewn dwylo tramor yn 2005 (Parry, 2021, t. 48). Roedd goruchafiaeth Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor mor fawr nes bod Bradfield (2006, t. 329) yn dadlau bod llywodraeth Thatcher yn dibynnu ar fuddsoddiad tramor tra bod Goberman (2013, t. 53) yn dadlau mai FDI oedd y flaenoriaeth allweddol i'r Swyddfa Gymreig rhwng 1974 a 1997. Er bod FDI yn nod polisi clir drwy gydol y cyfnod ar ôl y rhyfel, nid oes cytundeb ynglŷn ag effeithiolrwydd polisi o'r fath. Mynnodd Lovering (1999b, t. 23) fod gweithfeydd rhanbarthol o Loegr yn cael eu hystyried yn broblem ond bod gweithfeydd rhanbarthol o'r Almaen, Corea neu Japan bellach rhywsut yn cael eu hystyried yn fanteisiol. Mae Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor yn dibynnu ar ranbarthau'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, "such competition means that, in practice, less favoured regions' prospects are shaped by *external* decisions and forces over which they have little control" (MacKinnon & Phelps, 2001, t. 255) (italig yn y gwreiddiol). Arweiniodd diffyg rheolaeth Cymru dros brosesau gwneud penderfyniadau â'r ffaith bod mantais gymharol Cymru yn ymwneud â'i 'sail gostau cystadleuol' i gwmnïau rhyngwladol

mawr ddarparu swyddi sgiliau isel â chyflogau isel. Roedd arian cyhoeddus felly yn cael ei gyfeirio oddi wrth gwmnïau lleol, mewndarddol (Cato, 2004). Cwestiynodd John Lovering (1999, t. 381) effeithiolrwydd polisi o'r fath:

*The endlessly repeated claim that inward investment into Wales has had a transformative influence on the regional economy as a whole is entirely lacking in evidence. Over the decade to 1995 foreign direct investment created net very few jobs indeed.*

Anwybyddodd Keynesiaeth a Thatcheriaeth agweddau gofodol anghydraddoldeb a datblygiadol cyfalafiaeth, er o wahanol safbwyntiau ideolegol. Dadleuodd Calvin Jones (2023, t. 3) – er nad oedd yn cyfeirio'n benodol at Fuddsoddi Uniongyrchol o Dramor – fod yn rhaid inni ddeall pwysigrwydd actorion a chorfforaethau 'di-le' o ran creu ac ail-greu gofod, cyfalaf, a chymdeithas:

*It is not enough then to set places against each other; we must consider social, economic and political actors who have choice over where and how they operate, and who then exercise power to shape these chosen places for functionally narrow self-interest, and in a voluntary and reversible (for themselves) fashion. The placeless then are those whose profits, wellbeing, identity or success does not depend on a specific place, but rather on a type of place or places.*

Mae Cymru, gogledd-ddwyrain Lloegr a Swydd Efrog i gyd yn debyg o ran lle ac maent i gyd yn cystadlu â'i gilydd, gan helpu i ymwreiddio safle pob un. Cyfeiriwyd at y realiti hwn o fantais gymharol a diffyg grym gan Dennis Thomas (1991, t. 16) yn y Western Mail:<sup>66</sup>

*The ability of businesses ... to withstand competitive pressures ... and to benefit from opportunities will depend on their market orientation, the efficiency of their operations and on any comparative advantages provided by their location relative to*

---

<sup>66</sup> Papur dyddiol Cymreig

*other parts of the UK and EU. The problem is that many other places can offer as many, and in some cases, more advantages than a Welsh location. Coupled with doubts as to the real strength of the economic base [...] large parts of Wales may well struggle as the twentieth century draws to a close.*

Mae'r ugeinfed ganrif bellach wedi dirwyn i ben, ac eto mae rhesymeg economaidd Thatcher o gystadleuaeth rhwng ardaloedd daearyddol yn parhau. Mae hyn yn wir er gwaethaf llywodraeth Lafur 'newydd' a chreu sefydliadau megis Senedd Cymru. Cyflwynodd Blair bolisiau o du'r cyflenwyr a oedd yn canolbwyntio ar hybu sgiliau (Schmidt, 2019, t. 519). Y ddadl oedd y byddai'r sgiliau hyn yn gwella 'cyflogadwyedd' ac yn gwneud gweithwyr yn hyblyg ac yn fwy abl i addasu i economi 'ôl-Fordaid' 'newydd'. Byddai'r sgiliau hyn yn lleihau anghydraddoldeb rhanbarthol drwy wella mantais gymharol y DU cyfan o gymharu â thramor. O ran Cymru, mae cipio mewnfuddsoddiad yn parhau i fod yn nod polisi datganedig Llywodraeth Cymru. Yn 2015, mae adroddiad *Cymru yn y Byd* yn nodi:

*Wrth i'n diwydiannau trymion ddirywio, aethom ati i chwilio am fuddsoddwyr o'r tu allan i Gymru. Cawsant eu denu yma gan weithlu rhagorol a chynhyrchiol, systemau cyfathrebu da, sail gostau cystadleuol a'r gallu i fanteisio ar farchnadoedd Ewropeaidd enfawr. Heddiw, mae cannoedd o gwmnïau tramor yn buddsoddi yng Nghymru ac yn cyflogi miloedd lawer (Llywodraeth Cymru, 2015, p. 4) (italig wedi'i ychwanegu).*

Yn yr un modd, mae ei adroddiad *Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi 2017* yn nodi:

*Mae ein hallforion a'n lefelau Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor (FDI) yn parhau i wneud argraff. ... Mae ein perfformiad allforio a'n lefelau FDI yn dangos yr hyder sydd gan y byd yn ansawdd busnesau, cynhyrchion a gwasanaethau Cymru. Mae hefyd yn dangos faint o werth y mae gwledydd eraill yn ei roi ar ein pobl ac ar ein*


*lleoedd fel manau delfrydol ar gyfer buddsoddiad gan fusnesau* (Llywodraeth Cymru, 2017, t. 1).

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi brolio eu bod wedi bod yn rhan o 95% o'r holl gytundebau FDI Cymru, gan ddangos yn glir eu hymagwedd 'ymarferol' (Llywodraeth Cymru, 2023).


Mae dibyniaeth Cymru ar FDI, sy'n tueddu i arwain at swyddi symudol â chyflogau isel a 'sgiliau isel' wedi gwaethygu atomeiddiad strwythur economaidd y DU, waeth pa blaid sydd mewn grym neu unrhyw sefydliadau gwleidyddol newydd megis y Senedd. Mae Ffigur 50 yn dangos safleoedd CDG y pen rhanbarthau'r DU. Roedd y pedwar rhanbarth uchaf yn 1995 yn parhau ar y brig yn 2021, tra arhosodd y tri safle isaf yr un peth hefyd. Mae'r rhanbarthau yn y canol yn newid safleoedd gyda'i gilydd ond nid oes perygl iddynt naill ai esgyn at y rhanbarthau yn yr haen uwch neu ddisgyn i'r haen isaf. Oherwydd y gystadleuaeth ranbarthol sy'n bodoli rhwng lleoedd, mae Cymru'n ymladd â rhanbarthau eraill sydd heb eu datblygu'n ddigonol am fuddsoddiad cyfalaf, sydd fel arfer o werth isel, tra bod cyfalaf a phencadlysoedd gwerth uwch yn symud i ranbarthau fel de-ddwyrain Lloegr a heddiw i'r Alban.

Mae Ffigur 51 yn cadarnhau'r anghydraddoldeb gofodol sy'n bodoli yn y DU, a safle Cymru yn agos at waelod y tabl. Yr hyn sy'n arbennig o drawiadol yw'r anghydraddoldeb sy'n bodoli rhwng Llundain a gweddill y DU, yn hyn o beth, y DU yw'r mwyaf anghyfartal o'r tair astudiaeth achos. Mae Ffigur 52 yn dangos yr un ffigurau CDG y pen ac eithrio Llundain, a'r hyn sy'n dod i'r amlwg yw system haenog gyda Llundain ar y blaen ar ei phen ei hun, ac yna ail haen o ranbarthau gorddatblygedig gyda de-ddwyrain Lloegr yn arwain gyda Dwyrain Lloegr a'r Alban yn dilyn, ac yna haen ganol o ranbarthau, gyda gogledd-ddwyrain Lloegr a Chymru mewn categori ar wahân ar waelod y tabl.






Ffigur 50: Safle CDG y pen y DU. Gwaith yr Awdur.



Ffigur 51: Cynnyrch Domestig Gros y pen (£) yn ôl prisiau cyfredol y farchnad. Gwaith yr Awdur.




Ffigur 52: Cynnyrch Domestig Gros y pen (£) yn ôl prisiau cyfredol y farchnad (ac eithrio Llundain). Gwaith yr Awdur.

Mae ambell ysgolhaig fel Overman (2017, t. 4) wedi dadlau bod economi Llundain a'i phŵer i 'ailddosrannu' yn hanfodol ar gyfer egni ac iechyd economi'r DU yn gyffredinol. Dadleuodd "there is no evidence pointing to large benefits from spatial redistribution and much evidence that restrictive planning in London has been harmful. ... Harnessing London's growth is key". Mae'n wir fod Llundain yn gwneud trosglwyddiad cyllidol o ddegau o biliynau i ranbarthau eraill tra bod y cymeriant treth yng Nghymru tua 33% yn is na gwariant cyhoeddus (Jones, 2015, t. 279) ac y gellid felly dod i gasgliad felly bod cryfder Llundain yn fantais net i Gymru a rhanbarthau eraill sydd heb eu datblygu'n ddigonol oherwydd y trosglwyddiad gwerth hwn. Fodd bynnag, fel y dadleuodd Cooke (1982, t. 219):

*Wales' debt funding is peculiarly distributed in that a greater proportion goes towards the maintenance of her reserves of labour than elsewhere, while considerably less is spent in the sector which has traditionally been thought of as the key regulator of unemployment under demand-management economic policy, the construction sector.*

Mewn gwirionedd, swyddogaeth Cymru o fewn y rhaniad llafur rhyngwladol – ac o fewn y DU yn gyffredinol – yw bod yn rhanbarth pŵer llafur dros ben, i'w defnyddio ar adegau pan fo'r economi'n ehangu a'i gadael yn segur ar adegau pan fo'r economi'n crebachu. Mae'n dibynnu felly ar fympwy mewnfuddsoddiad tramor ac o ddwyrain Lloegr, gan gael ei thafu yma a thraw ar lanw'r farchnad ryngwladol. Mae Dadansoddiad Ystadegol Gwariant Cyhoeddus 2021 Llywodraeth y DU ei hun yn cadarnhau'r ffaith hon.



*Ffigur 53: Gwariant adnabyddadwy'r DU ar wasanaethau fesul swyddogaeth, y pen, wedi'i fynegeo ar gyfer 2019-2020. Gwaith yr Awdur. Data o: (HM Treasury, 2021).*

Mae gwariant Llywodraeth y DU yn seiliedig ar yr union ddiwydiannau a'r gwasanaethau hynny sy'n cynnal Cymru mewn sefyllfa ddibynnol a thanddatblygedig, lle mae gwariant yn Lloegr (a Llundain yn benodol) wedi'i seilio yn y sectorau hynny sy'n cynhyrchu cyfalaf uwch. Fel yr eglurodd Calvin Jones (2015, tt. 279-280) yn gryno:

*Somewhat annoyingly for the peripheral regions, the narrative is usually one of handouts: there is rarer discussion (outside of these regions) about the extent to which often immobile regional resources (natural as well as labour) are levered to the benefit of non-local actors, be these UK-national or increasingly transnational corporations. ... We have promulgated a myth that regions exist on a competitive and largely even playing field, where a few more skills, some better R&D or improved market access might catapult a region up the national hierarchy.*


Mae'r anwastadrwydd hwn yn y ffordd y mae cyfalaf a gofod wedi'u hatgynhyrchu yn y DU wedi arwain at ddadleoli cymdeithasol, gyda hyn yn cael ei ymgorffori yn y bleidlais Brexit a phatrymau pleidleisio gwahanol ar draws ardaloedd daearyddol.

## Mewn Undeb mae Nerth?

Er bod rhywfaint o gyffredinoli wedi bod yn y gwaith hwn drwy gyfeirio at 'y Cymry' neu 'yr Eidalwyr' ac ati, mae pwysigrwydd economi a lle yn cyfuno i greu hunaniaethau penodol. Gall y rhain greu dealltwriaethau gwahanol o Gymreictod yn ogystal â agweddau gwleidyddol gwahanol. Gall y gwahaniaethau hyn mewn dealltwriaeth a hunaniaeth arwain at ddarnio cymdeithas o'r newydd, gyda rhai o'r Cymry'n symud tuag at bolisiau mwy cenedlaetholgar, tra bod eraill efallai'n cilio tuag at yr Undeb. Mae Brexit yn enghraifft yn hyn o beth o sut mae lle, dosbarth, a hunaniaeth yn uno i greu canlyniadau gwleidyddol gwahanol. Ar 23 Mehefin 2016, pleidleisiodd Cymru – yn ogystal â'r DU yn ei chyfanrwydd – i adael yr Undeb Ewropeaidd. Roedd y canlyniad yng Nghymru yn sioc, a'r consensws cyffredinol oedd bod y Cymry yn fwy o Ewrograrwyr na'u cymdogion Seisnig, yn rhannol oherwydd y gallai'r UE roi mynegiant i Gymreictod ar wahân i'r echel Brydeinig/Seisnig, ac yn rhannol oherwydd bod Cymru yn fuddiolwr net o gyllid yr UE. Arweiniodd hyn at Richard Wyn Jones i ddatgan "it is clearly the case that Euro-scepticism is not a prominent feature of Welsh political culture" (Wyn Jones a Rumbul, 2012). Yn sicr, nid oedd yn nodwedd i bleidiau gwleidyddol yng Nghymru, ond penderfynodd y Cymry ddiystyru barn eu gwleidyddion a phleidleisio (o drwch blewyn) o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd. Arweiniodd hyn at yr un academydd i ddatgan bod Cymru wedi saethu ei hun yn ei droed yn y refferendwm hwn (Wyn Jones, 2016).

Ar yr wyneb, pleidleisiodd pobl Cymru dros Brexit mewn niferoedd tebyg iawn i Loegr, ac felly tybiwyd eu bod wedi gwneud hynny am resymau tebyg. Yn wir,

dadleuwyd bod 'y Cymry' wedi pleidleisio i Aros, tra mai mewnfudwyr o Loegr oedd wedi gwyrō'r bleidlais dros Adael yng Nghymru (Leake, 2019). Fodd bynnag, mae'r traethawd ymchwil hwn yn dadlau bod dimensiwn Cymreig clir ynghylch pam y pleidleisiodd pobl i Aros *neu* Adael, ac mae hyn yn deillio o'r gwahanol ddealltwriaethau a chysyniadau o Gymreictod sy'n bodoli ar draws y wlad. Er enghraifft, roedd gan 9 o'r 15 awdurdod lleol, a 7 o'r 10 etholaeth â'r bleidlais Brexit uchaf hefyd ddynodwyr Cymreig uwch na'r cyfartaledd. Roedd dynodwyr Cymreig cryf, fel y dangosir yn Ffigur 54 isod, yn gymharol debygol o bleidleisio dros Adael.



*Ffigur 54: Cryfder hunaniaeth genedlaethol is-wladwriaeth a phleidlais Gadael (%). Ffynhonnell: (Henderson, et al., 2021, p. 17).*

Ymhellach, mae gan Ewrosgeptiaeth mewn rhai rhannau o'r wlad - oherwydd y byd cymdeithasol y maent yn gweithredu ynddo – hanes hirach nag sydd wedi'i dderbyn mewn llawer o'r llenyddiaeth. Dadleuodd y traethawd ymchwil hwn yn flaenorol mai'r term gorau i ddisgrifio integreiddio Ewropeaidd oedd consensws caniataol (permissive consensus), lle'r oedd integreiddio yn fater elitaidd, ond yn

cael ei ddiogelu gan y ffaith nad oedd yn uchel ar restr blaenoriaethau pobl Ewrop (Lindberg a Scheingold, 1970). Y gwahaniaeth oedd bod y consensws caniataol hwn bellach yn dod i ben:

*The outcome of the referendum, of course, depended on public opinion. Indeed, elite perspectives had interacted with public opinion throughout the last five decades. This interaction is captured by the key concepts of permissive consensus and constraining dissensus. The permissive consensus was characterised by public disinterest in Europe that enabled political elites to promote integration independently of the public's wishes. This permissive consensus was gradually replaced with a constraining dissensus as negative opinions of European integration grew and the public began to diverge in their assessments of EU membership. The dissensus was also characterised by the rise of Eurosceptic political parties and factions within mainstream parties. The permissive consensus to constraining dissensus narrative of Euroscepticism implies people were apathetic, indifferent, or mildly favourable towards Europe in the early 1980s. Public opinion was not initially perceived as an important issue for early proponents of functionalist approaches to European integration. Integration processes were understood as an elite driven venture. Citizens were understood to be ill-informed and to lack coherent beliefs on policy issues such as foreign policy (Moss a Clarke, 2021, t. 548).*


Bydd gweddill yr is-bennod hon yn dadansoddi strwythur economaidd gwahanol rannau o Gymru, a sut mae hyn yn rhyngweithio â gwahanol gysyniadau o Gymreictod, gan helpu i egluro'r gwahaniaeth daearyddol yng nghanlyniad y refferendwm.

Wrth edrych ar bolau piniwn a phatrymau pleidleisio yng Nghymru dros y 50 mlynedd diwethaf, mae amwysedd cyhoeddus tuag at yr UE, os nad Ewrosgeptiaeth llwyr, yn amlwg. I ddechrau, yn refferendwm 1975 pan ofynnwyd a ddylai'r DU aros yn y Gymuned Ewropeaidd, roedd etholwyr Cymru fymryn yn llai brwdfrydig dros yr Undeb na phleidleiswyr yng ngweddill y wladwriaeth. Yn refferendwm 1975



pleidleisiodd 64% i aros yn yr EEC o gymharu â 67.2% o blaid ar draws y DU cyfan (Wyn Jones a Rumbul, 2012, t. 558). Mewn arolwg barn *Eurobarometer* yn 1998, roedd 34% o ymatebwyr yng Nghymru yn meddwl bod aelodaeth Prydain o'r UE yn beth drwg, o'i gymharu â 30% oedd yn meddwl ei fod yn beth da. Roedd hyn yn wahanol i'r Alban lle'r oedd y niferoedd yn 9% a 54% yn y drefn honno (Haesly, 2001, t. 88). Yn 2012, dangosodd Arolwg Chatham House-YouGov mai dim ond 26% o bobl Cymru oedd o blaid aelodaeth o'r UE, tra bod 52% yn erbyn (Knight, et al., 2012, t. 13). Roedd hyn yn golygu bod y gefnogaeth i'r UE ar ei hisaf yng Nghanolbarth Lloegr a Chymru ymhlith holl ranbarthau'r DU (Raines, 2012). Ymhellach, dangosodd Arolwg yn 2014 fod dynodwyr 'Cymreig yn Unig' yng Nghymru yn fwy tebygol o feddwl bod aelodaeth y DU o'r UE yn beth drwg (38%) o gymharu â dynodwyr 'Prydeinig yn Unig' yng Nghymru (31%) (Henderson, et al., 2016). Er gwaethaf yr honiadau i'r gwrthwyneb, felly, mae gan Ewrosgeptiaeth - neu o leiaf Ewroamwysedd - hanes hir yng Nghymru ac ni ellir pwyntio'r bys at y 'mewnfudwyr Seisnig' yn unig.

Ar y pwynt hwn, mae'n werth dadansoddi patrymau pleidleisio daearyddol refferendwm 2016 yng Nghymru. Yn amlwg, ni phleidleisiodd Cymru gyfan dros Brexit, ac ni phleidleisiodd pob person a lle chwaith am yr un rhesymau. Mae'n bosibl na fydd cyffredinoliadau felly - er yn anochel - yn cipio 'llanast' llwyr fywyd cymdeithasol. Mae Ffigur 55 yn dangos bod 5 o 22 Awdurdod Lleol Cymru wedi pleidleisio o blaid Aros. Y rhain oedd Ceredigion, Gwynedd, Caerdydd, Bro Morgannwg, a Mynwy.




*Ffigur 55: Canlyniadau'r Refferendwm yng Nghymru fesul Awdurdod Lleol. Ffynhonnell: (Senedd Cymru, 2016, t. 4).*

Ar yr olwg gyntaf, nid yw'n ymddangos bod patrwm clir o ran pam y pleidleisiodd rhai ardaloedd i Adael neu Aros. Mae Caerdydd, y Fro, a Mynwy, mae'n wir, yn rhannu rhai nodweddion tebyg gan eu bod yn gyffredinol yn rhannau cyfoethocach o'r wlad. Fodd bynnag, nid yw Ceredigion a Gwynedd yn cyd-fynd â'r patrwm cyffredinol hwn. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y dewis deuaidd Gadael/Aros yn cymylu gwahanol resymau dros bleidleisio Gadael/Aros mewn gwahanol ardaloedd.

Hynny yw, efallai bod Blaenau Gwent wedi pleidleisio dros Adael am resymau gwahanol iawn i Bowys, tra gall rhesymau Gwynedd dros Aros fod yn wahanol i rai Mynwy. Mae'r traethawd ymchwil hwn wedi dadlau'n helaeth dros bwysigrwydd deall bod gofod yn cael ei gynhyrchu a'i drefnu'n gymdeithasol, a bod gofod yn cynnwys ac yn siapio ein cysylltiadau cymdeithasol ac economaidd. Mae rhaniad tiriogaethol llafur - wrth weithredu ar lefel fyd-eang - hefyd yn gweithio ar lefel rhyng-gymdeithasol llawer llai. Mae'n dal, felly, bod ein *habitus* a'n cefndir cymdeithasol yn amrywio o'r naill le i'r llall, a bod yr amodau sy'n codi yn ein hamgylchfyd cymdeithasol penodol yn effeithio nid yn unig ar y *modd* yr ydym yn pleidleisio, ond *pam* yr ydym wedi pleidleisio felly.

Cyn troi'n benodol at bleidlais Brexit a'i pherthynas â hunaniaeth, mae'n werth nodi gwaith ysgolheigaidd cynharach sydd wedi ceisio mapio'r berthynas rhwng daearyddiaeth, hunaniaeth, a phatrymau pleidleisio yng Nghymru. Yn 1985, creodd Denis Balsom yr hyn a alwodd yn 'Fodel Tair-Cymru'. Rhannodd Cymru yn dri rhanbarth gan honni bod cystadleuaeth bleidiol ac ymddygiad pleidleisio yng Nghymru wedi'i ddiffinio gan dri ffactor cymdeithasol: dosbarth, hunaniaeth genedlaethol ac iaith (Scully a Wyn Jones, 2012, t. 656) a bod y ffactorau hyn yn amrywio ar draws lleoedd. Mae Ffigur 56 isod yn dangos Model Tair-Cymru. Dywedodd Balsom fod yna grŵp Cymraeg ei iaith sy'n uniaethu fel Cymry wedi'i ganoli yng ngogledd a gorllewin Cymru. Dyma'r ardal a ddynodwyd ganddo fel *Y Fro Gymraeg*. Roedd y ffaith fod mynychder y Gymraeg yn uwch yn yr ardal hon yn golygu y byddai tueddiad uwch yn yr ardal hon i gefnogi Plaid Cymru. Yn ail, mae grŵp di-gymraeg sy'n uniaethu fel Cymry sydd fwyaf cyffredin yng Nghymoedd y De a ddynododd yn *Welsh Wales*, ac mae grŵp di-gymraeg sy'n uniaethu fel Prydeinwyr wedi'i leoli ar y ffin â Lloegr ac yn Sir Benfro a ddynodwyd yn *British Wales*. Mae'r rhanbarthau daearyddol hyn yn adlewyrchu'r rhai y cyfeiriodd Raymond Williams (2021, t. 320) atynt:


*in Wales we have always been aware of the deep differences between industrial South Wales, rural North and West Wales and the very specific border country from which I myself come.*



*Ffigur 56: Model Tair-Cymru. Ffynhonnell: (Balsom, 1985, t. 5).*

Defnyddiodd Balsom ddata o Arolwg Etholiad Cymru 1979 a chanfod bod dau ranbarth o Gymru lle'r oedd tua 2/3 o'r boblogaeth yn ystyried eu hunain yn Gymry: Gogledd a Gornllewin Cymru, a Chymoedd De Cymru. Yn *British Wales*, roedd hunaniaeth Brydeinig yn gyffredin, er nid yr hunaniaeth gryfaf o reidrwydd. Roedd


dynodwyr Prydeinig (yn gyffredinol) yn fwy dosbarth canol, (yn gyffredinol) yn hŷn ac (yn gyffredinol) yn fwy tebygol o fod wedi'u geni y tu allan i Gymru, a hefyd yn fwy tebygol o bleidleisio dros y Ceidwadwyr. Adeiladodd y dadansoddiad hwn ar waith cynharach a oedd yn dadlau bod 31 y cant o'r dosbarth canol 'Prydeinig' yn cefnogi Llafur, o gymharu â 53 y cant o'r dosbarth canol 'Cymreig'; i'r gwrthwyneb, mae'r dosbarth gweithiol 'Prydeinig' yn fwy Ceidwadol (27 y cant) na'r dosbarth gweithiol 'Cymreig' (10 y cant) (Balsom, et al., 1983, t. 304). Roedd cynefinoedd gwahanol, nodedig felly yn bodoli yng Nghymru, ac roedd y cynefinoedd hyn yn rhoi mynegiant i Gymreictod mewn gwahanol ffyrdd ar draws lleoliadau daearyddol. Mae refferendwm datganoli 1997 ac etholiad y Senedd yn 2021 yn tystio i berthnasedd parhaus Model Tair-Cymru. Roedd yr ardaloedd hynny a bleidleisiodd 'Ie' yn 1997 yn cyfateb bron yn berffaith â'r *Fro Gymraeg* a *Welsh Wales* Balsom. Roedd yn ymddangos bod lefelau gwahanol o hunaniaeth a dealltwriaeth o Gymreictod wedi rhoi mynegiant i wahanol ddewisiadau cyfansoddiadol a gwleidyddol, gyda *British Wales* o blaid dim datganoli, tra bod y ddwy ran arall o Gymru (o drwch blewyn) yn cefnogi rhyw fath o arwahanrwydd gwleidyddol.



*Ffigur 57: Canlyniadau Refferendwm 1997 fesul awdurdod lleol, cyfran y pleidleisiau „ie”. Ffynhonnell: (National Assembly for Wales, 2011, t. 7).*

Yn etholiad y Senedd yn 2021, rydym hefyd yn gweld perthnasedd parhaus Model Tair-Cymru. Ar lefel etholaeth, daeth holl seddi Plaid Cymru o'r *Fro Gymraeg*. Yn yr un modd, enillwyd pob un o seddi'r Ceidwadwyr yn *British Wales*. Mae *Welsh Wales* ar y llaw arall yn fôr o goch, gyda phob un sedd yn cael ei hennill gan y Blaid Lafur. Er bod Model Tair-Cymru yn rhy gyffredinol i egluro'r holl wahaniaethau sy'n bodoli ar draws Cymru, gellir defnyddio'r ehangder cyffredinol i ddadansoddi rhai o'r gwahaniaethau pleidleisio sy'n bodoli ar draws ardaloedd cymdeithasol a

daearyddol. Gadewch inni ddychwelyd yn awr at refferendwm Brexit gyda'n hofferyn dadansoddol newydd.



*Ffigur 58: Canlyniadau Etholaethau Etholiad Senedd 2021. Ffynhonnell: (Newyddion y BBC, 2021).*

Drwy ddefnyddio Model Tair-Cymru i egluro canlyniadau Refferendwm Brexit gwelwn fod 2 o'r 5 Etholaeth a bleidleisiodd i 'Aros' yn *Y Fro Gymraeg*. Mae gan yr ardal hon ffurf arbennig o Gymreictod sy'n gydnaws â chefnogaeth i'r prosiect Ewropeaidd. Mae dynodwyr Cymreig yma yn debycach o weld hunaniaeth Ewropeaidd yn seiliedig ar gydnabyddiaeth o amrywiaeth a phlwrailiaeth, gyda Chymreictod a Chymru â llais o fewn yr hunaniaeth honno (Jones, 1992, t. 332). Mae Anghydfurfiaeth yn parhau i ddal peth dylanwad yma, ynghyd â'r traddodiad Rhyddfrydol, a dadleuodd Hughes (2011) bod y ffactorau hyn mewn cenhedloedd bychain yn gysylltiedig â ffurf arbennig o hunaniaeth genedlaethol sydd wedi'i amnythu o fewn ymdeimlad Ewropeaidd. Mae'r meddylfryd hyn yn cyfateb yn fras i feddylfryd Plaid Cymru sydd gryfaf yn y rhan hon o Gymru. Dadleuodd Elias (2013, t. 48) fod Syniadaeth Ewropeaidd wedi llywio meddwl cyfansoddiadol y Blaid. Maent yn gweld Ewrop fel cyfrwng ar gyfer cydweithredu rhwng cenhedloedd bach o fewn cyd-destun rhyngwladol ehangach.<sup>67</sup> Gallai aliniad rhwng y blaid mewn grym yn y rhanbarth a chraidd o bleidleiswyr fod wedi helpu i ysgogi cefnogaeth a phleidleisiau; realiti nad oedd yn amlwg iawn yng ngweddill Cymru.

Ymhellach, darganfuwyd cysylltiad clir rhwng hyfedredd yn y Gymraeg a thuedd i bleidleisio Aros; pleidleisiodd 72% o siaradwyr Cymraeg rhugl o blaid Aros (Larner, 2019), tra bod canran syfrdanol o 84% o siaradwyr Cymraeg oedd yn uniaethu fel Cymry wedi pleidleisio o blaid Aros, gan eu gwneud o bosibl yn y grŵp demograffig mwyaf o blaid yr UE ym Mhrydain (Wyn Jones a Larner, 2021). Mae Gwynedd a Cheredigion yn parhau wrth galon cadarnleoedd y Gymraeg, felly mae'r glymblaid hon o bleidleiswyr a'u mynegiant penodol o Gymreictod yn gymorth i egluro'r bleidlais o blaid Aros yma. Cyfeiriwyd at y mynegiad hwn o bleidlais yr UE drwy lens Gymreig gan Trotter a Morgan (2016, t. 2) a ddadleuodd y canlynol mewn perthynas ag Aberystwyth:

---

<sup>67</sup> Yn ystod yr 1970au roedd Plaid Cymru yn erbyn i Gymru fod yn rhan o'r UE, er ei bod dal yn gweld y Blaid o fewn fframwaith Ewropeaidd.



*The narrative was more specifically about the EU as conceived through the lens of Welsh national interest, whether in terms of economic interest (principally for the farming industry), minority language interest (that Welsh is better-protected by the EU than it would otherwise be), and strategic interest (that the EU presents a platform for the assertion of 'Welsh' interest). Among these participants, the perceived implications for Wales of a possible Brexit fell into three categories. The first, and by far the most dominant concern, was that Brexit would entail economic insecurity, chaos, and isolation (including for the UK more generally), especially for more rural regions such as Ceredigion and in particular for farmers. ... The second common concern was that a Brexit vote would leave Wales dominated by England, not only in economic terms, but also in terms of governance more broadly.*

Mae angen rhywfaint o eglurhad pam na phleidleisiodd Ynys Môn a Sir Gaerfyrddin yn yr un modd â Cheredigion a Gwynedd gan fod yr ardaloedd hyn, hefyd, yn *Y Fro Gymraeg*. Mae Model Tair-Cymru wedi'i feirniadu am ei ddiffyg hyblygrwydd a'r modd y mae'n creu undod mewn ardaloedd amrywiol (Scully a Wyn Jones, 2012). Mae 'problem' Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn yn codi oherwydd bod parthau daearyddol Balsom yn croesi ffiniau sy'n ddiwylliannol gymhleth (Coupland, et al., 2006). Er enghraifft, mae gan ddwyrain Sir Gaerfyrddin lawer o'r un nodweddion â *Welsh Wales*, gyda threfi a chymunedau glofaol, tra bod y de arfordirol yn debycach i Abertawe sydd i'r Dwyrain. Mae'r ardaloedd sy'n debycach i'r *Fro Gymraeg* yn y gorllewin a'r gogledd. Ar y llaw arall, mae Ynys Môn yn rhaniad tair ffordd rhwng holl gysyniadau Cymru, gyda phoblogaeth fawr o Loegr, poblogaeth wledig fawr Gymraeg ei hiaith sy'n uniaethu fel Cymry a phoblogaeth dosbarth gweithiol Cymraeg ei hiaith sydd (ar wahân i hyfedredd iaith) yn fwy tebyg i gymunedau'r de. Y gwahaniaeth yn y lleoedd hyn, felly, yw cyfansoddiad y cydbwysedd grymoedd, lle mae gwahanol fynegiadau o Gymreictod a Phrydeindod yn bodoli mewn gwahanol niferoedd. Mae'r ardaloedd hynny o Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn sy'n uniaethu yn yr un modd â'r *Fro Gymraeg* uchod yn *debygol* o fod wedi pleidleisio

mewn ffyrdd tebyg, ond eto roedd màs y grŵp hwn yn llai nag yng Ngheredigion a Gwynedd. Nid yw'r patrwm pleidleisio hwn, felly, yn gwrthbrofi'r ddadl.

Yr ail ranbarth i'w drafod yw *British Wales*. Oherwydd mynychter o hunaniaeth Brydeinig yn *British Wales*, mae'n debygol bod cnewyllyn o etholwyr wedi pleidleisio o blaid Brexit am resymau tebyg i'r Saeson. Oherwydd yr angen i fod yn gryno, nid yw'n bosibl rhestru'r holl resymau pam y pleidleisiodd y Saeson o blaid Brexit, mae hyn wedi'i wneud yn effeithiol mewn gweithiau eraill (Hobolt, 2016) (Johnston, et al., 2020) (Henderson, et al., 2017). Ar gyfer y dadansoddiad hwn, mae'n ddigon i rhestru rhai o'r nodweddion a geir yn *British Wales* a'i gwnaeth yn fwy tueddol i bleidleisio o blaid Brexit:

*the demographics of the British Wales region mark it out from the rest of Wales. It ... has a higher ratio of males to females; has a relatively old population (something which is significant given the correlation between older Welsh people and British identity; and a significant minority (47%) of the population born outside Wales (Evans, 2019, t. 3).*

Roedd dynion yn fwy tebygol o bleidleisio o blaid Gadael na menywod, fel ag yr oedd pobl hŷn a'r rhai sy'n uniaethu fel Saeson yng Nghymru. Mae cymhwysedd yn y Gymraeg hefyd yn is, lle mae hyfedredd yn cydberthyn yn gadarnhaol â phleidlais o blaid Aros. Y lleoedd yn *British Wales* nad ydynt bellach yn cyd-fynd yn daclus â'r disgrifiad hwn yw Caerdydd a Bro Morgannwg. Bydd y traethawd ymchwil hwn yn dadlau maes o law fod y rhanbarthau hyn wedi mynegi ffurf newydd ar Gymreictod ac na ddylid eu hystyried bellach yn rhan o *British Wales*. Er yn amlwg nad yw'n cyfateb yn union, o ran Brexit, mae *Ar gyfer Cymru, gweler Lloegr* yn asesiad tecach o *British Wales* nag unrhyw ran arall o'r wlad.

Y maes olaf i'w ystyried o ran mynegiad Balsom o Gymru yn y Model Tair-Cymru yw *Welsh Wales*. Pleidleisiodd pob etholaeth yn yr ardal hon o blaid Gadael. Mae'r ardal hon yn cefnogi'r Blaid Lafur (a gefnogodd Aros), yn uniaethu'n gryf â'r

ymdeimlad o fod yn Gymry, ac wedi derbyn symiau mawr o arian yr UE. Mae angen egluro'r rhesymau y tu ôl i'r bleidlais o blaid Gadael yma, felly. Y peth cyntaf i'w nodi yw na ddylid edrych ar y refferendwm ar ei ben ei hun, ond dylid ei osod yn ei gyd-destun hanesyddol. Oherwydd anghofrwydd hanesyddol, mae yna farn bod y Blaid Lafur bob amser wedi bod o blaid aelodaeth ac integreiddio Ewropeaidd ac mai dyma oedd safbwynt 'naturiol' yr adain chwith:

*many Party activists and commentators by the time of the 2016 referendum believed that it had always been the position of the Labour Party to be pro-European, perhaps with the exception of the early 1980s. Such a view was reinforced by the majority of the British labour movement campaigning for a Remain vote in the referendum* (Hickson & Miles, 2018, t. 876).

Er mwyn herio'r farn hon, mae'n bwysig ailedrych ar refferendwm 1975 a'r blynyddoedd blaenorol. Yn yr un flwyddyn â refferendwm y Gymuned Economaidd Ewropeaidd (CEE) yn 1975, cynhaliodd y Blaid Lafur gynhadledd arbennig i drafod aelodaeth Prydain o'r CEE; o bron i 2-1 pleidleisiodd yr aelodaeth o blaid Gadael. Daeth bloc mawr o'r pleidleisiau hyn o Undeb Cenedlaethol y Glowyr ac Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol (TGWU), a phresenoldeb mawr gan y ddau ohonynt yng Nghymru (Saunders, 2018, t. 57). Roedd sefydliadau dinesig cryf yn amgylchfyd cymdeithasol *Welsh Wales* felly yn Ewrosgeptaidd yn y refferendwm gwreiddiol. Er i'r bleidlais 'Ie' ennill yn 1975, mae dadansoddiad o sut y pleidleisiodd gwahanol grwpiau cymdeithasol yn dangos bod *Welsh Wales* yn cynrychioli'r math o ardal a fyddai wedi bod fwyaf Ewrosgeptaidd: roedd y dosbarth gweithiol ddwywaith yn fwy tebygol o bleidleisio yn erbyn aelodaeth o'r CEE na'r rhai mewn grwpiau cymdeithasol AB, roedd pleidleisio o blaid aros yn is ymhlith aelodau undebau, a phleidleisiodd 88% o gefnogwyr y Ceidwadwyr o blaid aros o gymharu â 58% o aelodau'r Blaid Lafur (Clements, 2017).

Roedd prif fyrdwn y teimlad yn erbyn y CEE yn deillio o'r chwith, gyda'r farn mai 'clwb cyfalafol' ydoedd; pleidleisiodd mwyafrif y pleidleiswyr (54%) a ddywedodd

eu bod eisiau “llawer mwy o wladoli” o blaid gadael, tra bod 79% o bobl nad oeddent eisiau rhagor o wladoli neu fwy o gwmnïau preifat wedi pleidleisio o blaid aros. Arweiniodd y realiti hwn at Hickson a Miles (2018) i ddadlau bod gan Ewrosgeptiaeth hanes hir o fewn y traddodiad democrataidd cymdeithasol ac felly na ddylid ei ystyried yn safbwynt ymylol. Drwy gydol y 1980au, mynegwyd y safbwynt hwn gan adain chwith y Blaid Lafur, yn benodol trwy Tony Benn a Michael Foot. Arweiniodd hyn hyd yn oed at ymrwymiad maniffesto yn 1983 gan y Blaid Lafur i dynnu'n ôl o'r CEE. Mae'n bwysig nodi bod Michael Foot wedi bod yn Aelod Seneddol dros Lynebwy a Blaenau Gwent; dwy ardal â'u gwreiddiau'n ddwfn yn *Welsh Wales*. Roedd aelodaeth o'r CEE yn destun dirmyg i'r adain hon o'r Blaid gan eu bod yn credu y byddai'n golygu colli sofraniaeth genedlaethol, gan wneud gweithredoedd gwleidyddol adain chwith yn hynod anodd (Tranmer, 2020). Hyd yn oed erbyn 1987, roedd 40% o gefnogwyr Llafur o blaid tynnu'n ôl (Moss a Clarke, 2021, t. 549).

Codwyd llawer o'r materion hyn yn ystod refferendwm Brexit 2016, lle'r oedd y chwith yn edrych ar y refferendwm drwy lens sofraniaeth boblogaidd a “resisting neoliberal Europe” (Eklundh, 2021, t. 210). Cefnogwyd 'Lexit' gan undebau llafur megis Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffyrdd, Morwrol a Thrafnidiaeth (RMT), ASLEF a BFAWA tra dywedodd Arthur Scargill - arweinydd yr NUM yn ystod streic y glowyr - fod aelodaeth o'r UE wedi gwneud sefyllfa'r glowyr yn arbennig o anodd yn y 1980au ac felly cefnogodd Brexit (Morning Star, 2018). Mae'r hyn a ystyrir yn Lafuriaeth 'draddodiadol' fel yr uchod yn parhau i fod yn bwysig o ran natur gymdeithasol *Welsh Wales*, ac yn hyn o beth, gellid dadlau nad y bobl sydd wedi newid eu barn, ond y Blaid Lafur. Mae gan *Welsh Wales* ddealltwriaeth benodol o Gymreictod a Phrydeindod sy'n ddelfrydol ar gyfer cefnogi Brexit. Rwy'n cynnig mai dyma ysbryd llafur y gorffennol yn dod yn ôl i aflonyddu ar y sefydliad Prydeinig presennol.

Wrth egluro pleidlais Brexit yn *Welsh Wales*, rhaid inni hefyd ystyried y ddadl offeryniaethol (instrumentalist). Y dybiaeth synnwyr cyffredin oedd, oherwydd bod *Welsh Wales* yn dderbynnwyd net o gyllid UE, y byddai pobl yn pleidleisio o blaid Aros. Dyma le daw'r ddadl bod Cymru wedi 'saethu ei hun yn y droed'. Mae'n wir fod Cymru yn dderbynnwyd net o gyllid UE. Yn 2014, cafodd Cymru fuddiant net o £245miliwn, sy'n cyfateb yn fras i 0.4% o CDG (wrth gydnabod yn yr un flwyddyn mai cyfraniad net y DU oedd £9.8 biliwn) (Ifan, et al., 2016). Fodd bynnag, mae'r ffordd y gwariwyd yr arian hwn - ac effeithiolrwydd cyffredinol polisi'r UE - wedi'i feirniadu gan academyddion a'r boblogaeth yn gyffredinol. Beirniadwyd eliffantod gwyn megis Technium (Pugh, et al., 2018) tra bod eraill yn dadlau bod cyllid yr UE wedi creu meddylfryd penodol o fewn gwasanaeth sifil a chymdeithas Cymru:

*many of our interview respondents bemoaned the role that territorial cohesion has played in sustaining a discourse of dependence and victimhood in Wales. For example, an interviewee who joined the then-new Welsh civil service around the time of devolution and the allocation of the first tranche of structural funds recalled a 'great fanfare that this [EU funding] ... was going to open up our communities ... would get them out of poverty' (senior civil servant, governance). Yet, the same interviewee reflected on the situation at the end of the 2000-07 programming period: [The Welsh Government, I think, was in quite a difficult position whereby our GDP per capita in [West Wales and the Valleys] hadn't really changed and we were still ... below the European threshold. So, on the one hand this was a bit of an indictment of all the money. Has the money been wasted? On the other, there was this [sense that] we still actually want to stay under the threshold because then we'll qualify for another round of funding (senior civil servant, governance) (Jones, et al., 2020, t. 901).*

Roedd Cymru yn gymwys i dderbyn cyllid ar gyfer cydlyniant tiriogaethol yn ddi-ffael, ac eto roedd gallu'r cyllid hwn i lywio dinasyddion i bleidleisio o blaid Aros yn ddibynnol arnynt yn gweld gwelliannau clir o ran safonau byw yn ystod y cyfnod ariannu; ni wnaeth cyllid yr UE mewn haniaeth ddylanwadu ar ymddygiad

pleidleisio (Crescenzi, et al., 2020). Mae'n amlwg o edrych yn benodol ar Lynebwy na wnaeth y cyllid hwn newid canlyniadau economaidd; lle mae diweithdra ar ei uchaf yng Nghymru a lle pleidleisiodd 62% o'r rhai a gymerodd ran yn y refferendwm i Adael, y ganran uchaf yng Nghymru (Jones, 2017, t. 3). Dyma enghraifft glir o ddial gan le nad oedd yn bwysig na pherthnasol (Rodríguez-Pose, 2018). Roedd y bleidlais Brexit yn ganlyniad i ddegawdau o droi cefn ar sawl rhan o Gymru. Fel y dywedodd Henderson, et al. (2015, t. 271), mae 61% o bobl Cymru yn teimlo bod Cymru'n cael llai na'i chyfran deg o wariant y DU. Yn ogystal, roedd mwy o ymatebwyr yn yr Alban a Lloegr yn cytuno bod Cymru'n cael ei thanariannu o gymharu â'u hasesiadau o'i gilydd. Fel y dangosodd Abreu a Jones (2021, t. 6) yn gryno mewn perthynas â Meysydd Glo De Cymru:

*Interestingly, however this level of disenchantment with politics has led to very nuanced outcomes. Those in mining communities are less likely to vote in elections or feel a strong affiliation with a political party, but this discontent also extends to newer populist parties, with those in mining communities less likely to vote for parties on the right (such as UKIP and The Brexit Party) compared to those in other deprived communities. At the same time, coalfields do not seem more likely to lean towards nationalist parties such as the SNP or Plaid Cymru – or indeed feel more 'Welsh' or 'Scottish' than their equally deprived counterparts elsewhere. We do however see engagement with, or at least some differences on, the EU question, with coalfield residents reporting a slightly higher Leave-orientation, after controlling for demographic and socioeconomic characteristics. The framing of the EU Leave vote as a sui generis 'protest' from peripheral communities that felt ignored by mainstream politics, and excluded from economic opportunity, archetypically in the large coalfield of Leave-voting south Wales is supported by our results.*

Y bobl a oedd yn gyffredinol yn byw yn yr ardaloedd hyn wnaeth 'golli' o ganlyniad i globaleiddio ac amlygir hyn yn nodweddion y rhai a oedd yn fwy tebygol o bleidleisio o blaid Gadael:

- 70% o'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi'n ariannol
- 60% o'r rheini sy'n byw o ddydd i ddydd
- 76% o'r rhai sy'n meddwl bod pethau wedi gwaethygu iddyn nhw yn hytrach na phobl eraill
- 59% o'r rhai sy'n ystyried eu hunain yn ddsbarth gweithiol
- 66% o'r rhai ag incwm o lai na £1,200 y mis
- 57% o'r rhai ag incwm rhwng £1,201 – 2,200 y mis (Swales, 2016, t. 7).

Wrth egluro'r economi gynyddol fyd-eang a'r canlyniadau posibl, proffwydodd Rawkins (1978, t. 531) yn gywir dros 40 mlynedd yn ôl:

*British political parties have accepted the goals of the decision makers of the international economy as compatible with their own policies. It is the populations of the periphery which have borne the brunt of the consequences. Political leaders should hardly be surprised when Welsh ... citizens throw off their former allegiances and turn to alternative political solutions.*

O ran *Welsh Wales*, mae globaleiddio a'i anghysondeb wedi'i gysylltu'n agos ag Ewrosgeptigaeth a diffyg ymddiriedaeth yn y sefydliad gwleidyddol yn fwy cyffredinol. Yma, ni ddechreuodd yr anfodlonrwydd hwn yn y blynyddoedd yn arwain at 2016, mae wedi bod yn broses barhaus am o leiaf y 50 mlynedd diwethaf. Nid y bobl hyn wnaeth droi cefn ar 'wleidyddiaeth prif ffrwd'; gwleidyddiaeth wnaeth droi ei chefn arnyn nhw.

Yn olaf, mae'r traethawd ymchwil hwn wedi awgrymu na ddylai Caerdydd a Bro Morgannwg gael eu hystyried yn rhan o *British Wales* Balsom bellach. Yn hytrach, mae'r lleoedd hyn wedi ail-gysyniadu Cymreictod a bellach yn ffurfio'r hyn rwy'n ei alw yn Gymru Gosmopolitan. Mae'r Cymreictod hwn yn seiliedig ar gysyniad sefydliadol, dinesig sy'n gysylltiedig â'r UE, y Senedd, a sefydliadau Prydeinig sydd wedi symud i Gymru megis y BBC a CThEM (HMRC). Ar ddechrau'r Senedd, y

gobaith oedd y byddai Cymreictod ei hun yn cael ei ail-raddnodi ac y byddai sefydliadau dinesig wrth wraidd y Cymreictod hwn (Osmond, 2004) (Osmond, 2002) (Jones & Lewis, 1999). Yn *The Nations of Britain*, cysyniodd Bryant (2005) yr hyn a alwai yn “Cymru Wales” neu “Modern Wales”. Byddai *Cymru Wales* yn Gymru newydd yn seiliedig ar addysg ddwyieithog, gweinyddiaeth gyhoeddus, llywodraeth ddatganoledig, a chymdeithas ddinesig Gymreig. Nid yw'r *Gymru Wales* hon wedi gwreiddio y tu allan i gyfyngiadau cul Caerdydd a'r Fro. Yn eironig, y syniad oedd y byddai Cymreictod yn ymbellhau o fod yn hunaniaeth sy'n seiliedig ar le, ac eto mae'r Cymreictod 'newydd' hwn yn hynod ddaearyddol o ran ei natur. Mae Caerdydd a'i chefnwlad wedi datgysylltu o weddill y wlad. Mae cysylltiad agos iawn rhwng y Cymreictod newydd hwn a'r sefydliadau y mae'n seiliedig arnynt a'r Undeb Ewropeaidd:

*Immediately after devolution, one of the first tasks of the WAG was to design mechanisms for spending £1.2 billion of EU Structural Funds Objective 1 financing plus match funding, on economic development. For managing the allocation of monies, an extremely complex system of interlocking committees was set up that was responsible for each programme area, involving Assembly and other government, business, voluntary and academic representatives, and experts who were recruited to fill these committees, with approvals given by the external Welsh European Funding Office. At the end of the first year of this process, ... 1700 people had been recruited to manage the approval system and support it administratively. ... costing £36.2 million per year ... an increase of 25% over 3 years (Cooke a Clifton, 2005, p. 443).*

Bu'r Undeb Ewropeaidd, felly, yn gymorth i chwyddo rhengoedd gwasanaeth sifil a biwrocratiaeth newydd Cymraeg i bob golwg. Daeth Crescenzi, et al. (2020, t. 3) wrth ddadansoddi effeithiau cyllid yr UE ar Gymru i'r casgliad bod llawer iawn o brosiectau wedi'u crynhoi yng Nghaerdydd, lle mae'r “city acts as a ‘managing authority’ for all EU funds in the Welsh Nation”. Mae Caerdydd felly'n gweithredu fel canolfan fiwrocrataidd sy'n gweinyddu ac aildosrannu arian Ewropeaidd, ac



sy'n rhyngweithio â sefydliadau megis Llywodraeth y DU, y Senedd, y sector cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector, gan greu cnewyllyn o swyddi 'gwerth uchel' yng Nghaerdydd. Dangosir hyn yn strwythur economaidd Caerdydd. Yn ôl StatsCymru (2023) Caerdydd sydd â'r rhan fwyaf o swyddi yng Nghymru yn y sectorau canlynol: gwasanaethau ariannol, swyddi 'proffesiynol', gweinyddiaeth gyhoeddus, cynhyrchu, eiddo tirol, adeiladu, a gwasanaethau TG. Ymhellach, mae cyflogau yng Nghaerdydd ar gyfartaledd 11% yn uwch na gweddill Cymru. Trafododd Jones, et al. (2020, t. 902) y berthynas rhwng gweinyddiaeth cyllid yr UE ac anghydraddoldeb rhanbarthol:

*While EU funding programmes ostensibly promise to combat such uneven development within regions, in reality, economic activity in Wales continues to largely concentrate on 'two main economic arteries' (senior advisor, economy) along the southern and northern coastline, generating growth that other Welsh communities simply do not benefit from. An interviewee reflected: Cardiff as a city has seen some of the highest levels of economic growth and population growth compared to ... any city in the UK. But you go 10 miles, 20 miles north [and] it hasn't changed in 30 years (senior advisor, economy).*

Mae'r realiti daearyddol newydd wedi golygu bod mantais gymharol Caerdydd o gymharu â rhannau eraill o Gymru wedi cynyddu, gan waethygu ymhellach yr anghydraddoldeb sy'n bodoli rhwng lleoedd. Unwaith eto, "less favoured regions' prospects are shaped by *external* decisions and forces over which they have little control" (MacKinnon & Phelps, 2001, t. 255). Y gwahaniaeth y tro hwn yw bod y penderfyniadau wedi'u gwneud yng Nghaerdydd yn hytrach na Llundain, ond eto'n allanol i'r "less favoured regions". Mae polisïau cyflenwi Blair a llywodraethau dilynol Cymru a Phrydain i feithrin sgiliau, wedi cryfhau safle Caerdydd fel craidd economaidd Cymru. Bro Morgannwg wedyn sy'n cyfateb gyda 'maestrefi deiliog' Llundain allanol lle gall gweithwyr proffesiynol a'r dosbarth biwrocraidd newydd fyw y tu allan i ganol Caerdydd; mae cryfder y naill yn bwydo'r llall. O ganlyniad,

mae Cymreictod yr ardal hon yn perthyn yn agos i'r amgylchfyd gymdeithasol-economaidd newydd hwn lle mae pleidlais o blaid Aros yn atgyfnerthu barn y grŵp cymdeithasol hwn, nid yn unig mewn termau cyfrannol, ond yn y ffaith ei fod yn mynegi hunaniaeth gwladwriaeth-biwrocraidd y ddinas a'i chefnwlad.

Mae'r is-bennod hon wedi dadlau bod gwahanol ffyrdd o fynegi Cymreictod ac mae'r realiti hwn yn rhywbeth y dylid ei gadw mewn cof wrth drafod 'Cymru' neu'r 'Cymry'. Y gwahanol ddealltwriaethau hyn o Gymreictod a luniodd y bleidlais Brexit mewn gwahanol rannau o Gymru. Wrth geisio creu gwahaniaeth, fodd bynnag, derbynnir bod yr is-bennod hon hefyd wedi creu unffurfiaeth. Nid yw Cymru'n ffitio'n daclus i dri – neu bedwar – categori. Fodd bynnag, mae'r categorïau hyn yn helpu i roi mynegiant i ymraniadau gwahanol a chryfder pob ymraniad o fewn pob rhanbarth. Mewn dewis deuaidd Gadael/Aros, gall deall a dadansoddi cryfder prif ymraniadau pleidleiswyr fod yn ddigon i egluro gwahaniaeth rhanbarthol. I'r perwyl hwn, mae model Tair (Pedair bellach)-Cymru yn llwyddo i egluro rhai o gymhlethdodau pleidlais Brexit yng Nghymru. At hynny, mae'r dadansoddiad hwn wedi dangos bod pleidleiswyr yng Nghymru wedi ystyried y refferendwm drwy eu lens Cymreig eu hunain.

## Cymru, Cenedlaetholdeb, a'r System-Fyd

Yn hanesyddol mae cenedlaetholdeb Cymreig wedi dilyn yr un amlinellau â'i hanes. Mae hunaniaeth Gymreig wedi bod yn gymharol gryf erioed, ond nid yw amlygrwydd cenedlaetholdeb gwleidyddol bob amser wedi bod yr un mor gryf. Mae'r traethawd ymchwil hwn wedi dadlau bod hunaniaeth Gymreig – i'r graddau y gellid disgwyl iddo fodoli – yn eistedd yn daclus o fewn llinach y Tuduriaid. Defnyddiodd Harri VII a VIII eu llinach Gymreig ac roedd hyn yn ganolog i'w hawl i'r orsedd.

Parhaodd strwythur cymdeithasol Cymru i fod yn wahanol i un Lloegr drwy lawer o'r 16eg a'r 17eg Ganrif, yn enwedig o ran arferion amaethyddol. Er hyn, nid oes tystiolaeth bod hyn wedi arwain at gynnydd yn amlygrwydd cenedlaetholdeb gwleidyddol. Cwblhawyd y symudiad o reolaeth ddynastig i reolaeth gyda chymeriad 'cenedlaethol' gyda Rhyfel Cartref 'Lloegr'. Tra ei bod yn wir i ddweud fod mwyafrif o uchelwyr Cymru wedi ymladd ar ochr y Goron, mae hyn yn ymwneud mwy â'r defnydd parhaus o ddulliau all-economaidd er mwyn sicrhau gwerth dros ben, na landlordiaeth newydd y bourgeoisie amaethyddol. Roedd cipio grym y wladwriaeth gan y Seneddwr yn golygu y gallai Prydain ddechrau meddwl a gweithredu yn ysbryd masnach rydd a gadael gwaith llafurus datblygiad cenedlaethol ar ei ôl (von Schmoller, 1895, t. 77). Roedd Cymru'n sicr yn rhan amlwg iawn o'r Prydain a oedd yn datblygu. Helpodd y chwyldro diwydiannol a ddilynodd i ymgorffori Cymru nid yn unig ym Mhrydain, ond hefyd yn y system-fyd ehangach yr oedd bellach yn rhan ganolog ohoni - ac eto ar y perifferi.

Dadleuodd Nairn (1981, t. 208):

*Wales shows many of the features of forced under-development: depopulation, cultural oppression, fragmentary and distorted development and so on. These features are strongly evident in the Welsh national movement too, insofar as it has been a battle for the defence and revival of rural-based community and traditional identity – an identity evoked overwhelmingly by literary and musical culture, and having as its mainspring in the language question. But of course in another key respect Wales is more akin to the relatively over-developed group: like them, it is a great secondary centre of the European industrial revolution.*


Mae'r traethawd ymchwil hwn wedi dadlau bod hanes Cymru ychydig yn fwy cymhleth na darlun Nairn; mae hanes Cymru yn cynnwys diboblogi, a gormes diwylliannol ar adegau, ond mae hefyd yn cynnwys ffyniant poblogaeth, diwydiannu helaeth, a mynediad at hunaniaeth Brydeinig a osododd drigolion Cymru 'uwchben' y rhan fwyaf o'r lleill yn ystod cyfnod yr Ymerodraeth Brydeinig

a'r chwyldro diwydiannol. Fodd bynnag, mae Nairn yn gywir fod mudiad cenedlaethol Cymru wedi bod yn frwydr dros amddiffyn ac adfywiad cymuned wledig a hunaniaeth draddodiadol. Mae hyn yn cyfeirio at ei hirhoedledd ond hefyd ei wendid cyffredinol gan na allai ennyn cefnogaeth mwyafrif poblogaeth Cymru. Nodweddir y cenedlaetholdeb amddiffynnol a diwylliannol hwn orau gan genedlaetholdeb rhamantaidd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif. Arweiniodd hyn at sefydlu sefydliadau cenedlaethol Cymreig (Jones a Jones , 2003, t. 57) ond fe wnaeth hynny dan adain hunaniaeth Brydeinig. Nid Saeson oedd y Cymry ond roedden nhw'n Brydeinwyr. Cymreictod imperialaidd oedd hi, a oedd yn bodoli law yn llaw â Lloegr ymerodrol o fewn yr Ymerodraeth Brydeinig. Amlygir hyn gan ddeisyfiadau cenedlaetholgar rhamantaidd y Blaid Ryddfrydol, a'i hamcanion oedd wedi ei chyfyngu i chwilio am gydnabyddiaeth symbolaidd o ddiwylliant Cymreig a hynodrwydd Cymreig (Rawkins, 1978, t. 524). Roedd eu gwendid cyffredinol yn deillio o'u hanallu i gynnig ateb materol i'r problemau oedd yn wynebu'r gymdeithas Gymreig. Roeddent wedi'u dal rhwng dealltwriaeth ramantus o genedlaetholdeb ar y naill law, wrth ddymuno dyrchafu eu hunain o fewn y wladwriaeth Brydeinig ar y llaw arall. Roedd y Rhyddfrydwyr yn eu hanfod yn nodweddu'r broses y cyfeiriodd Kumar (2000, t. 579) ati: roedd eu hunaniaeth ethnig neu ddiwylliannol yn Gymreig, ond roedd eu hunaniaeth ddinesig yn Brydeinig. Gallai Prydeindod ddyrchafu safle'r bourgeoisie Cymreig ac roedd hyn yn atyniad rhy gryf i ymladd yn ei erbyn.

Roedd y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn enghraifft o'r tensiwn dilechdidol sy'n bodoli rhwng cenedlaetholdeb lleiafrifol a mwyafrifol. Yn achos y berthynas rhwng Cymru a Lloegr, mae tensiwn yn bodoli rhwng tri grym: hunaniaeth Gymreig, hunaniaeth Brydeinig, a hunaniaeth Seisnig, ac mae pob un ohonynt yn rhyngweithio â'i gilydd mewn modd dilechdidol. Mae'r cyfnod ar ôl y rhyfel wedi gweld cyfnodau o deimlad cenedlaetholgar cryf, a gwan, yng Nghymru. Mae Ffigur

59 isod yn dangos y newid yn sefyllfa system-fyd Cymru a Lloegr a'r newidiadau dilynol mewn cenedlaetholdeb gwleidyddol.

## Safle Newidiol Cymru a Lloegr yn y System-Fyd



Ffigur 59: Sefyllfa Newidiol Cymru a Lloegr o fewn y System-Fyd. Gwaith yr Awdur.

## VIII. Penodoldeb a Chyffredinoldeb: Dadansoddiad Cymharol o'r Astudiaethau Achos

Mae'r gwaith hwn yn cynnig persbectif newydd mewn economi wleidyddol oherwydd dau arloesedd penodol. Yn gyntaf, mae wedi cymhwyso Dadansoddiad Systemau'r Byd yn benodol i genhedloedd di-wladwriaeth. Hynny yw, nid y wladwriaeth yw'r uned ddadansoddol bellach. Mae hyn yn cynnig dull unigryw, craff sy'n dyfnhau defnyddioldeb Ddadansoddiad Systemau'r Byd, ond hefyd ein dealltwriaeth o'r economi wleidyddol ar lefel is-wladwriaethol. Yr ail arloesedd yw'r dadansoddiad penodol o barhad a newid mewn amlygrwydd cenedlaetholdeb. Mae dadansoddiadau heddiw yn cymryd cenedlaetholdeb yn ganiataol. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad yma fel arfer yn cymryd cipolwg mewn amser. Mae'r agwedd newydd hon yn dyfnhau ein dealltwriaeth o economi wleidyddol yn gyffredinol, a chenedlaetholdeb mewn cenedloedd di-wladwriaeth yn benodol.

Mae'r traethawd ymchwil hwn bellach wedi dadansoddi pob astudiaeth achos yn ei thro. Y dasg nesaf yw dadansoddi gwahanol ffactorau a darganfod pa rai sy'n berthnasol i ddatblygiad economaidd ac amlygrwydd cenedlaetholdeb gwleidyddol. Nid yw'n bosibl egluro pob penodoldeb sy'n bodoli ar draws yr astudiaethau achos hyn. Mae hanes, economeg, a'r gwyddorau cymdeithasol yn ymdrin â dynoliaeth, ac mae dynoliaeth yn ei hanfod yn gymhleth. Felly nid yw'n bosibl crynhoi holl fodolaeth gymdeithasol yn ffactorau cyffredinol datblygiad neu danddatblygiad. Serch hynny, mae modd rhoi arweiniad, a'm gobaith yw y bydd modd datgelu gwahanol ffactorau sy'n cynyddu tebygolrwydd gorddatblygu neu danddatblygu, a'r berthynas gydamserol â chenedlaetholdeb gwleidyddol. Mae'n bwysig cofio mai dim ond i'r astudiaethau achos uchod y byddai unrhyw dueddiadau cyffredinol a ddatgelir yn berthnasol, tan adeg pan fydd yn bosibl cynyddu ein lens ymholi i gynnwys astudiaethau achos eraill. Nid yw hon yn rhestr gyflawn o'r holl ffactorau a allai effeithio, neu beidio, ar ddatblygiad economaidd, ond dyma'r rhai sydd o

ddiddordeb arbennig i'm hastudiaethau achos. Bydd y Bennod hon yn ystyried y ffactorau canlynol yn eu tro: dyddiad ymgorffori, ffurf yr ymgorffori, ffactorau daearyddol a daearegol, rôl trefedigaethau a perifferoldeb, y broses o adeiladu cenedl a gwladwriaeth, a natur alldarddol/mewndarddol yr economi wleidyddol.

## Dyddiad Ymgorffori

Roedd dyddiad ymgorffori Cymru yng ngwladwriaeth Lloegr a Chatalunya yng ngwladwriaeth Sbaen (drwy Aragón) yn gymharol debyg. Digwyddodd undeb Teyrnasoedd Castilla ac Aragón yn 1469, tra ymgorfforwyd Cymru'n swyddogol rhwng 1536-1542. Fel y trafodwyd yn flaenorol, er na chafodd Cymru ei hymgorffori'n *de jure* tan yr 16eg Ganrif, roedd Cymru – neu o leiaf rhan helaeth ohoni ar hyd y Gororau – wedi'i hymgorffori *de facto* yn y wladwriaeth Seisnig mewn rhyw ffurf o'r 13eg Ganrif. Gall hyn, felly, fod yn sail i'r gwahaniaeth rhwng y ddwy astudiaeth achos hyn. Fodd bynnag, mae archwiliad agosach yn dangos bod y fasnach rhwng Aragón a Castilla wedi'i datblygu'n dda iawn o'r 13eg Ganrif (Luis, 2021) (Shneidman, 1959). Nid oedd y ddwy Deyrnas hyn felly yn unedig, ond roeddent yn rhannu gweithgaredd economaidd, a chysylltiadau masnach. Roedd rhyngberthynas debyg i Gymru a Lloegr, er nad yn cyfateb yn llwyr. Digwyddodd uno'r Eidal ar y llaw arall yn llawer hwyrach, a ddatganwyd yn swyddogol yn 1861, tua 300 o flynyddoedd ar ôl yr astudiaethau achos eraill.

Roedd pob ymgorfforiad, yn ei ffordd ei hun, yn cynrychioli rhesymoli strwythurau gwladwriaethol a dylid eu deall o fewn y cyd-destun hwnnw. Roedd Teyrnas yr Eidal yn cynnwys ymgorffori chwe llywodraeth wahanol, roedd ymgorffori Cymru yn cyd-daro ag ymdrechion i gryfhau rheolaeth dros gyrion teyrnas Lloegr megis Caer, Caerhirfryn, a Durham tra bod undeb Castilla ac Aragón yn rhan o broses ehangach y *Reconquista*, a gwblhawyd yn 1492 gyda chwymp Granada. Felly mae



yna barhad ar draws pob astudiaeth achos, er gwaethaf y gwahaniaeth o ran dyddiadau.

O ran ein hastudiaethau achos penodol, ymddengys nad yw dyddiad ymgorffori, fodd bynnag, yn ffactor amlwg wrth egluro gwahaniaethau o ran datblygiad economaidd, na chenedlaetholdeb gwleidyddol. Byddem yn disgwyl, pe bai hyn yn wir, i weld mwy o debygrwydd rhwng Cataluny a Chymru ar y llaw arall. Fodd bynnag, mae Cymru'n fwy tebyg i'r Mezzogiorno na Chatalunya, tra bod Cataluny – yn economaidd o leiaf – yn agosach i Padania na Chymru. Mae'n ymddangos bod cipolwg o astudiaethau achos posibl eraill yn cadarnhau'r canfyddiad hwn. Mae hanes economaidd a gwleidyddol Andalucía, er enghraifft, a ymgorfforwyd yng ngwladwriaeth Sbaen tua thri deg mlynedd yn unig ar ôl Cataluny yn dra gwahanol ac yn ymdebygu mwy i Gymru neu'r Mezzogiorno na Chatalunya (Fernández, 2022). Ymgorfforwyd yr Alban, a helpodd i ffurfio'r wladwriaeth Brydeinig newydd, yn 1707 ond eto mae'n rhannu mwy o debygrwydd economaidd â Chatalunya a Padania, tra bod ei chenedlaetholdeb gwleidyddol yn ymdebygu'n agosach i Gatalunya na Chymru, er gwaethaf y ffaith eu bod ill dau yn rhan o'r un wladwriaeth (Dalle Mulle, 2017). Yn ogystal, ymgorfforwyd yr Eidal *gyfan* o fewn cyfnod o oddeutu tri deg mlynedd, ac eto mae'r traethawd hwn wedi taflu goleuni ar brofiad economaidd y gwahanol rannau cyfansoddol, hyd yn oed o ystyried y gwahaniaethau o ran amodau cychwynnol. Lledodd y bwlch rhwng y gogledd a'r de ar ôl yr ymgorffori, yn hytrach na lleihau, sy'n achos cryf yn erbyn pwysigrwydd *a priori* y dyddiad ymgorffori. Mae'r dadansoddiad hwn yn arwain at y casgliad nad yw'r dyddiad ymgorffori – yn annibynnol o newidion eraill – yn ffactor amlwg wrth egluro datblygiad economaidd, nac ychwaith amlygrwydd cenedlaetholdeb gwleidyddol.

## Ffurf yr Ymgorffori

Er y dadleuir nad y dyddiad ymgorffori yn y wladwriaeth ganolog yw'r ffactor amlycaf o ran datblygiad economaidd, gallai ffurf yr ymgorfforiad hwn arwain at ganlyniadau gwahanol. Yn Sbaen, er enghraifft, roedd uno Castilla ac Aragón yn gydffederal, a thrwy briodas yn hytrach na choncwest (Payne, 1991). O ganlyniad, llwyddodd Aragón i gynnal rhai sefydliadau ymreolaethol, gyda'r cydraddoldeb a fodolai rhwng Castilla ac Aragón wedi'i ymgorffori yn y sofraniaid: Fferdinand, ac Isabella. Fel y nodwyd eisoes, Catalunya oedd pŵer economaidd Aragón, gan olygu mai eu bonedd nhw oedd ar frig y Deyrnas *Aragóneg* (Lecours, 2001). Roedd y math penodol hwn o ymgorffori yn golygu bod Catalunya yn gallu ehangu ei grym o fewn y fframwaith hwn o gonffederasiwn, lle'r oedd y grymoedd allgyrchol a ddeilliai o Gatalunya i Castilla yn gymharol gryf.

Mae'r rhesymeg a arweiniodd at ymgorffori yn achos Cymru yn debyg i Catalunya. Digwyddodd y ddau ymgorfforiad adeg y croestoriad rhwng cymdeithas ganoloesol a 'modern', gyda chynnydd yng nghymhlethdod masnach, strwythur cymdeithasol, a thechnoleg yn arwain at ysgogiad i resymoli'r wladwriaeth. Fodd bynnag, roedd ffurf yr ymgorffori – a chanlyniadau'r ymgorffori hwn – yn amrywio'n sylweddol rhwng y ddwy astudiaeth achos. Mewn ystyr wleidyddol, mae'r traethawd ymchwil hwn wedi dadlau bod y Deddfau Uno yn rym cadarnhaol o gymharu â'r sefyllfa a fodolai cyn hynny. Roedd Cymry bellach yn gallu dal swyddi, yn cael eu cynrychioli yn y Senedd, ac roedd gwahaniaethu swyddogol rhwng y Cymry a'r Saeson wedi dod i ben. Fodd bynnag, nid oedd undod Cymru a Lloegr a oruchwyliwyd gan Harri VIII yn gwbl gadarnhaol. Ni chytunwyd ar y Deddfau Uno rhwng Cymru a Lloegr gan Goron Lloegr a'r Cymry (i'r graddau bod llais unedig yn bodoli) ar y cyd. Roedd felly yn ymgorfforiad unochrog. Cafodd hyn effeithiau hirdymor ar allu Cymru i ddatblygu ei bywyd economaidd ei hun a mynegiant gwleidyddol annibynnol. Mae'n bwysig nodi y diddymwyd sefydliadau Cymreig a Chyfraith

Cymru gan olygu mai Llundain bellach oedd canolfan wleidyddol ac economaidd Cymru. Arweiniodd y Deddfau at dwf mewn masnach rhwng Cymru a Lloegr, a oedd ar un llaw o fudd i'r Cymry, ond golygai hynny fod math penodol o economi yn datblygu a oedd yn symud i rythmau economaidd ei chymydog mwy (Williams, 1950). Ar y naill law, newidiwyd Cymru gan y Deddfau Uno o fod yn fynegiant daearyddol i uned wleidyddol ddiffiniedig, ond ar y llaw arall dilëwyd y sefydliadau cenedlaethol a oedd yn gwahaniaethu Cymru oddi wrth Loegr, a dim ond yn yr 20fed ganrif y cafodd rhai o'r sefydliadau hyn eu (hail)gyflwyno. Roedd cwblhau'r broses o ailgyfeirio Cymru yn economaidd a sefydliadol tuag at Loegr yn golygu y byddai Cymru'n parhau fel chwaraewr ar y perifferi ac yn ôl-ystyriaeth i lunwyr polisi Seisnig – ac yn ddiweddarach Prydeinig. Er nad oedd hyn yn gynllun maleisus ar ran y Tuduriaid a llywodraethau diweddarach, byddai'n cael effaith gwirioneddol a hirdymor. O edrych ar yr Alban, mae'n ymddangos yr ategir y canfyddiadau bod ffurf yr ymgorffori yn bwysig o ran datblygiad economaidd diweddarach a'r cyfleoedd o ran amlygrwydd cynyddol cenedlaetholdeb gwleidyddol. Dadleuodd Tom Nairn (2021, t. 104):

*Scotland's real peculiarity ... lies in the manner of the fusion: there are many stateless nationalities in history, but only one Act of Union—a peculiarly patrician bargain between two ruling classes, which would have been unthinkable earlier, under absolute monarchy, and impossible later, when the age of democratic nationalism had arrived. And it lies in the results of the bargain: a nationality which resigned statehood but preserved an extraordinary amount of the institutional and psychological baggage normally associated with independence—a decapitated national state, as it were, rather than an ordinary 'assimilated' nationality.*

Fy ymresymiad i yw efallai bod Deddf Uno Lloegr (a Chymru) a'r Alban yn hynod o ran ei ffurf yn Ynysoedd Prydain, ond nid yw'n hynod yn hanes Ewrop. Mewn gwirionedd, mae tebygrwydd gwirioneddol â'r achos Catalaneg a ddadansoddwyd uchod. Fodd bynnag, mae Nairn yn gywir i nodi bod gwahaniaeth materol

gwirioneddol rhwng cenedligrwydd cymathedig, fel Cymru ar un llaw, a chenedligrwydd a roddodd gorau i fod yn wladwriaeth ond a gadwodd nifer rhyfeddol o'i sefydliadau ar y llaw arall, fel yn achos Cataluny a'r Alban. Gallai'r Alban gadw rhai o'i chyfreithiau ei hun, ei system addysg, ei Heglwys, a chyhoeddi ei harian banc ei hun. Yn hyn o beth, cadwodd aradeiledd ar wahân i Loegr tra ar yr un pryd yn cadw'r gallu i reoli rhywfaint ar ei sylfaen economaidd (Jones, 1978, tt. 42-43). Mewn un ystyr, Undeb yr Alban a Lloegr *greodd* Prydain tra amsugnydd Cymru i'r wladwriaeth Seisnig. Yn yr un modd, unodd Castilla ac Aragón fel partneriaid cyfartal, tra bod Andalucía, er enghraifft, wedi'i hamsugno a'i chyfeddiannu gan wladwriaeth Castilla ar ôl Cytundeb Granada yn 1491.

Mae astudiaeth achos yr Eidal yn cadarnhau'r canfyddiadau uchod, gan ddangos effeithiau ymgorffori ar y partneriaid dominyddol ac is-wasanaethol. Roedd creu'r Eidal fel uned wleidyddol yn gynnyrch integreiddio anghytwys a ddominyddwyd gan Deyrnas Sardinia, a roddodd reolaeth i'r bourgeoisie dros beirianwaith y wladwriaeth. Felly defnyddiodd y rhan fwyaf datblygedig o'r penrhyn ei chryfder economaidd i gyflawni marchnadoedd mwy trwy gael gwared â'r rhwystrau masnachu a oedd yn bodoli rhwng unedau gwleidyddol (Duca & Duca, 2006) (Snowden, 1972). Mae'r traethawd ymchwil hwn wedi dadlau bod gwahaniaeth economaidd yn bodoli rhwng y gogledd a'r de cyn yr uno, ac eto mae annatblygiad economaidd cymharol y Mezzogiorno wedi'i orbwysleisio a bod anghydraddoldeb rhwng y gogledd a'r de wedi gwaethygu ar ôl uno (Schneider, 2020, t. 38). Un rheswm am y ffaith hon yw bod Teyrnas y Ddwyr Sisili wedi dilyn polisi economaidd diffyndollol, a oedd yn golygu bod ei sector amaethyddol helaeth wedi'i ddiogelu rhag yr amrywiadau gwaethaf o ran prisiau am eu cynnyrch. Lleihad yn y rhwystrau masnach rhwng Teyrnas y Ddwyr Sisili a gweddill penrhyn yr Eidal felly a waethygodd ei sefyllfa economaidd oherwydd anaeddfedrwydd ei diwydiannau a'i hanallu i gystadlu'n fyd-eang. Gwaethygodd y ffurf o integreiddio - yn benodol ffurf anghyfartal yr integreiddio hwnnw - y gwahaniaeth economaidd a oedd yn bodoli

rhwng y gogledd a'r de. Mae achos yr Eidal yn wahanol i'r achosion eraill o ran ffurf, er nad o ran cynnwys. Yr hyn sydd yn wahanol yw bod y Risorgimento wedi creu endid gwleidyddol newydd yn *gyfreithiol*. Yn hyn o beth, mae'n wahanol i achos Cymru, lle ymgorfforwyd Cymru mewn gwladwriaeth a oedd y bodoli eisoes. At hynny, yn achos Sbaen ni chafodd endid gwleidyddol newydd fel y cyfryw ei greu, ond yn hytrach fe gyfunwyd dau endid a oedd yn bodoli eisoes. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi nodweddion penodol yr astudiaeth achos daw'n amlwg bod y broses a ddigwyddodd yn y de yn cyfateb i'r hyn a ddigwyddodd yng Nghymru; diddymwyd ei sefydliadau, a chafodd ei amsugno i'r diriogaeth newydd. Ar y llaw arall creodd Piedmont sefydliadau newydd ac adeiladwyd y wladwriaeth ar ei ddelw ei hun.

Er bod rhai nodweddion penodol yn bodoli rhwng ein hastudiaethau achos, mae tueddiadau cyffredinol i'w datgelu. Mae cryfder gwleidyddol pob rhan gyfansoddol yn effeithio ar ei gallu i addasu'r wladwriaeth i'w budd a'i hewyllys ei hun. Efallai nad y ffurf o ymgorffori ynddo'i hun sy'n effeithio ar ddatblygiad economaidd, gan y byddai'r ddadl hon yn debygol o fod yn rhy deleolegol yn ei thybiaethau. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod cryfder neu wendid rhanbarth ar adeg ymgorffori yn effeithio ar y gallu i fowldio buddiannau economaidd y wladwriaeth ar ei ddelw ei hun. Llwyddodd Cataluny a gynnal ei safle economaidd breintiedig a chynnal ei sylfaen economaidd ar wahân. Byddai Cymru ar y llaw arall yn gweld ei heconomi wedi'i chyfeirio at anghenion Lloegr. Mae achos yr Eidal yn dangos yn glir a heb amheuaeth yr effaith y gall y ffurf o ymgorffori ei chael ar ffawd economaidd ei rhannau cyfansoddol.

Mae cydbwysedd grym ar adeg ymgorffori hefyd yn ffactor amlwg wrth ddadansoddi ffurf cenedlaetholdeb gwleidyddol yn ein hastudiaethau achos. Llwyddodd Cataluny a gynnal diwylliant gwleidyddol ar wahân (er gwaethaf ffasgaeth) am Ganrifoedd, sy'n golygu ei bod yn 'haws' rhagweld gwladwriaeth Catalanidd. Mae'n ymddangos bod yr Alban yn adleisio llawer o'r teimladau hyn.

Ar y llaw arall collodd Cymru unrhyw arlliw o ddiwylliant gwleidyddol ar wahân, sy'n golygu y byddai'n rhaid i genedlaetholdeb gwleidyddol yn ôl ei ddiffiniad fod yn ethnig o ran cynnwys gan na allai (gydag unrhyw berthnasedd) gyfeirio at Senedd Gymreig, sefydliadau Gymreig, na chyfraith Gymreig. Mae'n bosibl cymhwyso rhai o'r canfyddiadau hyn yn ochelgar i achos yr Eidal. *A priori* byddai rhywun yn disgwyl gweld mudiad cenedlaetholgar cryf yn y Mezzogiorno, yn hytrach nag yn y gogledd. Mae'n ddiwylliannol debyg, wedi'i gwahaniaethu o'r gogledd, mae ganddi gwynion dealladwy, ac roedd ar un adeg yn endid ei hun, ar wahân i'r gogledd. Yn yr un modd, gellir *a priori* ddisgwyl i genedlaetholdeb Cymreig fod yn gryfach na chenedlaetholdeb Albanaidd, gan ystyried bod y Cymry yn fwy ethnig ac ieithyddol wahanol i Loegr a'r Alban. Mae'n bosibl awgrymu mai diddymu sefydliadau gwleidyddol Cymru a'r Mezzogiorno sy'n egluro'r ffaith hon. Ni allai Cymru gyfeirio at ei hunaniaeth ddinesig felly cofleidiodd wahaniaeth diwylliannol ac ieithyddol. Ni allai'r Mezzogiorno bellach gyfeirio at y dilyniant rhwng Teyrnas y Ddwyrain Sisili a'r oes bresennol, a bellach hunaniaeth ddiwylliannol sydd ganddi, yn hytrach na gwleidyddol. Efallai bod hyn yn newid yn araf bach yng Nghymru (ac felly hefyd twf y mudiad annibyniaeth) ond eto mae'r dilyniant o'r gorffennol yn absennol o hyd. Gallai Padania, Catalunya, (a'r Alban) ar y llaw arall gyfeirio at y dilyniant hanesyddol rhwng ei sefyllfa bresennol a'u gorffennol annibynnol. Dewis oedd uno neu ymgorffori yn eu hachos nhw ac felly mae'n ddewis y gellir ei ail-wneud. I gloi, mae ffurf yr ymgorffori yn bwysig wrth egluro datblygiad economaidd a chynnwys cenedlaetholdeb ym mhob astudiaeth achos.

## Carcharorion Daearyddiaeth?

Mae daearyddiaeth yn aml yn cael ei ystyried fel rhywbeth ar wahân i wleidyddiaeth a'r economi; rhywbeth i'w orchfygu, os rhywbeth, yn hytrach na rhywbeth sy'n ein siapio ac sydd yn ei dro yn cael ei siapio gennym ni. Yn unol â gwaith Ysgol Annales, mae'r traethawd ymchwil hwn yn dadlau na ellir datgysylltu daearyddiaeth oddi wrth ddynoliaeth. Fel dadleuodd Braudel (1993, tt. 9-10):

*To discuss civilization is to discuss space, land and its contours, climate, vegetation, animal species, and natural and other advantages. It is also to discuss what humanity has made of these basic conditions: agriculture, stock-breeding, food, shelter, clothing, communications, industry, and so on.*

Y nod, felly, yw dadansoddi'r ffordd y mae daearyddiaeth wedi llunio – ac yn llunio – 'gwareiddiadau' ein hastudiaethau achos. Wrth egluro pam fod y math hwn o ddadansoddiad yn bwysig, dadleuodd Moore (2003, t. 432) y canlynol:

*At its best, Braudel's contribution to environmental history—above all, to the emergent field of world environmental history — goes beyond a broad recognition that “nature matters.” Braudel's greatest historical geographical insight is that world-economies and world-ecologies are dialectically bound, variously constraining and enabling at different moments and on different scales. Sociophysical geographies are always at play in historical systems. Any reduction of these geographies to simple context treats nature “as if the flowers did not come back every spring, the flocks of sheep migrate every year, or the ships sail on a real sea that changes with the seasons”. This recognition of ecological dynamism is enriched and made distinctive by Braudel's understanding that social agencies not only exist in but actively produce socio-ecological space.*

Yn achos yr Eidal, mae'n ymddangos bod dwy ystyriaeth ddaearyddol o bwysigrwydd canolog. Y cyntaf yw ei dopograffi a'i ddaeareg, a'r ail yw ei safle

daearyddol llythrennol. Mae topograffeg yr Eidal yn amrywio'n fawr rhwng y gogledd a'r de. Mae mynyddoedd yr Apenninau yn rhedeg trwy ganolbarth a de'r Eidal sy'n gwneud teithio mewndirol rhwng trefi yn anodd ac yn arwain at ranbarthau mwy poblog (Corti, et al., 2013). Yng ngogledd y wlad ar y llaw arall (i'r de o'r Alpau) mae Dyffryn Po â'i thiroedd ffrwythlon a gwastadeddau y gellir eu tramwyo'n rhwydd, sy'n golygu bod gan y gogledd dir amaethyddol i gynnal ei ddinas-wladwriaethau amrywiol. Helpodd hyn hefyd i uno'r gogledd yn economaidd (ond nid yn wleidyddol) tra bod dinas-wladwriaethau'r de yn parhau'n dameidiog ac yn ddigysylltiad. Felly, ni allai ysgogiadau'r economi fasnachol a oedd yn dibynnu ar gydweithrediad, masnach, a chysylltiadau busnes ac a oedd yn gwneud dinas-wladwriaethau'r gogledd yn gyfoethog, ymwreiddio'n ddwfn yn ne'r Eidal (Epstein, 2000, t. 285). Mae'r ail ffactor yn ymwneud â safle daearyddol yr Eidal o fewn y system-fyd. Pan oedd Môr y Canoldir wrth wraidd y system-fyd, roedd penrhyn yr Eidal mewn sefyllfa berffaith i fanteisio ar y realiti hwn oherwydd ei ganologrwydd daearyddol. Roedd cysylltiad agos felly rhwng ei safle daearyddol a'i gryfder economaidd. Gydag ailgyfeirio'r system-fyd tuag at Fôr yr Iwerydd yn hytrach na Môr y Canoldir, roedd daearyddiaeth yr Eidal bellach yn rhwystr iddi; ei hunig opsiynau oedd teithio ar hyd culfor Gibraltar, tra bod rhwystr naturiol yr Alpau i'r gogledd yn gwneud masnach dros y tir hyd yn oed yn fwy beichus a drud. Roedd yr un sefyllfa, i raddau, yn bodoli yng Nghatalunya:

*Nothing could have been more natural than Aragónese policy, with the weight of tradition behind it. Aragón was drawn towards the Mediterranean by her past and by her experience, intimately acquainted with its waters through her seaboard, her shipping, and her possessions (the Balearics, Sardinia, and Sicily) and not unnaturally attracted. Like the rest of Europe and the Mediterranean, by the rich lands of Italy (Braudel, 1995, t. 671).*

Yn hyn o beth, felly, roedd tynged Catalunya mewn rhyw fodd yn gysylltiedig â Môr y Canoldir. Ar Benrhyn Iberia, fodd bynnag, y rhyngweithio rhwng



daearyddiaeth â gwleidyddiaeth gafodd yr effaith fwyaf. Dim ond yn 1561 y gwnaed Madrid yn brifddinas Sbaen gan Phillip II. Dewiswyd Madrid oherwydd ei leoliad canolog yn y penrhyn, a'r diffyg oligarchiaeth drefol bwerus fel y bodolai yn Toledo (Ringrose, 1973, t. 761). Fodd bynnag, roedd Madrid a'r ardaloedd cyfagos yn cynnwys technegau ffermio cyntefig, pridd gwael, a fawr ddim glaw. Felly byddai'n rhaid cludo'r rhan fwyaf o fwyd i Fadrid o rywle arall, fel arfer ar hyd system ffyrdd hynafol dros y tir. Ar ben hynny, oherwydd ei safle a diffyg cyrsiau dŵr mordwyol, ni allai Madrid gweithredu fel trwyborth i nwyddau oedd yn cyrraedd ac yn gadael y brifddinas.

*Given the nature of Madrid's market and its lack of entrepôt or industrial capacity, these became one-way transfers that precluded the reciprocal exchanges essential to the economic equilibrium of the central place network of the sixteenth century. As Madrid grew, it used the power of the crown to organise a one-way flow of resources to supply its population in the face of high overland transport costs (Ringrose, 1989, tt. 68-69).*

Mewn cyfnod o gystadleuaeth gynyddol ar ddwy ochr Môr yr Iwerydd, lle'r oedd canolfannau grym a diwydiant newydd yn tyfu, trodd Sbaen yn fewnblyg, oherwydd penbleth gymdeithasol-ddaearyddol a grëwyd ganddi hi ei hun. Effeithiodd hyn ar dwf gwladwriaeth Sbaen yn yr 17eg a'r 18fed Ganrif. Nid oedd Madrid bellach yn ganolfan twf ond yn hytrach yn bwl diwaelod ar gyfer adnoddau. Fel y dadleuodd Germá (2011, t. 692), roedd seilwaith cyfan Sbaen yn seiliedig ar "radial road map" gyda Madrid yn y canol. Anwybyddwyd effeithiolrwydd a chynhyrchiant o blaid amcanion gwleidyddol a gweinyddol, ac felly ganwyd model a fyddai'n dod yn barhaol yn Sbaen.

Mae hunaniaeth Cymru yn dameidiog, yn heterogenaidd ac yn "fuzzy" (Cohen, 1995). Mae'r rhannau gwahanol hyn yn adlewyrchu ein realiti daearyddol a thopograffig. Mae gwyddonwyr cymdeithasol yn aml wedi rhannu Cymru'n rhanbarthau gwahanol ar wahân sy'n dibynnu ar farchnad daearyddol ac

ieithyddol; gyda'r ddau wedi'u cydblethu'n agos. Cyfeiriodd Alfred Zimmern (1921, tt. 5-10) at "Welsh Wales", "Industrial Wales" ac "upper-class" neu "English Wales". Ategir hyn gan Dennis Balsom (1985) gyda "Welsh Wales", "British Wales" ac "Y Fro Gymraeg". Mae ysgolheigion eraill yn cyfeirio at Gymru "fewnol" ac "allanol", a adlewyrchir gan y mynyddoedd sydd i bob golwg yn hollti'r wlad yn ddwy (Aitchison & Carter, 1985) (Bowen, 1965):

*The first involves the north and west of the country and the second the south and east. This dualism is made possible because the valleys and lowlands that face the east and south are open to English influences while the country which faces north and west is protected from foreign influences by the highlands of Central Wales (Bowen, 1965, t. 7)*

Adlewyrchir y syniad o Gymru "mewnol" ac "allanol" yn yr hyn a eilw Raymond Williams (2003, t. 59) yn "two truths" sy'n perthyn i Gymru:

*Two truths are told, as alternative prologues to the action of modern Wales. The first draws on the continuity of Welsh language and literature: from the sixth Century it is said, and thus perhaps the oldest surviving poetic tradition in Europe. The second draws on the turbulent experience of industrial South Wales and its powerful political and communal formations.*

Mae daearyddiaeth Cymru felly wedi siapio ei phobl a'i realiti gwleidyddol-economaidd. Roedd y de a'r dwyrain a oedd yn hawdd eu cyrraedd yn gweithredu fel cyffindiroedd a sbringfwrdd ar gyfer concwest bellach, ond yn bwysicach efallai, cafodd yr ardal hon ei hamsugno'n haws i economi a pheirianwaith gwladwriaeth Lloegr. Effeithiodd nodweddion naturiol Cymru ar ei strwythur economaidd gyda glaw trwm, tir mynyddig, a phridd gwael a golygai mai hwsmonaeth anifeiliaid oedd y prif ddiwydiant. Effeithiodd daearyddiaeth, felly, ar safle Cymru yn y system-fyd a oedd yn datblygu ar ôl 1492. Effeithiodd ei daearyddiaeth ar ei sylfaen economaidd a'i strwythur cymdeithasol gyda'r ddau yn cyfuno i wneud ffyniant

cyfalafiaeth amaethyddol yn anos; nid yw ei hecoleg yn addas ar gyfer unedau ffermio mawr, sy'n golygu na allai efelychu prosesau cyfalafiaeth amaethyddol yn Lloegr hyd yn oed pe byddai wedi dymuno gwneud hynny. Roedd ei strwythur daearyddol yn golygu y byddai'n arbenigo mewn hwsmonaeth anifeiliaid, tra byddai de-ddwyrain Lloegr yn canolbwyntio ar gynhyrchu grawn.

Yn ogystal â'r gwahaniaeth naturiol o ran maint, roedd Lloegr yn gallu cynnal poblogaeth gymharol fwy gan fod ganddi briddoedd gwell ar y cyfan. Roedd y ffaith hon yn golygu bod mwy o drefi mawr yn Lloegr, gyda rhai yn agos at y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Daeth y trefi Seisnig hyn yn ganolbwynt ar gyfer cynnyrch Cymreig, ac eto roedd y trwybyrth hyn yn Lloegr, a thrwy hynny roedd cyfalaf Cymru yn helpu i hybu datblygiad Lloegr. Mae cymhariaeth â'r Alban yn addysgiadol. Yn gymharol, mae dwyrain Cymru yn ddaearyddol agos at y trefi ar y ffin a Llundain. Roedd tynfa economaidd y trefi hyn yn golygu nad oedd Cymru'n gallu datblygu ei chanolfannau economaidd ei hun. Yn baradocsaidd bron, ar y llaw arall, mae'n ymddangos bod ymyloldeb daearyddol yr Alban yn golygu ei bod yn cael ei hamddiffyn gan bwysau'r dylanwad daearyddol hwn. Ac eithrio Caerferwig (Berwick-upon-Tweed), nid oedd unrhyw ganolfannau masnachu mawr ar hyd y ffin Eingl-Albanaidd na phoblogaeth fawr y naill ochr na'r llall. Roedd hyn yn golygu y gallai'r Alban ddatblygu canolfannau masnach ar wahân. Yn ystod yr 17eg Ganrif, Caeredin oedd yr ail dref fwyaf ym Mhrydain, gyda'i chysylltiadau masnach ei hun ag ardal y Baltig, Sgandinafia, a'r Almaen. Roedd gan y canolbwynt hwn gryn dipyn o ddylanwad ar weddill y wlad ac felly roedd wedi datblygu i fod yn ardal graidd ar ei phen ei hun. Mewn enghraifft o gysylltiadau masnach fewndarddol yr Alban, roedd wedi datblygu dros 200 o ganolfannau marchnad ei hun rhwng 1660 a 1707, gyda'r rhain yn allforio'n uniongyrchol i'r cyfandir (Whatley, 1997, tt. 10-13).

Ar ben hynny, mae daeareg Cymru wedi'i llunio'n fwy na'r rhan fwyaf o wledydd. Mae ei heconomi am y ddwy neu dair canrif ddiwethaf wedi'i gysylltu'n agos â'i nodweddion naturiol gan gynnwys glo, llech, a thin. Glo - a'i botensial

trawsnewidiol - symudodd Cymru o wlad werinol i wlad ddiwydiannol, gan ei huno'n agos â'r wladwriaeth Brydeinig a'r system-fyd ehangach. Mae cysylltiad uniongyrchol ac agos rhwng twf poblogaeth Cymru a'r broses hon. Ymhellach, mae canrif ddiwethaf ei ddatblygiad wedi'i seilio ar anallu i symud y tu hwnt i'r cyfleoedd a ddaeth yn sgil glo wrth i'r galw hwnnw ddisgyn. Wrth ddadansoddi'r berthynas rhwng (de) Cymru a'i daearyddiaeth, nododd Ben Curtis (2002):

*South Wales is built on coal, both geologically and historically. The booming coal industry of the nineteenth and early twentieth centuries was the main reason behind the creation of modern south Wales. The coal miners, both individually and collectively, were central to the shaping of the economics, politics and society of south Wales during the twentieth century. In addition to the Valleys towns and villages shaped by the industry, Cardiff, Barry, Newport and (to a lesser extent) Swansea all owe much of their modern-day size and status to the wealth that they accrued from the coal trade. The modern history and identity of the Valleys is still strongly influenced by its mining past, despite the physical disappearance of most of the old collieries. On one level this is due to continued external perceptions of south Wales as being synonymous with coal, a factor which is consciously reinforced by such tourist attractions as the Rhondda Heritage Park and the Big Pit Mining Museum. In a more subtle and pervasive way, too, coal mining – specifically, coal mining trade unionism – has been a formative influence on the 'labourist' mental outlook of south Wales, characterised by close-knit, working class communities and – generally – voting for the Labour Party.*

Wrth ddadansoddi pwysigrwydd gwahanol ffactorau, felly, ategir y wireb 'mae daearyddiaeth o bwys'. Fodd bynnag, rhaid inni beidio â mynd â'r wireb hon yn rhy bell. Roedd cefnogwyr Daearyddiaeth Economaidd Newydd (Hen bellach) (NEG) (Sachs, et al., 2001) (Collier, 2008) yn gywir yn eu hasesiad bod amodau daearyddol ac ecolegol yn bwysig o ran datblygiad economaidd, ond datblygodd eu dadleuon i fod yn orbenderfyniaethol a theleolegol. Mae Sachs, et al. yn dadlau bod hinsoddau

trofannol *a priori* yn dlotach na rhanbarthau eraill y byd, tra bod Paul Collier yn nodi bod daearyddiaeth Bolifia yn golygu y bydd bob amser yn un o ranbarthau tlotaf y byd. Ers i Collier ysgrifennu ei lyfr, mae CDG Bolifia wedi cynyddu o tua \$16.6 biliwn yn 2008, i \$43 biliwn yn 2022. Yn amlwg, mae daearyddiaeth yn bwysig, ond nid yw'n penderfynu canlyniadau economaidd-gymdeithasol ar ei ben ei hun. Bwlch amlwg arall yng ngwaith ysgolheigion NEG yw rôl hanes – yn enwedig hanes trefedigaethol ac imperialaidd – wrth egluro gwahaniaethau mewn canlyniadau economaidd heddiw (Acemoglu, et al., 2002). Wrth ddadansoddi daearyddiaeth, felly, mae'n bwysig cofio nad llwyfan yw daearyddiaeth ffisegol lle mae hanes yn cael ei greu, ond bod daearyddiaeth a hanes yn plethu i greu *milieux* cymdeithasol nodedig (Kinser, 1981).

*Geography in this context is no longer an end in itself but a means to an end. It helps us to rediscover the slow unfolding of structural realities, to see things in the perspective of the very long term. Geography, like history, can answer many questions. Here it helps us to discover the almost imperceptible movement of history, if only we are prepared to follow its lessons and accept its categories and divisions* (Braudel, 1996, p. 23).

Fodd bynnag, mae'n anodd creu damcaniaethau cyffredinol o'n hastudiaethau achos yn hyn o beth. Ffurfiodd daearyddiaeth ein hastudiaethau achos bob un yn ei ffordd ei hun. Mae'n bosibl datgan bod tir mynyddig (yn gyffredinol) yn gwneud masnach a datblygiad yn fwy anodd, bod mynediad i'r môr (yn gyffredinol) yn arwain at ddinasoedd mwy a gwell cysylltiadau masnach a bod ffrwythlondeb tir (yn gyffredinol) yn bwysig i oresgyn dynameg Malthwsaidd, ac yn achos de-ddwyrain Lloegr, i hybu genedigaeth cyfalafiaeth. Fodd bynnag, y ffordd y mae daearyddiaeth yn rhyngweithio â - ac yn siapio - cymdeithas, yw'r wers sydd yma, a bydd pob cymdeithas yn ei thro yn rhyngweithio - ac yn siapio - daearyddiaeth yn ei ffordd ei hun. Er enghraifft, pe bai *dim ond* daearyddiaeth sy'n bwysig, yn hytrach na'i pherthynas â ffenomenau economaidd a chymdeithasol, gellid disgwyl y byddai

Iwerddon a Chymru yn elwa mwy o fasnach yr Iwerydd a 'darganfyddiad' yr Americas, o ystyried bod ganddynt yn gymharol well mynediad, a llai o amser teithio nag o borthladdoedd Lloegr (heblaw am Gernyw). Wrth geisio peidio â syrthio i fagl y NEG, nid yw'n bosibl crynhoi daearyddiaeth na'i effaith yn set daclus o ffactorau. Mae daearyddiaeth yn bwysig, ond mae'n bwysig am wahanol resymau ar draws yr holl astudiaethau achos, rhesymau na ellir eu symleiddio. Fel y dadleuodd Nolte (2003, t. 53) yn achos Madrid ac Andalucía:

*this region (Andalucía) definitely may not be considered geographically disfavored in relation to the Spanish center around Madrid. On the contrary: the Spanish highlands are relatively barren, cold in wintertime, expensive for ground transport, and without access to cheap water transport, while Andalucía has rich agricultural possibilities, is close to the sea, and has access to cheap water transport not only by easy harbours but also (in early modern times) by water transport. It also has wonderful mountains and beautiful coasts for tourism and considerable possibilities for extracting industries. And yet Andalucía has long been characterized by a high percentage of joblessness, much emigration, and a lower standard of living than Madrid and also, for instance, Catalunya. The reasons may not be looked for in geography; they have to be found in history.*

## Trefedigaethau a Pherifferïau

Mae casgliad bywiog o ymchwil yn bodoli sy'n ymdrin â'r cysylltiad rhwng gwladychiaeth ar y naill law, a (than)ddatblygiad economaidd ar y llaw arall. Dangoswyd bod rhanbarthau o'r byd a wladychwyd yn gyffredinol yn dlotach na'r rhai a wnaeth y gwladychu, a'r eithriad i'r rheol hon yw'r ardaloedd hynny lle hwyluswyd gwladychiaeth ymsefydlu (er gwaethaf yr effeithiau ar y poblogaethau lleol) (Engerman & Sokoloff, 2002) (Engerman & Sokoloff, 2005) (Acemoglu, et al.,

2001) (Acemoglu, et al., 2002). Mae'r gweithiau hyn yn dangos yr effaith a gafodd gwladychiaeth Sbaen ar y rhai a wladychwyd, ond mae eu dadansoddiad yn canolbwyntio llai ar yr effeithiau a gafodd hyn ar economi Sbaen. Ymhellach, mae ysgolheigion fel Engerman a Sokoloff yn treulio llawer o amser yn trafod ymerodraethau'r Iwerydd, yn hytrach na Môr y Canoldir (wrth gydnabod bod pwerau Môr y Canoldir wedi tyfu'n arafach yn y cyfnod trefedigaethol). Mae angen dadansoddiad felly i ddatgysylltu'r cysylltiadau sy'n bodoli (os o gwbl) rhwng nid yn unig y drefedigaeth a'r *metropole*, ond hefyd perifferïau mewnol y wlad honno. Bydd y dadansoddiad hwn yn helpu i ddatgelu'r prosesau a'r canlyniadau gwahanol a welwyd ym mhob man o fewn y gyfundrefn deiran hon.

Dadleuodd awduron fel Oto-Peralías a Romero-Ávila (2016) nad yn yr Americas y dechreuodd gwladychiaeth Sbaenaidd, ond yn hytrach dylid ystyried y *Reconquista* fel menter drefedigaethol, un a fyddai'n llywio ei hymdrechion yn y dyfodol. Yn wir, yn yr un flwyddyn y gwelwyd cwmp Emiraeth Granada a'i chyfeddiannu gan Castilla, a 'darganfyddiad' yr Americas: 1492. Roedd strwythur trefniadol ailwladychu'r de yn sylfaenol i'w danddatblygiad diweddarach fel rhanbarth. Roedd Andalucía yn gweithredu fel cyffindir ar gyfer Sbaen, ac roedd y

*rapid advance of the Christian frontier made it difficult for the Crown to officially organize the repopulation on such a large scale and altered the balance of power toward the nobility and military orders, who were required for conducting an effective occupation and defence of the new lands* (Oto-Peralías a Romero-Ávila, 2017, t. 60).

Mewn gwirionedd, roedd y ffin newydd yn ardal o ddwysedd poblogaeth isel a sefydlodd system amaethyddol yn seiliedig ar ystadau mawr yn nwylo'r bendefigaeth, gan sicrhau a chynnal cryfder cysylltiadau cymdeithasol cyn-gyfalafol yn seiliedig ar orfodaeth all-economaidd (Cabrera-Munoz, 1989). Darparodd hyn y sylfaen economaidd i'r aradeiledd cyfreithiol a chymdeithasol lle'r oedd y cydbwysedd grym yn ffafrio'r bendefigaeth ar draul y werin a'r uchelwyr, ond ar yr

un adeg roedd hyn yn dechrau newid yn Lloegr. Mewn gwirionedd, mewn cyfnod lle'r oedd y strwythur cymdeithasol ac economaidd yn newid yn yr Iwerydd, roedd yn cael ei atgyfnerthu yng Nghastilla. Roedd crisialu'r strwythur dosbarth ffiwdal yn Sbaen (neu o leiaf yng nghanolbarth a de Sbaen) yn rhwystro datblygiad anghenraid cyfalafol, a effeithiodd ar ddatblygiad hirdymor. Fel y dadleuodd Oto-Peralías a Romero-Ávila (2016, t. 441):

*In the case of Spain, particularly in large estates regions, the broad mass of the population was poor, and no strong bourgeoisie arose, as the entrenched nobility and the middle class preferred to devote their capital to buying large land lots. As a result of this, ... and unlike in other countries like Britain, the landed elite did not see its power curtailed and no significant shift in the balance of power occurred. In contrast, in those regions that had a more equal distribution of economic and political power, like the Basque Country and Catalunya, the arrival of the opportunity to industrialize clearly shifted the balance of power toward the emerging industrial bourgeoisie.*

Oherwydd safle Catalunya ymhell o ffiniau ailoresgyniad y 15fed Ganrif, nid oedd angen ystadau mawr neu *latifundias* i amddiffyn - nac ehangu - ei ffiniau rhag y Mwslemiaid. Roedd hyn yn golygu bod trefi masnachu a diwydiannol Aragón megis Barcelona a Zaragoza nid yn unig wedi cadw eu sefydliadau gwleidyddol, ond roedd y strwythur amaethyddol gymharol fwy egalitaraidd yn golygu y gallai gwerin dosbarth canol ddatblygu, yn y modd hwn daeth elît Catalunya o hyd i'w ffordd i foderniaeth a ddatblygodd yn ganolfan economaidd yn Sbaen, er bod gwleidyddiaeth yn parhau i fod yn ganolog ym Madrid (Nolte, 2003, t. 54).

Cafodd y *Reconquista* ddau effaith arall ar gymdeithas Sbaen; yn gyntaf rhwystrodd gynhyrchiant amaethyddiaeth a llywiodd weithredoedd gwladwriaeth Sbaen yn yr Americas ar ôl y 'darganfyddiad'. Yn ail, gyrrodd y wladwriaeth yr Iddewon allan o Sbaen yn 1492, ac yna'r Mwriaid yn 1502, a'r Morisgos yn 1609.<sup>68</sup> Roedd y Morisgos

---

<sup>68</sup> Cyn-fwslemiaid oedd y Morisgos a gorfodwyd eu digynyddion i droi at Gristnogaeth neu gael eu halltudio.



yn rhifo 300,000 ac yn weithwyr amaethyddol yn bennaf, wedi'u lleoli'n anghymesur yn Valencia ac Andalucía. Rhwygodd diarddel y Morisgos strwythur cymdeithasol mewnol Sbaen (Wallerstein, 2011, t. 194). Ym 1893, dadleuodd Moses (tt. 520-521):

*The depression of agriculture was further intensified, particularly in Southern Spain, by the overthrow of the Moriscos. ... After this event the landowners of Andalucía learned that their lands had become worthless, since they were deprived of their industrious cultivators. ... Whatever hopes of prosperity for Spain - based on the skill and industry of the Moriscos - was destroyed by their expulsion in 1610. This loss was irreparable. ... With the Moriscos, the last of the productive workers disappeared from Spain, and in Southern Spain, which they had occupied, there remained only the memory of the once flourishing agriculture and industry. At a single blow the industrial force of Granada was destroyed, the desolated land remained without cultivation, the Vega, celebrated as a paradise, was turned into a desert, so that the few colonists sent thither scarcely found means of support, and famine was not uncommon in the most favoured land of Europe. The roads built by the Moors went to ruin; the excellent system of irrigation dried up; and the splendid aqueducts which conducted the snow-water from the Sierras were broken and destroyed.*

Cafodd Andalucía felly ei pherifferoleiddio gan wladwriaeth Sbaen, sefyllfa sy'n parhau hyd heddiw. Yn ddiweddarach, roedd y perifferoleiddio hwn yn llywio gweithredoedd Sbaen yn ei threfedigaethau allanol. Mae Fernández (2022, t. 435) yn cyfeirio at y *Reconquista* fel “prelude” i ehangu yn yr America, lle'r oedd tröedigaeth gorfodol y Mwriaid i Gristnogaeth yn adlewyrchu'r gorthrwm crefyddol a ddioddefodd pobloedd brodorol America. Ymhellach, cafodd polisi economaidd Sbaen ei lunio gan brofiadau yn Andalucía. Lledaenwyd polisi'r ystadau mawr – neu *latifundias* – i'r Americas yn ogystal â grym gwleidyddol ar ffurf hawliau ffiwdal ei weithredu yn y Byd 'Newydd' (Oto-Peralías & Romero-Ávila, 2016, t. 450). Yn ei hanfod, roedd darostyngiad gwleidyddol pedair teyrnas Jaen, Cordoba, Seville, a

Granada i Goron Castilla yn fodel ar gyfer ffurfio dirprwyaeth yn yr Americas (Fernández, 2022, t. 435).

Arweiniodd cryfhau'r cysylltiadau cymdeithasol cyn-gyfalafol hyn at ddefnyddio *latifundias* yn yr Americas a pholisi cryshedoniaeth (chryshedonism), neu'r obsesiwn ag aur. Hwn oedd prif ffactor polisi trefedigaethol Sbaen (Fontanel, et al., 2008, t. 335). Arweiniodd hyn at chwyddiant yn Sbaen wrth sicrhau nad oedd cyfalaf yn cael ei wario ar fuddsoddi cynhyrchiol, ond yn hytrach yn cael ei wario'n afradlon gan y Goron (Perrotta, 1993). Wrth ddadansoddi'r realiti hwn, dadleuodd Lachmann (1989, t. 59):

*Where such a transition from feudalism to capitalism did not occur, as in Italy, Spain, and Portugal, one got ... an orientation to the profit opportunities obtained through political domination, predatory activity, and irregular transactions with political bodies. Those were the only sorts of profits the original core countries could make from exploiting slaves in Africa and in the Americas or by buying the products of serf labor in Eastern Europe.*

Roedd gwladychiaeth Brydeinig (a pholisi diweddarach yr Unol Daleithiau) yn yr Americas ar y llaw arall yn wahanol oherwydd y newid o ran cysylltiadau economaidd a chymdeithasol a oedd wedi digwydd ym Mhrydain. Roedd gwladychiaeth Brydeinig yn dilyn trywydd cyfalafol. Wrth archwilio'r cysylltiad rhwng caethwasiaeth a diwydiant, nododd Marx (1920, t. 121) heb gaethwasiaeth nid oes gennych gotwm; heb gotwm does gennych chi ddim diwydiant modern. Roedd perchnogion caethweision o dan bwysau'r farchnad, ac yn gorfod prynu caethweision a thir o'r farchnad – ar gredyd fel arfer – gan olygu bod perchnogion caethweision yn cael eu gorfodi i leihau costau, i ddefnyddio'r technegau mwyaf cynhyrchiol, a chynhyrchu at ddibenion y farchnad. Ni allai perchnogion caethweision yn UDA ddibyynu ar ffermio ymgynhaliol, hyd yn oed pe byddent wedi dymuno gwneud hynny. Fel y dadleuodd Clegg (2015, t. 286):

*Planters had the incentive and ability to increase productivity because of the unique opportunities and costs presented to them by the greater Atlantic economy. These consisted not only in the elastic demand of British manufacturers but also in the vagaries of the international slave trade. The outlawing of this trade restricted the supply of slave labor and put pressure on planters to economize on its use. Eli Whitney's patented cotton gin was one of a flurry of labor-saving gins introduced during a period of rising slave prices.*

Roedd Catalunya yn ddilyffethair o'r cysylltiadau economaidd a chymdeithasol a osodwyd ar y de a phrofodd twf amaethyddiaeth fasnachol bwerus (Moreno Zacarés, 2018, t. 749) ac roedd diddymu taeogaeth yn dilyn gwrthryfel y werin 1486 yn rhan fawr o hynny (Freedman, 1993). Dadleuodd Brenner (1976, t. 63) yn nhroednodiadau ei ddadansoddiad o strwythur y dosbarth amaethyddol a datblygiad economaidd yn Ewrop gyn-ddiwydiannol:

*the only real alternative to the 'classical English' landlord-large tenant-wage labour form of capitalist agriculture seems to have been an equally capitalist system based on large-scale owner-cultivators also generally using wage labour. The latter was the structure which in fact emerged in Catalunya at the end of the fifteenth century out of the previous period of agrarian struggle.*

Er bod Brenner efallai'n rhy hael gyda'r honiad hwn - yn ogystal â'r ffaith na wnaeth ymhelaethu arno - mae'n amlygu'r ffaith fod gan Gatalunya system amaethyddol ar wahân, sy'n debygol o fod yn ffactor wrth egluro ei datblygiad cryf diweddarach o'i gymharu â de Sbaen. Fel y dadleuodd Julie Marfany (2016, tt. 25-32), gyda diddymu taeogaeth, dechreuodd gwerinwyr gronni tir trwy etifeddiaeth, prynu, a phriodas ac erbyn 1700 roedd y gwerinwyr gwreiddiol hyn yn cyflogi tollgnydwyr i weithio'r tir tra eu bod nhw'n datblygu'n ddosbarth canol proffesiynol newydd. Fel yn Lloegr, roedd cyfundrefn deiran o landlordiaid, dosbarth canol â gogwydd masnachol, a llafurwyr heb dir yn bodoli erbyn hyn. Byddai'r dosbarth canol newydd hwn, a oedd yn ymwybodol o anghenion cyfnewidiol y farchnad, yn cynhyrchu

cynhyrchion penodol am yn ail yn ddibynnol ar y pris. Er enghraifft, byddent yn mynnu tyfu gwinwydd i gynhyrchu gwin er mwyn gwneud mwy o elw (Moreno Zacarés, 2018, t. 756). Yn ogystal, arweiniodd y ffermydd mawr hyn oedd yn nwylo'r dosbarth canol newydd at ddadleoliad cymdeithasol yng nghefn gwlad, gyda gwerinwyr newydd di-dir yn symud i'r dinasoedd i chwilio am waith, bellach yn gorfod gwerthu eu grym llafur. Aeth y llafur 'newydd' hwn yn bennaf i ddiwydiant tecstilau Cataluny. Yr hyn sy'n berthnasol i'r dadansoddiad hwn yw'r modd y gwnaeth diwydiant tecstilau Cataluny ymgysylltu nid yn unig â gweddill Sbaen, ond hefyd â'i threfedigaethau (Thomson, 2005) (Núñez, 2015). Roedd diffyndollaeth Sbaen yn golygu bod mewnfario brethyn yr India wedi'i wahardd, gan arwain at gynydd mewn gwehyddu yng Nghataluny, a oedd yn seiliedig ar ddefnyddio cotwm o'r Americas, cyn i'r brethyn gwneuthuredig gael ei allforio yn ôl i'r trefedigaethau (Núñez, 2015, t. 202). Helpodd hyn i glymu Cataluny nid yn unig yn agosach at wladwriaeth Sbaen, ond at yr Ymerodraeth hefyd, gyda buddion gwladychiaeth yn treiddio trwy Aragón, yn ogystal â Castilla.

Mae'r dadansoddiad uchod yn codi dau bwynt pwysig i'w trafod. Yn gyntaf, mae'n dangos sut mae perifferoldeb mewnol - er nad yn adlewyrchu perifferoldeb allanol neu imperialaeth - hefyd yn rhwystro datblygiad. Ar ben hynny, gall perifferoldeb mewnol hefyd lywio polisi'r *metropole* wrth ddelio â pherifferïau allanol, fel y gwelir yn achos Andalucía a'r Americas. Roedd ymreolaeth gymharol Cataluny ar y llaw arall - a'r diffyg angen i'w 'hamddiffyn' rhag Mwslemiaid - yn golygu na effeithiwyd ar ei strwythurau economaidd a chymdeithasol i raddau helaeth gan y prosesau hynny oedd ar waith yn y De. Roedd hyn yn golygu bod Cataluny mewn gwell sefyllfa i ddatblygu yn debyg i'r prosesau hynny oedd yn digwydd yn ne Lloegr, er bod gwahaniaethau. Roedd yr ymreolaeth gymharol hon yn golygu y gallai ddatblygu mewn ffordd fwy cydnaws â'i hanghenion ei hun, opsiwn nad oedd ar gael i berifferïau mewnol y De. Roedd hyn yn golygu, pan fo cyfleoedd yn codi, megis polisiau diffyndollaeth Sbaen, bod dosbarth canol newydd Cataluny yn gallu

manteisio'n well ar gyfleoedd o'r fath, tra bod ei strwythur economaidd yn sicrhau lluo o lafurwyr di-dir a oedd yn angenrheidiol ar gyfer ehangu diwydiannau megis gweithgynhyrchu tecstilau. Mae'r broses hon yn helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng Catalunya ar un llaw a rhanbarthau deheuol Castilla ar y llaw arall yn ystod y troad diwydiannol ar Benrhyn Iberia. I aralleirio Braudel, mae gwahaniaeth economaidd heddiw yn cynnwys ddoe, y diwrnod cyn ddoe, a'r dyddiau a fu.

Roedd y sefyllfa ar benrhyn yr Eidal yn wahanol i'r sefyllfa yn Iberia i ryw raddau. Roedd yr Eidal yn hwyrddyfodiad ac yn wan yn theatr yr Ymerodraeth Ewropeaidd. Nid oedd gan yr Eidal unrhyw eiddo trefedigaethol yn America nac Asia, tra yn Affrica gwladychodd Eritrea yn 1882, Somalia yn 1905, Libya yn 1912 ac Ethiopia yn 1936. Roedd yn chwaraewr gwan oherwydd dim ond gweddillion pwerau trefedigaethol y llwyddodd i gymryd (Bertazzini, 2019, t. 17). Roedd tlodi cymharol yr Eidal o gymharu â phwerau Ewropeaidd eraill hefyd yn effeithio ar y ffordd y gellid 'datblygu' galluoedd economaidd a chynhyrchu ei threfedigaethau. Nid oedd triniaeth poblogaethau brodorol yn llai creulon na'u cymheiriaid yng ngorllewin Ewrop, ond eto:

*unlike France and Britain, the new Kingdom of Italy lacked the capital resources to sponsor and develop plantation colonies for economic exploitation (Choate, 2003, t. 65).*

I'r perwyl hwn, ni allai economi fewnol wannach yr Eidal sicrhau argaeledd adnoddau na'r marchnadoedd ar gyfer ei thiriogaethau trefedigaethol fel y gallai Prydain neu Ffrainc. Mewn ystyr economaidd, nid oedd trefedigaethau'r Eidal yn ganolog i'w datblygiad economaidd, a esbonnir yn rhannol oherwydd yr amser cymharol fyr yr oedd ei threfedigaethau yn ddarostyngedig iddi, yn rhannol oherwydd hwyrni ymerodraeth y Deyrnas, ac yn rhannol oherwydd arafwch cymharol y Deyrnas o'i gymharu â'r archbwerau Ewropeaidd. Yn achos yr Eidal, efallai mai rhywbeth seicolegol oedd yr ymerodraeth:

*The belief that Italy was the cradle of European civilization played a significant part in the nationalist ideology of modern Italy from unification to fascism. This ideology aimed to both create a national identity and defeat internal difference in a country which was socially and culturally diverse and emerging from centuries of foreign domination, and where discontent and unrest not to mention poverty were widespread (De Donno & Srivastava, 2006, t. 375).*

Pwrpas y trefedigaethau hyn felly oedd dyrchafu'r Eidal i'w lle haeddiannol yn Ewrop a'r system-fyd a 'chreu Eidalwyr'. Yn Ewrop, roedd hyn yn golygu iredentiaeth i ddod â siaradwyr Eidaleg o dan adain y wladwriaeth Eidalaid, tra dramor roedd yn golygu creu cysylltiadau â gorffennol Rhufeinig y penrhyn yn *Mare Nostrum* wrth greu tebygrwydd a chymariaethau rhyngddi hi, Ffrainc, Prydain Fawr, a'r Almaen.

Mae'r ffaith pam na ddatblygodd yr Eidal ei ymerodraeth yn gynt yn haeddu esboniad. Mae natur ranedig yr Eidal gydag unedau gwleidyddol llai tan yn gymharol ddiweddar yn un rheswm. Roedd maint mwy 'cenedl'-wladwriaethau'r Iseldiroedd, Sbaen, Prydain Fawr, a Ffrainc, ynghyd â'u gallu cynhyrchiol cynyddol yn golygu na allai dinas-wladwriaethau llai fel y bodolai yng ngogledd yr Eidal gystadlu mwyach yn y cyfnod modern. Ymhellach, mae Acemoglu, Johnson, a Robinson (2005, t. 42) yn cysylltu marweidd-dra'r Eidal rhwng y 16eg-19eg Ganrif yn uniongyrchol ag ymerodraeth. Maent yn nodi:

*our hypothesis suggests that Italy did not develop as rapidly as Britain and the Netherlands because Italian city-states did not take part in Atlantic trade and colonialism.*

Mae hyn yn dangos yn glir y cysylltiad rhwng datblygiad economaidd ar un llaw a gwladychiaeth ar y llaw arall. Yn amlwg, gwanhawyd sefyllfa'r Eidal ymhellach gan ei lleoliad daearyddol: er mwyn cael mynediad at Fôr yr Iwerydd byddai angen i'w llongau deithio trwy Gulfor Gibraltar, sydd yn 8 milltir o hyd yn ei fan byrraf, gan ei

wneud yn rhanbarth geo-strategol hanfodol. Wedi'i reoli gan Sbaen a Phrydain ar wahanol adegau, gallai'r pwerau morol cystadleuol hyn ei gwneud yn hynod anodd i'r Eidal gael mynediad i'r byd 'newydd'.

Oherwydd gwendid cymharol Ymerodraeth yr Eidal, o'i chymharu â'r pwerau Ewropeaidd mawr, roedd 'Yr Arall' i'r hyn a olygai i *fod yn Eidalwr* yn rhywbeth mewnlol, sef y De yn benodol. Yn gymdeithasegol, ategwyd hyn gan Cesare Lombroso a ddadleuodd yn *L'Uomo Delinquente* fod troseddoldeb yn tarddu o nodweddion ffisegol 'annormal'. Yn ôl Lombroso, roedd penglogau trigolion y Mezzogiorno yn tueddu i fod â chylchedd annormal o fach, a bod eu hesgyrn bochau yn llydan ac amlwg, a'u haeliau'n drwchus a'u llygaid yn gwibio (Mezzano, 2009, t. 39). Roedd y 'nodweddion' hyn yn dynodi troseddoldeb. Dadleuodd y cymdeithasegwr Americanaidd William Ripley yn *The European Races* yn 1899, fod tair ras Ewropeaidd; Teutonaidd, Alpaidd, a Môr y Canoldir. Roedd gwaith Lombroso, wrth geisio bod yn 'wyddonol' hefyd yn ceisio sicrhau lle Gogledd yr Eidal o fewn y 'ras Alpaidd', ar wahân i Dde'r Eidal. Roedd creu 'Yr Arall' hyn yn chwarae rôl debyg i *Al-Andalus*; roedd yn gyferbwyt y gellid cymharu 'gwir Eidalwyr' yn ei erbyn (Davis, 2012, t. 510).

Roedd y 'sylfaen' gymdeithasegol hon o ran y gwahaniaethau rhwng y gogledd a'r de yn rhoi hygredd i bolisi economaidd a oedd o fudd i'r gogledd ar draul y de. Nid yn unig cynyddodd anghydraddoldeb economaidd rhwng y gogledd a'r de ar ôl y Risorgimento, ond sugnodd y gogledd hefyd gyfran anghymesur o drethi o'r de i ariannu buddsoddiad yn y gogledd (D'Attoma, 2017, t. 80). Roedd y bloc hanesyddol rhwng diwydianwyr y gogledd a landlordiaid y de yn golygu y gellid cynnal cysylltiadau cymdeithasol hynafol ac adweithiol yn y De, gyda chymorth rhannol diwydianwyr gogleddol, a fyddai'n sicrhau de amaethyddol i fwydo'r boblogaeth a byddin llafur wrth gefn pan fo'i hangen. Mae Petruszewicz (2020) a Riall (2002) ill dau yn cyfeirio at y ffaith bod Teyrnas y Ddwyr Sisili wedi dilyn polisi diffyndollol cyn ei hymgorffori yn Nheyrnas yr Eidal, a oedd yn gyffredinol yn

amddiffyn gweriniaeth de'r Eidal rhag yr anwadalrwydd a'r amrywiadau pris gwaethaf. Effeithiodd dinistr y ddiffyndollaeth hon ar ôl y Risorgimento yn andwyol ar botensial economaidd y De. Wrth egluro hyn, mae'n werth cyfeirio at waith Samir Amin (1974b, t. 72) ar ddatblygiad anghyfartal a chyfalafiaeth ymylol. Dywedodd:

*In the peripheral formations, it will be seen that the dominant capitalist mode subdues and transforms the others: it disfigures them, deprives them of their functionality and subjects them to its own, without however radically disintegrating and destroying them.*

Yn ei hanfod, trawsnewidiodd y gogledd cyfalafol y drefn yn y de yn yr ystyr ei fod wedi newid ei bolisiau diffyndollol a chyrchfan ei gynnyrch amaethyddol, ond eto ni wnaeth chwalu na dinistrio'r system *latifundia* lled-ffiwddal ond yn hytrach ei newid i'w hanghenion a'i dibenion ei hun. Yn hyn o beth, mae patrwm y trawsnewid i gyfalafiaeth y perifferi yn sylfaenol wahanol i batrwm y trawsnewid i gyfalafiaeth y craidd (Amin, 1976, t. 200). Roedd y de ar y perifferi felly yn darparu ar gyfer crynhoad cronïad cyntefig yn y gogledd, gan ganiatáu iddo ar un llaw dyfu tra ar yr un pryd yn atgyfnerthu goruchafiaeth y gogledd dros y de. Eglurodd Amin (1976, t. 203) ymhellach:

*The mutilated nature of the national community in the periphery confers an apparent relative weight and special functions upon the local bureaucracy that are not the same as those of the bureaucratic and technocratic social groups at the center. The contradictions typical of the development of underdevelopment, and the rise of pettybourgeois strata reflecting these contradictions, explain the present tendency to state capitalism.*

Mae hyn yn egluro'r berthynas rhwng diwydianwyr y gogledd a landlordiaid y de o fewn y bloc hanesyddol. Swyddogaeth fiwrocraataidd landlordiaid oedd cynnal y cysylltiadau cynhyrchu traddodiadol yn y de, gan weithredu fel dosbarth *comprador*



mewn cynghrair â buddiannau cyfalafol y gogledd. Fel y dywed yn ddiweddarach (Amin, 1976, t. 362):

*Capital, through its development at the center itself, continually gives rise to unification and differentiation. The mechanisms of centralization for the benefit of the dominant capital also operate between the various regions of the center: the development of capitalism everywhere means developing regional inequalities. Thus, each developed country has created within itself its own underdeveloped country: the southern half of Italy is one example. The resurgence of regionalist movements in our time would be difficult to understand without this analysis.*

Yn achos Cymru, cyfunodd perifferoldeb gartref a gwladychu dramor i greu sefyllfa economaidd ryfedd. O fewn yr Ymerodraeth Brydeinig, roedd Cymru yn bŵer ar y lled-berifferi o fewn y system-fyd. Ar un llaw, gallai Cymru esgyn o'i safle ar y perifferi o ganlyniad i'w hymgorffori yn y wladwriaeth Brydeinig ac ar gwt cot y Saeson. Nid oedd Cymru, felly, yn arwain y broses o wladychu, ond defnyddiodd ei safle fel aelod o'r Ymerodraeth Brydeinig i wella ei sefyllfa ei hun. Roedd yn ddibynnol ar, ac yn gysylltiedig â, Lloegr. Ac eto, mae'n ddiau i Gymru ddefnyddio'r realiti hwn i ecsbloetio eraill ledled y byd. Defnyddiodd diwydianwyr Cymreig y cyfleoedd a ddaeth yn sgil y fasnach gaethweision i ddatblygu eu sylfaen economaidd eu hunain, a ategir gan y cysylltiad – a'r twf – rhwng caethwasiaeth a gwladychiaeth ar y naill law a'r diwydiannau llechi, copr, a haearn ar y llaw arall (Evans, 2015) ( Jenkins a Moore, 2002).

Cadarnhaodd y Ddeunawfed Ganrif Hir safle Cymru o fewn y system-fyd: roedd wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn economi wleidyddol Lloegr a'r Ymerodraeth Brydeinig. Roedd safle Cymru ar y perifferi yn ganlyniad ymateb i'r galw o Loegr o ran bwyd, llafur ac adnoddau naturiol, ac yn hyn o beth roedd yn cael ei 'defnyddio' gan Loegr at ei nodau ei hun. Eto i gyd, roedd bod ar y perifferi o fewn cyd-destun Prydeinig yn amlwg yn wahanol i fod ar y perifferi yn fyd-eang neu wladychiaeth. Roedd Cymru a'i hadnoddau'n ganolog i'r prosiect Prydeinig ehangach, tra bod

aelodaeth o'r Ymerodraeth Brydeinig wedi codi statws Cymru i safle na fyddai wedi'i chyflawni ar ei phen ei hun.

Mae dal angen rhoi sylw i bwysigrwydd yr Ymerodraeth i ddatblygiad a thwff economaidd Prydain. Dadleuodd Wallerstein (2011, t. 68) mai mantais Prydain mewn masnach drefedigaethol oedd yn union yr hyn a ategodd y cynhyrchion incwm-elastig a ganiataodd i Brydain ehangu masnach ag Ewrop yn y cyfnod ehangu ar ôl y 1750au. O ran bwydydd penodol a chynhyrchion moethus, yn yr 1830au cynhyrchwyd 75% o goffi Prydain, 93% o'i gotwm, 95% o'i siwgr, a 97% o'i thybaco gan gaethweision (Losurdo, 2014, tt. 13-14). Roedd trosglwyddiad gwerth enfawr hefyd o'r trefedigaethau i Brydain. Yn India'r Gorllewin, rhwng 1795 a 1804, cafodd gwerth £4.8 miliwn o nwyddau eu cyflenwi i "England (sic)" yn rhad ac am ddim (Habib, 2017, t. 10). Yn India, trethwyd Indiaid gan Brydain er mwyn talu am fewnforion o India, gan olygu bod gwerth dwbl yn cael ei drosglwyddo o'r drefedigaeth i Brydain. Roedd hyn yn golygu bod Prydain yn defnyddio ei threfedigaethau allanol i hybu ei datblygiad mewnol ei hun. Fel y dadleuodd Mukherjee (2010, t. 76):

*The process of primitive accumulation in capitalism or the initial phase of industrialisation is a painful one as the initial capital for investment has to be raised on the backs of the working class or the peasantry. To the extent that Britain and other metropolitan countries were able to draw surplus from the colonial people, to that extent they did not have to draw it from their own working class and peasantry.*

Yn hyn o beth, cafodd y Cymry fudd aelodaeth o'r wladwriaeth Brydeinig wrth i rai o boenau twf datblygiad diwydiannol gael eu trosglwyddo i'r trefedigaethau, sy'n golygu bod y dosbarth gweithiol a'r bourgeoisie wedi elwa o'r Ymerodraeth, er i raddau amrywiol.

Daeth effeithiau safle Cymru ar y perifferi o fewn y wladwriaeth Brydeinig yn fwy amlwg ar ôl anterth y chwyldro diwydiannol. Gyda lleihad yn y diwydiant glo o'r

cyfnod rhwng y ddau ryfel byd, amlygwyd rôl “integral but peripheral” Cymru. Nid oedd gan Gymru'r liferi economaidd yr oedd eu hangen arni i geisio gwrthsefyll dirywiad y diwydiant glo, ac o ran Prydain, bellach gellid cael glo yn rhatach ac yn fwy effeithlon o dramor, a olygai nad oedd glo Cymru bellach yn angenrheidiol. Yn hyn o beth, mae cipolwg ar Wlad y Basg yn amlygu'r ffaith hon. Profodd Gwlad y Basg lefelau tebyg o ddirywiad economaidd yn y cyfnod ar ôl y rhyfel, gyda chwmp ei diwydiannau trymion. Fodd bynnag, oherwydd ei gafael ar strategaeth ddiwydiannol ac economaidd, llwyddodd Gwlad y Basg i ailddiffinio ei hallbynnau economaidd ac ailhyfforddi ei gweithwyr (Navarro, et al., 2014). Yn hyn o beth, mae newid ym mhwsigrwydd technolegau gwahanol - oherwydd gallu cyfalafiaeth i ailddiffinio ei hun - yn rhan ganolog o'r system. Fodd bynnag, nid yw'r ffordd y mae llywodraethau'n dewis ymdrin â'r newid hwn wedi'i bennu ymlaen llaw. Oherwydd natur Cymru ar y perifferi yn economaidd ac yn wleidyddol o ran y berthynas â'r wladwriaeth Brydeinig, nid oedd ailgyfeirio economi Cymru yn flaenoriaeth. Nid oes sicrwydd y byddai argaeledd liferi economaidd angenrheidiol wedi llwyddo i ailgyfeirio economi Cymru yn ôl yr angen, ond mae'n ymddangos y byddai wedi gwneud y canlyniad hynny yn fwy tebygol.

Effeithiodd perifferoldeb a gwladychiaeth, felly, ar bob un o'n hastudiaethau achos yn eu tro. Eto i gyd, unwaith eto, mae aflerwch cynhenid hanes yn golygu bod yn rhaid i'r dadansoddiad hwn haniaethu. Mae'n ymddangos bod perifferoldeb o fewn y wladwriaeth (heb sôn am y system-fyd) yn arwain at ganlyniadau economaidd gwaeth. Mae'n glir nad oedd Cymru, y Mezzogiorno, nac Andalucía yn dilyn eu hanfod economaidd eu hunain, ond yn hytrach hanfod y craidd. Mewn sefyllfaoedd lle ceir blaenoriaethau economaidd cystadleuol, mae'r craidd yn tueddu ennill. Yn achos y Mezzogiorno ac Andalucía, mae'n ymddangos bod polisi mewnol a pholisi trefedigaethol yn bodoli mewn perthynas ddilechdidol lle'r oedd y naill yn effeithio ar y llall. Effeithiodd polisi mewnol yn Andalucía ar ddatblygiadau polisi yn y trefedigaethau, tra bod y wladychiaeth wannach a fodolai yn yr Eidal wedi llywio'r

modd y cafodd y De ei thrin gan y Gogledd, gan greu 'Arall' mewnol oherwydd diffyg 'Arall' allanol unol. Yn achos Cymru, mae'n debygol mai Iwerddon a chwaraeodd rôl 'Yr Arall' mewnol/allanol yn wreiddiol, a olygai bod Cymru mewn safle canolig ar y continwwm rhwng y Saeson ac Albanwyr yr Iseldir ar un llaw, a'r Gwyddelod a'r trefedigaethau eraill ar y llall. Ymhellach, cyfoethogodd gwladychiaeth y tair gwlad yn eu ffyrdd eu hunain ac i raddau amrywiol. Fodd bynnag, roedd gwladychiaeth - a'r ffurf a gymerodd - yn rhyngweithio â sylfaen economaidd pob cymdeithas, gan greu cysylltiadau trefedigaethol gwahanol ym mhob man. Hynny yw, roedd gwladychiaeth Brydeinig yn wahanol i wladychiaeth Sbaenaidd, a'r rheswm am hyn oedd yr amodau a oedd yn bodoli ym mhob gwladwriaeth. Mae hyn yn rhoi coel i'r farn na ddylem drin y domestig a'r rhyngwladol fel dau faes cynhyrchu neu economeg, gan ei bod yn amlwg bod yr amodau sy'n bodoli mewn lle penodol yn arwain at ei faterion tramor, sydd yn ei dro yn dylanwadu'r domestig.

## Y Genedl a'r Wladwriaeth

Mae pob un o'n hastudiaethau achos yn Ewrop: crud y genedl-wladwriaeth. Yn y ffurf ddelfrydol mae 'cenedl' a 'gwladwriaeth' yn asio lle mae un yn gyfystyr â'r llall. Mae cryfder y genedl-wladwriaeth yn dibynnu ar ei chyffredinedd ymddangosiadol, ei pharhad dros amser, a'i naturioldeb (Billig, 2017). Arweiniodd hyn at ddatganiad Ernest Gellner (1983, t. 6) bod "a man must have a nationality as he must have a nose and two ears". Gall dyn fod yn perthyn i genedl, ond nid cenedl o anghenraid sydd wedi'i chyfuno â'r wladwriaeth. Gellir ystyried hunaniaeth genedlaethol a hunaniaeth wladwriaethol fel dau beth gwahanol. Ar ben hynny, gall cryfder, amlygrwydd, ac uniaethu â chenedl neu wladwriaeth newid dros amser. Mae cryfder cenedlaetholdeb yn dibynnu ar ei chyffredinedd *canfyddedig*, ei pharhad

a'i naturioldeb yn hytrach na'r realiti. Bydd dadansoddiad o'n hastudiaethau achos yn cadarnhau'r ffaith hon.

Yn achos Cymreictod a Phrydeindod, gwelir gwahaniaeth rhwng Cymreictod (yn gyffredinol) fel hunaniaeth ethnig, a Phrydeindod fel hunaniaeth wladwriaethol - neu ddinesig. Mae hyn yn debyg mewn rhai ffyrdd i honiad Risse (2013) y gellir nythu hunaniaeth, neu y gall weithredu fel cylchoedd consentrig; gall fy hunaniaeth sy'n perthyn i Gaerdydd effeithio ar fy hunaniaeth Gymreig sydd yn ei dro yn effeithio ar fy nealltwriaeth o Brydeindod. Fodd bynnag, nid dyma gnewyllyn y ddadl. Mae gan bob hunaniaeth swyddogaeth wahanol; hunaniaeth wleidyddol yw Prydeindod, tra bod Cymreictod yn rhywbeth mwy 'cynhenid'. Dechreuodd Prydeindod fel cysyniad gwleidyddol modern yn y 16eg Ganrif Hir, gyda ffurf ar lywodraethu a oedd yn llai personol a dynastig ac yn fwy 'cenedlaethol' o ran cymeriad. Cadarnhawyd y broses hon drwy'r Undeb â'r Alban a gadarnhaodd wladwriaeth 'genedlaethol' ar ynys Prydain. Byddai math o hunaniaeth Brydeinig gyffredin wedi bodoli ymhlith y Cymry, yr Albanwyr a'r Saeson yn y 18fed a'r 19eg Ganrif, ond "for the Scots and Welsh there ... [was] a clear distinction between a (perhaps negotiable) political identification with Britain and an ethnic or national identification with Scotland or Wales" (Jacobson, 1997, tt. 184-185). Dylid derbyn hefyd rôl Cymru a'r Alban wrth greu'r hunaniaeth Brydeinig hon; roedd grymoedd canolgyrchol ac allgyrchol yn llifo rhwng y craidd a'r perifferi gyda'r naill yn siapio'r llall ac roedd hyn yn gysylltiedig â safle craidd Prydain yn y system-fyd:

*It was no coincidence at all that the period of British imperial takeoff and success also witnessed the forging of an authentically British governing elite. Rich, landed, and talented males from Wales, Scotland, England, and to a lesser extent Ireland became welded after the 1770s into a single ruling class that intermarried, shared the same outlook, and took to itself the business of governing, fighting for, and profiting from greater Britain (Colley, 1992, t. 325).*

Mae hyn yn gymorth i egluro pam y mynegwyd Cymreictod y 18fed a'r 19eg Ganrif gan amlaf mewn termau diwylliannol neu ethnig. Cynrychiolwyd cenedl Cymru felly drwy arwyddion diwylliannol: yr iaith, llenyddiaeth, cerddoriaeth, y Llyfrgell Genedlaethol, a'r Amgueddfa Genedlaethol. Roedd Prydain ar y llaw arall yn cynrychioli'r Ymerodraeth, 'modernedd', y Senedd yn San Steffan, a'r Goron. Roedd mynediad at ffrwyth imperialaeth Brydeinig ac felly safle cryfach yn y system-fyd yn hanfodol i uniaethiad gwleidyddol parhaus Cymru (a'r Alban) â Phrydain. Yn y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd, daeth uniaethu â Phrydain yn fwy "agored i drafodaeth" i'r Cymry a'r Albanwyr. Roedd hwn yn gyfnod o ddirywiad economaidd a gwleidyddol cymharol gyflym gyda'i safle o fewn y system-fyd yn newid o fod yn arglwyddiaethol ar ddiwedd y 19eg Ganrif i fod yn lled-ymylol erbyn canol yr 20fed. Adeiladwyd Prydeindod fel hunaniaeth ar yr Ymerodraeth, ac eto "once the history of the empire became a source of discomfort, shame, and perplexity, ... that unsettling history was diminished, denied, and then if possible, actively forgotten" (Gilroy, 2005, tt. 89-90). Roedd y myopia hanesyddol hwn yn golygu bod colofn ganolog Prydeindod yn dadfeilio, ac nid oedd unrhyw beth arall wedi cymryd ei le. Dyma hefyd y cyfnod sy'n gysylltiedig â'r hyn a elwir gan Krishan Kumar yn "the moment of Englishness" (2003), yn yr ystyr bod y dirywiad imperialaidd hwnnw wedi arwain at hunanymwybyddiaeth Seisnig a oedd yn wahanol i Brydeindod; dechreuodd y dadansoddi o ran pwy a beth oedd y Saeson fel cenedl.


*Britain no longer has the economic supremacy it once enjoyed; and politically its loss of empire, its increasing military and economic dependence on the United States, and latterly its deepening incorporation within the European Union,<sup>69</sup> are all manifestations of its diminishing capacity to play a leading, independent role in world affairs. Clearly, the self-perceptions of the British, and particularly the dominant*

---

<sup>69</sup> Mae y tu hwnt i ffiniau'r traethawd ymchwil hwn i drafod pleidlais Lloegr o blaid Brexit, ond digon yw dweud y byddai prudd-der ôl-drefedigaethol wedi chwarae rhan ymysg rhai pleidleiswyr.

*English, must be affected by the fact that in contrast to how things stood in the early twentieth century and even in 1945, by the 1980s Britain had become just an ordinary, moderately large power, not a Great Power* (Jacobson, 1997, t. 185).

Yn yr achos Prydeinig, felly, ni asiwyd y cysyniadau o “genedl” a “gwladwriaeth”. Yn wreiddiol, roedd y ‘niwl’ cysyniadol hwn yn rhan o gryfder Prydeindod; nid oedd rhaid i bobl ar y perifferi - a Lloegr o ran hynny - ddewis rhwng yr hyn y gellid eu hystyried yn hunaniaethau croes i’w gilydd. Ar ynys Prydain ei hun - os nad ar Ynysoedd Prydain yn eu cyfanrwydd - dylid ystyried Prydeindod fel hunaniaeth wleidyddol â pharhad syfrdanol, a oedd yn gallu goresgyn i bob pwrpas y rhan fwyaf o gysyniadau o ran gwahaniaeth cenedlaethol. Derbyn y gwahaniaethau hyn a roddodd nerth i Brydain; roedd ‘undod mewn amrywiaeth’ yn nodweddu Prydeindod. Fodd bynnag, roedd yr aneglurder hwn yn golygu ei bod hi’n anoddach i Brydeindod saernïo ei ystyr. Heb y deunyddiau saernïo a roddwyd i Brydeindod drwy ei safle craidd yn y system-fyd, roedd yn parhau i fod yn anghyflawn. I bob pwrpas, roedd “imagined community” (Anderson, 2006) Prydain yn fwyfwy anodd ei dychmygu. Mae Ffigur 60 yn ymgais i ganfod yn gysyniadol y berthynas rhwng hunaniaethau Prydain, yn enwedig ers y 1970au. Mae’n bosibl y gellir ‘datrys’ y gwrthdaro rhwng y “genedl” a’r “wladwriaeth” gyda rhwyg yn y wladwriaeth sy’n ymddangos yn gynyddol bosibl. Gwelir y posibilïad yma yn tyfu yng Nghymru ar hyn o bryd, lle bod annibyniaeth yn dod yn gysyniad mwy prif ffrwd o fewn cymdeithas Gymreig.



*Ffigur 60: Y Ddilechdid Rhwng Prydeindod a Hunaniaethau Cenedlaethol. Gwaith yr Awdur.*

Mae gan achosion Sbaen a Phrydain fwy o bethau yn gyffredin nag a allai fod yn amlwg ar y cychwyn. Mae'r traethawd ymchwil hwn wedi dadlau uchod nad oedd y "genedl" a'r "wladwriaeth" wedi asio ym Mhrydain, ac mae hyn hefyd yn wir yn achos Sbaen. Yn yr un modd, roedd ymerodraeth yn ganolog i'r ddealltwriaeth o'r hyn a olygai i fod yn Sbaenaidd:

*The building of a broad Spanish empire, which expanded through Europe, the Americas, Asia and Africa from the 16th century on, helped to create collaborative*



*links among the several traditional kingdoms existing on the Iberian Peninsula: Castilla-Leon, Aragón-Catalunya, Navarre-Basconia and Portugal.*

*All these developments tended toward build a Spanish nation, prosperous and modern, on the basis of an efficient Spanish state and an imperial ambition. But they did not imply culturally uniform patterns (Colomer, 2007, tt. 5-6).*

Fel y dangoswyd, nid oedd y wladwriaeth Brydeinig ychwaith yn “unffurf yn ddiwylliannol”, felly nid yw hyn yn benodol i’r ymdeimlad o fod yn Sbaenaidd. Fodd bynnag, roedd yr Ymerodraeth yn atgyfnerthu’r ymdeimlad gwleidyddol o fod yn Sbaenaidd yn yr un modd a’r ymdeimlad o Brydeindod drwy’r Ymerodraeth ym Mhrydain. Masnachwyr a chynhyrchwyr Catalanaidd oedd “the most vociferous defenders” o Ymerodraeth Sbaen, gan ddadlau o blaid ei phwysigrwydd i “national integrity” (Schmidt-Nowara, 2004, t. 199). Roedd safle’r Penrhyn yn y system-fyd, a gadarnhawyd gan Ymerodraeth Sbaen, yn golygu bod dosbarth canol ac uwch Catalunya a Gwlad y Basg yn ystyried Sbaen a bod yn Sbaenaidd drwy lens costau a buddion; hynny yw, hunaniaeth wleidyddol a oedd agored i drafodaeth, yn yr un modd â Phrydeindod. Colli ymerodraeth a arweiniodd at yr elît ar y perifferi i ailystyried y safbwynt hwn. Fel y dadleuodd Storm (2004, tt. 145-146), cafodd colli’r trefedigaethau mawr olaf effaith sylweddol mewn perthynas â’r cwestiwn cenedlaethol. Roedd amodau dadrithiad gyda Sbaen a’r ymdeimlad o fod yn Sbaenaidd yn debyg i amodau dadrithiad â Phrydain a Phrydeindod. Mae’r gwahaniaeth yn ymwneud ag amseriad dad-drefedigaethu.

Gan fod dad-drefedigaethu Sbaen wedi digwydd ynghynt, mae proses o greu mythau adolygol wedi bod ar waith lle ceisiwyd ‘ail-greu’ yr ymdeimlad o fod yn Sbaenaidd mewn ffordd nad ydym wedi’i weld mewn gwirionedd ym Mhrydain eto. Ni fyddai’r ymdeimlad o fod yn Sbaenaidd bellach yn gysylltiedig ag ymerodraeth, ond yn hytrach â Chatholigiaeth, y Goron, a’r *Reconquista*. Ymhellach, dyma pryd y daeth Sbaen yn fwy cysylltiedig ag iaith a diwylliant Castilla; gan symud i ffwrdd o *Las Españas* (Y Sbaenau) a gwahanol fynegiadau o fod yn

Sbaenaidd i ddealltwriaeth sy'n gysylltiedig yn agos iawn â Castilla. O dan Franco, iaith, hunaniaeth, a diwylliant Castilla oedd yr unig lens a'r safon o ran bod yn Sbaenaidd (Moreno, 1997, t. 75).

*The notion of unity was central to the Francoist ideology. The Patria, according to Franco himself, was 'spiritual unity, social unity, historic unity'. Catholicism was to be the 'crucible of nationality'. In this pursuit of unity, the state was to be central. It was through organised power that the nation would be re-made, and the people disciplined. This unity, imposed by the state, entailed an iron centralism which denied the existence of regional cultural difference (Richards, 2020, t. 150).*

Wrth i ddirywiad ymerodraethol arwain at "the moment of Englishness" (Kumar, 2003), efallai iddo hefyd arwain at "the moment of Castilianness" a geisiodd ail-ddatgan yr hyn a olygai i fod yn Gastilaidd, ac felly yn Sbaenaidd. Mae hyn wedi arwain at densiwn lle mae dau gysyniad o Sbaen:

*on the one hand the idea of an indivisible Spanish nation state, and on the other, the notion that plural Spain was an ensemble of diverse peoples, historic nationalities and regions (Moreno, 1997, t. 69).*

Mae'n ymddangos bod yr ymdeimlad o fod yn Sbaenaidd yn debycach i hunaniaeth wleidyddol ar gyfer y perifferiau gwleidyddol, gyda'u hunaniaethau ethnig yn fwy rhanbarthol, tra yng Nghastile, bod yn Sbaenaidd yw'r hunaniaeth ethnig a gwleidyddol; sefyllfa debyg i Eingl-Brydeindod cyn (ail)ymddangosiad Seisnigrwydd fel hunaniaeth ethnig. Yn y ddau achos, felly, roedd yr amwysedd ynghylch ystyr a chynnwys Prydeindod/*Sbaendod* yn gymorth i genhedloedd ymylol deimlo eu bod yn rhan o fframwaith ehangach Prydeindod/*Sbaendod*. Eto i gyd, ni ddisodlodd yr hunaniaeth hon seiliau ethnig eu hunaniaeth ranbarthol/genedlaethol.

Mae gan yr Eidal ar y llaw arall orffennol llawer mwy diweddar fel cenedl unedig a gwladwriaeth. Gellir ystyried Gwlad Groeg a'r Eidal yn lluniadau diwylliannol ac mewn rhai ffyrdd mae eu gorffennol clasurol yn faich arnyn nhw (Patriarca, 2005, t.

385). Cyn y 19eg ganrif, y Rhufeiniaid a unodd yr Eidal, nid 'Eidalwyr'. Arweiniodd y realiti hwn at John Breuilly (2009, t. 440) i ddadlau bod yn Eidalaidd felly wedi'i wreiddio mewn "non-national values" megis Catholigiaeth, brenhiniaeth a theulu. Helpodd pwysigrwydd gwerthoedd angenedlaethol i esgor ar *campanilismo*;<sup>70</sup> gair sy'n dynodi'r cysylltiadau cryf sydd gan bobl â'u tref neu gymuned benodol (Tak, 1988, t. 149). Mae gwreiddiau *campanilismo* yn system dinas-wladwriaeth hanesyddol yr Eidal a'r rhaniad Gogledd-De (Antonsich, 2016). Mae'r realiti hwn wedi creu tensiwn wrth wraidd yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn Eidalwr. Ystyrir y De fel 'Ewropeaidd' ac 'anewropeaidd', ond eto'n hanfodol i'r broses o adeiladu'r Eidal:

*the South represented an "older" Europe that had to be reincorporated to fulfil a European identity grounded in "multiplicity" ( Agnew, 2017, t. 12).*

Fel y dywedodd Galtung (1971), roeddent yn "members of two worlds". Mae'r methiant i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol rhwng y Gogledd a'r De yn parhau i lesteirio ymdeimlad cyffredin o hunaniaeth genedlaethol. Mynegir hyn trwy'r gystadleuaeth a welir rhwng timoedd pêl-droed y Gogledd a'r De:

*When Napoli go north the opposing fans greet the arrivals with slogans that carry historical significance: 'Forza Vesuvio!'; 'Welcome to Italy'. The Neapolitan fans are fully in tune with this dialogue and respond in kind: 'Milan, Turin, Verona is this Italy? It's better being Africans!'; 'Better to win as country bumpkins than lose with Berlusconi'. The exchange is tribute to Italy's enduring questione meridionale (Southern Question) and the inter-related problematic of the 'Mediterranean' and its relationship to the concept of 'Europe' (Hazard & Gould, 2001).*

Fodd bynnag, dadleuodd Rusconi (1993, t. 313) fod deuoliaeth yn bodoli yn adeiladwaith cymdeithasol 'Môr y Canoldir'. Mae'n bodoli ar yr ymylon, gan ei fod yn Ewropeaidd ac yn anewropeaidd. Mae hyn yn ganolog i ddealltwriaeth o

---

<sup>70</sup> Mae'r gair yn deillio o campanile sef yr enw a roddir i'r clochdy dinesig sy'n amlwg yn y rhan fwyaf o drefi'r Eidal.

hunaniaeth ddiwylliannol yr Eidal yn yr ystyr bod yr 'Arallrwydd' a awgrymir yn y rhaniad rhwng Gogledd-De yn helpu i greu hunaniaeth ddiwylliannol unedig. I bob pwrpas, mae Eidalwyr yn deall cyd-destun a chynnwys y delweddu a grëir, ac felly mae ar gyfer cynulleidfa fewnol, Eidalaid. Mae *campanilismo* a chariad at eich tref yn erbyn pawb arall felly yn nodwedd sy'n *uno'r* Eidal. Yn ddiweddar, fodd bynnag, mae'r *Lega* a'u cefnogwyr wedi ceisio symud i ffwrdd o Fôr y Canoldir fel dynodiad ar gyfer y gogledd, gan ddadlau yn hytrach eu bod yn hanu o dras Geltaidd - a'u bod felly yn perthyn i ogledd Ewrop. Yn hyn o beth, mae Môr y Canoldir yn ganolog i rai gogleddwyr ddeall 'yr hyn nad ydyn nhw'.

Fel y ddwy astudiaeth achos arall, fodd bynnag, mae'r ymdeimlad o fod yn Eidalaid – a safle'r De fel rhan o hynny – yn newid yn dibynnu ar y sefyllfa imperialaidd. Ceisiodd yr Eidal Ffasgaidd ail-greu *Italia Irridenta* a oedd yn cynnwys ardaloedd o Slofenia, Croatia, a'r Swistir heddiw, tra hefyd yn ail-greu *Mare Nostrum*:

*intellectuals and political leaders came to construct a representation of a unitary national identity. Only then did the many complex elements that composed the Italian nation come together to affirm that identity, overriding and obliterating the rhetorical strategy of an Italy divided between North and South. In the international upheavals of the 1920s, when the nation-state of Italy was in fact quite fragile, the Fascists generated the collective dream, indeed delirium, of achieving superpower status, giving birth to a national identity that had been up to then paradoxical. North and South as enemies did not figure in the everyday discourse of fascist intellectuals. An image of Italy as a utopian project, a hazy veil that hid complex differences, grew to cover the entire national territory. The Southern Question gave way to the rhetorical figure of Italy defined as the direct descendant and inheritor of Imperial Rome (Pandolfi, 2020, t. 285).*

Mae'n ymddangos bod methiant yr Eidal i glymu'r gogledd a'r de yn economaidd wedi arwain at ddwysáu'r gwahaniaethau diwylliannol a'r defnydd ohonyn nhw i

greu rhagfarnau. Ym mhob un o'r tair astudiaeth achos, mae cenedlaetholdeb yn rhywbeth y gellir ei newid, ei ail-lunio, a'i gyfuno â hunaniaethau eraill yn dibynnu ar y cyd-destun a safle yn y system-fyd. Wrth ddadansoddi *Longue Durée* pob gwladwriaeth, daw realiti dyfais fodern cenedlaetholdeb gwleidyddol yn glir. Mae'n bosibl bod Cymreictod, neu'r ymdeimlad o fod yn Gatalanaidd neu'n Eidalaidd wedi bodoli mewn rhyw ffurf drwy gydol cyfnod y dadansoddiad hwn, ond mae cynnwys a ffurf pob un wedi newid yn ddibynnol ar y system-fyd ehangach.

### Datblygiad Economaidd: *Cui Bono?*

Dechreuodd y traethawd ymchwil hwn drwy drafod amodau datblygiad, gan ddadlau, yn ôl damcaniaethwyr moderneiddio, fod amodau datblygu yn fewndarddol i ranbarth ac felly'n dibynnu ar y polisiau penodol a weithredir yn y rhanbarth hwnnw. Ar raddfa'r system-fyd, mae *popeth* yn fewndarddol, ac mae'r system gyfan yn hunan-atgynhyrchu. O fewn y system-fyd, mae'n amhosibl datgysylltu'n llwyr oddi wrth gymdeithasau eraill a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau economaidd, felly nid yw datblygiad mewndarddol yn y modd y'i defnyddir gan ddamcaniaethwyr moderneiddio yn dal dŵr. O'r astudiaethau achos hyn, ymddengys bod dau gyflwr yn bwysig o ran datblygiad economaidd. Y cyntaf yw rhyw fath o allu i wneud penderfyniadau strategol o fewn rhanbarth penodol. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu gwladwriaeth 'annibynnol' neu fod wrth graidd gwleidyddol y wladwriaeth. Mae'n golygu bod cnewyllyn o actorion economaidd pwysig, boed yn rhai preifat neu gyhoeddus, yn bodoli o fewn, dyweder, gogledd yr Eidal, sy'n gweithredu mewn ffordd a all lywio polisi'r Eidal o'i blaid a chynnal sylfaen ranbarthol o bwysigrwydd economaidd. Yr ail ffactor pwysig yw pwysigrwydd rhyngwladol a'r gallu hanesyddol i lunio'r system-fyd ar eich delw eich hun. Efallai bod gan Sofia ym Mwlgaria neu Yaoundé yn Camerŵn ddigon o rym i symud polisi economaidd *enedlaethol* tuag atynt eu hunain, ond ar lefel y

system-fyd mae'n anhygoel o anodd i'r lleoedd hyn weithredu'n annibynnol neu siapio'r system ar eu delw eu hunain. Daw datblygiad felly'n *alldarddol* ar lefel genedlaethol yn y manau hyn (wrth barhau i fod yn fewndarddol ar lefel y system-fyd). Mae Califfornia, er enghraifft, er nad yn locws gwleidyddol yr Unol Daleithiau, â chymaint o rym economaidd fel y gall, ar lefel y system-fyd, siapio'r system yn ei delw ei hun, tra hefyd yn meddu ar rym domestig enfawr. Felly, mae gallu lle i wneud penderfyniadau strategol 'annibynnol' yn bwysig iawn. Wrth droi at y tair astudiaeth achos, mae modd taflu goleuni ar y ffaith hon.

Yn achos Cataluny, Sbaen oedd wrth wraidd y system-fyd trwy gydol y 15fed a'r 16eg Ganrif. Tra gwaethygodd sefyllfa Sbaen wedyn, mewn cyd-destun byd-eang, roedd yn parhau i fod yn economi imperialaidd bwysig. Roedd Cataluny yn bwysig ei hun o fewn economi wleidyddol Sbaen. Roedd ganddi economi amaethyddol wahanol i weddill y wlad yn yr 16eg a'r 17eg Ganrif, a dyma oedd canolfan gyntaf datblygiad diwydiannol Sbaen ar ddechrau'r 19eg Ganrif. Roedd safle masnachwyr Cataluny yn yr Ymerodraeth Sbaenaidd yn golygu bod gan ddosbarth uchaf a chanol Cataluny y gallu i wneud penderfyniadau cymharol annibynnol ar lefel rhanbarthol a rhyngwladol y system-fyd. Yn gymharol, roedd gan ddiwydianwyr Cataluny fwy o allu economaidd na'r hyn oedd yn gyffredin yng Nghastile a gweddill y byd. Er gwaethaf y cwmp cyffredinol yn safle Sbaen yn y system-fyd, nid oedd safle cymharol Cataluny yn economi Sbaen wedi newid. Mae hyn wedi parhau'n wir er gwaethaf ffasgaeth, dyfodiad yr UE, a thwf neoryddfrydiaeth. Rhwng 1860 a 1995 arhosodd Cataluny yn y tri safle uchaf ar gyfer CDG y pen yn Sbaen (Martínez-Galarraga et al, 2015, t. 512). Mewn termau cymharol, felly, mae gan Gataluny rym economaidd a gwleidyddol rhanbarthol, er nad oes ganddi'r gwir allu i siapio'r system-fyd ar ei delw ei hun, sy'n golygu ei bod ar y ffin rhwng y craidd a'r lled-berifferi. Mae pwysigrwydd hanesyddol byd-eang Cataluny, fodd bynnag, a'i phwysigrwydd rhanbarthol parhaus yn ei rhoi mewn sefyllfa gref o gymharu â'r rhan fwyaf o leoedd yn y system-fyd.

Yn achos yr Eidal, rhanbarth mwyaf datblygedig y penrhyn yn fasnachol sef Piedmont a wthiodd am uno, yn ei dro, dyma un o'r Dinas-wladwriaethau cryfaf oedd yn bodoli yn y gorffennol. Roedd grym rhanbarthol felly yn golygu y gallai siapio economi wleidyddol y wladwriaeth newydd o blaid buddiannau diwydiannol y gogledd. Collodd Teyrnas y Ddwyr Sisili y gallu i lunio ei llwybr economaidd ei hun, gyda'i pholisïau mercantilaidd a diffyndollol yn cael eu dadwneud gan Deyrnas yr Eidal o blaid y gogledd diwydiannol. Mae'r integreiddio economaidd anghyfartal hwn yn parhau i lywio'r berthynas rhwng y gogledd a'r de hyd heddiw. Gwaethygydd yr anghyfartaledd hwn gan Ffasgaeth ac ymdrech y rhyfel, lle'r oedd polisi cyhoeddus:

*inexorably steered public procurement toward enterprises in the so-called 'industrial triangle' (Lombardi, Piedmont, a Liguria). The north also benefitted from deflationary measures and an autarchic policy, which meant an intensification of industrial production in advanced sectors, most of which were located there (Felice a Vecchi, 2015, t. 531).*

Yn y cyfnod ar ôl y rhyfel, er bod polisi trwy'r *Cassa* a chymorth Cynllun Marshall fod lleihau anghydraddoldeb rhwng y gogledd a'r de, ni roddwyd yr arfau i'r de gyfeirio ei heconomi wleidyddol fewnol ei hun. Yn lle hynny, ystyriwyd y de fel atodiad i galon ddiwydiannol y wlad:

*the Plan's objective was to support the reconstruction of production systems in Italy and Europe, there was a distinct imbalance among imports that favoured northern industries. In fact, the largest imports were, in order of importance, fuel, cotton, cereals and machinery (Fauri, 2010, t. 168).*

Arweiniodd hyn at sefyllfa o dwf heb ddatblygiad a chreu Palasau yn yr Anialwch. Nid oedd gan y Mezzogiorno, felly, unrhyw rym economaidd cenedlaethol na rhyngwladol, tra bod y gogledd yn bwysig yn genedlaethol *ac* yn rhyngwladol (er nad wrth wraidd y system-fyd). Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu y gallai

addasu'n haws bolisiau a strategaethau sy'n ffafriol nid yn unig i dwf economaidd, ond hefyd i ddatblygiad.

Mae sefyllfa Cymru yn adlewyrchu llawer o'r datblygiadau hyn yn y Mezzogiorno. Mae Wessex – neu dde-ddwyrain Lloegr – wedi bod wrth wraidd economi wleidyddol Prydain ers bron i fileniwm, er nad yw bob amser wedi bod wrth galon y system-fyd yn ei chyfanrwydd. Yn achos Cymru, mae'r cyfnod pwysicaf ar gyfer y dadansoddiad hwn yn dechrau yn y 18fed Ganrif. Roedd Cymru yn rhan hynod bwysig o ddatblygiad diwydiannol Prydain ac o fewn yr Ymerodraeth yn fwy cyffredinol. Fel arfer oherwydd cyflenwad o lafur, ynni a bwyd rhad. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod pwysigrwydd strategol yn hyn o beth yn wahanol i rym gwleidyddol-economaidd. Roedd Cymru yn “integral but peripheral” (Williams, 1989, t. 17), ond ni allai lunio polisi economaidd ar lefel Brydeinig. Roedd Cymru – fel llawer o lefydd sydd ar y perifferi heddiw – yn hynod o bwysig ar lefel y system-fyd, ond ni allai lunio'r system na'r wladwriaeth Brydeinig fewnol yn ei delw ei hun. Felly, pan beidiodd Cymru â bod yn rhan hanfodol o'r system-fyd, parhaodd y nodwedd o ddibyniaeth wleidyddol-economaidd.

Rhaid derbyn yma hefyd fod safle ar y perifferi mewn cyd-destun Ewropeaidd yn wahanol iawn i fod ar y perifferi yn fyd-eang. Am y tro o leiaf, mae gan wladwriaethau Ewrop fwy o rym yn y system-fyd ar lefel wleidyddol nag a fyddai'n cael ei glustnodi iddynt ar fetrig economaidd yn unig; mae hyn oherwydd bod y system-fyd wedi'i chreu a'i dylunio gan bwerau trefedigaethol ac imperialaidd. Hynny yw, er bod y fflag wedi'i throsglwyddo o Sbaen, i Brydain, i UDA ac yn y blaen, mae pob lle, mewn termau cymharol, yn dal i fwynhau mynediad at ffynonellau grym ar lefel ryngwladol wrth i'w diddordebau (yn gyffredinol) ymgysgu. Felly mae grym rhanbarthol/cenedlaethol i leoedd fel Catalunya a Padania yn bwysig gan fod eu heconomiâu mewnol yn gyffredinol yn adlewyrchu'r rhai sy'n llunio'r system. Mae Cymru, y Mezzogiorno, a lleoedd fel Andalucía ar y llaw arall yn ymddangos ymhell o'r prosesau gwneud penderfyniadau. Mae pellter



yn sylweddol yn genedlaethol/rhanbarthol ac mae eu diddordebau yn debycach i rai gwledydd ar y lled-berifferi yn fyd-eang yn y system-fyd. Nid yw'r polisiau economaidd a gaiff eu gweithredu gan graidd y system, felly, o'r un budd iddyn nhw ag y mae i leoedd megis Padania neu Catalunya.

## IX. Casgliad: Etifeddu'r Gorffennol, Adeiladu'r Dyfodol

Mae'r traethawd ymchwil hwn wedi mynd ar daith trwy glytwaith hanes; trwy geunentydd, penllanw, rhwystredigaethau a chroesosodiadau. Mae wedi dadansoddi pwyntiau mewn hanes, ond gan gadw'r *Longue Durée* mewn cof ar bob achlysur. Mae'r gwaith hwn yn cadw mewn cof yr hyn y cyfeiriodd Braudel (1996, t. 16) ato fel problem graidd menter hanesyddol:

*Is it possible somehow to convey simultaneously both that conspicuous history which holds our attention by its continual and dramatic changes- and that other, submerged, history, almost silent and always discreet, virtually unsuspected either by its observers or its participants, which is little touched by the obstinate erosion of time?*

Wrth wneud hynny, mae'r traethawd ymchwil wedi dadansoddi'r gwrth-ddweud ymddangosiadol rhwng parhad a newid, sefydlogrwydd a llanw a thrai sy'n rhan o'n hanes. Mae daeareg, hinsawdd, a'r pridd – sy'n ymddangos yn ddigyfnewid – wedi llunio ein hanes trwy'r llwybrau a oedd ar gael i'n cyndeidiau, ac amgylchfyd cymdeithasol y cyfnod. Ac eto, nid tynged mo'r hanes tawel, tanddwr hwn. Cawn ein hatgoffa o eiriau Karl Marx (1972, t. 245):

*men make their own history, but they do not make it just as they please; they do not make it under circumstances chosen by themselves, but under circumstances directly encountered, given and transmitted from the past.*

Tra bod Marx yn y fan hon yn trafod sut mae cysylltiadau cymdeithasol ac economaidd y gorffennol yn effeithio ar y presennol, mae'n cyffwrdd â'r realiti bod hanes 'hwy' yn cael ei ledaenu drwy'r gorffennol. Ymhellach, mae gan y traethawd ymchwil hwn ddealltwriaeth benodol o'r bobl sy'n gwneud eu hanes hwy: nid y 'Gŵr Mawr' a geir mewn bywgraffiadau ac yn ein llyfrau hanes. Ni fydd y bobl y cyfeirir atyn nhw yma gael eu cysegru na'u canmol, dyma weithwyr ddoe a heddiw sydd - trwy eu cysylltiadau cymdeithasol ac economaidd - wedi creu ac ail-greu ein

system-fyd dydd ar ôl dydd. Y dyn cyffredin yw peiriant modur hanes, a thrwy hanes oddi tanodd y gallwn gyffwrdd a gwerthfawrogi cymhlethdod ein tapestri hanesyddol. Dyna pam fod y traethawd ymchwil hwn wedi canolbwyntio ar fudiadau a dosbarthiadau cymdeithasol; mae digon wedi'i ysgrifennu ac yn parhau i gael ei ysgrifennu am 'Wŷr Mawr' hanes. Yn lle hynny, mae'r gwaith hwn yn deyrnged ddifrifddwys i'r dyn cyffredin.

Mae'r gwaith hwn, wrth ei wraidd, yn ymgais i ddeall cymdeithasau heddiw, ond yn dadlau bod rhaid i ni ddadansoddi ddoe er mwyn gwneud hynny. Mae wedi dangos sut, er enghraifft, mae Cymru 500 mlynedd yn ôl yn parhau i lunio Cymru heddiw. Mae *hefyd* wedi dangos sut mae *system-fyd* 500 mlynedd yn ôl yn parhau i siapio Cymru heddiw. Mae wedi creu undod rhwng y 'mewnol' a'r 'allanol', lle nad yw'r domestig a'r rhyngwladol yn feysydd ar wahân o fywyd cymdeithasol neu gynhyrchiant economaidd ond yn bodoli o fewn cyfanrwydd ehangach y system-fyd. Ym 1624, ysgrifennodd John Donne gerdd am undod dynoliaeth:

*No man is an island,  
Entire of itself,  
Every man is a piece of the continent,  
A part of the main.  
If a clod be washed away by the sea,  
Europe is the less.  
As well as if a promontory were.  
As well as if a manor of thy friend's  
Or of thine own were:  
Any man's death diminishes me,  
Because I am involved in mankind,  
And therefore never send to know for whom the bell tolls;  
It tolls for thee.*

Nid yw unrhyw genedl neu wladwriaeth yn ynys (ddamcaniaethol). Mae pob cenedl yn rhan o'r cyfan. Rhaid inni gael gwared nid yn unig ar fodolau economaidd llipa o ran datblygiad mewndarddol, ond rhaid inni hefyd symud tuag at ddealltwriaeth ddyfnach o'r rhyng-gysylltedd sy'n bodoli rhyngom a'r grymoedd sy'n haniaethu'r realiti hwn.

Ond beth am genhedloedd di-wladwriaeth, beth yw eu tynged nhw yn y system-fyd? Byddai ymchwil yn y dyfodol o fudd yma. Byddai'n werthfawr cynnal dadansoddiad manylach o genhedloedd di-wladwriaeth megis Andalucía a'r Alban i ddadansoddi pa ffactorau sy'n benodol i'r wladwriaeth (hynny yw, Sbaen neu Brydain) a pha rai sy'n fwy cyffredinol. Byddai'r ddwy astudiaeth achos hefyd *yn groes* i'r dadansoddiad hwn; yr Alban yn gorddatblygedig (yn wahanol i Gymru) ac Andalucía yn danddatblygedig (yn wahanol i Gatalunya). Gallai Gwlad Belg fod yn achos arall arbennig o ddiddorol, gwlad sydd â rhaniad clir mewn termau daearyddol rhwng dau grŵp ethnig, gyda chanlyniadau economaidd tra gwahanol yn Wallonia a Fflandrys. Y cam olaf fyddai cynnwys astudiaethau achos o du hwnt i Ewrop i ddeall yn well yr effeithiau y gall gwladychiaeth eu cael ar ddatblygiad cenedlaethol, datblygiad y wladwriaeth, a chanlyniadau economaidd.

Wrth droi at ein hastudiaethau achos yn benodol, mae'r realiti yn glir: nid yw diffyg gwladwriaeth mewn haniaeth yn penderfynu ar y safle yn y system-fyd. Mae Catalunya a 'Padania' - os yw'r fath le yn bodoli - wedi'u gor-ddatblygu mewn termau cymharol - a byd-eang. Mae Cymru a'r Mezzogiorno ar y llaw mewn modd *cymharol* yn danddatblygedig. Ar lefel y system-fyd, mae'n debyg bod Cymru ar y lled-berifferi, tra bod y Mezzogiorno yn agosach at y perifferi byd-eang. Mae Catalunya a Padania felly yn elwa o reolau presennol y system-fyd. Eu nod, felly, yw sicrhau darn mwy o'r deisen, yn hytrach na newid y rysáit. Felly, mae angen nodi nad yw symudedd ar i fyny o fewn y system a gweithredu trawsnewidiol o reidrwydd yr un peth (Chase-Dunn, 2018, t. 79). Yn hyn o beth, nid yw nodau'r mudiadau cenedlaetholgar yn y ddau ranbarth yn 'chwyldroadol' ar lefel y system-fyd. Mae'r UE ac Ardal yr Ewro wedi gwneud ymwahanu'n haws i'r lleoedd hyn oherwydd gallent gadw eu harian cyfred. Yn bwysicach fyth, gallent gadw eu perifferïau economaidd ond *heb* bolisiau aiddosbarthu cyfredol.

Mae sefyllfa Cymru a'r Mezzogiorno ar un llaw yn fwy llwm ond gallai hefyd fod yn fodd i ryddfrenio. Fel y canodd Ian Curtis, prif leisydd Joy Division: "existence,

well, what does it matter? I exist on the best terms that I can. The past is now part of my future, the present is well out of hand". Y nod ar gyfer y lleoedd hyn yw bodoli ar y telerau gorau posibl, o fewn cyfyngiadau'r gorffennol a'r presennol. Mae'r traethawd ymchwil hwn wedi dadlau dros bwysigrwydd y gallu i wneud penderfyniadau ar gyfer datblygiad economaidd. Mae'n annhebygol y bydd gan Gymru na'r Mezzogiorno fyth y gallu hwn o fewn eu trefniadau cyfansoddiadol presennol. Yn eironig, gallai 'annibyniaeth' i Padania - pe bai polisi o'r fath yn cael ei ganlyn - greu'r amodau i'r Mezzogiorno adennill y gallu a gollwyd gyda chreu Teyrnas yr Eidal. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, roedd Teyrnas y Ddwyrain Sisili ar ei hôl hi yn economaidd o gymharu â dinas-wladwriaethau'r gogledd, ond roedd y gwahaniaeth hwn yn llai nag ydyw yn awr; gallai o leiaf weithredu polisiâu diffyndollaeth a oedd yn cefnogi cynhyrchwyr y de, er enghraifft. O ran Cymru, y gwir amdani yw nad yw'n rhan ddigon pwysig o'r wladwriaeth yn strategol i fod yn rheng flaen prosesau gwneud penderfyniadau; Llundain a'r de-ddwyrain fydd yn arwain bob amser. Yn hyn o beth, mae Cymru yn adlewyrchu gogledd-ddwyrain Lloegr. Fodd bynnag, mae Cymru'n 'ffodus' yn yr ystyr bod ganddi ei hunaniaeth genedlaethol ei hun, sy'n golygu bod annibyniaeth yn ddamcaniaethol yn opsiwn ymarferol. Yna o leiaf gallai'r gallu i wneud penderfyniadau symud i Gymru; ymddengys bod gogledd-ddwyrain Lloegr mewn sefyllfa arbennig o ddiflas; ar y perifferi yn economaidd ac yn destun gwawd mewn gwlad sydd yn gynhenid wrthwynebus i ddatganoli.

Mae'n bwysig nodi na fyddai annibyniaeth i'r ddau le hyn yn gweithredu fel pair dadeni ac yn foddion gwyrthiol. Yn gyntaf, rydym wedi gweld bod datganoli rhywfaint o rym gwleidyddol i Gymru wedi arwain at ddatgysylltu Caerdydd oddi wrth weddill y wlad mewn termau economaidd. Mae posibilrwydd gwirioneddol y byddai Cymru yn ail-greu'r sefyllfa economaidd anghyfartal sy'n bodoli rhwng Llundain a'r 'gweddill' neu Ddulyn a thu hwnt i'r Rhanbarth Seisnig (y Pale). Yn ail, ac efallai'n bwysicach, ni fyddai safle swyddogaethol lleoedd megis Cymru a'r

Mezzogiorno yn newid yn y system-fyd o ganlyniad i annibyniaeth wleidyddol. Heb unrhyw newid economaidd, byddai'r lleoedd hyn yn parhau â'u rôl fel rhanbarthau llafur rhad dros ben. Fel y dadleuodd Charles Bettelheim (a ddyfynnir yn Emmanuel, 1972, t. 296):

*A dominated country, or a previously dominated one that does not alter its situation in the international capitalist division of labor, merely reproduces its unfavorable situation: the more it increases the production of the products that its "place" assigns it, the more does it participate in the worsening of its own unfavorable situation.*

Sut, felly, y mae lleoedd fel Cymru yn newid eu sefyllfa o ran rhaniad llafur cyfalafol rhyngwladol? Mae gwledydd megis Japan, Gweriniaeth Corea, Iwerddon, a Tsieina wedi llwyddo i wneud hynny, ond nid yw'n ymddangos yn arbennig o hawdd i efelychu'r un o'r modelau hyn.

Gallai Japan, er enghraifft, ddatblygu'n annibynnol gan ei bod yn brin o adnoddau, yn fynyddig, ac roedd ganddi farchnad lai na gwladwriaethau eraill Asia, ac felly'n anneniadol i wladychwyr Ewropeaidd (Muchhala, 2022, t. 124). Fel y dadleuodd Paul Baran (1957, t. 158):

*What was it that enabled Japan to take a course so radically different from that of all the other countries in the now underdeveloped world? ... Reduced to its core, it comes down to the fact that Japan is the only country in Asia (and in Africa or in Latin America) that escaped being turned into a colony or dependency of Western European or American capitalism, that had a chance of independent national development.*

Yn y diwedd bu Japan mor llwyddiannus yn efelychu'r Gorllewin nes dod yn rym ymerodrol ei hun, gan siapio datblygiad Corea. Sail 'datblygiad' yn y Weriniaeth oedd polisi meddiannol Americanaidd, gwrth-gomiwnyddiaeth, a gweddillion peiriant trefedigaethol Japan (Kim, 2020, t. 187).

*As a result of oppression by the American Occupation Forces and the South Korean government, the working class movement and popular opposition movement were nearly crushed. Only pro-governmental right-wing organizations could exist without*

*the threat of death or imprisonment. Such a civil war, and the severe confrontation between them, transformed the external logic of the Cold War into an internalized 'consensual' one, which continued to regulate social and class relations (Hee-Yeon, 2000, t. 410).*

Roedd y cysylltiadau cymdeithasol a dosbarth hyn yn golygu bod undebau llafur yn parhau'n wan, sy'n golygu nad oes angen i bolisiau 'datblygu' ofalu am fuddiannau gweithwyr. Roedd hyn yn gysylltiedig â gwrth-gomiwnyddiaeth America, gan wneud y Weriniaeth yn wrthglawdd yn erbyn y gogledd comiwnyddol, ac yn rhanbarth ar gyfer allforio cyfalaf America ar ffurf cyllid.

Mae model 'Teigr Celtaidd' Iwerddon yn ymgorffori agweddau ar ormodedd gwaethaf cyfalafiaeth neoryddfrydol ac wedi creu un o wledydd mwyaf anghyfartal y byd gorllewinol. Mae Dilyn, er enghraifft, yn cyfrif am 45% o holl werth ychwanegol gros (GYG) y wlad gyda dim ond 28% o'r boblogaeth (McHenry, 2017). Oni bai bod Cymru'n dymuno datblygu'n hafan dreth a gwladwriaeth fechan, nid yw hwn yn opsiwn ymarferol.

Dylai anhawster efelychu Tsieina ar y llaw arall fod yn amlwg. Gyda dros 1.4 biliwn o bobl ac 17% o boblogaeth y byd, mae Tsieina wrthi'n dychwelyd i'w gwir le wrth graidd y system-fyd. Nid oes gan Gymru'r grym economaidd na gwleidyddol i ddilyn model Tsieina.

Yn ôl 'rheolau'r gêm' yr economi-byd cyfalafol mae'n ymddangos y bydd rhai ar eu colled bob amser o fewn y system honno. Efallai mai'r ffordd orau o weithredu felly yw trawsnewid rheolau'r system honno, neu o leiaf ddeall cyfyngiadau'r system a cheisio lleihau ei heffeithiau. Mae craidd y system-fyd yn honni bod yr economi fyd-eang sydd wedi'i hadeiladu ar eu delw yn "non-ideological, pragmatic, and [an] economic 'truth'". Felly, mae datblygu economaidd yn yr un modd yn "non-ideological" (Muchala, 2022, t. 124). Ond yn amlwg:

*ideas of development constellate around ideas adhering to policies that support the interests of big business, transnational corporations, and finance. It seeks not so much a free market, but rather a market free for powerful interests (Al-Kassimi, 2018, t. 3).*

I aralleirio Baregu (1988, tt. 22-23), y system-fyd gyfalafol yw achos problemau'r perifferi/lled-berifferi. Nid yw ar fin darparu ateb ychwaith. Rwyf yn dadlau felly mai'r ateb ar gyfer lleoedd megis Cymru a'r Mezzogiorno yw'r hyn a alwodd Samir Amin (1987, tt. 435-436) yn “– a delinking – that is to say, the refusal to submit national-development strategy to the imperatives of globalization”. Nid yw hyn yr un peth â hunangynhaliaeth, sy'n gynyddol amhosibl yn y system-fyd, ond yn hytrach, math o broses gwneud penderfyniadau cydgynghorol ac ystyriol “which has a national foundation and a popular content, independent of the criteria of economic rationality that emerges from the domination of the law of capitalist value that operates on a world scale” (Ibid).

*Delinking was a political choice to change who made domestic decisions and how. It was to break with the rationality in which domestic policy choices were made with an eye towards what the capitalist global market valued. In its place, an internal ‘popular alliance’ would impose constraints and make choices according to its own law of value – based on the interests of workers and peasants. Because the capitalist law of value used relative prices as mechanisms of value extraction and to guide decision-making, breaking with them was needed to lock in value (Ajl, 2021, p. 85).*

Nid yw datgysylltu yn ateb i holl broblemau economaidd lleoedd fel Cymru a'r Mezzogiorno, ac eto dylai cipolwg o'r traethawd ymchwil hwn ddangos effeithiau posibl polisi o'r fath. Pa mor wahanol y gallai pethau fod pe bai polisiau a phenderfyniadau'r llywodraeth yn cael eu hystyried trwy lens ewyllys boblogaidd-genedlaethol, yn hytrach na glynu at eu priod greiddiau a 'gwirionedd pragmatig', sydd 'heb ideoleg' yr economi fyd-eang. Os mai dyma ein realiti, efallai y byddai'r darn hwn o waith wedi edrych yn dra gwahanol.



I gloi, os yw Cymru'n broses, proses o ddatblygiad hanesyddol a dilechdidol parhaus, lle mae meddwl ac ewylllys dynol yn rhyngweithio â realiti gwrthrychol (Williams, 1979, t. 23), efallai ei bod yn bryd, unwaith eto, i Gymru Newydd godi o'r llwch. Dyma'r achos mwyaf mawrfrydig. Efallai y gallwn, fel gobeithiodd R.S. Thomas, i roi'r gorau i boeni celain hen gân.

## Llyfryddiaeth

Abreu, M. & Jones, C., 2021. The shadow of the Pithead: understanding social and political attitudes in former coal mining communities in the UK. *Applied Geography*, Volume 131.

Acemoglu, D., Johnson, S. & Robinson, J., 2001. The colonial origins of comparative development: An empirical investigation. *American Economic Review*, 91(5), pp. 1369-1401.

Acemoglu, D., Johnson, S. & Robinson, J., 2002. Reversal of fortune: Geography and institutions in the making of the modern world income distribution. *The Quarterly Journal of Economics*, 117(4), pp. 1231-1294.

Acemoglu, D., Johnson, S. & Robinson, J., 2005. The Rise of Europe: Atlantic Trade, Institutional Change, and Economic Growth. *American Economic Review*, 95(3), pp. 546-579.

Adamson, D., 1991. *Class, Ideology, and the Nation: A Theory of Welsh Nationalism*. University of Wales Press.

Agnew, J., 2017. Working the margins: the geopolitical marking of Italian national identity. *Carte Italiane*, 11(2), pp. 3-20.

Agnew, J. & Brusa, C., 1999. New rules for national identity? The Northern League and political identity in contemporary northern Italy. *National identities*, 1(2), pp. 117-133.

Aitchison, J. & Carter, H., 1985. *The Welsh language, 1961-1981: an interpretative atlas*. University of Wales Press.

Ajl, M., 2021. The hidden legacy of Samir Amin: delinking's ecological foundation. *Review of African Political Economy*, 48(167), pp. 82-101.

Alacevich, M., 2013. Postwar development in the Italian Mezzogiorno. Analyses and policies. *Journal of Modern Italian Studies*, 18(1), pp. 90-112.

Albertazzi, D., 2006. 'Back to our roots' or self-confessed manipulation? The uses of the past in the Lega Nord's positing of Padania. *National Identities*, 8(1), pp. 21-39.

Alesina, A., Danninger, S. & Rostagno, M., 2001. Redistribution through public employment: the case of Italy. *IMF Staff Papers*, 48(3), pp. 447-473.

Alfani, G. & Percoco, M., 2019. Plague and long-term development: the lasting effects of the 1629–30 epidemic on the Italian cities. *The Economic History Review*, 72(4), pp. 1175-1201.

Al-Kassimi, K., 2018. ALBA: A decolonial delinking performance towards (western) modernity—An alternative to development project. *Cogent Social Sciences*, 4(1), pp. 1-35.

Almond, G. & Coleman, J., 1960. *The Politics of the Developing Areas*. Princeton: Princeton University Press.

Álvarez, M., 2003. *FDI determinant factors: the case of Catalan multinational manufacturing firms*, IEB Working Paper.

Amable, B., 2003. *The Diversity of Modern Capitalism*. Oxford: Oxford University Press.

Amin, S., 1974. Modes of production and social formations. *Ufahamu: A Journal of African Studies*, 4(3).

Amin, S., 1974b. Accumulation and Development: a Theoretical Model. *Review of African Political Economy*, 1(1), pp. 9-26.

Amin, S., 1976. *Unequal Development: An Essay on the Social Formations of Peripheral Capitalism*. Monthly Review Press.

Amin, S., 1980. Concerning Eurocommunism. *Contemporary Marxism*, Volume 2, pp. 27-39.

Amin, S., 1987. A Note on the Concept of Delinking. *Review (Fernand Braudel Center)*, 10(3), pp. 435-444.

Amin, S., 1991. The ancient world-systems versus the modern capitalist world-system. *Review (Fernand Braudel Center)*, pp. 349-385.

Amin, S., 2010. *Global history: a view from the South*. Pambazuka.

Amin, S., 2010b. *The Law of Worldwide Value*. New York: Monthly Review Press.

Andersen, M., 2018. Balance of Power. *The Encyclopaedia of Diplomacy*, pp. 1-12.

Anderson, B., 2006. *Imagined Communities: Reflections on the Origin and Spread of Nationalism*. Verso Books.

Andreoni, A., 2013. *Manufacturing, Development, Structural Change and Production Capabilities Dynamics*. Cambridge: Doctoral Dissertation, University of Cambridge.

Anievas, A. & Nisancioglu, K., 2013. What's at Stake in the Transition Debate? Rethinking the Origins of Capitalism and the 'Rise of the West'. *Millenium*, 42(1), pp. 78-102.

Antonsich, M., 2016. The 'everyday' of banal nationalism—Ordinary people's views on Italy and Italian. *Political Geography*, Volume 54, pp. 32-42.

Arrighi, G. & Drangel, J., 1986. The stratification of the world-economy: an exploration of the semiperipheral zone. *Review (Fernand Braudel Center)*, 10(1), pp. 9-74.

Arrighi, G., Hui, P. & Hung, H., 2004. Historical capitalism, east and west. In: *The Resurgence of East Asia*. Routledge, pp. 273-347.

Arts, W. & Gelissen, J., 2002. Three Worlds of Welfare Capitalism or More? A State-of-the-Art Report. *Journal of European Social Policy*, 12(2), pp. 137-158.

